K Scott

Y

FUCHEDD GRIS'NOGOL,

O'I

DECHREU, I'W DIWEDD

MEWN

GOGONIANT.

Ynghyd â'r amryw Foddion a'r Offerynnau Cris'nogol ſydd yn lleſol iddi.

Gyd â Chyfarwyddiadau i Dduwioldeb yn y Dirgel, a Ffurfiau o Weddi, wedi eu cymhwyſo at amryw Gyflyrau Cris'nogion.

Gan JOAN SCOT, *D. D.*

Perſon *S. Giles yn y Meuſydd*, yn Llundain.

AChyfie ithad Josua Tomas, Ficar *Llanbiſter* yn *Sir Faeſyfed*, a *Merthyr Cynog* ym *Mrycheiniog*, a Chaplain i'r Gwir Anrhydeddus Jarll Powis.

Argraphwyd yn *LLUNDAIN*, gan Joan Olfir, ym *Martholomy Clôs*, ger llaw *Smithfild Gorllewinol*, yn y Flwyddyn M.DCC.LII.

ENGHEDD CRIST NOGOL

TO

DECHREUDDIMED

TO

The Honourable and Right Reverend Father in God,

RICHARD,

Lord Biſhop of ST DAVID'S.

MY LORD,

MANY are the Reaſons aſſigned for Soliciting the Patronage of Great and Valuable Names. But without inquiring into the Force or Sufficiency of ſuch Reaſons, or urging for myſelf the Apologies that are thence uſually drawn; the following Tranſlation of the Firſt Volume of Dr SCOTT's *Chriſtian Life*, into the *Britiſh* Language, begs the Honour of Your Lordſhip's Protection, from the only Motive which induced me to undertake it; *viz.* A View to the General Benefit of Thoſe within Your Lordſhip's Dioceſe, who, through Reſtraint of Education, or ſome other Infeli-

city, are rendered incapable of perusing it in the Original.

THE Usefulness of such Tracts, as explain the Nature, or inforce the Practice of the Christian Religion, from *just* Principles, is easily discerned, and will be readily admitted by the *Wise* and *Good*. The Design therefore of the Author, in this Performance, being the Advancement of its most interesting Points; I conceived that an Endeavour to extend the Influence of this Work, would meet the Acceptance of my Countrymen, and give me, at the same Time, an Opportunity of professing to the World the Gratitude and Veneration with which I am,

My LORD,

Your Lordship's

most Dutiful, and

most Obliged

Humble Servant,

Nov. 17, 1750.

Joshua Thomas.

Gwir Anrhydeddus a'r Gwir Barchedig Dâd yn Nuw,

H. A R R I,

Arglwydd Eſgob LLUNDAIN,

A C

Un o Anrhydedduſaf Ddirgel Gynghor Ei FAWRHYDI, &c.

Fy ARGLWYDD,

YR wyf yn rhyfygu goſod y Papurau hyn wrth Draed eich Arglwyddiaeth; nid o herwydd fy mod yn meddwl eu bod yn haeddu, ond o herwydd y gwn fod arnynt eiſiau cymmaint o Amddiffyniad. Pe bae'r Traethiadau y maent yn gynnwys mor fawr ac mor haeddiannol ag yw eu Teſtyn, hwy allent yn ddiberygl ymgyſgodi dan eu Haeddiant eu hunain, a mynnu Parch, yn lle ymbil am Gadwraeth: ond, en gwneuthur o honof fi fy ngoreu i drîn y Teſtyn mawr hwn yn ôl ei Fawredd naturiol ei hun; etto mi wn yn dda ddigon, na's diangodd rhag y Dynghedfen ry gyffredin ſy'n dilyn pob Teſtynau uchel rhagorol o'r fath; ſef, cael eu diwyno wrth eu trîn yn drwſgl. Ond, gan i'm Coelbren fyrthio yn yr Oes annedwydd hon, lle y mae'r *Eglwys* a'r *Gwyſydd* oreu yn y Bŷd yn y fath Berygl amlwg o gael eu crodſhoelio, fel eu Hawdwr Bendigedig, rhwng y ddau Leidr hynny (a'r

ddau, gwae finnau! yn anedifeiriol) *Coel-grefydd* a *Gwall-bwyll ysbrydol*; mi dybiais fy mod yn rhwym i beidio ciſtedd yn llonydd, ac edrych ar y *Dryebineb*, fel pe na bae yn perthyn i mi; ond i ymegnio, yn ôl fy Ngallu egwan, i'w ragflaenu. Ac, wrth yſtyried mai'r Moddion mwyaf effeithiol a arferodd y *Papiſtiaid* i wyndroi'r Eglwys hon, yr hon y maent gymmaint yn gynfigennu, a'r holl Ddiwygiad gymmaint yn tyfeddu ac yn orphwys arni, ydoedd, neillduo ei Phlant ei hun oddi wrthi, a'u hatfogi yn ei herbyn, trwy gyfodi Opiniwnau newydd yn eu plith, ac ymrwymo eu Zêl (yr hon oedd arferol o fod ar waith i well Dibennion) mewn poeth Ddadleuon ynghylch Amgylchiadau ei Haddoliad; tybiais y gallai Traethawd am y *Fuchedd Gris'nogol*, yr hon yw'r Lle cymmwys i *Zêl Gris'nogol*, fod yn Foddion da i dynnu Dynion ymmaith oddi wrth yr *Ymryſonau* peryglus hynny, y rhai a ennynnwyd, ac ydynt yn cael eu porthi a'u chwythu, gan y rhai fy'n amcanu ein Dinyſtr cyffredinol. Canys, yn ddiammau, pe bae'n Pobl ond cwbl-ddyall beth yw bod yn Gris'nogion *mewn Gwirionedd*, a pha gymmaint o Ddyledſwydd y mae hynny yn arwyddocâu, nid allent gael cymmaint o Leſer ag y maent yn gael i gynhennu ac ymgeccru ynghylch *Ffiloreg*.

Dymma, fy Arglwydd, wir Ddiben yr hyn wyf yn anrhegu ymma i'ch Arglwyddiaeth: a pha Lwyddiant bynnag a gaffo, y mae gennyf hyn o Foddlondeb, i mi feddwl yn dda, ac amlygu fy Ewyllys da tu ag at yr Eglwys hon, ydys (druan!) yn gynfigennu; yr hon, o ran ei gwir brif Ordeiniad, ei Chreſydd bur a dihalog, a fydd i mi yn waſtad tyfeddu a pharchu: a pha beth bynnag allo ei Thynghedfen fod, y mae fy Rheſwm a'm Cydwybod yn fy rhwymo i gymmeryd Rhan o'r Byd a fo arni hi, ac mi a'i cyfrifaf yn waſtad yn Beth mwy dewiſol, gael fy mriwo trwy ei Chwymp, yr hyn na atto Duw! nâ blodeuo a gorfoleddu yn ei Dinyſtr.

Ond

Ond ymhlith yr amryw Argoelion drwg ag ſydd yn bygwth ein Heglwys, y mae *un* ag ſydd megis yn daroganu ei Llwyddiant; a hynny ydyw, fod y fath Leoedd godidog ynddi, ag yw Lle eich Arglwyddiaeth, yn cael eu llanw mor rhagorol. Canys, er mai Doeth Drefnwr pob Dymweiniau yn unig a ŵyr pa Ran a amcanwyd i chwi, p'un ai harddu ei Gorfoledd neu ei Chladdedigaeth; etto, fy Arglwydd, y mae pawb, ag ſydd yn dymuno yn dda i'n Heglwys, yn barnu hyn; I DDUW eich yſtoſi chwi arni fel Arwydd o Gariad. Am yr hyn y mae ganddynt ddigon o Warant, oddi wrth y Broffwyd beunydd, iol y maent yn gael o Gallineb a Gwyliadwriaeth eich Llywodraeth; Duwioldeb, Unjawndeb, a Boneddigeiddra eich Tymmer; eich Ffyddlondeb anorchfygol i'ch Brenin; eich Zêl ŵrol dros y Grefydd Ddiwygiedig; a'ch Ymddugiad pryſur caredig i bawb o'ch Cydnabod. Ni ſlinaf mo'ch Arglwyddiaeth ymhellach, ond mi ddibennaf y Llythyr hwn â'r hyn wyf yn wybod yw Gweddi gan lonnog pawb o'ch Eglwyſwyr oneſt; Ar i DDUW'R Neſoedd hîr-barhâu eich Arglwyddiaeth yn Fendith i'r Eglwys, a'r Eſgobaeth hon, yn Anrhydedd i'ch Grâdd Sanctaidd, a'r Gwraidd enwog oddi wrth ba un yr ydych yn diſgyn! Ac, os bydd i'r hyn wyf ymma yn anrhegu lwyddo cyſtal, a gwneuthur rhyw Ddaioni yn y Byd, a chael Derbyniad eich Arglwyddiaeth, e wnâ Daliad rhagorol am y Gorchwyl hwn a gymmerais i yn llaw ar Feddwl da. Yr wyf,

Fy ARGLWYDD,

Yn Oſtyngeiddiaf ac Ufuddaf

Wâs i'ch Arglwyddiaeth,

Joan Scot.

LIST OF THE SUBSCRIBERS.

A.

REV. Mr John Andrews, Rector of Prendergaſt.

B.

REV. Thomas Burton D. D. Archdeacon of St David's, and Chaplain to the Honourable and Right Rev. the Lord Biſhop of St David's.
Edward Burton of Llanddewi, Eſq;
George Barlow of Slebech, Eſq;
Mrs Barlow of the ſame.
Miſs Barlow of the ſame.
Hon. Mrs Bevans of Laugharn.
Rev. Mr Milbourne Bloome.
James Bowen of Llwyngwayr, Eſq;
Thomas Bowen of Gweyn-Iſor, Eſq;
Rev. Hugh Bowen M.A. Rector of St Thomas, in Haverfordweſt.
Rev. David Bowen M.A. Rector of Lanpeter Velfre.
Rev. Mr James Bowen, Vicar of Llanunda.
Captain Brigſtock.
John Bowen of Gyrre, Eſq;
Rev. Mr Archdeacon Brooks M.A. Prebendary of Llanbiſter, and Vicar of Llanarth.
Rev. Mr George Brock, Vicar of Eglwys Wrw.

C.

RIchard Camplain, Eſq;
Mr Dowglas Catiline of Pen-y-banc, Gent.
Rev. Dr Charlton, Rector of Kidderminſter.
Rev. Thomas Charles B.A. Vicar of Pendoylon.
Mrs Charles of Brecon.
Rev. Brian Cole M. A. Rector of Ludlow.
Rev. Mr Cornelius Copner, Vicar of Llanvynydd.
Mr Andrew Cleaton jun. of St Harmon.
John Colby of Ros y Gilwen, Eſq;
Rev. Mr William Crowther, Rector of Llanglydwen.

D.

THE Honourable and Right Reverend the Lord Biſhop of St David's.
Rev. William Davies LL.B. Rector of Llanbedr Yſtradyw.
Rev. —— Davies M. A. Rector of Kingſland.
Rev. Roger Davies M.A. Rector of Roſe Crowther.
Morgan Davies of Coomb, Eſq;
Gwynn Davies of the ſame, Eſq;

Robert

Robert Davies of Llannerch, Esq;
Richard Davies of Tal y Llyn, Esq;
Mr Edward Dalton, Collector of the Customs in Llanelly.
Rev. Mr Thomas Dalton, Rector of Walton West.
Rev. Mr Lewelyn Davies, Vicar of St Harmon.
Rev. Mr Thomas Davies, Vicar of Llandyfriog.
Rev. Mr John Davies, Vicar of Cardigan.
Rev. Price Davies B. A. Vicar of Talgarth.
Rev. Mr Thomas Davies, Rector of Llanbadarn Vawr.
Rev. Mr Thomas Davies, Vicar of Llanigon.
Rev. Mr Thomas Davies, Minister of Gwenthor.
Rev. Mr Roderick Davies, Rector of Rostye.
Mrs Joanna Davies of Brecon (deceased)
Mr John Davies of Cardigan, Attorney at Law.
Rev. Mr Morgan Davies, Curate of Llangathen.
Rev. Mr Davies, Curate of Llanarthney.
Rev. Mr Vavasor Davies, Curate of Llanarth.
Mr Richard Davies, Deputy Register of Landaff.
Mr Sabbath Daniel of Brechva, Mercer.
Mr Jeremy Davies of Carmarthen, Mercer.
Mr David Davies of Maesmoy, Gent.
Mr John Davies of Bryn yr Eidion, Gent.
Mr Sampson Davies of Llywel.
Mr Rice Davies of Brecon.
Mr Philip Davies of Llangadog, Mercer.
Mr Watkin David of Llanarth.
Mr Evan Davies of Coedmor.
Mr Lewis Davies of Carmarthen, Mercer.
Rev. Mr Howel Davies of Parke.
Rev. Mr Owen Davies of Llan y Crwys.
Rev. Mr Samuel Davies of Merthyr Tydvil.
Mr Benjamin Davies of Swansea, Mercer.
Mr David Davies of Pentre-jays.
Miss Beata Doulben of Llangynhafal, Denbighshire.

E.

William Edwards of Johnson, Esq;
Rowland Edwards of Llanmilo, Esq;
Rev. John Edwards M. A. Fellow of Jesus College, Oxon.
Mr John Edwards of Abertleveney, Merionethshire, Attorney at Law.
Mr William Edwards, Officer of Excise in Landovery.
Mr David Edwards, Officer of Excise in Lanfawel.
Mr David Edwards, Surgeon in Llandilo Vawr.
Rev. Mr John Edwards, Vicar of Llanbadarn Vawr.
Rev. Mr Hugh Edwards, Vicar of Cwmytoyddwr.
Morgan Evans of Llwyn y Barried, Esq;
Miss Nancy Evans of the same.
Rev. James Evans M. A. Vicar of Carmarthen.
Rev. Owen Evans M. A. Vicar of Llangadock.
Rev. Mr Theo. Evans, Vicar of St David's in Brecon, and Llangamarch in Builth.
Rev. Charles Evans B. A. Vicar of Dynaston.
Rev. Mr Philip Evans, Rector of Bangor, and Vicar of Llangeler.
Rev. Mr Evans, Rector of Newtown.
Rev. Mr William Evans of Aberlash.
Rev. Mr John Edwards, Curate of Brwynllys.
Rev. Benjamin Evans M. A. Rector of Kilrhedyn.

Rev.

Rev. Lewis Evans M. A. Vicar of Cayo.
Rev. Mr Thomas Evans, Rector of Heyop.
Rev. Evan Euſtance M.A. Vicar of Abergavenny.
Mr John Evans, Attorney at Law, Carmarthen.
Mr Samuel Evans of Gwaravog, Attorney at Law.
Rev. Mr Evan Evans, Miniſter of Llangranog.
Rev. Mr John Evans of Llandrindod.
Mr John Evans of Blaen y Cwm, Gent.
Mr David Evan of Llanfynydd.
Mr Hugh Evans of Machynlleth, Gent.
Mr Thomas Evans of Hengil.
Mr Evan Evans of Wayngaled.
Mr Joſhua Evans of Llanllawddog.
Mr John Evans of Gwar y Coed.
Rev. Mr William Eynon, Miniſter of Slebech and Minwear.
Rev. Mr Michael Evans, Curate of Little Riſſington, Glocesterſhire.

F.

WIlliam Foley Eſq; of Preſtwood, Staffordſhire.
William Ford Eſq; of Stone Hall.

G.

MArmaduke Gwynne ſen. Eſq;
Roderick Gwynne of Glanbrân, Eſq;
Honourable Mrs Gwynne of the ſame.
Richard Gwynne of Taliaris, Eſq;
Madam Gwynne of the ſame.
Miſs Gwynne of the ſame.
Rev. Luke Gwynne M.A. Precentor of Brecon, and Vicar of Landovery.
Howel Gwynne of Garth, Eſq;
Marmaduke Gwynne jun. Eſq;
Sackville Gwynne Eſq;
William Gwynne of Cynghordy, Eſq;
Mrs Joan Gwynne of Brecon.
Mrs Margaret Gwynne of Pant-y-corred.
Mrs Gwynne of Cardiff.
Miſs Rebecca Gwynne.
Miſs Joan Gwynne.
Mr John Gwynne of the Hay, Gent.
Mr Edward Gwynne of Drain Deon, Gent.
Mrs Emma Gower.
Madam Glynne of Glynne.
Mrs Caroline Griffiths of Coed.
Capt. Griffiths of Carnarvonſhire.
Rev. Samuel Griffiths M.A. Vicar of Llanavan Vawr.
Rev. Mr Thomas Griffiths, Rector of Penegoes.
Rev. Mr Edward Griffiths, Vicar of Llanvihangel y Croyddyn.
Rev. Mr James Griffiths, Vicar of Mathry.
Rev. Mr Jonathan Griffiths, Curate of Bettws.
Rev. Mr David Griffiths, Curate of Biſhopſton.
Mr Thomas Griffiths, Apothecary in Landovery.
Mr Richard George of Llanidloes.

H.

THE Right Honourable the Lord Harley.
The Honourable the Lady Martha Harley.
The Honourable Robert Harley ſen. Eſq;
Robert Harley jun. Eſq;
John Harley Eſq;
Thomas Harley Eſq;
Honourable James Howe Eſq;
Honourable Sir Humphrey Howorth Knt. Member of Parliament for the County of Radnor.
Miſs Suſanna Howorth.
Miſs Sarah Howorth
Honourable Lady Ann Hamilton.
Mr James Hamer of Nantuntl, Gent.
George Hanbury Eſq;
John Harcourt of Danypark, Eſq;

John

John Harries of Priſkelly, Eſq;
Mr John Harries of Cryglâs, Gent.
Mr John Harper of Brecon.
Mrs Harries of Caſtlepigin.
Rev. William Harries M. A. Prebendary and Vicar Choral of Landaff, and Rector of Biſhopston.
Rev. George Harries M.A. Rector of Llanmadog.
Rev. Mr John Harris, Vicar of St Iſhmael's.
Rev. Mr William Harris of Laugharn.
Rev. Mr Solomon Harries of Swanſea.
Mr John Harries of Talley.
Mr William Harry of Carmarthen.
Rev. David Havard M.A. Vicar of Abergwily.
Rev. G. W. Havard of Carmarthen, M. A.
Rev. Mr Richard Harris, Vicar of Llantriſſent.
Rev. Mr David Havard, Curate of Llandyſſil.
Rev. Mr David Herbert, Curate of Yſtradgynlais.
Rev. —— Hill M. A. Chantor of St David's.
Rev. Henry Probert Howorth M.A. Rector of Gladeſtry.
Rev. Mr John Howel, Curate of Llanglydwen.
Mr Thomas Howels of Penybayli, Gent.
Mr Eraſmus Howells of Llanegwad, Gent.
Mrs Mary Hopkins of Glantowy.
Mr Moſes Howels of Llanidlos.
Rev. Mr Howel Howel, Vicar of Kilkennin.
Mr David Hopkin of the Abbey, Cardiganſhire, Gent.
John Hughes of Brecon, Eſq;
Mr David Hughes of Laugharn, Gent.
Rev. Mr John Hughes of Haverfordweſt.
Mr James Hughes of Carmarthen.
Mr John Hughes of Nantgwylan.
Richard le Hunt Eſq; of Chriſt-Church, Oxford.

J

Thomas James of Brecon, Eſq;
Rev. William James M.A. Rector of Llanhamlech.
Rev. Mr Thomas James, Rector of Cathedin.
Rev. Mr James, Curate of Penbryn.
Edward Jeffreys of Brecon, Eſq;
Rev. Mr Jenkin Jenkins, Vicar of Llanrhyſtyd.
Rev. Mr Jenkin Jenkins, Curate of Llowes.
Rev. Mr William Jenkins, Curate of Llangynnwr.
Rev. Mr Thomas Jenkins of Kil-y-bebyll.
Mr Thomas Jenkins of Carmarthen.
Mr John Jenkins of Nantllêch.
Mr John Jenkins of Treventi.
Thomas Jones of Pantglâs, Eſq;
John Jones of the ſame, Eſq; (deceaſed)
Thomas Jones of Dolecothy, Eſq;
Hector Jones of Llangeler, Eſq;
Thomas Jones of Trefonnen, Eſq;
Madam Jones of Llanina.
Mr John Jones jun. of Dyglyn, Attorney at Law.
Mr Roger Jones of Talgarth, Attorney at Law.
Mr John Jones of Cwmeiddig, Attorney at Law.
Mr Daniel Jones of Neath, Surgeon.
Rev. Mr Thomas Jones, Rector of Aberhavea.
Rev. Mr Roderick Jones, Vicar of Llanwnnog.
Rev. Mr Joſhua Jones, Vicar of Llanvihangel Orarth.
Rev. Mr William Jones, Vicar of Caron (deceaſed)
Rev. Mr Thomas Jones, Vicar of Pencarreg.
Rev. Mr John Jones, Vicar of Clydey.

Rev.

Rev. Mr John Jones, Maſter of the Free School of Dyvynog.
Rev. Mr Evan Jones, Curate of Llanwenarth.
Rev. Mr Edward Jones of Cardiff.
Rev. Mr David Jones, Miniſter of Talley.
Rev. Mr David Jones of Brecon.
Mr David Jones, Mercer, in Builth.
Mrs Jones of Bailie, in Llywel.
Mr Walter Jones of Llanio, Gent.
Mrs Mary Jones of Cribart.
Mr Peter Jones of Dygoedy.
Mr David Jones of Llan y Byddar.
Mr John Jones of Llanddewi Aberarth.
Mr Henry Jones of Talley.
Mr Evan Jones of Pen y Gelli Ucha'.
Mr John Jones of Bwlch y Chwyrn, Gent.
Mrs Jones of Broccyn, in Talley.
Mr Thomas Jones of Cwm y Glaw, Gent.
Mr John Jones of Dôl y Ceirw, Gent.
Mr Thomas Jones of Llanvihangel Orarth.
Mr John Jones of Haverfordweſt, Mercer.
Mr Arthur Jones of Carmarthen.
Mr Lewis Jones of the ſame.
Mr David Jones of Wern.
Mr William Jones of Trepinſhiwn, Gent.
Mr John Jones of Llwyn y Brain, in Llanegwad, Gent.
Mr David John of Llanllawddog.
Mr Evan Jones of Landovery, Mercer.
Rev. Mr Griffith Jones, Vicar of Llandewy Velfre.
Mrs Elizabeth Jones of Tregib.
Mrs Margaret Jones of Carmarthen.
Mr Peter Jones of Cwmcamarch, Gent.
Mr Thomas James of Gilwern, Gent.
Mr Lewelyn Jones of Gilvach yr Heddwch, Gent.
Mr Thomas Jones of Dôl-y-coed, Gent.
Mr Samuel Jones of Llangamarch.

K.

ABEL Johnſon Kettleby Eſq;
Mr David Kinſey of Llanlloenvel.

L.

THE Right Honourable the Lord Viſcount Liſburn.
Honourable John Lloyd of Peterwell, Eſq; Member of Parliament for the County of Cardigan.
Honourable Madam Lloyd of the ſame.
Rev. Arthur Laugharn M.A. Rector of Dynas.
Rev. William Laugharn M.A. Rector of Maenordeivy.
Rev. William Laugharn jun. B.A. of Llanuwas.
John Lewelyn jun. of Ynyſygerwn, Eſq;
Rev. Mr William Lewelyn of Cardiff.
Rev. Mr Lewelyn Lewelyn, Curate of Llywel.
David Lewes of Dôlhaidd, Eſq;
Thomas Lewis of Nantgwyllt, Eſq; Counſeller at Law.
Thomas Lewis of Henllys, Eſq,
Madam Lewis of Llanuchaeron.
Rev. Evan Lewis M. A. Vicar of Nantmel.
Rev. Francis Lewis M.A. Rector of Llangattock, nigh Uſk.
Rev. Mr Francis Lewis of the Furnace.
Rev. Mr Philip Lewis, Rector of Diſſerth.
Rev. Mr Robert Lewis, Vicar of Mold, Flintſhire.
Rev. Mr. Chriſdoſius Lewis.
Rev. Mr Leyſon Lewis, Curate of Kayo.
Rev. Mr David Lewis of Newtown.
Rev. Mr John Lewis of Blaenkerdin.
Rev. Mr Watkin Lewis, Rector of Meline and Llanvihangel Penbedw.

Rev.

Rev. Mr Richard Lewis, Vicar of Llandiffilio.
Mr Thomas Lewis of Glasgwm, Gent.
Mr Lewis Lewis of Gwintley, Gent.
Mr John Lewis of Weyn y Granod, Gent.
Miss Lewis of Llwyn y Grawys.
Mr Thomas Lewis of Ynyswen.
Mr David Lewis of Dinas, Gent.
Mr Thomas Lewis of Llanegwad.
Mr Howel Lewis of Cwmtoyddwr.
Thomas Lloyd of Brecon, Esq;
Herbert Lloyd of Voelallt, Esq;
Madam Ann Lloyd of the same.
James Lloyd of Ffos y Bleiddiaid, Esq;
Richard Lloyd of Mabwys, Esq;
Thomas Lloyd of Bronwydd, Esq;
John Lloyd of Glangwili, Esq;
Morgan Lloyd of Laufevin, Esq;
James Lloyd of Kilrhiwe, Esq;
David Lloyd of Llanvaughan, Esq;
Jenkin Lloyd of Pen y Bont, Esq;
Lewis Lloyd of Gernos, Esq;
John Lloyd of Rôsveynick, Esq;
Vaughan Lloyd of Dan yr Allt, Esq;
Jenkin Lloyd of Clochvaen, Esq;
Madam Lloyd of Berllan Dywyll.
Rev. Charles Lloyd B. A. Vicar of Llandefathew.
Rev. —— Lloyd M. A. Rector of Tresdrayr.
Rev. John Lloyd B. A. Rector of Grogrina.
Rev. Mr Roger Lloyd, Curate of Dyvynog.
Rev. Mr Thomas Lloyd, Curate of Llangoedmor.
Rev. Mr Thomas Lloyd, Curate of Abergavenny.
Rev. Mr John Lloyd, Curate of Narberth.
Rev. Mr Edward Lloyd of Llanllwchaiarn.
Mrs Lloyd of Ystradcorrwg.
Mrs Lloyd of Dôl y Grogws.
Rev. Mr David Lloyd of Llwynrhyd-owen.
Mr James Lloyd, Attorney at Law.

M.

Honourable Herbert Mackworth Esq; Member of Parliament for Cardiff.
Honourable Thomas Morgan, son of Ruperra, Esq; Member of Parliament for the County of Brecon.
Thomas Morgan jun. Esq; of the same.
William Morgan of Tregedar, Esq;
Mansel Mansel of Swanica, Esq;
Thomas Mathews of Landaff, Esq;
Edward Mathew of Abertamtin, Esq;
Madam Mathew of the same.
Rev. Mr Thomas Meredith, Minister of Cilycwm.
Mr Henry Mitchel of Battel, Gent.
Hugh Morgan of Battw, Esq;
Edward Morgan of Brecon, Esq;
Mr Lancelot Morgan of Brecon, Clerk of the Peace.
Capt. John Morgan of Carmarthen.
Dr Morgan of Crickhowel.
Mr John Morgan of Landevery, Attorney at Law.
Mr David Morgan of Presteign, Attorney at Law.
Mrs Morgan of Kendalo.
Rev. Mr Morgan of Battw.
Rev. Mr John Morgan, Vicar of Llanilar.
Rev. Mr Benjamin Morgan, Minister of Llanllawddog.
Rev. Mr Thomas Morgan of Llanwrtyd.
Rev. Mr David Morris, Rector of St Laurence.
Rev. Mr Thomas Morrice, Curate of Neath.
Rev. Mr Michael Morris of Denbighshire.
Mr Richard Morgan of Llys y Vân Isa', Gent.
Mr Ewan Morgan of Llys y Vân Ucha', Gent.
Mr John Morgan of Lanbadarn Vawr.
Mr Francis Morgan of Carmarthen.
Mr Oakley Morgan of Pistill Dewi.
Mr Robert Morgan of Carmarthen.

Mr

N.

MR John Nichols of Abergwily.

O.

THE Right Honourable the Earl of Oxford.
The Right Honourable the Countess of Oxford.
Thomas Owen of Llunllo, Esq;
Rev. Mr Owen Owen, Vicar of Llanidlos.
Rev. Mr John Owen, Rector of Machynlleth.
Mr David Owen of Glandulas, Gent.
Mr Maurice Owen, Attorney at Law.
Mr John Owens, Agent at Newton.
Mr Owen Owens, Officer of Excise at Fishguard.

P.

SIR John Phillips of Picton, Bart.
Sir John Price of Buckland, Bart.
James Parry of Llandevaylog, Esq;
Hugh Penry of Llwynkyttevin, Esq;
Charles Phillips of Llandebie, Esq;
John Phillips of Coedgaingc, Esq;
Jenkin Thomas Philipps Esq; Historiographer to His Majesty.
Rev. Thomas Pardoe D.D. Principal of Jesus College, Oxford.
Rev. James Philips D.D. Rector of Llangoedmor.
Rev. George Philips M.A. Vicar of St Mary's, in Haverfordwest.
Rev. Mr John Philips, Vicar of Llanstadwel.
Rev. Mr John Philips, Vicar of Lanpeter Pont Stephen.
Rev. Edward Phillips B.A. Rector of Maesmynys.
Mr John Philips of Brecon, Attorney at Law.
Mr Richard Philips of Carmarthen.
Mrs Magdalen Philips of Moelivor.
Miss Margaret Philips of Llandebie.
Gryffydd Price Esq; Counsellor at Law.
Thomas Price of Forest, Esq;
Charles Price of Nantgwared, Esq,
Madam Price of the Hay.
John Price of Buckland, Esq;
Rev. David Price B.D. Fellow of Jesus College, Oxon.
Rev. Mr Charles Price, Rector of Llanvillo.
Rev. Hugh Price B.A.
Rev. Mr David Price, Curate of Merthyr Cynog.
Rev. Mr Rees Price, Minister of Llanlloenvel.
Rev. Mr Joshua Parry of Cirencester.
Rev. Mr William Price, Curate of Llanedy.
Mr Howel Price of Yfiradgynlais.
Mr James Price of Kilgwyn, Attorney at Law, and Clerk of the Peace.
Mr Rice Price of Glantowy, Gent.
Miss Blanch Price of Kilgwyn.
Mr Charles Price, Attorney at Law.
Mr Richard Price of Rhyd-arwen, Attorney at Law.
Mr John Price of Hendre, Gent.
Mr Thomas Price of Talgarth, Gent.
Mr Samuel Price of Talgarth, Gent.
Mr Richard Price of Rhosfvorla, Gent.
Mr George Price of Llangranog, Gent.
Mr Edward Price of Llwyn y Bengloig in St Harmon.
John Price Esq; late High Sheriff of the County of Brecon.
Mr Rice Price of Alt Maur, Gent.
Mr Roger Price of Maes yr On, Gent.
Rev. Mr Thomas Prichard, Vicar of Llangurig.
Mr Prichard and Mrs Prichard, London.
Mr Benjamin Prichard of Merthyr.
Thomas Powel of Nanteos, Esq;
Roger Powel of Cardiff, Esq;
John Powel of Langeney, Esq;
Charles Powel of Castle-madog, Esq;
Robert Popkins of Swansea, Esq;
Thomas Popkins Esq;
Christopher Portrey of Ynysgedwyn, Esq;

Rev.

Rev. Mr William Powel of Cardigan.
Rev. Thomas Powel M. A. Rector of Llanarthney (deceased)
Rev. Mr David Powel, Vicar of Mothvey.
Rev. Mr Rice Powel, Master of the Free School in Brecon.
Rev. Mr Thomas Powel of Maesmawr.
Rev. Mr Howel Powel, Curate of Battel.
Mr William Powel of Brecon, Attorney at Law.
Mrs Elizabeth Powel of Glyn Hir,
Mr Richard Powel of the same, Attorney at Law.
Mr Howel Powel of Senny, in Dyvynog, Gent.
Mr Rees Powel of Aberdulas, Gent.
Mr David Powel, Officer of Excise.
Rev. John Proffer B. A. of Llwyn y Pynwent.
Marmaduke Protheroe of Builth, Esq;
Mr William Prydderch of Llandevaylog, Gent.
David Pugh of Clyn y March, Esq;
Rev. Mr John Pugh of Llanarth.

R.

George Rice of Newton, Esq;
Peter Rickards of Evenjobb, Esq;
William Rees of Cappel Dewi, Esq;
Woodford Rice Esq;
Rev. Mr Read, Vicar of Tenbury.
Rev. Mr Oakley Rees, Rector of Penboyr, and Vicar of Llansoyddy.
Rev. Mr Thomas Rees, Vicar of Mydrim.
Rev. Mr Hugh Rice, Rector of Llandawe and Pendine.
Mr Edward Richards, Schoolmaster of Ystrad Meyric.
Richard Roberts of Abergaveany, Esq;
Walter Roberts M. D. of Abergavenny.
Mr John Roberts of Bala, Attorney at Law.
Rev. John Rogers B. A. Curate of Llandilo Vawr.
Rev. Mr Rowland Rogers, Rector of Eryrys.
Rev. Mr Thomas Rowland, Rector of Llyfwen.
Rev. Mr David Richards, Curate of St Clears.
Mr Thomas Roberts of Trecastle, Mercer,
Henry Rumsey Esq;
Mr John Rees jun. of Pont yr Ewig, Gent.
Mr David Rees of Landovery.

S.

Honourable John Symmons of Lanstinam, Esq; Member of Parliament for the Town of Cardigan.
George Symmons Esq;
Willam Scourfield of Moss, Esq;
Honourable Lady Stepney of Llanelly.
William Skyrme of Varnon, Esq;
William Shewen Esq; Collector of the Customs at Swansea.
Mr Daniel Shewen, Attorney at Law.
Alexander Sutherland M. D. of Bath.
Mr Alexander Scarlock of Carmarthen, Gent.
Rev. William Skinner M. A. Rector of Llangattock, Crickhowel.
Rev. Edmond Sandford M. A. Vicar of Laugharn.
Rev. Mr Christmas Samuel of Llanegwad.
Rev. Mr John Samuel of Kingswood, Wiltshire.
Rev. Mr Joseph Simmons of Llansamlet.
Mrs Jane Seys of Swansea.
Mr William Sears of Carmarthen, Attorney at Law.
Mr John Sparks jun. of Haverfordwest.

Rev.

T.

REV. Timothy Thomas D. D. Rector of Presteign (deceased)
William Thomas of Marybone, Esq;
Mrs Mary Thomas of the same.
Mrs Ann Thomas of the same.
Rev. William Thomas M. A. Master of the Free School in Abergavenny.
Rev. William Talker B. A. Rector of Lud-Church.
Rev. Henry Thomas B. A. Rector of Llandevaylog.
Rev. Mr John Thomas, Rector of Puncheston.
Rev. Mr John Thomas, Vicar of Llanlloony.
Rev. Mr William Thomas, Vicar of Cadoxton, nigh Neath.
Rev. Mr Rees Thomas, Curate of Llangyby.
Rev. Mr John Thomas, Curate of Aberedw.
Rev. Mr Richard Thomas of Pwllheli, Carnarvonshire.
Rev. Mr Edward Thomas, Curate of Cwmdû.
Rev. Mr David Thomas, Curate of Abernant.
Rev. Mr Griffith Thomas, Curate of Llanegwad.
Rev. Mr Samuel Thomas of Carmarthen.
Mr William Thomas of Keven-llan, Gent. (deceased)
Mr David Thomas, Mayor of Carmarthen.
Mr John Taylor of Carmarthen, Mercer.
Mr Thomas Taylor of the same, Mercer.
Mr Edward Thomas of Llwynmadog, Gent. (deceased)
Mr James Thomas of Gilwern.
Mr John Thomas William Rees of Llanvynith.
Mr David Thomas of Cwm-ynys.
Mr Nathaniel Thomas of St Peter's, in Carmarthen.

V.

HOnourable John Vaughan Esq; Member of Parliament for the County of Carmarthen.
Honourable Madam Vaughan of Derwydd.
William Gwyn Vaughan of Trebarried, Esq;
Rev. Walter Vaughan M. A. Vicar of the Hay.
Charles Vaughan of Scethrog, Esq;
William Vaughan of Tregâr, Esq;
Erasmus Vaughan of Trecwn, Esq;
Miss Mary Vaughan of Dôlgwm.

W.

SIR Edward Williams of Langoed, Bart.
Thomas Williams of Edwin's-ford, Esq;
Penry Williams of Penpont, Esq;
William Warren of Longridge, Esq;
Philip Williams of Dyffryn, Esq;
William Williams of Aberannell, Esq;
Mrs Wesley of Bristol.
Mr Daniel Winter, Apothecary in Brecon.
Rev. Thomas Williams M. A. Vicar of Brecon, and Canon of St David's.
Rev. John Williams M. A. Rector of Aberedw, and Canon of St David's.
Rev. Thomas Williams M. A. Vicar of Llanegwad.
Rev. Mr David Williams, Vicar of Old Radnor.
Rev. Mr John Williams, Vicar of Penaley.
Rev. Mr Rice Williams, Vicar of Llan St Ffread.
Rev. Mr John Williams, Rector of Cheriton.
Rev. Mr Thomas Walters, Rector of Penmaen.
Rev. Mr Thomas Walters of Rayader.

Rev.

Rev. Mr Walters, Curate of Swansea.
Rev. Mr William Watkins, Curate of the Hay.
Rev. Mr Jacob Wood, Vicar of Llanwthwl.
Rev. Mr William Williams of Talgarth.
Rev. Mr Walter Williams of Garthbrengy.
Rev. Mr John Williams, Curate of Llanddoysant.
Rev. Mr Rice Williams of Shiffnall, Shropshire.
Mr Daniel Williams of Mothvey, Gent.
Mr Richard Williams of Aberbran, Attorney at Law.
Mr Thomas Williams of Brecon, Attorney at Law.
Mr Thomas Williams of Garth, Gent.
Mr John Williams of Llanfyny[illegible]
Mr William Williams of the same.
Mr Thomas Williams of Llandilo Vawr.
Mr John Watkins, Attorney at Law.
Mr Sylvanus Williams of Llanbister, Gent.
Mr John Wosoncroft of the same.
Mr Edward Williams of Crickhowel, Mercer.
Mr Henry Williams of Glaspant, in Kilrhedyn.
Mr Charles Williams of Carmarthen.
Mr John Williams of the same.

☞ Some few Names received too late, could not be here inserted; which (it is hoped) those Subscribers will excuse.

Y TABL.

PEN. I.

Y Nghylch Diben olaf *y* Fuchedd Gris'nogol; *yr Angenrheidrwydd o eglurhâw pa beth ydyw, ſel y bo i ni ddyall y* Fuchedd Gris'nogol, —— Tu dalen 9
Mai'r Nefoedd *yw ei Diben hi,* —— tu d. 10
Mai'r un Peth yw'r Nefoedd *a* Gogoniant Duw, tu d. 11
Pa fath Ddedwyddwch *y mae'r Nefoedd yn arwyddocâu; yyd â Chyfrif cyffredinol o Ddedwyddwch* Gorphwyſdra *a Dedwyddwch* Symmudiad: *yn dangos fod y Nefoedd yn cynnwys pob un o'r* ddau, *ond yn ſefyll yn bennaf yn yr* olaf, —— —— —— tu d. 13
Fod Dedwyddwch Dŷn yn ſefyll yn y Symmudiad bywiog o'i Ddyall a'i Ewyllys tu ag at Wrthddrychon gweddus, tu d. 14
Ac yn bennaf yn yr Wybodaeth *a'r Dewiſiad o* Dduw, tu d. 15, 16, 18
A hefyd yn yr Wybodaeth a'r Dewiſiad o'r rhei'ny ag ydynt debyccaf iddo, —— —— —— tu d. 21
Gogoniant *y Lle,* —— —— tu d. 25
Tragywyddoldeb *y Mwynhâd,* —— tu d. 25
Dau Ddefnydd *oddi wrth y cwbl,* —— tu d. 26

PEN. II.

Ynghylch y Moddion *trwy ba rai y mae cyrraedd* Diben *y Fuchedd Gris'nogol: y rhaid bod y Moddion yn* ychwaneg *ac yn* fwy *nag oedd angenrheidiol at* Ddiben cyntaf *Dŷn; ſef, y Mwynhâd o* Baradwys ddaearol, — tu d. 29

Fod

Fod Pellder mawr Dſyn oddi wrth y Neſoedd yn ei Gyſtwr llygredig, yn peri fod mwy o Foddion yn angenrheidiol nag a fuaſai heb hynny, —— —— tu d. 31

Dau fath o Foddion yn angenrheidiol tu ag at gyrraedd y Neſoedd; ſef, yr Ymarfer o'r Rhinweddau *Cris'nogol, a Defnydd y* Dyledſwyddau Offerynnol *mewn Cris'nogaeth,* tu d. 33, 35

Profi mewn pedwar *Peth, na thâl* Dyledſwyddau Offerynnol *Cris'nogaeth ddim at ein Dedwyddwch, ond ſel y maent yn Foddion o Rinwedd,* —— —— — tu d. 36

PEN. III.

Yngbylch y Moddion neſaf *i gyrraedd y Neſoedd; ſef, yr Ymarfer o'r* Rhinweddau Cris'nogol: *yn dangos o ba Rinweddau y gwneir y Moddion hyn i fynu, a pha gymmaint y mae pob Rhinwedd yn wneuthur tu ag at Ddedwyddwch y Neſoedd. Rhannu y Rhinweddau Cris'nogol i rai* Dynol, Duwiol, Cymdeithaſol, —— tu d. 44

DOSBARTH. I.

Yngbylch y Rhinweddau Dynol: *yn dangos, oddi wrth Wneuthuriad Natur Dyn, fod* pump *o Rinweddau yn angenrheidiol at ei Ddeddwyddwch,* —— tu d. 46

Yn gyntaf, Callineb, —— —— tu d. 48

Yn ail, Arafwch, —— —— tu d. 53

Yn drydydd, Gwroldeb, —— —— tu d. 58

Yn bedwerydd, Cymhedrolder, —— —— tu d. 65

Yn bummed, Goſtyngeiddrwydd, —— tu d. 70

DOSBARTH. II.

Yngbylch y Rhinweddau Duwiol, *y rhai a gynhwyſer yn y Fath gyntaf ymma o Foddion: yn dangos beth ydynt, a pha mor effeithiol y maent yn gweithio at ein Dedwyddwch ar ôl hyn; fod Rhwymedigaeth i* chwech *o amrywiol Rinweddau yn cyſodi oddi wrth y Berthynas ſy rhyngom â*

TABL.

Duw, a bod y rhai'n i g'd yn angenrheidiol at ein Dedwyddwch, —— —— —— tu d. 77
Yn gyntaf, Myfyrio *ar ei* Natur, —— tu d. 78
Yn ail, Addoli *ei* Berffeithrwydd, —— tu d. 83
Yn drydydd, *Ei* Garu, —— —— tu d. 87
Yn bedwerydd, *Ei* Ganlyn, —— tu d. 94
Yn bummed, Rhoi *ein bunain* i fynu *iddo*, —— tu d. 102
Yn chweched, Ymddiried *a* hyderu *arno*, —— tu d. 112

DOSBARTH. III.

Ynghylch y Rhinweddau Cymdeithaſol, *y rhai a gynhwyſer yn y Fath gyntaf o Foddion: yn dangos fod* pump *o Rinweddau yn angenrheidiol at ein Dedwyddwch tragywyddol, y rhai ydynt i gŷd yn tarddu oddi wrth ein Tueddiad i Gymdeithas, a Natur a Chyfluwr Cymdeithas ddynol,* tu d. 120
Yn gyntaf, Cariad, —— —— tu d. 122
Yn ail, Cyfiawnder, —— —— tu d. 130
Yn drydydd, Heddwch, —— —— tu d. 137
Yn bedwerydd, Gwylder, —— tu d. 142
Yn bummed, Hynawſedd, —— —— tu d. 146

DOSBARTH. IV.

Yn cynnwys rhai Annogaethau *ac* Yſtyriaethau *i berſwadio Dynion i ymarfer y Rhinweddau hyn.* Yn gyntaf, *Eu bod yn* gweddu *i'n Cyflwr a'n Perthynas yn breſennol,* —— tu d. 150
Yn ail, *Eu* Teilyngdod *hwynt,* —— tu d. 153
Yn drydydd, *Eu* Rhydd-did, —— tu d. 155
Yn bedwerydd, *Eu* Hyfrydwch, —— tu d. 158
Yn bummed, *Eu* Heſmwythder, —— tu d. 161
Yn chweched, *Eu hollawl* Angenrheidrwydd *hwynt,* tu d. 163

PEN. IV.

Ynghylch Dyledſwyddau Offerynnol *y Furhedd Gris'nogol; y rhai ydynt yr* ail *Fath o Foddion angenrheidiol tu ag at fuyn-*

ſwynhàu'r Nefoedd, fel y maent yn angenrheidiol i ni gyrraedd a pherffeithio y Rhinweddau Cris'nogol. A ag at rannu y rhai'n yn well, y mae Dyn yn cael ei yſtyried mewn perthynas i'r Fuchedd Gris'nogol dair ffordd. Yn gyntaf, *Fel un ſy'n* dechreu *arni.* Yn ail, *Fel un ſy wedi* ymrwymo *yn* weithredol *ynddi.* Yn drydydd, *Fel un ſy'n* cynnyddu ymlaen *i* Berffeithrwydd *trwy* barhàd *ynddi. Ac y mae'r Dyledſwyddau Offerynnol hyn mewn Cris'nogaeth yn perthyn i un o'r* tri *Cbyſſwr hyn,* tu d. 167

DOSBARTH. I.

Yn cynnwys y Dyledſwyddau Offerynnol hynny ag ydynt angenrheidiol i ni ar ein Dechreuad *yn y Fuchedd Gris'nogol. Y rhai ydynt,* yn gyntaf, Ffydd, —— tu d. 168, 169
Yn ail, Yſtyriaeth, —— —— —— tu d. 171
Yn drydydd, Dwfn *a* llawn *Argyhoeddiad o'n Heiſiau o* Gyfryngwr, —— —— tu d. 175
Yn bedwerydd, Triſtwch *dwfn,* Cywilydd, *a* Chnofa Cydwybod, *am ein Hanwireddau gynt,* —— tu d. 180
Yn bummed, *Taer* Weddi *am* Gymmorth Duw, tu d. 182
Yn chweched, Bwriad *difriſol ac arbennig o Wellhàd,* tu d. 184

DOSBARTH. II.

Yn cynnwys rhai Annogaethau *i ymrwymo Dynion i arfer y Dyledſwyddau hyn.* Yn gyntaf, *Tr* Angenrheidrwydd *mawr i ni ddechreu ar y Fuchedd Gris'nogol* ryw amſer neu gilydd, —— —— —— tu d. 188
Yn ail, *T* Diogelwch *mawr a'r* Fantais *o ddechreu arni* yn awr, —— —— tu d. 191
Yn drydydd, *T rhaid i'n* Llwyddiant *diweddaf ynddi ſefyll ar ein Gwaith yn ei* dechreu *bi* yn dda, —— tu d. 193
Yn bedwerydd, *Fod yr Anhawſdra* pennaf *wedi darfod, pan* ddechreuom *bi* yn dda, —— —— tu d. 195

DOSBARTH. III.

Yn cynnwys y Dyledſwyddau Offerynnol hynny ag ſydd angenrheidiol

rheidiol i ni pan ſom yn weithredol *wedi* ymrwymo *yn y Fuchedd Gris'nogol*, —— —— tu d. 199
Yn gyffredinol, Y mae'n angenrhaid i ni ſynych ail-wneuthur *Dyledſwyddau ein* Dechreuad *ynddi*, —— tu d. 199
Osid yw ſwy neillduol, yn gyntaf, *I ni arſogi ein hunain ag* Ammynedd *a* Chalondid, —— tu d. 203
Yn ail, *I ni oſod yr* Eſamplau *goreu o'n blaen*, tu d. 205
Yn drydydd, *I ni ſynych geiſio Cynghor a Chyfarwyddyd gan ein* Bugeiliaid yſbrydol, —— tu d. 211
Yn bedwerydd, *I ni, cyn ſynyched ag y gallom*, amcanu *a* golygu Duw *ſel ein Diben yn ein holl Fywyd a'n Gweithredoedd*, —— —— —— tu d. 215
Yn bummed, *I ni gadw ar ein Meddyliau ddwys Deimlad o* Breſennoldeb Duw *gyd â ni, a'i* Olwg *droſom*, tu d. 221
Yn chweched, *I ni ſynych* holi *ac* edrych *dros ein Gweithredoedd*, —— —— —— tu d. 228
Yn ſeithfed, *I ni ſod yn* wyliadwrus *ſawn ac yn* ddieſgeulus, —— —— —— tu d. 231
Yn wythfed, *I ni ſod yn ddiwyd ac yn ddyfal yn ein* Galwedigaethau neillduol, —— tu d. 234
Yn nawfed, *I ni ymegnio gadw i ſynu yn waſtadol* Yſbryd llawen *mewn Creſydd*, —— —— tu d. 242
Yn ddegfed, *I ni gadw ar ein Meddyliau* Deimlad *a* Diſgwyliad *gwaſtadol o'r* Nefoedd, —— tu d. 246
Yn unfed ar ddeg, *I ni ſyw yn y mynych Ymarfer o* Ordinhadau *cyhoeddus ein Creſydd*, —— tu d. 250

DOSBARTH. IV.

Yn cynnwys rhai Annogaethau *i gefnogi Dynion yn erbyn* Anhawſdra *y Dyledſwyddau hyn.* Yn gyntaf, *Nad pa Anhawſdra bynnag ſydd ynddynt, y gallwn* ddiolch *i ni ein hunain am hynny*, —— tu d. 255, 256
Yn ail, *Fod llawer iawn o Anhawſdra yn Fforddi* Pechod, *yn gyſtal ag yn y Dyledſwyddau hyn*, —— tu d. 258
Yn drydydd, *Nad pa gymmaint yw'r Anhawſdra, y rhaid myned trwyddo, neu ddioddef yr hyn ſydd yn anfeidrol* fwy anoddefadwy, —— —— tu d. 260
Yn bedwerydd, *Er anhawſed a ſont, y bydd i* Râs Duw

eu gwneuthur yn bosibl *i ni, oni byddwn ni yn fi i ni ein hunain,* —— —— tu d. 262
Yn bummed, *Er eu bod yn anhawdd, etto eu bod yn cyttuno yn dda ddigon â'n holl* Achosion angenrheidiol *eraill,* tu d. 264
Yn chweched, *Y bydd i'r Anhawsdra* leihâu *a* gwisgo ymmaith *bob yn ychydig,* —— —— tu d. 267
Yn seithfed, *Fod llawer iawn o* Heddwch *a* Boddlonrwydd yn bresennol *yn gymmysgedig â'r Anhawsdra,* tu d. 268
Yn wythfed, *Fod eu* Gwobr *bwynt yn Daliad helaeth am yr Anhawsdra,* —— —— —— tu d. 270

DOSBARTH V.

Yn cynnwys y Dyledswyddau Offerynnol hynny ag ydynt angenrheidiol i ni tu ag at gynnyddu ymlaen i Berffeithrwydd *trwy* Barhâd *yn y Fuchedd Gris'nogol. Y rhai ydynt,* yn gyntaf, *Na fyddom* ry hyderus *o bonom ein hunain tra fom yn sefyll; ond cadw Golwg eiddigeddus ar Wendid ac Anwadalwch ein Natur,* —— tu d. 272, 274
Yn ail, *Os bydd i ni un amser gwympo* yn ewyllysgar, *y dylem gyfodi* yn fuan *drachefn trwy* Edifeirwch, tu d. 276
Yn drydydd, *Y dylem ymegnio o bynny allan i dynnu ein Serchiadau oddi wrth* Brofedigaethau *y* Byd; *ac yn enwedig oddi wrth y rhai a fuont yn Achos o'n Cwymp,* —— tu d. 279
Yn bedwerydd, *Y dylem chwilio yn fanwl am y* Deffygion *sy lai, a'r Pethau* anweddus *sydd yn ein Natur; fel y bo i ni eu diwygio a'u gwellhâu mewn amser,* —— tu d. 282
Yn bummed, *Y dylem, cyn belled ag y gallom yn gyfreithlawn, fyw yng* Nghymmundeb *yr* Eglwys *o ba un yr ydym yn Aelodau,* —— —— tu d. 285
Yn chweched, *Na ddylem* gyfyngu *ein Faith mewn Credydd (o ryw Opiniwn gwâg ein bod yn dda* ddigon *eisoes) i unrhyw* Raddau *neu* Fesuron pennodol *o Ddaioni,* —— tu d. 300
Yn seithfed, *Y dylem fynych* feddwl *am ein* Marwoldeb,— tu d. 303
Yn wythfed, *Y dylem, tu ag at osod ein hunain mewn Agwedd*

yn wild da i fawr, eyddhâu ein Cydwybodau oddi wrth holl Weddillion *ein* Heuogrwydd *gynt*, —— tu d. 306
Yn nawfed, *I wneuthur* Taliad, *cyn belled ag y gallom ni, am yr Euogrwydd hynny, ni a ddylem gymmeryd Gofal i* brynu'r *Amſer a ddarfu i ni gynt gam-dreulio mewn Eſeuddpechadurus, trwy* ddyblu *ein* Diwydrwydd *yn yr Amſer o'r holl Rinweddau gwrthwyneb*, —— tu d. 309
Yn ddegfed, *Y dylem geiſio ar-ol* Sicrwydd *rheſymmol, a chwedi ei jawn ſeilio*, —— —— tu d. 312

DOSBARTH VI.

Yn cynnwys rhai Annogaethau *i berſwadio Dynion i ymarfer y Dyledſwyddau hyn o* Barhâd, *y rhai a dynner i gŷd oddi wrth Yſtyriaeth o'r Angenrheidrwydd* anhepgorol *ſydd yn gorwedd arnom i* barhâu hyd y Diwedd. *Megis*, yn gyntaf, *Oddieithr i ni* yn ſuan *wellhâu wedi* gwrthgilio *yn* ewyllyſgar, *nyni a awn yn gyflymmach o lawer* yn ôl *nag yr aethom erioed* ymlaen, —— tu d. 318, 319.
Yn ail, *Os, wedi gwneuthur rhyw Gynnydd mewn Crefydd, y bydd i ni* wrthgilio yn gyfangwbl, *fe fydd i ni trwy hynny* golli Ffrwyth *ein holl* Boen o'r blaen, tu d. 321
Yn drydydd, *Nyni a* gollwn *ei* Ffrwyth *wedi myned trwy'r Anhawſdra* mwyaf, —— —— tu d. 324
Yn bedwerydd, *Fe fydd i ni nid yn unig golli Ffrwyth ein Poen* gynt, *ond gwneuthur ein* Gwellhâd *yn fwy* peryglus, tu d. 325
Yn bummed, *Fe fydd i ni nid yn unig wneuthur ein Gwellhâd yn anhawſach* o hynny allan, *ond nyni a daflwn ein hunain* yn breſennol *i Gyflwr mwy* pechadurus *ac* euog *o lawer*, —— —— —— tu d. 328
Yn chweched, *Fe fydd i ni nid yn unig wneuthur ein hunain yn fwy euog yn breſennol, ond bwrw ein hunain i* Ddinyſtr *a ſo* ddyfnach *a mwy* ofnadwy, *os marw a wnawn yn ein Pechod*, —— —— tu d. 333

PEN.

Y TABL.

PEN. V.

Yn cynnwys rhai Cyfarwyddiadau *byrrion tu ag at* ddarllen *y Traethawd o'r blaen yn fwy lleſol*, —— tu d. 335

A hefyd Cyfarwyddiadau tu ag at jawn drin ac ymarfer ein Crefydd *mewn Modd trefnus yn yr* Yſtafell, *yn holl wahanol Gyflyrau y Fuchedd Gris'nogol*; *ynghŷd â* Ffurfiau o Weddiau yn y Dirgel, *wedi eu cymhwyſo at bob Cyflwr*, tu d. 337

Y rhai cyntaf *ydynt*, *I Gyflwr ein* Dechreuad *yn y Fuchedd Gris'nogol*, —— —— —— tu d. 338

Yr ail, *I'r Cyflwr hwnnw pan fom wedi* ymrwymo yn weithredol *ynddi*, —— —— —— tu d. 346

Y trydydd, *I Gyflwr ein* Tyfiant *a'n* Cynnydd *tu ag at Berffeithrwydd*, —— —— tu d. 357

Beiau yn y Printiad.

PAG. 17. L. 20. yn lle *anrhathawl*, dar. *anrhaethawl*.
P. 21. l. 21. yn lle *bòb*, dar. *bod*.
P. 27. l. 7. yn lle *digon Ddaioni*, dar. *digon o Ddaioni*.
P. 28. l. 33. yn lle *Râd*, dar. *Râdd*.
P. 36. l. 24. yn lle *fodd*, dar. *fod*.
P. 37. l. 35. yn lle *ambwylus*, dar. *ambwylus*.
P. 39. l. 15. yn lle *y*, dar. *yr*.
P. 62. l. 12. yn lle *Gwiberon*, dar. *Gwiberod*.
P. 65. l. 24. yn lle *ein*, dar. *i'n*.
—— l. 39. yn lle *yn eu*, dar. *yn cael eu*.
P. 68. l. 3. yn lle *ein*, dar. *eu*.
P. 74. l. 19. yn lle *byn*, dar. *byd*.
P. 81. l. 14. yn lle *er*, dar. *ar*.
—— l. 17. yn lle *boenus*, dar. *boenus*.
P. 82. l. 17. yn lle *wnelom*, dar. *welom*.
P. 87. l. 25. yn lle *ddau*, dar. *dau*.
—— l. 30. yn lle *a'i*, dar. *a'r*.
P. 89. l. 37. yn lle *yn*, dar. *yw*.
P. 93. l. 15. yn lle *i*, dar. *ni*.
P. 94. l. 29. yn lle *Aſlonydd*, dar. *Aſonydd*.
P. 110. l. 1. yn lle *di*, dar. *ni*.
P. 113. l. 36. yn lle *bwy*, dar. *bwn*.
P. 122. l. 11. yn lle *mewn Anrhydedd*, dar. *mewn Haeddiant neu Anrhydedd*.
P. 127. l. 26. yn lle *byn*, dar. *byd*.
P. 129. l. 11. yn lle *ni*, dar. *mi*.
P. 159. l. 36. ar ol *bwynt*, dod i mewn *allan*.
P. 167. l. 4. yn lle *tu at ag*, dar. *tu ag at*.
P. 171. l. 37. yn lle *Bwriadu*, dar. *Bwriadau*.
P. 173. l. 29. yn lle *Bwriadu*, dar. *Bwriadau*.
P. 175. l. 8. yn lle *Cyſryngwyr*, dar. *Cyſryngwr*.
P. 179. l. 15. yn lle *ac*, dar. *ar*.
P. 182. l. 34. yn lle *daear*, dar. *daer*.
P. 200. l. 4. yn lle *bi*, dar. *ni*.
P. 202. l. 36. yn lle *gymbwyſaf*, dar. *gynbwyſaf*.
P. 212. l. 29. yn lle *yr*, dar. *yn*.
P. 216. l. 7. yn lle *Fwriadu*, dar. *Fwriadau*.
P. 217. l. 12. ar ol *eraill*, dod, a dar. *byd ag y gallom*.
P. 218. l. 1. yn lle *am*, dar. *ac*.
—— l. 30. yn lle *bwn*, dar. *byn*.
P. 221. l. 11. tyn allan *yn*.
P. 224. l. 5. yn lle *Ffyrdd*, dar. *Fferdd*.
P. 225. l. 1. yn lle *i'r*, dar. *y*.
P. 250. l. 27. ar ol *yn*, dod i mewn *cael*.
P. 265. l. 7. yn lle *iddo*, dar. *iddi*.
P. 266. l. 39. yn lle *y*, dar. *yn*.
P. 281. l. 13. yn lle *allweg*, dar. *anallweg*.
P. 289. l. 26. yn lle *Syddwyr*, dar. *Swyddwyr*.
P. 291. l. 30. yn lle *yr*, dar. *yn*.
P. 310. l. 31. yn lle *ne*, dar. *na*.
P. 311. l. 37. yn lle *drugarhâu*, dar. *drugarhâ*.
P. 338. l. 2. yn lle *Ngbyſlwr*, dar. *Ngbyſwr*.
—— l. 17. yn lle *neiâu*, dar. *caiâu*.
P. 357. l. 18. yn lle *o fo*, dar. *a fo*.
P. 365. l. 11. yn lle *atti*, dar. *attat*.

Y

RHAGYMADRODD.

NI flinaf mo'r Darllenydd â hîr Eſgus dros fy ngwaith yn cyhoeddi y Traethawd a ganlyn, er y gallwn bledio (megis y gwnâ Awdwyr eraill) Taerder Cyfeillion, y rhai y mae gennyf fawr barch i'w barn hwy. Canys, i ddywedyd y gwir, nid wyf fi mewn unnodd yn tybied fod yn ddiberygl neu yn gymmwys i ddŷn, mewn peth o'r Natur hon, gymmeryd ei oruwchywodraethu gan annogaeth y rhai 'ny, ag y mae ganddo chos cyfiawn i ofni fod eu cyfeillgarwch yn gŵyro eu barn. Ac am hynny, oni buaſai i mi obeithio y gallaſai Papurau hyn yn y fath oes a hon (lle y mae gennym y fath olwg echrydus o bethau o'n blaen, trwy ein hymraniadau ein hunain a'n halogrwydd, mewn opiniwn ac amarfer, a dichellion uffernol ein gelynion) wneuthur rhyw lês i Grefydd ac Eneidiau Dynion, ni buaſwn byth yn llino'r bŷd â hwynt; ond, gan obeithio y gallent, myfi a nturiais, o herwydd y Rheſwm hwnnw, eu cyhoeddi hwynt.

Mi fum er ys rhai blynyddau yn bwrw golwg athriſt ar cwmmwl dû ſydd yn ymgaſglu uwch ben Gwlâd fy Ngenedigaeth; ac y mae'n rhaid i mi gyfaddef, na bûm eb fy rhan o *Ofnau* a *Chyfyngderau* 'r Oes: ond, gan fod 'r diwedd yn gwbl glâf, wrth edrych i lawr ar yr helynt ghyſſurus hon o bethau, nid oedd gennyf un ffordd arall eſmwythâu fy meddyliau gorthrymmedig, ond trwy eu yrchafu hwynt uwchlaw 'r bŷd truenus hwn, a'u groeſwi hwynt â Chyſſuron Crefydd, a'r Gobaith am Gyflwr

gwell tu hwnt i'r bedd; lle y cefais (i Dduw bo'r diolch) y fath orphwysfa a boddlonrwydd meddwl, ag a wnaeth yn hawdd i mi ddioddef yr ofnau duaf oedd ynnof, rhag i dymmeſtl ganlyn. Ac yn awr, o herwydd na fynnwn fwytta fy nhammaid wrthyf fy hun, a mwynhâu fy moddlondeb i'm fy hun, mi a geiſiais, trwy y Traethawd a ganlyn ynghylch y Nefoedd, a'r ffordd yno, i dorri a rhannu fy nhammaid ym mhlith fy nghymmydogion anghenus; fel, trwy ddwyn eu meddyliau oddi wrth y diſgwyliadau echrydus hyn i'r Gwledydd llonydd a happus hynny oddi uchod, a chyfarwyddo eu bucheddau a'u gweithredoedd yno, y gallwn gyfrannu iddynt y Gelfyddyd ſendigedig, pa ſodd i fyw yn ddedwydd mewn byd gwallbwyllog. Ac mi dybiwn, pan y mae'n cyflwr preſennol mor ddyrys ac anſicr, y dylai fod gennym ofal mawr dros ben i ſicrhâu rhyw beth, a pharottôi dros ein Happuſrwydd yn ôl llaw, fel na bom druenus yn y ddau fŷd. Am y Teſtyn a gymmerais, mi allaf yn hŷ ddywedyd, mai un mawr a godidog ydyw: y *Fuchedd Gris'nogol* ydyw; yr hon, yn neſaf at Fuchedd yr Angelion, ſydd yn dyfod yn agoſaf at Fuchedd Duw. Ond am y driniaeth a gafodd, y cwbl ag allaf fi ddywedyd ydyw hyn; i mi oſod fy meddyliau a'm medr goreu ar waith yn ei gylch: ac os wedi hyn y darfu i mi yn un lle wneuthur cam â'r Teſtyn mawr hwn, neu ffaelu â'i jawn ddarlunio, fy annedwyddwch i ydyw yn fwy nâ'm bai. Fe dybier, yſgatfydd, i mi yn y tair Pennod gyntaf ſiarad yn ddyfnach nag yw gymmwys mewn Llyfr a amcanwyd er llês ac adeiladaeth gyffredin; ond pan yſtyrio'r darllenydd natur y rheſymmau a driniais i yno, a pha mor angenrheidiol oeddent at fy niben, yſgatfydd efe a wêl na's gallaſwn ochelyd hynny. Ac etto nid wyf yn ammau, na's gall y darllenydd gwannaf, gyd ag ychydig o ddiwydrwydd a meddwl aſtud, ddyall rheſwm pennaf a thyſtiolaeth yr hyn wyf yn amcanu.

Yn y lle cyntaf, mi dybiais y byddai yn angenrheidiol, wrth sôn am y *Fuchedd Gris'nogol*, i roi rhyw hanes o'r *Diben* bendigedig y mae hi yn gyfeirio atto; fel y gallem, oddi wrth natur y Diben, farnu yn well ynghylch angenrheidrwydd a llês y *Moddion* hynny y mae Cris'nogaeth yn orchymyn

orchymyn tu ag at ei gyrraedd. A hynny a geisiais i wneuthur yn y *Bennod gyntaf*; lle y darfu i mi yn unig eglurhâu natur y Cyfiwr a'r Dedwyddwch nefol, cyn belled ag yr oedd yn angenrheidiol i roddi goleuni a chyfarwyddyd i ni trwy y Llyfr hwn.

Yn yr ail lle, mi fernais y byddai gymmwys rhoddi rhyw hanes gyffredinol, pa ryw Foddion fydd angenrheidiol i ni tu ag at gyrraedd y *Diben* hwn; fel y gallem, trwy hynny, weled mor angenrhaid yw'r Rhannau *pennaf* a'r Rhannau *offerynnol* o'r *Fuchedd Gris'nogol* at ein Dedwyddwch tragywyddol. A hyn a geisiais wneuthur yn yr *ail Bennod*: lle, wrth ystyried y mawr bellder fydd rhwng Cyflwr pur bendigedig y Nefoedd, a chyflwr llygredig y natur ddynol fydd wedi dirywio, y ceisiais ddangos, fod nid yn unig yn angenrhaid i ni ymarfer a chyrraedd y Rhinweddau Cris'nogol hynny, yn mherffeithrwydd pa rai y mae'r Gwynfyd nefol yn sefyll; ond fod amryw Ddyledswyddau offerynnol eraill yn gwbl angenrheidiol i'n cynnorthwyo ni i'w hymarfer, eu cyrraedd, a'u cynnyddu: a'r Dyledswyddau hynny, fel y dangosais yno, ni thalant ddim mewn Crefydd, ond fel y maent yn *Foddion* o Rinwedd a Duwioldeb.

A chwedi rhannu'r Moddion fel hyn i'w hlawn Rywiau a'u Trefn, mi soniais yn helaeth yn y *drydydd Bennod* am y Rhyw gyntaf; sef, Ymarfer y *Rhinweddau Cris'nogol*: lle'r wyf yn cyfaddef, na ddarfu i mi drin y Rhinweddau neillduol yn eu llawn helaethrwydd, na'u cefnogi â'u holl resymmau moesol; gan fod hynny wedi ei wneuthur eisoes yn rhagorol yn y ddau Lyfr anghyffelyb hynny, *Buchedd a Marwolaeth Sanctaidd*, a *Holl Ddyledswydd Dyn*. Ac ni's gallaswn chwaith ei wneuthur, heb chwyddo'r Llyfr hwn (fydd yn ddigon mawr eisoes) i ormod o faintioli i'r cyfredin. Ac yn wir y cwbl ag oedd angenrhaid i'm pwrpas i, ydoedd yn unig eglurο natur pob Rhinwedd neillduol, cyn belled ag y gallai'r darllenydd ddyall beth yw u hystyr hwynt; ond yr hyn oedd fwyaf yn perthyn i ni, yn ôl fy Amcan pennaf, ydoedd, profi fod yr Ymarfer o bob Rhinwedd yn Rhan *hanfodol* o'r *Fuchedd Gris'nogol*, ac yn Foddion angenrheidiol i gyrraedd ei Diben

bendigedig hi. Ac yn ganlynol, fel y dangoſais, oddi wrth eglur Orchymynion ein Crefydd, ein Rhwymedigaethau anhepgorol i ymarfer pob Rhinwedd; felly y ceiſiais ddangos pa fodd yr ydym, trwy'r ymarfer o Rinwedd, yn naturiol yn cynnyddu i fynu at y Cyflwr nefol; megis, o'r gwrthwyneb, pa fodd yr ydym, trwy yrfa o fywyd pechadurus, bob yn ychydig, trwy effaith angenrheidiol, yn ſuddo ein hunain i gyflwr y rhai damnedig. Canys mi brofais yn helaeth, fod rhyw beth o Nef ac Uffern yng wir natur pob Rhinwedd a Bai neillduol, ac mai ym mherffeithrwydd y ddau *Gynneddf* wrthwynebol hyn y mae *Dedwyddwch* a *Thrueni* pennaf y ddau *Gyflwr* wrthwynebol hynny yn ſefyll. Ac oddi yma y canlyn yn angenrheidiol, mai megis yr ydym ni wrth ymarfer da neu ddrwg yn cynnyddu yn fwy daionus neu yn fwy pechadurus; felly yn gyfattebol yr ydym yn dyrchafu tu a'r Nefoedd, neu yn ſuddo i lawr tu ag Uffern, yn ôl gogwyddiad tynghedfenol natur. Y mae nid yn unig y rhan fwyaf o'r *Yſgrifenwyr Cris'nogol* yn cyfaddef y Gwirionedd hwn, ond hefyd y goreu a'r doethaf o'r *Philoſophyddion Paganaidd*; er mai dyma'r Cynnyg cyntaf, wi'n dybied, a wnaed i dynnu Cyflwr y Nefoedd a Chyflwr Uffern oddi wrth natur y Rhinweddau a'r Beiau neillduol. Mi attolygaf i Dduw, a'r i'r hyn a ddywedais ymrwymo rhyw un mwy medrus i ganlyn y Teſtyn rhagorol hwn ym mhellach. Canys ni wn i am ddim yn y byd allo fod yn fwy effeithiol i ymrwymo dynion *yngrym* Crefydd, i fwrw heibio *Ragrith* a *Ffurfioldeb*, pob Gobaith *rhyfygus* a *gau* Hyder, nag iddynt gwbl-gredu'r Gwirionedd hwn; Fod *Dedwyddwch* neu *Drueni* tragywyddol Eneidiau wedi ei ſeilio yn eu *Rhinwedd* neu eu *Drygioni*; a bod cyffylltiad mor anwahanol rhwng *Grâs* a *Gogoniant*, *Pechod* ac *Uffern*, ag fydd rhwng *Tân* a *Gwrês*, *Rhew* ac *Oerfel*, neu un *Achos* angenrheidiol arall a'i *Effaith*. Canys pe baent yn cwbl goelio hyn, hwy allent yn hawdd weled pa ffolineb toſt ydyw, meddwl myned i'r Nefoedd, neu ddiangc Uffern, tra y maent yn parhâu mewn unrhyw anufudd-dod ewyllyſgar i Gyfreithiau Duw.

Wedi

Wedi sôn fel hyn yn helaeth am y fath gyntaf o Foddion i gyrraedd Diben ein *Buchedd Gris'nogol*, yr wyf yn myned ymlaen, yn y *bedwerydd Bennod*, yr hon yw'r hwyaf oll, i roi hanes o'r ail fath, *sef*, *Dyledswyddau offerynnol* Cris'nogaeth, y rhai a orchymyner i ni fel Moddion gwasanaethgar i ymarfer, cyrraedd, a chynnyddu y *Rhinweddau nefol* hynny, yn y Perffeithrwydd o ba rai y mae ein Dedwyddwch pennaf yn sefyll. A thu ag at drîn y rhai'n yn eglurach, mi ystyriais ddynion mewn *tri math* o gyflwr o ran y *Fuchedd Gris'nogol*. Yn gyntaf, megis yn dechreu arni; yn ail, megis wedi ymrwymo ynddi; yn drydydd, megis yn eu perffeithio a'u cynnyddu eu hunain trwy *Barhâd* ynddi: ac mi a gymhwysais at bob un o honynt y fath *Ddyledswyddau offerynnol* ag wyf fi yn farnu fod yn fwy *enwedigol* yn perthyn iddynt. Mae'n wir, nad yw rhai o'r Dyledswyddau a grybwyllir am danynt yma yn *hollol* offerynnol, ond o natur gymmysgedig; megis *Ffydd*, *Gweddi*, *Cyssegriad o'n Gweithredoedd da i DDUW*, &c. y rhai ydynt Rannau *hanfodol* o Addoliad Duw, ac fel y cyfryw, yn perthyn i'r *Rhinweddau duwiol* hynny, y Perffeithrwydd o ba rai sy'n gwneuthur y Rhan bennaf o Ddedwyddwch tragywyddol Eneidiau. Ond yma myfi a'u hystyriais hwy yn unig fel Moddion ac Offerynnau, yn yr arfer o ba rai y mae i ni gyrraedd a pherffeithio y Rhinweddau hynny a'n gwnânt ni yn wynfydedig. Ac nid wyf yn cofio am un peth neillduol yn cael ei orchymyn yn yr Ysgrythur Lân mewn perthynas i'r fath hyn o Foddion, na soniwyd yma am dano. Mi fum yn wir yn fyrrach o lawer ar rai o honynt nag eraill, o herwydd fod Llyfrau ymarferol eraill wedi sefyll yn helaeth arnynt eisoes; ac yn enwedig y ddau Lyfr rhagorol a enwais i: ond myfi a dybiais fy hun yn rhwym i sefyll yn helaethach ar y *Moddion* hynny na chymmerasant hwy ddim fulw o honynt, neu y rhai a ddarfu iddynt redeg yn ysgafn drostynt.


Oddi wrth y cwbl mi chwennychwn orchymyn i'r Darllenydd duwiol ystyried, mor rhyfedd y mae'r Rhan ymarferol o'r Grefydd Gris'nogol wedi ei gwneuthur i fynu a'i lluniaethu; yr hon, wedi gosod o'n blaen Ddiben mor fawr a goruchel, a chystal yn haeddu i ni ei ganlyn â'n

hegni mwyaf, a roddodd i ni hefyd y fath *Foddion* dewiſol ac effeithiol o bob math i 'w gyrraedd. Yſtyried hyn a fyddai ynddo ei hun yn Annogaeth fawr i mi i gredu fod y Grefydd Gris'nogol o Dduw, er pe na wypwn i ddim am ei Thyſtiolaeth hi oddi allan, a 'r Annogaethau ſydd yn ei gwneuthur hi yn gredadwy. Canys ni allaf fi byth ddyall y gallai y fath Ddychymmyg cywrain rhagorol i wneud dynion yn ddaionus ac yn happus, byth gael ei ddechreuad yn unig oddi wrth yr hyn a lyfelodd *Mab i Saer* ac ychydig o *Byſgodwyr* anllythyrennog; yn enwedig, os yſtyriwn ni pa mor belled y mae hi yn rhagori hyd yn oed ar Orchymynion moeſol y Philoſophyddion duwiol hynny, y rhai oeddynt yn credu cyflwr ar ôl hwn o Anfarwoldeb bendigedig, ac yn ymarfer eu ſynwyr goreu i roi Rheolau i arwain a chyfarwyddo dynion yno.

A chwedi ſefyll yn helaeth ar *Ddyledſwyddau offerynnol* y *Fuchedd Gris'nogol*, a chefnogi hefyd yr amryw Rannau o honynt â Rheſymmau ac Annogaethau cymmwys, mi chwanegais y bummed Bennod; lle y rhoddais rai Rheolau er darllain yn fwy buddiol y Traethawd ymarferol hwn, a hefyd rhai Cyfarwyddiadau cyffredinol er ymarfer Crefydd yn y dirgel yn holl amrywiol Gyflyrau y *Fuchedd Gris'nogol*, ynghyd â rhai *Ffurfiau* o *Weddiau yn y dirgel* wedi eu cymhwyſo at bob cyflwr. Yma fe ddarfu i mi *fuppoſo* y peth wyf yn ofni ſydd wirionedd tra galarus; *ſef*, fod y rhan fwyaf o Gris'nogion, wedi cymmeryd arnynt y Broffes gyhoeddus o 'r Grefydd Gris'nogol mewn Bedydd, mor annedwydd, a chael eu hudo, naill ai trwy eſampl neu ddyſg drwg, i fuchedd annuwiol; ac am hynny, mai *oddi yno* y rhaid iddynt gymmeryd eu dechreuad cyntaf i 'r cwbl ymarfer o Grefydd. Nid wyf er hyn yn ammau, nad oes llawer o Gris'nogion rhagorol, y rhai, trwy Fendith Duw ar eu Dygiad duwiol i fynu, a gadwyd yn ddiogel rhag yr aflwydd hwn, ac a hyfforddiwyd o'u mebyd dan ddwys deimlad o Dduw a Chrefydd: ac am hynny, megis nad rhaid i 'r cyfryw a 'r rhai 'n wrth y Drefn arbennig o Edifeirwch a oſodir ar lawr yn y *Rhanniad cyntaf* o 'r *bedwerydd Bennod*; felly nid rhaid iddynt chwaith wrth y Gweddiau edifeiriol cyntaf hynny yn y bummed Bennod,

y rhai

y rhai ſydd wedi eu cymhwyſo at y Cyflwr hwnnw. Canys ſe ddarfu i'r dynion hyn, er ys hîr amſer, ymrwymo yn y Fuchedd Gris'nogol, ac, ſel y gellir bwrw, gwneud cryn gynnydd ynddi: ac am hynny, megis mai Dyledſwyddau yr ail a'r trydydd Cyflwr o'r Fuchedd Gris'nogol ſydd yn unig yn perthyn iddynt hwy, felly y Gweddiau a gymhwyſwyd i'r Cyflyrau hynny ſydd iddynt hwy yn unig eu harfer; y rhai, gyd â rhyw gyfnewid o'r geiriau hynny, ſydd yn bwrw ſod y rhan a aeth heibio o'n bywyd yn ddrygionus, a allant yn hawdd gymhwyſo at eu cyflwr eu hun. Ond amcan y Traethawd hwn ydyw, nid yn unig arwain y rhai'ny ymlaen ar eu Ffordd y rhai ſy wedi dechreu eiſoes ar y Fuchedd Gris'nogol, ond hefyd i ddwyn y rhai'n yn ôl iddi, y rhai fuont mor annedwydd a chrwydro i ffyrdd drwg; neu yn hytrach, er y gwaſanaetha efe y ddau ddiben, y mae wedi ei gwbl amcanu i'r unrhyw ddynion; *ſef*, i geiſio a dwyn yn ôl y Defaid colledig hynny y rhai a grwydraſant o Lwybrau Duwioldeb a Rhinwedd Gris'nogol, ac yna i'w harwain hwy ymlaen trwy'r holl Ffordd i'r Cyflwr dedwydd o Ddigrifwch anfarwol ar ddiwedd eu taith. Ac yn awr, os bydd i'r hyn a ddywedwyd, trwy Fendith Duw, gael Effaith da ar un dŷn, nid wyf yn ceiſio un taliad am yr holl boen a goſtiodd i mi, ond ei daer Weddi ar Dduw droſof, na bo i mi, wedi gwneuthur fy ngoreu i'w arwain a'i gyfarwyddo ef i'r Nefoedd, ddyfod yn fyr o honi fy hun.





AM Y FUCHEDD GRIS'NOGOL.

PEN. I.

Ynghylch Diben olaf y Fuchedd Gris'nogol.

CYN y dyallom beth yw Natur, Defnydd, a Godidowgrwydd unrhyw *Foddion*, rhaid fod gennym uniawn a chywir Wybodaeth o'r *Dibenion* priodol hynny ſydd i'w cyrraedd trwyddynt. Canys y mae eu Natur hwynt, fel y maent yn *Foddion*, yn ſefyll yn eu Gwaſaeth at ryw *Ddiben*; ond rhaid dyſgu at ba beth neillduol maent yn waſanaethgar oddi wrth Natur y Dibenion eillduol hynny at gyrraedd pa rai y maent. Ac am hynny, es gwypom beth yw'r *Dibenion* neillduol hynny, y mae'n ammhoſſilb

ammhoſſibl i ni wybod pa un a'u bod hwy yn *Foddion* neu beidio; neu, yr hyn yw'r un peth, pa un a'u bod hwy yn waſanaethgar i unrhyw *Ddiben* neu *Bwrpas*.

Gan mai Amcan y Gwaith hwn gan hynny ydyw eglurhâu Natur y *Fuchedd Gris'nogol*, rhaid yw i ni sôn (cyn y gallom wneuthur y ffordd yn amlwg o'n blaen) am y *Diben* bendigedig a amcenir trwyddi; yr hyn a helpa lawer arnom i jawn ddyall mawr Fûdd a Gwaſanaethgarwch pob Rhan o honi at hynny. Am hynny,

I. Myfi a geiſiaf ddangos, beth yw *Diben* priodol y *Fuchedd Gris'nogol*.

II. Ym mha beth y mae gwir Natur y *Diben* hwn yn ſefyll.

I. Am *Ddiben* y *Fuchedd Gris'nogol*, y mae'r Yſgrythur yn ſicrhâu i ni, nad ydyw ddim arall ond y Neſoedd ei hun; y Cyflwr hwnnw o Wynfyd a Dedwyddwch diddiwedd a barottôdd Duw yn y Byd arall, i ederbyn pawb o'r rhai'ny, *y rhai, trwy ddyfal bara yn gwneuthur Daioni, ydynt yn ceiſio Gogoniant, ac Anrhydedd, ac Anllygredigaeth.* Mae'n eglur mai hyn yw *Diben* y *Bywyd Cris'nogol*, o herwydd fod ein Jachawdwr a'i Apoſtolion ym mhob man yn ei oſod ef o'n blaen ni, fel Daioni pennaf y Criſtion, a'r Annogaeth fwyaf i ni gyflawni pob Rhinweddau Cris'nogol. Canys felly y dywaid S. *Joan*, Cyfaill mynweſol ein Jachawdwr, mai *hon yw'r Addewid a addawodd Criſt i ni*; *ſef Bywyd tragywyddol*, 1 Joan ii. 25. Ac os edrychwn yn Efengyl S. *Joan*, yr hwn a oſododd i lawr Bregethau ac Ymadroddion ein Jachawdwr yn helaethach nag un Efangylwr arall, nyni a gawn ei weled ef ym mhob man yno yn cynnyg *Bywyd tragywyddol*, fel yr Addewid ragorol oedd i annog a pherſwadio dynion i broffeſu ac ymarfer Cris'nogaeth. Canys felly y mae'n Jachawdwr yn ei oſod ef o'n blaen ni, *Joan* iv. 36. fel Cynhauaf y Criſtion, am yr hyn y dylai ein holl ofal a'n hegni ni fod, fel y llafurwr yn hau ac yn aredig: *Yr hwn ſy'n medi, ſy'n derbyn cyflog, ac yn caſglu ffrwyth i Fywyd tragywyddol.* Ac

yn

gyttunol â hyn y mae S. *Paul* yn dywedyd wrthym, *yr hwn ſydd yn hau i'r Yſpryd, o'r Yſpryd yn medi Bywyd tragywyddol*, Gal. vi. 8. A thyma'r Wobr fawr, fel y waid ein Jachawdwr wrthym, y mae efe yn roi i bawb ſydd yn ei wrando ac yn ei ganlyn ef, *Joan* x. 27, 28. thyma'r Annogaeth fawr y mae efe ym mhob man yn yll arni, fod gan yr hwn ſydd yn credu *Fywyd tragyddol*; a phwy bynnag ſydd yn gwrando ei Air ef, fod nddo *Fywyd tragywyddol*, a bod ei Orchymyn ef yn *Fywyd agywyddol*. Ac fe ddywedir yn eglur, *Rhuf.* vi. 22. os *dd ein ffrwyth i Sanctteiddrwydd*, y bydd ein diwedd yn *wyd tragywyddol*; ac fe orchymynner i ni gyfarwyddo ein veithredoedd at hynny, i *gredu yng Nghriſt i Fywyd tragyddol*, 1 Tim. i. 16. i wneuthur Daioni, i'r Diben hyn, l y *daliom afael ar y Bywyd tragywyddol*, 1 Tim. vi. 18, 9. *i edrych ar Jeſu, Pentywyſog a Pherffeithydd ein Ffydd , yr hwn yn lle y llawenydd a oſodwyd iddo, a ddioddefodd groes*, &c. *Heb.* xii. 2. Ac am hynny y dywedir, mai'r efoedd yw y *Ganaan* Gris'nogol, at ba un y dylai ein oll gerddediad ni fod, tra fôm yn trafaelu trwy'r byd wn, *Heb.* xi. 14, 15, 16. Ac y mae holl ſywyd y Criſtion n cael ei oſod allan trwy ei cheiſio hi, *Math.* vi. 33. *Heb.* iii. 14. *Col.* iii. 1. Ac fe ddywedir fod y *Criſtion*, ar diwedd ei yrfa, mor ſicr o'r Goron *anllygredig*, ag oedd rhai 'ny ymhlith y *Rhufeiniaid*, oedd yn rhedeg am go- nau *llygredig*, yn niwedd eu rhedfa, yn ſicr o'r rhai 'ny, *Cor.* ix. 25. Canys i *Ogoniant tragywyddol* y'n *galwyd*, Pedr v. 10. 2 Theſ. ii. 14. Ac ar ein gwaith yn cyf- wni yr holl Ddyledſwydd honno i ba un y'n *galwyd*, y hae i ni *edrych* am y *Gobaith bendigedig* hwn, ſel ein *Diben* awr a'n *Hannogaeth*, Tit. ii. 13.

Mi ſefais yn helaethach ar y Peth hyn, o herwydd fod awer o ddynion mewn camgymmeriad mawr yn y Matter ma; ſef, mai *Gogoniant Duw* yw *unig Ddiben* pennaf y riſtion, a bod hwn yn *Ddiben* gwahanol oddi wrth y *efoedd*. Y mae'r peth cyntaf, 'rwi 'n cyfaddef, yn ddi- on gwir; ond yr olaf yn gwbl *anwir*. Mai *Gogoniant DUW* yw Diben pennaf y Criſtion, ſydd amlwg oddi wrth lleoedd hynny o'r Yſgrythur ag ſydd yn gorchymyn i

ni

ni *wneuthur pob peth er Gogoniant i DDUW*, 1 Cor. x. 31. ac ſydd yn gwneuthur *Gogoniant DUW* i fod y Fan lle mae holl *Ffrwythau Cyfiawnder* yn cydgyfarfod, *Phil.* i. 11. y rhai ſydd yn cynnyg hyn fel *Diben* ein holl Gyflawniadau Crefyddol, *i DDUW ym mhob peth gael ei ogoneddu*, 1 Pedr iv. 11. ac ſydd yn haeru, mai i'r Diben hyn y'n dewiſwyd i fod yn Gris'nogion, fel y byddem er *Mawl i'w Ogoniant ef*, Eph. i. 12. Ond y mae mor amlwg, nad yw Gogoniant Duw yn Ddiben gwahanol oddi wrth ein mwynhâd o Ddedwyddwch y Nefoedd; o ran nad yw'r Gogoniant hwn yn ſefyll mewn dim ag allwn ni chwanegu atto ef, yr hwn y mae ei Ogoniant hanfodol mor anfeſurol a diogel, nad oes dim a'r a allwn ni wneuthur a ddichon ei gynnyddu neu ei leihâu; ac nid oes dim Gogoniant arall all efe gael oddi wrth un peth oddi allan, ond yr hyn y mae llewyrch ei Byſt diſglair naturiol ef yn daro yn ôl. Y mae efe yn ei ddyall ei hun yn rhy dda, i'w briſio ei hun yn fwy neu yn llai o ran mawl neu anglod ei greaduriaid. Canys y mae efe yn ddigon o chwarae-le a drych iddo ei hun, a chanddo'r un Boddlondeb oddi wrth ei *Ogoniant* ei hun ynghanol holl grôch *Gabledd Ufforn*, yn gyſtal ag ym mhlith tragywyddol *Haleliwia* y *Nefoedd*. A'r peth felly, ni ellir bwrw y gorchymynai efe i ni ei foliannu a'i glodfori ef er mwyn dim llês neu fantais ag allai ddyfod iddo ef oddi wrth hynny, neu o ran dim hyfrydwch arall ag y mae efe yn gymmeryd wrth ein clywed ni yn ei foli a'i ganmol ef, yn fwy nag mewn un weithred arall ag ſydd hardd a rheſymmol yn ei natur ei hun: ond *am hynny* y myn efe i ni ei foliannu ef, o herwydd y gŵyr efe y bydd hynny er ein llês ni, ac y gwnâ hynny yn fawr, fel y mae yn weithred dra rheſymmol, tu ag at berffeithrwydd a dedwyddwch ein natur reſymmol; o herwydd ein bod, wrth ei foliannu ef, yn naturiol yn cael ein cyffrôi i'w ganlyn ef, ac i argraphu ar ein natur *ein hunain* y Priodoliaethau clodfawr hynny, ydym ni gymmaint yn ryfeddu ac yn fawrygu yn ei Natur *ef*: fel mai gogoneddu Duw yn ôl ei Amcan ei hun, ydyw canlyn ar ôl ein Perffeithrwydd a'n Dedwyddwch ein hunain, yr hwn nid yw yn gofyn i ni ei ogoneddu *ef* i un Diben arall,

ll, ond fel y gallom trwy hynny ein gogoneddu *ein*
nain. Ac yn wir, Gogoniant Duw ydyw ein Ded-
ddwch *ni*, megis y mae *pob Ffrwythau* teilwng eraill yn
goniant i'w *Hachoſion.* *Eſe* ſydd yn rhoddi Dedwydd-
ch, ac am hynny *eſe* ſydd yn cael ei ogoneddu trwyddo.
d yw ddim arall ond Diſgleirdeb ei Ddaioni Hollalluog
ei hun, neu ei Byſt diſglair ef, yn tannu allan ac yn
wyrchu yn ôl arno ef ei hun. Ac am hynny yr ydym
yn ceiſio Gogoniant Duw yn gymmwys, fel y mae *eſe*
bun yn gwneuthur, pan yr ydym yn ceiſio bod mor
edwydd ag y mynnai efe i ni fod; hynny yw, pan yr
ym yn ceiſio'r Nefoedd, ac yn cyd-weithio â'i anfeidrol
daioni ef, Amcan mawr pa un ydyw, ein dyrchafu ni
Cyflwr bendigedig hwnnw, ym mha un y cawn ei ogo-
ddu ef yn dragywydd, a bod yn goffadwriaethau o'i
daioni tra helaeth ef byth bythoedd. Fel nad pa un
r *Nefoedd* neu *Ogoniant DUW* a alwom ni ein Diben pen-
f, nid ydynt ond yr un peth; o herwydd trwy gyrraedd
Nefoedd, y cawn ni ogoneddu Duw yn ôl ei Fwriad
i Amcan ef ei hun. Ac yr wyf yn tybied fod hyn yn
ligon i ddangos, beth yw gwir *Ddiben* pennaf y *Fuchedd*
ris'nogol. Ond yna,

II. Rhaid etto ym mhellach, tu ag at egluro y Ffordd
Amcan ſy gennym mewn llaw, i ni ymofyn, pa *fath*
dedwyddwch yw hwn; a phan ddyallom hyn, gallwn
irnad yn well pa *Ddyledſwyddau* neu *Foddion* ſy angen-
eidiol i'w gyrraedd ef. A'r holiad hwn a attebir yn
wdd, trwy yſtyried natur y rhai 'ny i ba rai y parot-
wyd ac yr amcanwyd ef. Canys y mae pob *Dedwydd-*
ch yn ſefyll yn yr *Ymarfer rhŷdd* a *bywieg* o Swydd-
nheddfau natur, ynghylch gwrthddrychon ag ſydd yn
weddu iddynt. Y mae math o Ddedwyddwch yn wir
d yw ddim arall ond llonyddwch neu rydd-did oddi
rth boen a thrueni; ac nid yw hwn yn ſefyll gymmaint
yr *Ymarfer*, ag ydyw yng *Ngorphwyſfa* a *Llonyddwch* y
ydd-gynheddfau. Ac yn hyn yr oedd yr *Epicureaid*
bethus ſegurllyd yn goſod holl Ddedwyddwch dŷn: ac
byddent mewn llawer o gamgymmeriad yn hyn, 'rwi'n
faddef, pe na b'ai un Dedwyddwch yn perthyn i ddŷn

tu

tu hwnt i'r un corphorol, chawdol hwnnw, yn mha un yr oedd Diſgyblion *y Philoſophydd diddaw* hwnnw yn goſod eu Daioni pennaf. Canys yn wir nid yw y rhan fwyaf o hyfrydwch y ſynhwyrau ddim ond *peidio* bod yn druenus, ac yſpaid byr o ymgadw rhag gofidiau a blinderau bywyd greſynus. Canys beth arall yw ein *heſmwythder* a'n *gorphwyſfa*, ond yn unig ſymmud ein *poen* a'n *deffygio*? y rhai pan ſymmuder hwynt, y mae'r hyfrydwch yn fuan yn darfod; ac yna yr ydym yn blino drachefn ar ein *gorphwyſfa* a'n *heſmwythder*, nes i *boen* a *diffygio* ddychwelyd a'u melyſu hwynt, a rhoddi blâs o'r newydd iddynt. Canys pan yr ydym yn blino *gorphwys*, yr ydym yn gorfod difyrru ein hunain â *gweithio*; a phan yr ydym yn blino *gweithio*, yr ydym yn llonni ein hunain wrth *orphwys*; ac felly oddi amgylch drachefn yn yr un cylch. Felly y mae y rhan fwyaf o'r hyfrydwch wrth *fwyta* ac *yfed* yn ſefyll yn ein gwaith ni yn llonyddu y poen o *newyn* a *ſyched*. Canys wedi darfod hyn, chwi welwch fod y pleſer yn darfod; ac hyd nes dychwelo drachefn, nid yw pob tammaid a gymmerir, ond llwyth o'r newydd i gylla ſydd eiſoes wedi blino. Felly, yn fyr, nid yw y rhan fwyaf o *ddedwyddwch y ſynhwyrau* yr hyn ydym ni yma yn fwynhâu, ddim arall ond attaliad byr o *boenau* ac *aneſmwythderau* bywyd truenus. Ond pe na bai un Dedwyddwch arall yn perthyn i ddŷn, ond yr hyn ſydd yn ſefyll mewn annheimladrwydd o *drueni*, fe fyddai yn beth mwy dymunol i fod yn *garreg* nâ bod yn ddŷn; a'r unig ffordd iddo fod yn berffaith ddedwydd, fyddai ei ddifuddio ei hun o bob teimlad a ſynwyr.

Mae'n wir, na allwn ni byth fwynhâu Dedwyddwch yn berffaith, heb *eſmwythâd* perffaith, a bod heb *deimlo poen*; gan fod yn ammhoſſibl i ni gael *teimlad perffaith* o un peth, tra'r ydym yn y meſur lleiaf yn teimlo yr hyn ſy *wrthwyneb* iddo. Ond pe na bae *Dedwyddwch* ddim arall ond bod heb *deimlo trueni*, ni byddai ynddo ddim *bôd gwirioneddus* o'r eiddo ei hun; yr hyn ſy gwbl wrthwyneb i broſiad pob dŷn. Canys yr ydym yn eglur yn teimlo, fod yn ein Dedwyddwch nid yn unig *orphwyſfa* oddi wrth *ddrwg*, ond *ſymmudiad hyfryd* at *dda*; ac fel y

mae

mae ein *poen* a'n *trueni* ni yn ſefyll mewn *teimlad llym* o'r cyfryw bethau ag ſydd fwyaf anhyfryd i'n natur, felly y mae *pleſer* neu *foddlonrwydd* yn ſefyll mewn *teimlad bywiog* o'r hyn ſy wrthwyneb. Fel y mae, heblaw *peidio bod yn drwenus* (yr hyn nid yw mor briodol yn *rhan hanfodol* o Ddedwyddwch ag yw yn *gymhwyſiad* angenrheidiol i hynny, heb ba un ni all pwerau ein natur gael blâs na theimlad o hono) *Ddedwyddwch gwir ſylweddol*, yr hwn ſydd yn ſefyll (fel y dywedais o'r blaen) mewn *ymarfer rhŷdd, gwaſtadol, a bywiog* o bwerau'r enaid ynghylch y fath wrthddrychon ag ſydd gymhwyſaf a mwyaf gweddus i'w naturiaethau. Canys y mae *Dedwyddwch* yn gyffredinol yn cynnwys *Perffeithrwydd* a *Hyfrydwch*; a rhaid fod pob un o'r rhai'n yn gymhwyſedig yn y *fath* ymarfer o bwerau'r enaid. Canys y *pryd hunnw* y mae pwerau'r enaid yn *berffaith*, pan y maent yn cael eu goſod ar waith yn *rhŷdd, yn oeſtadol*, ac *yn fywiog* ynghylch y fath wrthddrychon ag ſydd fwyaf cyttunol â'u hamryw naturiaethau; pan y maent wedi gwellhâu oddi wrth bob *anhwyl*, pa un ai *naturiol* a'i *nioeſol* a fo, at y jawn ſymmudiadau a'r ymarferion o herwydd pa rai y gwnaed hwynt; ac y bônt yn rhŷdd, yn waſtadol, ac yn ddirwyſtr yn cyfarwyddo eu holl gamrau tu ag at y gwrthddrychon lle y gallont orphwys yn naturiol. A thyma'r *pryd* hefyd y mae pwerau'r enaid yn cael fwyaf o *hyfrydwch*, pan y maent yn cael eu hymarfer yn dra bywiog ynghylch y peth ſy fwyaf gweddus iddynt; nid yn unig pan y troer hwynt at y fath wrthddrychon ag ſydd fwyaf cyttunol â'u natur, ond hefyd pan y maent yn gweithio arnynt ac yn ymoſod tu ag attynt gyd â'r *egni* a'r *bywiogrwydd* mwyaf.

Mi fernais yn gymmwys i ragfynegi y pethau hyn ynghylch *Dedwyddwch yn gyffredinol*, gan eu bod yn angenrheidiol jawn i roi arteb eglurach i'r holiad preſennol; *ſef*, Ym mha beth y mae *Nefoedd* neu *Ddedwyddwch dyn* yn ſefyll? Yn fyr, gan hynny, y mae gwir *Nefoedd* a *Dedwyddwch dyn*, o'i yſtyried ef fel *creadur rheſymmol*, yn ſefyll yn yr ymarfer *gwaſtadol, rhŷdd, a bywiog* o bwerau ei enaid ynghylch y fath wrthddrychon ag ſydd fwyaf

gweddus

gweddus i'w *natur reſymmol*; yr hon, gan ei bod wedi ei gwneuthur i fynu yn llwyr-gwbl o *ddyall*, ac *ewyllys*, hynny yw, pwer i *adnabod*, a phwer i *ddewis*, y gwrthddrychon mwyaf gweddus iddi ydynt y cyfryw ag ſydd fwyaf teilwng i'w *hadnabod*, a mwyaf teilwng i'w *dewis*. Pan y mae'r *dyall* gan hynny yn waſtadol yn cael ei ymarferu yn *fywiog* i weled a chanfod y *Gwirioneddau* mwyaf gogoneddus a rhagorol, a'r *ewyllys* yn waſtad ar waith yn *fywiog* i ddewis a chofleidio y *pethau da* mwyaf dymunol, dyna'r pryd y mae'r holl natur reſymmol yn *ddedwydd*. Yn awr, os bwriwch olwg yn eich meddyliau ar bob peth ag y ſydd, chwi ganfyddwch yn fuan, nad oes dim yn haeddu ei *adnabod* a'i *ddewis* cyſtal a Duw; yr hwn, gan fod ei Allu yn Ffynnon pob *Gwirionedd*, hynny yw, pob peth ag *ſydd*, neu *ſydd boſſibl*, a'i Natur yn cynnwys pob *Perffeithrwydd rheſymmol*, lle mae efe yn wreiddiol yn tario, ac o ba le y mae yn dylifo i'r holl greadigaeth rheſymmol; rhaid i chwi, ar y cyfrifon hyn, ganiattâu, mai *efe* yw'r Gwrthddrych mwyaf teilwng yn yr holl fyd, i'n *dyall* i'w *ganfod*, a'n *hewyllys* i'w *ddewis*. Ac os felly, yna y mae'n rhaid i wir fywyd a ſylwedd *Nefoedd dŷn*, fel y mae efe yn *greadur rheſymmol*, ſefyll mewn *gwybodaeth* agos gyfeillgar o Dduw, a *dewiſiad* rhŷdd diddadl o hono ef.

Ond, fel y dyallom yn llawnach natur y *Dedwyddwch* hwn, rhaid i ni egluro yn amlyccach, beth y mae'r ddwy *Weithred* hanfodol hyn o hono yn arwyddocâu, a pha *Ddedwyddwch* ſy gynnwyſedig ynddynt. Ac,

I. Y mae *Dedwyddwch* dŷn yn ſefyll mewn gwybodaeth rŷdd gyfeillgar o Dduw. Canys y mae gan ein *dyall* wrth natur awydd mor gryf at y *Gwirionedd*, ag ſydd gan ein *ſtymmog* at *fwyd*; a blâs mor hyfryd arno, wedi cael golwg unwaith arno, ag ſydd gan *ddŷn newynllyd* ar *dammaid melus*. Ac, er bod ei *hawydd* yn y bywyd hwn yn fynych yn *lleſg* ac yn *farw*, mewn rhan trwy *anhawſdra gwybodaeth*, naill ai o achos bod ei hofferynnau wrth natur allan o *bwyl*, neu o *ragfarn* bengaled trwy ddygiad drwg i fynu; ac mewn rhan trwy fod yn waſtad ar waith mewn *gofalon* a *gorchwylion bydol*, y rhai ſydd yn waſtadol yn ei *throi* hi ffordd arall, ac felly bob yn ychydig yn ei *diddyfnu* hi oddi wrth ei thueddiad naturiol

naturiol at y *Gwirionedd*: etto, pan ymadawom ni â'r byd hwn, a gadael yr achoſion hyn ar ein hôl, y rhai ſydd yn attal cymmaint ar ei *Hawydd*, ei newyn ar ôl *Gwybodaeth* yn ddiammau a adfywia yn fuan, ac ni bydd boſſibl byth ei boddloni hi hebddo.

Bwriwn ynte fod lliaws o *greadûriad dyallgar* yn preſwylio 'r byd arall, y rhai ydynt oll yn *taer hiraethu* ar ôl *gwybodaeth* o'r *Gwirionedd*; beth ellir feddwl yn fwy hyfryd iddynt hwy, nâ chael eu derbyn at Ffynnon pôb *Gwirionedd*, yno i dorri eu ſyched, ac i ddigoni ei dymuniadau anfeidrol, ag amlygiadau *rhŷdd* ac *eſmwyth*, ond beunydd yn rhai *newydd*, o'i anfeidrol *Ogoniant* a'i *Berffeithrwydd* ef? Pa le y gallant hwy ſefydlu eu *gôlygon awyddus* gyd â thebyg y fath bleſer a hyfrydwch, ag ar Ddirgelweh y *Duwdod* a'r *Drindod yn Undod*, yr hwn yw *Awdwr* tragywyddol pob *Hanfod*, *Gwreiddyn* pob *Daioni*, a *Rheol* a *Ffynnon* pob *Perffeithrwydd*? Ond yna os bwriwn ni, yr hyn yw câs y *Golygwyr bendigedig* hyn, fod eu meddyliau wedi eu *dyrchaſu* yn y fath fodd, a'u dyall mor annhrathawl *gyflym* a *chraffus*, ag y gallont *barŵb* wybod pa beth bynnag a font yn chwennych, heb yr *anhawſdra* o *aſtudio*, a chanfod yn fuan y modd y mae pethau yn ymddibynnu ar, a chwedi eu cyſylldu wrth eu gilydd, heb ddim *ymadrodd dyrys*, neu *ymreſymmiad poenus*; â pha Foddlonrwydd digymmar y rhaid iddynt chwilio y *Llyfr* anfeidrol hwnnw o *Hanfod* a *Phriodoliaethau* Duw!

Yn awr y mae Ymadrodd *rhagorol* S. *Paul* yn ſicrhâu i ni, fod ganddynt yn y *Cyflwr gwynfydedig* hwnnw anfeidrol *amlyccach* ac *eglurach* dyalldwriaeth o bethau, nag a fu ganddynt erioed *ymma*. 1 Cor. xiii. 12. *Canys gweled yr ydym yr awr hon trwy ddrych mewn dammeg, ond yna, wyneb yn wyneb; yr awr hon yr adwaen o ran, ond yna yr adnabyddaf megis y'm hadwaenir*: hynny yw, y mae ein *Gwybodaeth* ni yn awr ym Mhethau Duw yn *dywyll* ac yn *ammherffaith* jawn, hwy ddangoſer i ni megis trwy ddrŷch, yn bwrpaſol i roi i ni ddim ond *cip-olwg* arnynt; ond pan ddelom i'r *Nefoedd*, ni gawn edrych yn *agos* arnynt, a chael *eglurach* ac *amlyccach* dyalldwriaeth o honynt. Yna ni gawn *adnabod* Duw mor wired ag y mae

efe yn ein *hadnabod* ni, ac a gawn ddirnad ei *Hanfod Hollogoneddus* ef mor *wirioneddus* ac mor *ſicr* ag y mae efe yn dirnad ein Hanfod ni. Fel y gwelwch fod *llygaid* Trigolion *bendigedig* y *Nefoedd* yn cael eu *bywioccâu* yn y fath fodd ag y gallant hwy edrych ar yr haul heb *ddallu*; bwrw golwg ar Ogoniant pûr difrycheulyd y Duwdod, heb gael eu *taro i lawr* gan ei *Ddiſgleirdeb* ef; a chan fod eu dyall wedi ei *ddyrchafu* fel hyn, rhaid iddynt amgyffred mwy ar *un olwg*, nag allwn ni trwy lawer o *lyfrau*, a *hir* ymreſymmiad *maith*.

A chan eu bod yn mwynhâu *Gorphwyſfa* tra *pherffaith oddi fewn* ac *oddi allan* iddynt; nid ydynt byth yn cael eu *haflonyddu* wrth *daer olygu* pethau; a chanddynt y fath *gwmpas* helaeth o *Wirionedd* a *Gogoniant* oddi amgylch iddynt, ydynt beunydd yn chwilio allan bellach bellach, ac felly yn cael eu groeſawi yn *waſtadol* â *Rhyfeddodau* a *Hyfrydwch* newydd. Pa Hyfrydwch anfeidrol ynte rhaid i'r Duw *Hollogoneddus* roi i'r fath Feddyliau *derchafedig*, y rhai, fel *ffeneſtri gloyw*, a ollyngant i mewn, heb ddim poen nac anhawſdra, yr holl *Oleuni duwiol a nefol* hwnnw ag ſydd yn rhâd yn ei gynnyg ei hun iddynt, ac yn llewyrchu yn dragywydd o'u hamgylch; a'r rhai, trwy bob amlygiad *newydd* o Dduw, ac o'r holl *Ddirgeledigaethau diwaelod* hyn o'i Natur ef, a helaethir beunydd i amlygu *rhagor*, ac ydynt yn cael beunydd amlygiadau *newydd* yn eu cynnyg eu hunain, cyn gynted ag yr helaether hwynt i'w derbyn. Y mae hyn *o hono ei hun* yn gymmaint rhan o'r Nefoedd, fel y mae S. *Joan* ei hun megis yn ffaelu meddwl am ddim Nefoedd *tu hwnt* i hyn. 1 Joan iii. 2. *Anwylyd, yr awr hon meibion i DDUW ydym; ac nid amlygwyd etto beth a fyddwn: eithr ni a wyddom, pan ymddangoſo ef, y byddwn gyffelyb iddo*; hynny yw, mewn Gogoniant a Dedwyddwch: *o blegid ni a gawn ei weled ef megis ag y mae.* Ond yna,

II. Y mae *Nefoedd* neu *Ddedwyddwch dŷn* yn ſefyll hefyd mewn *Dewiſiad* rhŷdd a dirwyſtr o Dduw; hynny yw, ei ddewis ef yn Rheol a Phatrwn ein *Natur*, ac yn Wrthddrych ein *Cariad*, a'n *Haddoliad*, a'n *Hymddiried*: y rhai'n i gŷd (fel y dangoſaf yn ol llaw) ydynt *Weithredoedd*

ag

ag a wnânt greaduriaid rheſymmol yn wynſydedig; ac ydynt yn mawr weithio at eu *Dedwyddwch* hwynt. Canys nid yw *Dedwyddwch* (fel y rhagddywedwyd) yn ſefyll mewn *gorphwyſfa*, eithr mewn *ſymmudiad*; ac nid oes un *ſymmudiad* all wneuthur at *Ddedwyddwch* unrhyw fôd, ond yr un ſydd weddus i'w natur ef. Yn awr, pa *ſymmudiad* all fod yn fwy gweddus i natur *creadur rheſymmol*, nâ charu ac addoli Awdwr ei *hanfod* a'i *hawddfyd*; ymoſtwng i *Ewyllys* y *Penllywydd Hollalluog*, a chanlyn Perffeithrwydd y Patrwn a Rheol bennaf pob *hanfodau rheſymmol*; gorphwys ar ei *anfeidrol Allu*, yr hwn yn waſtadol a arweinir gan ei *anfeidrol Ddoethineb a'i Ddaioni?* Yr hyn ſydd i gŷd wedi eu ſeilio ar gynnifer o *reſymmau* cryf, eglur, a diwâd, fel y mae eu henwi yn ddigon i'w cyfiawnhâu hwynt i'n *dyall* a'n *hewyllys* ni, ac i ddangos eu bod yn llwyr gyttuno ag *egwyddorion* mwyaf *ſylfaenol* ein *natur reſymmol*. A chan eu bod felly, rhaid iddynt fod o honynt eu hunain er mawr hyfrydwch a llawenydd i ni: canys, megis mai'r gweithredoedd hynny ag ſydd â mwyaf o *ſynwyr* ynddynt, ſydd oreu yn boddloni y natur *ſynhwyrol*; felly y rhai'ny ag ſydd â mwyaf o *reſwm* ynddynt, ſydd oreu yn boddloni y natur *reſymmol*. A diau mai'r gweithredoedd hynny ſydd â mwyaf o reſwm ynddynt, y rhai a oſoder ar y pethau ſydd yn eu haeddu hwynt oreu; a pheth a haeddai gyſtal i greaduriaid rheſymmol fyfyrio arno, a Duw? a pha weithredoedd allant hwy gyd â mwy o reſwm gyflawni iddo ef, nâ'i garu a'i addoli, ufuddhâu iddo a'i ganlyn, ymddiried a gorphwys arno? Ond, fel na all un o weithredoedd *ſynwyr* fod yn hyfryd jawn i'n natur ſynhwyrol, cyhyd ag y bo gwrthwynebiad neu ddibriſdod ynnom ni attynt; felly ni's gall un o weithredoedd rheſwm fod yn hyfryd i'n natur reſymmol: gan fod hyfrydwch pob gweithredoedd, pa un ai ſynhwyrol neu reſymmol a font, yn ſefyll (fel y dangoſais o'r blaen) yn yr egni a'r bywiogrwydd o honynt. A thyma'r achos pa ham y mae dynion yn cael cyn lleied o hoffder yn y gweithredoedd duwiol hyn ſydd â chymmaint o reſwm ynddynt; o herwydd iddynt, trwy eu *harferion* drwg, eu hwneuthur eu hunain yn wrthwyneb iddynt, neu o'r hyn

lleiaf yn ddibris ac yn oerllyd jawn ynddynt: yr hyn ſydd yn ein gwneuthur yn farw ac yn ddifywyd wrth eu harſer hwynt; ac yn ganlynol, yn peri iddynt fyned ymaith gyd ag ychydig o flâs, os nid yn llwyr ddiflas. Ond hyd yn oed yn y cyflwr ammherffaith hwn, yr ydym yn cael, trwy brofiad, mai po fwyaf y gaffo ein *natur lygredig* ei rhyddhâu a'i dilwytho o'r *cleſydon drwg* hynny, ag ſydd yn ei hattal a'i 'ſtoppi hi yn ei Gweithrediadau nefol, mwyaf o hyfrydwch a phleſer y mae hi beunydd yn gael ynddynt: ie, a phan y mae hi wedi cynnefino cymmaint â Bywyd duwiol, a gallu practeiſio yr amryw rinweddau o hono gyd â'r un egni a bywiogrwydd ag yr oedd hi yn arfer gwneuthur ei *chwantau anwyſaf*, y mae hi yn cael mwy o lawer o hoffder a boddlondeb, a mwy o feluſder fil o weithiau, wrth garu ac addoli, ufuddhâu a chanlyn Duw, nag a gafodd hi erioed yn y cnawdolrwydd a'r pleſerau meluſaf; mai po fwyaf perffaith y *carom* ac yr *addolom*, &c. mwyaf o'r Nefoedd a fyddwn ni yn brofi yn y Gweithredoedd bendigedig hyn; a chwedi i ni unwaith, trwy hir a dyfal arfer o honynt, eu gwneuthur yn naturiol i ni, nyni a fyddwn yn mwynhâu y fath Nefoedd ar y ddaear, yn yr ymarfer eſmwyth, rhŷdd, a bywiog o honynt, na's newidiem mo honi er yr holl bleſerau a'r dedwyddwch ag allo'r bŷd roi i ni. Ac etto, Duw a wyr fod y cyflwr perffeithiaf o Dduwioldeb ag ydym ni yn gyrraedd yma, â chymmaint o ammherffeithrwydd ynddo, a ninnau yn cael cymmaint o'n haflonyddu a'n cadw'n ôl gan afiechyd corphorol, a blinderau ac anghenion y bywyd preſennol hwn, fel mai prin y gallwn ni farnu wrth y llawenydd a'r pleſer ſydd yn deillio oddi wrtho yma, beth a fydd y Gwynfyd mawr dros ben meſur a dardda oddi wrtho ar ôl hyn. Pan y caffom ein llwyr ryddhâu oddi wrth bob trafferthon cig a gwaed, a phechod; pan ſymmuder ni i gyflwr rhŷdd a llonydd, lle na chaffom ddim arall i wneuthur, ond yn unig adnabod a charu, ufuddhâu a chanlyn, ac na bo ynnom un ammherffeithrwydd naturiol neu ddrygionus, i fod yn faich neu yn aflonyddwch i ni yn y Gorchwyl gwynfydedig hwn; ym mha un y gweithiwn ni â'n holl egni a'n nerth, ac y goſodwn allan holl rym ein

heneidiau

heneidiau ym mhob *Cariad* a phob *Ufudd-dod*; fel y bydd pob ſymmudiad yn ein heneidiau tu ag at DDUW mor gryf, a'n dwyn megis allan o honom ein hunain, etto heb gynnyg dim trais i ni: pan y bom, meddaf, wedi ein ſefydlu yn dragywydd mewn cyflwr o'r fath Rydd-did a Bywiogrwydd perffaith, rhaid i'n Dedwyddwch fod mor helaeth a'n dymuniadau, a chymmaint ag yw ein gallu eithaf i weithredu ar DDUW. Canys, yn awr nyni a fyddwn yn canlyn y *Perffeithiaf*, ac yn addoli y mwyaf *Addoladwy*, gymmaint fyth ag allom; hynny yw, nyni a fyddwn yn cyflawni â'n holl rym a'n hegni y gweithredoedd ſydd fwyaf cyttunol â'n natur reſymmol: ac ym mywiogrwydd eithaf y fath weithredoedd (fel y dangoſais eiſoes) y mae ein *Dedwyddwch* eithaf yn gynnwyſedig.

Suppoſwn ynte fod cymdeithas o greaduriaid rheſymmol wedi eu goſod yn y fath gyflwr, ag y caffont yn waſtadol ger eu bronnau wrthddrych o Berffeithrwydd anfeidrol, ac heb ddim *drwg* oddi allan nac oddi fewn i'w hattal, neu i'w troi heibio oddi wrth oſod allan eu holl *bwerau* arno ef yn y *gweithredoedd* mwyaf *rheſymmol*: ſuppoſwn eu bob hwy yn awr yn ymſymmud gyd â'r cyflymdra a'r bywiogrwydd eithaf, fel cynnifer o *gylchoedd bythſywiol* oddi amgylch i'w *tragywyddol Ganolbwynt*; eu bod mor llawn o Gariad ac Ufudd-dod iddo ef ag allo eu calonnau byth gynnwys; yn canlyn Perffeithrwydd DUW, ac yn addoli ei Odidowgrwydd, gyd â rhydd-did a gorfoledd diattal; ac yn anadlu allan iddo ef *Foliant* llon a *Haleliwia* tra gorfoleddus: mewn gair, eu bod hwy yn eu hymarfer eu hunain yn ei gylch ef â'u nerth a'u gallu eithaf, yn yr holl *Swyddau bendigedig* hynny ag y mae ei Natur ef a'u perthynas hwynt iddo ef yn alw am danynt: ſuppoſwch hyn i gŷd, meddaf, ac y mae gennych o'ch blaen wir *Bendod* a Blodau Nefoedd y *creadur rheſymmol*; yr hwn ſydd wedi ei ſefydlu yn y Cyflwr bendigaid hwn, megis yn ei wir *elfen* ei hun, lle y mae efe yn ymſymmud ac yn gweithredu yn rhŷdd yn ôl ei duedd a'i ogwyddiad mwyaf naturiol yn ddiattalfa ac yn ddirwyſtr.

Ac erbyn hyn yr wyf yn meddwl fod yn eglur ddigon, mai *adnabod* a *dewis* DUW ſy'n gwneuthur y rhan

bennaf o Nefoedd dŷn, fel y mae efe yn greadur rheſymmol. Ond, heblaw hyn, y mae Pethau gwynfydedig eraill ag ſydd yn gwneuthur y Nefoedd i fynu: y pennaf o ba rai ydyw, adnabod a dewis y rhai 'ny ag ydynt debyccaf i Dduw; ſef, y *Jeſu* Bendigedig yn ei Natur ddynol, a'r Angelion ſanctaidd a'r Seintiau, y rhai ydynt oll yn eu hamryw raddau a'u meſuron yn Lluniau amlwg a bywiol o Dduw. Ac am hynny, os adnabod a dewis Duw yw Dedwyddwch pennaf y Nefoedd; yna yn ddiammau y Dedwyddwch neſaf at hynny ydyw, adnabod y Lluniau bendigedig hynny o Dduw, a dewis yn rhŷdd eu Cwmpeini a'u Hymarweddiad hwynt, a chwbl uno â hwynt mewn ſerchiadau: heb yr hyn ni byddai yn Ddedwyddwch yn y byd i breſwylio yn yr un lle â hwynt. Canys fe fyddai yn faich yn hytrach nag yn Hyfrydwch, i gyd-breſwylio gyd â'r *Jeſu*, a'r Saint, a'r Angelion, ac heb fod yn gydnabyddus â hwynt, nac mewn undeb â hwynt mewn calon a ſerchiadau. Y Dedwyddwch o fod yn eu Cymdeithas hwy ynte, ſydd yn ſefyll yn yr adnabyddiaeth a'r dewiſiad o honynt. A hyn a arwyddocêir ym mhob lle, lle y crybwyller am fod gyd â hwy fel Rhan o'n Nefoedd ni. Felly 1 *Theſſ.* iv. 17. bod *yn dragywydd gyd â'r Arglwydd*, yw'r un peth a bob yn *dragywydd yn y Nefoedd*: ond yna bod gyd ag ef yn dragywydd o *Ddewiſiad* ydyw; canys dyna arwyddocâd y geiriau hynny, *Phil.* i. 23. *Y mae arnaf chwant ymddattod, a bod gyd â Chriſt: canys llawer jawn gwell ydyw.* Ac felly y mae'r Apoſtol yn crybwyll hyn fel Rhagorfraint anwyl ag ydym yn gael trwy fod yn Aelodau o Eglwys Griſt, ein bod yn cael Titl trwy hynny i gymdeithas *myrddiwn o angelion*; *i gymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig*; *ac at DDUW. Barnwr pawb*; *ac at yſbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd*; *ac at Jeſu, Cyfryngwr y Teſtament Newydd*, Heb. xii. 22, 23, 24. Ac yn wir rhaid i hyn fod yn Ddedwyddwch ammhriſiadwy, nid yn unig i gyd-breſwylio, ond i fod yn adnabyddus â'r Cwmpeini dedwydd gogoneddus hyn, a chyduno â hwynt mewn calon ac ewyllys. Canys pa enaid, ag ſydd ynddo un wir wreichionen o gariad calonnog at yr Jesu, y Cyfaill goreu i Eneidiau

ag

ag a fu erioed, dim cof diolchgar o'r hyn a wnaeth ac a ddioddefodd efe er ein mwyn ni; na chyfrifai yn Ddedwyddwch mawr jawn, gael ei dderbyn i'w ŵydd ef, a bod yn dyſt gweledig o'r Cyfnewidiad happus ſydd ar ei amgylchiadau ef yn awr, wrth y peth oeddent hwy gynt? I'w weled ef yr hwn a driniwyd mor greulon, a ddibriſiwyd mor giaidd, a boenwyd, ac a labyddiwyd er ein mwyn ni, wedi ei dderchafu i'r râdd uchaf o Lewyrch a Mawredd, i fod yn Ben ac yn Dywyſog ar holl Lywodraeth y Nefoedd, i gael ei addoli a'i foli trwy holl Gôr adderchog yr *Archangelion* a'r *Angelion*, ac *Tſbrydoedd y rhai cyfiawn y rhai a berffeithiwyd?* Yn wir mi dybygwn, pe cawn i ond y Rhagorfraint i edrych i mewn a chanfod fy Arglwydd anwyl bendigedig wedi ei amgylchu â'r holl gylchoedd hyn o Ogoniant, y byddai yn Gyſſur nefol jawn i mi, er pe bawn ſicr na chawn fod byth yn gyfrannog o hono. Y Cymmundeb a gawn i yn Llawenydd fy Meiſtr, a fyddai yn fath o Nefoedd ar yr *ail law* i mi, a'm henaid a fyddai yn ddedwydd rhyfedd trwy gyd-lawenhâu ag ef yn ei Ddedwyddwch a'i Dderchafiad. Ond Oh! pan bo i'r Perſon bendigedig hwnnw nid yn unig adael i mi weled ei Ogoniant, ond fy nwyn i mewn iddo, a'm gwneuthur yn gyfrannog o hono; pan y caffwyf nid yn unig weled ei Wyneb cariadlawn, ond fy nerbyn i'w Gyfeillach anwyl, a phreſwylio yn ei Freichiau, a chael fy nghoſleidio ganddo yn dragywydd; pan y bo i mi ei glywed ef yn datgan dewr Weithredoedd rhyfeddol ei Gariad, trwy ba gymmaint o drueni toſt yr aeth efe i'm gwared i oddi wrth drueni, a'm gwneuthur yn happus, ac y caffwyſſ yn y cyfamſer Deimlad tra gorfoleddus o'r Dedwyddwch hwnnw; pa fodd y bydd fy nghalon yn neidio gan Lawenydd, ac yn lloſgi gan Gariad, a'm genau yn llifo droſto â Mawl a Diolchgarwch iddo ef!

Ac fel y rhaid i'n Hadnabyddiaeth ni ar yr Jeſu Bendigedig, a'n Dewiſiad o hono ef, wneuthur ein Dedwyddwch yn fawr jawn; felly hefyd y gwnâ (er nid mewn cuwch grâdd) ein *Hadnabyddiaeth* caredig a'n *Hundeb* â'r *Saint* a'r *Angelion*: y rhai a fyddant yn Gwmpeini rhagorol; gan fod ganddynt nid yn unig Ddyalldwriaethau

cynnwysfawr jawn a helaeth, ond hefyd Natur dda berffaith, a Chariad cyflawn. Canys, fel y mae eu Daioni yn gwneuthur eu Cyfeillach yn gwbl rwydd a charedig; felly rhaid i'w Gwybodaeth fawr ei wneuthur ef yn llawn mor fuddiol a hyfryd. A chan eu bod mor *wybodus* ag y maent, rhaid i ni fwrw eu bod hwy yn dyall yr holl Ffyrdd doeth ag a'u gwnelo hwynt yn anwyl i ni; a chan eu bod mor *dda*, rhaid i ni fwrw hefyd eu bod yn wastadol yn ymarfer y Ffyrdd hyn. Ac os felly, pa Gymdeithas nefol rhaid i'r rhai'n fod, Amcan pa rai yw cyrraedd yr Wybodaeth ogoneddusaf, a Chyfraith pa rai yw'r Cyfeillgarwch perffeithiaf? Pwy na foddlonai i ymadael â bŷd ffol, gwrthnyfig, a drwg ei natur, am Gymdeithas fendigedig y Cyfeillion doeth a'r Cariadon perffaith hyn? A pha Ddedwyddwch a fydd treulio Tragywyddoldeb gyd â'r fath Gymdeithion enwog! lle y cawn ni glywed Doethineb dwfn y Nefoedd yn cael ei gyfrannu yn rhwydd o bob ochr yn ymddiddanion doeth caredig yr Angelion a'r Yſbrydion gogoneddus; y rhai, heb gadw dim yn guddiedig, na ſerchu dirgelwch, heb wŷn, nac elw, nac ymryſon taeog am Fuddugoliaeth, ydynt yn doeth-reſymmu yn rhwydd, ac yn cyfrannu Tryſorau Gwybodaeth i'w gilydd. Canys, o herwydd fod yr holl Seintiau yno yn Wŷr doethion jawn, a'r holl Wŷr doethion yn Seintiau perffaith; rhaid i ni fwrw fod Gwybodaeth a Daioni, Doethineb a Chariad bob un o honynt wedi eu cymmyſgu ym mhlith eu holl Ymddiddanion hwynt: a chan fod y peth felly, beth all fod yn fwy hyfryd nâ hyn! Pan gadawom ni, gan hynny, y bŷd ofer anghymdeithaſol hwn, ac y bo i'n holl hên Gyfeillion da, y rhai a aethant i'r Nefoedd o'n blaen ni, ein cyfarfod cyn gynted ag y delom i Dir Tragywyddoldeb, ac, â groeſaw anfeidrol am ein dyfodiad diberygl, a'n harweiniant i Gwmpeini y *Patriarchiaid* a'r *Prophwydi*, yr *Apoſtolion* a'r *Merthyron*, ac a'n dygant i Gydnabyddiaeth agos â hwy, ac â'r holl Eneidiau gwŷch boneddigaidd hynny, y rhai trwy eu Heſamplau gogoneddus a adawſant air da ar eu hôl yn y bŷd; pan y byddom ni yn Gymdeithion cyfeillgar i *Angelion* ac *Archangelion*, ac y bo i holl *Drigolion* y Nefoedd ein galw yn *Frodyr*,

iddynt,

iddynt, a'n groeſawi i Lawenydd eu Harglwydd, ac y caffom ein derbyn i'w Cymdeithas ogoneddus hwy gyd â holl Anwyldra a Thynerwch y Cariadon nefol hynny; pa Chwanegiad mawr at ein Dedwyddwch a fydd hyn!

Yn wir, y mae rhai chwanegiadau eraill at Dedwyddwch y Nefoedd; megis *Gogoniant* a *Mawredd* y *Lle*, yr hwn yw'r *Nefoedd uchaf*, neu y Parthau uchaf a phuraf o'r wybren, y rhai y mae ein Jachawdwr yn alw *Paradwys*, Luc xxiii. 43. a S. *Paul*, y drydydd Nefoedd, 2 *Cor.* xii. 2. Y ddau ymadrodd hyn, yn ôl jaith yr oes honno, ſydd yn mynegi ei fod ef yn Lle o *Ogoniant annbraethadwy*: canys felly y mae'r *Juddewon* yn gyffredin yn galw yr Orſedd ogoneddus hon, y drydydd Ardal o'r Nefoedd, neu Drigfa'r Angelion; trwy'r hyn y maent yn arwyddocâu, mai Palas Brenin yr holl fŷd ydyw, lle y mae Gwŷr ei Lŷs gogonedduſaf ef yn preſwylio: ac y maent hefyd yn ei galw hi *Paradwys*, mewn Cyffelybiaeth i Baradwys ddaearol *Eden*; o herwydd fel yr oedd honno yn ardd y bŷd iſaf yma, felly y mae hon yn Ardd yr holl Greadigaeth. Ac er nad yw'r Yſgrythur yn rhoi un Darluniad manwl i ni o'r Lle hwn, a hynny yſgatfydd o herwydd na all tafod un dŷn ei oſod allan; etto, o herwydd i DDUW ei ddewis yn Lle tragywyddol o Wynfyd a Dedwyddwch, nyni a allwn oddi yno, gyd â Rheſwm, gaſglu ei fod ef wedi ei lanw ef yn dra chryno â phob peth angenrheidiol at y Bywyd mwyaf happus a gwynfydedig.

Heblaw hyn hefyd, y mae ei dragywyddol Barhâd yn chwanegiad mawr arall at ei Ddedwyddwch. Fod y Mwyniant ſydd yno o'r fath natur, nad ydynt, fel pob pleſerau eraill, yn treulio ac yn darfod wrth eu mwynhâu; er y byddant yn waſtadol yn porthi ein dyall a'n ewyllys ni â Hyfrydwch newydd, etto ni threulier byth mo honynt, ond hwy fyddant bob amſer o'r un pellder oddi wrth ddiwedd, o herwydd eu bod yn anfeidrol. Fel gan fod Dedwyddwch y Nefoedd yn ſefyll mewn amrywiaeth anfeidrol o Bleſerau, a'r rhai'ny o barhâd anfeidrol, bydd yn ammhoſſibl i'r rhai a gaffo eu mwynhâu hwynt laru arnynt wrth eu cael mor fynych, neu ſlino eu hunain ag ofn eu colli hwynt.

Ond

Ond y *ddau beth olaf* hyn wyf yn unig yn grybwyll, o herwydd nad ydynt mor briodol yn perthyn i'r Pwngc yr ydym yn awr arno; yr hyn ydyw yn unig eglurhâu natur y *Nefoedd*, cyn belled ag y mae hynny yn angenrheidiol, tu ag at i ni jawn ddyall natur y *Moddion* hynny ſydd i'w chyrraedd hi.

Yn awr, oddi wrth yr hyn a ddywedwyd am *Ddiben* mawr y *Fuchedd Gris'nogol*, gallwn dynnu y ddau Ddefnydd hyn ynghylch ei *Natur*.

1. Nad yw y Rhan bennaf o'r Nefoedd yn ſefyll gymmaint mewn un Meddiant *oddi allan*, ag mewn Cyflwr a Thymmer *oddi fewn*. Canys, er fod y Nefoedd yn ddiammau yn *Lle gogoneddus* jawn, a bod ei holl *Drigolion* bendigedig yn ei dal ac yn ei mwynhâu yn dragywydd; etto Camgymmeriad mawr ydyw tybied, mai Dedwyddwch mwyaf y Nefoedd yw byw yn dragywydd mewn *Lle gogoneddus*; yr hyn, heb ychwaneg nâ hynny o Nefoedd, na fyddai ond math o Ddedwyddwch *tlawd newynllyd*. Canys nid yw *Bywyd* yn Ddedwyddwch, ond fel yr ydym trwyddo yn *teimlo* ac yn *dirnad* yr holl Bethau hynny ag ſydd *byfryd* a *boddlongar* i ni. A phe gallem fyw yn dragywydd heb *ddirnad*, neu *ddyall*, yr un peth a fyddai i ni, a phe baem *Gerrig* a *Phrennau* tragywyddol yn unig: a pheth a dalai i ni fyw yn dragywydd mewn *Lle gogoneddus*, oni bai fod gennym *Deimlad byfryd* a *Dyalldwriaeth* o hono yn dragywydd? yr hyn ſydd ammhoſſibl; o herwydd fod pob *Teimlad byfryd* (fel y profwyd eiſoes) yn tarddu oddi wrth *Ymarfer fywiog* o Bwerau ein Heneidiau ynghylch y fath Wrthddrychon ag ſydd weddus iddynt: ond beth all fod yn y *Lle mwyaf gogoneddus* yn gweddu cyſtal i *Feddwl* ac *Ewyllys reſymmol*, a'u cadw hwynt yn dragywydd *yn fywiog* ar waith ac mewn Ymarfer yn ei gylch? Efe a ddichon yn wir dros ychydig oſod y *Meddwl* ar waith i daer edrych a golygu ei Degwch *newydd a rhyfeddol*; ond pa mor gynted y diflaſai y Meddwl arno, pe bae hyn i fod ei *unig* Roeſaw yn dragywydd? Ac am yr *Ewyllys*, beth a dalai Lle têg iddi hi, os ni chai hi ei llenwi â'r fath Wrthddrychon ag ſydd yn gweddu i'w *Dymuniadau* ei hun? Ac yn wir nid oes dim all *yn dragywydd* foddloni Meddwl

ac

ac Ewyllys reſymmol, ond yr hyn ſydd â'r fath *Anfeidroldeb* o *Wirionedd* ynddo ag ſydd i'w *adnabod* yn dragywydd, a'r fath Anfeidroldeb o *Ddaioni* ag ſydd i'w *ddymuno* yn dragywydd; neu, yr hyn yw'r un peth, dim ond yr hyn ſydd â digon o *Wirionedd* ynddo i'r naill i'w *olygu* gyd ag Egni yn dragywydd, a dim ond yr hyn ſydd â digon *Ddaioni* ynddo i'r llall mor egniol i'w *garu*, a'i *addoli*, a'i *ganlyn*, yn dragywydd. Ac ni cheir y fath Anfeidroldeb o *Wirionedd* a *Daioni* yn un lle, ond yn Nuw. Ond gan fod Duw, yn gyſtal a'r *Lle*, a *Pharhâd* y Nefoedd, yn Wrthddrych ag ſydd *oddi allan* i ni, nid yw, ac ni all fod yn Ddedwyddwch i ni, oddieithr i ni *weithredu arno*, ac *ymarfer* ein Dyall a'n Hewyllys *yn rhwydd* yn ei gylch; oddieithr i ni ei *adnabod* a'i *garu* ef, &c. Fel mai'r *hyn* ſydd yn gwneuthur y cwbl yn *happus*, yw ein *Gweithred* ni ein hunain *oddi fewn*; trwy *hyn* yr ydym yn mwynhâu y Nefoedd, ac yn teimlo ei holl Bleſerau hi. Nid trwy *fod yn y Nefoedd* y mae Dynion yn cael eu gwneuthur yn ddedwydd, ond trwy *ofod allan* Alluoedd yr Enaid yn fywiog ar y Gwrthddrychon nefol. Canys heb *hyn*, ni byddai waeth i ni fod *allan* o'r Nefoedd nâ bod *ynddi*. Y mae Dedwyddwch y Nefoedd gan hynny yn ſefyll mewn *Cyflwr* o *Weithrediad nefol*; trwy fod y Gwrthddrychon nefol wedi eu gwneuthur mor *dymherus* a *naturiol* i ni, ag y bo i ni yn waſtadol *weithredu arnynt*, a *gofod* Galluoedd ein Heneidiau *yn llawen* ar waith yn eu cylch hwynt. Canys, fel nad oes dim hoffder o weithredu *yn oerllyd* ar Wrthddrychon *gweddus*, felly y mae Poen a Blinder o weithredu *yn fywiog* ar rai *anweddus*. Ac am hynny, i wneuthur y *Nef* ei hun yn *Ddedwyddwch* i ni, y mae'n angenrhaid i ni nid yn unig weithredu yn fywiog ar ei Gwrthddrychon hi, ond gweithredu *felly* oddi wrth Dymmer ag ſydd yn *gweddu* iddynt: i ni edrych ar Dduw, ymoſtwng i'w Ewyllys ef, addoli a chanlyn ei Briodoliaethau, oddi wrth yr un *Dymmer* a *Thueddiad* ag ſydd yn Nuw. Canys heb hynny, fe fydd y Gweithredoedd hyn yn *Benydau* yn le *Pleſerau* i ni; a pho fwyaf *dwys* y goſodom hwynt allan, mwyaf *poenus* a fyddant. A phe baem yn y Nefoedd, ni byddai'r holl Ymarferion

nefol, ſydd yn gwneuthur i fynu ei Dedwyddwch hi, ond *Poen* a *Blinder* i ni, oni bai fod gennym *Dymmer nefol.* Canys, fel na ddichon *Darnau defnyddiol* byth *orphwys*, ond ſymmud oddi amgylch mewn *Pwll-trô* gwaſtadol, nes *cyfarfyddont* â *Lle* a fo o'r un *Dull* a *Llun* â hwythau; felly nid oes dim a ddichon *orphwys* yn y Nef, ond yr hyn ſydd *nefol.* Y mae pob peth nad yw felly, yn *neidio* ac yn *hedfan yn ôl* o hono ei hun; ac ni all byth *orphwys* yno, nes bo o'r un Llun, a Thymmer, a Chynneddf â hi. Oddi yma ynte y mae'n amlwg, nad yw Dedwyddwch Dŷn yn y *Nefoedd* yn ſefyll gymmaint yng Ngogoniant y Lle *oddi allan*, ag ydyw ef yng Nghyflwr ei Enaid ei hun *oddi mewn*; yr hon, o ran fod ei Thymmer yn *cyttuno* â'r Gwrthddrychon nefol, ſydd yn waſtad *yn rhwydd* yn ymarfer ac yn goſod ar waith ei Phwerau yn eu cylch hwynt.

II. Nad yw'r *Cyflwr nefol* ddim arall ond y *Perffeithrwydd* o bob *Rhinweddau nefol.* Canys fe broſwyd eiſoes, fod y Nefoedd yn ſefyll mewn *Gwybodaeth* eglur a chyfeillgar o Dduw, ac mewn *Dewiſiad* rhwydd a diddadl o hono ef, ac o'r Creaduriaid bendigedig hynny ag ydynt gyffelyb iddo; a'r *ddau Beth hyn* a gynnwys *bob* Rhinwedd nefol. Felly nid yw'r Gwahaniaeth rhwng Cyflwr *Grâs* a Chyflwr *Gogoniant* mewn *Rhyw*, eithr mewn *Grâdd.* Canys *Hâd* Gogoniant yw Grâs, a Grâs wedi *addfedu* yw Gogoniant. *Gwybodaeth* ydyw wedi ei derchafu uwchlaw pob *Cyfeiliornad* a *Rhagfarn*, uwchlaw pob *Anhawſdra* neu *Dywyllni* Dyall; *Cariad* ydyw wedi ei neillduo oddi wrth bob *Gwrthwynebiad* Cnawd ac Yſpryd, a'i buro i *Fflam nefol* lân; *Ufudd-dod* i Dduw, a *Dilyniad* o hono, ydyw, wedi ei berffaith neillduo oddi wrth bob Diffygion *pechadurus*, a'i ryddhâu oddi wrth *Rwyſtrau* Egwyddorion *gwrth'nebus*; *addoli* Dduw, a *gorphwys* arno, ydyw, heb y Râd leiaf o *Anhwyl* neu *Wan-hyder*; mewn Gair, Symmudiad *rh dd dirwyſir* ydyw o'r holl Rinweddau nefol ynghŷd, lle mae pob un o honynt yn cael eu goſod allan yn dra *bywiog*, heb yr *Attalfa* na'r *Rhwyſtr* lleiaf. Gan mai dyma *Gyflwr y Neſoedd* ynte, fel y mae'n amlwg oddi wrth yr hyn a grybwyllwyd, fe ganlyn oddi yma, nad yw'r Gwahaniaeth pennaf rhwng *Rhinwedd* a'r *Neſoedd*

oedd ond mewn *Graddau*; mai *Techreuad* y Nefoedd yw Rhinwedd, a *Pherffeithrwydd* Rhinwedd yw'r Nefoedd. Ac os felly, yna, fel y mae y Râdd *iſaf* o wir Rinwedd yn *Gam* tu a'r Nefoedd; felly y mae pob Grâdd *ym mhellach* yn *Nesâd agoſach* at y Cyflwr nefol. Fel megis ag yr ydym yn *cynnyddu* mewn Grâs, ac yn myned o *un* Grâdd o Rinwedd *i'r llall*, yr ydym yn tynnu *nês nês* at y Cyflwr bendigedig hwnnw ym mha un y byddwn i gŷd yn *Rhinwedd pûr* heb ddim Cymmyſgiad *pechadurus*. A thyma wir *Yſtâd* a *Chyflwr* y *Nefoedd*.

PEN. II.

Ynghylch y Moddion *trwy ba rai y cyrhaedder* Diben *mawr y* Fuchedd Gris'nogol.

WRTH yſtyried mai Diben mawr y Grefydd Gris'nogol ydyw, *derchafu* ein Natur i'r fath Râdd uchel o Burdeb a Pherffeithrwydd, ag ſydd angenrhaid i'n cymhwyſo ni i fwynhâu *Dedwyddwch y Nefoedd*: tu ag at hyn, yr oedd yn angenrheidiol eſtyn ein Dyledſwydd *yn uwch* nag y gwnaethai un Gyfraith *o'r blaen*. Canys, *Diben* holl *Gyfreithiau* Duw ydyw, *Dedwyddwch* ei *Ddeiliaid*; ac am hynny, fel y byddont yn *Foddion* effeithiol i ddwyn ym mlaen y *Diben* hwn, rhaid i'r *Dyledſwyddau* y maent yn orchymmyn fod y cyfryw ag y mae *Natur* ein Dedwyddwch yn ofyn. Yn awr ynghyflwr cyntaf ein Natur, yr hwn oedd y Cyflwr o *Ddiniweidrwydd*, fe dybygid ein hamcanu ni yn unig at *Baradwys ddaearol*, hynny yw, i fwynhâu Pleſerau Meddwl pûr yn cyfanneddu mewn Corph ſynhwyrol anianol; ac am hynny pe buaſem yn ſefyll (yr hyn a ragwelodd Duw na's gwnaem, ac am hynny a'n hamcanodd ni i Gyflwr mwy derchafedig a nefol) fe fuaſai ein Dedwyddwch y peth ydyw ef yn awr yn y Bŷd hwn, er mewn uwch Grâdd; *ſef*, Cymmyſgiad o Hyfrydwch yſbrydol a chorphorol i'w fwynhâu mewn Cyflwr o Anfarwoldeb daearol, yr hwn a fuaſai o iſelach

Natur

Natur o lawer nâ'r Cyflwr pûr hwnnw o Ddedwyddwch yſbrydol i ba un yr amcenir ac y cyfarwydder ni yn awr. Ac i waſanaethu y Diben blaenaf hwn, yn y Meddiant o ba un y goſodwyd Dŷn yn y Cyflwr o *Ddiniweidrwydd*, Duw a roddodd iddo *Gyfraith Natur*, yr hyn nid oedd (fel y tybyger) ddim arall ond *jawn Reſwm* yn unig yn dywedyd wrthym beth ſy angenrheidiol i'w wneuthur tu ag at ein *Dedwyddwch daearol* hwn. Ac yn gyfattebol yr oedd Dyledſwyddau y Gyfraith hon o *is* Rhywogaeth o lawer nâ Dyledſwyddau Cris'nogaeth; gan eu hamcanu hwynt yn Foddion ac Offerynnau o *is* Dedwyddwch o lawer. Canys yn ein Cyflwr *daearol anianiol* hwn, ni allai jawn Reſwm ofyn dim oddi wrthym ond yr hyn oedd waſanaethgar at ein Dedwyddwch *daearol* ac *anianol*; yr hyn oedd Gymmyſgiad yn unig o Bleſerau'r Corph a'r Meddwl, o Bleſer Synwyr a Rheſwm; ac ni allaſai dim fod *yn dda* i ni ond oedd yn tueddu at hynny, na dim *yn ddrwg* ond oedd yn rhwyſtro ac yn gwrthwynebu hynny. Ond yn awr, gan fod ein Dedwyddwch wedi ei oſod mewn Bŷd *arall*, ac mewn Mwyniant ſydd â *Chymmaint o Wahaniaeth* rhyngddynt a Mwynhâd Paradwys ddaearol, rhaid i ni fyned ym mlaen ar Egwyddorion *eraill*. Canys, yn awr y mae pob Gweithred yn dda neu yn ddrwg, yn ddoeth neu yn annoeth, fel y mae hi er *Gwaſanaeth* neu er *Rhwyſtr* i'n Dedwyddwch yn y Bŷd a ddaw. Ac am hynny, y mae gyd â llawer o Reſwm i ni yn awr fyw mewn *Modd amgen* nag yr oeddem yn rhwym i fyw yn y Cyflwr *anianol* honno ym mha un y crewyd ni ar y cyntaf; i ni ymoſtwng ein Helw *daearol* i'r un *nefol*, ac ymwrthod â Llawenydd a Phleſerau'r Bywyd *hwn*, pa bryd bynnag y bônt yn ſefyll ar ein ffordd i gyrraedd Dedwyddwch yſbrydol y *Bywyd a ddaw*. *Yn awr* nid oes i ni edrych mwyach ar y Bŷd hwn fel *Gwlâd* ein *Genedigaeth*, ond fel *Tir dieithr*; ac felly yr ydym i gyfrif ein hunain fel *Dieithriaid* a *Phererinion* ar y Ddaear; ac felly i arfer Pethau cyfiëus y Bywyd hwn fel y mae *Dieithriaid* yn arfer *Diottai*, nid i aros, neu i gymmeryd i fynu eu Preſwylfod ynddynt, ond yn unig i orphwys ychydig bach, ac i bant, a llonni ein hunain, fel y caffom ein cynnorthwyo yn well

i gyf-

i gyflawni ein Taith tu a'r Byd tragywyddol. Canys, gan fod Lle ein *Dedwyddwch* wedi ei newid o Anfarwoldeb ar y Ddaear i un nefol; ac yn ganlynol fod y Dedwyddwch ei hun yn awr yn fwy *goruchel*, a *phûr*, ac *ysbrydol* o lawer nag y buafai, pe parhâu yn ddaearol a wnaethai; rhaid yw i'n Natur gael ei *derchafu* gyd ag ef, ac i ninnau gael ein *cyfodi* uwchlaw *Cyflwr* Creaduriaid daearol yn unig, cyfuwch ag yw'r *Dedwyddwch bwnnw* uwchlaw *Grâdd* a *Chynneddf* Dedwyddwch daearol; heb hynny fe fydd yn ammhoffibl i ni ei flafu a'i fwynhâu.

Yn awr y mae ar bob Gweithiwr eifiau *mwy* neu *lai* o Foddion, yn ôl fel y mae efe *yn mbellach oddi wrth*, neu *yn nefach at* ei Ddiben. Megis, yn lle Efampl, y mae y Llafurwr fydd ganddo Dir *brâs* a *ffrwythlawn* i hau ei Hâd ynddo, *yn agofach* i gyrraedd Cynhauaf da, nâ'r neb fydd ganddo Dir *diffrwyth* a *charregog* i weithio arno; ac am hynny y mae ganddo *lai* o lawer i'w wneuthur. Canys, lle y rhaid i'r olaf, cyn y gallo aredig a hau, wrteithio ei Dir, a chafglu y Cerrig allan o hono; nid rhaid i'r cyntaf ond aredig y Ddaear ffrwythlawn, a bwrw ei Hâd iddi: neu, i ddyfod yn agofach at y peth fydd gennym yn llaw, y mae Dŷn ag fydd yn gwbl *anwybodus* yn *nês* i allu cyrraedd gwir Wybodaeth, nâ'r hwn y mae ei Feddwl yn llawn Rhagfarn gan Egwyddorion *cyfeiliornus*; ac am hynny fe wafanaeth iddo *lai* o lawer o Gynnorthwyon a Moddion i'w gyrraedd. Canys gan fod *ei* Feddwl yn gwbl rŷdd, y mae fel Papur gwyn, ar ba un fel nad oes dim wedi ei *fgrifenu*, felly nid oes dim i'w *ddilëu allan*; fel mai'r cwbl fydd ganddo i'w wneuthur yw, ymofyn ar ôl y Gwirionedd, a'i dderbyn pan cynnygier ef yn dêg iddo. Ond am y Dŷn o *Ragfarn*, y mae ganddo ef lawer i'w ddad-ddyfgu, cyn y gallo dderbyn Dyfg; llawer o *gau* Egwyddorion i'w carthu allan, cyn byth y gallo *gwir* Wybodaeth o Bethau gael ei hargraphu ar ei Ddyall.

Os mynnwn gan hynny gael Cyfrif cywir o'r holl *Foddion* hynny ag fydd angenrhaid i ni er cyrraedd y Nefoedd, rhaid i ni yftyried ym mha *Bellder mawr* yr ydym oddi wrthi yn y Cyflwr diryw llygredig hwn. Pe buafem mewn Cyflwr *canolig* rhwng Da a Drwg, nyni a fuafem

yn

yn agoſach o lawer i'r Nefoedd nag yr ydym: canys yna, fel y buaſem heb y *Rhinweddau nefol* hynny, yn yr Ymarfer rhŷdd o ba rai y mae Cyflwr y Nefoedd yn ſefyll; felly y byddem heb yr holl *Wrthwynebiad* a'r *Caſineb* attynt ag ſydd yn peri eu bod mor anhawdd i ni eu cyrraedd; a chan y byddai ein Natur eiſoes mewn *Cloriannau cydbwys*; yr Annogaeth leiaf ag *a bwyſai* yn drymmach a'i gogwyddai yn fuan at Rinwedd a Daioni. Ond gwae finnau! yn y Cyflwr *llygredig* hwn i ba un yr ydym ni wedi ſuddo, y mae ein Natur yn rhedeg at Ddrwg gyd â *Thueddiad* cryf jawn; ac y mae hi nid yn unig yn *ddirinwedd*, ond yn ei *chasâu*. A hyn ſydd yn ein goſod ym mhellach o lawer oddi wrth *Ddiben* bendigedig ein Crefydd, nag y buaſem heb hynny. Canys, y mae pob Grâdd o Dueddiad drwg ag ſydd ynnom, yn un *Cam ym mhellach* oddi wrth y Nefoedd, yn *Gwymp* oddi wrth y Perffeithrwydd hwnnw o Ddaioni ym mha un y mae'r Gwynfyd nefol yn ſefyll. Ac os felly, pa *mor belled* oddi wrth y Nefoedd ydyw y Rhan fwyaf o Ddynion ar Ddechreuad eu Taith tu ag yno; wedi iddynt chwanegu at *Lygredd* eu Natur, trwy eu ffyrdd pechadurus, gynnifer o *Dueddiadau* annhrefnus a hên *Arferion* pechadurus; wedi iddynt, trwy hir Yrfa o Weithredoedd drwg, gyfodi a chwythu i fynu eu Dymuniad anghymhedrol i'r fath *Fflammau* cynddeiriog o Drachwant ag y maent arferol o wneuthur! A chwedi i ni fyned mor belled yn ol oddi wrth ein *Diben*, y mae amryw *Foddion*, y rhai a fuaſent heb hynny yn gwbl *afraid* a *diles*, ſydd yn awr wedi dyfod yn hollol *angenrheidiol* tu ag at hynny. Canys, pe dechreuaſem ein Taith tu a'r Nefoedd o Gyflwr *canolig* rhwng Da a Drwg, ni buaſai gennym ddim i'w wneuthur ond ymarfer yr amryw Rinweddau crefyddol hynny ag ſydd yn gwneuthur i fynu y Fuchedd a'r Cyflwr nefol; *caru* a *golygu* Duw, ei *addoli* ac *ufuddhâu* iddo, ac ymddwyn ein hunain yn *gyfjawn* ac yn *gariadus* tu ag at eu gilydd; y rhai a fuaſent i gŷd mor hawdd, na buaſai raid i ni wrth ddim *Dyledſwyddau offerynnol* i'w gwneuthur yn hawſach i ni. Ond yn awr, gan ein bod yn wynebu tu a'r Nefoedd, fel yr ydym yn gyffredinol, o Gyflwr *dirywiog* a *llygredig* jawn,

y mae

y mae amryw o Foddion *eraill* ag y raid i ni ymarſer fel *Offerynnau* ag ſydd angenrheidiol i ni gyrraedd Rhinweddau y Fuchedd nefol, a pharhâu ynddynt, i orchfygu Anhawſdra, a llâdd Gwrthwynebiadau drwg ein Natur yn eu herbyn; y rhai a fuaſent i gŷd yn *afreidiol*, o'r hyn lleiaf mewn Meſur mawr, oni bai fod ein Natur mor *ſlygredig* a *diryw*.

Fel y mae *dau* fath o Foddion yn angenrheidiol i gyrraedd y Nefoedd, fel yr ydym ni *yn awr* yn ſefyll; y cyntaf yw'r Ymarfer o'r *Rhinweddau nefol* hynny, yn y Perffeithrwydd o ba rai y mae Cyflwr y Nefoedd yn ſefyll: yr ail yw'r Ymarfer o ryw *Ddyledſwyddau offerynnol*, y rhai ydd angenrheidiol tu ag at at i ni gyrraedd y Rhinweddau nefol hynny, a gorchfygu eu Anhawſdra hwynt. Y fath gyntaf o'r rhai'n ydyw'r Moddion *agos*, y rhai ſydd yn union-gyrch ac yn ddigyfrwng yn golygu y Diben mawr olaf: yr ail ydyw'r Moddion ſydd yn fwy *pell*, y rhai ydd yn ddigyfrwng yn golygu y Moddion hynny ag ſydd yn ddigyfrwng yn golygu y *Diben*. Y mae'r fath gyntaf fel Celfyddyd yr *Adeiladwr*, yr hon ſydd yn ddigyfrwng yn golygu y *Tŷ*; y mae'r ail fath fel Celfyddyd y *Gôf*, yr hon ſydd yn ddigyfrwng yn golygu *Moddion* ac *Offerynnau* 'r Adeilad.

I. Un math o Foddion angenrheidiol i gyrraedd y Nefoedd, a'r rhai ſydd yn fwy *union-gyrch* a *digyfrwng* yn ei golygu, yw'r *Ymarfer* o'r *Rhinweddau* hynny yn y Perffeithrwydd o ba rai y mae y Fuchedd nefol yn ſefyll. Canys ni welwn trwy Brofiad, mai trwy *Ymarfer* yn unig y cyrhaedder ac y perffeithier yr holl Rinweddau nefol; megis ac yr ynniller ac y cynnydder pôb Cynheddfau drwg i Ddefodau trwy Arferion drwg, felly ar y llaw arall pob Cynheddfau *rhinweddol* a ynniller ac a gynnydder trwy'r Arferion *gwrthwyneb*. Canys y mae *Crefydd* yn nyned ym mlaen yn Nhrefn *Natur*, ac yn ein harwain o *Feithredoedd* at *Dueddiadau*, ac o *Dueddiadau* at *Ddefodau* rhinweddol. Ac yn yr un Drefn y mae *Grâs* Duw, yr hwn ſydd yn cydgerdded â Chrefydd, yn arferol o weithio Ffrwythau ar Yſbrydoedd Dynion, nid trwy *Dywalldiad ſymmwth* o Ddefodau rhinweddol i mewn i'r Ewyllys,

ond trwy eu perſwadio hwy i *ymarfer* y *Rhinweddau* hynny ag ſydd wrthwyneb i'w *Harferion drwg*, ac i barhâu i'w hymarfer hwynt, nes iddynt farweiddio yr Arferion *hynny*, a'u cwbl gynnefino eu hunain i arfer ỳ *rhai'n*. Y mae Grâs Duw yn gyffelyb i *Himpin*, yr hwn er ei oſod i mewn i *Foncyff* ag ſydd gwbl o Ryw *arall*, ſydd etto yn gwneud Defnydd o Alluoedd a Nôdd y Boncyff, ac felly, trwy gydweithio â hwynt, yn ei droi bob yn ychydig i'w Natur *ei hun*. Ac y mae hyn yn llwyr gyttuno â Phrofiad cyffredin Dynion, y rhai ar Ddechreu eu Tröedigaeth ſydd mor belled oddi wrth wneuthur yn dda o *Ddefod* a *Gogwyddiad*, fel y mae yn erbyn *Tuedd* eu Natur; a gwell o lawer fyddai ganddynt ddychwelyd at eu Ffyrdd drygionus, oni bae eu bod yn cael eu hannos a'u herlid gan *Ddychrynfëydd Cydwybod wedi deffroi*: a phan y delont wed'yn i weithredu oddi wrth *well* Egwyddor, etto y maent yn cael beunydd ynddynt eu hunain lawer o *Anewyllyſgarwch* a *Gwrthwynebiad* iddo, ac y mae yn hir amſer ſynychaf cyn y cyrhaeddont i *Ddeſod* neu *Hawſdra* o wneuthur *Daioni*. Ond etto, trwy *Barhâd* yn yr Ymarfer o Ddaioni, y maent fwy fwy eu *Tueddrwydd* a'u *Gogwyddiad* atto; ac felly bôb yn ychydig y mae'n dyfod yn *hawdd* ac yn *naturiol* iddynt. Os mynnwn ni byth gan hynny gyrraedd y Perffeithrwydd hwnnw o Ddaioni ag y mae'r Cyflwr nefol yn arwyddocâu, rhaid i hynny fod trwy'r *Ymarfer* o Ddaioni, trwy *hyfforddi* ac *arferu* ein hunain yn waſtadol yn holl Rannau y Fuchedd nefol; yr hyn bôb yn ychydig a *wiſg ymmaith* yr *Anhawſdra* o honi, ac a *gymhwyſa* ein Natur iddi, ac a'i *cynnefina* â hi. *Y pethau a ddylai y rhai ſy'n dyſgu wneuthur, y maent yn ddyſgu trwy eu gwneuthur.* Fel hyn yr ydym yn dyſgu Defoſiwn trwy Weddio, ymoſtwng i Dduw trwy ein gwadu'n hunain, Cariad trwy roddi Eluſen, a Llarieidd-dra trwy faddeu Camweddau. Ac nyni a allwn ddiſgwyl myned yn *ddyſgedig* heb *aſtudio*, gyd â chymmaint o Reſwm a myned yn *ddaionus* heb *ymarfer* Daioni. Gan fod Dedwyddwch ein Natur reſymmol gan hynny yn ſefyll yn y Perffeithrwydd o'r holl Rinweddau nefol, ac mai trwy y rhai'n yn unig y gallwn ni flaſio a mwynhâu Gwrth-ddrychon hyfryd y

Nefoedd;

Nefoedd; fe ganlyn oddi ymma, mai *Ymarfer* y Rhinweddau hynny yw'r Moddion mwyaf *uniawn* a *digyfrwng* gyrraedd *Diben gwynfydedig* ein Crefydd. Ond yna,

II. Math arall o Foddion angenrheidiol i ni er cyrraedd Nefoedd, ſydd yn ſefyll mewn rhyw *Ddyledſwyddau offynnol*, trwy ba rai y mae i ni *gyrraedd*, *cynnyddu*, a *pherffeithio* y *Rhinweddau nefol* hyn. Fe ddangoſer yn helaeth yn ôl llaw beth ydyw'r *Moddion* hyn. Y cwbl a gâf fi ddywedyd am danynt yn breſennol ydyw hyn; nad ydynt ddim Llês na Daioni ym mhellach, nag fel y maent yn *Foddion* o Rinweddau nefol, ac yn gwneuthur tu ag at eu *gyrraedd*, eu *cynnyddu*, a'u *perffeithio* hwynt. Canys fe allir rhannu holl Ddyledſwydd Dŷn dan y *ddau Ben cyffreddinol* hyn; *ſef*, Crefydd y *Diben*, a Chrefydd y *Moddion*. Y mae Crefydd y *Diben* yn cynnwys yr holl *Rinweddau nefol* hynny ymha rai y mae *Perffeithrwydd* a *Dedwyddwch* o Natur Dŷn yn ſefyll: ac y mae'r *Apoſtol* yn rhannu hyn i dri Phen neilldduol; *ſef*, *Sobrwydd*, *Cyfiawnder*, a *Duwioldeb*. Y mae Crefydd y *Moddion* yn cynnwys yr holl Ddyledwydd ag ſydd naill ai yn *naturiol*, neu trwy *Ordinhâd*, yn golygu ac yn gyrru yn y blaen Grefydd y *Diben*; ac y mae'r *Apoſtol* yn ſicrhâu i ni, fod pôb Dyledſwydd arall ad yw ei hun yn Ganghen naturiol ac yn Rhan o honi, n ei golygu ac yn ei gyrru yn y blaen, pan y mae efe yn wedyd wrthym, i *Efengyl* neu *Râs* Duw gael ei daddiddio o'r Nefoedd i'r Diben hwn, i ddyſgu i ni *wadu b Annuwioldeb a Chwantau bydol*, *a byw yn ſobr*, *ac yn fiawn*, *ac yn dduwiol yn y Bŷd ſydd yr awr hon*. Ac i bydd i ni ddefnyddio Crefydd y *Moddion* i'r Diben yn, nid yw hi o ddim *Llês* na *Bûdd* oll i ni. Can's iben pôb Dyledſwydd grefyddol ydyw, naill,

I. Ai *heddychu* Dynion â Duw, a Duw â hwythau; neu,

II. I *berffeithio* y Natur ddynol; neu,

III. I *roi* i Ddynion *Ditl* i'r Nefoedd; neu,

IV. I'w *cymhwyſo* a'u *tueddu* hwynt at y Fuchedd nefol. Nid yw Crefydd y *Moddion* yn fuddiol i un o'r Pethau yn ddim pellach, nag y mae hi yn gweithio ac yn cynnyddu

nyddu ynnom ni y *Rhinweddau nefol* hynny ag ſydd gynnwyſedig yng Nghrefydd y *Diben*. Can's,

I. Nid yw hi ddim pellach nâ hynny yn fuddiol tu ag at ein cymmodi Ni â Duw, a Duw â Ninnau. Can's ni all fod dim *Cymmod o'r Galon* rhwng Partion gwrthwyneb i'w gilydd, oddieithr eu bod hwy yn eu Natur yn *gyffelyb*, ac yn *cyttuno* â'u gilydd. Yn awr y mae'r *Apoſtol* yn dywedyd wrthym, fod *Syniad y Cnawd* (yr hyn ſydd yn cynnwys pôb peth ag ſydd wrthwyneb i'r *Rhinweddau nefol) yn Elyniaeth yn erbyn DUW*, Rhuf. vii. 17. hynny yw, fod ynddo *Gaſineb* naturiol at *Burdeb* a *Daioni* Natur Duw. Ac y mae'r un *Apoſtol* yn dywedyd wrthym, fod y *Caſineb* hwn wedi ei ſeilio yn ein *Gweithredoedd drwg*, Col. i. 21. Fel, er pe gwnaem mor ddiwyd ag y mynnom y cwbl a gynhwyſir yng Nghrefydd y *Moddion*, er pe baem yn *gweddio*, ac yn *gwrando*, ac yn *derbyn Sacramentau*, &c. gyd â chymmaint o Zêl a Dyfalwch ag ellir, etto ſe ſydd hyn i gŷd yn ddilês at *gymmodi* ein Natur â Duw, oddieithr iddo ddifetha y *Syniad cnawdol* ynnom, a'r *Gweithredoedd drwg* hynny ag ſydd yn ein gwneuthur mor gâs gan *Ddaioni* Duw. Ac er fod gan Dduw *bûr Ewyllyſda* at bawb ag ſydd â dim *Daioni* ynddynt, ac yn *cofleidio* ei holl Greadigaeth â Breichiau agored ei *Garedigrwydd*; etto ni ellir bwrw ei fodd ef yn *ymfoddloni*, nac yn *ymbyfrydu* yn neb, ond y rhai ſy *gyffelyb* iddo yn y Graſuſau cariadlawn hynny o *Burdeb* a *Daioni* er mwyn pa rai y mae Efe yn ei garu *Ei Hun*. O herwydd nid yw Efe yn ei garu *Ei Hun* yn unig o herwydd mai *Ei Hun* ydyw (yr hyn a fyddai yn *Wthiad cibddall*, yn hytrach nâ *Charia rheſymmol)* ond o herwydd ei fod yn *dda*; ac y mae yn ei garu Ei Hun uwchlaw pôb peth *arall*, o herwydd ei fod yn gwybod mai Efe Ei Hun yw y Daioni *uwchaf* a mwyaf *perffaith*; ac yn ganlynol, y mae Efe yn caru pôb Peth arall yn gyfattebol, fel y maent yn dyfod yn *agoſat* ac yn *debyccab* iddo mewn Daioni. Ac yn wir, pe bae Efe yn ein caru *ni* o ran un Rheſwm arall heblaw y Rheſwm ſy ganddo i'w garu *Ei Hun*, ni byddai *Rheſwm anfeidrol* ganddo i'w garu *Ei Hun*; o herwydd na byddai y Rheſwm *bwnnw* ganddo i'w garu *Ei Hun*, er mwyn pa un y mae

Efe

Efe yn ein carû *ni*, ac yn ymhyfrydu *ynnom*. Am hynny, gan nad oes dim ond ein *Cyffelybrwydd* i DDUW all ei *heddychu* Ef â ni, a chan fod ein *Cyffelybrwydd* iddo Ef yn ſefyll mewn *Rhinwedd* a *gwir Ddaioni*; ſe ganlyn oddi ymma, fod holl Grefydd y *Moddion* yn ddilês tu ag at ein *heddychu* ni â DUW, oni wnâ hi ni yn *wir rinweddol*. Fel hyd oni ddelo hyn i ben, y mae'r fath *Agendor* rhwng DUW a ninnau, na's gallwn *ni* fyned atto *Ef*, nag *Efe* ddyfod attom *ni*; ac oni newid efe ei Natur, trwy ddyfod yn *aflan* fel yr ydym ni yn *aflan*, neu nyni newid ein Natur, trwy ddyfod yn *bûr* fel y mae Efe yn *bûr*, ſe fydd y fath *Bellder* anfeidrol rhyngddo Ef a ninnau, ag y bydd yn ammhoſſibl i ni byth *gyfarfod* a *chyttuno*. Fel y gellir dywedyd mewn gwirionedd am holl Grefydd y *Moddion*, y peth y mae'r *Prophwyd* yn ddywedyd am *Aberth*; *A foddlonir yr Arglwydd â miloedd o Fyheryn, neu â myrddiwn o Ffrydiau Olew?* A heddycher Ef wrth ein gwaith ni yn *credu* yn unig, neu yn *gweddio*, neu yn *derbyn Sacramentau*, &c. Na wneir, na wneir. *Dangoſodd efe it', Ddŷn, beth ſy dda: a pha beth a gais yr Arglwydd gennyt, onid gwneuthur Barn, a hoffi Trugaredd, ac ymoſtwng i rodio gyd â'th DDUW?* Mica vi. 7, 8.

II. Nid yw Crefydd y *Moddion* er dim Llês i *berffeithio* ein Natur, ymhellach nag fel y mae hi yn offerynnol at weithio a chynnyddu ynnom y *Rhinweddau neſol* hynny ag ſydd gynnwyſedig yng Nghrefydd y *Diben*. Can's byw i fynu yn ôl Egwyddor pennaf y Natur ddynol, yr hon yw *Rheſwm*, yn ddiau ydyw bod yn berffaith Ddŷn; ac hyd oni chaffom unwaith ein rhyddhâu oddi dan Gaethiwed ein *Cnawd* a'n *Nwydau*, ac y bo i'r holl Allu ag ſydd ynnom i weithredu, ymoſtwng, a chymmeryd ei *lywodraethu* yn llwyrgwbl gan yr Egwyddor *uchaf* ymma, ac y bo i ni *ddewis* a *gwrthod*, a *charu* a *chaſâu*, a *gobeithio* ac *ofni*, a *dymuno* ac *ymhyfrydu*, fel y bo jawn Rheſwm yn cyfarwyddo, yr ydym mewn Cyflwr *ambwylus* ac *ammherffaith*. Yn awr beth arall yw *Rhinwedd*, ond arferu byw yn ôl *Cyfreithiau Rheſwm*, neu ymddwyn ein hunain tu ag at DDUW, attom ein hunain, a'r holl Fŷd, fel y mae yn gweddu creu i *Greaduriaid rheſymmol*, ſy wedi

eu goſod yn y Cyflwr a'r Amgylchiadau ag yr ydym ni ynddynt? Ac, hyd nes bo i ni mewn rhyw feſur gyrraedd hyn, y mae ein Natur mor belled oddi wrth fod yn *berffaith*, fel mai'r peth *truenuſaf*, mwyaf *didreſn* yn yr holl Fyd ydyw; *Pentwr* didrefn, lle mae'r Cnawd a'r Rheſwm, yr Anifail a'r Dŷn, wedi eu cymmyſgu ynghŷd heb ddim Trefn, fel Crûg o Garneddau dinyſtriol. Ac am hynny fe fydd Crefydd y *Moddion* yn gwbl ddilês at *berffeithio* ein Natur, oni bydd i ni trwy ei phractеiſio hi gyrraedd Arfer o weithredu yn ôl *Cyfraith* ein *Rheſwm*; a'r *Arfer* hon a gynnwys bôb *Rhinweddau nefol*. Can's *gwybod* a *gwneuthur* yn waſtadol yr hyn ſydd oreu a mwyaf rheſymmol, yw Coron a Pherffeithrwydd pob *Natur reſymmol*: ac am hynny cyn belled ag y mae ein *Ffydd* a'n *Hyſtyriaeth*, ein *Triſtwch* am *Bechod*, a'r *Offerynnau* Crefyddol eraill, yn cynnyddu yr *Arfer nefol* hon ynnom, cyn belled a hynny y maent yn *perffeithio* ein Natur, ac nid *ymhellach*.

III. Nid yw Crefydd y *Moddion* er dim Llês i roi i ni *Ditl* i'r Nefoedd ymhellach, nag fel y mae hi yn gweithio ynnom y *Rhinweddau nefol* hynny ag ſydd gynnwyſedig yng Nghrefydd y *Diben*. Can's, fel y mae ein *Titl* i'r Nefoedd yn gorphwys yn gwbl ar *Addewid* Duw, rhaid iddo darddu yn ddigyfrwng oddi wrth ein Cyflawniad o'r *Ammodau* hynny ar ba rai yr *addawodd* efe hi; ac hyd oni wnelom ni hyn, ni all fod gennym ni fwy o *Hawl* neu *Ditl* i'r Nefoedd, nâ phe buaſai efe heb ei *haddo* hi erioed. Ond yr unig Ammod ar ba un yr *addawodd* efe hi ydyw, *Cyfiawnder* a *Daioni cyffredinol*: can's felly rhodder i ni Sicrwydd, na chaiff neb *heb Sanctеiddrwydd weled DDUW*. Ac *Mat.* v. y mae ein Jachawdwr yn addo holl Wynfyd y Nefoedd i'r Rhinweddau nefol hynny o *Burdeb Calon*, *Tymmer addfwyn*, &c. Felly hefyd, Rhuf. ii. 7. i *ddyfalbarhâu yn gwneuthur Daioni*, y gwneir yr Addewid o Fywyd tragywyddol. Ac fel y bo i ni wybod ym mlaen llaw i ba beth y mae i ni ymddiried, y mae'n Jachawdwr yn eglur yn dywedyd wrthym, mai *nid pôb un ag ſydd yn gwaeddi, Arglwydd, Arglwydd* (ſy'n gwneuthur llawer o *Weddiau* ac *Erfyniau dwys* attafi) *a ddaw i mewn i Deyrnas Nefoedd, ond yr hwn a wnâ Ewyllys fy Nhâd yr hwn*

ſydd

ſydd yn y Nefoedd. A, *Hyn yw Ewyllys DUW*, medd yr Apoſtol, *ſef ein Sancteiddiad ni*; hynny yw, i ni gael ein puro oddi wrth bob Aflendid Cnawd ac Yſbryd, a'n hyſbrydoli â phob Rhinweddau nefol. Ac y mae'r Apoſtol yn bendant yn rhifo i ſynu y Rhinweddau hynny ar ba rai yr addewir i ni Fynediad i mewn i Fywyd tragywyddol, 2 Pedr i. 5, 6, 7, 8. *Chwanegwch at eich Ffydd Rinwedd, ac at Rinwedd Wybodaeth, ac at Wybodaeth Gymmedrolder, ac at Gymmedrolder Ammynedd, ac at Ammynedd Dduwioldeb, ac at Dduwioldeb Caredigrwydd brawdol, ac at Garedigrwydd brawdol Cariad: can's os bydd y pethau hyn ynnoch, ac yn helaeth hwynt* (medd efe) *y maent yn peri na boch na ſegur na diffrwyth yngwybodaeth ein Harglwydd Jeſu Griſt*; hynny yw, chwi gewch dderbyn *Ffrwyth* y *Wybodaeth* honno, yr hyn yw Bywyd tragywyddol: can's yn llyn, *Adn.* 11. y mae'n myned yn y blaen; *Can's felly*, neu ar yr Ammod hwn, *yn helaeth y trefnir i chwi Fynediad i mewn i dragywyddol Deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Jeſu Griſt.* Fel oni bydd i'n Ffydd ni buro ein Calonnau, a gweithio trwy Gariad; oni bydd i'n Triſtwch am Bechod weithio ynnom Edifeirwch, neu Gyfnewidiad Meddwl; oni bydd i'n Gweddiau gyfodi ynnom Serchiadau duwiol a nefol, hynny yw, oni bydd i ni ymarfer *Dyledſwyddau* Crefydd y *Moddion* yn y fath Fodd, ag y bo i ni trwyddynt gyrraedd *Rhinweddau* Crefydd y *Diben*, fe fydd y cwbl mor ddilês tu ag at roi i ni *Ditl* i'r Nefoedd, a'r Gweithredoedd mwyaf *canolig* yn y Byd.

IV. Nid yw Crefydd y *Moddion* er dim Llês tu ag at ein *cymhwyſo* ni i'r Nefoedd ymhellach, nag fel y mae hi yn Foddion effeithiol i gyrraedd Crefydd y *Diben.* Yr hyn ſy Yſtyriaeth gwbl wahanol oddi wrth yr un o'r blaen: can's ni byddai ddim Llesâd i ni fod gennym *Hawl* i'r Nefoedd, oni bae ein bod ym mlaen llaw wedi ein *cymhwyſo* a'n *cyfaddaſu* iddi. O herwydd fod Pleſer yn arwyddocâu, fod *Cyttundeb* rhwng y *peth ydys yn hoffi* â *Phwer yr Enaid* ag ſydd yn ei brofi a'i fwynhâu ef. Ond y mae yn *Nhymmer* pôb Dyn annuwiol *Gaſineb* cryf at Bleſerau y Nefoedd; y rhai, gan eu bod i gŷd yn *ddi-*

wair, ac yn *bûr*, ac yn *ysbrydol*, ni allant byth gyttuno â cham Archwaeth Enaid *brwynt llygredig*. Can's pa Gyttundeb all fod rhwng Yſbryd *llidus cythreulig* â Ffynnon pôb *Cariad* a *Daioni?* rhwng Yſbryd *cnawdol*, na ŵyr am ddim Pleſerau ond Pleſerau 'r Cnawd, â 'r Yſbrydion *pûr dilwgr* hynny nad ydynt nac yn *bwyta* nac yn *yfed*, ond yn byw yn dragywydd ar *Doethineb* a *Sancteiddrwydd*, a *Chariad* a *Myfyrdod?* Diau nes bo ein Meddwl o 'r *un Dymmer* â 'r Cyfiwr nefol, ac y bôm ni o 'r un *Gynneddf* â Duw, ac Angelion, a Seintiau, nid oes un Pleſer yn y Nefoedd ag allwn ni hoffi. O herwydd, *gan mwyaf*, ni fyddwn o 'r un *Dymmer* a *Chynneddf* pan ddelom i 'r Bŷd *arall*, ag ydym wrth ymadael â 'r Bŷd *hwn*; gan na ellir meddwl p'odd y gwneid *Cyfnewidiad cyfangwbl ynnom*, yn unig trwy dramwy o *un* Bŷd i 'r *llall*. Ac am hynny, megis mai *Cyffelybrwydd* fydd yn y Bŷd *hwn* yn *caſglu* ac yn cynnull Creaduriaid ynghŷd; felly yn ddiammau y mae yn y Bŷd *arall* hefyd. Fel os bydd i ni ddwyn gyd â ni *yno* ein Cynheddfau *drwg cythreulig* (fel y gwnawn yn ddiammau, oddieithr i ni eu *daroſtwng* a 'u *marweiddio* hwynt ymma) ni bydd dim Cwmpeini cymmwys i ni gyſſylltu â hwynt, ond yn unig Yſbrydion *cythreulig damnedig* Dynion drwg; gyd â pha rai y bydd i 'n Hyſbrydoedd truenus ni, gan eu bod hwy wedi eu cyſſylltu eiſoes trwy 'r un fath Natur, gymmyſgu eu hunain cyn gynted byth ag yr eſgymmuner hwy i maes o 'r Bŷd hwn. Can's i ba le yr ymgaſglent hwy, ond at yr Adar o 'r un lliw? gyd â phwy yr ymgynnullent hwy, ond gyd â 'r Yſbrydion *maleiſus* hynny â pha rai y maent eiſoes wedi ymgyſſylltu trwy 'r un fath Natur? Fel pe baem ni yn bwrw fod y Peth wedi ei adael i 'w Dewis hwy eu hunain, pan y bo iddynt dirio yn Nhragywyddoldeb, i fyned i 'r *Nef* neu i *Uffern*, i Gymdeithas y *rhai Bendigedig* neu 'r *Damnedigion*; mae 'n eglur taw nid y Nefoedd a fyddai eu Lle hwynt, na chyttunai Awyr y *Wlâd ddiſglair* honno o *Ddydd tragywyddol* byth â 'u Natur *ddû uffernol* hwy. Can's, gwae fy Nghalon! beth a wnaent hwy ymhlith y *rhai Bendigedig* ag ſydd yn preſwylio yno, pan y mae cymmaint o *Wrthwynebiad* rhyngddynt a 'u Natur dduwiol hwy, a 'u My-

fyrdodau

ſyrdodau a'u Gorchwylion nefol? Fel, heblaw bod genym *Hawl* i'r Nefoedd, y mae'n angenrhaid tu ag at ei mwynhâu, i ni fod wedi ein *cymhwyſo* a'n *gwneuthur yn addas* iddi ym mlaen llaw. A chan fod y Peth yn llyn, ſe welodd Duw yn raſol fod yn dda wneuthur y Rhinweddau hynny yn *Ammodau* o'n *Hawl* i'r *Nefoedd*, y rhai yw *Tueddiadau* a *Chynheddfau* cymmwys ein Heneidiau tu ag atti; fel y gallem â'r un a'r unrhyw Boen gael *Titl* iddi, a *chymhwyſo* ein hunain i'w mwynhâu.

Yn awr (fel y dangoſwyd iw'ch o'r blaen) yr *Ammod* o'n *Hawl* i'r Nefoedd yw, i ni *ymarfer* y Rhinweddau nefol hynny ag ſydd gynnwyſedig yng Nghrefydd y *Diben*: ac fel nad yw Crefydd y *Moddion* yn rhoi i ni *Ditl* i'r Nefoedd ddim ymhellach, nag fel y mae hi yn gweithio ac yn cynnyddu y Rhinweddau nefol hyn ynnom, felly nid yw yn ein *cymhwyſo* ni i'r Nefoedd dim ymhellach. Can's pan elo'r Enaid i Dragywyddoldeb, y mae hi yn gadael Crefydd y *Moddion* ar ei hôl, ac nid yw yn dwyn dim gyd â hi ond y *Rhinweddau* a'r *Cynheddfau* nefol hynny a gyrhaeddodd hi ymma trwy y *Moddion* hynny. Can's mewn perthynas i *Ffydd* ac *Yſtyriaeth*, *gwrando Gair DUW*, a *derbyn Sacramentau*, &c. nid ydynt i gŷd ond *Scaffaldau* i'r Adeilad nefol hwnnw o *Burdeb* a *Daioni oddi fewn*; a phan caffo hwn unwaith ei orphen erbyn Tragywyddoldeb, yna rhaid i'r *Scaffaldau* hynny i gŷd fyned i lawr, fel Pethau nad rhaid wrthynt ymhellach. Ond am *Raſuſau* y *Meddwl*, y maent i barhâu yn dragywydd, lle mae pôb Pleſer nefol i gael ei dderbyn ac i breſwylio. Ac am hynny y mae'r Apoſtol yn dywedyd wrthym, mai o'r tri Grâs Cris'nogol hynny, Ffydd, Gobaith, a Chariad, *Cariad* (yr hon yn yr Yſtyr helaethaf ſydd yn cynnwys pôb Rhinwedd nefol) yw'r mwyaf: o herwydd nad yw y ddau flaenaf ond *Moddion Cariad*, hwy a beidiant yn y Nefoedd, ac a lyngcer i fynu yn dragywydd mewn *Golwg* a *Mwynhâd*; ond *Cariad* (medd efe) *byth ni chwymp ymmaith*, 1 Cor. xii. 13.

Trwy hyn i gŷd y mae'n amlwg, nad yw Crefydd y *Moddion* o ddim Llês i ni ymhellach, nag fel y mae hi yn llueddol o weithio a chynnyddu ynnom y Rhinweddau

nefol hynny, yr Ymarfer o ba rai ydyw y Moddion mwyaf *union-gyrch* a *digyfrwng* at *Ddiben* diwethaf y Criſtion. Ac am hynny, fel y dichon Dŷn *guro* a *lliſio*, ac heb fod yn *Weithiwr gwych*, er fod y *Morthwyl* a'r *Ddûr-lif* â pha rai y mae efe yn gweithio yn Offer lleſiol jawn at wneuthur unrhyw *Beiriant* cywrain; felly y dichon Dŷn *weddio*, a *gwrando*, a *derbyn Sacramentau*, &c. ac etto bod yn anghelfydd jawn yn y Grefft fendigedig o fyw yn nefol. Can's er, gwir yw, mai *Moddion* rhagorol yw 'r rhai 'n at fyw yn nefol, etto fel nad yw Celfyddyd y *Crefftwr* yn ſefyll yn yr *Arferiad* o 'i Offer, ond yn ei waith ef yn eu harfer hwynt yn y *fath Fodd* ag ſydd angenrheidiol i berffeithio a chwplhâu ei Waith; felly nid yw Celfyddyd y neb ſydd yn cymmeryd arno fyw Bywyd nefol yn ſefyll yn unig yn ei waith ef yn *gweddio* ac yn *gwrando*, &c. ond yn ei waith ef yn arfer y *Moddion* hyn gyd â'r *Meder* a'r *Deheuâu* Crefyddol hwnnw ag ſydd angenrheidiol i 'w gwneuthur hwynt yn effeithiol i was'naethu *Dibenion Duwioldeb* a *Rhinwedd*.

Ac fel hyn y dangoſais i chwi yn gyffredinol, pa rai yw'r *Moddion* ag ſy angenrheidiol i gyrraedd y Nefoedd; a'r rhai, fel y dywedais, ydynt naill ai 'r fath ag ſydd yn *union gyrch* ac yn *ddigyfrwng* yn tueddu atti, neu 'r fath ag ſydd *o bell* yn ei golygu. Y farh gyntaf yw 'r Ymarfer o'r *Rhinweddau nefol* hynny, ym Mherffeithrwydd pa rai y mae Dedwyddwch y Nefoedd yn ſefyll; yr ail yw 'r Ymarfer o'r *Dyledſwyddau* hynny ag ſydd angenrheidiol i gyrraedd a pherffeithio y *Rhinweddau nefol* hynny. Ac o'r ddwy Ran hyn y gwneir i fynu yr holl *Fuchedd Gris'nogol*; y rhai ſy 'n cynnwys nid yn unig yr holl *Rinweddau* hynny ag ſydd i'w hymarfer gennym yn y Nefoedd, ond hefyd yr holl *Ddyledſwyddau* hynny, trwy ba rai y mae i ni orchfygu Anhawſdra y Rhinweddau hynny, a'u cyrraedd a'u perffeithio hwynt. Y cyntaf o 'r rhai 'n, er mwyn Gwahaniaeth, a alwn ni y *Rhan Nefol o 'r Fuchedd Gris'nogol*; gan mai y Rhan hynny ag a gawn ni fyw yn y *Nefoedd* ydyw, wedi i ni ei dyſgu ymma ar y *Ddaear*. Yr ail a alwaf y *Rhan Filwriaethus o 'r Fuchedd Gris'nogol*; yr hon ſydd yn perthyn i 'n *Cyflwr ar y Ddaear*, lle 'r ydym i ym-

i ymryſon ac ymdrechu â'r amryw Anhawſdra ag ſydd yn ein dilyn yn yr Ymarfer o'r *Rhinweddau nefol* hynny. A'r ddwy Ran hyn, wi'n fwrw, ſydd gynnwyſedig yng- eiriau'r Apoſtol, Phil. i. 27. *Yn unig ymddygwch yn addas i'r Efengyl:* lle mae'r Gair *Groeg*, ag ydym ni yn gyf- jeithu *ymddugwch*, yn arwyddocâu *ymddwyn fel Dinaſydd- ion*; neu, os caniatêir i ni wneuthur Gair newydd, gellir ei gyfieithu, *Dinaſyddiwch yn addas i'r Efengyl*. Can's y mae'r Gair yn arwyddocâu, fod y rhai'ny am ba rai y mae efe yn llefaru yn *freiniol* o ryw *Ddinas rŷdd*. Can's felly y mae'r Gair a gyfieithir *Ymarweddiad*, Phil. iii. 20. yn arwyddocâu *Dinaſyddiaeth*; ac y mae o'r un Yſtyr â'r Gair a gyfieither yn *Act*. xxii. 28. *Dinas-Fraint*; hynny yw, o Ddinas *Rufain*: yr hyn ſydd yn arwyddocâu Stât a Chyflwr y rhai'ny, y rhai, er eu bod yn trigo *i maes* o'r Ddinas, ac weithiau *ymhell* oddi wrthi, yr oedd *Braint* y Ddinas er hynny yn perthyn iddynt. Can's fel hyn y mae *Cicero* yn goſod y peth allan. "Y mae i "bawb a wneir yn rhŷdd o'r Ddinas ddwy Wlâd, un trwy "Natur, y llall trwy Gyfraith; megis *Cato*, yn lle Eſampl, "yr hwn a aned yn *Nhuſculum*, a chwed'yn a dderbyni- "wyd yn Ddinaſydd o *Rufain*." Yr hyn ſydd yn gym- mwys yn cyttuno â Natur y *Ddinaſyddiaeth* nefol hon, ag y mae'r *Apoſtol* ymma yn briodoli i Gris'nogion; y rhai, er eu bod yn breſennol yn perthyn i *Wlâd arall*, ac yn byw ymhell oddi wrth y *Ddinas nefol*, heb fod ganddynt etto ddim Meddiant yn un o'i Trigfannau bendigedig hi; ydynt er hynny yn *Wŷr rhŷdd* o honi, a chanddynt Hawl trwy Gyfammod i'r holl *Freintiau* bendigedig hynny y mae ei Thrigolion yn awr yn fwynhâu. Oddi ymma y mae'n amlwg, fod y Gair *Ymddugwch*, yn y fan honno, yn perthyn iddynt fel yr oeddent yn Ddinaſyddion y Nef- oedd, ac yn eu taer gynghori hwynt i ymddwyn fel y *cyfryw rai*; fel y rhai'ny ag ſydd, er eu bod hwy mewn Gwlâd bell yn awr, er hynny *yn Gyd-Ddinaſyddion â'r Saint oddi uchod*, fel y mae'r *Apoſtol* yn llefaru, *Eph*. ii. 19. ſydd ganddynt *Hawl i'r un Breintiau* a hwythau yn y *Wladwriaeth* nefol honno. A Chynghor yr *Apoſtol*, wedi ei egluro yn llyn, ſydd yn cynnwys ynddo y *ddau*

fath

fath hynny o *Foddion* a enwais i o'r blaen. Can's byw fel *Dinaſyddion* y Nefoedd, ydyw, yn gyntaf, byw fel *Preſwylwyr* y Nefoedd, canlyn eu *Moeſau* a'u *Hymddugiad* bendigedig hwynt, trwy wneuthur Ewyllys Duw ar y *Ddaear*, fel y maent hwy yn gwneuthur yn y *Nefoedd*; a hyn a gynnwys yr *Ymarfer* o'r holl *Rinweddau nefol* hynny ag ſydd gynnwyſedig yng Nghrefydd y *Diben*. Yn ail, byw fel rhai ag ſydd â *Dinaſyddiaeth* ganddynt yn y Nefoedd, ſydd ganddynt *Ditl* trwy Gyfammod i'w *Breintiau* a'i *Rhydd-did* hi, ond ſydd etto i ennill *Meddiant* ynddi, trwy *Ryſel gwaſtadol* ac *Ymryſon* â'r amryw Anhawſdra a Gwrthwynebiadau ag ſydd ar ein Ffordd iddi; a hyn ſydd yn cynnwys yr *Ymarfer* o'r holl *Ddyledſwyddau* hynny ag ſydd gynnwyſedig yng Nghrefydd y *Moddion*. Gan hynny, byw *fel Cris'nogion*, neu *yn addas i'r Efengyl*, ydyw byw yn yr Ymarfer parhâus o'r *ddau* fath hyn o *Foddion* Dedwyddwch. Fel mai'r *Ymarweddiad Cris'nogol* a wneir i fynu o'r *ddau* hyn, yw'r unig Foddion *llawn* a *pherffaith* trwy ba rai y gellir cyrraedd y Nefoedd.

Ond, fel y gallwyf wneuthur hyn yn amlyccach, mi yſtyriaf y ddau Ran ymma yn *wahanol*; ac a geiſiaf ddangos mor effeithiol yw pob un o honynt yn ei Ryw, tu ag at i ni allu mwynhâu Dedwyddwch y Nefoedd. Ac, yn gyntaf, mi ddechreuaf â'r Moddion *agoſaf*; *ſef*, yr *Ymarfer* o'r holl *Rinweddau nefol* hynny ag ſydd gynnwyſedig yng Nghrefydd y *Diben*, ac ſydd yn gwneuthur y *Rhan nefol* o'r *Fuchedd Gris'nogol*.

PEN. III.

Ynghylch y Rhan nefol *o'r* Fuchedd Gris'nogol, *y rhai yw'r* Moddion agoſaf *i gyrraedd y Nefoedd*; *yn dangos pa* Rinweddau *y mae yn gynnwys, a pha gymmaint y mae pób* Rhinwedd *yn wneuthur at Ddedwyddwch y* Nefoedd.

Y Mae Rhinwedd yn gyffredinol yn ſefyll mewn *Ymddugiad cyfaddas* i'r *Cyflwr* a'r *Lle* y goſoder ni ynddo.

Yn

Yn awr y mae Dŷn, yn yr hwn y mae y Rhinwedd ag ydym ymma yn sôn am dani, i'w ystyried dair ffordd.

Yn gyntaf, Fel y mae efe yn *Greadur rheſymmol.*

Yn ail, Fel y mae efe yn Greadur rheſymmol mewn Perthynas â *DUW.*

Yn drydydd, Fel y mae efe yn Greadur rheſymmol mewn Perthynas â phob *Creadur arall.*

A thyma'r holl Yſtyriaethau ymha rai y gall fod dim Rhinwedd yn Natur Dŷn: fel y mae'r holl Rinweddau ag ydym rwymedig iddynt, neu a allwn gyflawni, yn ſefyll mewn Ymddugiad addas i Gyflwr *Creaduriaid rheſymmol*, ſydd mewn Perthynas â *DUW*, ac â'u *Cyd-Greaduriaid.*

Yn ôl y tair Yſtyriaeth hon o'n Natur, y mae'r Rhinwedd neu'r *Ymddugiad addas* ag ydym rwymedig iddo, yn cael ei wahaniaethu i dri math; *ſef*,

Y *Rhinwedd Ddynol*, y *Dduwiol*, a'r *Gymdeithaſol.*

Rhinwedd Ddynol ſydd yn ſefyll mewn Ymddugiad addas i Gyflwr *Creaduriaid rheſymmol* yn unig.

Rhinwedd Dduwiol ſydd yn ſefyll mewn Ymddugiad addas i Gyflwr Creaduriaid rheſymmol mewn Perthynas â *DUW.*

Rhinwedd Gymdeithaſol ſydd yn ſefyll mewn Ymddugiad addas i Gyflwr Creaduriad rheſymmol mewn Perthynas â'u *Cyd-Greaduriaid*, ond yn enwedig *Creaduriaid rheſymmol* ſydd o'r un Drefn a Chymdeithas a ninnau.

Fel y gallwyf gan hynny fyned ymlaen mewn modd amlwg ar y Pen hwn, mi geiſiaf ddangos beth ydyw y *Rhinweddau* hynny yn y *Fuchedd Gris'nogol*, ag ſydd briodol i Ddŷn ymhôb un o'r *Yſtyriaethau* hyn; a pha gymmaint y mae pôb un o'r *Rhinweddau* hynny yn wneuthur at *Ddedwyddwch* y *Neſoedd.*

DOSBARTH. I.

Ynghylch y Rhinweddau dynol *hynny ag ſydd yn perthyn i Ddŷn, fel y mae efe yn* Greadur rheſymmol: *yn dangos eu bôd hwynt oll yn gynnwyſedig yn y* Rhan nefol *o'r* Fuchedd Gris'nogol; *a bod yr Ymarfer o honynt yn gweithio yn effeithiol at ein Dedwyddwch ar ôl hyn.*

YN gyntaf, nyni a yſtyriwn Ddŷn fel y mae efe yn Greadur rheſymmol yn unig, wedi ei wneuthur i fynu o Elfennau gwrthwyneb; *ſef*, *Ysbryd* a *Defnydd ddaearol*, *neu Enaid rheſymmol* a *Chorph dynol*: trwy ba Gyſſylldiad y mae efe fel Boglwm y ddau Fŷd, ymha un y mae'r Bŷd yſbrydol a'r Bŷd defnyddiol wedi eu clymmu a'u huno ynghŷd. A chan ei fod, fel y mae, yn gyfrannog o'r ddau Beth pellaf oddi wrth eu gilydd, *ſef*, Yſbryd a Defnydd daearol, Angel ac Anifail, y mae yn cyfodi ynddo, oddi wrth y Naturiaethau gwrthwyneb hyn, Dueddiadau gwrthwyneb; *ſef*, rhai rheſymmol a chnawdol, neu angylaidd ac anifeilaidd: ac yn y jawn Ymoſtyngiad o'i Dueddiadau cnawdol i'w rai rheſymmol, y mae pob Rhinwedd ddynol yn ſefyll.

O herwydd gan mai ei Reſwm yw'r Egwyddor fwyaf enwog yn ei Natur, rhaid bwrw, i Dduw blannu honno ynddo ef i'w reoli a'i lywodraethu ef, i fod yn Llygad i'w Serchiadau dall anifeilaidd, i ddiwygio Camgymmeriadau ei Feddwl, i oſod Terfynau i'w Chwantau afreolus, a threfnu ei holl Weithredoedd; fel na wnelo efe ddim a fo er Dinyſtr neu Niweid i Agwedd a Gwneuthuriad rhagorol ei Natur. Ond yn awr, yn y Natur gymmyſgedig hon, y mae gan Ddŷn ei *Serchiadau trachwantus* a *digofus*: â'r cyntaf o ba rai y mae efe yn chwennych ac yn canlyn ei Bleſerau; ac â'r ail y mae'n gochelyd ei Beryglon. Ac y mae hefyd *Chwantau corphorol*, megis Newyn, Syched, a Thrachwant y Cnawd, a chyd â'r rhai'n Hunan-Barch a Bri; y rhai'n i gŷd ydynt Ddeiliaid naturiol ei Reſwm ef, a'r

a'r unig Ddeiliaid yn wir ſy ganddo i lywodraethu. Fel y mae pôb Rhinwedd ddynol yn ſefyll yn y jawn Lywodraeth o'r rhai'n, a phôb Bai dynol yn y gam Lywodraeth o honynt. Cyn y gallo Dŷn gan hynny ei lywodraethu ei hun yn dda odiaeth, y mae pum Peth yn hollawl angenrheidiol.

1. Iddo yn ddibartiaeth ymgynghori â'i *Reſwm*, beth ſydd yn gwbl-oreu iddo, a pha ſodd y gall efe oreu ei gyrraedd; ac yno canlyn yn waſtadol Gynghor a Chyfarwyddyd ei Reſwm. Can's cyn belled ag y bo efe yn ôl yn hyn, y mae efe yn taflu ymmaith Lywodraeth ei Reſwm.

2. Iddo beri i'w Serchiadau trachwantus atteb i'r jawn Brîs ag a oſodo ei Reſwm ar y Pethau hynny ag y mae efe yn ſerchu: can's y mae pôb Grâdd o Serch ag ſydd yn myned tu hwnt i Haeddiant Pethau, yn ddireſwm; ac, yn ganlynol, er Niweid i'n Natur reſymmol.

3. Na adawo efe i'w Serchiadau digofus fyned tu hwnt i'r Drygau a'r Peryglon a ſynnai efe ochelyd: can's os gwnâ efe, hwy a brifiant yn fwy o Ddrygau iddo ef nag yw y Drygau a'r Peryglon hynny ſydd yn eu cyfodi a'u cyffrôi hwynt.

4. Na bo iddo fawrhâu ei Chwantau corphorol, er Niweid i'w Natur reſymmol: can's os gwnâ efe, efe a ddiwyna y Rhan enwoccaf o hono ei hun, er mwyn y Rhan waelaf. Ac,

5. Ar y cwbl, bod ganddo Opiniwn iſel am dano ei hun; a pheidio tybied yn well am ei Ymddugiad a'i Lywodraeth o hono ei hun nag y bo yn haeddu: can's trwy wneuthur felly, efe a fydd dueddol o edrych dros ei Lithriadau ei hun, ac felly ei anghymmwyſo ei hun gogyfer a gwneud dim Cynnydd ymhellach.

Ac yn y Pum peth neillduol hyn y mae'r holl Rinwedd honno yn ſefyll ag ſydd yn perthyn i Ddŷn, o'i yſtyried ef yn unig fel y mae efe yn Greadur rheſymmol.

Y cyntaf ydyw'r Rhinwedd o *Gallineb*.

Yr ail ydyw'r Rhinwedd o *Arafwch*.

Y trydydd yw'r Rhinwedd o *Wroldeb*.

Y pedwerydd yw'r Rhinwedd o *Gymmedroldeb*.

Y pum-

Y pummed yw'r Rhinwedd o *Oſtyngeiddrwydd.*

Y rhai'n i gŷd, fel y dangoſaf, ydynt Rannau hanfodol o'r *Fuchedd Gris'nogol*, a'r fath ag ſydd yn gweithio yn effeithiol at ein Dedwyddwch nefol.

I. *Callineb.* A thyma Wreiddyn a Sylfaen pôb Rhinweddau eraill: hon ſydd yn rhoddi Cyfraith ac Amcan i'n holl Symmudiadau, ſydd yn cynnyg y Dibenion, ac yn dangos Meſuron ein Gweithredoedd. Can's beth yw Callineb, ond cael ein harwain a'n cyfarwyddo gan jawn Reſwm, fel y mae hi yn goſod o'n blaen ni y Dibenion mwyaf teilwng, ac yn ein cyfarwyddo at y Moddion cymmwyſaf a mwyaf effeithiol i'w cyrraedd hwynt? Fel mai byw yn gall ydyw byw mewn Ymarfer gwaſtadol o'n Rheſwm, a bod yn waſtadol yn canlyn y fath Ddibenion ag y mae jawn Reſwm yn gynnyg, trwy y fath Foddion ag y mae jawn Reſwm yn ein cyfarwyddo ni attynt, yr hyn yw Gorchwyl priodol pôb Rhinwedd Grefyddol. Am hynny y mae Crefydd yn fynych yn yr Yſgrythur yn cael ei galw wrth yr Enw o *Ddoethineb*, neu *Gallineb. Ofn yr Arglwydd, hynny yw Doethineb*; medd *Job*; *a chilio oddi wrth Ddrwg, ſy Ddeall*, Job xxviii. 28. Ac, *Ofn yr Arglwydd yw Dechreuad Doethineb*, medd *Dafydd*, Sal. cxi. 10. Lle mae *Ofn yr Arglwydd* yn cynnwys pob Gweithred Grefyddol; y rhai gan hynny ydynt *ddoeth* a *chall*, o herwydd mai'r Moddion cymhwyſaf ydynt i'r Dibenion goddiddoccaf hynny ag y mae jawn Reſwm yn gynnyg. Fel mai ymarfer ein Rheſwm i chwilio a chael allan yr hyn ſy gwbl oreu er ein Llês, a dilyn ein Rheſwm wrth ymlid a chyrraedd y Peth y mae hi yn amlygu fod felly, ydyw y Rhinwedd honno o Gallineb, i ba un yr ydym yn rhwym, fel yr ym yn Greaduriaid rheſymmol.

Can's gan mai ein Rheſwm yw Egwyddor enwoccaf ein Natur, yr hon ſydd yn ein derchafu yn uwch nâ'r Anifeiliaid, ie, trwy'r hon y mae Carennydd rhyngom a'r Angelion, ac yr ydym yn cyffinio â Duw ei hun, ni a ddylem ar y Cyfrif hynny ymoſtwng iddi, fel Cyfarwyddwr a Llywydd pennaf ein holl Bwerau eraill, ac edrych arni fel Rheol ein Hewyllys, ac Arweinydd ein holl Symmudiadau. A phan y bôm ni, er mwyn digoni ein Chwantau cnawdol,

cnawdol, neu ein Anwydau diresfwm, naill ai yn esgeuluso y Dibenion hynny y mae ein Rhesfwm yn gynnyg i ni, neu yn eu canlyn trwy'r fath Foddion nad yw ein Rhesfwm yn ganiatâu, yr ydym yn gwyrdrôi Tuefn ein Natur, ac yn gwneuthur yn wrthwyneb i ni ein hunain; a thra y gwnelom felly, y mae'n anmhosfibl i ni fod yn ddedwydd, nac ymma, nac ar ôl hyn. Can's chwi welweh fod pôb peth yn glafycca, tra y mae mewn 'Stât a Chyflwr annaturiol, tra y mae ei Rannau i maes o'u Lle, neu wedi eu gosod yn annhrefnus, neu wedi eu gwyro i Lûn annaturiol. Ac felly y mae gyd â Dŷn, yr hwn, tra mae efe yn cadw Pwerau ei Enaid yn eu sefyllfa naturiol, un dan y llall, tra y mae efe yn peri i'w Serchiadau a'i Chwantau ymostwng i'w Ewyllys, a'i Ewyllys i'w Resfwm, y mae efe yn dawel ac yn llonydd, ac yn mwynhâu Esmwythder a Llonyddwch gwastadol oddi fewn: ond pan y torro efe y Drefn hon unwaith, ac y gadawo efe i'w Nwydau a'i Chwantau dreisio Lle ei Resfwm; i osod arno *Ddibenion* gwrthwyneb, neu i ddangos *Moddion* gwrthwyneb; fe fydd Galluoedd ei Enaid, fel Aelodau wedi digymmalu, mewn Ing a Phoen gwastadol. A thyma'r Achos ein bod yn teimlo, mewn Cwrs o Fywyd drwg, y fath Ymryson diorphwys rhwng ein *Hysbryd* a'n *Cnawd*, rhwng *Ddeddf yn ein Meddyliau* a'r *Ddeddf yn ein Haelodau*, herwydd fod ein Natur yn anghysson, a Phwerau yr Enaid i maes o'u Lle, ac yn annhrefnus, a bôd yr Egwyddor bennaf honno o Resfwm, yr hon a ddylasai ein rheoli a'n llywodraethu ni, wedi ei thynnu oddi ar ei Gorseddfaingc, a'i gwneuthur yn Wâs i'n Chwantau a'n Nwydau. Can's yn ein holl Ffyrdd drygionus yr ydym yn dewis ac yn gwrthod, yn bwriadu ac yn gweithredu, nid fel y mae *Rheswm* yn ein cyfarwyddo ni, ond yn ôl Tuedd y Cnawd a'r Nwydau; a chan nad oes gan ein Rhesfwm ddim i wneuthur yn yr holl Waith anifeilaidd hyn, y mae naill yn cysgu heb feddwl na gofalu, neu yn eistedd gerllaw fel Edrychwr segur, ac heb ddim ond beio a chondemnio'r gwaith. A thyma'r Peth sydd yn peri yr holl Derfysg a'r Ymryson sydd yn ein Natur; ac hyd nes bo i Bwerau'r Enaid, trwy'r Ymarfer o *Gallineb*, gael eu dwyn i'w Lle,

a'u goſod yn drefnus drachefn, ſe fydd ein *Meddwl* fel ein *Corph*, tra y mae ei Eſgryn wedi dadgymhalu, yn waſtadol yn ddiorphwys ac yn aflonydd. Ac am hynny, i ſymmud y Gwrthwynebiad mawr hwn ag ſydd yn ein Natur at Ddedwyddwch, ſe ofynner *Callineb* oddi wrthym, fel un o *Rinweddau* pennaf y *Rhan nefol* o'r *Fuchedd Gris'nogol*.

Can's fel hyn y mae'n Jachawdwr yn gorchymmyn, i ni fod yn *gall fel Seirph, ac yn ddiniweid fel y Colommennod*. Mat. x. 16. Yr hyn er ei orchymmyn ymma mewn Achos neillduol yn unig, *ſef*, yn Achos Erledigaeth; etto, gan fod Rheſwm y Peth yn cyrraedd at bôb Achoſion eraill, a bod yn gymmwys i ni fod yn gall ymhob peth a gymmerom yn llaw, yn gyſtal ag wrth ddioddef Erledigaeth, y mae ar y Cyfrif hynny gymmaint a phe buaſai yn Orchymmyn cyffredinol. Felly hefyd, Eph. v. 15. *Gwelwch pa fodd y rhodioch yn ddieſgeulus, nid fel annoethion, ond fel doethion.* Hynny yw, Yn eich holl Weithredoedd cymmerwch Ofal i ganlyn Cyfarwyddyd eich Rheſwm, ac na chymmerwch eich twyllo gan eich Chwantau a'ch Nwydau deillion, y rhai nad ydynt ond Tân twyllodrus, neu Arweinyddion Ffyliaid. Ac felly y mae'r Apoſtol yn gweddio dros ei *Goloſſiaid* Cris'nogol, *Ar iddynt gael eu cyflawni â Gwybodaeth o Ewyllys DUW, ymhôb Doethineb a Dyall ysbrydol*, Col. i. 9. Hynny yw, Ar iddynt gael y fath Wybodaeth o Ewyllys Duw, ag a'u gwnae hwynt yn gall mewn gwirionedd, ac a barai iddynt ganlyn y *Dibenion* goreu trwy y *Moddion* goreu. Ac, er mai anſynych y cyfarfyddwn â'r Rhinwedd hon yn y Teſtament Newydd wrth ei Henw ei hun, etto, megis y gelwir hi yn y Lleoedd uchod yn *Ddoethineb*, felly y gelwir hi *Gwybodaeth* mewn Lleoedd eraill; megis yn neillduol, 2 *Cor.* vi. 6. lle y mae efe yn gorchymmyn i Weinidogion yr Eglwys i'w dangos eu hunain felly trwy amryw Rinweddau, ac yn neillduol trwy *Burdeb*, hynny yw, *Diweirdeb*; a thrwy *Wybodaeth*, hynny yw, trwy *Gallineb*. Can's, heblaw nad oedd *Gwybodaeth*, fel y mae yn arwyddocâu *Dyalldwriaeth ym Mhethau DUW*, yn *Rhinwedd* yn yr Apoſtolion, ond *Dawn* Duw, ac felly yn anghymmwys i gael ei chyfrif ymhlith y Rhinweddau hyn; prin

y gellir rhoi un Rheſwm p'am y goſodaſai yr Apoſtol *Wybodaeth* ynghanol cynnifer o *Rinweddau moeſol*, oni buaſai ei fod efe yn dyall wrthi y Rhinwedd o *Gallineb*; yr hon ſydd megis yn Llygad ac yn Arweinydd i'r holl Rinweddau eraill. Felly dracheſn, 2 *Pedr* i. 6. lle y mae efe yn erchi i ni chwanegu at *Ffydd*, *Rinwedd*; hynny yw, *Gwroldeb*, neu Ddianwadalwch Meddwl; *ac at Rinwedd*, *Wybodaeth*; *ac at Wybodaeth*, *Gymmedrolder*: wrth *Wybodaeth* mae'n debygol jawn ei fod ef yn dyall *Callineb*; o herwydd ei fod yn ei goſod hi ynghanol y *ddwy Rinwedd* hynny ag ſydd yn dyfod agoſaf at *Gallineb*.

Yn awr, fod yr Ymarfer o'r Rhinwedd hon yn Foddion cymmwys jawn ac effeithiol o'n Dedwyddwch tragywyddol, ſydd amlwg oddi ymma; o herwydd trwy ymarfer y Rhinwedd hon, ein bod yn gwneud Defnydd o'n Rheſwm yn waſtadol. Can's gwneuthur yn gall mewn Crefydd, yw canlyn y Rheſwm goreu; ceiſio y Neſoedd, yr hyn yw'r Diben goreu, a chyfarwyddo ein Gweithredoedd yno yn ôl y Rheolau goreu: ymgynghori beth ſy oreu er ein Llês yw hyn, a pha fodd y gellir oreu ei gyrraedd. Mewn gair, amcanu y Daioni pennaf uwch law'r cwbl ydyw, a gwneud i'n Bucheddau a'n Gweithredoedd yn dra unionGyrch dueddu tu ag atto. Dymma beth yw *Callineb* Crefyddol yn gyffredinol; ac am y Rhannau neillduol o honi, y rhai ydym yn rhwym i'w hymarfer yn yr amryw *Gyflwrau*, *Perthynaſau*, ac *Amgylchiadau* ymha rai y goſoder ni, y maent i gyd yn ſefyll yn y Gwneuthuriad o'r hyn ſy gymhwyſaf a mwyaf rheſymmol mewn perthynas i'r Diben mawr bendigedig hwnnw.

Can's, trwy fyw yn yr Ymarfer gwaſtadol o *Gallineb* Crefyddol, nyni a ymgynnefinwn bob yn ychydig â Bywyd o Reſwm, ac a yſgwydwn ymmaith y Swyn cyſgadur y mae'r Cnawd a'r Anwydau yn adael ar ein Meddyliau, ac yn gwneuthur Galluoedd ein Heneidiau mor ſwrth a diwaith; a chwedi cynnefino ein hunain dro i ballu ufuddhâu i'w traws Orchymynion cibddall, ein Rheſwm a ailennill ei Orſeddfaingc ynnom, ac a gyfarwydda ein holl Amcanion a'n Hymroâdau at yr hyn ſydd gymhwyſaf a rheſymmolaf. Can's, gan ein bod yn Greaduriaid terfyn-

edig, ni's gallwn ni weithredu amryw Ffyrdd gyd â'r un faint o Fywiogrwydd ar unwaith; ac y mae ein Tueddiadau rhesymmol a chnawdol wedi eu gwneuthur yn y fath Dresn uniawn gydbwys, fel yn gyfattebol ag y mae'r naill yn cynnyddu mewn Bywiogrwydd, y mae'r lleill yn wastadol yn lleighâu; ac felly yn gyfattebol, fel yr ydym ni yn gwanhâu yn Nerth ein Galluoedd anifeilaidd, nyni a gynnyddwn ym Mywiogrwydd ein Galluoedd rhesymmol. Ond, gan mai Diben holl *Alluoedd* ein Heneidiau a'n *Pwerau i weithredu*, ydyw gwneuthur yn gyfattebol i'w Natur, fe ddarfu i Dduw Natur, er mwyn eu cyffrôi hwynt at hynny, seilio eu holl Hyfrydwch yn yr Ymarfer bywiog o honynt ar Wrth-ddrychon addas iddynt. Gan mai ein Rheswm ynte yw'r goreu a'r enwoccaf o'n holl *Bwerau i weithredu*, diau y rhaid i'r Plesser mwyaf ag allwn ni gael darddu oddi wrth yr Ymarfer o'n Rheswm. Gan fod *Callineb* ynte yn sefyll yn y Defnyddiad o'n Rheswm, rhaid i'r Ymarfer o hono weithio yn effeithiol at ein Plesser a'n Dedwyddwch. Can's mynych Arfer a gefnoga ac a gynnydda ein Rheswm yn fawr, ac a wnâ iddi hid yn unig ddyall yn well beth sy gymmwys a rhesymmol, ond hefyd i annog a thyccio yn fwy; a phan cynnydder hi unwaith i *Egwyddor dyctianol* o Weithred, ac y cyrhaeddo hi nid digon o Fedr yn unig i orchymmyn yr hyn sydd uniawn i ni, ond hefyd digon o Allu i beri i ni gyttuno â'i Gorchymynion hi; i ddewis a gwrthod, caru a chasâu, gobeithio ac ofni, dymuno ac ymhyfrydu, a rheoli ein holl Weithredoedd yn ôl ei Chyfreithiau a'i Gorchymynion hi, yna yr ydym yn dechreu ar ein Nefoedd a'n Happusrwydd.

Can's y Peth ag sydd yn ein gwneuthur yn anhappus ydyw, fod ein Serchiadau pechadurus ac afresymmol yn ein blino ac yn ein dyrysu ni yn y fath fodd, na's gallwn ni ymarfer Galluoedd ein Heneidiau gyd â Rhydd-did ar y fath Wrth-ddrychon ag sydd fwyaf gweddus iddynt; fod ein Tueddiadau drwg yn llyffetheirio ein Meddyliau a'n Gwllysiau yn y fath fodd, na's gallwn eu gosod hwynt allan ar yr hyn sydd fwyaf teilwng i'w adnabod a'i ddewis, heb lawer jawn o Anhawsdra a Chaledi. Ond

yn

yn awr ſe fydd i Alluoedd ein Heneidiau dan Lywodraeth ein Rheſwm, bob yn ychydig, ail-ennill eu Rhydd-did, a'u gwaredu eu hunain oddi wrth yr Arferiadau drwg hynny ag ſydd yn eu cloffi a'u rhwyſtro yn eu Symmudiadau rheſymmol. A phan dduger hyn yn gwbl i ben, yr ydym mewn llawn Feddiant o'r Cyflwr nefol; yr hwn, fel y dangoſais, ſydd yn ſefyll yn yr Ymarfer rhŷdd a bywiog o Alluoedd rheſymmol ein Heneidiau ar y Gwrthddrychon goreu a mwyaf teilwng. Can's, pan y mae ein Anwydau a'n Chwantau unwaith wedi eu perffaith ddaroſtwng i'n Rheſwm, ſe fydd ein holl Alluoedd rheſymmol yn rhŷdd, a phob un a ymſymmud tu ag at ei Wrthddrych priodol ei hun yn ddirwyſtr; ein Dyall a lyngcer i fynu mewn dwys Yſtyriaeth o'r Gwirionedd mwyaf derchafedig; bydd ein Hewyllyſiau wedi eu cwbl roddi i fynu i ddewis a chofleidio y Daioni cywiraf; ein Serchiadau wedi ymroddi yn ddigyfnewid i garu a mwynhâu y Tegwch a'r Perffeithrwydd gododdocaf: ac yn hyn y mae Cyflwr dedwydd y Nefoedd yn ſefyll; fel y mae byw yn gall, neu, yr hyn yw'r un peth, llywodraethu ein hunain yn ôl ein Rheſwm goreu, yn Foddion angenrheidiol ac effeithiol i gyrraedd y Cyflwr nefol.

II. Rhinwedd arall ag ſydd yn perthyn i Ddyn, o'i yſtyried yn unig fel y mae yn Greadur rheſymmol, ydyw *Arafwch*: yr hon ſydd yn ſefyll yn y Cyfatteboliaeth o'n Serchiadau trachwantus i jawn Werth a Pharis Pethau; fel na bo i ni na threulio ein Serchiadau yn rhŷ afradus ar Goeg-bethau, nag etto arbed gormod arnynt, na bod yn rhŷ gynnil mewn Pethau gwir-dda a ſylweddol. Ond i garu, dymuno, a diſgwyl Pethau yn fwy neu yn llai, yn ôl y Farn y mae'n Rheſwm goreu a mwyaf dibartiaeth yn wneuthur o'u Gwerth a'u Daioni hwynt. Can's y neb ſydd yn ſerchu Pethau yn fwy nag y maent yn haeddu wrth Farn Rheſwm, ſydd yn eu ſerchu hwynt yn ddireſwm, ac yn trefnu ei Wyniau yn ôl ei Feddylfryd gwyllt afreolus, ac nid yn ôl ei Reſwm a'i Farn. A thra y mae Dynion fel hyn yn eſgeuluſo eu Rheſwm, ac yn ymarfer eu hunain i ddymuno, a charu, a ſerchu hebddo, y mae'n rhaid iddynt eu llwyr anghymmwyſo eu hunain i fwynhâu

Dedwyddwch rheſymmol. Can's, heblaw y bydd i'w Galluoedd rheſymmol hwynt, o gael eu goſod heibio yn llyn, a bod heb ddim Gwaith, yn naturiol fagu Rhŵd, a dyfod bob Dydd yn wannach ac yn ddioecach; heblaw y bydd i'w Rheſwm, heb ei arferu, doddi ymmaith mewn Diogi a Seguryd, a'i holl Allu bywiol rewi o eiſiau ymſymmud, ac fel Dwfr a fo'n ſefyll, lonyddu a chaſglu Llaid, a phob yn ychydig lygru a braenu, nes o'r diwedd y bo'n ammhoſſibl ei adfywio at yr Ymarfer a'r Symmudiad bywiog ymha rai y mae ei Hyfrydwch a'i Ddedwyddwch yn ſefyll; heblaw hyn, meddaf, trwy gynnefino ein hunain i ſerchu Pethau yn ddireſwm, hynny yw, i garu yn fwyaf y Pethau lleiaf eu Daioni, a'r Pethau mwyaf eu Daioni, leiaf; ni lŵyr anghymmwyſwn ein hunain i fwynhâu dim Pethau da, ond yn unig y fath Bethau na's gallant ein gwneuthur yn ddedwydd. Can's y neb a garo un Daioni yn fwy nag a dalo, ni all byth fod yn ddedwydd yn y Mwynhâd o hono; o herwydd ei fod yn meddwl fod mwy ynddo nag y mae efe yn gael, ac felly y mae'n waſtadol yn cael ei groeſi yn y Mwynhâd o hono. A'r Gofid o gael ei groeſi o'r hyn oedd efe yn ddiſgwyl, ſydd fynychaf yn fwy nâ'r Hyfrydwch o'r hyn y mae efe yn gael ac yn fwynhâu. Tra y mae efe yn canlyn unrhyw Beth da ag y mae efe yn garu yn anghymmedrol, y mae efe yn wyllt ac yn wâgdybus; y mae efe yn chwyddo â Llawenydd ynfyd, ac yn ei hudo ei hun i Ddiſgwyliadau, ſydd mor helaeth a diderfynau a'i Ddymuniadau ef: ond wedi iddo unwaith ddal gafael arno, a gweled pa gymmaint y mae 'r Mwynhâd yn dyfod yn fyrr o'i Ddiſgwyliad, y mae'n fuan yn colli ei Bleſer yn ei Siommedigaeth; ac felly y mae efe mor anfoddlon ag erioed. Ac yn llyn, pe bae efe i dreulio Tragywyddoldeb wrth erlid a mwynhâu y cyfryw Bethau, ni byddai ei Fywyd ddim arall ond Diſgwyliadau a Chroeſau yn canlyn eu gilydd ôl yn ôl yn dragywyddol. Fel y mae pob Serch annhrefnus yn deſtrywio ei Foddlondeb ei hun, ac o gymmaint y mae yn myned tu hwnt i wir Werth a Phris Pethau, o gymmaint a hynny y rhaid iddo ein gwneuthur yn fwy truenus.

Heblaw

Heblaw hyn hefyd rhaid yſtyried, mai Pethau ag a ddugerar fyrr yn dragywydd oddi arnom, ydyw'r Pethau da bychain hyn ag y mae'n Serchiadau afreolus ni yn chwantu: can's y Pethau da bychain ydyw y rhai'ny ag ydd yn unig yn dda i'r Rhan waethaf o honom, hynny yw, i'n Corph a'n Bywyd daearol. Pethau da priodol pa rai ydyw y Mwyniant oddi allan, tymhorol, o Bethau y Byd hwn: y rhai'n i gŷd, pan ymadawom â'r Bŷd hwn, raid i ni adael yn dragywydd, a myned ymmaith i Dragywyddoldeb, heb ddim o bobtu i ni, ond yn unig Cynheddfau da neu Gynheddfau drwg ein Heneidiau. Fel os bydd ein Henaid wedi ei wneuthur yn gnawdol, trwy ormod o Serch at Bethau'r Bŷd hwn, nyni a ddugwn y Serch honno gennym, ond a adawn y Pethau ag ydym fel hyn yn ſerchu mor daer ar ein hôl yn dragywydd. Can's yn ddiammau, yr un peth a fydd Tymmer dycciannol Eneidiau yn y Bywyd neſaf, ag ydyw efe yn hwn: can's er y bydd i'r Eneidiau hynny yn ddiau gynnyddu wedi dyfod i'r Bŷd arall, y rhai oeddent yn wir-ddaionus o'r blaen; etto ni ellir meddwl pa fodd y creid y rhai'ny yn dda ag ydynt wedi ymgynneſino â drwg: ac os parhâ gyd â ni yn y Bŷd arall y Serch tycciannol hwnnw at y Pethau tymhorol hyn, yr hwn a ennillaſom yn y Bŷd yma, rhaid iddo wneuthur ein Trueni ni yn annhraethadwy yno. Can's pob Chwant a ddugo'r Enaid gyd â hi i'r Bŷd arall, trwy gael ei neillduo yn dragywydd oddi wrth ei Bleſerau, a dry yn Ddymuniad diobaith, ac ar y Cyfrif hynny a aiff yn fwy cynddeiriog a diammynedd. Can's o holl Boenau'r Meddwl, ni's adwaen un a ellir ei gyffelybu i Boen Dymuniad trachwyllt wedi ei gyſſylldu ag Anobaith o Foddlondeb; yr hyn yn gymmwys yw Cyflwr Eneidiau cnawdol a bydol yn y Bywyd arall, lle y maent yn llawn o Ddymuniadau llym diwahardd, ac fel Dynion newynllyd wedi eu cau i fynu rhwng dwy Fagwyr, yn cael eu poeni â Newyn llym-doſt, ond yn ddiobaith, ac heb ddim i ymborthi arno, ſydd yn eu 'ſglyfaethu ac yn eu bwyta eu hunain; ac yn y Cyflwr anial hwn y maent yn gorfod crwydro ymma a thraw, yn cael eu poeni â Chynddeiriogrwydd diorphwys, Dymuniad newynllyd heb ei

ddigoni, yn taer chwennych Ymborth, ond heb gael, na diſgwyl dim: ac felly y maent yn nychu ymmaith hir Dragywyddoldeb mewn Ing annhraethadwy. Ac er y gallent gael Boddlonrwydd, pe gallent droi eu Serchiadau Ffordd arall, a'u heddychu hwynt â'r Mwyniant nefol; etto, gan eu bod wedi ymrwymo ym mlaenllaw mewn Pethau cnawdol, nid oes ganddynt Flâs nac Archwaeth ar ddim arall, ond y maent fel Tafodau Dynion mewn Twymyn, ſydd yn casâu ac yn ffieiddio y Gwlŷb mwyaf blaſus, o herwydd fod eu Buſtl hwy wedi llenwi gormod. Mor ammhoſſibl ydyw i Ddynion fod yn ddedwydd, naill ai ymma neu ar ôl hyn, cyhyd ag y mae eu Serchiadau hwynt at Bethau da bychain y Bŷd hwn gymmaint yn fwy nag yw eu Pris a'u Gwerth hwynt!

Un Rhan hanfodol gan hynny o'r Fuchedd Gris'nogol, yr hon yw Moddion mawr ein Dedwyddwch, yw y Rhinwedd o *Araſwch*; Swydd briodol yr hon ydyw goſod Terfynau i'n Serchiadau trachwantus, fel na bo i ni oſod mwy o'n Serch a'n Dymuniad ar Bethau'r Bŷd hwn nag a dalant. Can's er nad yw'r Gair, yn yr Yſtyr ag yr ydym ni yn awr yn ei gymmeryd ef, mewn un Lle yn y Teſtament Newydd; etto y mae'r Rhinwedd ag ydys yn feddwl wrtho, yn fynych yn cael ei gorchymmyn yno; megis yn neillduol lle y gwaherddir i ni *roddi ein Serch ar Bethau ſy ar y Ddaear*, Col. iii. 2. *i garu'r Bŷd, neu'r Pethau ſy yn y Bŷd*, 1 Joan ii. 15. Nid oes dyall yr Ymadroddion hyn fel pe na ddylem garu Mwyniant y Bŷd *oll*; can's Bendithion Duw ydynt, a'r fath ag y mae efe wedi oſod o'n blaen ni yn ei Addewidion fel Gwabrôn ac Annogaethau i ni ufuddhâu; a diammau, na buaſai efe byth yn ein hannog ni i ufuddhâu iddo â Gobaith o'r fath Wabron ag ſydd anghyfreithlon i ni eu dymuno a'u caru: Yſtyr y Gwaharddiadau hyn ynte ydyw, na ddylem oſod mwy o'n Serch ar Bethau y Bŷd hwn nag a dalont, neu fwy nag y maent yn haeddu. Can's nid gwahardd i ni garu'r Bŷd *oll* y mae'r Geiriau hyn, ond gwahardd i ni ei garu ef cyn belled ag na allo gyd-ſefyll â Chariad Duw: can's, *O câr neb y Bŷd*, medd S. *Joan*, *nid yw Cariad y Tâd yndo ef*; *hynny yw*, Y neb a'i caro ef cyn belled a

dewis

dewis Golud, Anrhydedd, a Phleſerau'r Byd, o flaen Duw, a'i Ddyledſwydd iddo ef, nid oes ganddo wir Gariad at Dduw; hynny yw, nid yw efe yn caru Duw megis Duw, ſel y Daioni pennaf, a'r Tegwch a'r Perffeithrwydd uwchaf. Am hynny y gelwir *Cybydd-dod*, yr hwn ſy Ddymuniad anghymmedrol ar ôl y Byd, yn *Ealun-addoliaeth*, Col. iii. 5. o herwydd ei fod yn goſod y Byd yn lle Duw, ac yn rhoddi iddo y fath fawr Serch ag ſy ddyledus yn unig i Dduw: a hyn y mae'r Apoſtol yno yn alw *Drygchwant*; o herwydd fod y Chwant yn fwy o lawer nag a dalo y Pethau a chwennycher. Am hynny y gorchymynner yn daer i ni *edrych ac ymogelyd rhag Cybydd-dod*, Luc xii. 15. a *bod â'n Hymarweddiad yn ddiariangar*, Heb. xiii. 5. Trwy y rhai'n i gŷd, ac amryw eraill o Orchymynion a Gwaharddiadau yr Efengyl, y mae attal ein Serchiadau trachwantus yn cael ei wneuthur yn Rhan angenrheidiol o'r *Fuchedd Gris'nogol*.

Yn awr, fod hyn hefyd yn gwneuthur yn fawr tu ag at gyrraedd Dedwyddwch y Nefoedd, ſydd amlwg, nid yn unig oddi wrth yr hyn a ddywedwyd eiſoes, ond hefyd oddi ymma, na allwn ni gael dim Blâs nac Archwaeth ar Bethau nefol, nes bo ein Serchiadau wedi eu hattal yn llyn. Can's yn y Cyflwr llygredig hwn, yr ydym yn gyffredinol yn dyall wrth ein Serchiadau, y rhai, ſel Gwydr wedi ei liwio, ydynt yn goſod pob peth o flaen ein Llygaid yn eu Lliw eu hunain. Pan y mae Serchiadau Dŷn gan hynny yn rhedeg yn anghymmedrol ar ôl Pethau'r Byd, hwy fyddant ſiwr o lygru a gwyro ei Farn ef bob yn ychydig, a'i wneuthur ef mor anghymmwys i farnu ynghylch Pethau duwiol ac yſbrydol, ag yw Arddwr i derfynu Dadleuon mewn Yſgolion. Can's wedi i Feddyliau Dŷn fod ar waith Ffordd arall, a Hyfrydwch cnawdol dros hir amſer gael Meddiant blaen-llaw ar ei Ddeall ef, efe a farn fod Pethau yn dda neu yn ddrwg, ſel y bônt yn flaſus neu yn ddiflâs i'w Chwantau îs ef; a chan mai dymma y Rheol yn ôl pa un y mae efe yn meſur Pethau, y mae'n ammhoſſibl iddo gael dim Blâs ar y Pethau yſbrydol hynny ag ſydd yn gwneuthur i fynu Ddedwyddwch y Nefoedd. Can's, er fod Tueddiad yn ei Natur ef at Bleſerau Rheſwm,

etto

etto efe all, ac y mae efe yn fynych yn mogi ac yn diffodd y Tueddiad hwn, trwy ei roi ei hun i fynu yn llwyr-gwbl i Hyfrydwch ei Synhwyrau, y rhai bob yn ychydig a doddant ei Dueddiadau rheſymmol a chorphorol am ben ei gilydd, ac a gymmyſgant ei Chwantau cnawdol am ben y rhai yſbrydol yn y fath fodd, ag y bo i'w Enaid gwbl gyd-nawſeiddio â'i Gorph, a hoffi a ffieiddio pob peth fel y bo'r Corph yn gwneuthur; ac ni ddichon dim foddloni y naill, ond a fo'n hyfryd i Chwant diderfyn y llall.

Yn awr, rhaid i'r Bŷd yſbrydol fod yn *Anialwch diffrwyth* i'r fath Enaid, lle nad oes dim Daioni yn tyfu ag allo efe fyw arno, dim ond ſydd yn gâs ac yn ddiflâs i'w Enau budr ef; lle mae Gwledd ragorol yn wir i Eneidiau ag ſydd o'r un Naws â hwynt, ſydd eiſoes wedi eu profi hwynt; ond nid un Diferyn o Ddwfr i oeri Blaen Tafod cnawdol, neu i dorri Syched Dymuniad aflan. Fel pe caem ein derbyn i'r Lle nefol hwnnw lle y mae'r rhai Bendigedig yn preſwylio, etto oni byddem wedi cyrraedd eu Cynheddfau nefol hwynt, ni's gallem byth fod yn Gyd-gyfrannogion â hwy yn eu Pleſerau. Can's cymmaint a fyddai Caſineb ein Serchiadau cnawdol attynt, fel y byddai i ni yn ddiammau ffoi ymmaith oddi wrthynt, a dewis bod yn ddideimlad yn dragywydd, yn hytrach nâ chael ein condemnio i brofi dros fyth y Peth ſy mor gâs gan ein Natur. Fel hyd nes bo i ni mewn rhyw feſur ddofi ein Serchiadau trachwantus, a'u diddyfnu hwynt oddi wrth ormod o Gariad at Ddâ'r Bŷd hwn, y mae'n ammhoſſibl i ni fwynhâu Dedwyddwch y Nefoedd: can's y mae Nefoedd yſbrydol a Meddwl cnawdol mor berffaith wrthwyneb i'w gilydd, fel oddieithr i hwn gael ei wneuthur yn yſbrydol, neu i honno gael ei gwneuthur yn gnawdol, y mae yn ammhoſſibl iddynt byth gyfarfod a chyttuno.

III. Rhinwedd arall ag ſydd yn perthyn i Ddŷn, o'i yſtyried yn unig fel y mae yn Greadur rheſymmol, ydyw *Gwroldeb*: yr hyn yn yr Yſtyr helaethaf ydyw, peidio gadael i'n Serchiadau digofus fyned tu hwnt i'r Drygau neu'r Peryglon ag ydym yn geiſio wrth'nebu neu ochelyd; cadw ein Hofn a'n Digofaint, ein Malais, Cynſigen, ac

Ymddial,

Ymddial, yn y fath jawn Ymoſtyngiad, na bo iddynt fyned dros y Terfynau hynny y mae Rheſwm, a Natur Pethau, yn oſod iddynt. Can's yr wyf yn cymmeryd *Gwroldeb* ymma fel y Rheol ag a ddylai arwain a chyfarwyddo yr holl Wyniau digoſus hynny ynnom ni, ag ſydd yn cyfodi oddi wrth Deimlad o unrhyw Ddrwg neu Berygl; yr hon ſydd i'n hamddiffyn ni yn erbyn yr holl Argraphiadau blinderus ac aflonydd hynny, y rhai y mae Drygau oddi allan a Pheryglon yn dueddol o weithio ar ein Meddyliau. Ac yn yr Helaethder hwn y mae *Gwroldeb* nid yn unig yn cynnwys *Calondid*, fel y mae yn wrthwyneb i *Ofn*; ond *Mwynder* hefyd, fel y mae yn wrthwyneb i *Greulonder*; *Tmaros*, fel y mae yn wrthwyneb i *Eiſiau Ammynedd*; *Boddlondeb*, fel y mae yn wrthwyneb i *Genfigen*; a *Llarieidd-dra*, fel y mae yn wrthwyneb i *Falais* ac *Tmddial*: y rhai ydynt oll yn Wyniau Meddyliau egwan a llwfr, na's gallant wrthſefyll Drwg, na dioddef iddo gyffwrdd â hwynt yn y Meſur lleiaf heb gael eu cyffrôi a'u hannhrefnu; y rhai y mae Lleſgedd a Llwfrdra wedi eu meddalhâu yn y fath fodd, na's gallant wrthſefyll yr Argraphiadau lleiaf o Gamwedd. Can's, fel y mae Goleuni yr Haul, a myned allan dan yr Awyr, yn flin i Ddynion clâf, y rhai ydynt hyfryd jawn i Ddynion jach; felly y mae Dynion o Feddyliau egwan a lleſg yn hawdd yn blino: y mae eu Hyſbrydoedd mor dyner a murſenaidd, na's gallant ddioddef yr Awel leiaf o Aflwydd i chwythu arnynt; a'r hyn a fyddai yn Ddifyrrwch yn unig i Enaid calonnog, ſydd yn eu blino a'u haflonyddu hwynt. A pha Galondid bynnag a wnelo y fath Ddynion a hynny Liw o hono, nid yw ond Gwrês a Phoethder eu Gwaed a'u Hyſbrydoedd yn unig; Calondid, ymha un y mae *Ceiliogod-campio* a *Gwaed-gwn* yn rhagori ar y Gwychaf o honynt oll Ond yn yr hyn ſy Reſymmol a Gwrol yn wir, yr hyn ſydd yn ſefyll mewn Cadernid Meddwl ſefydlog ynghanol Damweiniau drwg neu beryglus, y rhai mwyaf digalon yn y Byd ydynt. Can's bod wedi ymgaledu yn erbyn Drwg ar Egwyddorion Rheſwm, yw gwir *Wroldeb* y Meddwl; bod ganddo Reſwm ac Yſtyriaeth i'w amddiffyn a'i gadw yn y fath fodd, ag na's gallo un

Damwain

Damwain flinderus oddi allan ei ortrechu, neu gyfodi Terfyſg oddi fewn iddo; mewn gair, bod ganddo bob amſer y fath Allu ar ei *Serchiadau digofus*, ag na bo iddo fod yn rhŷ barod i ofni mewn Perygl, neu i genfigennu mewn Eiſiau, neu i fod yn ddi-ammynedd dan Ddioddefaint, neu yn ddigofus dan Ddiyſtyrwch, neu yn faleiſus ac yn ymddialus pan caffo ei gamweddu a'i ddigio. Ac hyd oni chyrhaeddom mewn rhyw feſur y Rhinwedd hon, ni's gallwn byth fod yn ddedwydd, ymma neu ar ôl hyn.

Can's tra fom yn y Byd hwn, rhaid i ni ddiſgwyl cael ein hamgylchynu â Lliaws gwaſtadol o Ddamweiniau drwg, a rhai o honynt yn waſtadol yn pwyſo arnom ac yn ein gwthio: ac felly os bydd ein Meddyliau yn flin ac yn aneſmwyth, a phob Damwain ddrwg yn rhŷ dueddol i fenu arnynt, nyni a fyddwn yn waſtadol mewn Poen ac Aflonyddwch. Can's, pe bae ein Meddyliau yn dawel ac yn eſmwyth, ni byddai'r holl Ddamweiniau drwg ſydd yn digwydd i ni, ond fel Cafod o Genllyſg ar Dô Tŷ-Cerddwriaeth, yr hon, er ei holl Drwſt a'i Swn, nid yw yn aflonyddu y Gynghanedd ſydd oddi fewn; ond pan y mae ein Gwŷn mor barod i gyffro ganddynt, y mae hynny yn dadguddio ein Meddwl iddynt, ac yn ei oſod yn agored i'r Dymheſtl. A'r Niweid mwyaf, fynychaf, y mae'r Drygau hyn oddi allan yn wneuthur i ni, ydyw aflonyddu ein Meddyliau i Wyniau gwyllt; a hyn ni pheidiant byth â'i wneuthur, nes bo i ni gwbl gefnogi ein Rheſwm yn eu herbyn. Can's os ni reola Rheſwm ein Gwyniau, Damweiniau oddi allan yn ddiammau a'i gwnâ: a thra y gwnelont felly, Deiliaid ydym wrth eu Hewyllys hwynt am ein holl Heddwch a'n Dedwyddwch; ac fel y digwyddo iddynt hwy fod yn dda neu yn ddrwg, felly y rhaid i ni fod beunydd yn happus neu yn druenus. Ac yn y Cyflwr hwn, fel Llong heb Lywydd ynghanol Môr tymheſtlog, yr ydym yn Wawd i bob Gwynt a Gwaneg; ac ni's gwyddom, hyd oni ddelo'r Diwedd i'w bender-fynu, beth a wnâ'r Donn neſaf o honom; p'un ai'n dryllio yn erbyn Craig, neu ein gyrru i Borthladd llo-pydd.

Mor

Mor druenus yw ein Cyflwr ymma, tra y mae arnom wyr Eiſiau y Rhinwedd o *Wroldeb!* ond mwy truenus o lawer y rhaid i ni fod hebddo ar ôl hyn. Can's y mae'r holl Serchiadau hynny ag ſydd yn ſyrthio dan Olygiad a Llywodraeth *Gwroldeb*, pan y maent yn ormod, wrth Natur yn flinderus i'r Meddwl, ac yn waſtad yn ei aflonyddu, ac yn cyſodi Terfyſg ynddo. Can's felly y mae Digofaint ac Eiſiau Ammynedd yn ei wallgofi ac yn ei ddieithro oddi wrtho ei hun, ac yn cymmyſgu ei Feddyliau ynghŷd i Bentwr o Wagdybiau gwyllt ac annhrefnus; felly y mae Malais, Cenſigen, ac Ymddial, yn ei lanw â Meddyliau pryderus yn brathu, y rhai fel Gwiberon jeuaingc ſydd yn cnoi y Grôth a'u hymddug hwynt, ac yn gofidio ac yn blino y Meddwl truan ſydd yn eu llunio ac yn eu groeſawi. Ac er nad ydym mor deimladwy yn y Bŷd hwn o'r Drwg y mae'r Nwydau duon digaſog hyn yn wneuthur i ni; mewn rhan, o herwydd fod Cymmyſgiad o Bleſerau corphorol yn lleihâu ein Teimlad o honynt; ac mewn rhan, o herwydd tra ſom yn gweithredu, fel yr ydym, trwy'r Offerynnau trwmluog hyn o Gnawd, ni all ein Myfyrdodau fod agos mor fywiog, na'n Gwyniau mor daer, na'n Dyalldwriaethau mor gyflym a manwl, ag y byddant yn ddiammau pan ddioſger ni yn Yſbrydion noeth: etto os awn ymmaith i'r Bŷd arall â'r Serchiadau hyn heb eu marweiddio ynnom, hwy fyddant nid yn unig yn drawſach ac yn greulonach nag ydynt yn awr, ac fe fydd gennym nid yn unig fywioccach Teimlad o lawer o honynt nag yn awr; ond fe fydd ein Teimlad llym o honynt yn bûr ac yn ſeml, heb ddim Cymmyſgiad o Bleſer i'w dyneru a'i eſmwythâu. Ac os felly, Arglwydd Daionus! pa fath Ddiafliaid a Phoenwyr llymdoſt a fyddant hwy, pan y bo eithaf Llidiowgrwydd a Digaſedd, Cenſigen ac Ymddial, i gŷd ynghŷd, fel cynnifer o Fulfranod newynllyd, yn yſglyfio ein Calonnau; a'n Meddwl yn waſtad yn cael ei annos a'i flino â'r holl Feddyliau cethinllyd ag allo'r Gwyniau cynddeiriog hyn ddwyn ar gôf i ni! Pan yr edrychom â Llygaid culion Cenſigen i fynu tu ag at Drigfannau Dedwyddwch, a dihoeni a blino yn ddibaid o achos Happuſrwydd y rhai ſydd

yn

yn preſwylio yno; pan y bo i'n Llid a'n Gwŷn, trwy Deimlad o'n Ffolineb ein hunain, a'i Ffrwythau truenus, gael eu derchafu, a berwi i fynu i Lidiowgrwydd cythreulig; a phan ar yr un amſer y bo Malais digllon yn erbyn pawb y bo dim Cyfrinach rhyngom â hwynt, a Chwant llym i ymddial ar y rhai'ny a helpiodd ein difetha, fel Blaidd yn ein Monweſau, i gnoi yn waſtadol ac ymborthi ar ein Heneidiau, pa fath *Uffern* anoddefadwy a fyddwn i ni ein hunain! Diammau fod yr *Uffern* honno *oddi allan*, i ba un y condemnier Yſbrydion drwg, yn ofnadwy jawn; ond ni's gallaf fi feddwl nad yw'r gwaethaf o'u Huffern hwy oddi fewn iddynt eu hunain, a bod eu Gwyniau cythreulig hwy eu hunain yn doſtach Ellyllon iddynt nâ'r holl Ddiafliaid hynny ag ſydd oddi allan iddynt. Can's Llid a Chenfigen, Malais ac Ymddial, yw Natur a Phlâ Diawlaid; ac er mai Creaduriaid Duw ydynt, fel y maent yn Angelion, etto fel y maent yn Ddiawlaid, Creaduriaid y Serchiadau cythreulig hyn ydynt; y rhai'n a'u hymrithiodd hwynt o Angelion bendigedig i Gythreuliaid melldigedig: a phe gallent hwy ond unwaith beidio bod yn genfigennus ac yn faleiſus, hwy beidient â bod yn Gythreuliaid, ac a dröent yn Angelion bendigedig drachefn. Od oes ynte y fath Natur wenwynllyd yn y Serchiadau digaſog hyn, a dûo Angelion yn Ddiawlaid, a'u gwneuthur hwy y Creaduriaid mwyaf truenus, y rhai unwaith a fuont y mwyaf happus; pa fodd y gallwn ni byth ddiſgwyl bod yn ddedwydd, cyhyd ag y bom yn eu mawrhâu a'u hachleſu?

Am hynny, i ſymmud y Rhwyſtr mawr hwn o'n Dedwyddwch, y mae Cris'nogaeth yn gorchymmyn yn gaeth i ni ymarfer y Rhinwedd angenrheidiol hon o *Wroldeb*, yr hon ſydd yn ſefyll mewn jawn Lywodraethiad o'n holl Serchiadau digoſus; trwy arafu ein Digoſaint a'n Gwŷn, attal ein Cenfigen, a diffodd ein holl Gaſineb afreſymmol, a'n Chwant i Ymddial. Can's i hyn y perthyn yr holl Orchymynion Efangylaidd, ag ſydd yn erchi i ni *dynnu ymmaith oddi wrthym bob Chwerwedd, a Llid, a Dig, a Lleſain, a Chabledd*, Eph. iv. 31. a *rhoi heibio bob Drygioni, a bod yn Blant mewn Malàis*, 1 Pedr ii. 1. 1 Cor. xiv. 20.

xiv. 20. bod *wedi ein nerthu â phob Nerth i bob Dioddefgarwch a Hir-ymaros*, Col. i. 11. Ac felly mae'r holl Rinweddau a gynnwyſir yn y Rhinwedd hon o *Wroldeb* yn cael eu cyfrif i ſynu ymhlith Ffrwythau'r Yſbryd Bendigedig hwnnw ag ſydd i'n harwain a'n cyfarwyddo ni. Gal. v. 22. *Eithr Ffrwyth yr Yſbryd yw Tangnefedd, Hir-ymaros, Cymmwynaſgarwch, Daioni, ac Addfwynder.* A'r rhai'n i gŷd nid ydynt ddim arall ond y Rhinwedd fawr hon o *Wroldeb*, yn ei goſod ei hun allan yn amrywiol ar y gwahanol Serchiadau digofus hynny ag ſydd ynnom, ac yn eu harwain a'u rheoli hwynt yn ôl y Cyfreithiau a'r Cyfarwyddiadau hynny ag y mae jawn Reſwm yn ddangos i bob un o honynt; a goſod y fath Derfynau i bob un, ag ſydd angenrhaid er Heddwch a Dedwyddwch ein Naturiaethau rheſymmol; fel pan ddelo Peryglon neu Ddrygau oddi allan i'w cyffroi hwynt, na bo iddynt neidio allan yn ddiſymmwth i'r fath Ormodedd gwyllt, a dyfod yn Blâau ac yn Glefydon i'n Meddyliau.

Yn awr, pa gymmaint y mae'r Ymarfer o'r Rhinwedd hon yn gwneuthur tu ag at ein Dedwyddwch nefol, ſydd amlwg oddi ymma, nad yw holl Glefydon ac Afiechyd ein Meddwl ddim arall ond y *Gormodedd* o'r Serchiadau *trachwantus* a *digofus*; dim ond fod Da a Drwg yn gweithio ar y Meddwl *tu hwnt* i'r Terfynau a'r Meſuron hynny ag y mae jawn Reſwm wedi oſod. Pe baem ni ond caru Pethau da oddi allan yn ôl y Prîs y mae Rheſwm cywir yn oſod arnynt, ni flinem gan Ddymuniad diammynedd am danynt pan fyddem mewn Eiſiau, ac ni chaem ein croeſi o'n Diſgwyliad tra fyddem yn eu mwynhâu. A phan fo ein Dymuniadau ar ôl y Pethau da hyn oddi allan wedi oeri ac arafu yn y fath fodd, ag na bom yn ddiammynedd wrth eu canlyn, nac yn anfoddlon yn y Mwynhâd o honynt, y mae'n ammhoſſibl iddynt wneuthur dim Aflonyddwch i'n Meddyliau. Ac felly, ar y llaw arall, pe cymmerem ni Ofal i reoli ein Digofaint o achos Drygau a Pheryglon oddi allan fel y mae jawn Reſwm yn cynghori, ni allent byth ddrygu neu annhrefnu ein Meddyliau. Can's y mae jawn Reſwm yn cynghori, na bo i ni ddigio o'u plegid yn y fath fodd, ag y bo i ni eu cynnyddu

a'u

a'u trymhâu hwynt; na bo i ni chwanegu Aflonyddwch Ofn pryderus at y Peryglon ſydd yn ein bwgwth, na Phoen *Digoſaint llidiog* at y Cam a gynnygier i ni, na *Grwgnach di-ammynedd* at y Dioddefaint a ddigwyddo i ni: mewn gair, na bo i ni drymhâu ein Heiſiau trwy *ddiboen yn genſigennus* wrth Lewndid arall, na gwneuthur y Camweddau a gynnygier i ni yn llymmach trwy Ddigoſaint *maleiſus* ac *ymddialus* o'u plegid. A'r neb a ganlyno y Cynghorion hyn y mae Rheſwm yn roi, ac a lywodraetho ei *Serchiadau digoſus* yn eu hôl hwynt, ſy ganddo Feddwl wedi ei dderchafu uwchlaw Cyrraedd Camwedd; ſydd yn eiſtedd oddi ar y Cymmylau, mewn Awyr dawel a llonydd, ac, heb Flinder na Phryder, yn elywed y Taranau a'u Trwſt yn adſain ac yn rhwygo dan ei Draed. A thra y mae Drygau oddi allan yn ſyrthio ar Ddynion *ofnus*, a *grwgnachlyd*, a *maleiſus*, fel Gwreichion Tân ar Grûg o Bowdwr-Gwnn, ac yn eu chwythu hwynt i fynu yn fuan, ac yn eu goſod i gŷd yn chwil-boeth; pan ddigwyddont i Ddŷn o Feddwl *araf*, y maent yn ſyrthio fel Cerrig ar Wely Mân-Blû, lle y maent yn eiſtedd yn eſmwyth ac yn llonydd, ac yn cael eu derbyn yn dawel ac yn dirion heb Wrthwynebiad. Wedi i ni gan hynny, trwy'r parhâus Ymarfer o *Arafwch* a *Gwroldeb*, ddoſi a gweddeiddio ein Serchiadau *trachwantus* a *digoſus*, a'u dwyn hwynt dan Lywodraeth Rheſwm, ſe fydd ein Meddyliau yn rhŷdd oddi wrth bob Afiechyd ac Aflonyddwch, ac ni byddwn ddaroſtyngedig i un Drwg arall ond y Drwg o Wŷn a Theimlad corphorol. Fel pan yr ymadawom â'n Cyrph, ac yr elom i Fŷd yr Yſbrydoedd, nyni a deimlwn ein hunain yn fuan mewn cyflawn Jechyd ac Eſmwythder. Can's Jechyd Enaid rheſymmol ſydd yn ſefyll yn ei gwaith hi yn bod yn gyflawn reſymmol, trwy fod â'i holl Serchiadau wedi eu perffaith ddaroſtwng i Feddwl wedi ei jawn oleuo, a chwedi ei wiſgo â Thrwſiad ei Reſwm. A thra y bo yn llyn, ni's gall hi fod yn aſiach yn y Cyflwr *ysbrydol* hwnnw ymha un y bydd hi wedi ei chwbl neillduo oddi wrth bod Teimlad *corphorol* a Gwŷn; o herwydd nad oes un Serch ynddi ag allo mewn un modd aflonyddu neu annhrefnu ei Meddyliau

u tawel a llariaidd. Ac yno pan y bo hi yn teimlo pob
eth ynddi ei hun yn jach, ac fel y dylai fod; pob Tant
edi ei droi i Gyngbanedd perffaith; pob Symmudiad a
erch yn cyttuno â'r Portreiadau a'r Lluniau mwyaf per-
ith o'i Rheſwm ei hun, rhaid iddi ei hoffi ei hun yn
wr, a bod yn llwyr foddlon iddi ei hun; a thra y mae
yn bwrw Golwg ar ei Symmudiadau a'i Gweithredoedd,
aid iddi gael Archwaeth a Blas melus jawn arnynt, gan
bod oll o'r fath ag y mae ei Rheſwm goreu a phuraf
eu cymmeradwyo gyd â llawn Farn ddi-wrthddywed-
l. Ac fel hyn y bydd yr Enaid, wedi ei jachâu oddi
rth bob Serch annhrefnus, yn byw mewn Jechyd a Byw-
grwydd perffaith, ac yn mwynhâu Neſoedd o Fodd-
nrwydd a Heddwch yn dragywydd ynddi ei hun.

IV. Rhinwedd arall ag ſydd yn perthyn i Ddŷn, o'i
tyried yn unig fel y mae yn Greadur rheſymmol, ydyw
mmedroldeb: yr hon ſydd yn ſefyll yn ein gwaith yn
idio mawrhâu ein Chwantau corphorol er Niweid i'n
atur reſymmol; neu, trwy ymgadw oddi wrth bob
ormodedd mewn Pleſer corphorol, mewn Bwyta, Yfed,
Thrythyllwch, y rhai ſo naill ai yn annhrefnu ein Rhe-
m, neu yn ein anghymmwyſo i fwynhâu Pleſerau pûr
yſbrydol y Meddwl. Can's, heblaw fod pob Gormod-
d o Bleſerau corphorol yn naturiol er Niweid ein Rhe-
m, fel y maent yn anghymmwyſo yr Offerynnau corph-
ol hynny trwy ba rai y mae yn gweithredu: (can's
ly y mae *Meddwdod* yn golchi yr Ymennydd, yr hwn
Tryſordy y Dyall, ac yn boddi y Lluniau hynny y
ae yn argraphu arno mewn Diluw o Lyſnafedd a Gwlyb-
afiachus; ac y mae *Glothineb* yn attal yr Yſbrydoedd,
rhai ydynt megis Adenydd i'r Meddwl, ac yn eu hang-
mmwyſo hwy at Hedfa uwchaf ac enwoccaf Rheſwm:
ly y mae *Wantanrwydd* yn gwreſogi'r Gwaed megis
ewn Twymyn, a thrwy beri iddo ferwi i fynu yn rhŷ
flym i'r Ymennydd, yn annhrefnu Symmudiadau yr
ſbrydoedd yno, ac yn cymmyſgu y Dychymmygion yn
fath fodd na's gallo'r Meddwl yn eglur eu dirnad;
wy'r hyn y mae Swydd-Gynheddfau'r Dyall yn fynych
yn yn eu rhwyſtro, ac yn gorfod eiſtedd yn llonydd o

eiſiau Offer cymmwys i weithio â hwynt; ac felly, trw
fynych aros yn ſegur, yn dyfod bob yn ychydig yn di
fywyd ac yn ddiwaith, ac o'r diwedd yn gwbl anghy
mwys i ddim o Weithredoedd Rheſwm:) heblaw hy
meddaf (yr hyn rhaid fod yn Niweid mawr i'n Natur
fymmol) trwy gynnefino gormod â Phleſerau corphor
nyni a dorrwn ymmaith bob Cydnabyddiaeth ar Bleſer
yſbrydol; ac a ddeuwn, bob yn ychydig, y fath D
eithriaid hollawl iddynt, na's gallom byth eu blaſu na
mwynhâu; a'r Enaid a fâg y fath Serch a Chariad pric
aſol at y Corph (gan mai dyna Farſiandy yr holl Ble
a gafodd hi erioed Adnabyddiaeth o hono) na's gall
byth fyw yn ddedwydd hebddo. Can's er na's gellir bw
y bydd dim o Chwantau'r Corph yn yr Enaid yn ei Ch
lwr o Ymneilldуad; etto os bydd hi yn ei rhoi ei hu
i fynu yn llwyrgwbl i Bleſerau corphorol, tra y mae
yn y Corph, hi ddichon, a diammau y bydd iddi, chwe
nychu yn fawr a hiraethu gael ei hail-uno â'r Corph dr
chefn; yr hyn, dybygaf fi, yw'r unig Gnawdolrwydd
allo fod mewn Enaid yn ei Gyflwr o Ymneilldуad
Can's pan elo'r fath Enaid i'r Bŷd yſbrydol, ei Gwaith
wedi cwbl arferu â Phleſer *corphorol*, ac heb broſi eri
un arall, a'i gwnâ hi yn ddibebgor yn anabl i fwyn
Pleſerau Yſbrydion pûr a bendigedig. Fel wedi ei ga
yn gwbl ymddifad o'i holl Hyfrydwch arwyl a'i Bod
lonrwydd, y rhai ydynt y fath ag a wyr hi na's gall
byth eu mwynhâu ond yn gyfyltiedig â'r Corph, ei
Chwant a'i Hiraeth hi raid fod Dymuniad creulon am g
myned i'r Corph drachefn, fel y gallo hi felly fyned
ei hên Bleſerau cnawdol drachefn, a chwaneu'r Anifail
newydd eilwaith.

A hyn, fel y tybia rhai, ydyw y Rheſwm p'am y da
i'r fath Eneidiau cnawdol ymddangos mor fynych ar
eu Hymneilldуad, yn y Monwentydd, neu'r Eſgyrn D
lle y goſodwyd eu Cyrph hwynt; o herwydd na's gall
eu boddloni eu hunain hebddynt. *Y ma*

Plat. Phæd. tu dal. 398. *Enaid ſydd wedi ei nyrddo â Chwant mawr*
Corph, yn parhâu felly dros bir Amſer ar
Marwolaeth, a chan ddioddef llawer o Ymdrech, yn hed
bo

obta i'r Lle gweledig hwnt, a pherin y cippier hi oddi yno rwy Drais, gan y Diafol ſydd â'i Chadwraeth a'i Goſal arno. Wrth y *Lle gweledig* y mae efe yn meddwl, *ddi amgylch i'w Beddau, lle'r ymddangoſodd Ysbry-dau a Drychiolieth y ſaith Eneidiau weithiau.* Plat. Phæd. tu dal. 3 & 6.

O herwydd a hwy yn llwyr Ddieithriaid i Bleſerau Yſbryd-edd, nid oes ganddynt ddim yn yr holl Fŷd yſbrydol i orthi eu Dymuniad newynllyd, yr hyn ſydd yn peri ddynt, pan gaffont Gennad i grwydro, hedeg o bobtu, a lercian ar ôl eu Cyrph; ac ni all yn Anmhoſſibl wydd gael eu huno â hwy drachefn mo'u ſiachâu hwynt o'u Dymuniad ogwan ar eu hôl hwynt, oni beunydd hwy hwennychent fyw drachefn, ac ail-gymmeryd yn llaw u hên Offerynnau o Bleſer,

——— *Iterumque ad tarda reverti*
Corpora: ———
——— *Quæ lucis miſeris tam dira Cupido?*

A thyma un Rheſwm, ymhlith eraill, p'am yr oedd y Bŵ Gris'nogion mor fanwl yn ymgadw oddi wrth Bleſerau orphorol, ſel trwy hyn y gallent bob yn ychydig ddi-dyſnu'r Enaid oddi wrth y Corph, a'i dyſgu ymlaen llaw fyw ar Hyfrydwch Yſbrydion gwahanedig, fel ar ei Hymneilldnad y gallai hi gwympo i Dragywyddoldeb, fel ſtrwyth addfed oddi ar Bren, yn eſmwyth ac yn ewy-lyſgar; a thrwy ei harferu ymlaen llaw â Phleſerau a Hy-rydwch yſbrydol, y gallai gyrraedd y ſath Deimlad ac Archwaeth blaſus arnynt, a bod yn abl, pan ddelai i'r Bŷd yſbrydol, i fyw yn llwyr-gwbl arnynt, a chael y ſaith awn Foddlondeb ynddynt; a bod heb gael Blinder diddi-wedd gan Ddymuniad poenus i ddychwelyd i'r Corph rachefn. Can's felly y dywaid *Clement* o *Alecſandria*; *Rhaid i ni y rhai ſydd yn hela ar ôl yr Ymborth neſol, gym-eryd Goſal i ddaroſtwng ein Bol daearol, a chadw Llyw-draeth gaeth ar y Pethau hynny ag ſydd yn hyſtryd ganddo.* Can's, medd efe ychydig o'r blaen, *Nid Ymborth yw ein Gwaith, na Phleſer ein Hamcan, ond yr ydym yn eu herſor n unig fel Angenrheidiau i'n Preſwylſod preſennol, ym mha n y mae ein Rheſwm yn ein haddyſgu, ac yn ein hyſforddi*

i Fywyd anllygredig; *h. yw*, ſe ddarfu iddynt eu harfer yn y fath Fodd, ag y gallent, ddim ag oedd ynddynt, ddi- ddyfnu ein Heneidiau oddi wrth eu Pleſerau hwynt, fe y byddai ganddynt well Stymmog at yr Ymborth yſbrydo hwnnw ar ba un yr oeddent i fyw yn dragywydd.

Ac am hynny cymmedroli ac attal ein hunain yn llyn yn yr Arfer o Bleſerau corphorol, yw un o Rinweddau angenrheidiol y *Fuchedd Gris'nogol*. Can's ymma y pe- chyn yr holl Orchymynion hynny ynghylch *ymgadw odd wrth Chwantau cnawdol, y rhai ſydd yn rhyfela yn erbyn ni Heneidiau*, 1 Pedr ii. 11. a *marweiddio Gweithredodd y Corph*, Rhuf. viii. 13. a *chosbi'r Corph*, 1 Cor. ix. 27. a *dioſg Corph Pechodau y Cnawd*, Col. ii. 11. Ac ſe orchy- myner yn gaeth i ni *fod yn gymhedrol ymhob peth, i wyl a bod yn ſobr*, a *rhodio yn oneſt megis wrth liw Ddydd, nid mewn Cyfeddach a Meddwdod, nid mewn Cyd-orwedd ac Af lladrwydd, nid mewn Gormodedd o Win, Gloddeſt, a Diotta* Yſtyr hyn i gŷd ydyw, na ddylem fawrhâu ein Chwantau corphorol er Llygredd a Halogiad o'n Chwant yſbrydol na throchom ein hunain mor belled ym Mhleſerau'r Cnawd a boddi ein Teimlad a'n Dyalldwriaeth o Bethau duwiol nefol; ond i ni ddaroſtwng a marweiddio ein Cnawdol rwydd cyn belled, ag na bo iddo arglwyddiaethu arnom na bod yr Hyfrydwch a'r Hoffder trechaf yn ein Hencid- iau; ond fod y Tueddrwydd uwchaf a'r Gogwyddiad pen- naf ynnom tu ag at Dduw a Phethau nefol; fel pan y gadawom y Corph hwn, na bom wedi priodi ei Bleſer yn y fath fodd, a ffaelu bod yn ddedwydd hebddynt ond fel y dugom gyd â ni i Dragywyddoldeb y fath ddwy Deimlad a Blâs bywiol o'r Pleſerau oddi uchod, a gall byw a boddloni arnynt yn dragywydd.

Fel y mae'n amlwg, ar yr Olwg gyntaf, pa gymmain y mae'r Ymarfer o'r Rhinwedd hon yn gwneuthur at ei Dedwyddwch ar ôl hyn. Can's trwy ein tynnu ymmaith oddi wrth bob Gormodedd o Bleſerau corphorol, y mae yn ein cymhwyſo i fwynhâu Pleſerau y Nefoedd, ac yn gwneuthur ein Heneidiau o'r un Naws â hwynt: fel pan ddelom, ar ôl hir Ymarfer o *Gymhedroldeb*, i adael y Corph ſe fydd ein Henaid wedi ei ddattod oddi wrtho ymlaen llaw,

aw, a'i wneuthur mor ddifatter am ei Hyfrydwch ef, g y gallwn ymadael ag ef a hwythau heb fawr o An- oddlondeb, a byw oddi wrthynt yn dragywydd heb ddim Hiraeth na Chwant taer ar eu hôl hwynt, i beri i ni Afto- yddwch. Can's fel yr ydym, pan tyfom mewn Oedran Phrofiad i deimlo Pleſerau mwy dygiadus, yn dirmygu nau a Theganau, y rhai, pan oeddem Blant, a gyfrifem in Happuſrwydd, ac a buaſem yn tibied ddarfod am da- om, pes yſbeiliaſid ni o honynt; felly wedi i ni gyr- edd, trwy'r Ymarfer o *Gymbedroldeb* llymdoſt, gwbl eimlad o Bleſerau *Rhinwedd* a *Chrefydd*, nyni a edrychwn ein holl Bleſerau corphorol fel Coeg-Bethau bychain ac feredd ein Mebyd, â pha rai y darfu i ni foddloni ein wâg-Dybiau plentynaidd, pryd na's gwyddem well. A e y buaſem yn llefain ac yn gofidio, pe buaſid y pryd wnnw yn eu dwyn oddi arnom, fel y mae Plant bychain n gwneuthur pan gollont y Pethau y maent yn chwareu â wynt, ac yn cyfrif ein hunain yn druenus a chwedi ein andwyo, wedi profi Pleſerau Crefydd, y rhai ydynt fwy agorol a boneddigaidd o lawer, ni allwn ddiyſtyru y ethau bychain, tlodion hyn, y rhai oeddem yn roeſawi an oeddem Blant; a chymmeryd ein Cennad oddi wrth- nt heb Ddeigryn yn ein Llygaid, a byw yn dragywydd eb weled eu Heiſiau. Can's, wedi i'n Meddyliau gan wyaf ddyfod i fod mewn Heddwch â Phleſerau rheſym- ol ac yſbrydol, nyni a oſodwn heibio holl Weddillion rachwant corphorol gyd â'n Cyrph, ac felly a ffown mmaith i'r Bŷd yſbrydol heb ddim ond Chwantau pûr yſbrydol oddi amgylch i ni; lle pan gyfarfyddom â lewndid anfeidrol o Lawenydd a Phleſerau yſbrydol, o ba i y cawſom lawer Blaen-Brawf yn y Corph, ein Meddwl, edi ei gymhwyſo o'r blaen, a gyttuna yn fuan â hwynt, a ymbortha arnynt â'r fath Foddlonrwydd annhraeth- wy, ag a'i tyn oddi wrth feddwl am ddim Pleſerau aill yn dragywydd. Fel y gallwn yn awr nid yn unig w heb Hytrydwch cnawdol, ond eu dibriſio a'u dir- ygu hwynt; gan fod Galluoedd ein Heneidiau yn cael groeſawi bob Munyd â rhagorach Lluniaeth o lawer, gwell Llawenydd.

V. Rhinwedd arall ag ſydd yn perthyn i Ddŷn, o'i yſtyried yn unig fel y mae yn Greadur rheſymmol, ydyw *Goſtyngeiddrwydd*: yr hon ſydd yn ſefyll mewn Opiniwn *cymmhedrol*, *iſel*; am danom ein hunain, ac am ein Cy*haeddiadau*, *Haeddedigaethau*, neu ein *Cynnyſgaeddiadau* ei hunain; neu, beidio â'n priſio ein hunain tu hwnt i'r hyſy ddyledus a chyfiawn, ar gyfrif dim Daioni ag ſydgennym, p'un ai oddi fewn neu oddi allan y bo. Can Balchder, neu Hunan-Dŷb rŷ uchel, yw Gwenwyein holl Rinwedd a'n Dedwyddwch. Y mae yn peni ni edrych dros ein Deffygion, a thrwy hynny yn ein rhwyſtro i wneuthur Cynnydd ymhellach; ac y mae yn ellanw â Gwâg-Dŷb o'n bod yn haeddu mwy nag ydyn yn gael, a thrwy hynny yn ein gwneuthur yn anfoddlo i'n Mwynhâd preſennol. Can's o gymmaint ag y maun Dŷn yn priſio gormod arno ei hun, o gymmaint hynny y mae efe yn priſio rhŷ fach ar yr hyn y mae yfwynhâu: can's tra y mae efe yn cymmaru yr hyn y maefe yn fwynhâu â'r Opiniwn gwâg ſy ganndo am dano ehun, y mae efe yn waſtad yn ei weled yn fyrr o'i Haeddiant, ac felly ni's gall efe byth foddloni iddo. Ie, y fayw Tuedd groes ac ynfyd Yſbryd balch, fel po fwyaf mae efe yn feddiannu, uwchaf y mae yn chwyddo i Gwâg-Dŷb o'i Haeddiant ei hun; a pho mwyaf yw Wâg-Dŷb am ei Haeddiant ei hun, llai o Foddlondeb mae efe yn gael yn yr hyn y mae yn feddiannu ae yn fwynhâu. Can's pan y mae Dŷn yn barod jawn i wehieithio iddo ei hun, y peth lleiaf a wnâ iddo dderchafu Haeddiant a'i Deilyngdod ei hun, ac efe a fydd yn bari'w feſur ef, nid yn unig wrth y peth yw efe, ond hefwrth yr hyn ſy ganddo; ac yna, pan y mae efe yn cyſmai Gwobr neu Ffrwyth ei Deilyngdod oddi fewn yw Feddiannau oddi allan, po fwyaf ſo ganddo, mwyaf y mae efe beunydd yn feddwl a haeddai efe gael. Fel y bydd Opiniwn ef am ei Haeddiant ei hun beunydd redeg ylaen mor gyflym o flaen y Pethau a ſo efe yn fwynhâfel er agoſed y canlynont, megis y mae Olwynion ôl Cabyd yn canlyn y rhai blaen, etto bydd yn ammhoſiiddynt eu goddiweddyd; a chyhyd ag y mae efe yn bar

ad yw ei Fwyniant yn atteb i'w Haeddiant, fe fydd yn
aſtad yn anfoddlongar; a thra y parhâo efe o'r Dymmer
on, ni allai eithaf Gwynfyd a Gogoniant y Nefoedd mo'i
oddloni ef. Can's pe gosodid ef yn gyd-râdd â'r *Saint*
chaf mewn Gogoniant, hynny a'i chwyddai ef gymmaint
n ei Dŷb ei hun, a pheri iddo wâg-dybied ei fod ef yn
aeddu Gogoniant *Angel*; a phe derchefid ef oddi yno i
rfeddfaingc *Arch-angel*, efe a wenhieithiai iddo ei hun
fod ef yn haeddu Gogoniant a Goruchafiaeth Duw: a
nyhyd ag y bo efe yn meddwl fod ei Dderchafiad yn îs
â'i Haeddiant, ni bydd efe fyth foddlon iddo, er cuwch
bo, ond efe a fydd yn waſtadol yn blino ac yn grwgnach
a dderchafwyd ef yn uwch.

A hyn wi'n ſicr goelio oedd Tymmer y Diafol, a'r Peth
i difethodd ef yn y Diwedd. Can's pan oedd efe yn
ngel y Goleuni, diammau i Dâd yr Yſbrydoedd ei osod
yn y fath Dreſn neu Râdd o Oruchafiaeth ag oedd yn
weddu i Berffeithrwydd ei Natur. Ond efe, gan graffu
ei Ddoniau ei hun, a'r Cyflwr gogoneddus ym mha un
goſodwyd ef, a ddechreuodd yn gyntaf i chwyddo â
wâg-Dŷb balch, uchel, am dano ei hun, ac i osod gor-
od o Brîs ar ei Raſuſau a'i Berffeithrwydd angelaidd;
, fel y Ffrwyth naturiol o hynny, i feddwl na dderchaf-
yd mo hono yn ddigon uchel yn y Llywodraeth nefol, a
d ei Le yng Ngwladwriaeth Angelion îs law Mawredd
Theilyngdod ei Natur. Hyn a barodd iddo edrych â
olygon cenfigennus ar y Graddau gogoneddus oedd uwch
law ef; a chan i Dduw, Tywyſog yr Yſbrydoedd, ei
hardd ef i ymdderchafu i'w Sefyllfa uchel hwynt, efe
aeth ymlaen bob yn ychydig i 'w faleiſio a'i gasâu ef a
ythau. A hyn a amlygodd efe yn gyntaf trwy Gyn-
yn yn ei erbyn ef gyd â rhai o'i Gyd-Angelion, y rhai
gaſodd efe hawſaf i weithio arnynt, ynghyd â pha rai
gwnaeth efe Wrthgiliad cyhoeddus, a ymadawodd â'r
igfannau gwynfydedig, fel un na's gallai ddioddef aros
hwy ymhlith y Graddau bendigedig hynny oedd efe
r llidus yn gasâu ac yn genfigennu; ac felly a ddaeth i
yr i'r Ardaloedd hyn, i'r Wybr, efe a'r Llengau hynny
Angelion a wrthgiliaſant gyd ag ef, lle y parhâodd efe

byth oddi ar hynny mewn Gelyniaeth amlwg yn erbyn Duw a'r Nefoedd. Ac am hynny y dywedir am dano ef a'i Gymdeithion, na *chadwaſant eu Dechreuad*; hynny yw, hwy ſynnent gael Lle oedd uwch yn y Nefoedd nâ'r Lle hwnnw y goſododd Duw hwynt ynddo: ac o herwydd na's gallent ei gael, *hwy a adawſant eu Trigfa eu hun*; hynny yw, ymadael a wnaethant â'r Nefoedd, eu Trigfa a Gwlad eu Genedigaeth, a dyfod i lawr i'r Parthau iſaf hyn o'r Bŷd, gyd ag Amcan i gefnogi eu Plaid yn erbyn y Nefoedd trwy hudo Dynolryw i'r un Gwrthgiliad â hwy eu hunain, *Jud. 6.*

Fel hyn y gwelwch mai Balchder y Diawl a'i gwnaeth ef yn genſigennus, ei Genſigen a'i gwnaeth ef yn ddigaſog ac yn faleiſus, a'r cwbl gyd â'u gilydd a'i gwnaeth ef yn *Gythraul*. Ac fel hyn y byddai gŷd â ninnau, pe caem ein derbyn i'r Nefoedd tra'r ydym dan Allu a Llywodraeth Balchder a Hunan-Dŷb-dâ. Can's tra fom yn tybied yn well am danom ein hunain nag y mae Duw yn tybied, ni's byddwn byth foddlon i'w Daledigaeth ef, yr hwn a fydd ſicr o wneuthur â phôb Dŷn yn ôl ei Weithredoedd; a'r Prîs mawr dros ben a fôm ni yn oſod arnom ein hunain, a bâr i ni ddibriſio y Râdd honno o Ogoniant a Dedwyddwch, ymha un y bydd i gyfiawn Wobrwywr Eneidiau ein goſod, fel Lle a ſo yn llawer is law y Rhagoriaeth a'r Perffeithrwydd a fyddwn ni yn feddwl fod ynnom. Ac yno nyni a awn ymlaen i *feddwl yn galed* am Dduw, ac i rwgnach yn ei erbyn, fel un nad yw yn cyfrannu ei Ffafron yn uniawn aç yn ddibartiaeth ac i fod yn genſigennus ac yn faleiſus yn erbyn y rhai'n a oſodwyd yn uwch nâ nyni mewn Gogoniant; ac felly o'r diwedd, o ran Chwerwder ffyrnig ac Anfoddlonrwydd i adael ein Trigfa, fel y gwnaeth y Diafliaid, a ffoi ymmaith at y Blaid wrthryfelgar. Mor ammhoſſibl ydyw i Enaid, ag ſydd dan Lywodraeth Defod o Falchder a Hunan-Dŷb-da, i fod yn ddedwydd ymma neu ar ôl hyn.

Ac am hynny, i ſymmud y Rhwyſtr hwn, y mae'r Grefydd Gris'nogol yn gorchymmyn yr Ymarfer o *Oſtyngeiddrwydd*, fel un o'r Moddion angenrheidiol i'n gwneuthur yn ddedwydd; ac yn gofyn i ni *wiſgo am danom O*

ſtyngeidd

ſyngeiddrwydd, Col. iii. 12. *i ymdrwſio â Goſtyngeiddrwydd*, 1 Pedr v. 5. *i rodio gyd â phob Goſtyngeiddrwydd ac Addfwynder*, Eph. iv. 1, 2. ac *mewn Goſtyngeiddrwydd i dybied eich gilydd yn well nâ chwi eich hunain*, Phil. ii. 3. mewn gair, i ganlyn Eſampl ein Harglwydd Bendigedig, yr hwn oedd *addfwyn a goſtyngedig*, Mat. xi. 29. ac *yn rhoddi Parch yn blaenori eich gilydd*, Rhuf. xii. 10. Yſtyr hyn i gŷd ydyw, y dylem lafurio, hyd y mae ynnom, i feddwl yn wael ac yn iſel jawn am danom ein hunain, ac na anfoddlonom os meddylia eraill yn iſel am danom hefyd; hynny yw, na ddylem fod yn falch ac yn wagogoneddgar, nac ymdderchafu gormod yn ein Tŷb ein hunain, na cheiſio gweithio mewn eraill well Tŷb am danom nag a fom mewn gwirionedd yn haeddu: yn fyrr, y dylem oſod yn effeithiol o flaen ein Llygaid yr ychydig Reſwm ſy gennym i fod yn falch o ran un Dawn perſonol, p'un ai Dawn corphorol, neu Gynneddf y Meddwl, a fo ef, i chwyddo, fel y Frân yn *Eſop*, yn y Plû benthyg hynny, na's gallem roddi i ni ein hunain, na'u haeddu ar Dduw, ond ſydd yn gwbl ddyledus i'w Haelioni ef; y dylem fynych argraphu ar ein Meddyliau y Ffolineb a'r Ynfydrwydd o fod yn falch o ddim Moddion oddi allan ag a fôm yn fwynhâu, megis Dillad gwychion, Meddiannau mawrion, neu Glôd yn y Byd, y rhai ydynt i gŷd mor belled oddi wrth ein gwneuthur yn ddoethach neu yn well Dynion, na dangos ein bod felly, fel y maent yn rhŷ fynych yn Ffrwythau ac yn Dyſtiolaeth o'n Ffolineb a'n Coegder; ac yn olaf, y dylem yſtyried yn ddibcrtiaeth yr amryw Ynfydrwydd a'r Anghallineb, y Camgymmeriadau a'r Anwybodaeth, y Dymmer annhrefnus, a'r Diffyg Moeſau, a'r Gwyrni oddi wrth jawn Reſwm, ag ydym yn euog o honynt, fel y bo i ni gywilyddio ein hunain allan o'r holl wâg Dybiau beilchion, trahâus, ag ſydd yn y fath fodd yn chwyddo ac yn llanw ein Meddyliau.

A phan y bo i ni, trwy'r Myfyrdodau difalch hyn, a'u cyffelyb, ddaroſtwng ein hunain yn ein Golwg ein hunain, ac iſelu ein Balchder a'n Hunan-Dŷb da mor belled, a chael ein llwyr argyhoeddi o'u Ffolineb, a'n llawn berſwadio i'w ffieiddio a'u casâu, i wylio ac ymdrech yn eu

herbyn,

herbyn, ac i ymgynnefino gan mwyaf â Meddyliau gwael ac iſel am danom ein hunain; er pe na chyrhaeddem ymma Berfeithrwydd llwyr-gwbl mewn Goſtyngeiddrwydd (gan nad oes gennym ymma neb i gadw Cyfeillach, neu i gymmaru ein hunain â hwynt, ond y fath rai a ninnau, y rhai ydynt lawer o honynt ein Hiſrâdd, llawer ein Cydrâdd, a llawer ond ychydig Raddau yn uwch nâ ni) etto cyn gynted ag yr elom ymmaith o'r Fainge is hon, lle'r ydym yn meddwl ein bod mewn cryn Barch, i Rês a Chymdeithas y Trigolion gogoneddus oddi uchod (ym Mharefennoldeb diſglair pa rai ni ymddangoſwn ond fel cynnifer o Figeiod ynghanol Ffurfafen o Sêr) fe ddiffanna'r holl ychydig Weddill o Falchder a Hunan-Dŷb a fo ynnom yn fuan allan o'n Meddyliau. Can's os ni allai'r Apoſtol *Joan*, pan welodd Angel, lai nâ fyrthio i lawr ar ei Wyneb; pa mor iſel y rhaid i ni ymoſtwng, pan y gwelom, nid yn unig holl Gôr yr Angelion ynghŷd, ond Duw ei hun hefyd, Tywyſog a Thâd yr Yſbrydoedd! Can's yr ydym yn gweled hyn yn oed yn y Byd hwn, mai po agoſaf y nesâom at Dduw, iſelach ydym yn ein Golwg ein hunain: ac os nad ydym yng Ngolwg Angelion ond Dynion bâch jawn, ni byddwn yng Ngolwg Duw ond Diddim. Ond Oh! pan y bo i ni nid yn unig ganfod pa mor anfeidrol tu hwnt i ni y mae efe yn llewyrchu mewn Gogoniant, ond teimlo hefyd yn waſtadol, trwy y Cyfranniad mwyaf teimladwy o'i Ddaioni, y modd yr ydym yn crogi arno ef, ac yn tynnu pob Anadl, a Llawenydd, a Gogoniant, oddi wrtho; y modd y mae ein Bywyd, a'n Bywyd da, yn Eluſen a Rhôdd ei Hael-ioni yn unig; y modd nad yw pob Grâs a Thegwch ynnom ni ond y Plygiad yn ôl, ac un lleſgc hefyd, o'i Byſt eſtynnedig ef; pan y caffom deimlo hyn i gŷd, meddaf, fel y cawn yn y Nefoedd bob Munyd, trwy Broſiad llym a bywiol; pa fodd y rhaid i hyn ein diddyſnu ni oddi wrth bob Meddyliau Hunan-dybus, a'n hiſelu a'n daroſtwng ni yn llwyr-gwbl yn ein Golwg ein hunain! A phan y gwneler hyn, fe fydd ein Meddyliau wedi eu perffaith dymheru a'u parotôi i fwynhâu Dedwyddwch cyflawn: can's yn awr fe fydd gennym y fath Opiniwn gweddus

am

am danom ein hunain, fel yr edrychwn ar ba Râdd bynnag o Ogoniant y gosoder ni ynddo, megis yr hyn ag sydd ymhell uwchlaw ein Haeddiant; ac ar y Cyfrif hynny fe sydd gennym Foddlonrwydd anmhraethadwy ynddo; ac nyni a gyfaddefwn yn rhwydd ei fod filoedd o Rannau tu hwnt i ddim ag allem ni ddymuno neu obeithio am dano. A chyn belled a fyddwn ni oddi wrth rwgnach neu genfigennu yn erbyn y rhai a fo oddi arnom, fel y byddwn ni dan Deimlad dwfn o'n Hanheilyngdod ein hunain, yn barod i'w gosod hwy o'n blaen ein hunain, a chyfaddef yn rhwydd, nad ydym ond cymmifer a hynny o Raddau is eu llaw hwy mewn Gogoniant, ag ydynt hwy uwch ein llaw ni mewn Graſuſau duwiol a Pherffeithrwydd. Ar yr hyn y bydd i ni nid yn unig ymlonyddu, ond llawenhâu o'n Calonnau yn eu Derchafiad, ac ymfoddloni yn helaeth fod eu Gwobr hwy gymmaint fwy nâ'n Gwobr ni, ag ydym yn gydnabod fod eu Rhinwedd yn fwy. Mewn gair, cyn belled a fyddwn oddi wrth rwgnach yn erbyn Duw, o herwydd na's gwobrwydd efe mo honom ni mor hael ag eraill, ag y byddwn yn gwbl deimladwy iddo ef fod yn haelionus i ni yn anfeidrol tu hwnt i'n Haeddiant neu'n Diſgwyliad; mai nid o ran hoffi Partiaeth, neu dderbyn Wyneb yn gib-ddall, y derchafodd efe eraill i uwch Graddau o Ogoniant nâ nyni ein hunain, ond o Egwyddor o uniawn Gyfiawnder, yr hon ſydd yn gymmwys yn pwyſo ac yn rhannu ei Gwobrau yn ôl Graddau ein Haeddiant a'n Cymmydd. Y Teimlad o hyn nid yn unig a lonydda ein Meddyliau mewn llawn Foddlondeb, ond hefyd a'n cyffrŷ ni yn waſtadol at y Gweithredoedd gwynfydedig hynny o Gariad a Mawl, Diolchgarwch ac Addoliad. Fel hyn y gwelwch, fod Goſtyngeiddrwydd yn ein cymhwyſo ni tu ag at y Nefoedd, ac yn ein bwrw i lawr, fel Pelau, yn unig fel y gallom neidio yn uwch mewn Gogoniant a Happuſrwydd.

Fel hyn y gwelwch, fod yr holl Rinweddau ag ſydd yn perthyn i Ddŷn, o'i yſtyried fel y mae efe yn Greadur rheſymmol, yn gwneuthur at y Diben mawr Cris'nogol, *ſef*, Dedwyddwch y Nefoedd. Mae'n wir, mai Ffrwyth digyfrwng y fath ymma o Rinweddau ydyw yn unig, o'r

hyn lleiaf yn bennaf, Dedwyddwch o *Necâd*, neu 'r Dedwyddwch o *Orphwysfa* a *Llonyddwch*, yr hyn yw peidio bod yn druenus, neu adael yn llwyr-gwbl bob math o Weithredoedd a Symmudiadau ag a wnelo Gam neu Niweid i Enaid rheſymmol. Can's, megis y dangoſais i chwi yn Nechreuad y Doſbarthiad hwn, y mae Swydd briodol Rhinwedd ddynol yn ſefyll yn y fath Drefniad o'n holl Bwerau o weithredu, ag na wnelom ddim a fo er Cam neu Niweid i'n Natur reſymmol; a hyn, chwi welwch, y mae'r pum Rhinwedd a rag-grybwyllwyd yn gyflawni yn effeithiol jawn. Ond heblaw hon, y mae Rhan arall, fel y dangoſais i chwi, o Ddedwyddwch, ag ſydd yn ſefyll nid mewn *Gorphwysfa*, ond mewn *Symmudiad*; yn yr Ymarfer bywiog o Alluoedd rheſymmol ein Heneidiau ar y fath Wrth-ddrychon ag ſydd fwyaf gweddus iddynt; a thu ag at gyrraedd y Rhan hon o'n Dedwyddwch, y mae Math arall o Rinweddau ag ſydd angenrheidiol i ni eu hymarfer, am ba rai y ſoniaſ yn y ddau Ddoſborth a ganlyn. Ond er mai Ffrwyth digyfrwng y Rhinweddau dynol hyn y ſoniaſom ni am danynt, ydyw yn unig y Dedwyddwch o *Orphwysfa*, etto y maent yn tueddu lawer ymhellach; *ſef*, at y Dedwyddwch o *Symmudiad* ac *Ymarfer*. Can's ammhoſſibl ydyw attal yr Egwyddor fywiog honno oddi fewn i ni yn y fath fodd, a pheri iddi gwbl beidio â ſymmud: ac am hynny, fel nad yw pob Gorphwyſiad o'i Gweithrediadau trefnus, ſobr, ond gwneuthur Ffordd i rai gwyllt ac annhrefnus; felly pob Lleihâd o'i Symmudiadau niweidiol ſydd yn gwneuthur Ffordd i rai gwynfydedig; ac felly y Rhinweddau dynol, trwy roddi i ni Orphwysfa oddi wrth y Symmudiadau hynny ag ſydd gyſtuddiol i'n Natur, ydynt yn ein gogwyddo ac yn ein tueddu ni at y cyfryw Symmudiadau ac Ymarferion ag ſydd fwyaf hyfryd a boddlongar iddi.

DOS-

DOSBARTH II.

Yngbylch y Rhinweddau Duwiol *hynny ag ſydd yn perthyn i Ddŷn, o'i yſtyried megis Creadur rheſymmol, mewn Perthynas â DUW: yn dangos fod y rhai'n hefyd yn gynnwyſedig yn y Rhan nefol o'r* Fuchedd Gris'nogol; *a bod yr Ymarfer o honynt yn effeithiol yn gweithio tu ag at ein Dedwyddwch ar ôl hyn.*

YR wyf yn awr yn myned ymlaen at yr ail fath o Rinweddau, *ſef*, y rhai *Duwiol*; y rhai yr ydym yn rhwym i'w cyflawni, fel y dywedais, megis yn ydym yn Greaduriaid rheſymmol mewn Perthynas â Duw: yr hwn, gan ei fod nid yn unig wedi ei gynnyſgaeddu â phob Perffeithrwydd a fo boſſibl, ag anfeidrol Wirionedd a Chyfiawnder, Doethineb a Gallu, gyd â'r cwbl ag allo beri i un Hanfod gael ei dra-mawr barchu, ei ryfeddu, ei garu, a'i addoli; yr hwn, gan ei fod nid yn unig yn Awdwr ein Bywyd a'n Hawddfyd, fel y mae yn Greawdwr ac yn Gynhaliwr pob peth, ond hefyd ein Llywydd, ein Harglwydd, a'n Brenin; fel y mae yn Duw Hollalluog, unig Ben-Llywodraethwr y Nef a'r Ddaear, fydd ganddo, ar yr holl Gyfrifon hyn, union Hawl ddilys i amryw o Ddyledſwyddau ac Ufudd-dod oddi wrth ei Greaduriaid; y rhai a gynhwyſaf dan y chwech Pen neilldnol hyn.

1. Y dylem fynych fyfyrio a meddwl am Degwch a Pherffeithrwydd ei Natur.

2. Y dylem ar gyfrif y Perffeithrwydd hyn yn oſtyngedig ei addoli ef.

3. Y dylem yn oſtyngedig ei garu, a chymmeryd Hyfrydwch ynddo.

4. Y dylem yn ddyfal ac yn ddiddeffygio ei ganlyn ef yn yr holl Briodoliaethau a'r Gweithredoedd hynny ymha rai y gallwn ei ddilyn.

5. Y dylem roi ein hunain i fynu yn gwbl i'w Drefnaid a'i Gyfarwyddyd ef.

6. Y

6. Y dylem yn llawen orphwys a hyderu arno.

Y Pethau hyn i gŷd, fel y dangoſaf, ſy gynnwyſedig yn y Rhan nefol o'r Fuchedd Gris'nogol, ac ydynt yn dra effeithiol yn gweithio tu ag at ein Dedwyddwch yn ôl llaw.

I. Fel yr ydym yn Greaduriaid rheſymmol mewn Perthynas â Duw, yr ydym yn rhwym i fynych fyfyrio a meddwl am dano. Can's Diben naturiol ein Dyall ydyw, myfyrio ar y *Gwirionedd*; ac am hynny po fwyaf fo o *Wirionedd* mewn un Gwrthddrych a ellir ei adnabod, a pho bellaf y bo wedi ei ſymmud oddi wrth *Anwir* a *Diffyg-Bôd*, mwyaf y mae yn perthyn i'r Dyall i fyfyrio arno, a meddwl am dano. Gan mai Duw yntau yw'r Gwrthddrych gwiraf a chywiraf, fel y mae efe wedi ei ſymmud mwy Anghenrheidrwydd ei Hanfod oddi wrth bob Poſſibrwydd o beidio bôd; rhaid ei fod ef y Teſtyn perffeithiaf i'n Dyall, y Teſtyn goreu a mwyaf, ar ba un y gall ſiod i Fyfyrdodau. Ac heblaw mai efe yw'r gwiraf a'r cywiraf o bob Hanfod, efe hefyd yw Ffynnon pob Gwirionedd a Sicrwydd; ei Allu wedi ei gyfarwyddo gan ei Ddoethineb a'i Ddaioni, yw'r Achos nid yn unig o'r cwbl ag ſydd, ond o'r cwbl ag a fydd, neu a all fod. Ac a ydyw yn gymmwys i'n Dyall ni, yr hwn a wnaed i fyfyrio, i gwbl edrych dros y Ffynnon o hono? Ond heblaw hyn hefyd, ei fod ef y Gwirionedd mwyaf ei hun, a'r Achos o bob peth arall ag ſydd wir a ſicr, efe yw Penllywydd Hanfodau, a'r mwyaf cariadlawn a pherffaith, fel y mae efe yn cynnwys yn ei anfeidrol Hanfod bob Perffeithrwydd a fo boſſibl o ran Rhyw a Grâdd. A pha Amharch anghenſil ydyw i Feddyliau ag ſydd wedi eu gwneuthur i fyfyrio ar y Gwirionedd, i fyned heibio i un mor fawr a gogoneddus, heb ddim Parch na Sulw; fel pe bae efe yn lle Dim yn y Bŷd, ac na haeddai feddwl am dano! Nag ê; heblaw hyn oll (yr hyn dybygai un a fyddai ddigon i rwymo ein Dyall i'w olygu ef yn fanwl jawn) y mae yn Wirionedd ag ſydd o'r Berthynas agoſaf i ni o bawb eraill; nid yn unig fel y mae efe yn Dâd a Chynhaliaeth ein Bywyd, a'n Cyſſur yn y Bŷd, ond unig Farnwr ein Tynghedfen hefyd, ar yr hwn y mae ein tragywyddol Fŷd da neu'n

Trueni

Trueni yn ſefyll. A pheth ſydd yn peithyn yn fwy i ni feddwl am dano, a myfyrio arno, nâ'r Hanfod mawr hwn, oddi wrth yr hwn y daethom, yn yr hwn yr ydym yn byw ac yn anadlu, ac oddi wrth yr hwn yr ydym i ddiſgwyl yr holl Ddrwg ag allwn ei ofni, neu yr holl Ddaioni ag allwn obeithio am dano? Oyſtyried hyn oll, nid oes dim amgen na wnaed ein Dyall yn dechraf o Dduw, i edrych i fyny atto ef, ac i fyfyrio ar ei Hanfod a'i Berffeithrwydd. Ac er ei bod yn y Cyfan anhenffaith hwn yn rhy fynych yn caelei throi oddiwrtho, trwy'r Amryweithiau mawr o Bethau cnawdol ag ſydd oddi amgylch iddi, ac yn ei rhwyſtro i ganfod, ietto, fel y bo ein Henaid yn ei gwaredu ei hun o'r Cyflwr cnawdol hyn i Fuchedd o Reſwm, yr ydym yn gweled trwy Brofiad fod ei Dyall yn fuan yn edrych i fyny trwy Gyffro naturiol, ac yn ei chyfarwyddo ei hun at Dduw, fel ei Phrif gymmwys a'i Chanol-bwynt. Ac fel y mae hi yn dyfod yn fwy canolig at Bethau cnawdol, felly y mae yn dyfod beunydd yn fwy bywiog yn ei Thuneddiadau ag at Dduw a Phethau duwiol. Ac nid yw ryfedd ei both yn gwneuthur felly, ganmai Duw yn unig, yn hunanfydd Wirionedd anfeidrol, all ddigoni ei Syched anfeidrol ac ôl Gwirionedd. Althyma'r Achos ein bod, hyd nni chwbl ſofydlom ein Meddyliau a'n Hewyllyſiau ar Dduw, wrth Natur yn ſerchu y fath Anfeidroldeb o Wuchdrychon, fel y mae'n Dymuniadau yn waſtad yn ymeſtyn at Bleſſeraau newydd, ac yn caél eu dwyn allan ar ôl Meddiannau newydd; fel y mae ein Gwâg-Dyb yn waſtad yn groeſawi ein Meddwl â Lluniau newydd, a'n Dyall yn waſtad yn galw am Bethau newydd i fyfyrio arnynt. Tuwy yr hyn, fel y mae un wedi jawn ddal ſulw, y mae holl naid yn mynegi, na's gall gael ei chyflawn foddloni â Gwirionedd neu Ddaioni terfynedig: yr hyn yſgatfydd all fod y Rheſwm p'am yr ydym yn ymhyfrydu cymmaint mewn Storiau celwyddog, a hên Luniau Anghenfil, tohebwydd eu bod yn myned tu hwnt i Derfynau Gwirionedd, ac felly ydynt megis yn helaethu Golwg yr Enaid; yr hon, trwy ei Symmudiadau diattal, ſydd yn dangos ei bod wedi tarddu oddi wrth Dduw, ac na's gall byth gael ei pher-

ffaith

ffaith foddloni ond mewn Undeb ag ef, yr hwn ſydd Fôr anfeidrol o Wirionedd a Daioni. Can's mewn perthynas i bob Hanfodau eraill, y maent mor fâs, fel yr ydym yn gweled yn fuan (neu o'r hyn lleiaf nyni a gawn weled, pan ddelom i ganfod ar ôl Dull Yſbrydoedd) i Waelod eu Gwirionedd a'u Sicrwydd hwynt; a chwedi yr gwneloni hynny, nid oes dim yn ychwaneg ynddynt hwy i borthi a groeſawi ein Dyall ni. Fel wedi i ni dynnu allan y Gwirionedd o Hanfodau terfynedig, rhaid i ni naill ai peidio dyall dim yn rhagor, yr hyn a fyddai difuddio Pwer godidoccaf yr Enaid o ddim Hyfrydwch ymhellach, neu rhaid i ni o'r diwedd ſefydlu ein Meddwl ar Duw, ymha un y caiff hi'r fath anfeidrol Wirionedd ag a fo ddigonol i'w hymarfer hi trwy ei holl Barhâd anfeidrol. Eithr oni bydd i ni yn awr wneuthur ein Meddyliau yn gydnabyddus â Duw, trwy fynych feddwl a myfyrio arno, nyni a ddeuwn bob yn ychydig y fath Ddieithriaid iddo, fel y byddwn, erbyn yr elom i'n Byd arall, mor belled oddi wrth gael ein boddloni o fyfyrio arno ef, ag yr edrychwn ni arno fel Gwrthddrych na bôm yn hoffi, ac yn ddiflâs nyni a drown ymmaith ein Llygaid oddi wrtho. Can's rhaid i Feddwl Dŷn ymgynnefino â'i Wrthddrychon, cyn y gallo fyfyrio arnynt gyd â Hoffder; ac er hyfrytted y gallo'r Gwrthddrychon fod ynddynt eu hunain, etto tra y mae'r Meddwl heb arferu â hwynt, ei Fyfyrdodau a ffŷ ymmaith oddi wrthynt, ac heb lawer jawn o Drais ni ddugir byth mo'no i ymwrando arnynt yn ſefydlog ac yn ddifrifol. Fel os awn i Dragywyddoldeb â Meddyliau heb gynnefino i fyfyrio ar Duw, nyni a fyddwn yn waſtadol yn ffoi oddi wrtho, fel y mae Yſtlymmod a Dylluanod yn ffoi oddi wrth Oleuni'r Haul, ac ni 's gallwn byth ſefydlu ein Meddyliau chwithig i ddal fulw diyſgog ar ei Ogoniant ef. A chwedi i ni ddidoli ein hunain yn llyn oddi wrth yr unig Olwg ag allo yn dragywydd ddigoni ein Dyall, a'i gwneuthur yn wynfydedig, ag allo ei chadw mewn Ymarfer a fymmudiad tragywyddol, a phorthi ei Meddyliau awyddus dros byth ag Amlygiadau newydd a gogoneddus, nyni a gollaſom yn gwbl un o'r Pleſerau meluſaf ag allo Natur Dŷn gael;

ac

c felly rhaid i ni nychu dan dragywyddol Anfoddlondeb.
ragflaenu hyn, y mae'r Efengyl yn gorchymmyn i ni
yfforddi ein Meddyliau mewn Myfyrdodau duwiol, a bod
n fynych yn *yſtyried* ac yn *myſyrio* ar DDUW; i *geiſio y*
ethau ſydd oddi uchod, Col. iii. 1. i *ſancteiddio'r Arglwydd*
DUW yn ein Calonnau, 1 Pedr iii. 15. hynny yw, trwy
d gennym Feddyliau mawrion a theilwng am dano. Ac
m hynny fe oſoder yr Efengyl o'n blaen ni fel *Drych*, fel
gallom ynddi hi *ganfod ac edrych ar Ogoniant yr Arglwydd*,
Cor. iii. 18. *ſef*, y Gogoniant duwiol ag ſydd yno yn
el ei amlygu a'i ddadguddio i ni; fel y bo i ni ei oſod
yn waſtad o flaen ein Meddyliau, a chrynhôi i fynu ein
yfyrdodau yn ei gylch ef, a pheri iddynt drigo ac aros
no ef, fel y bo iddynt felly brofi a blaſio er ei Degwch
fol, ac ymhyfrydu a'u digoni eu hunain â'r Olwg arno.
an's er y gall dwys Fyfyrdod am DDUW fod ar y cyntaf
faith ac yn hoenus i'n Meddyliau, o herwydd eu bod
b gael Profiad o hynny; etto, wedi dyfal arfer hynny,
gwiſgo ymmaith y Dieithdra ſy rhyngom a DUW, yr
n ſydd yn peri i'r Meddyliau am dano fod mor flinderus
i, a phan y delom, trwy fynych ymgyfeillachu ag ef, yn
y adnabyddus o hono, fe ddaw y Myfyrdodau am dano
b yn ychydig mor hyfryd ac mor foddlon gennym, fel
's gallwn wybod pa fodd i fyw hebddynt; ac o'r di-
dd fe fydd y fath Deimlad bywiol o'i Degwch ar ein
eddyliau, yn eu tynnu hwynt ar ei ôl ef, fel na's gallwn
h fod yn jawn ond tra fôm gyd ag ef; fel ag y bydd
yn Gydymmaith gwaſtadol yn ein Meddyliau, ac yn
ſtyn gwaſtadol i ni fyfyrio arno; ac ni bydd dim yn y
d mor hyfryd ac mor gymmeradwy gennym, ag ym-
llduo weithiau oddi wrth y Byd, a chadw Cyfeillach â
w mewn Myfyrdodau ſanctaidd. Aç er, ô achos ein
mgylchiadau a'n *Hangenrheidiau* preſennol, nad oes
ddyginiaeth lai nâ bo i'n Meddyliau yn fynych gael
troi oddi wrtho, a gorfod gofalu am eu Hachoſion rym-
ol; etto wedi iddynt ymarferu Encyd â Duw, nyni a,
n weled na fyddant byth mor llwyr wedi eu boddloni,
mor eſmwyth a phan y bônt wedi ymneillduo oddi
bob peth ond Duw, a chwedi eu llonyddu a'u ſef-

ydlu mewn Myfyrdodau duwiol. Fel pan elom ymmaith i'r Byd arall, lle y ſymmudir ni oddi wrth yr *Amgylchiadau* a'r *Angenrheidiau* blinderus, y rhai oeddent ymma mor ſynych yn troi ein Meddyliau oddi wrth Dduw, ein Meddyliau, y rhai a gawſant cyhyd eu harferu a'u cynnefino ag ef, a lynant yn fuan wrtho, ac a'u rhoddant eu hunain i fynu yn gyfangwbl i fyfyrio ar ei Natur a'i Ogoniant. Can's wedi i'n Meddyliau eiſoes gael eu tueddu yn grŷf a'u gogwyddo tu ag at Dduw, trwy y Blaen-Brawf hyfryd hwnnw a gawſom o hono yng Ngwrês ein Myfyrdodau, pan ddelom i Ardaloedd tawel a llonydd y rhai Gwynfydedig, lle y cawn yn fuan Olwg agoſach a mwy cyfeillgar o hono nag erioed, ein holl Feddyliau yn naturiol a redant tu ag atto, a'r Olwg gyntaf ar ei Ogoniant a'u deil hwynt mor gaeth, na's gallwn byth edrych oddi wrtho drachefn, cyhyd ag y parhao Tragywyddoldeb, ond un Olwg a'n gwahodd ni i'r llall, a'r hyn a wnelom â'n llawenhâ ni yn y fath fodd rhagorol, ag a baro i ni beunydd chwennych gweled bellach bellach. Ac o herwydd na's gall ein Meddwl terfynedig byth gyflawn ddirnad y cwbl ag a ellir ei adnabod yn ei anfeidrol Hanfod ef, nyni a gawn y fath Hyfrydwch mewn pob Gwybodaeth ymhellach o hono ef, fel y dymunwn ni yn waſtadol wybod ymhellach; a'r Dymuniad hwnnw, cyn gynted ag y tarddo, a gaiff beunydd ei ddigoni â rhagor o Wybodaeth, ac felly i Oeſoedd tragywyddol, pob Boddlondeb newydd yn fuan a gyfyd Ddymuniad newydd, a phob Dymuniad newydd yn fuan a ddiwedda mewn Boddlondeb newydd. Ac yn awr, O Enaid happus! pa Dafod ddichon draethu dy Lawenydd a'th Orfoledd! yr hwn wyt yn llyn wedi ymgyfflylldu â Duw, ac yn waſtad y cael dy lanw â Golygiadau gogoneddus, a'th amgylchu â Rhyfeddodau ei Berffeithrwydd; fel yr ydwyt â phôb Trem yn canfod rhyw Degwch newydd, ac â phôb Medd yn gwneuthur rhyw Amlygiad mawr-wych! O Hyfrydwch gorfoleddus y Weledigaeth fendigedig honno! na gallaf yn awr ond prin feddwl am dani heb lewygu Lawenydd; pan caffo fy Enaid truan hiraethlawn, fyd ymma yn ymbalfalu am y Gwirionedd mewn Dwnſw

tywy

tywyll o Gyfeiliornad ac Anwybodaeth, ei ollwng allan i'r Goleuni nefol, i weled fel y gwelir, ac i adnabod fel yr adwaener ef, pa fodd y ſefydla efe ei Olygon awyddus ar DDUW, Adnabyddiaeth o ba un y mae efe yn awr gymmaint yn ddymuno! Gyd â pha Hyfrydwch anfeidrol y bydd i'w Feddyliau cyflym bywiog hedeg yng Ngoleuni ei Wynebpryd, yr hwn trwy bob munyd o Dragywyddoldeb a fydd beunydd yn dadguddio Tegwch newydd i ni, y fath nid yn unig ag a geidw ein Myfyrdodau yn dragywydd ar waith, ond a'u hennynna hwynt yn dragywydd!

II. Fel yr ydym yn Greaduriaid rheſymmol mewn Perthynas â DUW, yr ydym yn rhwym i'w addoli ef yn oſtyngedig; hynny yw, nyni a ddylem, â'r Parch a'r Anrhydedd mwyaf dwfn i'w Fawredd tra-rhagorol, a'i Briodoliaethau diderfynau, grymmu ein Heneidiau ger ei fron, a galw a gweddio arno, a'i foliannu a diolch iddo, fel yr unig Gyfrannwr Holl-ddigonol o bob Rhodd ddaionus a pherffaith; ac y dylem yn ein Gweddiau amlygu oddi allan ein Parch iddo, trwy'r fath Agwedd Corph goſtyngedig, ag ſydd gymhwyſaf i dyſtio hynny i eraill. Can's nid yw hyn oll ond Cydnabyddiaeth gyfiawn a dyledus o'r peth yw ef ynddo ei hun, ac i ni, ac i'w holl Greadigaeth. Nid yw'r Parch a'r Bri goſtyngeiddiaf ag allwn ni dalu iddo ef, ond Cydnabyddiaeth gyfiawn o'i anfeidrol Fawredd a'i Allu; nid yw'r Gweddiau a'r Ymbiliau gwreſoccaf ag allwn ni gynnyg iddo, ond dyledus Gyfaddefiad o'i fod ef y peth yw ef, Trefnwr pennaf ac Awdwr pob peth; y mae'r Mawl helaethaf a mwyaf gogoneddus ag allwn ni roi iddo, yn rhŷ fyrr o lawer o'r peth ſy ddyledus i'w anfeidrol Odidowgrwydd a'i Berffeithrwydd; nid yw'r Cydnabyddiaeth mwyaf diolchgar ag allwn ni wneuthur iddo, ond Taliad tlawd jawn am y ſwmmau mawrion hynny ag ſydd ddyledus oddi wrthym i'w Garedigrwydd a'i Haelioni ef. Fel y mae ein holl Addoliad yn Ddyled tra chyfiawn ag ſydd yn tarddu oddi wrth y peth yw ef ynddo ei hun, a'r peth y mae efe yn wneuthur i ni, ac i'w holl Greaduriaid. Ac hyd nes gwneler ni yn gwbl deimladwy o bob un o'r Pethau hyn,

yr ydym yn llwyr anghymmwys i Ddedwyddwch tragywyddol; yr hwn, gan ei fod yn ſefyll, fel y dangoſais o'r blaen, mewn Ymarfer fywiog o Bwerau rheſymmol yr Enaid ar Dduw, ſydd yn angenrheidiol yn gofyn fod gennym jawn Serch at ei Briodoliaethau a'i Weithredoedd ef. Can's oni byddwn felly, ni's gallwn ni byth rwymo ein Swydd-Gynheddfau yn fywiog i weithio ac i'w hymarfer eu hunain yn ei gylch ef; oni bydd ein Meddyliau wedi eu cynnefino i fod ganddunt Fraw a Theimlad o'i anfeidrol Fawredd a'i Allu, nyni a fyddwn dueddol o'i eſgeuluſo ef megis Gwrthddrych rhŷ wael i'n Dyalldwriaethau mawr ni i gadw Cyfeillach ag ef; oni bydd Tueddiad crŷf yn ein Meddyliau i barchu a rhyfeddu ei Ogoniant a'i Odidowgrwydd, ni's gallwn byth gyffroi ein Dyall a'n Gwllys i weithio arno ef gyd â dim Bywyd na Bywiogrwydd: mewn gair, oni bydd ynnom ni Deimlad gwaſtadol, mai efe yw Ffynnon yr holl Bethau da ag ydym ni yn fwynhâu neu yn obeithio am danynt, nyni a fyddwn dueddol o edrych arno fel un nad oes fawr o Berthynas rhyngom ag ef; ac felly ei eſgeuluſo a'i ddibriſio ef. Fel oni bydd i ni gynnefino ein hunain yn awr i fod gennym Feddwl defoſionol tu ag at Dduw, pan elom oddi ymma i'r Bŷd arall, nyni a gawn weled y bydd Pwerau'n Heneidiau mor wrthwynebus ac mor ddifywyd at yr holl Symmudiad nefol a'r Ymarfer ag ſydd yn gwneuthur i fynu y Dedwyddwch oddi uchod, fel y byddwn yn gwbl anghymmwys i'w brofi a'i fwynhâu ef. Can's yn Nhragywyddoldeb, ein Heneidiau a redant yn ôl y Gogwyddiad trechaf ag a ddugont yno gyd â hwynt; ond y mae'n ammhoſſibl iddynt redeg tu ag at Dduw gyd â Bywyd a Rhydd-did, oni thynner ac oni ogwyddo hwy yn waſtadol atto ef, trwy dduwiol barchu ei Fawredd a rhyfeddu ei Ogoniant a'i Berffeithrwydd. A thymma'r Achos fod yr Efengyl mor gaeth yn ein rhwymo *i addoli DUW*, Dad. xxii. 9. *i'w addoli ef mewn Ysbryd ac mewn Gwirionedd*, Joan iv. 24. *i weddio yn ddibaid*, 1 Theſ. v. 17. a *gweddio bob amſer â phob rhyw Weddi a Deiſyfiad*; hynny yw, gwneuthur taer Ymbiliau at Dduw ar bob Odidgymmwys ac Amſer Angen, *Eph.* vi. 18. mewn gair *offrwm*

offrwm Aberth Moliant i DDUW, yr hyn yw ffrwyth ein Gwefuſau, yn cyffeſu i'w Enw, Heb. xiii. 15. a *diolch i DDUW yn ddibaid*, 1 Theſ. ii. 13. Yſtyr hyn i gŷd ydyw, y dylem, allan o ddwys a bywiol Deimlad o anfeidrol Fawredd a Gallu, Holldigonoldeb a Charedigrwydd Duw, fod yn fynych yn ymgrymmu ein hunain o'i flaen ef, ac yn offrwm i fynu ein Gweddiau, a'n Mawl, a'n Diolchgarwch, iddo ef. Ac mewn dyfal Ymarfer o'r rhai'n, nyni a gynnyddwn i fynu bob yn ychydig i Gyflwr gwynfydedig y Nefoedd. Can's gan ein bod, trwy bob un o'r Gweithredoedd hyn o Addoliad Duw, yn cyfeirio ein Meddyliau yn ddigyfrwng atto ef, y mae hynny yn ein huno ni ag ef yn y fath fodd, ag yr ydym ymhob Gweddi galonnog, Mawl, neu Ddiolchgarwch, megis yn cyffwrdd ag ef, ac yn ei deimlo. Can's felly, tra yr ydym yn oſtyngedig yn addoli ei Fawredd, yr ydym yn cael ein taro mewn modd teimladwy gan ei Bŷſt ef; tra'r ydym yn taer ymbil am ei Ddaioni a'i Drugaredd, y mae Rhinwedd grêf oddi wrtho ef yn cyffwrdd â ni, trwy'r hyn yr ydym yn teimlo yn eglur ein bod yn cael ein tynnu i fynu atto ef, a'n cippio i Fwynhâd gwirioneddus o hono: mewn gair, tra'r ydym yn offrwm Mawl a Diolchgarwch o'n Calonnau iddo ef, y mae Teimlad o'i anfeidrol Ogoniant a'i Garedigrwydd yn ein dwyn yn gaeth, a'n Calonnau a wreſogir ac a ennynnir, trwy ei Dân nefol ef yn deimladwy yn cyffwrdd â hwynt. Can's tra fom ar ein Gliniau mewn Gwreſogrwydd yn gweddio arno, y mae gan ein Meddyliau Deimlad mor fywiog, Blâs mor gryf a chyflym o Dduw, ag a fu erioed ar y Genau oddi wrth y Bwyd neu'r Ddiod feluſaf. Fel trwy fynych ailadrodd ein duwiol Swyddau hyn, yr ydym yn mynych brofi y Teimlad hwn o Dduw; a'r rhai'n, trwy gael eu hadnewyddu yn fynych, a ddeuant yn fywioccach ac yn ddyfalach, ac felly o'r diwedd a gynnyddant i Deimlad bywiog, parhâus, a defodol o hono. A chwedi i ni fel hyn, trwy ein mynych Addoliad defoſionol, gyrraedd Teimlad bywiol parhâus o Fawredd a Gogoniant, Haelioni a Charedigrwydd Duw, pa bryd bynnag yr elom i Dragywyddoldeb, hyn, fel Spring fyw, a rŷdd Symmudiad gwaſtad-

ol i Alluoedd ein Heneidiau, ac a'u geſyd hwy i weithio yn fywiog ar Dduw yn dragywydd. Y bywiol Deimlad a ſo gennym o'i anfeidrol Fawredd a'i Allu, a ſtawycha ein Dyall a'n Gwllys yn dragywydd i gluſt-ymwrando yn ddiwyd, ac i ymoſtwng iddo ef; ac fe fydd ganddo'r fath Allu a Llywodraeth droſom, ag a bâr i ni ei barchu â'r Anrhydedd a'r Bri goſtyngeiddiaf. Can's yno fe fydd gennym fwy ac eglurach Teimlad o'i Fawredd nag a gawſom erioed yn y Cyflwr amherffaith hwn; yr hyn a gynnydda y Teimlad a gawſom o'r blaen o hono i'r fath Râdd o Barch a Bri, ag a fo yn dragywydd yn goruchlywodraethu ein Swydd-Gynheddfau, ac yn cadw ein Dyall a'n Gwllys, a'n Serchiadau i ddiſgwyl yn ddyfal wrtho ef. Ac fel y bydd i'n Teimlad o'i Fawredd yn felus orchymmyn, felly ein Teimlad o'i anfeidrol Degwch a'i Garedigrwydd a'n huda yn anorchfygol i oſod allan ac ymarfer ein Swydd-Gynheddfau arno ef. Can's y neb ſy ganddo Deimlad ſerchog o Degwch, a Daioni, a Haelioni Duw, ſy ganddo Galon wedi ei gwneuthur yn gynghanedd at Gerddwriaeth y Nefoedd, wedi ei goſod a'i chymhwyſo yn barod at Fawl a *Haleluja* tragywyddol. Fel pan êl oddi ymma ymmaith i'r Bŷd arall, ac y derbynier ef yno i Olwg agoſach ar Berffeithrwydd, a llawnach Mwynhâd o Fendithion Duw nag erioed, fe fydd i'r fath Deimlad cryf dwys o'r ddau ddal gafael yn fuan ar ei Feddwl oedd wedi ei ragbarotoi, fel na's gall efe attal ei draethu a'i ollwng allan yn y Meſuron mwyaf gorfoleddus o Ryfeddod, a Mawl, a Diolch. A hyn fydd ei Waith a'i Orchwyl yn dragywydd, i ryfeddu a derchafu Perffeithrwydd Duw, o'r hyn y gwnâ efe bob munyd Amlygiadau newydd a gogoneddus; ac i glodfori a chydnabod yn ddiolchgar anfeidrol Olud ei Haelioni, o'r hyn y caiſ efe bob munyd Brofiadau newydd a melus. Fel tra bom ni trwy ddyfal Weithredoedd o Fawl a Diolchgarwch yn ymroi i weithio ar ein Meddyliau ddwys Deimlad o Ddaioni a Haelioni Duw, yr ydym ymlaen llaw yn ymarfer â Cherddwriaeth y Nefoedd, ac yn tynnu allan Ganiadau *Sion*; fel pan elom oddi ymma, y gallom fod wedi ein cymhwyſo a'n parotoi i wneuthur ein Rhan ymyſg y Cantorion

torion nefol. Fel y mae gwir Dduwiolder (chwi welwch) yr hwn ſydd yn ſefyll mewn Teimlad bywiog o anfeidrol Fawredd, Tegwch, a Charedigrwydd Duw, yn dra effeithiol yn tueddu'r Meddwl at yr holl Ymarferion duwiol a nefol hynny, y rhai ſydd yn gwneuthur i fynu Gyflwr y Nefoedd.

III. Fel yr ydym yn Greaduriaid rheſymmol mewn Perthynas â Duw, yr ydym yn rhwym i'w garu ef yn ddiragrith, ac i ymhyfrydu ynddo: a hynny ar gyfrif yr hyn ydyw efe ynddo ei-hun, fel mai efe yw'r Hanfod mwyaf hyfryd a chariadlawn, yn yr hwn y mae Cyſſylldiad cynghaneddol o bob Tegwch a Pherffeithrwydd ag ellir feddwl, o Ddoethineb a Daioni, o Gyfiawnder a Thrugaredd, ac o bob peth cariadlawn arall ag allo ofyn neu dynnu Serch rheſymmol, y rhai i gyd ſydd wedi eu cyd-dymheru yn ei Natur ef mewn Graddau anfeidrol; a hefyd ar gyfrif ei anfeidrol Garedigrwydd a'i Ewyllys da i ni. Can's heblaw ei fod ef wedi ein hamgylchu ni oddi amgylch, fel cynnifer o *Inyſoedd llwyddianus*, â Môr mawr o Fendithion oddi allan, ymha rai y mae pob peth ag ſydd naill ai'n angenrheidiol, gweddus, neu hyfryd i'n Mwynian corphorol; heblaw iddo anadlu ynnom Eneidiau anfarwol, ac argraphu arnynt y Lluniau têg hynny o'i Dduwdod ei hun, Gwybodaeth o Wirionedd, a Chariad at Ddaioni, y rhai ydynt ill ddau yn Gynnwyſiadau blaenllawn o'r Perffeithrwydd uchaf, a'r Happuſrwydd mwyaf derchafedig: mewn gair, heblaw iddo ef, er mwyn cyflawni Dirfyg a boddloni ein Dyalldwriaethau enwog hyn, barotoi i ni Nefoedd anfarwol, a'i thrwſio â'r holl Bleſerau a'i Hyfrydwch ag allo Enaid ſy wedi ei eni o'r Nefoedd ei ddymuno neu fwynhau: heblaw hyn i gyd, meddaf, efe a ddanfonodd ei Fab ei hun o'r Nefoedd, i ddadguddio i ni y Ffordd yno, ac i'n hannog i ddychwelyd iddi, trwy farw dros ein Pechodau, a thrwy hynny mynnu i ni Rydd-had cynoeddus a *Siartr* o Drugaredd a Maddeuant, ar yr Ammod i ni ddychwelyd; le, ac megis pe buaſai hyn i gyd yn rhy fâch, efe a ddanfonodd ei Yſbryd i ni yn lle ei Fab, i aros gyd â ni, ac fel ei Swyddwr dano, i yrru ymlaen yr Amcan mawr hwn o'i Gariad attom, i'n cyffroi a'n perſwadio ni i ddychwelyd i'r Ffordd ſicr honno i'r

Nefoedd, yr hon a ddangoſodd efe i ni, ac i'n cynnorthwyo ni o hŷd yn ein Taith tu ag yno. Mor ofalus rhyfedd a fu efe, fel nad elai ei Amcan caredig hwn, o'n gwneuthur ni yn ddedwydd yn dragywydd, ddim yn ofer. Ac yn awr, pa Galon all ſod mor galed, a gwrthwyneb y fath Swynion a'r fath Anwyldra galluog. Mi debygwn pe bae ynnom ond Synwyr gyffredin Dynion, y byddai yn ammhoſſibl i ni fyfyrio ar y fath wyrthiau o Degwch a Chariad, heb iddynt weithio yn fawr jawn arnom. Ond hyd nes gwnelont felly, fe fydd yn ammhoſſibl i ni fwynhâu'r Nefoedd: can's pa fodd y gallwn ni oſod allan ein Swydd-Gynheddhau yn rhwydd ar Wrthddrych na bom yn ei garu? ac os ni allwn, pa fodd y gallwn ni, heb garu Duw, fwynhâu y Nefoedd; yr hon ſydd yn ſefyll yngwaith holl Bwerau ein Heneidiau ni yn mynet allan yn rhwydd ac yn llawen arno ef? Can's os na byddwn yn ei garu pan elom i Dragywyddoldeb, naill ai efe a fydd yn ganolig, neu yn gâs gennym: os yn ganolig, nyni a fyddwn yn ei gwbl eſgeuluſo, ac heb ddal dim ſulw arno; os yn gâs, naill ai nyni a ffown oddi wrtho, ac a ymddidolwn ein hunain o'i wŷdd, neu fe orfydd arnom ei ddioddef gyd â mawr Boen a Gofid. Can's tra mae ein Meddyliau yn wrthwyneb iddo, pa beth bynnag a welom ynddo, ni wnâ ond cynddeiriogi a llidio ein Mulais yn fwy yn ei erbyn; a'r Olwg o'i Briodoliaethau gogoneddus hynny, y rhai ſy gymmaint yn gorfoleddu Calonnau Trigolion bendigedig y Nefoedd, ni wnânt ond cyffroi a berwi i fynu ein Hamhleſer tu ag atto i fwy o Gaſineb a Gwrthwynebiad. Can's felly yr ydym yn cael trwy Brofiad yn y Bywyd hwn, fod yn Benyd i ni nesâu at Dduw, nac i feddwl am dano, nac i gadw Cyfeillach ag ef, tra mae'n Meddyliau heb eu heddychu ag ef. A thymma Achos p'anr yr ydym yn cymmeryd cymmaint o Boen i gam-ddarlunio ef i ni ein hunain, i dynnu'r fath Lun o hono ar ein Meddyliau, ag ſydd yn gweddu oreu i Tymherau ni ein hunain; fel, gwedi i ni ei wneuthur fel hyn yn gyffelyb i ni ein hunain, y bo i ni gwympo mewn Cariad ag ef, neu o'r hyn lleiaf ddioddef ei Brefennoldeb bendigedig a'i Gyfeillach yn hawſach. Pa

elom

elom gan hynny i'r Bŷd arall, lle y bydd i'r holl Liwiau hyn o Dduw gael eu tynnu ymmaith, ac y cawn *ei weled ef megis ag y mae*, wedi ei amgylchu â'i Bŷſt diſglaer ei hun o Ogoniant diſrycheulyd, ni fyddwn yn abl byth ei ddioddef; ond wedi ein cwbl frawychu a'n gwradwyddo gan Breſennoldeb ei Ogoniant, ſe orfydd arnom redeg ymmaith, a phe bae boſſibl i guddio ein hunain oddi wrtho mewn Tywyllwch tragywyddol ac Anobaith. Can's o herwydd fod ein Hewyllyſiau wedi eu gwenwyno a'u llygru â Defod o Elyniaeth yn ei erbyn ef, y mae'n rhaid ei fod yn Boen i ni ei weled ef, o herwydd y rhaid i ni yn waſtad ei weled ef yn happus; yr hyn ſy gymmaint o Ddolur-Llygad i'r Yſbrydion damnedig hynny ag ſydd yn ei gasâu ef, fel yr wyf yn barod i dybied, mai'r Daioni pennaf ag y maent yn ddymuno, yn neſaf at gael eu gwaredu o'u Trueni eu hunain, ydyw, cael eu gwaredu oddi wrth y Teimlad poenus o'i Ddedwyddwch ef. Can's pa Boen a fo fwy, all ein Meddwl ddioddef, nâ bod yn Edrychwr tragywyddol ar Wynfyd a Dedwyddwch un ag ydym yn gasâu? Pa Fuſtl a Blinder yntau a fydd i'n Hyſbrydoedd cûl cenſigennus, i weled yr Hanfod bendigedig hwnnw yr hwn ni's gallwn ei ddioddef, wedi ei amgylchu â Dedwyddwch anfeidrol; Dedwyddwch mor fawr, na's gall ef gael dim Cynnydd, ac etto mor ſicr na's gall byth ddioddef dim Lleihâd? Fel y mae yn amhoſſibl, chwi welwch, i Feddwl Dŷn i fyw yn happus ar Dduw yn y Bŷd arall, oddieithr fod ynddo ymlaen llaw Gariad calonnog a Serch atto.

A thymma'r Achos fod ein Crefydd Sanctaidd mor gaeth yn gofyn i ni *garu'r Arglwydd ein DUW, â'n holl Galon, â'n holl Enaid, ac â'n holl Feddwl*, Mat. xxii. 37. *i'w garu ef, o herwydd iddo ef ein caru ni yn gyntaf, i ymddigrifo yn yr Arglwydd*, Sal. xxxvii. 4. ac *i lawenhâu yn yr Arglwydd*, Phil. iii. 1. *a llawenhâu yn yr Arglwydd yn waſtadol*, Phil. iv. 4. hynny yw, ymarferu hyfrydu yn anfeidrol Degwch, Daioni, a Pherffeithrwydd Natur Duw. Nag ê, o gymmaint Pwys yn caru Duw ynghyfrif yr Efengyl, fel y mae yn cael ei ganmol yno megis yr Egwyddor briodol o Fywyd y Criſtion. Can's felly y dywedir

wedir wrthym, *Rhuf.* xiii. 10. mai *Cyflawnder y Gyfraith yw Cariad*; hynny yw, yr Egwyddor gymmwys o bob Ufudd-dod Cris'nogol: ac fe ddywedir wrthym, Gal. v. 6. *yng Nghrift Jefu na all Enwaediad ddim, na Dienwaediad, ond Ffydd yn gweithio trwy Gariad*: hynny yw, Nid oes un peth o ddim Cyfrif gyd â Chrift, ond y fath Grefo'r Efengyl, ag a genhedlo ynnom Gariad calonnog at Dduw, ac a fyddo yn gweithio ac yn ei gofod ei hun allan trwy honno, megis yr unig jawn Egwyddor o Fywyd a Gweithred Gris'nogol. Mae'n wir, heblaw'r Egwyddor hon o Gariad, y mae'r Efengyl yn ein gweithio ni trwy ein Hofn a'n Gobaith, gan gyffroi y naill trwy Fwgwthion o'r Drygau mwyaf, a chefnogi y llall trwy Addewidion o'r Daioni mwyaf; ond etto y mae'n ficr nad yw y rhai'n, nac un Egwyddor arall o Weithredoedd Crefyddol, yn gymmeradwy gan Dduw, tra y maent wedi eu cwbl wahanu oddi wrth Gariad atto ef. Can's nid oes un Egwyddor o Ufudd-dod ag all fod yn gymmeradwy gan Dduw, oni bydd hi'n Egwyddor o Ufudd-dod cyffredinol; ond gan fod *caru* Duw yn Efampl fawr, a'r un bennaf o Ufudd-dod, ni all honno fod yn Egwyddor o Ufudd-dod cyffredinol, yr hon nad yw yn effeithiol yn ein cyffroi ni i'w garu ef.

Mae'n wir, fod Crefydd y rhan fwyaf o Ddynion yn dechreu ar yr Egwyddorion o Obaith ac Ofn: ac ni ellir gwadu nad yw y rhai'n yn Ddechreuad da; ond etto, hyd nes bo i'r rhai'n ein cyffroi ni i garu Duw, yn gyftal ag i wneuthur y Rhannau eraill o'n Dyledfwydd, y mae ein Hufudd-dod yn glôff ac yn rhannol, ac felly yn anghymmeradwy. Felly, er fod Gobaith ac Ofn yn Bethau da i wneud i fynu Egwyddor gymmeradwy o Ufudd-dod, etto heb Gymmyfgiad o Gariad, nid ydynt mewn un modd yn ddigonol. Fe ddichon fod yn wir, ac ar y cyntaf fynychaf y mae, llai o lawer o Gariad yn y Ffynnon oddi fewn o ba un y mae'n Hufudd-dod yn tarddu, nag fydd o Obaith neu Ofn, tra y mae'r Cymmyfgiad cyfan er hynny yn gwbl hôff a chymmeradwy gan Dduw. Can's y Râdd ifaf o Gariad o'r Galon yn gymmyfgedig â'n Gobaith a'n Hofn, fy ddigon i'w lefeinio a'u cyffegru

hwy

hwy yn Egwyddor gymmeradwy o Ufudd-dod; ond beunydd po leiaf o Gariad a ſo ynddo, gwannaf ac amherffeithiaf i gŷd ydyw, ac yn ei holl Fynediad ymlaen tu ag at Berffeithrwydd, y mae ei Addfedrwydd i'w feſur yn ôl y Graddau o Gariad a ſo ynddo. Ac hyd nes cyrhaeddo ein Cariad i'r Râdd honno o Wreſogrwydd, ag a wnelo iddo fod yr Annogaeth bennaf a'r Pen-Rheolwr yn ein Hufudd-dod, y mae'n Cyflwr da yn iſel jawn ac yn amherffaith. Ac felly yn fyrr, yr Egwyddor ſydd yn gweithio ac yn ein hannog mewn Crefydd, ſydd beunydd yn fwyfwy perffaith, po fwyaf o Gariad a ſo ynddi, a pho leiaf a ſo o Obaith ac Ofn; a phan caffo Gobaith ac Ofn eu llyngcu i fynu mewn Cariad, a hon wedi dyfod yr unig Annogaeth o'n Gweithredoedd, yna Egwyddor y Nefoedd ydyw hi, yr Enaid ag ſydd yn acto ac yn bywhâu Crefydd *y rhai cyfiawn wedi eu perffeithio.*

Fel os ydym byth yn amcanu cyrraedd eu Cyflwr bendigedig hwy, rhaid i ni ymroi i ennyn a chwythu i fynu Gariad Duw yn ein Calonnau. A thu ag at hyn, rhaid i ni yn fynych oſod o flaen ein Meddyliau yr anfeidrol Reſymmau ſy gennym i'w garu ef, a chymmell arnom ein hunain y Rhwymedigaethau mawrion a oſododd efe arnom; gan eu tannu hwynt yn dêg o flaen ein Meddyliau yn eu holl Amgylchiadau cariadlawn. Rhaid i ni yn awr ac eilwaith oſod ein Heneidiau oer rhewlyd o flaen y Fflammau toddadwy hynny o'i Gariad a'i Degwch, a'u twymo hwy yn waſtadol wrthynt, gan gymmell arnynt yr Yſtyriaeth o honynt, nes bo i ni deimlo y Tân nefol yn dechreu ennyn yn ein Monwefau. Ac uwchlaw pob peth rhaid i ni gymmeryd Gofal, trwy ddyfal ymarfer yr hyn ſy gyttunol â Natur Duw, i gymmodi ein Meddyliau a'n Tymherau ag ef: can's hyd oni wneler hyn, ni's gallwn byth yn ddefodol ymfoddloni neu ymhyfrydu ynddo; ond wedi i ni unwaith, trwy'r Ymarfer o'r Rheolau tragywyddol hynny o Ddaioni, ag ſydd wedi eu ſeilio yn ei Natur fendigedig ef, cyn belled heddychu ein Natur ag ef, a bod ein Calonnau ni a'i Galon yntef yn gogwyddo i'r un Ffordd, a'n bod o'r un Tueddrwydd gan mwyaf, yna yr ydym wedi ein parotôi a'n gwneuthur yn Danwedd

cymmwys

cymmwys i dderbyn y Fflam nefol hon o Gariad atto ef: a phan y caffo hon unwaith ei hennyn mor llwyr-gwbl yn ein Calonnau, a pheri i ni yn ddefodol i lawn foddloni ac ymhyfrydu ynddo ef, fel y bo i ni lawenychu yn ei Dedwyddwch, gorphwys yn ei Ewyllys, a myfyrio ar ei Degwch a'i Ddaioni, gyd â Boddlondeb Enaid diffuant; yna yr ydym yn yr un Gyflwr (hynny yw, mewn Rhyw, er nid mewn Grâdd) â Phobl wynfydedig y Nefoedd. Ac er na's gallwn yn y Bywyd hwn dderchafu ein hunain i'r Uwchder hwnnw o Gariad ag ydym yn ddymuno, a llai o lawer i gymmaint Cariad ag y mae'r Duw Bendigedig yn ei haeddu, gan fod ein Gwybodaeth bresennol yn fyrr, ein Meddyliau yn anwadal, a'n Serchiadau wedi dyryfu yn y Cnawd a Phethau cnawdol; etto pan elom oddi ymma i'r Byd arall, ac y caffom ein derbyn yno i gael Golwg agosach ar ei Natur, ei Weithredoedd, a'i Briodoliaethau, ein Cariad amherffaith a gynnydda yn fuan i Fflam *Seraphiaid.* Can's yn awr nyni a gawn nid yn unig ei adnabod ef yn well, gan y bydd efe yn wastadol yn ein Golwg, ac yn llewyrchu beunydd yn llawn yn ein Llygaid; ond nyni a gawn ein Symmud oddi wrth bob Gwrthddrychon eraill ag fydd dueddol o droi ein Meddyliau, a gwaharu ein Serchiadau oddi wrtho. Fel y bydd i'n Cariad wedi ei ennyn yn awr a'i borthi â'r Goleuni puraf, â Phŷfl diſglair eſtynnedig y Tegwch a'r Daioni perffeithiaf, oſod allan yn waſtadol ei Fywiogrwyd eithaf, a'i dreulio ei hun heb ddim Pall, mewn un Llewyg o Orfoledd parhâus tragywyddol. Ac yna pa mor ddedwydd fydd ein Cyflwr tu hwnt i bob Dyall, pan y caffom fyw yn waſtadol yngolwg y Gwrthddrych mwyaf cariadlawn, a'i garu ef yn waſtadol gymmaint ag allom, a bod yn abl i'w garu ef fil o weithiau yn fwy nag y gallwn yn awr feddwl! Can's po hwyaf yr edrychom arno, mwyaf yr adnabyddwn ef, a pho fwyaf yr adnabyddom ef, gwell y byddwn yn ei garu, ac felly trwy Oeſoedd tragywyddol fe fydd ein Cariad yn ei eſtyn a'i ymhelaethu ei hun at ei anfeidrol Degwch a'i Gariadoldeb. Yn awr y Wŷn fwyaf melus a hyfryd yw Cariad wrth Natur, Gwŷn ag ſydd yn gwenhieithio ac yn llonni'r Galon, ac yn goſod

yr

r Yſbrydoedd mewn Symmudiad gwiſgi a gwrol. Can's mae'n ſefyll yn gwbl mewn llawn Foddlondeb Meddwl liyſgog, yn tarddu oddi wrth Deimlad o Ddaioni a Chyfddaſrwydd y peth a gerir; ac yn unig trwy Ddamwain mae un Cynhyrfiad aflonydd neu anhyfryd yn gymmyſgedig ag ef. Naill ai y mae 'r neb a gerir yn abſennol, yr yn ſydd yn ei lanw â Dymuniad aflonydd; neu y mae yn anhappus, neu yn angharedig, yr hyn ſydd yn ei gymmyſgu ef â Gofid a Thriſtwch; neu y mae yn anwadal, yr hyn ſydd yn ei chwerwi â Llidiowgrwydd ac Eiddigedd; ond yſtyriwch Gariad yn wahanol oddi wrth yr holl Ddamweiniau hyn, ac nid ydyw ddim ond Hyfrydwch pûr a Boddlondeb. Ond yn awr yn y Nefoedd ni bydd un o'r Damweiniau aflonydd hyn yn ein Cariad ni at Dduw; can's yno i bydd efe byth yn abſennol oddi wrthym, ond yn waſtad yn groeſawi ein Meddyliau cariadlawn â 'r Olwg o'i anfeidrol Degwch; yno y cawn yn dragywydd deimlo ei Gariad tu ag attom, yn yr Effeithiau mwyaf teimladwy ac anwylgar, ſef, yng Ngogoniant y Goron honno a eſyd efe ar ein Pennau, ac ym Meluſder odiaeth y Llawenydd hwnnw a dywallt efe i 'n Calonnau; yno y cawn brofi Parhâd ei Gariad, yn y Mwynhâd gwaſtadol o'r cwbl ag allo Nefoedd dragywyddol ei gynnwys, ac y cawn ein hargyhoeddi yn gyſtal trwy Barhâd ei Ddaioni i ni, a thrwy Anghyfnewidioldeb ei Natur, ei fod ef yn Garwr dianwadal; mewn gair, yno y cawn ei weled ef yn Hanfod tra dedwydd, dedwydd tu hwnt i eithaf Dymuniadau ein Cariad, fel y bydd i ni nid yn unig ymhyfrydu ynddo, fel y mae yn anfeidrol dêg a chariadlawn, ond llawenhâu a gorfoleddu ynddo hefyd, fel y mae yn anfeidrol fendigedig a happus. Can's y mae Cariad yn uno Llês a Manteiſion, yn gyſtal a Chalonnau Cariadon, ac y mae 'r naill yn cymmeryd iddo ei hun Lawenydd a Dedwyddwch y llall. Fel y cawn yn y Cyflwr bendigedig hwnnw Ran yn Nedwyddwch Duw yn gyfattebol i 'n Cariad atto. Can's po fwyaf y bom yn ei garu ef, mwyaf y byddwn yn taro gyd â 'i Hawl ddedwydd ef, a pho fwyaf ſo gennym o Hawl yn ei Ddedwyddwch ef, dedwyddaf i gŷd a raid i ni fod, a mwy raid i ni fwynhâu o hono. Fel

hyn

hyn y mae Cariad yn rhoi i ni wir Feddiant a Mwynhâd o Dduw; y mae yn ein gwneuthur ni yn Gydgyfrannogion ag ef yntho ei hun, ac yn tynnu ei Ddedwyddwch ef arnom ni, ac yn ei wneuthur mor wirioneddus yn eiddom ni ag ydyw yn eiddo yntef. Fel ag y mae Dedwyddwch Duw megis *Arian Le* a *Thryſordy* cyffredin i'r holl Gariadon duwiol, ym mha un y mae gan bob un Ran, ac o ba un y maent, yn gyfattebol i Raddau eu Cariad atto ef, yn gyfrannog i bob Tragywyddoldeb. A phe gallent ei garu ef gymmaint ag y mae efe yn haeddu, hynny yw, yn anfeidrol, hwy a fyddent mor anfeidrol wynfydedig a dedwydd ag yw yntef. Can's yna ei holl Ddedwyddwch ef a fyddai yn eiddynt hwy; a hwy a gaent yr un Teimlad hyfryd o hono oll, a phe bae i gyd wedi ei fymmud i'w Monwesau hwy eu hunain. Gan fod Duw yntau yn Hanfod anfeidrol gariadlawn, anfeidrol garedig, ac anfeidrol ddedwydd, pan caffom unwaith ein derbyn i breſwylio yn dragywydd yn ei Breſennoldeb bendigedig ef, ni weithia ein Cariad atto ef ddim ynnom ond Cynhyrfiadau melus a hyfryd dros ben: can's rhaid i'r Perffeithrwydd anfeidrol a fo ein Cariad y pryd hwnnw yn ganfod yn Nuw, ei buro oddi wrth yr holl Ofnau a'r Eiddigedd, y Gofid a'r Anfoddlonrwydd ag ſydd yn gymmyſgedig â'n Cariad cnawdol, a'i wneuthur yn Hyfrydwch pûr a llawn o Foddlondeb. Fel pan gynnyddo unwaith at Berffeithrwydd y Cyffwr nefol, fe fydd yn Nefoedd i gyd, fe fydd yn Baradwys dragywyddol o Ddigrifwch oddi fewn i ni, yn Ffynnon fywiol o'r hon y tardda Aflonydd o Hyfrydwch yn dragywydd. O Gyflwr gwynfydedig, ymha un y bydd fy Nghalon yn llawn o Gariad hyd yr ymmyl, ac y bydd i'm Cariad orfoleddu wrtho ei hun o'm mewn, ac i g d yn Llawenydd a Gorfoledd dros ben meſur, wedi ei ſymmud yn dragywydd allan o Swn a Chym'dogaeth yr holl Serchiadau aflonydd hynny ag ſydd ymma yn arferol o ymgymmyſgu ag ef, a'i aflonyddu, a'i ddrygu yn waſtadol!

IV. Fel yr ydym yn Greaduriaid rheſymmol mewn perthynas â Duw, yr ydym yn rhwym i'w ganlyn ef yn ddiwyd yn ei Briodoliaethau a'i Weithredoedd, y rhai a

ellir

ellir eu canlyn. Can's y mae hon yn Rheol dderbyniol; *Perfectiſſimum in ſuo Genere eſt Menſura reliquorum*; hynny yw, Y Peth mwyaf perffaith o'i Ryw ſydd i fod yn Rheol ac yn Feſur i'r holl Naturiaethau unigol hynny a gynnwyſir dano. Can's Perffeithrwydd yw Meſur Amherffeithrwydd, megis mai Lein uniawn yw Meſur un gam, a phob un neillduol o Ryw ſydd raid fod â chymmaint a hynny o Ddiffyg yn ei Natur, o gymmaint ag y mae efe yn dyfod yn fyrr o'r Peth ſy ſwyaf perffaith yn ei Ryw. Gan mai Duw yntau yw'r perffeithiaf o bawb yn yr holl Ryw o Hanfodau rheſymmol, rhaid mai efe yw'r Patrwn pennaf i'r holl Hanfodau neillduol hynny ag ſydd dano: a chyn belled ag y mae un o honynt hwy yn anghyttuno ag ef, cyn belled y mae Diffyg yn eu Natur. Duw ydyw'r Dull pennaf o bob Natur reſymmol, a Dŷn yw ei Gyffelybiaeth a'i Ddelw. Can's y mae efe yn Fôd ag ſydd yn anfeidrol reſymmol yn ei holl Ewyllyſio a'i Weithredu, nad oes ynddo mo'r Cymmyſgiad lleiaf o Umor neu Ffolineb, neu Ragfarn yn ei Ddewiſiad, ond y mae ei Ddoethineb pûr holl-wybodus ef ei hun yn ei lywodraethu ef yn waſtad ymhob peth. Ar ba gyfrif y dylai efe gael ei addef ac edrych arno gan bob Hanfod reſymmol, fel Pen-Portreiad a Phatrwn eu Natur; a chyn belled ag y mae un Natur reſymmol yn ſymmud neu'n gweithredu yn wrthwyneb i'w Natur ef, yr hon ſydd fwyaf perffaith ei Rheſwm, cyn belled a hynny y dylid edrych arni fel Anghenfil, ac un annaturiol yn ei Rhyw. Can's fel y mae yn beth anghenfil yng Nghorph Dŷn, fod ei Aelodau wedi eu cam-oſod, ei Enau wedi ei agor yn ei Fôl, neu ei Goeſau yn tyfu allan o'i Yſgwyddau, o herwydd fod hyn yn Oſodiad annaturiol, uniawn wrthwyneb i wir Lûn a Dull Corph Dŷn; felly pob Natur reſymmol na bo'n dilyn ac yn cymmeryd ar ôl Duw, ond yn dewis ac yn acto yn wrthwyneb iddo, ſy mor belled a hynny yn anghenfil ac yn afluniaidd, o herwydd ei bod wedi gwywo a gwyro i Ddull cwbl wrthwyneb i'w Llûn a'i Phatrwn naturiol. A thra y parhao hi felly, ni's gall gael gwir Ddedwyddwch. Can's y peth ag ſydd yn gwneuthur Duw mor anfeidrol ddedwydd

wydd ynddo ei hun ydyw, nid yr Hollalluog Nerth ſy ganddo. i'w amddiffyn ei hun rhag Camweddau a Niweid oddi allan iddo, gymmaint a Chyttundeb cymmwys ei holl Symmudiadau a'i Weithredoedd, â Rheſwm hollwybodus ei Feddwl ei hun. Can's y mae eſe yn waſtad yn gweled yr hyn ſydd oreu, ac y mae eſe yn waſtad yn dewis ac yn ſerchu yr hyn a welo eſe fod yn oreu; a hyn ſydd yn ei wneuthur eſ yn llwyr foddlon iddo ei hun, ac yn ei lanw â Llawenydd a Hyfrydwch anfeidrol: can's pa bryd bynnag y mae eſe yn edrych arno ei hun yn Nrŷch gogoneddus ei Feddwl ei hun, ni all eſe ganfod dim ynddo ei hun ond yr hyn ſydd anfeidrol gariadlawn, dim ond yr hyn ag ſydd yn cyttuno yn gymmwys â Darluniadau teccaf ei anfeidrol Reſwm ei hun. Ond pe bae yn amgen, yr hyn yw ſuppoſo peth amhoſſibl, ſe gyfodai Rhyfel gartrefol oddi fewn i'w Fonwes ei hun, yn erbyn pa un ni's gallai Hollalluogrwydd ei hun mo'i gadw na'i amddiffyn. Can's, er gwaethaf iddo ei hun, ſe ſyddai ei Feddwl yn waſtadol yn gyfiawn yn dannod iddo, a'i holl-weledig Olwg a fyddai bob munyd yn ei ddadguddio, ac yn ei oganu, ac yn ei wawdio, ac yn ei wneuthur yn Olwg wradwyddus jawn iddo ei hun. Fel y byddai eſe mor belled oddi wrth gael Hyfrydwch a Boddlondeb anfeidrol ynddo ei hun, ag y byddai ei Reſwm diſiommedig ef ei hun yn Flinder tragywyddol iddo.

Ac felly y bydd ein Rheſwm ninnau i ni, oddieithr i ni gymmeryd Gofal i ganlyn Duw yn ei Briodoliaethau duwiol hynny, oddi wrth ba rai y mae ei anfeidrol Hunan-Foddlonrwydd ef yn tarddu. Can's cyhyd ag y bôm ni yn gwybod ein bod ni yn ewyllyſgar yn gŵyro ac yn cyfeiliorni oddi wrth Eſampl mawr ein Natur reſymmol, ni's gallwn lai nâ chywilyddio a chondemnio ein hunain, ac anfoddloni yn fawr i'n Gweithredoedd. Rhaid i'n Cydwybod wradwyddo ein Hewyllys, a'n Rheſwm ddannod i'n Tueddiadau gwael. Yn awr pa Blâ annoddefadwy ydyw i Ddŷn orfod ei gablu ei hun, a chael ei Fonwes ei hun yn waſtadol i'w wradwyddo? Yn wir yn y Bywyd hwn, nyni a allwn wneuthur o'r goreu â ni ein hunain, naill ai trwy ddieithro ein Beiau ag enwau gwŷch,

neu

eu eu lliwio droſtynt ag Eſguſon têg; naill ai trwy wo-
rwyo ein Cydwybod â Rhyfyg twyllodrus, neu trwy ddi-
yrru ein hunain oddi wrth roi Cluſt i'w Gwradwyddiadau
wynt, trwy bryſuro i Ddrygioni neu i Orchwylion. Ond
ch! pa beth a wnawn pan ddelom i'r Bŷd arall, lle y
chir ymmaith bob Lliw têg ac Eſgus, ac y bydd i'n
eiau a ninnau ymddangos i'w gilydd yn ein Hanferthwch
oeth ein hunain, heb ddim i'n cuddio; lle y caffo ein
oll Ryfyg twyllodrus ei ſiommi trwy Brofiad athriſt, ac
diſtewir yn dragywydd holl Drwſt Difyrrwch a Gor-
hwylion bydol, ymha rai yr oeddem ni yn arfer boddi Croch-
fain ein Cydwybodau; fel y byddwn ni wedi ein gadael
n ddi-amddiffynfa na Chadwraeth i ſynn Fyfyrdodau
ynddeiriog ein Meddwl ein hun, ac i orwedd yn noeth-
ymmyn dan Ergydion Cydwybod wedi llidio yn dragy-
ydd? O Dduw Daionus! pa Dafod ddichon draethu
rallod ac Ing anoddefadwy y fath Gyflwr; ymha un y
ydd ein Haflunieidd-dra ein hunain yn waſtad o flaen ein
lygaid, ac na bydd gennym ddim i'w cuddio na'u hef-
uſo, ond gorfod arnom yn waſtad gondemnio, a chasâu,
melldithio ein hunain am danynt, ac etto heb fod yn
bl i'w coſbi a'u gwellhâu hwynt, lle y bydd ein Tuedd-
dau creulon ni ein hunain yn ein gyrru ymlaen beunydd
wneuthur y fath Weithredoedd, ag a'n brawychant ac
'n dychrynant ni wedi y gwnelom hwynt, ac a oſodant
n Rheſwm a'n Cydwybod i'n toſt aſlonyddu â'u My-
rdodau dannodus, etto er gwaethaf eu holl Ddannod-
eth, ni fyddwn beunydd yn eu hail-wneuthur hwynt!
el Llofrudd gwaedwyllt, yr hwn wedi iddo lâdd Dŷn
iniweid, ſydd yn myfyrio gyd â Dychryn ar ei Weithred
hun, yn rhwygo ei Wallt, yn curo ei Ddwyfron, yn ei
lldithio ac yn ei alw ei hun yn Ddrwg-weithredwr dirâs
loedd o weithiau; ond gan gael ei dwymo trwy hyn i
wy o Lidiowgrwydd, yn lle gwellhâu, y mae efe yn myned
n fwy drygionus, ac felly yn llâdd un arall, ac yna yn
idio o'r newydd, ond beunydd po fwyaf y mae efe yn
dio, mwy y mae efe yn lâdd. A thymma raid fod ein
yflwr ni yn y Bŷd arall, os, trwy ein Heſgeuluſdra i
anlyn Duw, yr awn ni yno â Defod o Wrth'nebiad yn

ein Natur i Dduw. Heblaw y byddwn ni yn llwyr ang hymmwys i'r Gweithredoedd gwynfydedig hynny o garu Duw, ei addoli a myfyrio arno, ymha rai, fel y dangoſ aís, y mae Rhan fawr o Hyfrydwch y Nefoedd yn ſefyll. Can's gan fod pob Cariad wedi ei ſeilio mewn Cyffelyb rwydd, a Chyffelybrwydd yw Ffrwyth Canlyniad, pa fod y mae'n boſſibl i ni garu Duw, oni chanlynwn ef? ac o na byddwn yn ei garu ef, pa Hoffder allwn ni gymmery wrth fyfyrio arno a'i addoli?

Am hynny y mae'r Efengyl, er dwyn ymlaen ei Diben mawr, yr hwn yw ein gwneuthur ni yn ddedwydd, yn gorchymmyn yn gaeth i ni ganlyn yn waſtadol, cyn belled ag y maent i'w canlyn, Briodoliaethau a Gweithredoedd ein Tâd nefol; i ymroi i lunio ein Natur wrth yr eidd ef, i wellhâu Gwêdd ein Heneidiau yn ôl ei Ddelw ga riadlawn ef, i lunio ein Tymherau yn waſtadol yn ôl Patrwn rhagorol o'i Drugaredd a'i Ddaioni ef, ei Gy jawnder, ei Burdeb, a'i Ddoethineb; fel megis wedi ei newydd fwrw i Fold berffaith ei Natur ef, y caffom ei newid i Ddelwau bywiol o hono ef. Felly *Eph.* v. 1. *Byddwch gan hynny Ddilynwŷr DUW, fel Plant anwyl*; hynny yw, fel y bo i chwi fod felly yn gyffelyb iddo yng Nghynheddfau eich Meddyliau, megis y mae Plant yn gyffelyb i'w Rhieni yn Agwedd eu Cyrph. A thymma Yſtyr yr holl Orchymynion Efangylaidd hynny ag ſydd yn gofyn i ni *fod yn bûr, megis y mae DUW yn bûr*; *yn drugarog, megis y mae efe yn drugarog*; *ac yn berffaith, megis y mae ein Tâd yr hwn ſydd yn y Nefoedd yn berffaith*: hynny yw, i gymmeryd Eſampl oddi wrth Dduw yn holl Gwrs ein Bywyd, a'i ddilyn ef yn yr holl Briodoliaetha hynny ymha rai y gellir ei ddilyn ef, trwy *wiſgo y Dŷn newydd hwnnw*, *y Dŷn tebyg i DDUW*, y Dymmer a'r Gynneddf dduwiol honno, *yr hon yn ôl DUW*, hynny yw, yn ôl Patrwn ei Natur ef, *a grewyd mewn Cyfiawnder, a gwir Sancteiddrwydd*, Eph. iv. 24. Y mae hon gan hynny yn Rhan hanfodol o'n Buchedd Gris'nogol, i ofod Duw yn waſtadol o flaen ein Llygaid, fel Patrwn mawr ein Bucheddau a'n Gweithredoedd, ac ymroi beunydd i ddilyn ei ôl ef, a'ſgrifennu allan ei Raſuſau ef ar ein Natur

ni;

ni; fel pan elom ymmaith i'r Byd arall, y gallom ddwyn gyd â ni, o'r hyn lleiaf, ryw Ddarluniad egwan amherffaith o'i Ddelw ſendigedig ef ar ein Meddyliau, y fath ag allo fod, pan ſymmuder ni oddi wrth amryw Rwyſtrau Cig a Gwaed, a Difyrrwch gwaſtadol y Byd daearol hwn, ac y derbynier ni i Olwg agoſach o DDUW, yn ddigonol i bwyſo i lawr ein Gwllyſiau, a'u tueddu hwynt i'w ganlyn ef yn dragywydd. Can's os byddwn ni gan mwyaf wedi ein newid ymma, trwy ddilyn DUW, i Dymmer a Chynneddf dduwiol, yr holl Wrthwynebiad anewyllyſgar hynny iddo ef ſydd beunydd yn parhâu yn ein Natur, o achos ein Hanwybodaeth o'i Natur ef, Tymmer ein Cyrph, a'r amryw Brofedigaethau y rhai yr ydym ymma yn ddaroſtyngedig iddynt, a ddiffodder yn fuan ar ein Dyfodiad i'r Byd arall; lle, wedi ein rhyddhâu oddi wrth ein holl Gam-ddyalldwriaeth o DDUW, oddi wrth holl Wrthwynebiad ein Tymmer gorphorol iddo ef, ac oddi wrth yr holl Brofedigaethau hynny ag oeddent arferol o'n troi oddi wrtho, ni bydd un Tueddiad neu Ogwyddiad anewyllyſgar ynnom: ac yna, pan ſo Tuedd trechaf ein Gwllyſiau eiſoes i ganlyn DUW, ac i gymmeryd Eſampl oddi wrtho ef, ac heb un Gogwyddiad gwrthwyneb ynddynt i ymryſon ag ef, nyni a gluſt-ymwrandawn yn fuan ac a ganlynwn ei Briodoliaethau ef, gyd â'r Bywiogrwydd, y Rhydd-did, a'r Gorfoledd Enaid mwyaf. Ac yn awr fe fydd ein Bryd mor llwyr-gwbl i ddewis a gweithredu yn gyffelyb i DDUW, yr hwn yw Eſampl a Phatrwn ein Natur, fel y bydd i ni yn dragywydd reoli ein holl Symmudiadau yn ôl y Cyfreithiau tragywyddol hynny o Reſwm, wrth ba rai y mae efe yn dragywydd yn ewyllyſio ac yn gweithredu; ac ni bydd dim gaſach gan ein Natur, nà Gwllys neu Weithred anghyffelyb i DDUW. Can's os ydym yn awr, fel y dywaid yr Apoſtol, *trwy edrych ar Ogoniant DUW mewn Drſch, yn cael ein newid i'r unrhyw Ddelw, o Ogoniant i Ogoniant*, 2 Cor. iii. 18. yna yn ddiammau mwy o lawer y cawn ein newid felly, pan edrychom arno *wyneb yn wyneb*. Mae'n wir, megis na's gall ein Gwybodaeth o DDUW, yr hwn ſydd anfeidrol Wirionedd, byth fod yn hollawl berffaith; o herwydd pe byddai,

byddai yn Wybodaeth anfeidrol: felly ni's gall ein Tebygoliaeth iddo ef fod chwaith, yr hwn ſydd anfeidrol Daioni; o herwydd pe byddai, nyni a fyddem yn anfeidrol dda: yr hyn ſydd bob un o honynt yn Wrthddywediad i Gyflwr Creadur. Etto fel y byddwn ni yn ei adnabod ef bellach bellach, felly yn gyfattebol i hynny nyni a fyddwn yn ei ddilyn ef hefyd trwy Oeſoedd anfeidrol o Barhâd; ac fe fydd pob Gweithred o'n Dilyniad beunydd mor ddiwyd a bywiog, fel y gâd hi Argraph ymhellach o'i anfeidrol Berffeithrwydd ef ar ein Natur. Fel, er na's gall ein Natur derfynedig byth gyrraedd i Gyffelybiaeth berffaith o'r Hanfod anfeidrol gariadlawn hwnnw, o herwydd na's gall byth fod yn anfeidrol gariadlawn; etto hi fydd yn dragywydd yn nesâu nês nês atto ef, fel y bo hi yn cael fwy fwy o Amlygiad o'i anfeidrol Degwch a'i Gariadoldeb ef, ac a fydd beunydd yn cynnyddu yn ddoethach ac yn burach, yn gyfiawnach ac yn garediccach, fel y caffo ei Golwg o Ddoethineb, Purdeb, Cyfiawnder, a Daioni ei Natur ef, ei helaethu a'i ymeſtyn. Ac, megis ag y bo ei Degwch ef yn llewyrchu i mewn i ni, efe a'i hargrapha ei hun beunydd arnom ni, ac a'n cyfnewidia ni i Luniau bendigedig o hono ei hun; ac yna, yn ôl fel y bom ni yn gyffelyb i Natur Duw, nyni a fyddwn beunydd yn gyfrannog o'r Llawenydd a'r Hyfrydwch hwnnw ag ſydd yn anwahanol oddi wrthi, ac a fyddwn debyg iddo mewn Gwynfyd gymmaint ag mewn Perffeithrwydd. Can's, megis mai oddi wrth anfeidrol Berffeithrwydd Duw y mae ei anfeidrol Hunan-Foddlonrwydd ef yn tarddu, felly oddi wrth ein Perffeithrwydd terfynedig y tardda i ninnau yn dragywydd Foddlondeb a fo yn gyfattebol i'n Galluoedd terfynedig ni. Can's, er na chyrhaeddwn ni byth Berffeithrwydd hollawl, hynny yw, yr holl Raddau ag ſydd boſſibl o Ddoethineb a Daioni, yr hyn ſydd briodol i Dduw yn unig; etto nyni a fyddwn yn tyfu ymlaen tu ag atto i Dragywyddoldeb, ac ymhob Rhan o'n Tyfiant nyni a fyddwn yn berffaith y peth a ddylem ni fod; hynny yw, nyni a fyddwn byth yn gwybod gymmaint o Dduw ag ſydd boſſibl i ni, o yſtyried ein Cyflwr a'n Hamgylchiadau preſennol; a chyn belled ag y bom yn

yn ei adnabod ef, nyni a fyddwn hyd eitha'n Gallu yn waſtadol yn ei ganlyn ef, ac yn bod yn gyffelyb iddo. Ac fel hyn, yn ein Gyrfa dragywyddol i Berffeithrwydd, ein Gwllyſiau yn waſtadol a ganlynant ein Dyall, a'n Dyall yn waſtad a ganlyn Dduw â'r Bywiogrwydd eithaf; fel na bydd na'r naill na'r llall byth yn ddeffygiol o un Grâdd o Wybodaeth a Daioni ag fydd yr Amſer preſennol hwnnw yn boſſibl iddynt.

Yn awr pa Foddlondeb anhraethadwy a raid i hyn roi i'r Meddwl, wedi ei golygu ei hun oddi amgylch, i gael pob peth oddi fewn iddi yn gymmwys fel y dylai fod; pob Gallu o'r Enaid, hyd eithaf ei Nerth, yn perffaith atteb i'w Batrwn a'i Eſampl gwreiddiol; pryd na chaffo ddim ynddo ei hun, ar ôl yr Holiad mwyaf caeth, ond yr hyn a raid i'r Gydwybod fwyaf manwl ei ganmol; un Symmudiad neu Weithred na oddefo Brawf y Rheſwm llymmaf: mewn gair, pan bo iddo droi ei Olygon oddi wrth Dduw atto ei hun, ac oddi wrtho ei hun at Dduw, a chymmaru Grâs â Grâs, a Llûn â Llûn, a chanfod y fath Gyttundeb hyfryd fy rhwng ei Goppi ef ei hun a'r Eſampl dêg wreiddiol; y fath Ddilyniad pûr o Dduw ydyw ei Fywyd, ac mor gymmwys y mae ei Symmudiadau a'i Weithredoedd yn tebygu i Dduw! Pan fo ein Meddyliau gwynfydedig, meddaf, yn eu cael eu hunain yn waſtadol yn yr Agwedd a'r Cyſŵr dwyfol hwn, Oh! pa Foddlonrwydd anghyffelyb a gymmerant ynddynt eu hunain! gyd â pha Hyfrydwch gorfoleddus y byddant byth yn ail-edrych dros eu Symmudiadau eu hunain, y rhai, wedi eu coppio yn ddigyfrwng oddi wrth Natur Duw, a fyddant yn waſtadol y fath ag y bo raid i'r Rheſwm llymmaf eu canmol a'u hoffi! Fel ag y bydd y Meddwl dedwydd yn awr yn waſtad yn gorfoleddu yn ei Phurdeb ei hun, ac yn mwynhâu o'i mewn dragywyddol Nefoedd o Foddlonrwydd a Heddwch; yn awr y coronir hi yn waſtadol â Chanmoliaeth ei Rheſwm ei hun, a'i holl Weithredoedd a gânt Leferydd llawen Cydwybod lwyr foddlongar beunydd yn dadſeinio ar eu hôl hwynt. Ac fel hyn, trwy ddilyn Priodoliaethau Duw, nyni a ddilynwn ei Ddedwyddwch ef hefyd, ac a gymmerwn yn

dragywydd ar ei ôl ef, nid yn unig mewn perthynas i Uniondeb ein Natur, ond hefyd yn y Mwynhâd mwyaf gwynfydedig a chyffurus o honom ein hunain. Heblaw y bydd i'n Cyffelybrwydd ni i Dduw ein tueddu ni yn dragywydd i'w garu ef, a'n Cariad i fyfyrio arno a'i addoli. Can's y mae pob un o'r Gweithredoedd gwynfydedig hyn y naill ar ôl y llall yn gyrru ymlaen ei gilydd; yn gymmwys fel Cyrph wedi eu gosod mewn Cylch, ac yn cyffwrdd â'u gilydd, pan fymmuder y cyntaf, y mae hwnnw yn gwthio ymlaen yr ail, a'r ail y trydydd, y trydydd yr olaf, os na bydd rhagor rhyngddynt; ac yna yr olaf a wthia ymlaen y cyntaf, ac felly oddi amgylch eilwaith yn yr un Drefn. Fel os dugwn ni gyd â ni i Dragywyddoldeb Dueddrwydd Natur cyffelyb i Dduw, nyni a'i dilynwn ef beunydd yn y fath fodd, ag y bo i ni yn waftad ei garu ef; a'i garu ef yn y fath fodd, ag y bo i ni beunydd fyfyrio arno; myfyrio arno yn y fath fodd, ag y bo i ni beunydd ei addoli ef; ei addoli ef yn y fath fodd, ag y bo i ni beunydd ei ddilyn, a'i garu, a myfyrio arno o'r newydd: ac yn y Cylch gwynfydedig hwn y fymmudwn ni oddi amglych yn dragywydd, gyd â Bywiogrwydd anhraethadwy.

V. Fel yr ydym yn Greaduriaid rhefymmol mewn Perthynas â Duw, yr ydym yn rhwym i roddi i fynu ac ymoftwng ein hunain i'w Ewyllys bendigedig a'i Dreiniad ef. Can's y mae gan Dduw Lywodraeth gyfiawn ar bob peth, wedi ei feilio yn ei anfeidrol Allu ei hun, nad yw, fel Llywodraethau eraill, yn dyfod iddo trwy unrhyw Weithredoedd mawr-wych oddi allan, ond Rhagorfraint dragywyddol ei Natur ei hun ydyw. Can's y mae ganddo ef, fel y mae gan bob Bodau eraill, Rydd-did i ymarfer ei Alluoedd ei hun cyn belled ag y mae yn gyfiawn ac yn gyfreithlawn; ond, gan ei fod ef yn anfeidrol uwchlaw pob Gallu arall pa un bynnag, nid all efe fod yn ddaroftyngedig i un Awdurdod fy uwch, nac yn ganlynol fod yn rhwymedig i un Gyfraith arall ond Cyfraith ei Natur ei hun. Fel pa beth bynnag allo efe ei wneuthur, efe a all ei wneuthur yn gyfiawn, oni bydd yn wrthwyneb i anfeidrol Briodoliaethau ei Natur. Can's gan fod ei

Allu

llu yn anfeidrol, ac yn ddiderfyn, yn gyſtal a'i Ddoeth-
neb, ei Gyfiawnder, a'i Ddaioni, y maent yn rhoi Aw-
urdod digonol iddo ef i wneuthur pa beth bynnag ſydd
n cyttuno â hwynt: heb hynny ei anfeidrol Allu ef a
yddai ofer. Ac am hynny gan y dichon efe ymarfer Ar-
lwyddiaeth dros bawb, rhaid fod ganddo Hawl dragy-
yddol i wneuthur hynny, cyn belled ag y rhoddo ei
Ddoethineb ei hun, ei Ddaioni, a'i Gyfiawnder, Gennad
ddo; y rhai yw'r unig Gyfreithiau ag allant oſod Terfyn-
u iddo ef yn yr Ymarfer o'i anfeidrol Allu. Fel, tra
o efe yn ein llywodraethu ni wrth y fath Reolau a Chyf-
eithiau ag ſydd yn gweddu i'w Natur ei hun, y mae
Fawredd ei hun a'i Allu, y rhai ydynt yn ei dder-
hafu ef uwchlaw pob Cyfraith neu Awdurdod arall, yn
awdurdodi ef yn ddigonol i wneuthur felly. A chwedi
anfeidrol Ragoriaeth ei Allu a'i Fawredd ei hun yn llyn
oſod ef ar Orſeddfaingc gyfiawn, y mae pob peth arall,
yn belled ag y gallo hynny, dan Rwym anghyfnewidiol
ymoſtwng a rhoi eu hunain i fynu i'w Lywodraeth ef.
Ond heblaw ein bod dan Rwymau iddo fel y mae efe
n Duw, yr ydym hefyd yn rhwym iddo fel y mae efe
n Greawdwr i ni. Can's y mae Gallu yn waſtadol yn
ael ei ennill trwy Fendithion, lle nad oes un o'r blaen;
n enwedig, lle nad yw'r Fendith a yſtofir ddim llai nâ'n
ywyd: yr hyn yw'r Câs rhyngom ni a Duw. Ac y
ae hon yn Fendith ag ſydd ddigonol i roi iddo ef Hawl
nnom ni, trwy Briodoledd hollawl na's gellir mo'i
wrthod, er pe na buaſai ganddo un Hawl o'r blaen i
glwyddiaethu droſom trwy Rinwedd ei Fawredd anfei-
rol ef ei hun. Fel er ſod ganddo Allu rhŷdd, cyn ein
ëu ni na dim arall, i wneuthur un peth ag oedd gyf-
wn a chyfreithlawn, a'i Natur ei hun, ac nid un Gyf-
ith arall, oedd i ſefydlu pa beth oedd gyfiawn a chyf-
ithlawn; ac er, wedi y Creadigaeth, nad yw ei Allu
dim ychwaneg (fel na chyrhaeddodd efe un Gallu newydd
wy ein crëu ni, ond yn unig iddo wneuthur Deiliaid
wydd, i ymarfer ei hên Allu, a'r Arglwyddiaeth ag
dd yn dragywyddol ynddo ef, arnynt) etto yn ddiam-
au, trwy roddi i ni ein Bywyd, efe a oſododd Rwyme-

digaethau newydd arnom ni i ufuddhâu iddo. Can's yn awr, a ni yn dyfod oddi wrtho ef, yr ydym yn rhwym, trwy bob Cwlwm o Uniondeb a Chyfiawnder, i roddi ein hunain yn ôl iddo ef, ac i ymoſtwng y Galluoedd hynny i'w Arglwyddiaeth ef, y rhai ydynt Ffrwythau a Hiliogaeth ei Haelioni. Can's beth all fod uniawnach a chymhwyſach, nâ bod i'r Ewyllys honno yr hon yw Achos ein Bywyd, fod yn Gyfraith ac yn Rheol i'n Gweithredoedd, nac i ni ei was'naethu ef â'r Galluoedd hynny a gawſom ni oddi wrtho, a thalu yn ôl iddo Ffrwythau ei Blanniad ei hun? Can's yn awr nid ein heiddo ein hunain ydym, ond eiddo Duw, a chanddo ef yn unig y mae'r Awdurdod i'n trefnu ni; a pha bryd bynnag y trefnom ni ein hunain yn wrthwyneb i'w Ewyllys ef, yr ydym nid yn unig yn treiſio ei eiddo, ond yn goſod yr Anrhaith o hono ar waith yn erbyn ef. A thra y parhâom i wneuthur yn llyn, y mae'n ammhoſſibl i ni fod byth yn ddedwydd. Can's heblaw ein bod, tra'r ydym yn parhâu mewn Gwrthryfelgarwch yn ei erbyn ef, mewn Cydgyfrinach ag Uffern; can's felly pan ddywedir fod Gwrthryfel fel Pechod Dewiniaeth, hynny yw, Gwrthryfel yn erbyn Duw, yr Yſtyr yw, ein bod, fel Dewiniaid, mewn Cyngrair â'r Diawl, a'n bod wedi rhoi ein Henwau i mewn fel Milwyr gwllyſgar i ymladd dan yr Yſbrydion uffernol hynny, y rhai, am udganu'r Udgorn o Wrthryfel yn y Nefoedd, a erlidiwyd oddi yno er's chwech mil o Flynyddoedd, ac a fuont byth oddi ar hynny yn cyfodi Gwŷr yn erbyn Duw yn y Bŷd iſaf hwn; fel ag yr ydym, tra parhaom gyd â hwy, mewn Gwrthwynebiad i Dduw, yn Rheſtr Byddinoedd y Cythraul, yr hwn ydyw Blaenor a Phennaeth yr holl Lengau o Yſbrydion drwg gwrthgiliedig; ac felly yr ydym o'r Blaid ag ſydd gwbl wrthwyneb i Bobl ffyddlon y Nefoedd; ac yn ganlynol, tra y parhâom felly, ni's gallwn byth obeithio cael ein derbyn i'w Cymdeithas a'u Dedwyddwch hwynt: heblaw hyn i gŷd, meddaf, y mae Gwrthryfel yn erbyn Duw yn naturiol yn tynnu Uffern o Drueni ar ei ôl. Can's ni ellir bwrw y byddai Penllywydd doeth y Bŷd mor ddiofal am ei Awdurdod ei hun, a goddef i'w Greaduriaid anufuddhâu

hâu iddo, a'i ddigio, heb byth amlygu ei Anfoddlon-
rwydd yn eu herbyn hwynt mewn rhyw Effeithiau erchyll
a theimladwy. Ac am hynny, er ei fod ef yn y Bywyd
hwn, yr hwn yw Amſer ein Profiad, yn drugarog yn
cyd-ddwyn â ni *i'n tywys i Edifeirwch*; etto, os ymadâwn
â'r Bywyd hwn â'n Gwllyſiau heb eu daroſtwng, a'u rhoi
i fynu iddo ef, nid oes i ni ddiſgwyl cael y fath Driniaeth
ſmwyth yn y Bŷd arall. Can's y mae mor hawſed iddo
ef, yr hwn yw Tâd ein Hyſbrydoedd, i goſbi ein Hyſbryd-
oedd, ag yw i Rieni ein Cnawd goſbi ein Cnawd. Ac
er na all Ergydion defnyddiol wneuthur mwy o Argraph
ar ein Heneidiau, nag allo Ergydion Morthwyl wneuthur
ar Bŷſt yr Haul; etto gall Meddyliau echrydus a che-
hinllyd gael eu hargraphu arnynt; a hwythau gael eu blino
gymmaint ganddynt, ag y blinir Cyrph teimladwy gan y
Poenau llymmaf. Fel os bydd Duw wedi digio wrthym,
nid oes dim ammau, na's gall efe argraphu ei Ddigoſaint
ar ein Heneidiau mewn Meddyliau hyll ac erchyll, a pheri
ddo ddiferu yn waſtadol fel Brwmſtan lloſgedig arnynt.
A chan fod ei Allu ef yn llyn i bwyo ein Hyſbrydoedd,
iammau, pan y bo efe unwaith wedi ffyrnigo yn ein
herbyn (fel y bydd efe yn y Bŷd arall, os yn Wrthryfelwyr
yr awn ni yno) efe a ollwng ei Allu yn rhŷdd ar ein traws
yn fwy neu'n llai, ac a wnâ i ni deimlo ei Lidiowgrwydd,
rwy fwrw Dychrynfeydd goruwch-naturiol i mewn i'n
Heneidiau, a fflangellu ein Hyſbrydoedd euog a diamddi-
fyn ag Yſbrydoliaethau o Feddyliau echrydus ac ofnadwy.
Yn awr, er na bo hon yn Effaith naturiol ag ſydd raid
ddi darddu oddi wrth ein Gwrthryfel yn erbyn Duw, o
herwydd ei bod yn gorphwys ar ei Ewyllys ef, yr hwn
ydd Weithiwr rhŷdd; etto os yſtyriwn ei fod ef yn
weithio yn ddoeth, ac fel y cyfryw, fod yn angenrhaid
ddo ryw ffordd neu gilydd amlygu ei Anfoddlonrwydd
n erbyn y cyfryw ag ſydd yn gwrthryfela yn erbyn ei
Awdurdod yn ddi-wellhâd, y mae hi y peth neſaf at Effaith
aturiol; ac, o'r hyn lleiaf, y mae'r Diſgwyliad ofnadwy
honi yn y fath Yſbrydion gwrthryfelgar (yr hyn yw'r
rueni neſaf at ei dioddef) yn angenrheidiol ac yn ano-
helgar. Can's y mae Duw wedi argraphu Braw o'i

Allu

Allu a'i Fawredd mor ddwfn ar ein Natur, na 's gallwn, er cymmaint o Ffyrdd ſy gennym i'n twyllo ein hunain, ei gwbl ddilëu a'i groeſi allan; ac er yn y Bywyd hwn y gallwn weithiau anghofio ac attal ein Teimlad o Dduw; etto, hyd yn oed ymma, ſe ddychwel yn awr ac eilwaith ar ein traws. Ac os bydd i ni, wedi gwneuthur y peth a wyddom fod yn digio y Mawredd anweledig hwnnw ag ydym yn frawychu, ond gadael i ni ein hunain ei yſtyried ef yn bryſur, y mae Haid o Feddyliau echrydus a Diſgwyliadau erchyll yn cyfodi yn fuan yn ein Meddyliau; ac os yn y Cyflwr preſennol, ymha un y mae gennym gynnifer Meddyginiaeth i'n Hyſbrydoedd archolledig, cynnifer o Bleſerau a Hunan-dwyll i ſwyno ein Harſwyd naturiol o Dduw, y mae ein Cydwybodau trwm-lwythog er hynny mor fynych yn troi yn ôl arnom, ac yn ein dychrynu â'r fath Ddrwgdybiau echrydus; pa beth a wnânt yn ôl llaw, pan fo'r holl Bleſerau hynny wedi eu fymmud ymmaith, a'r holl Hunan-dwyll, â pha un yr oeddent yn arfer eu gwenhieithio a'u difyrru hwynt, wedi ei ſiomm? Yna yn ddiammau y cawn ein brathu yn waſtadol â Myfyrdodau llym ac erchyll, ac y bydd ein Cydwybodau i gŷd yn llawn Dychryn; yna y bydd i'r Arſwyd o Dduw yn waſtadol ein herlid ni fel Cythraul hyll, a Braw o'i Fawredd ef, yr hwn a ddarfu i ni ei ddigio, ein taro ni i Ing a Chryndod tragywyddol. Can's felly y mae S. *Jago* yn dywedyd wrthym, fod *y Diafliaid eu hunain yn credu, ac yn crynu*, Jago ii. 19. Y maent yn credu fod Hanfod Hollalluog uwch eu llaw hwynt, ac yn gwybod eu bod mewn Gwrthryfel yn ei erbyn; yr hyn ſydd yn peri iddynt arſwydo ei Lidiowgrwydd yn ddirfawr: ac etto y fath yw Caſineb eu Natur ddieflig, na fynnant mewn un modd ymoſtwng; ond, er gwaethaf eu Dychryn a'u Harſwyd eu hunain, ydynt yn parhâu yn waſtadol mewn Gwrthwynebiad amlwg i'w Hollalluog Elyn; ac felly yn crynu ac yn pechu, ac yn pechu ac yn crynu yn dragywydd. Ac felly y byddwn ninnau, os awn ni i'r Bŷd arall wedi arfer gwrthyfela yn erbyn Duw; ein hên Falais dwfn yn ei erbyn a fydd beunydd yn ein cymmell yn y blaen i'w ddigio a'i gyffroi ef; ac yna ein Harſwyd

naturiol

naturiol o'i Allu a'i Fawredd a dyrr yn Feddyliau ofnadwy ac echrydus, y rhai a fyddant yn waſtadol yn dial arnom am ein gwaith yn ei gyffroi ef i Ddigofaint yn waſtadol. Can's y pryd hwnnw fe fydd ein Henaid yn noeth agored i Wialennodiau ei Meddyliau llidiog ei hun, ac heb un Darian i'w hamddiffyn ei hun yn erbyn Dychryn ei Chydwybod euog; yr hon, pan y caffo ei deffroi a'i chadw yn effro trwy Deimlad dibaid o'n Trueni, a fydd yn waſtad yn gwaeddi yn ein herbyn, ac yn ein poenydio yn ddibaid â fyn Fyfyrdodau duon erchyll. Fel tra bom ni yn crwydro ymhlith Yſbrydion truenus, trwy y Cyſgodau erchyll oddi iſod, nyni a fyddwn yn waſtadol yn myfyrio Dychrynfêydd, ac yn ein poeni ein hunain fyth â'n Meddyliau llym echrydus, nes gwnelom ein hunain yn Ellyllon, ac y berwom i fynu ein Llidiowgrwydd, yr hwn fydd yn ei gondemnio ei hun, i Wall-bwyll tragywyddol. Yn llyn, megis y bydd i'n Teimlad o'n Hanghyffelybwydd i Dduw ein llanw byth â Chywilydd a Gwradwydd, felly y bydd i Deimlad o'n Gwrthryfel yn ei erbyn ef yn waſtadol ein taro ni mewn Ofn a Syndod.

I ragflaenu hyn, y mae ein Crefydd ſanctaidd, yr hon y mor garcus am ein Dedwyddwch, yn gorchymmyn i ni n awr *ymddaroſtwng ein hunain i DDUW*, Jago iv. 7. *i yw i DDUW*, Gal. ii. 19. *i roddi ein hunain yn Aberth yw, ſanctaidd, a chymmeradwy gan DDUW*, Rhuf. xii. 1. *roddi ein hunain i DDUW; a'n Haelodau yn Arfau Cyfawnder i DDUW*, Rhuf. vi. 13. Yſtyr hyn i gyd ydyw, dylem ymroi i weithio y fath Deimlad ar ein Meddyliau Awdurdod Duw droſom, a'r amryw Reſymmau p'am dylem ufuddhâu iddo ef, fel y bo i ni fwriadu yn wrol c yn waſtadol ynnom ein hunain, na ddewiſom un peth g y mae efe yn wahardd, ac na wrthodom un peth y mae fe yn orchymmyn, y dylem oſod i fynu Orfeddfaingc ddo ef yn ein Calonnau, Bwriad ſefydlog a thycciannol o fudd-dod, fel y bo iddo eiſtedd a llywodraethu ynq, a haeł rheoli yn hollawl a gorchymmyn ein holl Symmuddau oddi fewn, a'n Gweithredoedd oddi allan; mewn air, y dylem arferu fod â'r fath Fri a Pharch gennym w Benllywodraeth, ag na's gallo un Brofedigaeth oddi

fewn

fewn nac oddi allan i ni eu gwrthſefyll, neu'n hudo ni oddi wrth ein Dyledſwydd i un Ffordd ewyllyſgar o Wrthryſel yn ei erbyn ef. A chwedi i ni unwaith ddyfod â'n Meddyliau i'r Dymmer hon o Ufudd-dod, yr ydym mewn Parotôad blaenllaw tu a'r Nefoedd. Ac er y gallwn, o achos y Gweddill o Lygredigaeth ag ſydd ynnom, yr hwn y mae yr amryw Brofedigaethau ymhlith pa rai yr ydym yn byw ymma yn waſtadol yn gyffroi, gyfarfod ag Egwyddorion oddi fewn i ni ag a font yn gwrth'nebu eu gilydd; Chwant yſtyfnig yn ymryſon yn erbyn Ewyllys ufudd, ac weithiau yn ddiſymmwth, neu o eiſiau Yſtyriaeth, yn ei gortrechu hi; etto os galarwn ni o'n Calonnau am hyn fel ein Hanedwyddwch, ac os pan ſyrthiom yn llyn, y bydd i ni wylo a chyfodi drachefn, a chymmeryd mwy o Ofal am ein Cerddediad yn ôl llaw, nyni a ddugwn gyd â ni, pan elom oddi ymma i'r Byd arall, Ewyllys i Dduw; ac felly, pan fom yno wedi ein ſymmud oddi wrth yr holl Brofedigaethau ag oeddent arferol o gyffroi ynnom y Chwantau a'r Tueddiadau gwrthwyneb hynny, nyni a ddeuwn yn fuan i gŷd yn Ddyledſwydd ac yn Ufudd-dod, ac a roddwn ein hunain yn rhwydd i fynu i Dduw, heb y Cyſgod lleiaf o Ymryſon neu Wrthwynebiad. Ac yn y Cyflwr bendigedig hwn y parhâwn ni yn dragywydd, wedi rhoddi ein hunain mor llwyr-gwbl i Dduw, fel na bydd rhyngddo ef a ninnau byth ond yr un Ewyllys gyffredin, yr un Diben, a'r un Llês; ac felly fydd ein Calonnau, y rhai oeddent o'r blaen mewn meſur mawr wedi eu goſod i gyduno â Chalon Duw, yn y ſanctaidd Gynghanedd perffaith ag ef, fel pa bryd bynnag, neu pa beth bynnag, a lefaro efe, nyni a fyddwn beunydd yn ddadſeinio ac yn llefaru yr un peth o Eigion ein Calonnau gyd â Gorfoledd a Llawenydd anhraethadwy.

A chwedi ein dwyn yn llyn i ymoſtwng yn berffaith i Ewyllys Duw, nyni a gawn weled ein hunain yn happus dros ben meſur yn hynny. Can's o herwydd fod ein Hewyllyſiau yn awr yn cael eu trefnu yn waſtadol gan Ewyllys Duw, ni gawn ein llwyr eſmwythâu o'r holl Flinder a'r Amheuaeth wrth ddewis. Ni chloffwn ni mwyach rhwng dau Feddwl, ac ni ymrannwn ni rhwng Rheſym

mau a ſo wrthwyneb i'w gilydd, ond ein holl Feddyliau
redant ymlaen yn dawel ac yn llonydd ar hŷd yr un
Ffordd, heb gael byth eu taflu ymma a thraw gan groes
Yſtyriaethau gwrthwynebol. Can's yn awr cyn gynted
g y bom yn gwybod Ewyllys Duw, yr ydym yn gor-
hwys ynddi yn fuan gyd â rhwydd Gydſyniad, a Holider
ollawl; fel pan ddelo Achoſion newydd, ni bydd raid i
i flino ein hunain i wneuthur Dewiſiad a Bwriadau ne-
wydd, gan ein bod eiſoes wedi ein ſefydlu yn ſicr dan bob
Damweiniau, i ſymmud yn gymmwys yr un Ffordd, a
hwedi bwriadu yn ddiyſgog, beth bynnag a ddigwyddo,
wneuthur yn waſtadol y Peth a fynnai Duw i ni wneu-
hur. A phan fo ein Hewyllys yn llyn yn perffaith or-
hwys yn Nuw fel ei Lle a'i Helfen gymmwys, ni bydd
ddi ymddadleu mwyach fel yr oedd hi arferol o wneu-
hur, na chael ei thynnu ymma a thraw, ond fe fydd
ddi ufuddhâu yn waſtad ar y Cyffrôad cyntaf, a chanlyn
Duw yn dragywydd heb ddim Attalfa. Yn y Cyflwr
edwydd hwnnw ni chawn ni gwed'yn ein malu rhwng y
dau Faen-melin hynny ag ſydd yn ſymmud yn wrthwy-
eb i'w gilydd, *y Ddeddf yn ein Meddyliau*, a'r *Ddeddf*
n ein Haelodau; ond wedi ein rhoi ein hunain i fynu yn
wyr-gwbl i Dduw, fe fydd i ni byth ufuddhâu iddo
yn ewyllyſgar, yn naturiol, ac â llawn Dueddrwydd. A
na Eſmwythder mawr a raid i hyn fod i'r Enaid, yn
nwedig os yſtyriwn y bydd iddi, trwy fod yn llyn yn
wbl ddaroſtyngedig i Dduw, nid yn unig gael ei rhydd-
âu oddi wrth y Blinder o ddewis a phwyllo, ond hefyd
el llawn Sicrwydd o Ddaioni ac Uniawndeb ei Dewiſi-
d! Can's cyn belled ag yr ydym yn ymoſtwng i Dduw,
n Hewyllys ni yw ei Ewyllys ef, ac felly y mae ein
weithredoedd hefyd; a thra y maent felly, ni all fod
ennym un Rheſwm i ddrwgdybio, naill ai eu bod hwy
feius ynddynt eu hunain, neu ei fod ef yn ddig ac yn
foddlon iddynt. Can's nyni a wyddom fod ei Ewyllys
yn cael ei llywodraethu gan ei Natur, yr hon yw'r
eſur o Dda neu Ddrwg, y Gyfraith o Gam neu Gym-
wys; fel tra fom ni yn ewyllyſio ac yn gweithredu fel
mynnai efe i ni, y mae gennym Awdurdod digonol am

yr

yr hyn ydym yn wneuthur; Awdurdod a'n dwg di allan dros byth, ac a'n cyſiawnhâ ni yn ein Meddyliau ein hunain, ac a'n gwnâ ni yn waſtad yn llawn foddlon i'n ein hunain; fel y bydd i ni nid yn unig yn waſtad ryddhâu, ond yn waſtad ein perchu ein hunain, a'n Cydwybod nid yn unig a baid â'n cywilyddio, ond a fydd yn waſtadol yn ein canmol ac yn gwênu arnom; ac yn lle y Trwſt a'r Taerder â pha rai yr oedd hi yn arferol o'n groeſaw ni, ei Lleferydd beunyddiol am ein holl Weithredoedd a fydd, *Da, Wâs da a ffyddlon.* Ac felly wedi ein rhoi ein hunain yn llwyr i fynu i Ewyllys Duw, yr hon nid yw byth yn gwahanu oddi wrth Ddeddf ei Natur ef, nyni a fyddwn yn berffaith foddlon i ni ein hunain, ac a ddewiſwn ac a weithredwn yn dragywydd heb yr Anhyder neu'r Amheuaeth lleiaf. Ac yna pan fo ein Hewyllyſiau yn berffaith ddaroſtyngedig i'w Ewyllys ef, a'n holl Allu i weithredu yn gwbl wrth ei Orchymmyn ef, ni bydd i ni byth gael y Sail leiaf i ofni neu i ddrwgdybio ei fod ef yn anfoddlon, ond cael llawn Foddlondeb yn waſtadol, ei fod ef yn ein caru ni, ein bod yn anwyl ac yn werthfawr yn ei Olwg, ac y bydd iddo i Dragywyddoldeb ein mawrhâu, ac edrych arnom â Gwên o Hoffder anghyſ newidiol. Y Teimlad o hyn a orfoledda ein Calonnau, ac a'n lleinw yn dragywydd â *Llawenydd anhraethadwy a llawn Gogoniant.* Lle y mae Eneidiau gwrthryfelgar yn waſtadol yn cael eu herlid gan ddau o Ellyllon diorphwys, ſef, Cywilydd eu Heuogrwydd, ac Ofn eu Perygl; y rhai hyd yn ced yn y Bŷd hwn ſydd yn rhoddi iddynt ſwy o Aflonyddwch nag a allo eu holl Bechodau roddi iddynt o Bleſer a Hyfrydwch: pan y bom unwaith yn berffaith ddaroſtyngedig i Dduw, nyni a gawn ein rhyddhâu yn dragywydd oddi wrthynt ill dau, ac yna y bydd ein Meddyliau happus yn waſtadol mor galonnog a'r Gwirioneedd, ac mor hyderus a Diniweidrwydd ei hun.

Ac megis y cawn, trwy ein perffaith Ymoſtyngiad i Dduw, ein cwbl ryddhâu oddi wrth y Blinder o ddewis, a'n hawdurdodi yn ddigonol yn ein Dewiſiad ein hunain, felly y cawn lawn Foddlonrwydd o Ddoethineb a Llwyddiant ein Dewiſiad. Can's yno ni gawn Sicrwydd, ie trwy

Broſiad

Brofiad melus a dedwydd, am ba beth bynnag a orchymyno Duw i ni wneuthur, ei fod ef yn dra ſicr yn gwybod ei fod ef er ein Daioni ni, ac mai dyna'r Rheſwm p'am y mae efe yn ei orchymmyn. Fel pan fom wedi cwbl ddaroſtwng ein hunain i Dduw, ſe fydd i Ddoethineb ddiſiommedig gyfarwyddo ein holl Ddewiſiadau a'n Gweithredoedd er ein Daioni ein hunain. Can's tra fom yn dewis y Peth a fynnai Duw i ni, ein Hewyllyſiau a gyfarwyddir gan Ddoethineb Duw; ac felly, ym mhob Gweithred briodol o Ufudd-dod, yr ydym mor ddiſiommedig ag yw Holl-Wybodaeth ei hun. Pan fom gan hynny wedi ein rhoi ein hunain yn gwbl i fynu i Dduw, ſe fydd i ni yn waſtad ewyllyſio a gweithredu gyd â chymmaint o Hyder a Sicrwydd o Lwyddiant happus a ffynnadwy, a phe baem ni ein hunain yn anfeidrol ddoeth, a chennym Ddealldwriaeth perffaith o bob peth ag allai ddigwydd. A thra y mae Gwrthryfelwyr truain yn ymbalfalu o bobtu dan Gyfarwyddydd eu Gwllyſiau deillion eu hunain, a chan mwyaf yn gwneuthur na's gwyddant beth, ac yn myned na's gwyddant i ba le eu hunain, ond yn dyw trwy Ddamwain, ac yn gweithredu heb Yſtyriaeth; gan fod ein Gwllyſiau a'n Gweithredoedd ni yn cael eu cwbl oſod ar droed gan Ewyllys gwbl-ddoeth, ag ſydd yn waſtadol yn eu meſur hwynt wrth y Rheolau goreu, ac yn eu cyfarwyddo hwynt i'r Dibenion goreu, nyni a fyddwn yn waſtad yn ſicr o'n Dwylo, ac yn gwybod ymlaen-llaw yn ddios y bydd i bob peth ag ydym yn ewyllyſio neu yn wneuthur gydweithio er ein Daioni. A hyn a'n cynnorthwya ni i gyflawni Gyrfa dragywyddol ein Hufudd-dod gyd â Rhydd-did a Gorfoledd anhraethadwy, ac a'n gwnâ ni yn waſtad yn yſgafn rhyfedd, ac yn wiſgi, ac i wneuthur ein Gweithredoedd ar ffrwſt. Can's pan nad yw Dynion yn gwybod beth allo ddigwydd ar y fath Weithred, ac na's gallant chwilio allan yr holl Ddamweiniau dirgel hynny ag ſydd yn llechu yng Nghrôth eu Hamcanion eu hunain, y maent yn waſtad yn gweithredu gyd â Gocheliad ac Amheuaeth, ac y maent mewn cyfyng Gyngor ac Arſwyd yn eu Symmudiadau: ond pan fom unwaith yn ſicr o Ddamwain da, yr ydym beunydd yn myned

ned ymlaen yn wrol ac yn llawen; ac felly y gwnawn dros fyth, pan fom byth yn perffaith ewyllyſio a gweithredu dan Lywodraeth Duw. Can's yn awr nyni a gawn beunydd weled Dibenion da o'n blaen, ac a gawn Sicrwydd cadarn oddi wrth y Doethineb anffaeledig hwnnw yr hwn ſydd yn llywodraethu ei Ewyllys ef, a thrwy ei Ewyllys ef ein Gwllyſiau ninnau, y bydd i bob peth a ewyllyſiom neu a wnelom gael ei goroni ag Effaith dedwydd. A hyn a eſyd ein Heneidiau yn dragywydd ar Adenydd cyflym a bywiog, a diddeffygio, ac a wnâ bob Gweithred o'n Hufudd-dod yn felus anhraethadwy ac yn hyfryd i ni. Ac yn awr, O Enaid bendigedig! pa Dafod neu Feddwl all gyrraedd dy Ddedwyddwch di, yr hon, a thydi yn byw mewn Ymoſtyngaid tra pherffaith i Ewyllys gwbl-ddaionus a chwbl-ddoeth, nad wyt byth yn y meſur lleiaf mewn dim Gofal na Blinder i holi ac i yſtyried pa beth ſydd i ti ddewis, ond ydwyt yn dragywydd yn cofleidio ac yn canlyn y Peth a ddarfu i Ddaioni anfeidrol a Doethineb anfeidrol ddewis droſot!

VI. Fel yr ydym yn Greaduriaid rheſymmol mewn Perthynas â Duw, yr ydym hefyd yn rhwym yn llawen i ymddiried ynddo, ac i orphwys arno. Can's megis mai efe yw Atteg a Chanol-bwynt yr holl Greadigaeth yr hon ſydd barod i gael ei malurio, y Gynhalfa dragywyddol ag ſydd yn ei dal ar ei Yſgwyddau, ac yn ei chadw rhag ſuddo i Ddinyſtr, yr ydym ni a phob Creadur yn y Nef a'r Ddaear yn gorphwys arno, ac yn tynnu ein Hanadl oddi wrtho; ac os ſigla efe nyni ymmaith ond dros Funyd, yr ydym yn fuan yn cwympo i ddiddim, ac yn darfod. Can's pe gallem ni fod o honom ein hunain dros y Funyd breſennol, nyni a allaſem wneuthur felly cyſtal y Funyd ar ôl hynny, ac felly yn ôl ac ymlaen i bob Tragywyddoldeb; ac oni buaſai fod gennym y fath Lewndid o Hanfod ynnom, a bôd o honom ein hunain o bob Tragywyddoldeb a fu i bob Tragywyddoldeb ſydd i ddyfod, y mae'n amhoſſibl i ni allu bod gymmaint ag un Funyd heb Gynhaliad a Chynnorthwy newydd oddi wrth anfeidrol Ffynnon Hanfod, yr hwn ſydd o hono ei hun. A pheth all fod gymhwyſach, neu gyd â mwy o Reſwm, nag i nyni,

y rhai

rhai a gynhalier yn llyn ganddo ef, yn rhwydd ymddi-ried ynddo, a gorphwys arno; nag i nyni adeiladu ein Gobaith ar Gynhaliwr ein Bywyd, a hyderu arno ef, *yn r bwn yr ydym yn byw, yn ſymmud, ac yn bôd?* Yn enw-dig, wrth yſtyried pa fath Wrthddrych cymmwys o Hyder ac Ymddiried yw efe; a hynny nid yn unig fel mai efe yw y Trefnwr pennaf o'r holl Ddamweinjau a'r Di-gwyddiadau ag allo berthyn i ni, ond hefyd fel y mae efe yn anfeidrol ddoeth, ac yn waſtadol yn dyall beth ſy dda eu yn niweidiol i ni; ac fel y mae efe wedi ei rwymo ei hun trwy ei Ddaioni hanfodol ei hun, a'i Addewid rŷdd, a bydd efe byth yn ôl i'r rhai 'ny ag ſydd yn ymddiried nddo, ond y trîn efe eu holl Fatterion hwynt er eu Lles 'u Mantais dragywyddol. Ac ym mhwy y gallwn ni gyd â mwy o Reſwm hyderu, nag mewn Un ag ſydd ganddo anfeidrol Ddoethineb, Daioni, a Gallu; yr hwn ydd yn waſtad yn gwybod pa beth ſy orau i ni, yr hwn ydd yn waſtad yn ewyllyſio yr hyn y mae efe yn wybod od felly, ac yn waſtad yn gwneuthur yr hyn y mae efe n ewyllyſio? O yſtyried hyn i gŷd, y mae'n ſicr yn awer mwy er ein Lles a'n Mantais, i'n Gofalon orwedd n ei Ddwylo ef, a chael eu trîn fel y gwelo efe fod yn reu, nag i bob peth ddigwydd i ni yn ôl ein Hewyllys 'n Dymuniad ein hunain. Can's y mae Rhifedi aneirif Bethau yn Nhreſn naturiol Achoſion yn cyd-gerdded ac n canlyn pob Damwain, y Rhan fwyaf o ba rai ni's wyddom ni ddim oddi wrthynt; o herwydd pa ham y mae'n amhoſſibl i ni wneuthur Barn ddiſiommedig ar Dda eu Ddrwg unrhyw Ddamwain a ddigwyddo i ni i'o he-wydd, er y gallwn fod yn ſicr y gall y fath Ddamwain, rthi ei hun, ac heb un arall gyd â hi, fod yn dda neu yn drwg i ni; etto, er dim a wyddom ni, fe all fod y fath ethau yn cyd-gerdded â hi, neu yn ei chanlyn, ac yn wahanol oddi wrthi, y rhai allo lwyr newid ei Natur, gwneuthur y Peth hwnnw yn ddrwg, yr hwn o'i yſtyr-d wrtho ei hun allai fod yn dda i ni, neu'r Peth hwnnw dda, yr hwy o'i yſtyried wrtho ei hun allai fod yn ddrwg. ydym yn taer ddymuno i'r cyfryw beth ddigwydd, ac yn derus jawn y byddai er mawr Lês i ni: ond och! pe di-wyddai hynny i ni, yn ôl Treſn Pethau rhaid i Filoedd o rai

eraill ddigwydd; a pha fodd y prifia y rhai'ny ni's gallwn n
rag ddywedyd; ond, er dim a wyddom ni, fe all Drwg
y rhai'ny fod yn fwy o lawer nag a dalo Llês hwn. A
chan fod y Peth yn llyn, pa mor llwyr anghymmwys yd
ym ni i ddewis drofom ein hunain, gan ein bod ymron
mor anficr am y Rhan fwyaf o Bethau a ddewifem, p'un
ai Ymborth neu Wenwyn a fyddant i ni? Ond yn awr,
gan fod Duw yn Ben Trefnwr pob peth, a chanddo y
Cwlwm cyntaf o bob Cadwyn o Achofion yn ei Ddwylaw
ei hun, rhaid fod ganddo Ddyalldwriaeth cyfangwbl o'r
holl rai canol, o'r Dechreu i'r Diwedd; a chan mai e
Allu ef yw'r Achos nid yn unig o bob Damweiniau a
fydd, ond hefyd o Bofſibl rwydd y rhai'ny na fydd byth,
rhaid iddo ef ganfod y Dibenion eithaf a'r Pethau fydd
yn cyd-gerdded â phob Damwain ag fydd boſſibl, yn gy-
ſtal a phob un a ddelo, a dyall yn berffaith nid yn unig
beth a fydd yn lleſiol neu yn niweidiol i ni, ond hefyd beth
allai fod felly. Fel y mae'n amhoſſibl iddo ef gamgym-
meryd yn ei Ddewiſiad, o herwydd ei fod ef yn gwybod
cyſtal ymlaen llaw pa Bethau a fyddai i ni be baent,
pheth ydynt pan y maent yn bôd. Ar y cwbl yntau,
mae yn ddiammau er Llês amhriſiadwy i ni, i fod yn
Nwylaw Duw; ac yn wir ni wn i am ddim, yn hefaf a
Uffern ei hun, ag fydd fwy ofnadwy, nag i Dduw ein
gadael ni yn llonydd, a'n rhoi ni i fynu i'n Gwllyſiau
a'n Dymuniadau ein hunain. A phe bae efe yn galw ar
nom o'r Nefoedd, ac yn dywedyd wrthym, ei fod ef yn
bwriadu na chroeſa efe mo'n Hewyllyſiau mwyach, ond
y cyttuna efe â'n holl Ddymuniadau, digwyddent yn ddi
neu yn ddrwg i ni, fe fyddai gennym Achos cyſnawn i
edrych arnom ein hunain fel y Creaduriaid mwyaf truenu
a gwrthodedig ag fydd y tu ymma i Uffern, fel rhai wed
eu cau allan oddi wrth y Fendith fwyaf ag fydd yn per
thyn i Greadur; a phe bae gennym un Gobaith yr a
dderbyniai efe nyni, ein Llês anfeidrol ni a fyddai, rhoi ei
hunain yn ôl, a'n holl Ofalon iddo ef, ac ar ein Gliniau
ymbil arno, uwchlaw pob peth, na adawo efe mo hono
i ni ein hunain, na'n bwrw oddi tan ei Ofal a'i Gyſ
rwyddyd. Gan ei fod yntau ar bob Cyfrif mor hollaw
gymmwy

ymmwys a rheſymmol, a chymmaint er ein Llês a'n
lantais, i ni yn rhwydd ymddiried ein hunain a'n holl
choſion yn Nwylaw Duw, a hyderu arno ef am
wyddiant da ein holl Egni a'n Gorchwylion oneſt; i
orphwys ar ei Dreſniad ef, a than bob Digwyddiadau
ddi allan, foddloni i'w Reolaeth ef, gan wybod nad pa
dd bynnag y gallo Pethau ddigwydd i ni, ni allant fod
n amgen nag fel y gwelo y Duw doeth a daionus fod yn
da naill ai eu cenhadu, neu eu trefnu a'u goſod hwynt;
an fod hyn, meddaf, mor gymmwys ynddo ei hun, a,
ymmaint er ein Llês, y mae'n amhoſſibl heb hyn i ni,
d yn ddedwydd ymma neu ar ôl hyn. O herwydd gan
d ein Bywyd a'n Hawddfyd yn cwbl orphwys ar Ewy-
ys Duw, ac na's gallwn ni na bôd, na bod yn happus,
n Funyd yn hwy nag y gwelo efe fod yn dda; pa fodd
mae'n boſſibl i ni byth fod yn llonydd, ac yn foddlon
n ein Meddyliau, heb Sicrwydd mawr a Hyder ynddo
? Pan yr yſtyriom pa Gyngwyſtl mawr ſy gennym
n ei Ddwylaw ef, y modd y mae'r cwbl ag a feddom yn
rwedd wrth ei Draed, ac mor hawſed y gall efe â
wg ein troi i Ddim, neu ein troedio i Gyflwr ſy ddeng
il o weithiau yn waeth nâ Dim, pa bryd bynnag y gwelo
e fod yn dda; pa fodd y gallwn ni fod yn ddiofal yn
n Meddyliau ein hunain, neu beidio bod oddi allan mewn
rmod o Garc a Thraſſerth, ond trwy gadarn orphwys
ei Wirionedd a'i Ddaioni ef? Ac Eiſiau hyn ydyw
chos yr holl Ofal blinderus, yr Ofn poenus, a'r Me-
yliau aflonydd hynny, ag ſydd yn waſtadol yn llanw
lonnau Dynion. Hwy wyddant nad yw eu Cyflwr yn
Llaw hwy eu hunain, ac nad yw yn eu Gallu naill ai
wneuthur y Peth a fynnent iddo fod, neu ei ddiogelu
i barhâu pan y gwneir ef felly; hwy wyddant y gall
ill ai hwy eu hunain gael eu cippio y Funyd neſaf oddi
th yr hyn y maent yn feddiannu, neu eu Meddiannau
el eu cippio oddi wrthynt hwy, trwy ſil o Ddamweiniau
allont ddigwydd, er gwaethaf eu Rhag-olwg neu eu
llu hwynt; y maent yn gweled fod eu Hamcanion te-
ccaf yn ddaroſtyngedig i fethu mewn aneirif o Ffyrdd,
er called y bo eu Hamcanion wedi eu llunio, y gall

Rhifedi aneirif o groes Ddamweiniau daro i mewn a'u dryllio hwynt: ac yn yr Anſertenrwydd hwn, naill a nid ydynt yn meddwl am Dduw oll, ond yn byw fel y gwelo Damwain anwadal fod yn dda, ac yn gadael eu hunain i gael eu troi a'u taflu oddi amgylch wrth Ewyllys Ffortun gib-ddall ddiamcan, yr hon ſydd â'i Holwyn byth yn ſymmud, fel na's gall eu Meddyliau blinderus un amſer orphwys; neu os ydynt yn meddwl am Dduw, y mae hynny gyd â llawer o Anhyder a Digalondid; y maent yn ofni na bydd efe yn ddigon gofalus am danynt hwy, nac mor garedig iddynt ag y gallent hwy ddymuno, ac y mae'r fath wâg Dŷb wrthnyſig ynddynt i dybied y byddai yn well o lawer iddynt hwy i rannu arnynt eu hunain, nâ byw yn ôl ei Drefn a'i Driniaeth ei Ac oddi ymma y mae'r holl Gyfyngder Meddwl a'r Anfoddlonrwydd, y Gofalon blin hynny, yr Ofnau dychrynllyd, y Meddyliau aflonydd drwgdybus hynny yn dyfod y rhai ſydd yn waſtadol yn eu dolurio ac yn torri eu Llonyddwch; ac y mae'n amhoſſibl iddynt byth fod yn rhŷdd oddi wrth y Drain a'r Aflonyddwch hyn, ie yn Nefoedd ei hun, nes bo eu Meddyliau wedi eu gweithio i berffaith Ymddiried a Hyder yn Nuw. Can's nyni ſyddwn yn gorphwys mor llwyr-gwbl ar Dduw am ein Dedwyddwch nefol, ag ydym am ein Dedwyddwch daearol: can's, er y bydd yr holl Weithredoedd hynny o Rinwedd nefol, ymha un y mae ein Dedwyddwch nefol yn ſefyll, yn fwy o lawer yn ein Gallu, nag yw dim o'r Moddion bydol hyn; etto ni byddant ddim yn hwy yn ein Gallu, nag y gwelo Duw fod yn dda i'n cynnorthwyo i ddewis a gweithredu, ac i'n cynnal ni yn ein Bôd, fel hyn a welwn yn amlwg y pryd hwnnw fod yn cwbl orphwys ar Fywiogrwydd ei Anadl bywiog ef, yr hwn ſydd yn rhoddi Bywyd i bob peth. Ac am hynny, er iddo addo parhâu ein Bôd yn y Cyflwr tra dedwydd hwnnw dragywydd, etto, oddieithr i ni berffaith ymddiried yn Wirionedd, fe fydd i Feddyliau carcus drwgdybus waſtadol ein haflonyddu; nyni a ſyddwn yn ofni rhag iddo ef ryw Amſer neu gilydd anghofio ei Addewid, ar ryw Gyfle neu Reſwm, na's gwyddom ni oddi wrth
dynn

ynnu oddi wrthym yr Effaith hwnnw o'i Allu ag ſydd
n cynnal y cwbl, ac ar ba un y mae ein Bywyd a'n
Hawddfyd yn ſefyll, a'n gadael ni i gwympo i Ddiddim,
pho fwyaf yw'n Dedwyddwch, mwy raid i'n Hofn ni
d i'w golli ef; o herwydd y byddem yn waſtad yn dyall
fod yn cwbl ſefyll ar Ewyllys Duw, yr hwn na's gallwn
berffaith ymddiried i'w Wirionedd a'i Ddaioni. Fel
e goſodid ni ynghanol y Nefoedd, a chennym Feddwl
rwgdybus, dihyder ar Dduw, ſe chwerwai hynny ei
oll Lawenydd hi, ac a wnae i ni ymadael â hi yn doſt ac
n ddiflâs. Can's y Meddyliau ofnus a fyddai ynnom yn
aſtadol o gael ein bwrw allan o'r Nefoedd drachefn, a'n
ſlu bendramwnwgl oddi wrth ein holl Ogoniant, a fydd-
t y fath Gyſtudd parhâus i ni, ag y nychem ymmaith
n Tragywyddoldeb happus, rhag Ofn ei golli ef yn dra-
wydd. Mor amhoſſibl ydyw i neb ag ſydd yn gor-
hwys ar arall fod yn ddedwydd, heb lwyr Ymddiried a
lyder yn Nuw, ar ba Un y mae ei Fywyd a'i Dded-
yddwch ef yn ſefyll.

Ac am hynny y mae'r Efengyl, tu ag at wneuthur ein
edwyddwch ar ôl hyn yn berffaith, yn ymroi ein hy-
rddi ni ymlaen-llaw i hyderu yn gadarn ac yn llwyr-
wbl ar Dduw, trwy ei wneuthur yn Rhan hanfodol o'n
yledſwydd, i *orchymmyn ein Heneidiau i DDUW, gan*
neuthur yn dda, 1 Pedr iv. 19. i *obeithio yn y DUW byw,*
hwn ſydd yn helaeth yn rhoddi i ni bob peth i'w mwynhâu,
Tim. vi. 17. *na bo i ni ymddiried ynnom ein hunain, ond*
NUW, yr hwn ſydd yn cyfodi'r Meirw, 2 Cor. i. 9. i
du yn NUW, ac na bo i ni flino o achos dim ag allo
igwydd i ni yn y Byd hwn, *Joan* xiv. 1. ac *na fwrion*
aith ein Hyder, Heb. x. 35. a'r cyffelyb: Yſtyr hyn i
d ydyw, i'n cymmell a'n rhwymo ni i hyderu ar
Duw yn llawen ac yn waſtadol, ac i ymroi i weithio ar
Meddyliau Deimlad dwfn o'i Ragluniaeth ef yn gor-
ch-lywodraethu, a llawn Sicrwydd o Ddaioni yr holl
ncanion mawr hynny y mae efe yn yrru ymlaen yn y
d; ac felly i goſleidio pob Damweiniau, a gorphwys
ddynt fel Arwyddion o'i Gariad a'i Ffafr, a byw yn
ſtadol trwy goelio hyn, fod yn anfeidrol well i ni fod

yn Nwylaw Duw nag yn ein Dwylaw ein hunain, a'i fod ef yn gwybod pa fodd i'n trefnu ni a'n Heiddo yn well nâ nyni ein hunain, ac y cymmer efe Ofal i'w trefnu hwynt gymmaint er ein Lles ag y gwnaethem ein hunain, pe gwybasem ni gymmaint ag y mae efe yn wybod. Yn awr er na's gallwn bob amſer, o achos yr Argraphiadau cryf hynny ag y mae Pethau gweledig yn y Cyflwr hwn o Gnawd yn weithio arnom, mor gadarn hyderu a gorphwys ein hunain ar Allu anweledig Duw, yn y fath fodd ag na bo i ni mewn un Yſtyr aflonyddu nad pa fodd y digwyddo Pethau; etto os, trwy fynych Weithredoedd o Ymddiried a Gorphwys arno, y trefnwn ni ein Meddyliau i hyderu ynddo yn y fath fodd ag y gallom, trwy edrych i fynu ar ei Ragluniaeth ef ſydd yn goruwch-lywodraethu gynnal ein hunain, gan mwyaf, ynghanol Cyfnewidiadau a Damweiniau'r Bywyd hwn; os gallwn, pan fo Tymheſtl o Adfyd yn crogi uwch ein Pennau, neu yn dyfod yn Gafod ar ein traws, ffoi at Dduw am Gyſgod, ac addo i ni ein hunain Ddiogelwch a Chadwraeth dan Adenydd eſtynnedig ei Ragluniaeth ef; mewn gair, os gallwn, pan fom mewn Poen, obeithio ynddo ef, a choelio y bydd bob peth dan ei Lywodraeth a'i Drefniad graſol ef gydweithio er ein Daioni; ein Gobaith a'n Hyder amherffaith anwadal hwn, a gaiff yn y Byd arall yn fuan ei addfedu i Hyder a Sicrwydd tra pherffaith. Can's yno nyni a gawn ein ſymmud yn gyſangwbl oddi wrth y Bywyd cnawdol hwn, yr hwn ſydd yn gwanhâu ac yn torri llawer jawn ar ein Hymddiried yn Rhagluniaeth anweledig Duw; ac hebſaw hynny, nyni a gawn fywioccach Dyalldwriaeth o lawer o'i Natur ef, ac o'r Rheſymmau anfeidrol ſy gennym i hyderu arno ef. Aç yna, pan gwelom ein hunain ar ôl holl Fygwthion Taith dymheſtlog, wedi dyfod i Dir mewn Byd gwynfydedig, a chwedi cael Meddiant o'r holl Ogoniant a addawyd i ni yno, y Prawf mawr hwn o Ffyddlondeb a Daioni Duw yn fuan a ſefydla ein Meddyliau oeddent wedi eu rhag-barotoi, i'r fath Hyder diyſgo ynddo ef, fel na's gallo o hynny allan ddim Ofn neu Amhyder byth gael y Lle lleiaf i'n Calonnau; ond fe fyd i ni fod mor berffaith ſicr o'i Wirionedd a'i Ddaioni, fe

er y teimlwn ni ein hunain yn cael ein cynnal a'n ben-
dithio bob Munyd â Ffrwythau rhŷdd ei Haelioni a'i Allu,
etto nyni a fyddwn mor hyderus yn dragywydd o Barhâd
ein Gwynfyd, ag allem ni fod, pe buasem yn bod o honom
ein hunain, a Thragywyddoldeb ein Bywyd a'n Ded-
wyddwch gymmaint yn ein Dwylaw ein hunain ag yw yr
eiddo Duw yn ei Law ef. Can's er y bydd ein Cyflwr
yn dragywydd yn pwyso ar arall, etto fe fydd byth yn
pwyso ar y fath Sail, ag na's gall ffaelu mwy nag y gall
Duw ffaelu ã bôd; sef, ar ei Wirionedd a'i Ddaioni, y
mhai ydynt bob un o honynt mor hanfodol iddo ef, ag na's
gall efe fod hebddynt. A phan y bom yn gwybod ein
bod wedi ein diogelu mor gadarn yn ein Cyflwr hwn o
Hyder, ag na's gallwn byth suddo oni sudda Duw dan-
om, nyni a fyddwn i bob Tragywyddoldeb nid yn unig
mor ddiberygl, ond mor foddlongar ynddo; a phe bae
pob un o honom yn Dduw iddo ei hun; ac yn y Dio-
elwch bendigedig hwn y cawn ni fwynhâu Duw, a nyni
in hunain yn llonydd yn dragywydd. Fel y bydd i'n
Hymddiried a'n Hyder yn Nuw goroni Hyfrydwch ein
holl Rinweddau eraill, trwy roi i ni lawn Sicrwydd o'i
wynhâu ef yn dragywydd. Can's yn awr ni bydd yn y
Meddwl gorfoleddus ddim Ofn neu Anhyder i'w attal,
eu i ddal gafael arno, yn ei Weithrediadau gwynfydedig;
im Meddyliau pryderus am Amser athrist yn ôl llaw, i
uro ei Mwynfant presennol; ond hi a fydd yn mwynhâu'r
holl Nefoedd bob Munyd, mewn Sicrwydd diosn o'i
mwynhâu hi i gŷd yn dragywydd. A phan y bo iddi
erffaith garu, mysyrio ar Dduw, a'i addoli, gyd â sicr
Hyder o fysyrio arno, ei garu a'i addoli yn berffaith yn
ragywydd, Oh! y fath Chwanegiad anhraethadwy a fydd
yn at Hyfrydwch y Gweithredoedd gwynfydedig hynny!
an's yn awr, ymhob Munyd o'n holl Dragywyddoldeb
wynfydedig, nyni a gawn beunydd y Llawenydd o Dra-
ywyddoldeb gwynfydedig i ddysod; ac heblaw yr holl
yfrydwch hynny, ag a fydd yn llanw pob Munyd bre-
nnol o'n Bywyd nefol, fe fydd gennym beunydd yr Hy-
ydwch o ganfod anfeidrol Oefoedd o Hyfrydwch. Ac
l hyn y gwelwch fod y Meddwl bendigedig, trwy ei

pherffaith Hyder ar Dduw, yn cwplhâu ei Nefoedd ei hun, ac yn ei diogelu ei hun yn dragywydd mewn Mwyniant eſmwyth jawn a Diaflonyddwch o honi byth.

Trwy hyn i gŷd yr wyf yn meddwl yr ymddengys yn ddigonol, pa faint y mae pob un o'r Rhinweddau duwiol hyn, y rhai ydym rwymedig fel Creaduriaid rheſymmol i'w goſod allan, a'u hymarfer ar Dduw, yn gwneuthur tu ag at ein Dedwyddwch nefol; ac yn ganlynol, mor angenrheidiol ddihepgor yw i ni eu hymarfer hwynt yn breſennol, i'n gwneuthur yn gymmwys ac yn addas i'w mwynhâu hi.

DOSBARTH. III.

Ynghylch y Rhinweddau Cymdeithaſol: *yn dangos fod y rhai'n hefyd yn gynnwyſedig yn y Rhan nefol o'r* Fuchedd Gris'nogol; *a'u bod hwy yn eu Natur yn gwneuthur yn fawr tu ag at ein Dedwyddwch nefol.*

DYN, o bob Creadur dan y Lleuad, yw'r cymhwyſaf i Gymdeithas. Can's er fod y Rhan fwyaf o Greaduriaid eraill yn chwennych Cymdeithas, yn gyſtal ag yntef; etto efe yn unig ſydd wedi ei gynnyſgaeddu â'r Dawn naturiol hwnnw, ag ſydd yn gwneuthur Cymdeithas yn dra hyfryd a lleſiol; a hwnnw ydyw y Dawn o Ymadrodd. Trwy ba un y gallwn amlygu ein Meddyliau, a dyall y naill y llall; a thrwy hynny troi ymmaith ein Triſtwch, cymmyſgu ein Llawenydd, amlygu ein Pethau dirgel i'w gilydd, cyfrannu ein Cynghorion, a gwneuthur Ammodau a Chyttundeb â'u gilydd, i helpu ac i gyflawni Eiſiau eu gilydd. Ac yn y Pethau hyn y mae Lles mwyaf a Hyfrydwch Cymdeithas yn ſefyll. Ac fel yr ydym ni o bob Creaduriaid eraill wedi ein cymhwyſo orau i Gymdeithas, felly arnom ni y mae fwyaf o'i Heiſiau. Can's am Greaduriaid eraill, wedi y delont i'r Byd, hwy a allant eu helpu eu hunain yn gynt o lawer nâ nyni; a phan y bom ni aplaf i'n helpu ein hunain, y mae llawer

jawn

jawn o Bethau angenrheidiol a gweddus heb ba rai ni's gallwn fod yn ddedwydd, a'r rhai ni's gallwn eu cyrraedd heb Gymmorth a Help eu gilydd; a phe baem mewn Cyflwr o Fywyd digymdeithas, nyni o bob Creaduriad yn y Byd a fyddem y rhai lleiaf eu Tueddrwydd i helpu eu gilydd. Can's, fel y dywedodd *Ariſtotl*, *Fel mai Dyn yn ei Gyflwr perffaith yw'r goreu o bob Creaduriaid, felly heb Gyfraith a Chyfiawnder efe yw'r gwaethaf.* Can's yr ydym yn gweled ei Natur ef yn fuan yn dirywio allan o Gymdeithas; ac, yn lle bod â Thueddrwydd ynddo i gynnorthwyo, y mae yn dyfod yn waſtadol yn fwy creulon a chiaidd i'w Ryw ei hun. Gan fod arnom yntau gymmaint o Eiſiau Cymmorth eu gilydd, y mae Cymdeithas yn gwbl angenrheidiol i lonni a chynnal ynnom ein Hewyllys da naturiol i'w gilydd, heb ba un, yn lle helpu eu gilydd, nyni a wnaem Ddrwg i'w gilydd. Can's, fel y dywedodd yr un Philoſophydd, *Tr bwn ni's gall gadw Cymdeithas ag eraill, neu o achos ei Hunan-ddigonoldeb nad oes arno ei Eiſiau, nid yw hwnnw yn perthyn i un Wlâd, ond naill ai Anifail gwyllt, neu DDUW ydyw.* Gan ein gwneuthur yntau yn y fath fodd er mwyn Cymdeithas, a than y fath Anghenion i ymrwymo ynddi; fe ganlyn oddi ymma yn ddilai, ein bod bawb yn rhwym, wedi ymgymdeithafu ynghŷd, yn ein hamryw Raddau a'n Lleoedd, i ymddwyn ein hunain tu ag at eu gilydd yn y fath fodd ag a fo fwyaf er Daioni cyffredin pawb: a chan ſod Happuſrwydd pob Aelod neillduol o'n Cymdeithas yn tarddu oddi wrth Ddedwyddwch yr holl Gymdeithas, ac yn gynnwyſedig ynddo, ni ddylem ni gyfrif dim yn dda i ni ein hunain ag ſydd er Niweid i'r Wlâd yn gyhoeddus. O herwydd fy mod i a phob Dyn yn dioddef beth bynnag y mae hon yn ddioddef; ac oni bae i mi allu bod yn happus wrthyf fy hun, ni all y Peth hwnnw fyth fod er fy Lles i yn neillduol, ag ſydd yn erbyn fy Lles yn gyffredinol, neu ynghyd ag eraill. Yn awr, yn y fath Ymddugiad oddi wrth y naill tu ag at y llall, ag a wnelo fwyaf er ein Lles cyffredin a'n Dedwyddwch fel yr ydym mewn Cymdeithas gyd â'u gilydd, y mae pob *Rhinwedd gymdeithaſol* yn ſefyll; Diben cymmwys ac Amcan pa un

ydyw,

ydyw; cymmal ein Cymdeithas â'n gilydd, a'i gwneuthur hi yn Fendith gyffredin i bawb o honom. Ac at hyn y mae pum Peth yn angenrheidiol; *ſef*,

I. I ni fod yn gariadus i'w gilydd.

II. I ni fod yn gyſiawn ac yn oneſt yn ein holl Gydſaſnach â'u gilydd.

III. I ni ymddwyn ein hunain yn heddychlawn yn ein hamryw Gyſwyrau a'n Perthynaſau.

IV. I ni fod yn fûl ac yn llednais jawn tu ag at y rhai ſydd uwch ein llaw yn ein Cymdeithas, pa un a ſont felly mewn Anrhyded.

V. I ni fod yn fwynaidd jawn ac yn oſtyngedig i bawb ag ſydd îs ein llaw.

Dan y Pethau neillduol hyn y cynhwyſer yr holl Rinweddau cymdeithaſol hynny, ar ba rai y mae Daioni a Dedwyddwch Cymdeithas ddynol yn ſefyll. Yn awr myſi a geiſiaf brofi yn neillduol, fod yr Ymarfer o'r rhai'n i gŷd yn gynnwyſedig yn y Fuchedd Gris'nogol, a'u bod hwy yn gweithio yn effeithiol at ein Dedwyddwch tragywyddol.

I. Fel Creaduriaid rheſymmol, ſydd mewn Cymdeithas, ac felly mewn Perthynas â'u gilydd, yr ydym yn rhwym i fod yn garedig ac yn gariadus i'w gilydd. Can's o herwydd mai Diben ein Cymdeithas yw, helpu a chynorthwyo eu gilydd; tu ag at hyn y mae yn angennhaid i bob un o honom fod yn garedig, a dwyn Gwllys da at bob un, fel trwy hynny y bo ynnom yn waſtadol Duedd-rwydd i helpu a gwneuthur Swyddau da i'w gilydd. A chyn belled ag y bom yn fyrr o hyn, yr ydym yn dyfod yn fyrr o Ddiben ein Cymdeithas. Can's yn ddiammau, po leiaf y bom yn caru eu gilydd, lleiaf a fydd ein Tueddiad i yrru ymlaen Ddaioni eu gilydd; ac yn ganlynol, lleiaf o Fantais a gawn ni fedi oddi wrth Gymdeithas eu gilydd. Ond os, yn lle caru, y byddwn ni yn maleiſio ac yn casâu eu gilydd, ein Cymdeithas a fydd mor belled oddi wrth wneuthur at ein Dedwyddwch, fel y bydd hi yn unig yn Foddion i'n gwneuthur yn fwy truenus. Can's ni wnâ hi ond rhoi i ni deceach Odfêydd i wneuthur Drwg i'w gilydd; a'r Cyd-ſaſnach a fydd rhyngom, trwy

gael

gael ein huno ynghŷd mewn Cymdeithas, a rŷdd i ni fwy o Foddion ac Achlyſurau i ddial ein Llid ar eu gilydd. Can's y mae Cymdeithas yn ein goſod o fewn Cyrraedd i'w gilydd, a thrwy hynny (os Gelynion a fyddwn) yn ein gwneuthur yn fwy peryglus i'w gilydd; fel dwy Fyddin a fo yn erbyn eu gilydd, y rhai pan y maent ymhell, ni allant wneuthur ond ychydig Niweid, ond pan y maent wedi Cyſſylldu a chymmyſgu â'u gilydd, y mae ganddynt ddigon o Odfêydd i ddeſtrywio a llâdd eu gilydd. Fel y gwelwch fod Caſineb a Malais yn gwneuthur ein Cymdeithas yn Blâ; ac fe fyddai well o lawer i ni fyw wrthym ein hunain, yn dlawd ac yn unig, ac ymneillduo oddi wrth eu gilydd fel y mae Anifeiliaid Yſbail yn gwneuthur, bob un i'w Loches, nag aros ynghyrraedd eu gilydd, a bod yn waſtad yn ddaroſtyngedig, fel y rhaid i ni fod tra fom mewn Cymdeithas, i gael ein hela a'n herlid gan eu gilydd.

Ac fel y mae Caſineb a Malais yn difetha ein holl Gymdeithas ni yn y Bywyd hwn, ac yn ei wneuthur yn waeth nâ'r Anialwch mwyaf anghyfannedd, felly y gwnâ hefyd yn y Bŷd arall. Can's pa bryd bynnag y gadawo Eneidiau Dynion eu Cyrph, y maent yn ddiammau yn crynhôi at yr Adar ſydd o'r un Lliw a hwythau, ac yn dewis Cyfeillach y fath Yſbrydion gwahanedig ag ſydd o'r un Naturiaeth a Thymmer a hwythau. Can's, heblaw bod Yſbrydion da a drwg, yn ôl Cyfreithiau tragywyddol y Bŷd arall, wedi eu rhannu yn ddwy Wlâd wahanol, ac yno yn byw ar neilldu oddi wrth eu gilydd, heb ddim Cyfraniad neu Gyd-faſnach rhyngddynt a'u gilydd, ond ſydd rhwng dwy Wlâd elynol, ag ſydd yn waſtad yn llyfelu ac yn cynnyg yn erbyn eu gilydd; fel y mae Eneidiau drwg, pan yr ymadawont â'r Drigfan ddaearol hon, ac yr elont i Dragywyddoldeb, yn fuan yn cael eu corphori yn ôl Cyfreithiau y Cyflwr anweledig hwnnw i Genedl Yſbrydion annuwiol, a'u carcharu yn dragywydd yn eu Cymdeithas a'u Cyfeillach truenus hwy; heblaw hyn, meddaf, y mae Cyffelybiaeth wrth Natur yn crynhôi Hanfodau ynghŷd, ac yn eu tueddu hwynt i gadw Cymdeithas â'r rhai 'ny ag ſydd o'u Rhyw hwy eu hunain. Yn awr, Digaſedd a

Malais

Malais yw gwir Nôd y Diawl, a llwyr Naturiaeth Uffern; ac yn ganlynol, trwy Dymmer Meddwl maleiſus yr ydym ymlaen-llaw yn cael ein gwneuthur yn Ddeiliaid naturiol o Deyrnas y Tywyllwch, a'n cymhwyſo i Gyfeillach Ellyllon. A phan elom oddi ymma i Dragywyddoldeb, y Naturiaeth faleiſus hon a'n gwnâ ni yn gwbl wrthwyneb i Gymdeithas gyfeillgar y Nefoedd, ac a'n cymmell ac a'n tuedda ni yn naturiol i gadw Cyfeillach â'r Genedl druenus honno o Yſbrydion cenfigennus a digaſog, â pha rai yr ydym eiſoes wedi ymgyſſylltu trwy Gyffelybiaeth a Chymmundeb Natur. Ond Oh! gwell o lawer a fyddai i ni gael ein cau i fynu wrthym ein hunain yn dragywydd mewn rhyw Dwll tywyll o'r Bŷd, lle na chaem Gyfeillach dim ond ein Meddyliau athriſt ein hunain, na chlywed byth am un Creadur arall ond nyni ein hunain, na chael ein plago yn waſtadol â'r fath Gwmpeini blinderus! Can's, er na's gallwn ni, nad ydym yn gweled dim ond Gweithredoedd corphorol, wybod pa fodd y mae un Yſbryd yn gweithredu ar y llall; etto nid oes dim ammau, na ddichon Gweithredwyr yſbrydol daro mor ddigyfrwng ar Yſbrydoedd, ag y dichon Gweithredwyr corphorol daro ar Gyrph: ac o fwrw y dichon y rhai'n weithio y naill ar y llall, nid oes dim ammau, na's gallant beri i'r naill deimlo Hyfrydwch neu Anhyfrydwch y llall; ac fel y maent yn fwy neu yn llai eu Gallu, hwy allant flino a chyſtuddio eu gilydd yn fwy neu'n llai. Ac os felly, beth ellir ddiſgwyl oddi wrth Gwmpeini o Yſbrydion cenfigennus a maleiſus, wedi eu cyſſylltu ynghŷd mewn Cymdeithas, ond bod eu Cyfeillach hwynt yn Gyd-faſnach parhâus o wneuthur Drygau a Blinder i'w gilydd; yn enwedig, o yſtyried fel y darfu iddynt ymma oſod Sail o Ymryſon tragywyddol yn erbyn eu gilydd? Can's yno y cyferfydd yr holl Gymdeithion hynny mewn Pechod, y rhai, trwy eu Cynghorion drwg, eu Hannogiadau annuwiol, a'u Heſamplau diffaith, a wnaethant ddim ag allent i ddifetha eu gilydd; a chwedi cyfarfod yn y fath Gyflwr truenus, pa fodd y bydd i'r Teimlad poenus o'r Camweddau hynny nid allant fyth wneud jawn am danynt, a'r rhai a wnaethant â'u gilydd, hogi eu Llidiowgrwydd

hwynt

hwynt yn erbyn eu gilydd, a pheri iddynt chwareu'r Cythreuliaid â'u gilydd. A pheth a ellir ddiſgwyl oddi wrth y fath Gwmpeini o Gaccwn, mor llidus i'w gilydd, ond, gwedi eu cau i fynu ynghŷd yn eu Gwâl uffernol, iddynt fod yn waſtadol yn chwythu ar eu gilydd? Ond yna, heblaw y Plâau hynny â pha rai y rhaid i ni fwrw fod yr Yſbrydion ffyrnig hyn yn cyſtuddio eu gilydd, hwy a fyddant hefyd yn noeth agored i Falais pwerus y Diawliaid, y Dihenyddwyr creulon hynny o gyfiawn Ddial Duw, y rhai ſydd ganddynt Allu, fel y gwelwn yn awr trwy Brofiad, i fwrw i mewn i ni Feddyliau duon echrydus, ac i boeni ein Heneidiau â'r fath Ddychymmygion arſwydus, ag ſydd yn fwy llym a dolurus o lawer nâ dim Poenau corphorol. Ac od oes ganddynt yn awr y fath Allu arnom, pan gwelo Duw fod yn dda eu gollwng hwynt yn rhyddion, beth a fydd ganddynt ar ôl hyn, pan caffo ein Hyſbrydoedd truenus eu llwyr roddi i fynu i'w Trugaredd hwynt, ac y caffont Awdurdod rŷdd i fwrw allan eu holl Lid arnom, ac i lenwi eu Malais newynllyd â'n Gofidiau a'n Blinderau! Y mae'n Beth tebygolawn o'r hyn lleiaf, mai Effaith y Dychrynfeydd goruwchnaturiol hynny yn bennaf, y rhai a argraphodd y Diafiaid, â pha rai yr oedd efe y pryd hwnnw yn ymdrech ar Feddwl diniweid ein Jachawdwr, oedd yr Ing a'r dirfawr Driſtwch echrydus yr oedd efe ynddo yn yr Ardd, yr hyn a barodd iddo lefain ac ochneidio, a chwyſu megis Defnynnau mawr o Waed. Ac od oedd ganddynt gymmaint o Bwer ar ei Enaid pur galluog ef, ag oedd wedi ei amddiffyn mor grŷf â'r Rhinweddau mwyaf perffaith a difrycheulyd, pa Bwer mawr fydd ganddynt ar ein Heneidiau ni, pan rhoer ni i fynu iddynt, ac y teflir ni fel Yſglyfaeth i'w Safnau! A pha Lidiowgrwydd uffernol yr ehedant ar ein Heneidiau euog ac ofnus, ymha rai y mae cymmaint o Danwedd, i'r Gwrychion o Ddychryn a fwrioni hwy i mewn i gymmeryd Tân!

Gan fod Digaſedd a Malais yntau mor naturiol yn tueddu ac yn pryſuro ein Heneidiau tu ag at Gymdeithas druenus Cythreuliaid ac Yſbrydion damnedig, y mae'r Efengyl, yr hon ſydd mor ddiwyd yn ceiſio ein Ded-

wyddwch,

wyddwch, yn cymmeryd pob Gofal a fo boſſibl i'n hyfforddi i fynu mewn Cariad tu ag at eu gilydd; ac yn gwneuthur *caru eu gilydd* o'r Galon, nid yn unig yn angenrheidiol, ond yn un o'r Rhannau pennaf o'n Buchedd Gris'nogol. Can's hyn, fel y dywaid ein Jachawdwr wrthym, yw'r Gorchymmyn anwyl ag oedd yn gorwedd neſaf at ei Galon ef: *Dymma fy Ngorchymmyn i; Ar i chwi garu eich gilydd*, Joan xv. 12. Ac felly fe orchymynnerl ni, nid yn unig *i ddilyn Cariad*, 1 Cor. xiv. 1. ac *i wneuthur ein holl Bethau mewn Cariad*, 1 Cor. xvi. 14. ond hefyd, *am ben y cwbl oll i wiſgo Cariad*, Col. iii. 14. ac *aros mewn Cariad*; yr hyn y mae'r Apoſtol yn ddywedyd wrthym yw, *aros yn NUW, yr hwn ſydd Gariad*, 1 Joan iv. 16. Amcan hyn i gŷd ydyw, ein rhwymo ni i fod ag Ewyllys da cyffredinol gennym i bawb, a chymmeryd Hoffder calonnog ym mhawb ag ſydd yn wir gariadlawn; i fod yn barod i wneuthur dim ag allom er Daioni a Lles pawb, a llawenychu yn hynny; ac, mewn gair, i fyw yn yr Ymarfer gwaſtadol o'r holl Swyddau cariadus hynny ag y mae'n Cyſiwr preſennol yn ofyn ac yn alw am danynt; i fod yn dirion ac yn addfwyn; i drîn pawb ag y bom yn ymddiddan â hwynt ag Edrychiad hawddgar, Ymddugiad rhadlawn, a Jaith garedig; i fod yn *hir-ymarhôus*, yn *llariaidd*, ac *yn hawdd ein trîn*; i beidio torri allan i Lidiowgrwydd a Therfyſg ar bob Cyffrôad bychan; a phan caffom Achos cyfiawn i gyffrôi, i beidio gadael i'n Hanſoddlonrwydd lidio i Falais a Digaſedd, ond bod yn barod ac yn hawdd i ymheddychu; i fod o Dymmer doſturiol, gan gyd-ddioddef, ac i lawenhâu gyd â'r rhai ſydd yn llawenhâu, ac i wylo gyd â'r rhai ſy'n wylo; i ddeongli Dynion a'u Gweithredoedd yn hynaws; i fod yn barod i leihâu ac eſguſo eu Beiau, a goſod Yſtyr têg ar eu Gweithredoedd; a bod mor belled oddi wrth wneuthur Eſboniadau maleiſus ar eu Meddwl diniweid, na chyhoeddi eu Cam-ymddugiadau, na llawenychu yn eu Llithriadau, a pheidio credu yn ddrwg am danynt ond ar Dyſtiolaeth ddiwâd; a phan gorfyddo arnom wneuthur felly, i doſturio wrthynt, a galaru o'u plegid, ac ymrôi eu gwellhâu, a gweddio a gobeithio am hynny: yn fyrr, i fod yn

garedig

garedig ac yn haelionus i'r rhai ſydd mewn Eiſiau ac Angen, a cheiſio yn ôl ein Gallu i eſmwythâu eu Thriſtwch, i ſymmud eu Gorthrymderau, i'w cynnal dan eu Gofidiau, a'u cynghori yn eu Hamheuon; ſiod yn barod i bob Gweithred dda, ac, ſel Meuſydd o Berarogiau, yn tannu ein Harogl hyfryd trwy'r holl Gym'dogaeth; a hyn i gyd gyd ag Amcan oneſt diragrith i yrru ymlaen eu Daioni, ac nid yn unig i'emniſt i ni ein hunain Air gwŷch a Chanmoliaeth. Y Pethau hyn i gyd ydynt Rannau hanfodol o'r Cariad hwnnw y mae'r Efengyl yn orchymmyn i ni ymarfer tu ag at eu gilydd. Can's felly y mae'r Apoſtol yn ſicrhâu i ni, 1 Cor. xiii. 4, 5, 6, 7. *Y mae Cariad yn hir-ymaros, yn gymmwynaſgar; Cariad nid yw yn cynſigennu; nid yw Cariad yn ymffroſtio, nid yw yn ymchwyddo, nid yw yn gwneuthur yn anweddaidd, nid yw yn ceiſio yr eidd ei hun, ni chythruddir, ni feddwl ddrwg; nid yw lawen dm Anghyfiawnder, ond cyd-lawenhau y mae â'r Gwirioneddd: y mae yn dioddef pob dim, yn credu pob dim, yn gobeithio pob dim, yn ymaros â phob dim.*

Yn awr, er ſod amryw o Weithredoedd cariadus, y rhai a ddarfyddant yn dragywydd yn y Nefoedd, megis bod yn hir-ymarhôus, rhoddi Eluſenau, a maddeu Camweddau, a'r cyffelyb; o herwydd na bydd ymhlith Trigolion y Nefoedd ddim o'r Beiau neu'r Trueni hynny ag y mae'r Gweithredoedd hyn yn perthyn iddynt; etto y mae'r Ymarfer hyn yn oed o'r rhai'n yn gwbl angenrheidiol i nawſeiddio a thueddu ein Meddyliau at Gariad nefol, yr hwn, hyd nes bo gennyin Dueddiad atto trwy Gariad cyffredinol, ni's galiwn byth mo'i ymarfer; ond, gan ſod pob Tueddiadau rhinweddol yn cael eu cyrraedd trwy Weithredoedd, y mae'n amhoſſibl i ni gyrraedd y Tueddiad o Gariad cyffredinol, oni bydd i ni ei hymarfer yn gyffredinol. Trwy roddi Eluſenau, y rhaid i ni gyrraedd Cariad calonnog at y Tlawd a'r Anghenog; a thrwy faddeu Camweddau, y rhaid i ni ein tueddu ein hunain i garu y rhai'ny ag ſydd yn ein digio ni. Can's y mae'r Gweithredoedd hyn yn Achoſion yn gyſtal ag yn Arwyddion o Dymmer cariadus, ac y maent yn angenrheidiol nid yn unig i'w harwyddocâu hi lle y mae, ond heſyd i'w gweithio hi lle

nid

nid yw. Pan y bo i ni gan hynny, trwy weithredu yr holl Rannau hynny o Gariad ag ſydd gymmwys i'r Cyflwr hwn yn gyſtal a'r llall, gyrraedd y Tueddrwydd bendigedig hwn o Gariad cyffredinol, fe ſydd ein Meddyliau wedi eu hjawn luniaethu a'u tymheru at Gymdeithas y Nefoedd. Ac, er y gall ychydig o Ddigofaint ac Anfoddlondeb weithiau gyfodi yn ein Meddyliau, yn Nhwrdd a Therfyſg parhâus y Bŷd hwn; etto, os ydym yn Nhymmer oer ſefydlog ein Heneidiau o'n Calonnau yn dymuno yn dda i bawb, ac o'n Calonnau yn caru pawb ag ſydd mewn un meſur yn caru Duw, ac yn gyffelyb iddo, y mae Tueddiad naturiol ynom at y Nefoedd, yr Elfen berffaith honno o Gariad: a phan elom oddi ymma, nyni a ymgyfflylldwn â'r Cariadon mawrion a bendigedig, y rhai ſydd yn preſwylio yno, gyd â Llawenydd a Gorfoledd anhraethadwy. Y rhai, gan eu bod i gŷd yn Eneidiau tra chariadlawn a thra chyffelyb i Dduw, a phob un o honynt o'r un Dymmer â ni ein hunain, wedi cael ein tynnu yn yr un modd, a'n gwneuthur yn Gyfrannogion o'r un Naturdduwiol, fe ſydd i ni gyd-daro gyd â hwynt yn fuan yn yr Undeb agoſaf o Gariad. Can's, gan fod y Bobl nefol hynny i gŷd yn caru Duw yn dra gwreſog, y maent wedi eu huno ynddo ef, yr hwn yw Canol-bwynt cyffredinol Cariad, yn y fath fodd, ag na's gall un Sant neu Angel fwynhâu ei Gariad ef, heb feddiannu Grâdd gyfattebol o'u Cariad hwythau; a chan fod eu Cariad i'w gilydd i gŷd o îs-radd nâ'u Cariad cyffredin at Dduw, a chwedi ei ſeilio ar hwnnw, er fod eu Tueddrwydd cryfaf, fel Tueddiad Nodwyddau wedi eu cyffrôi, beunydd atto ef y Tynfaen bendigedig, yr hwn a gyffyrddodd â phob un o honynt; etto y maent i gŷd yn glynu yn dyn wrth eu gilydd wedi eu cyſſylldu yn anwahanol ynghŷd trwy y Rhinweddau hynny a gawſant i gŷd oddi wrtho ef. Ac yn y Cyflwr hwn o Gymdeithas perffaith, y maent yn cadw Cyfeillach â'u gilydd gyd â Hoffder anhraethadwy, ac y mae eu holl Ymarweddiad yn Gyfnewid gwaſtadol o bob Anwyldra doeth a ſanctaidd. Ac yn awr, pa fath Gymdeithas wynfydedig a raid i hon fod, lle mae Cariad a Chyfeillgarwch perffaith yn rheoli ac yn llywodraethu!

cwbl

cwbl; lle mae pob Calon yn cymmyſgu â phob un, a phawb fel Llwch Aur gwerthfawr yn cael eu toddi ynghŷd yn un Llafn dwys; lle mae Myrddiwnau anfeidrol o Yſbrydion bendigedig, trwy gofleidio ac ymwaſgu eu gilydd, wedi eu huno mor anwahanol, ac yn cyd-dyfu yn y fath fodd, nad ydynt i gŷd ond un Enaid wedi ei gymmyſgu ynghŷd! A phan y maent i gŷd, o'r Angel uwchaf hyd y Sant iſaf, wedi eu clymmu ynghŷd â Llinynnau'r Galon yn y fath fodd ag y mae pob un yn Gyfaill anwyl i bob un, pa Hoffder a Boddlondeb anhraethadwy a raid iddynt gymmeryd yn eu gilydd! Pan y bo i ni dramwy dros yr holl Nefoedd trwy ddeng mil o Fyrddiwnau o Hanfodau gwynfydedig, ac heb gyfarfod ag un nad wyf yn ei garu yn anwyl, ag yntef mor anwyl yn fy ngharu innau, O! pa Lawenydd anhraethadwy a Chyd-gyfarch a fydd rhyngom! yn enwedig pan na welwyf ddim Diffyg Daioni neu Ddedwyddwch ynddynt hwy, na hwythau ynof finnau, i ddigalonni ein Llawenydd a'n Hyfrydwch yn eu gilydd; ond y bydd pob un y Peth a fydd pob un yn ddymuno iddo fod, yn Gyfaill perffaith a gwynfydedig, Can's y mae gan Gariadon perffaith eu holl Lawenydd a'u Gofidiau yn gyffredin rhyngddynt; ond gan nad oes dim Gofidiau ymhlith y Cariadon nefol, eu Llawenydd yn unig y maent hwy yn gyfrannu i'w gilydd. Can's lle maent yn caru mor berffaith ag y maent yn y Nefoedd, ni all fod mo'r fath Beth a Dedwyddwch dirgel neu neilltuol, ond rhaid i bob un gael Rhan o Ddedwyddwch pob un; ac yn ganlynol, yn eu Cyfranniad o'u Gwynfyd yn llyn i'w gilydd, fe gaiff Dedwyddwch pob un, trwy ei Gyfeillgarwch â phob un, ei amlhâu i gynnifer Dedwyddwch ag ſydd o Seintiau ac Angelion yn y Nefoedd; ac felly y mae pob Llawenydd i bob Aelod o'r Eglwys Orfoleddus yn rhedeg oddi amgylch i'r holl Gorph mewn Cylchiad tragywyddol. Can's gan fod y Corph bendigedig hwnnw wedi ei wneuthur i fynu i gŷd o Galonnau cytunol, y rhai, fel Cynghanedd unsŵn perffaith, ydynt wedi eu goſod at yr un Allwedd, pan cyffyrdder ag un, y mae pob un yn dadſeinio'r un Dôn; a thra y maent fel yn y naill yn taro ar y llall, a Llawenydd pob un yn

gweithio ar bawb, y mae 'n amhoſſibl, mewn Cyflwr lle nad oes dim ond Llawenydd, na bo Cyſſondeb gwaſtadol o Buroriaeth melus dros ben yn eu plith hwynt. Can's y mae ganddynt y fath Ofal anwyl am eu gilydd, fel y mae Llawenydd pob un nid yn unig yn talu i bob un, ond yn derbyn Teyrnged oddi wrth Lawenydd pob un; fel pan y mae un Yſbryd bendigedig yn llawenychu, y mae ei Lawenydd ef yn myned oddi amgylch i'r holl Gymdeithas; ac yna y mae eu holl Lawenydd hwy yn ei Lawenydd ef, yn llifo arno drachefn, ac yn ei chwyddo ac yn ei amlhâu: ac felly, fel y maent yn benthyccio Llawenydd eu gilydd, y maent yn waſtadol yn eu talu hwynt yn ôl gyd â Llôg, a thrwy eu had-ddychwelyd yn llyn, y maent yn eu cynnyddu hwynt yn dragywydd.

II. Fel yr ydym yn Greaduriaid rheſymmol mewn Perthynas â'u gilydd, yr ydym yn rhwym i fod yn unjawn ac yn gyfiawn yn ein holl Faſnach â'u gilydd. I roddi i bob un pa beth bynnag allo efe ofyn neu ymhonni arnom trwy un mâth o Hawl, p'un ai naturiol, neu Hawl a ennillodd efe ffordd arall, a fo hi. Can's y mae rhai Pethau ag y mae gan bob Dŷn Hawl wrth Natur iddynt, fel y mae efe yn Rhan neu yn Aelod o Gymdeithas ddynol. Megis, yn lle Eſampl, *Bywyd*, yr hwn o'n holl Weithrediadau a'n Dyalldwriaethau yw'r pennaf, a roddwyd ar Echwyn yn rhâd i ni gan Duw, yr hwn yw Ffynnon Bywyd; ac yn ganlynol, nes cymmero Duw ei Fenthyg yn ol, neu i ni ei fforffettu trwy ein Gweithredoedd ein hunain, y mae gennym bawb Hawl naturiol i fyw; a'r Camwedd a'r Anghyfiawnder mwyaf yw, i un Dŷn gynnyg ddwyn ein Bywyd, neu Foddion ein Bywyd, oddi arnom. Drachefn, gan fod *Geiriau* wedi eu hordeinio nid i un Diben arall ond i arwyddocâu ein Meddwl, a bod yn Offeryn o'n Maſnach a'n Cymdeithas â'u gilydd, y mae gan bob un, yr hwn ſydd yn Aelod o Gymdeithas ddynol, Hawl i gael ein Meddwl wedi ei arwyddocâu yn gywir iddo trwy ein Geiriau; a phwy bynnag ſydd yn dywedyd Celwydd, neu Eiriau o ddau Ddyall, wrth arall, ſydd trwy hynny yn gamweddus yn dwyn oddi arno Hawl naturiol Cymdeithas. Drachefn, gan fod *Enw da* yn Sail o Ym-

ddiried

ddiried a Choel, a Choel y Peth pennaf ag ſydd yn cadw Cymdeithas ynghŷd, nes bo i Ddynion fforffettu eu Henw da, y mae ganddynt Hawl naturiol i gael Gair da, a lleſaru yn dda am danynt; a phwy bynnag a geiſio, naill ai trwy gam Dyſtiolaeth, Enllib cyhoeddus, neu Siſial dirgel, lygru Enw da Gwr diniweid, ſydd trwy hynny yn gamweddus yn ceiſio ei gau ef allan o Gyfeillach Dynion, a chau Drws Cymdeithas ddynol yn ei erbyn. Unwaith drachefn, gan fod Addewidion yn Ddiogelwch mawr o'n Cydfaſnach a'n Cymdeithas â'u gilydd, y mae gan bob un ſydd ganddo Hawl i Gymdeithas, Hawl i'r Peth a addawo arall iddo, o bydd y Peth yn gyfraithlawn ac yn boſſibl; ac am hynny y mae'n Weithred o Drais anghyfjawn, i un Dŷn addo y Peth nad yw efe yn amcanu ei gyflawni, neu i fyned yn ôl oddi wrth ei Addewid, pryd y gallo efe yn gyfraithlawn ei chyflawni: ac mi allaf gyd â chymmaint o Oneſtrwydd bob ffordd yſbeilio Gwr o'r hyn ſydd eiddo ef heb fy Addewid, ag o'r hyn a wnaethum yn eiddo ef trwy fy Addewid; o herwydd fod ganddo yr un Hawl i bob un o'r ddau, yn ôl Cyfreithiau ſylfaenol Cymdeithas. Yn olaf, gan mai Amcan mawr Cymdeithas ydyw, helpu a chynnorthwyo y naill y llall, y mae gan bob Dŷn Hawl i gael ei gymmorth a'i helpu gan bob un ag y mae efe yn delio neu yn negeſeua ag ef; i gael rhyw Ran o Lês yr holl Gyfnewid, y Maſnach a'r Farchnadaeth a fo rhyngddo ef ag eraill: ac am hynny y mae yn Drais camweddus o'r Hawl naturiol honno ag y mae gwir Ddiben ac Amcan Cymdeithas yn roddi i Ddynion, i un Dŷn wrth ddelio ag eraill gymmeryd Mantais o'u Hangen, neu eu Hanwybodaeth, i'w gorthrymmu neu eu twyllo, neu i ddelio mor galed â hwynt, a pheidio naill ai lwo iddynt un Rhan o'r Elw ag ſydd yn dyfod oddi wrth eu Cydfaſnach, neu beidio rhoddi iddynt Ran ddigonol i'w cynnal, fel y gallont fyw arni. Ond, heblaw y Pethau hyn, y rhai y mae Natur yn rhoi i ni unjawn Hawl iddynt, y mae Pethau eraill hefyd ag ydym yn cael Hawl iddynt trwy Oſodedigaeth Cyfraith, neu trwy Ammodau a Chyttundeb â'u gilydd; a chan fod y Cyfreithiau a'r Ammodau hyn yn gwbl angenrheidiol i gynnal a llywodraethu Cymdeithaſau dynol, y mae mor angenrheidiol

enrheidiol i bob Hawl ag y maent hwy yn roddi gael ei gadw yn ddihalog; a phwy bynnag, yn wybodus, neu yn ewyllysgar, a gymmero ymaith neu a attalio oddi wrth arall y Peth y mae ganddo Deitl fel hyn iddo trwy Gyfraith neu Gyttundeb, sydd euog o Dwyll neu Ledrad, a phob un o honynt sydd Drosedd camweddus o Gyfiawnder Cymdeithas ddynol. Fel y mae'r Ymarfer o Unjawndeb a Chyfiawnder, fel y mae'n perthyn yn unig i Gymdeithas ddynol, yn sefyll yn ein gwaith ni yn peidio treisio dim o'r hyn y mae Natur, neu un Gyfraith a Chyttundeb, wedi wneuthur yn eiddo i'r rhai'ny â pha rai yr ydym yn delio neu yn marchnatta mewn un Peth; trwy beidio ceisio dwyn oddi arnynt na'u Bywyd na'u Bywioliaeth, oni bydd iddynt trwy eu Gweithredoedd eu hunain eu fforffettu hwynt i ni; trwy gyfrannu ein Meddwl yn gywir iddynt trwy ein Geiriau, a pheidio â'i guddio dan Gelwydd a Thwyll, na'i ddieithro â Geiriau o ddau Ddyall; trwy wneuthur yn dda iddynt ein holl Addewidion cyfraithlawn a phosibl; trwy beidio cablu a cham achwyn ar eu Henw da hwynt, na gadael iddynt gael eu cablu ar gam, pan y gallom eu hamddiffyn hwynt; trwy beidio â'u trîn hwynt yn greulon wrth ddelio â hwynt, a gwneuthur Colled iddynt o'n Bôdd, nac yn galed trwy gymmeryd yr holl Fantais i ni ein hunain, neu trwy ballu iddynt y fath Gyfran weddus o hono ag sydd angenrheidiol i'w cynnal a'u maentaeno hwynt: mewn gair, i beidio â'u twyllo na'u hysbeilio hwynt o un Peth y mae ganddynt Hawl iddo, naill ai trwy Osodiad Cyfraith, neu ynte trwy Ammod a Chyttundeb. Cyfiawnder moesol yw hwn, ac hebddo y mae'n amhosibl i un Gymdeithas fod yn ddedwydd. Can's pa fodd y gall neb fod yn ddiberygl mewn Cymdeithas, lle mae Trawsder a Thrais, Camwedd a Gorthrymmu, yn rheoli; lle y mae Achosion yn cael eu penderfynu, nid yn ôl Rheolau Cyfiawnder, ond wrth eithaf Grym, a lle nad oes dim ond y Fraich gryfaf i farnu beth sy gam, a pheth sy gymmwys; lle nad yw Addewidion a Phroffes ddim ond Rhwydau a Maglau, a phob Dŷn yn cynllwyn yn ei Eiriau, ac yn llechu tu hwnt iddynt mewn Meddwl dau-ddyblyg, yn unig i ddisgwyl Odfa i ddal yn ddisymmwth a difetha pob un a ymddiddano ag ei?

ef? Yn ddiammau fe fyddai yn fwy dewiſol o lawer i Ddynion i waſgaru a dattod oddi wrth Gymdeithas eu gilydd, a byw ar neilldu fel y mae Pryfed yn gwneuthur, wrth yſbeilio a chwiwio ar eu gilydd, nâ byw ynghŷd, fel y rhaid iddynt yn y fath Gyflwr o Anghyfiawnder, fel Yſgubau o Fieri a Drain, ac o Ddrwg-dŷb ac Eiddigedd at eu gilydd, bod yn waſtadol yn rhwygo ac yn cratu eu gilydd.

Yn awr, megis y dangoſais i chwi o'r blaen, fel y bo Tymherau Dynion ymma, felly y bydd eu Cwmpeini ar ôl hyn. Fel os myned a wnawn ni allan o'r Bŷd hwn â Thymmer anghyfiawn, rhaid i ni ddiſgwyl cael ein carcharu yn y Bŷd arall gyd â Chymdeithas anghyfiawn: ac os yw Anghyfiawnder y fath Niweid i'n Cymdeithas yn y Bywyd hwn, pa Blâ a fydd efe iddi yn y Bywyd ſydd i ddyfod? Can's y mae rhyw faint o Weddillion Cyfjawnder ac Unjawndeb yn aros ymhlith Cymdeithaſau y Dynion mwyaf ciaidd yn y Bywyd hwn: ac er fod llawer o Aelodau llygredig ymyſg y goreu o honynt ag ſydd gan mwyaf yn ddrwg; etto p'un ai trwy eu Tymmer naturiol, neu rhag Ofn Coſb neu Wradwydd, neu trwy eu Teimlad o Anrhydedd, neu Geryddon Cydwybod, y maent yn fynych yn cael eu hattal oddi wrth lawer o Bethau drwg, ac yn neillduol oddi wrth Anoneſtrwydd ac Anghyfiawnder, trwy ba Foddion y mae eu Cymdeithas yn hawſach o lawer i'w dioddef. Ond yn y Bywyd arall, megis y mae pawb yn berffaith ddaionus ag ſydd yng Nghymdeithas y Da, felly y maent i gŷd yn berffaith ddrygionus y rhai ſydd yng Nghymdeithas y Drwg; a pha Attalfa bynnag allo fod yn eu Natur rhag unrhyw Weithredoedd neillduol o Annuwioldeb, y mae yno yn cael ei gadw i lawr i gŷd, trwy eu Malais digaſog yn erbyn Duw, a'u Hanobaith cynddeiriog o gael byth eu heddychu ag ef. Fel nad oes y Cymmyſgiad lleiaf o Unjawndeb a Chyfjawnder yn eu holl Gymdeithas hwy â'u gilydd, ond Ffalſter a Thwyll, Trais a Gorthrymmu, a pha beth bynnag arall ſydd er Niweid a Chamwedd i'w gilydd, ſydd yn eu holl Gyfrinach. Can's y mae'r 'Sgrythur yn dywedyd am y Diafol, yr hwn yw Pen-tywyſog eu Cym-

deithas hwy, mai *Tâd y Celwydd* ydyw ef, a *Lleiddiad Dŷn o'r Dechreuad*; hynny yw, Bôd anoneſt jawn ac anghyfjawn dros ben, un ag y bu ei holl Orchwyl ef i dwyllo, i yſbeilio Dynion o'u Dedwyddwch, ac i orchguddio ei Amcanion llofruddiog yn eu herbyn hwynt â Gwênau rhagrithiol, a Lliw o Gariad gwenhieithgar. A diammau fod Dynion yno, megis ymma, yn gwneuthur ar ôl Eſampl eu Tywyſog; y mae Caeth-weiſion truenus ei Deyrnas dywyll ef i gŷd yn canlyn ei Foeſau, ac yn troedio yn ei Lwybrau. Ac os felly, O Arglwydd daionus! pa Gymdeithas druenus raid fod rhyngddynt hwy a'u gilydd, pan y mae pob Hyder ac Ymddiried yn eu gilydd wedi ei erlid yn llwyr o'u myſg, o achos eu Profiad gwaſtadol hwynt o Dwyll a Rhagrith eu gilydd, a phob un yn gorfod ſefyll ar ei Amddiffynfa ei hun mewn Diſgwyliad gwaſtadol o Ddrwg oddi wrth bob un; pan y mae eu holl Fywyd yn Gelfyddyd o Ddihirwch dieflig, a'u holl Waith yw camweddu eu gilydd, a thalu'r pwyth i'w gilydd, a Gorchwyl pennaf eu Cymdeithas uffernol hon ydyw twyllo a chwareu'r Cythreuliaid â'u gilydd! Diammau fod hyn yn unig yn ddigon i wneuthur Uffern yn Gyfiwr ofnadwyjawn, pe na bae dim arall yn ofnadwy ynddi; ac yr wyf mewn Gwirionedd yn credu, pe gadewid y Peth i'm Dewis i fy hun, y dewiſwn i nychu allan Dragywyddoldeb mewn rhyw Garchar dywyll echrydus wrthyf fy hun, a chydymddiddan yno â'm Gofidiau diſtaw fy hun, yn hytrach o lawer nâ phreſwylio yn dragywydd yng Ngardd y Bŷd gyd â'r fath Greaduriaid twyllodrus a fileinig.

Gan hynny, fel na bo hyn ein Tynghedfen ni yn ôl llaw, Rhan fawr o Orchwyl ein Crefydd Sanctaidd ydyw, ein hyfforddi ni i fynu i well Cwmpeini, trwy ein harferu ni ymlaen llaw i wneuthur Cyfiawnder ac Unjawndeb. Can's felly y mae hi yn ein rhwymo ni i *wneuthur i Ddynion pa bethau bynnag a ewyllyſiom i Dynion wneuthur i ninnau*, Marc vii. 12. hynny yw, i ddelio â phob Dŷn yn y fath fodd a phe baem wedi newid Perſonau ag ef, a phe bae efe yn ein Lle ni, a ninnau yn ei Le yntef. Ac yn neilldoul y mae'r Efengyl yn gorchymmyn i ni, fod yn *ddiniweid fel y Colommennod*, yn gyſtal ag *yn gall fel y Seirph*,

Mat.

Mat. x. 16. *i ymddwyn yn y Byd mewn Symlrwydd a Phurdeb duwiol*, 2 Cor. i. 12. *i fod â'n Hymarweddiad yn oneſt yn y Byd*, 1 Pedr ii. 12. *na ddywedom Gelwydd wrth eu gilydd*, Col. iii. 9. *na orthrymmom ac na thwyllom ein Brawd mewn dim*, 1 Theſ. iv. 6. Yſtyr hyn i gŷd ydyw, i'n rhwymo ni i fod yn unjawn ac yn ddiragrith jawn ymhob peth a fom yn broffeſu ac yn delio â Dynion ynddo, ac na bo i ni roi Cennad i ni ein hunain i wneuthur un Weithred na bo Cyfreithiau Cyfiawnder a Phurdeb yn ganmol; i feſur ein Geiriau wrth ein Meddwl, a'n Meddwl, cyn belled ag y gallom, yn ôl Gwirionedd Pethau; i gadw Cyfeillach â Dynion gyd ag Wyneb agored ac yn rhwyddlân, a chelu a dieithro ein Meddwl mor lleied ag ſydd boſſibl a chall i wneuthur, o yſtyried ym mha fath Fŷd twyllodrus drwg ei Natur yr ydym yn byw; i fod y Peth ydym yn ymddangos, ac na bo i ni baintio Meddwl drwg â Gwên ar ein Hwynebau, a Lliwiau têg; i hyſbyſu ein Hamcanion, a dadguddio ein Calonnau, a chyn belled ag y mae Callineb diniweid yn rhoi lle, i droi'r Wyneb ſy mewn i ni i maes i bawb ag ydym yn cadw Cyfeillach â hwynt; i dalu i bob un y Peth ſy ddyledus iddo, ac na threiſiom Gyfiawnder Dynion eraill, p'un a fo hynny eu Bywyd neu eu Rhydd-did, eu Henw da neu eu Moddion: mewn gair, i bwyſo i'n Cym'dogion ac i ni ein hunain yn yr un Glorian, a gwneuthur iddynt hwy pa beth bynnag allem ni gyd â Rheſwm ddymuno iddynt hwy wneuthur i ni, pe baem ni yn eu Perſonau a'u Hamgylchiadau hwynt. Trwy ymarfer y Rheolau rhagorol hyn, ein Meddwl bob yn ychydig a gaiff ei wellhâu a'i buro oddi wrth bob Tueddiad i Dwyll ac Anghyfiawnder; ac yna, pan elom oddi ymma i Dragywyddoldeb, nyni a ddugwn gyd â ni yno y fath Feddwl uniawn ac oneſt, y fath Blainder têg, a Thymmer gyfiawn, ag a'n cymhwyſo ac a'n tueddo ni yn fuan i Gymdeithas y rhai cyfiawn wedi eu perffeithio, y rhai pan welont ni wedi uno â hwynt eiſoes mewn Gogwyddiad a Natur, a'n derbyniant yn llawen i'w Cymmundeb bendigedig. O! y Cyſlwr gwynfydedig y byddwn ni ynddo, pan y bom wedi ein dioſg o bob Partiaeth a Chwant anghyfiawn, o bob Twyll a Thymmer ddichell-

gar, y caffom ein derbyn i Genedl o Bobl unjawn a chyf-jawn, lle y mae gan bob un ei Orſedd a'i Drigfan neilldu-ol ei hun o Ogoniant, ac mor berffaith foddlon iddi, nad yw efe byth yn cybyddu yr hyn y mae arall yn fwynhâu, fel y mae pob un yn meddiannu ei Eiddo ei hun heb y Drwg-dŷb lleiaf o gael ei fwrw allan gan Gymmydog ſydd yn gyfrwyſach neu yn alluoccach; lle y mae ganddynt berffaith Sicrwydd o Unjawndeb eu gilydd, ac yn ymgyfeillachu ynghŷd yn agored jawn a chyd â'r Rhydd-did mwyaf; ac yn eu holl Jaith, pa beth bynnag a fo hi, y maent yn darllen eu Calonnau, ac yn troſglwyddo eu Hamcanion i'w gilydd; lle y mae eu Heneidiau yn cyd-ymddiddan Wyneb yn Wyneb, ac yn rhwydd yn cyfrannu eu Cyfrinach i'w gilydd heb y Dieithdra na'r Rhagrith lleiaf; fel nad oes yn eu holl Gymdeithas ddim o'r fath beth a Dirgelwch, neu ddim yn guddiedig, ond y maent i gŷd yn Gyfeillion monweſol i'w gilydd, ac y mae gan bob un Ffeneſtr i Ddwyfron pob un! O Dduw Bendigedig! pa fath Gyfeillach tra dedwydd y rhaid i'r fath Eneidiau cyfjawn a'r rhai'n fwynhâu gyd â'u gilydd, o Gymdeithas pa rai yr erlidier yn dragywydd bob Twyll a Ffalſter, a Thrais a Chamwedd! Can's tra maent yn byw ynghŷd fel y maent yn yr Ymarfer parhâus o Gyfiawnder perffaith ac Unjawndeb, ni all fod ganddynt un Amcan yn erbyn eu gilydd, ac ni allant ddrwg-dybio eu gilydd; ac felly, yn ganlynol, rhaid iddynt gyd-ymddiddan ynghŷd gyd â Diogelwch a Rhydd-did anfeidrol. A chan fod pawb o honynt fel hyn yn llwyr ddiberygl ym Mhurdeb a Chyfjawnder eu gilydd; y mae pob un yn mwynhâu ei Le cymmwys a'i Râdd o Ogoniant, heb Ofn neu Aflonyddwch, ac yn rhwydd yn cyfrannu ei feddyliau doeth a rhagorol i bob un, heb ddim Dieithdra neu Gadwraeth. Fel hyn y mae tros yr holl Nefoedd Rhydd-did Cyfeillach tra pherffaith ymyſg y Bobl gyfiawn ag ſydd yn preſwylio yno, ac y mae pob un yn Gymmydog i bob un, ac y mae Cymmydog pob un fel ef ei hun. Can's yn eu holl Negeſeuon a'u Cyd-ſafnach â'u gilydd, y maent yn newid Perſonau y naill â'r llall; ac nid oes un yn gwneuthur y peth hwnnw i arall, na buaſai efe yn llawen yn wneuthur iddo

iddo ei hun yn yr un Cyflwr ac Amgylchiadau. Fel nad yw boſſibl i un o honynt oll flino, o herwydd fod pob un yn cael delio ag ef yn gymmwys fel y chwennychai, yn dra thêg, yn dra chyfiawn a ffyddlon. Ac o'r Achos hon ni all fod dim Grwgnach yn eu plith hwynt, dim Huſtyngau, cnoi o'r tu cefn, neu gam-ddarlunio Pethau yn faleiſus; o herwydd fod pob un yn hoffi y Peth y mae pob un yn wneuthur, ac felly y maent i gŷd yn berffaith foddlon i'w gilydd. Ac felly y gwelwch fod holl Gymdeithas y Nefoedd yn cael eu gwneuthur yn berffaith happus yn yr Ymarfer o berffaith Gyfiawnder ac Unjawndeb.

III. Fel yr ydym yn Greaduriaid rheſymmol mewn perthynas â'u gilydd, yr ydym yn rhwym i ymddwyn ein hunain yn heddychlawn yn ein hamryw Gyflwrau a'n Perthynaſau. Can's gan nad yw Cymdeithas ddim ond Lliaws wedi eu huno ynghŷd, y mae yn anhepgorol angenrheidiol tu ag at gynnal ei Hundeb, i bob Aelod neillduol o honi ymddwyn ei hun yn heddychol tu ag at bob un yn y Râdd a'r Drefn honno ymha un y goſodwyd ef. O herwydd, megis y mae Jechyd Cyrph naturiol yn ſefyll ar Gynghanedd a Chyttundeb eu Rhannau, felly y mae Llwyddiant Cymdeithaſau. Can's Heddwch a Chyttundeb yn eu myſg eu hunain ydyw'r Enaid ag ſydd yn rhoddi Bywyd i Gymdeithas, ac yn ei huno ynghŷd, ac yn cadw ei Rhannau rhag gwaſgaru a myned yn chwilfriw; yr hyn ni's gall dim ei rwyſtro ond Grym a Thrais, pan y maent unwaith wedi torri i Ymranniadau ac Anghydfod. Mor wir ydyw'r hyn a ddywedodd ein Jachawdwr; *Teyrnas wedi ymrannu yn ei herbyn ei hun, ni ddichon ſefyll.* Can's heblaw fod Gwahaniad yn gwanhâu Grym Cymdeithas, yr hon, fel Afon grêf wedi ei rhannu i amryw Nentydd, ſydd yn rhedeg gyd â llai o Nerth o lawer, ac a rydier lawer yn hawſach; can's y mae'r amryw Derfyſgoedd ag ſydd ynddi, fel yr amryw Genhedloedd mewn Byddin a fo mewn Cyd-fwriad, y rhai, er eu bod oll wedi eu huno yn un Corph, ſydd ganddynt amryw Fanteiſion ac Amcanion gwrthwyneb, y rhai ſydd yn rhannu eu Cynghorion, ac yn hau Eiddigedd yn eu plith hwynt, ac felly yn eu gwneuthur nid yn unig yn llai eu Gallu i wrth-

ſefyll

ſefyll Grym Gelyn unfryd, ond hefyd yn llai eu Gwllys i gynnorthwyo eu gilydd; heblaw hyn, meddaf, y mae Terfyſg ac Anghydfod yn naturiol yn gwahanu ac yn neilldu o Cymdeithas, fel y maent yn dattod Rhwymyn Heddwch yr hon ſydd yn ei dal ynghŷd. Can's nid yw Cymdeithas heb Heddwch ond Corph caſgledig, yr hwn y mae ei Rannau yn gorwedd ynghŷd mewn Pentwr anhrefnus, ond heb na Chymhalau na Gwthi i'w ſicrhâu hwynt wrth eu gilydd; o eiſiau pa rai, yn lle cynnorthwyo eu gilydd, nid ydynt ond llwytho a gorthrymmu eu gilydd, yr hyn ſydd raid iddo rannu eu Hewyllyſiau a'u Bûdd; a phan y gwnaer hynny, nid oes dim ond Grym oddi allan yn eu rhwyſtro hwynt i wahanu a neillduo eu Perſonau. Ar y Cyfrif hyn, gan hynny, y mae pob Dŷn yn rhwym, fel y mae efe yn Aelod o Gymdeithas ddynol, i ymddwyn ei hun yn heddychol â phob Dŷn; o herwydd heb hyn y rhaid iddo ef ei wneuthur ei hun yn Niweid ac yn Blâ cyhoeddus i eraill. Can's cyhyd ag y bo efe o Yſbryd aflonydd a therfyſgus, yn lle bod yn Gymmorth, rhaid iddo fod yn Afiechyd i bob Cyfundeb ag y bo efe yn Aelod o honi: a phe bae pawb o'r rhai'ny â pha rai y mae efe wedi ymgyſſylldu o'i Natur a'i Yſbryd ef, byddai well iddynt eu gŷd i fyw ar neilldu yn y Cyflwr mwyaf anial, nâ pharhâu ynghŷd mewn Cymdeithas; o herwydd yn lle helpu a chynnorthwyo, hwy a fyddent yn ſiwr o fod yn waſtad yn blino ac yn plago eu gilydd.

Os awn, gan hynny, i'r Bŷd arall â Thymmer aflonydd ymryſongar, fe fydd ynnom trwy hynny Dueddiad a Pharotoad tu ag at y Gymdeithas fwyaf truenus, ſef, Cymdeithas yr Ellyllon terfyſgus hynny na's gallent fod yn llonydd hyd yn oed yn y Nefoedd ei hun, ond a gyſodaſant Anghydfod o ſiaen Gorſeddfaingc Duw, ac am wneuthur felly a yrrwyd oddi yno, ac a ddamniwyd i gadw Cwmpeini eu gilydd mewn Trueni ac Anobaith diddiwedd. Gan fod Eneidiau Dynion gan hynny, yn ôl Cyfreithiau y Cyflwr anweledig, yn waſtad yn cael eu Rhan yng Nghymdeithas yr Yſbrydion hynny i ba rai y maent yn fwyaf cyffelyb yn eu Natur a'u Tymmer, rhaid i ni ddiſgwyl

os awn i Dragywyddoldeb â Meddyliau terfyſgus ac ymryſongar, i gael ein taflu i Gymdeithas Diafliaid ac Yſbrydion damnedig, â pha rai yr ydym eiſoes wedi ymgyflylldu trwy fod yn gyfrannog o'r un Natur. Ac och! pa fath Beth ofnadwy raid i hyn fod, i orfod treulio Tragywyddoldeb gyd â'r fath Gwmpeini grefynus! Yn wir mi debygwn mai'r Peth mwyaf erchyll ac echrydus ag allaf fi dunio yn fy Meddwl fy hun, ydyw, gweled Lliaws o Yſbrydion cynhennus, ag a fo yn chwyrnu ar eu gilydd, wedi eu pentyrru ynghŷd fel cynnifer o Scorpionau a Nadroedd mewn Gwâl, ac yno yn gorfod, o achos Gwenwyn eu Tymmer, i fyw mewn Anghydfod parhâus, a bod yn waſtadol yn chwythu ac yn poeri Gwenwyn ar eu gilydd. Can's er fod Geiriau ein Jachawdwr, ym *Mat.* xii. 25, 26. yn arwyddocâu, nad yw Teyrnas Satan wedi ymrannu, etto nid ydynt i'w dyall yn y fath fodd, a bod dim o'r fath Beth a Heddwch neu Gydfod ymhlith yr Yſbrydion digaſog hynny; can's y mae'n amhoſſibl meddwl hynny: nag ê, yn ddiammau hwy a ymrannent yn dragywydd pe gallent, gan eu bod hwy y fath Blâau parhâus i'w gilydd, ac a dybient yn Ddedwyddwch mawr dros ben iddynt gael eu cau i fynu i gŷd wrthynt eu hunain mewn Llochefau neillduol, lle na chaent byth weled na chlywed y naill y llall mwyach; ond gan eu bod wedi eu cadwyno ynghŷd fel y maent gan Dynghedfen fel yr Adamant, yr hon ni's gallant mo'i gwrthſefyll, y maent yn cyttuno yn hyn, ac yn hyn yn unig, i wrth'nebu pob Amcanion da, a gwneuthur cymmaint byth o Ddrwg ag allont. Ond am bob Maſnach arall ag fydd rhyngddynt, y maent yn waſtadol yn derfyſgus, ac yn byw mewn Ymrafael tragywyddol â'u gilydd. Fel y mae eu Cymdeithas hwy yn gyffelyb i'r Anghenfil hwnnw *Scylla*, am yr hwn y ſonia'r Beirdd, Aelodau ifaf yr hwn oeddent Gwmpeini o Gŵn yn waſtadol yn chwyrnu ac yn ymgynhennu â'u gilydd, ac etto oeddent yn anwahanol y naill oddi wrth y llall, gan eu bod oll yn Rhannau o'r un Sylwedd.

O herwydd pa ham, gan mai dymma fydd Tynghedfen ſicr pob Enaid terfyſgus ac ymryſongar, cael ei uno gan Rwymau diddattod â'r Gymdeithas druenus hon, y mae

ein

ein Crefydd wynfydedig, Diben mawr pa un yw derchafu ein Dedwyddwch, wedi cymmeryd llawer jawn o Ofal i hyfforddi ein Meddyliau mewn Llonyddwch a Heddwch. Can's i hyn y mae'r holl Orchymynion hynny yn perthyn, y rhai ſydd yn gofyn i ni *ddilyn Heddwch â phawb*, Heb. xii. 14. a *bod yn dangnefeddus yn ein plith ein hunain*, 1 Theſ. v. 13. *i ddilyn y Pethau a berthynant i Heddwch*, Rhuf. xiv. 19. *i gadw Undeb yr Ysbryd ynghwlwm Tangnefedd*, Eph. iv. 3. *i ſynied yr un peth, a bod yn heddychol*, 2 Cor. xiii. 11. *ac os yw boſſibl, hyd y mae ynnom, i fod yn heddychlawn â phob Dŷn*, Rhuf. xii. 18. mewn gair, *i graffu ar y rhai ſy yn peri Anghydfod a Rhwyſtrau, a chilio oddi wrthynt*, Rhuf. xvi. 17. a gwneuthur ein Rhan *na byddo ymbleidio yn ein plith; eithr bod o honom wedi ein cyſan-gyſſylltu yn yr un Meddwl, ac yn yr un Farn*, 1 Cor. i. 10. Amcan hyn i gŷd ydyw, ein rhwymo ni i aſtudio ac ymarfer Undeb a Chyd-gordiad, a'n hattal ni trwy y Rhwymau caethaf oddi wrth bob Ymddugiad rhwygiadus, terfyſgus, ac ymryſongar, yn y Cymdeithaſau ſanctaidd neu wledig hynny o ba rai yr ydym ni yn Aelodau. Ac oni bydd i ni ymroi yn ddiragrith i gyflawni y Rhwymedigaethau hyn, nad pa fodd bynnag y gallom ni gyfyngu pob Duwioldeb i'n Plaid ein hunain, a gwneuthur Seintiau o'u gilydd, yr ydym yn Saint o Natur gwbl-wahanol oddi wrth y rhai Bendigedig oddi uchod, ac yn cael ein gweithredu gan Yſbryd terfyſgus y Diawl, Gorchwyl pa un ydyw, ennyn Ymranniadau, ac Aflonyddwch, a Therfyſg, i ba le bynnag y delo. Hyn gan hynny raid fod ein Gofal mawr ni, os ydym yn chwennych myned i'r Nefoedd; i ddiwreiddio allan o'n Tymherau bob Tueddiad i Gynnen ac Anghydfod, a bod o Yſbryd llonydd a heddychol, tawel a llariaidd; ac nid yn unig i ochelyd pob Ymryſonau a Chynhennau afreidiol ein hunain, ond cyn belled ag y mae ynnom, i fod yn Dangnefeddwyr rhwng eraill, ac i gynnal i fynu Undeb cyfeillgar ymhlith ein Cyd-aelodau. Ac os byddwn mor aflwyddiannus, trwy Freuolder a Gwendid dynol, trwy ein Hanwybodaeth ein hunain, neu Liwiau têg Twyllwyr, trwy fod Elw y Bŷd hwn yn cael y Llaw drechaf arnom, neu trwy gael ein dwyn i fyny mewn

newn gau Egwyddorion, a chael yn ddiarwybod ein cam-
rwain i Ymranniadau a Neillduad anghyfraithlawn; etto
eunydd i gadw ein Meddyliau mewn Tymmer barod i
dyſgu, a'n Cluſtiau yn agored i Wirionedd ac Argy-
oeddiad; i fod yn ddymunol i ymheddychu, ac yn ewy-
lyſgar i wrando y Rheſymmau o bob Ochr; a chyn gynted
g y caffom ein hargyhoeddi o'n Camgymmeriad, i edi-
arhâu am ein Hymranniad, ac yn fuan i ddychwelyd at
Undeb a Heddwch.

As os hyn fydd ein Hymarfer feunyddiol a'n Hymrôad,
e fydd i ni bob yn ychydig lunio ein Meddyliau i'r fath
Dymmer heddychol a chyfeillgar, fel pan elom i'r Byd
rall, lle y byddwn wedi cwbl ymddadrys oddi wrth bob
Elw tymhorol, a'n llwyr argyhoeddi o'n holl Ragfarn cy-
eiliornus, fe fydd ein Heneidiau wedi eu cyd-dymheru yn
ffeithiol â Chymdeithas lonydd heddychol y rhai Bendi-
edig; y rhai, gan nad oes ganddynt un Fantais neillduol
'w herlyn, dim Serchiadau pennodol i'w boddhâu, dim
Dibenion neu Amcanion ond ſy gyffredin iddynt oll, yr
yn yw addoli, a dilyn, a charu y Ffynnon ddiffaeledig
onno o'r hon y mae eu holl Ddedwyddwch hwynt yn
rddu, y mae'n amhoſſibl i un o honynt hwy roi un
chos o rwygo neu dorri Cymmundeb. Ac felly y mae'r
obl happus hynny yn byw yn yr Undeb a'r Cydfod mwyaf
erffaith, gan fod yr un Dibenion ganddynt eu gŷd, a
hwedi eu clymmu ynghŷd â Llinynnau eu Calonnau.
an's o herwydd nad oes ganddynt ddim Opiniwnau gwrth-
yneb neu groes Fanteiſion i'w rhannu hwynt, dim ond
wirionedd yn llewyrchu yn eu Meddyliau, dim ond Da-
oni yn teyrnaſu yn eu Gwllyſiau, y mae'n amhoſſibl fod
n Brawd o Ymneillduwr yn eu plith, un na bo yn cyd-
urfio â Chyfraithiau bendigedig eu Cymmundeb; ond
an eu bod yn cyd-gyffylldu fel y maent yn yr un Meddwl
r un Llês, ac yn yr un Amcanion a Serchiadau hedd-
chol, rhaid iddynt rodio law yn llaw ynghŷd mewn *Un-
urfiad* tra pherffaith. Fel os chwennychem fyw yn dra-
ywydd gyd â'r Dynion bendigedig hyn, rhaid i ni yn
wr ymroi i fod o'u Tymmer dawel lonydd hwy; i ddi-
ytho ein Meddyliau, hyd y mae ynnom, o bob Tuedd

cyndyn

cyndyn ac ymryſongar, a dwyn ein Gwllyſiau i'w perffaith ffieiddio hwynt; fel wedi ein cymhwyſo i'w Cymdeithas hwynt, y caffom ein derbyn iddi pan elom ymmaith o'r Bŷd cynhennus hwn. Ac yna pa mor anhraethawl ddedwydd a fyddwn, pan y caffom, â Meddyliau wedi eu cwbl buro oddi wrth bob Cynnen a Chwerwder, ein derbyn i Gwmpeini yr Yſbrydion tawel a llonydd hynny, a chael ein Rhan o'u Cyfeillach melus a hyfryd hwy, ymha un y maent yn rhwydd yn cyfrannu eu Meddyliau i'w gilydd, heb y Taeogrwydd neu'r Traha lleiaf, heb ddim Ymryſon neu gam Ddeongliad, Trwſt neu Ymdrech am Fuddugoliaeth, ac yn dragywydd yn cyd-ymddiddan am ddoeth Bethau'r Nefoedd, a pheunydd yn perffaith gyttuno yn eu Dyall a'u Hewyllyſiau; lle y maent fel cynniſer o Sêr ynghŷd yn cymmyſgu Goleuni i'w gilydd, ac yn heddychol yn cyfrannu Tryſorau eu Gwybodaeth heb yr Ymryſon na'r Dadl lleiaf. Can's er fod rhai o honynt yn ddiammau yn gwybod llawer mwy nag eraill, etto gan nad oes dim Cymmyſgiad o Gyfeiliornad yng Ngwybodaeth neb o honynt, y mae'n amhoſſibl iddynt wrth'nebu neu wrthddywedyd eu gilydd, o herwydd fod pa beth bynnag ſydd wir yn cyttuno â phob peth arall ſydd wir. A chwedi eu huno yn llyn mewn Meddwl a Barn, y maent yn rhwydd yn cyfrannu eu Meddyliau heb byth ymddadleu Ymadroddion eu gilydd, yr hyn ſydd yn gwneuthur yn amhoſſibl iddynt fyth ymryſon neu anghyttuno. Fel y mae eu holl Gymmundeb yn berffaith Gyd-gordiad Eneidiau; lle nad oes dim o'r fath Beth a Rhwygiad neu Ymranniad, a chablu eu gilydd yn greulon, neu roi Enwau celyd i'w gilydd, neu felldithio eu gilydd; ond mewn Meddwl a Chalon y maent oll mor berffaith yn un, a phe baent i gŷd wedi eu bywioccâu â'r un a'r unrhyw Enaid. Ac fel hyn y maent yn byw yn anhraethawl ddedwydd yn yr Ymarfer o Heddwch tragywyddol â'u gilydd, a'u holl Gyfeillach â'u gilydd ſydd yn Gynghanedd perffaith heb ddim Anghyſſondeb.

IV. Fel yr ydym yn Greaduriaid rheſymmol mewn Perthynas â'u gilydd, yr ydym yn rhwym gyd â Gwyldeb i ufuddhâu i'n Huwch-râdd, ac yn llawen i ymddaroſtwng i'r

i'n Hîs-râdd, yn yr amryw Gymdeithaſau hynny o ba rai yr ydym yn Aelodau. Yr wyf yn goſod y ddau Ben hyn ynghŷd, o herwydd eu bod yn perthyn i'w gilydd; ac, fel y cyfryw, yn eglurhâu ac yn rhoi Goleuni i'w gilydd. Yn awr, gan fod yn angenrheidiol at Drefn a Diben pob Cymdeithaſau, i'w Haelodau gael eu gwahanaethu i Reſtri a Sefyllfaoedd uwch ac îs; fod gan rai Awdurdod i orchymmyn, a bod eraill yn rhwym i ufuddhâu, fel, yn y Ffordd drefnus hon o uwch ac îs, y gallo pob un yn eu hamryw Sefyllfaoedd fod yn rhwym i helpu a chynnorthwyo eu gilydd, a phob un yn ôl ei Allu i wneuthur y cwbl ag ſydd ynddo tu ag at Ddaioni yr holl Gymdeithas; yr hyn ni's gellir ei ddiſgwyl mewn Cyflwr cyd-râdd (ymha un y byddai pob Dŷn yn Arglwydd hollawl arno ei hun) os yſtyriwn y gwahanol Dueddiadau a'r Manteiſion ſydd yn gweithio ar Ddynion: gan fod hyn, meddaf, ar y Cyfrif hyn yn angenrheidiol, y mae mor angenrheidiol, ar yr un Cyfrif, iddynt gyflawni y Swyddau hynny i'w gilydd, y rhai ſydd yn perthyn i'w hamryw Drefn a'u Sefyllfaoedd. I Wŷr o Uwch-râdd edrych arnynt eu hunain fel rhai mewn Ymddiried dros y Daioni cyhoeddus, y rhai a roddes Duw Awdurdod iddynt ar eraill, nid i dra-arglwyddiaethu, a boddhâu eu Hewyllyſiau trawſion eu hunain, ond i barotoi dros y Llês cyffredin, a'i ddiogelu; ac yn ganlynol, i gymmeryd Gofal na bo iddynt lygru eu Gallu trwy eu Cybydd-dod neu eu Traha neillduol eu hunain, ond iddynt ei oſod ar waith er y Daioni cyffredin, a Llês eu Deiliaid, a'r rhai ſydd îs eu llaw hwynt; iddynt fod yn barod i wneuthur pob Swyddau da iddynt, i doſturio wrth eu Gwendidau, i ymgynghori pa beth ſy gymhwyſaf iddynt, a chyttuno â'u holl Erfyniau rheſymmol; gan yſtyried, mai i'r Diben hwn y cawſant eu Hawdurdod oddi wrth Dduw, yr hwn yw Ffynnon Awdurdod, ac i'r hwn y rhaid iddynt roddi Cyfrif am y Defnydd da neu'r Defnydd drwg a wnelont o honi. Ac felly am y rhai'ny o Is-râdd, y mae mor angenrheidiol, er y Llês cyffredin, iddynt hwythau gyflawni eu Rhan tu ag at y rhai'ny ag ſydd uwch eu llaw hwynt; iddynt ymddwyn tu ag attynt gyd â'r holl

Ufudd-

Ufudd-dod a'r Gweddeidd-dra, y Parch a'r Ymoſtyng-aid, ag y mae eu Lle a'u Hawdurdod yn alw am dano; iddynt eu parchu fel Swyddwyr dan Dduw, a chyfeirio attynt megis at Ddynion ſanctaidd, a rhoddi Ufudd-dod llawen i'r Awdurdod duwiol hwnnw ag ſydd wedi ei argraphu ar eu holl Orchymynion a'u Cyfreithiau unjawn; gan yſtyried eu bod hwynt, yn eu hamryw Raddau, yn ſefyll yn lle Penllywydd mawr y Byd, i'r hwn y mae Ymoſtyngiad llwyr-gwbl yn ddyledus oddi wrthym; ac yn ganlynol, y dylid ufuddhâu ac ymoſtwng iddynt ym mhob peth nad yw Duw yn eglur wedi ei wahardd. Can's y mae yn anhepgorol angenrheidiol at Lês pob Cymdeithas, i Ddeiliaid a Llywodraethwyr ymddwyn yn llyn tu ag at eu gilydd. Can's tra mae rhai o Is-râdd mewn un Gymdeithas yn wrthnyſig yn gwrthod ufuddhâu i Ewyllys eu Huwch-râdd, a'r rhai o Uwch-râdd i ymoſtwng at Lês cyffredin eu Hîs-râdd, y maent yn ymryſon ynghyd naill ai am Anhrefn neu Draws-lywodraeth; ac os y rhai o Uwch-râdd a gânt y trechaf, Traws-lywodraeth a ganlyn; os y rhai o Is-râdd, Anhrefn: a phob un o'r rhai'n ſydd niweidiol jawn, nid yn unig i'r Gymdeithas yn gyffredinol, ond i bob un o'r Pleidiau ſydd yn ymryſon. Can's os Anhrefn a ganlyn, y mae nid yn unig y Blaid uwchaf yn dioddef, trwy gael ei fwrw o'i Awdurdod, ond y Blaid îs hefyd, trwy golli ei Amddiffynfa, a bod yn agored i Drais a Thrawſder eu gilydd; ac os Traws-lywodraeth a ganlyn, y mae nid yn unig y Blaid îs yn dioddef, trwy orfod arni roi Ufudd-dod caled ac aneſmwyth, ond y Blaid uwch hefyd, trwy gael ei blino yn waſtadol pa fodd i gymmell a pheri'r Ufudd-dod hwnnw: ac fel hyn y mae'r ddwy Blaid yn dioddef, dan y Ffrwythau drwg ſydd yn tarddu oddi wrth Gam-ymddugiad eu gilydd. Fel y mae yn angenrhaid, tu ag at wneuthur ein Cymdeithas yn happus, nad p'un ai o uwch neu îs-râdd y bom, i ni fod o Dymmer lariaidd, yn ildo, ac yn hawdd ein trîn, fel trwy hynny, ymha le bynnag y bom, y gallom blygu bob ffordd, i Ymoſtyngiad têg, neu gyfiawn Ufudd-dod. Can's, tra fom ni o Dymherau gwrthnyſig cyndyn, ac anhywaeth, nid ydym gymmwys i fod yn

Uwch-

Uwch-râdd nac yn Is-râdd; ond rhaid i ni fod yn Blâau ac yn Flinder i'n Cymdeithas, ymha Le neu Drefn bynnag y gofoder ni. Ac, er na bo gennym yn waſtad yn y Bywyd hwn y fath Brofiad teimladwy o Ddrwg y Dymmer wenwynig hon, o herwydd yn awr fod y Tymherau mwy llariaidd a llwyddiannus y rhai ſydd gyd â hi yn cael Ffrwyth gwrthwyneb arni; etto, pan elom i Dragywyddoldeb, nyni a gawn ein Rhan gyd â'r fath Gymdeithas o Yſbrydion ag ſydd i gŷd trwyddynt o'r un Naturiaeth a Thymmer a ni ein hunain. Can's, megis y mae yng Nghymdeithas y rhai Bendigedig Gyffylldiad o bob Rhinwedd ymhob Aelod; felly y mae Cyſſylldiad o bob Drwg yng Nghymdeithas y rhai annuwiol: y rhai ydynt nid yn unig yn cadw y Beiau hynny yn eu Natur ag oeddent ymma dueddol iddynt, ond ydynt hefyd yn cael eu cyffrôi yn waſtadol i bob Beiau eraill ag allont wneuthur, trwy eu Gelyniaeth anheddychol yn erbyn Duw; yr hwn, yn ei Cyflwr truenus hwnnw, ſydd yn cael ei ffymigo bron ydd trwy eu Hanobaith o gael cymmodi byth ag ef. Fel nad pa Dymmer ddrwg bynnag a ddugom gyd â ni i Dragywyddoldeb, nyni a fyddwn ſicr o gyfarfod â hi ymhob Aelod neillduol o Gymdeithas y rhai Annuwiol; ac yn ganlynol, os dugwn gyd â ni yno Dymmer gyndyn a gwrthnyſig, na oddefo ufuddhâu nag ymoſtwng, ni fyddwn ſicr o weled yr un Tueddiad yn rheoli trwy holl Gymdeithas yr Annuwiolion. Ac yna, wedi ein huno yn dragywydd â hwynt (fel y rhaid i ni ddiſgwyl, os ydym yn berthyn iddynt wrth Natur) ymha Gyflwr truenus y byddwn ni, pan y byddo pob Aelod o'n Cymdeithas o'r un Dymmer ddigyfeillach â ni ein hunain, ac na chaffom neb i gyttuno â ni, neu a geiſio rywiogi a mwyneiddio ein Cyndynrwydd; pan y bo ein holl Gymdeithas wedi ei gwneuthur i fynu o Liaws o Yſbrydion tyn a gwrthnyſig, a ymoſtyngant i'w gilydd, ac na chyd-ddugant â'u gilydd, ond pob un a fyn ei Ewyllys ar y llall, hyd ag y gallo efe ei gymmell a'i dreiſio ef; pan y mae y rhai ſydd hewn Gallu ac Awdurdod i gŷd yn rheoli ag Ewyllys greulon a didrugaredd, ac na ymoſtyngant i ddim a fo er lles i'w Deiliaid; a'r rhai îs yn ufuddhâu â Chalon gyn-

dyn a gwrthnyfig, ac na fynnant wneuthur dîm ond a orfydd arnynt, ac a berir iddynt, a thrwy Allu ac Arfwyd yn unig y maent yn rheoli, ac yn cael eu rheoli: mewn gair, pan y maent i gŷd yn casâu ac yn ffieiddio eu gilydd, a'r rhai fydd mewn Awdurdod ydynt Liaws o Gythreulaid creulon a thrahâus, nacl ydynt yn gorchymmyn dim ond Gofidiau a Phlâau, a'r rhai fydd yn ufuddhâu ydynt Dorf o Gaeth-weifion tacog ac anhywaeth, na ymoftyngant i ddim ond a berir iddynt wneuthur o'u Hanfodd trwy Blâau; fel mai Plâau a Gofidiau ydyw Defnydd ac Annogaeth eu holl Ufudd-dod a'u Hymoftyngiad: pan mai hyn meddaf, yw Cyflwr eu Cymdeithas hwy â'u gilydd, pa fodd y mae'n boffibl na byddant oll mewn Cyflwr grefynas a thruenus jawn? Can's, lle gwneir y cwbl trwy Rym a Chymhelliad (fel yn ddiammau y gwneir pob peth ymyfg y fath Dorf o Yfbrydion gwrthnyfig, anufudd) rhaid i ni fwrw fod pob un yno, cyn belled ag y gallo efe, yn Ellyll ac yn Ddiafol i bob un; a'r rhai fydd yn gwthio ydynt fel cynnifer o Ormefdeyrn creulon, yn waftad yn cael eu blino a'u llidio gan Wrthwynebiadau yftyfnig, a'r rhai fydd yn cael eu gwthio fel cynnifer o Gaeth-weifion cyndyn yn waftadol yn cael eu curo i Ufudd-dod anioddefol, a thrwy an Poen yn gorfod arnynt ymoftwng i Boen arall; ac fel hyn y mae eu holl Gymdeithas hwynt â'u gilydd yn Gyd-faſnach parhâus o Lidiowgrwydd ac Angerdd i'w gilydd.

A chan mai dymma Dynghedfen druenus a Diwedd Tymher gyndyn, yftyfnig, ac anhywaeth, y mae'r Efengyl Diben mawr pa un yw ein cyfarwyddo ni i Ddedwyddwch yn ddyfal yn ceifio ei diwreiddio hi allan o'n Meddyliau a phlannu yn ei Lle hi Gynneddf lariaidd, ufudd, a goftyngedig. Can's i hyn y perthyn yr holl Orchymynion Efangylaidd hynny, ag fydd yn gofyn i ni *ymwneuthur fel rhai gweiniaid megis yn wan, fel yr ennillem bawyt*, 1 Cor. ix. 22. *i gynnal eu Gwendid bwynt*, Rhuf. xv. 1. *a'u cynnal a bod yn ymarhôus wrthynt*, 1 Thef. v. 14. Ac ar y llaw arall, *i fod yn oftyngedig i'r Hemiriaid*, 1 Pedr v. 5. *ufuddhâu i'n Blaenoriaid*, Heb. xiii. 17. *i'n Swyddogion ein Rhieni, a'n Meiftri; i ymddaroftwng i Dywyfogaethau*

a phei

a pheidio â chablu Urddas; *i anrhydeddu Brenhinoedd*, *ac ymoſtwng i'w Cyfreithiau*, *ac i'n Llywiawdwyr*, 1 Pedr ii. 13, 14. mewn gair, *i berchi pawb fel y maent yn haeddu*, 1 Pedr ii. 17. a *gweneud Cyfrif o Ddynion da*, Phil. ii. 29. a *thrwy roddi Parch yn blaenori eu gilydd*, Rhuf. xii. 10. Yſtyr hyn i gŷd ydyw, ein rhwymo ni i drîn pawb fel y mae'n weddus i ni, yn y Lle a'r Sefyllfa y'n goſodwyd; i anrhydeddu pawb ag ſydd uwch ein llaw, naill ai mewn Lle neu Rinwedd; i roddi'r fath Barch gweddus i'w Barn, y fath Fri i'w Perſonau, y fath Anrhydedd i'w Rhinweddau, ac Ufudd-dod i'w Dymuniadau neu eu Gorchymyniòn, ag y mae Grâdd neu Ryw eu Goruchafiaeth yn oſyn; i ymoſtwng i'r rhai'ny ag ſydd îs ein llaw, a'u trîn gyd â'r holl Weddeidd-dra a'r Callineb; y Mwynder a'r Caredigrwydd, ag y mae Gwahaniaeth ein Lle yn genhadu; yſtyried yr hyn ſydd fwyaf cyfaddas iddynt, ac i wneuthur pob Swyddau da iddynt, a thoſturio a chyd-ddwyn â'u Gwendidau, cyn belled ag y gellir eu diodde heb hwynt yn gall ac yn ddiberygl. Trwy'r Ymarfer gwaſtadol o hyn, ein Meddyliau bob yn ychydig a jachêir o'r holl Wrthnyſigrwydd a'r Taeogrwydd hwnnw, ag ſydd yn ein anhrefnu at amryw Ddyledſwyddau ein Perthynaſau; o'r holl Ddibriſdod a'r Hunan hwnnw ag ſydd yn ein gwneuthur yn anewyllyſgar i gyflawni Dyledſwydd briodol y rhai ſydd o uwch Grâdd, ac o'r holl Hunan-dyb dda honno a'r Gwrth'nebiad i ufuddhâu, ag ſydd yn ein rhwyſtro i gyflawni Dyledſwydd y rhai'ny ag ſydd o îs Grâdd. A chwedi i'n Hewyllyſiau unwaith gael eu gweithio i fod yn Ewyllyſgarwch parodol, naill ai i ufuddhâu neu i ymoſtwng, y mae ein Meddwl wedi ei barotoi ymlaen-llaw i fyw dan Lywodraeth y Nefoedd, lle yn ddiammau, dan Arduw y Penllywydd Goruchaf, y mae Graddau amrîrif o ſanti ſy uwch a rhai ſy îs nâ'u gilydd. Can's fe ddywedir, fod rhai yn medi yn *brin*, a rhai yn *helaeth*, rhai yn Llywodraethwyr ar *bum* Dinas, a rhai ar *ddeg*, rhai y *lleiaf*, a rhai y *mwyaf*, yn Nheyrnas Nefoedd: yr hyn i gŷd ſydd yn arwyddocâu, fod yn y Cyflwr bendigedig hwnnw lawer mwy o Raddau o Ogoniant a Derchafiaeth. Can's yn wir mae all fod yn amgen yn Natur y Peth; o herwydd, gan fod

ein Dedwyddwch yn ſefyll ym Mherffeithrwydd ein Natur, po fwyaf neu po leiaf perffaith a ſom, mwy neu lai dedwydd a raid i ni fod: can's y mae pob Grâdd o Ddaioni a gyrhaeddom ymhellach, yn helaethu ac yn ehengu ein Heneidiau i dderbyn Graddau ſo fwy o Ogoniant a Gwynfyd. Ac yn ganlynol, pan ddelom i'r Nefoedd, yr hon yw Elfen Gwynfyd, nyni a gawn i gŷd ein llanw yn ôl y Meſur ag allom gynnwys, ac yfed i mewn fwy neu lai o'i Hafonydd o Hyfrydwch, fel yr ydym yn fwy neu'n llai wedi ein helaethu i'w cynnwys hwynt. Fel megis ag yr ydym ni yn cynnyddu fwy fwy mewn gwir Ddaioni, yr ydym yn naturiol yn gwneuthur fwy fwy o Le yn ein Heneidiau i'r Nefoedd; yr hon ſydd yn waſtadol yn llanw Lleſtri Gogoniant o bob Maint, ac yn tywallt i mewn Ddedwyddwch arnynt, nes bônt i gŷd yn llifo droſtynt, ac na's gallant gynnwys rhagor. Gan eu bod hwy oll ynte wedi eu cwbl-roddi eu hunain i gymmeryd eu cyfarwyddo gan jawn Reſwm, nid oes ammau nad ydynt, yn eu gwahanol Raddau o Ogoniant a Mawredd, yn eu hymddwyn eu hunain tu ag at eu gilydd fel y mae fwyaf gweddus a chymmwys; a chan fod dan Dduw, yr hwn yw Pen a Brenin ou Cymdeithas hwy, o'r uwchaf hyd yr iſaf, Dreſn gymmwys jawn o Aelodau un yn îs nâ'r llall, y maent bob un yn cyflawni eu Rhan a'u Dyledſwydd nid ag at bob un, yn yr amryw Raddau o Ogoniant y goſodwyd hwynt ynddynt; ac yn ganlynol, y maent yn ufuddhâu ac yn ymoſtwng i'w gilydd, fel y maent o Dreſn uwch neu îs. Fel os dugwn gyd â ni, pan elom oddi yma i Bŷd arall, Duedd Yſbryd goſtyngedig ac iſel, nyni a gawn ein dwyn i fynu a'n cymhwyſo ymlaen-llaw, i fyw dan Lywodraeth ſendigedig y Nefoedd; i ufuddhâu yn llawen i'w Chyfreithiau a'i Defodau hi; ac i roi yr holl Anrhydedd i'r rhai'ny a fo uwch ein llaw, a'r holl Ymoſtyngiad i'r rhai'ny a fo yn îs nâ ni mewn Gogoniant, ag y mae Deddfau'r Wladwriaeth nefol honno yn ofyn; ac o wneuthur hyn y cawn bawb o honom fwynhâu Boddlondeb tra anhraethadwy, a Dedwyddwch. Can's, er fod y Nheyrnas Nefoedd, yn gyſtal ag yn Nheyrnaſoedd y Ddaear, Raddau aneirif o Dderchafiaeth a Mawredd, ac u

Seren yno, yn gyſtal ag ymma, â rhagor rhyngddi a Seren arall mewn Gogoniant; etto mor rhwydd ac mor llon y maent i gŷd yn ymoſtwng ac yn ufuddhâu i'w gilydd, yn eu hamryw wahanol Sefyllfaoedd, fel y maent, yn y Pellder eithaf a'r Graddau mwyaf o Ogoniant oddi wrth eu gilydd, i gŷd yn cadw'r Anwyldra a'r Cyfeillgarwch mwyaf at eu gilydd: ac nid yw y rhai ſydd o uwch Râdd yn cael eu cenſigennu am eu Huwchder, neu eu diyſtyru am fod mor gyfeillgar; na'r rhai'ny ag ſydd o îs Râdd yn cael eu dibriſio am eu Gwaelder, neu eu gorthrymmu o herwydd eu Gwendid. Can's, gan fod pob un, yn y Cyflwr bendigedig hwnnw, yn cael ei foddloni oreu â'r Peth ſy oreu yn gweddu iddo, y mae'n Llawenydd i bob un ei ymddwyn ei hun tu ag at bob un fel y mae'n gweddu oreu i'r Lle a'r Grâdd y mae efe wedi ei oſod ynddo; a'r rhai ſydd uwch ydynt yn ymogoneddu i ymoſtwng i'r rhai ſydd îs eu llaw hwynt, a'r rhai ſydd îs ydynt yn gorfoleddu i ufuddhâu i'r rhai'ny ag ſydd uwch eu llaw hwynt. Ac fel hyn, yn yr holl Wahaniaeth o Ogoniant a Mawredd ag ſydd rhyngddynt, y maent wrth Drefn yn parchu eu Huwch-râdd, ac yn ymoſtwng i'w Hîs-radd, â'r unrhyw Rydd-did a Gorfoledd digymmell; ac felly ydynt yn dra-gywyddol yn cadw Cyfeillach â'u gilydd (er eu holl Bellder o ran Graddau) gyd â'r Rhydd-did mwyaf, a'r Cyfeillgarwch anwylaf.

Ac fel hyn y ceiſiais roddi i chwi Hanes am y Fath gyntaf o Foddion trwy ba rai y mae cyrraedd y Nefoedd, Diben mawr y Criſtion; *ſef*, y rhai nefaf a digyfrwng, y rhai ſydd yn cynnwys yr Ymarfer o'r holl Rinweddau hynny ag ydym dan Rwym tragywyddol iddynt, fel yr ydym yn Greaduriaid rheſymmol mewn Perthynas â Duw, ac â'u gilydd; ac y dangoſais pa fodd y maent oll yn Rhannau hanfodol o'r Fuchedd Gris'nogol, a'r modd y mae'r Nefoedd ei hun yn ſefyll yn y Perffeithrwydd o honynt.

Ac felly, ar y cwbl, y Darluniad goreu ag allaf fi roddi o Gyflwr y Nefoedd ydyw hyn; mai'r Ymarfer tragywyddol, berffaith o'r holl Rinweddau *Dynol*, *Duwiol*, a *Chymdeithaſol* hynny ydyw, y rhai ydym yn anhepgorol ac

yn dragywyddol rwymedig i'w gwneuthur, fel Creadur laid rheſymmol, mewn Perthynas â Duw, a'i holl Greadigaeth rheſymmol. Ac am hynny, gan mai'r unig Fforddnaturiol trwy ba un y gallwn gyrraedd a pherffeithio y Rhinweddau hyn, yw eu defnyddio a'u hymarfer; ſe ganlyn yn angenrheidiol oddi yma, mai'r Ymarfer o honynt yw'r unig Foddion unjawn a digyfrwng i bwrcaſu a mwynhâu y Cyflwr nefol hwnnw.

DOSBARTH. IV.

Lle y cynnygier, tu ag at ddiweddu y Bennod hon, rai Annogaethau *ac* Yſtyriaethau *i berſwadio Dynion i ymarfer y* Rhinweddau nefol *hyn.*

WEDI dangos yn helaeth, yn y Doſbarthiadau o'r blaen, fod yr Ymarfer o'r holl Rinweddau ag ſy gynnwyſedig yn y Rhan nefol o'r Fuchedd Gris'nogol, yn tueddu yn unjawn-gyrch tu ag at y Cyflwr nefol, ac yn naturiol yn tyfu i fynu iddo; mi ddibennaf yn awr y Pen hwn yn fyrr â rhai Annogaethau i berſwadio Dynion i'w hymarfer hwynt. A'r rhai'n a dynnaf,

I. Oddi wrth y modd y maent yn gweddu i'n Cyflwr a'n Perthynas preſennol.

II. Oddi wrth eu Hanrhydedd.

III. Oddi wrth eu Rhydd-did.

IV. Oddi wrth eu Hyfrydwch.

V. Oddi wrth eu Heſmwythder. Ac,

VI. Ac yn olaf, Oddi wrth eu Hangenrheidrwydd.

I. Gan hynny gadewch i ni yſtyried y modd y mae'r Rhinweddau hyn yn gweddu i'n Cyflwr a'n Perthynas preſennol. Can's yn ein Bedydd, ymha un y rhoeſom ni fynu ein Henwau i Griſt, nyni a ddaethom yn Ddiſgyddion ac yn Wyr rhyddion o'r Nefoedd, ac a gawſom ein derbyn i Gyfammod, yr hwn, ar ein gwaith ni yn cyflawni ein Rhan o hono, oedd yn rhoi i ni Deitl i'w holl

Ragor-

Ragorfreintiau adi Rydd-did bendigedig. Fel y darfu i ni yn y Weithred ſanctaiddarbennig honno, pan cawſom ein derbyn i'r Cyfammod Cris'nogol, wneuthur Cyfethrach agos â Phobl ſendigedig y Nefoedd, a dyfod yn *Frodyr* ac yn *Gyd-ddinaſyddion* â hwynt. Can's felly y Dywaid yr Apoſtol wrthym, Eph. ii. 19. *Weithian gan hynny nid ydych chwi rhagach yn Ddieithriaid a Dyfodiaid, ond yn Gyd-ddinaſyddion â'r Saint, ac yn Deulu DUW.* A *Theulu DUW* ſydd yn cynnwys holl Gynnulleidfa'r Saint, p'un ai'n filwriaethus ar y Ddaear, neu yn orfoleddus yn yr Nefoedd. Can's felly, *Eph.* iii. 15. ſe'i gelwir *yn holl Deulu yn y Nefoedd ac ar y Ddaear.* Ac felly yr ydym wedi cyd-ymrwymo â hwynt yn yr un Cyfammod, ſef, yr Cyfammod hwnnw trwy ba un y maent hwy yn dal yn holl Lawenydd a'r Gogoniant y maent yn feddiannu: ac os gwnawn ni fel y gwnaethant hwy, hynny yw, cyflawni Ammodau'r Cyfammod, nyni a fyddwn yn Gyd-drigolion gyd â hwynt yn yr un Gogoniant. Yr ydym trwy Fabwyſiad yn Blant i'r un Tâd â hwynt, Aelodau o'r un Feulu, Cyd-etifeddion o Addewid o'r un Gogoniant, Brodyr o'r un Gyd-frawdoliaeth a Thrêf-fraint: a'r Gwaniaeth rhyngddynt hwy a ninnau yw hyn yn unig; eiſod ni oddi cartref, a hwythau gartref; nyni ar y Lanmma, a hwythau ar y Lan arall i'r *Forddonau*; nyni yn eiſio cyrraedd y *Ganaan* nefol, a hwythau yn y Meddiant honi; i'r hon y mae gennym ni Deitl yn gyſtal â hwythau, a hynny trwy'r un Caniatâd oddi wrth y Perchen Goruchaf. Fel trwy alw ein hunain yn Cris'nogion, yr ydym mewn Geiriau eraill yn galw ein hunain yn *Frodyr*, yn *Gyd-etifeddion* a *Chyd-ddinaſyddion* â Thrigolion bendigedig y Nefoedd. A pheth all weddu yn well i'r fath broffes, nag i ni fyw fel y maent hwy yn gwneuthur, yn Ymarfer parhâus o'r holl Rinweddau nefol hyn? A ha Gywilydd a fydd i ni, yr rhai ydym trwy Broffes yn frodyr iddynt, i beidio â chuſio a charlyn eu Hynddig hwy; i ni, yr rhai ydym ar lawr yn yr un Tŷ a Theulu, roddi ein hunain i fynu i Gnawdolrwydd a Gweithoedd y Cythrael, tra y mae ein Geraint bendigedig oddi chod yn eu groeſawi eu hunain â'r Hyfrydwch nefol

hwnnw ag fydd yn tarddu oddi wrth y perffaith Ymarfer o bob Rhinwedd nefol; i ni fod yn eſgeuluſo, yn digio, ac yn cablu Duw, tra y maent hwy yn myfyrio arno ac yn ei ryfeddu, yn ei garu ac yn ei foliannu, yn ei ganlyn ac yn ufuddhâu iddo; i ni fod yn twyllo ac yn camgolledu, yn cenfigennu ac yn dirmygu, yn maleiſo ac yn ymgynhennu â'u gilydd, tra y maent hwy yn ymgyfeillachu â'u gilydd gyd â'r Rhydd-did a'r Unjawndeb mwyaf, gyd â'r Parch a'r Ymoſtyngiad mwyaf rhwymedig, ac yn yr Undeb agoſaf a'r Cyfeillgarwch anwylaf! Pa Wradwydd brwnt yw ein Bucheddau drwg ni i Ymarweddiad ein Cyd-ddinaſyddion oddi uchod! Can's, tra 'r ydym ni yn proffeſu ein hunain yn Frodyr iddynt, fe fydd y rhai nad ydynt yn dyall gwell yn barod i ddrwg-dybio eu bod hwy yn byw fel yr ydym ni: a pha fodd y temtiai'r fath Ddrwgdyb Bagan oneſt i ymwrthod â'r Nefoedd, fel y gwnaeth Brenin yr *Indiaid*, pan ddywedpwyd wrtho fod yr *Yſbaenwyr* gwaedlyd yn myned yno; a dewis yn hytrach fyned i lawr i'r Uffern dywyllaf, nag i Nefoedd fydd a'r fath Liaws o Bobl gythreulig ynddi? Fel yr ydym, trwy ein Bucheddau annuwiol ac aflan, yn cymmeryd y Ffordd gymmwys i ddyfod â'r Nefoedd ei hun dan Wradwydd, ac i fwrw y fath Gabl ar ei Thrigolion bendigedig, ag allo eu gofod hwynt yn gyfiawn dan Wawd a Chaſineb yr holl Ddynion oneſt hynny nad ydynt yn eu hadnabod hwy yn amgen nâ thrwyddom ni, eu Cyd-ddinaſyddion anheilwng a diryw; a phe gallai'r Yſbrydion bendigedig hynny edrych i lawr oddi ar eu Gorfeddfeingciau o Wynfyd, a gweled y fath Dorf o Gris'nogion greſynus fydd yn honni Carennydd â hwynt, diammau y byddai yn Gywilydd ganddynt y Berthynas, ac y cyfrifent eu bod yn cael Anglod ac Amharch mawr oddi wrtho, ac y dymunent o'u Calonnau i ni naill ai gwadu ein Pechodau, neu ein Bedydd, ac ymwrthod yn gyhoeddus â'u Cyfathrach hwynt, neu fod yn debyccach iddynt yn ein Moeſau. Ac yn wir Cywilydd yn lloſgi ydyw, i ni broffeſu ein hunain yn Gyd-ddinaſyddion â hwynt, heb un Diben arall ond i dynnu Cabl a Gwradwydd arnynt; ac y mae'n Beth i'w ddymuno yn galonnog, fe o ran Parch i'r Nefoedd a'n Brodyr gwyn-

fydedig

ſydedig ſydd yn preſwylio yno, os na fyddwn mor wyſh a chanlyn eu Heſampl, i ni o'r hyn lleiaf fod mor oneſt a gwrthod Carennydd â hwynt, a pheidio honni Perthynas â'u Teulu hwynt, yn unig i beri Cywilydd ac Anglod iddynt.

II. Yſtyriwch Anrhydedd a Mawredd y Fuchedd nefol. Can's, os gallwn farnu am Weithredoedd yn ôl yr Eſamplau oddi wrth ba rai y maent yn cael eu copio, fel yr ydym arferol o wneuthur mewn Pethau eraill, diammau y rhai mwyaf enwog ac anrhydeddus yw y rhai ſydd yn cael eu copio oddi wrth Fucheddau Trigolion gogoneddus y Nefoedd. Can's, heblaw y Lle goruchel o Fawredd i ba un y maent wedi eu derchafu, ſel mai'r Gwŷr Llŷs ydynt a'r Gwaſanaethwyr neſaf at Hollalluog Benllywydd Nef a Daear; Mawredd, yr hwn o gymmaint y mae'n rhagori ar Fawredd y Pennaeth mwyaf yn y Bŷd hwn, o gymmaint a hynny y mae yn rhoi mwy o Awdurdod i Eſamplau y rhai ſydd yn ei wiſgo. Heblaw hyn, meddaf, gan fod eu Heſamplau hwy y Canlyniad a'r Copiau mwyaf perffaith o Fuchedd Duw, y maent trwy hynny hid yn unig yn fwy rhagorol a gogoneddus, ond hefyd y mae ynddynt fwy o Rwym ac Awdurdod. Can's trwy eu dilyn hwy, yr ydym yn dilyn Duw, yr hwn yw y Meſur o bob Perffeithrwydd rheſymmol; a'r hwn, gan ei fod y cyntaf a'r goreu yn yr holl Ryw o Fodau rheſymmol, ydyw y Rheol bennaf o honynt oll. Fel, trwy ganlyn y Bobl wynfydedig oddi uchod, yr ydym yn canlyn y rhei'ny ag ſydd yn eu Lle a'u Sefyllfa yn byw yn yr un Modd ag y mae y Duw Mawr yn gwneuthur yn ei Le a'i Sefyllfa ef, ac yn eu rheoli eu hunain yn ôl yr un Rheſwm diſtrom-medig. Yr ydym yn gwneuthur y peth a wnae Duw ei hun pe bae efe yn ein Lle ni, a'r peth a wnaeth Mâb Duw ei hun pan fu efe yn ein Natur ni; ac nid oes un Gwahaniaeth arall rhwng ei Fywyd ef a'n Bywyd ni, ond ſydd yn angenrheidiol yn tarddu oddi wrth ein gwahanol Gyflwrau a'n Perthynaſau. A pha beth mwy gogoneddus allwn ni wneuthur, nâ byw yn ôl Portreiad eu Bucheddau hwynt, y rhai ſydd yn byw mor gymmwys yn ôl Portreiad Buchedd Duw? Can's, yr Eſampl o Fywyd ag y mae'r Bobl ſendigedig hynny yn oſod i ni, yw Eſampl

Duw ar yr ail law: ei Fywyd tra rheſymmol ef wedi ei gopio allan ydyw, cyn belled ag y gellir gyd â Rheſwm ei ganlyn ef; hynny yw, cyn belled ag y mae'n anrhydeddus, ac yn Ogoniant i Greadur rheſymmol ei ddilyn ef. Can's, yng Nghyflwr Creaduriaid terfynedig, y maent hwy yn byw mewn perffaith Gyd-ffurfiad â'r unrhyw Reſwm anghyfnewidiol yn ôl pa un y mae Duw yn ei lywodraethu ei hun yng Nghyflwr Creawdwr anfeidrol. Fel y mae eu Heſampl hwy yn Ganlyniad mewn Rhyw o'r holl Ragoriaethau neillduol hynny ynddo ef, y rhai a allant ac a ddylent ddilyn; ac y mae yn Ganlyniad yn gyffredinol o'r Gwedduſder tragywyddol hwnnw mewn perthynas i Gyflwrau ac Yſtadau, yr hwn y mae efe yn waſtadol yn gadw yn ei holl Weithredoedd tu ag at ei Greaduriaid. Ac fel y mae eu Heſampl hwy yn Gopi perffaith o Eſampl Duw, felly y mae'n Gopi wedi ei gymhwyſo ymhob peth i ni ei ddefnyddio a'i ganlyn. Can's y mae nid yn unig yn rhoi Darluniad i ni o'r holl Ragoriaethau neillduol hynny ynddo ef ag ſydd i ni i'w canlyn, ond yr holl Ddyledſwyddau neillduol hynny ag y mae'r Gyfraith dragywyddol honno o Unjawndeb a Daioni, yn ôl pa un y mae efe yn ei lywodraethu ei hun yn ei Gyflwr, yn ofyn oddi wrthym ni yn ein Cyflwr ninnau; ac yn dangos nid yn unig ym mheth y mae i ni ei ganlyn ef mewn Rhyw, ond hefyd ym mheth y mae i ni ei ddilyn ef yn gyffredinol; trwy wneuthur y peth ſy gymhwyſaf i ni yng Nghyflwr a Pherthynas Creaduriaid, fel y mae efe yn gwneuthur yr hyn ſydd gymhwyſaf iddo ef yng Nghyflwr a Pherthynas Duw a Chreawdwr. Fel mai Eſampl Duw ei hun yw Eſampl y Trigolion nefol hynny, wedi ei gymhwyſo a'i gyfaddaſu yn unjawn at Yſtâd a Chyflwr Creaduriaid. Can's yn gymmwys fel y maent hwy yn byw, y bydde y Duw Holl-ddoeth a Holl-ddaionus ei hun byw, pe bae efe yn eu Cyflwr a'u Perthynas hwynt. O herwydd pa ham, trwy ganlyn eu Bucheddau a'u Moeſau nefol hwynt, yr ydym yn gwneuthur y Cyfiawnder mwyaf â ni ein hunain, ac yn goſod yr Anrhydedd a'r Gogoniant mwyaf ar ein Natur ein hunain. Can's tra ſangom yn eu Camrau hwynt, yr ydym yn ſangu yng Nghamrau Duw ei hun; ac y mae ei Eſampl ogoneddus ef gennym i gyf-

jawnhâu

jawnhâu ein Gweithredoedd; yr ydym yn ein hymddwyn ein hunain fel y gweddai i Blant Brenin y Nefoedd, a chyn belled ag y mae yn eyd-ſefyll â Chyflwr Creaduriaid, yr ydym yn byw fel cynnifer o Dduwiau yn y Byd: yr hyn, yn ddiammau, yw'r Anrhydedd a'r Gogoniant eithaf ag allo un Creadur rheſymmol ei ddymuno. Ac mi dybygwn, pe bae ynnom un Wreichionen o wir Arddercholwgrwydd a Gwychder Meddwl, nyni a ddirmygem bob math arall o Fywyd ond hwn, ac a doſturiem wrth y rhai goreuraid hynny ag ydynt yn eu twyllo eu hunain, pan nad oes ganddynt ddim i ymffroſtio o'i blegid, ond eu Dillad gwychion, a'u Tiroedd mawrion, a'u Teitlau gwâg o Anrhydedd; nyni a ddylem edrych ar bob Mawredd arall fel Ffiloreg ſy gan Blant i chwareu â hwy mewn Cymmariaeth â hwn, o fyw fel Pendefigion mawrion y Nefoedd, y rhai ſydd i gyd yn byw yn ôl Patrwn Buchedd Duw.

III. Yſtyriweh Rydd-did mawr Buchedd nefol. Cyhyd ag y bom yn byw Bucheddau daearol a chnawdol, y mae'n Heneidiau, y rhai a aned yn rhŷdd, yn cael eu carcharu gan y Synhwyrau, a'u holl Symmudiadau a gyfyngir ac a derfyner o fewn Cylch cûl Pethau gweledig, a Mwyniant cnawdol. Fel, pan chwennychom ganlyn ein Rheſwm, a gwneuthur fel y mae hwnnw yn gorchymmyn, yr ydym yn gweled ein bod yn cael ein rhwyſtro a'n dyſu yn gywilyddus; y mae Chwantau ein Cnawd fel Llyfetheiriau yn crogi mor drwm wrthym, fel na's gallwn, a bryd bynnag y galwo ein Rheſwm neu'n Cydwybod, ymmud gyd â dim Rhydd-did, ond yn gorfod arnom mboeni bob Cam, a chwedi ychydig o Gynnygion lleſg, n cwbl ddeffygio dan Bwys ein Tueddiadau gwrthwyebus. Fel nad ydym yn fynych yn gwneuthur mo'r Da chwennychem ei wneuthur, gan fod y Deddf yn ein laelodau yn gwrthryfela yn erbyn Deddf ein Meddwl. 'mae'n Rheſwm a'n Cydwybod yn dywedyd wrthym, y ylem garu Duw uwchlaw pob peth, ei addoli ef, a oddi ein hunain i fynu i'w Orchymmyn a'i Dreſmiad; ac y mae ynnom yn fynych Dueddiad cryf i ganlyn Rhybuddion a'u Cyfarwyddiadau: ond oeh! par ddelom

i'w

i'w cyflawni hwynt, fe fydd cynnifer o Bethau oddi fewn i ni yn ein tynnu yn ôl, cynnifer o Wrth'nebiadau cryf yſtyfnig yn erbyn ein Tueddiadau da, na bydd gennym mo'r Gallu i wneuthur fel y chwennychem, neu i drefnu o honom ein hunain yn ôl ein Dymuniadau mwyaf rheſymmol; ond, fel Caeth-weiſion truenus wedi eu cadwyno wrth y Bâd, y mae'n gorfod arnom rwyfo ymlaen i ba le bynnag y bo ein Chwantau trawſion yn gorchymmyn i ni, er ein bod yn eglur yn gweled ein bod yn rhedeg ar Graig, ac yn myned i'n dinyſtrio ein hunain. Ac fel nad ydym rŷdd, yn y Cyflwr drwg hwn o Fywyd, i ganlyn ein Rheſwm; felly nid ydym chwaith rŷdd i ganlyn ein Chwantau. Can's megis pan chwennychem ganlyn ein Rheſwm, y mae ein Chwantau yn glynu wrthym, ac yn ein rhwydo; felly pan chwennychem ganlyn ein Chwantau, y mae ein Rheſwm yn ein haflonyddu, ac yn ein hattal; a thrwy wrthddadleu yn ein herbyn yr Anharddwch a'r Niweid, yr anfeidrol Frynti a'r Perygl, ſydd yn ein Ffyrdd pechadurus, y mae'n goſod cynnifer o Rwyſtrau ar ein Ffordd, na's gallwn bechu gyd â dim Rhydd-did, ond i ba le bynnag yr elom, yr ydym yn rhodio fel Carcharwyr â Heiyrn Cywilydd ac Ofn ar ein Sodlau. Fel, pa Ffordd bynnag y trothom ein hunain, yr ydym yn gweled fod ein Gallu i'n trefnu ein hunain wedi ei attal a'i gulhâu yn fawr jawn, ac ni's gallwn gael Cennad gan ein Chwantau i ganlyn ein Rheſwm, na chan ein Rheſwm i ganlyn ein Chwantau. Can's pan gynnygiom ganlyn ein Chwantau, y mae ein Rheſwm yn ein hattal â Chywilydd ac Ofn; a phan yr ymegniom i ganlyn ein Rheſwm, y mae ein Chwant yn ein ffrwyno ag Anhoffder a Gwrth'nebiad. Yn y Cyfyngder hwn, gan hynny, beth ſydd i'w wneuthur, fel y byddom yn rhŷdd? Y mae'r Peth yn amlwg; Rhaid i ni fwriadu gorchfygu naill ai'n Rheſwm, neu'n Chwantau: os gorchfygwn ein Rheſwm (yr hyn o'r ddau a gawn weled fod y Gwaith calettaf o lawer) nyni a gyrhaeddwn Rhydd-did Diawliaid ac Anifeiliaid, y Rhydd-did i wneuthur Drwg, ac i ymdrôi yn y Dom, heb Gywilydd neu Gnoſa Cydwybod; ond os gorchfygu ein Chwantau a wnawn, nyni a gyrhaeddwn Rydd-did Dynion, ie Saint ac Angelion;

Angelion; y Rhydd-did i weithredu gyd â Rheſwm, heb ddim Anewyllyſgarwch neu Wrth'nebiad: a chan fod hyn yn llawer mwy hawſach ei gyrraedd nâ'r llall, mi allaf appelio at un Dŷn o Reſwm, p'un o'r ddau ſydd ynddo ei hun yn fwaf dewiſol. Os mynnwn gan hynny gadw ein Rhydd-did rheſymmol, rhaid i ni fwriadu ſiglo ymmaith y Llyffetheiriau caeth hynny, ein Chwantau aniſeilaidd a chythreulig, y rhai ſydd mor waſtadol yn ein haflonyddu ac yn ein hattal yn ein holl Gynnygion rhinweddol, a'n Gweithrediadau rheſymmol; rhaid i ni rwymo ein hunain i fynu rhag cyflawni eu Gorchymynion, a gwas'naethu eu Hewyllyſiau drygionus a'u Harch hwynt, a bwriadu yn galonnog i wneuthur y peth ſy weddus i ni, fel yr ydym yn Greaduriaid rheſymmol mewn Perthynas â Duw, ac â'u gilydd. Ac yna, er y rhaid i ni ddiſgwyl ar y cyntaf i'n Gwrth'nebiadau drwg ein hattal a'n rhwyſtro, nyni a gawn yn fuan ein rhyddhâu oddi wrth yr holl Gywilydd a'r Ofn hwnnw ag oedd mor waſtadol yn ein ffrwyno wrth ddilyn ein Drygioni; ac fe fydd hyd yn oed i'n Gwrth'nebiad drwg (os parhâwn ni yn galonnog yn ein Bwriad da) ddyfod wannach wannach, a phob Dydd yn llai ei Flinder i ni, nes caffo efe ei ddiffodd yn llwyr. Ac yna y teimlwn ni ein bod wedi cael adferu ein Nerth yn llwyr-gwbl drachefn, ac y gallwn yn ddi-attalfa ein trefnu ein hunain a'n holl Symmudiadau fel y gwelom yn fwyaf gweddus a rheſymmol; yna y bydd i ni weithredu gyd â'r Bywiogrwydd a'r Rhydd-did mwyaf, heb fod ynnom ddim Egwyddorion gwrthwyneb i'n hattal neu'n cadw yn ôl, dim Ffieiddiad drwg ar y naill du, neu Gywilydd euog neu Ofn ar y tu arall, i'n pwyſo ni i lawr yn ein Cynhyrfiadau rheſymmol; yna y ſymmudwn, heb Attalfa neu Rwyſtr, mewn Cylch helaeth ac enwog: can's nyni a ymfoddlonwn i bob peth ag ſydd gymmwys, a doeth, a da, yn ddilyſiant; ac a wnawn yr hyn a fom yn hoffi yn ddirwyſtr. Ac felly yr ydym, trwy ymrwymo yn y Fuchedd nefol, yn myned i Gyflwr o Rydd-did gogoneddus; ac os parhâwn yn ddyfal ynddo, a bod ein Tueddrwydd trechaf beunydd i fyw fel y gweddai i ni, nyni a fyddwn beunydd ryddach ryddach i fyw fel yr ewyllyſiem, nes delom o'r

diwedd

diwedd i berffaith Rydd-did, ymha un y byddwn byw heb ddim Attalfa neu Rwyſtr, heb Gerydd Cydwybod neu Wrthwynebiad Tueddrwydd; y rhai yw'r ddau Rwyſtr bennaf ag ſydd yn cyſyngu Dynion yn eu Gweithrediadau. Os mynnem gan hynny byth fod yn rhŷdd, deuwn ymmaith yn ſuan oddi wrth ein Ffyrdd drygionus, i ymarfer y Bywyd duwiol a nefol hwn, ymha un bob yn ychydig os daliwn allan yn wrol, nyni a wiſgwn ymmaith yr Hunau hynny ag ſydd mor druenus yn ein dal a'n dyryſu ni; ac yna y byddwn yn gwbl-rŷdd i wneuthur pa beth bynnag y mae ein Rheſwm yn orchymmyn i ni; yna y *rhedwn Ffyrdd Gorchymynion DUW*, ac a ſyddwn fel ein Brodyr bendigedig oddi uchod, i gŷd yn Fywyd, ac yn Yſbryd, ac yn Adenydd, wrth gyflawni ein Dyledſwydd iddo ef.

IV. Yſtyriwch Hyfrydwch y Fuchedd nefol hon. Y mae'n wir, fod Math o Hyfrydwch ag ſydd yn tarddu oddi wrth holl Weithredoedd Ymarweddiad cnawdol a daearol; ond yr ydym yn gweled trwy Brofiad, er ei fod tra ſom yn ei ganlyn yn ein hudo a'n ſwyno yn rhyfedd, etto pan caffom ei fwynhâu, y mae'n waſtad yn croeſi ein Diſgwyliad, a phrin y mae'n cyflawni yn y Mwynhâd yr Hanner o'r Peth a addawodd efe i'n Gobaith: ac ar y goreu nid yw ond Boddlondeb preſennol diflannedig o'n Synhwyrau anifeilaidd, Boddlondeb ag ſydd yn tywyllu Goleuni, yn diwyno Tegwch, yn gwanhâu Grym, ac yn attal Bywiogrwydd y Meddwl; gan ei droi oddi wrth wel Gweithrediadau, a'i anghymhwyſo i fwynhâu purach Hyfrydwch; heb adael dim Blâs cyſſurus neu Goffa llawen ar ei ôl, ond diffodd yn fynych mewn Drewdod, a dibenny mewn Chwerwder, Cnofa Cydwybod, ac Anglod. Ond ymhob Gweithred o'r Fuchedd duwiol a nefol hon, y mae rhyw beth o Ddigrifwch y Nefoedd, rhyw beth o'r Ymborth a'r Cyſſuron duwiol ar ba rai y mae Pobl ddaionus y Nefoedd yn byw. Can's y mae y Rhan fwyaf o'u Nefoedd hwy yn tarddu o'u Monweſau hwy eu hunain, fe oddi wrth Gyd-ffurfiad eu Heneidiau â'r Cyflwr nefol, ac o ran fod eu Meddyliau a'u Serchiadau yn myned allan yn fywiog ar ôl y Gwrthddrychon nefol; oddi wrth eu Gwaith hwy yn myfyrio ar y Goruchaf Dduw, ac yn ei garu,

garu, yn ei ſodiannu a'i addoli ef, oddi wrth eu Gwaith
n canlyn ei Briodoliaethau, yn ymoſtwng i'w Ewyllys,
c yn hyderu ar ei Wirionedd: y mae'r Pleſerau mwyaf
gorfoleddus, fel y dangoſais eiſoes, yn canlyn yr holl
Weithredoedd hyn, ac y maent mor angenrheidiol at
Ddedwyddwch Creaduriaid rheſymmol, na's gall Synwyr
Dyn ddychymmyg Neſoedd *neſyſmmol* hebddynt. Can's
an fod Neſoedd Creadur rheſymmol yn ſefyll yn yr Ym-
arfer mwyaf llym a bywiog o'i Alluoedd rheſymmol yng-
hylch y Gwrthddrychon mwyaf gweddus a chymmwys,
a Wrthddrych all ſod yn fwy gweddus i'r fath Alluoedd,
â'r Penllywydd Hollalluog hwnnw, Gallu yn hwn yw
Ffynnon pob Gwirionedd, a Natur yr hwn yw Patwn pob
Daioni! Fel nad yw boſſibl i ni ddychymmyg Neſoedd
erffaith o Bleſerau rheſymmol, heb Undeb perffaith o'n
Meddyliau, a'n Hewyllyſiau, a'n Serchiadau â Duw,
nd yn yr Undeb bendigedig hwn y mae gwir Enaid a
ylwedd y Neſoedd yn gorwedd. Gan fod gan hynny
mhob Gweithred o bob Rhinwedd o'r Fuchedd dduwiol,
o'r hyn leiaf Undeb amherffaith rhwng yr Enaid a Duw,
e ganlyn yn angenrheidiol oddi yma, y rhaid fod rhyw
Rådd o Hyfrydwch y Neſoedd ymhob un. Fel os nad
ydym ni yn profi mwy o lawer o Lawenydd a Digrifwch
ng Ngweithredoedd y Fuchedd dduwiol hon, nag a bro-
aſom erioed yn y Cnawdolrwydd a'r Glothineb mwyaf,
id yw hynny o herwydd nad oes mwy o lawer ynddynt,
nd o herwydd na ddarfu i ni erioed eu goſod hwynt allan
yd â'r Bywiogrwydd hwnnw ag ydym yn arfer wrth ddi-
yn ein Chwantau a'n Digrifwch cnawdol; o herwydd fod
aill ai gau Egwyddorion, neu Afiechyd corphorol, neu
Wrth'nebiadau pechadurus, yn ein rhwyſtro i'w hymarfer
wynt. Ond pe cymmerem Boen i gynneſino ein humain
'r Gweithredoedd nefol hyn, nyni a gaem weled bob yn
chydig y deuent yn naturiol ac yn hawdd i ni; ac fe
yddai ein Heneidiau wedi ymarferu, cydnawſeiddio, a
hueddu tu ag attynt yn y fath fodd, ag y goſodem hwynt
r bob Achos gyd â Rhydd-did mawr a Helaethder. Ac
na y dechreuem deimlo a blaſu eu Hyfrydwch hwynt;
na y caem Neſoedd o Ddigrifwch yn tarddu o'n mewn

ni,

ni, ac yn ei hagor ei hun ymhob Gweithred wynfydedig o'n Hymarweddiad nefol; yna y byddem dan Rym y Nefoedd yn cael ein tynnu yn dra melus tu ag atti, trwy bwerus Weithrediad ei Llawenydd a'i Phleſerau hi; ac ymhob Gweithred o'n Hymddugiad nefol ſe fyddai gennym ryw Flaen-brawf o'r Dedwyddwch nefol. Ac weithian ni byddai arnom ddim Eiſiau Rheſymmau oddi allan i'n hargyhoeddi ni o Wirionedd y Cyflwr gwynfydedig hwnnw: can's nyni a'i teimlem ef oddi mewn i ni, ac a allem chwilio ei Ddirgelwch bendigedig wrth Oleuni Profiad ddiſiommedig. Weithian ni byddai gennym ddim Achos i chwilio Llyfrau Coffadwriaeth y Nefoedd, i gael Sicrwydd o'n Hawl ynddi: can's, trwy Ernes deimladwy jawn o'r Nefoedd oddi fewn i ni, nyni a gawn mor llawn ed Boddlonrwydd o'n Teitl iddi, a phe bae un o Angelion y Nefoedd yn dyfod i lawr oddi yno, ac yn dywedyd wrthym iddo ef weled ein Henwau wedi eu 'ſgrifennu yn Llyfr y Bywyd. Ac, â'r Profiad melus hwn o'r Nefoedd oddi fewn i ni, nyni a aem ymlaen i'r Nefoedd â Gorfoledd a Hoywder anhraethadwy, gan gael ein diſyrru hŷd o gam i gam â Blâs hudol ei Llawenydd a'i Digrifwch hi; ac ymhob Ymarfer bywiog o bob Rhinwedd o'r Fuchedd nefol, nyni a gaem y fath Brawf bywiol a Theimlad o'r Nefoedd, ag a'n cyffroe ni yn waſtadol i'w hymarfer yn fwy bywiog; a pheunydd po fwyaf bywiog a goſodem hwynt allan, mwyaf o'r Nefoedd a gaem brofi ynddynt; ac felly Bywiogrwydd ein Rhinwedd a gynnyddai, a'i Hyfrydwch, a'i Hyfrydwch a gynnyddai ei Bywiogrwydd, nes perffeithio'r ddau, a thyfu o honynt i fynu i Gyflwr gwynfydedig y Nefoedd. Am hynny ſe yr ydym yn caru Hyfrydwch, yr hwn yw'r Gwahoddiad mawr i Weithred, cymmerwn ein perſwadio unwaith yn lle'r cwbl i wneud llwyr Brofiad o'r *Fuchedd nefol*; ac os wedi ei phrofi yn ddigonol, na welwch ei bod y Bywyd hyfryttaf a ddarfu i chwi fyw erioed, os na phrofwch yn ddi Foddlonrwydd mwy rhagorol o lawer nag a brofaſoch erioed yn eich holl Ddanteithion mwyaf coſtfawr a chyfraint, mi rôf Gennad i chwi fy ngyhoeddi i yn Dwyllwr.

V. Yſty-

ein

V. Yſtyriwch Orphwyſdra mawr ac Eſmwythder y ſuchedd a'r Ymarweddiad nefol. Ym mhob Ffordd nawdol a chythreulig o Fywyd yr ydym yn gweled, trwy rofiad, fod llawer jawn o Aneſmwythder ac Aflonyddwch. Can's y mae'r Meddwl yn cael ei aflonyddu, y Cydwybod yn cael ei dolurio, y Serchiadau yn cael eu hannu i Bleidiau yn erbyn eu gilydd, a'r holl Enaid ewn Agwedd glafycca jawn a diorphwys. Ac yn wir id yw Ryfedd ei bod felly, gan ei bod mewn Yſtâd a Chyflwr annaturiol. Can's tra y mae mewn un Ffordd o Weithred afreſymmol, y mae hyd yn oed ei Ffurf a'i Gwneuthuriad, fel y mae hi yn Fôd rheſymmol, yn dioddef Frais annaturiol, ac i gŷd wedi anghymmalu ac mewn Anhrefn. Ac am hynny megis nad yw Corph, pan y mae Eſgyrn o'u Lle, byth yn eſmwyth nes gofoder hwynt n eu Lle dracheſn; felly y mae Enaid rheſymmol pan y mae ei Galluoedd a'i Phwerau o'u Lle, a chwedi eu gofod llan o'u Ffordd naturiol, hynny yw, eu Ffordd reſymol o weithredu, yn waſtad yn aneſmwyth ac yn aflonyddu, pheunydd yn taflu ymma a thraw, gan newid o un Agedd i'r llall, a'i throi ei hun oddi wrth y naill at Wrthdrych a Mwyniant arall, ond heb gael dim Eſmwythder eu Foddlonrwydd mewn un, nes ei hadferu dracheſn i'w fordd reſymmol ei hun o ymſymmud; a hynny yw, weithredu a ſymmud tu ag at DDUW, er mwyn pa un y wnaed hi, ac ymha un yn unig y gall hi fod yn ddedwydd. c oni bae fod ei Rheſwm wedi ei hurtio a'i wneuthur yn lideimlad rhyfedd gan y Cnawd a Hyfrydwch cnawdol, ammau y byddai yn fwy diorphwys ac anfoddlongar fil weithiau yn ei Chyflwr annaturiol hwn nag ydyw; hi a imlai fwy o lawer o Wallbwyll Meddwl, Ing Cydwybod, Therfyſg Serchiadau, nag a all hi yn awr ynghanol wyniant aneirif a Difyrrwch y Bŷd hwn. Can's fel y ddai Offeryn Cerdd, pe bae Bywyd ynddo, yn ddiammau deimladwy o Gynghanedd fel ei Gyflwr priodol (megis mae 'Sgrifennydd mawr o'n Gwlâd ni yn ſynhwyrol yn faru) ac yn ffieiddio Anghyſſondeb ac Anghydlais fel th annaturiol iddo; felly pe byddai ein Rheſwm yn fyw yn neffro ynnom, ein Heneidiau, y rhai yn ôl eu Ffurf-

iâd naturiol a wnaed yn gydlais â Duw, a fyddent yn
deimladwy jawn o'r Rhinweddau duwiol hynny ymha rai
y mae eu Cyflondeb yn ſefyll, megis o'r Peth hwnnw ag
yw eu Cyflwr priodol a'u Prŷd naturiol; ac a achwynent
mor dôſt o blegid Clefydon drwg eu Galluoedd, ag y
gwnâ'r Corph o achos Clwyfau ac Afiechyd; hwy a fydd-
ent yn berffaith glâf o bob Cynhyrfiad afreſymmol, ac ni
allent byth orphwys nes byddai eu Galluoedd gwahanedig
wedi eu goſod yn eu hjawn Le, a'u holl Dannau anghyſſon
mewn Hwyl drachefn. A phan ddelo hyn unwaith i ben
(fel y daw yn fuan mewn Yſtod barhâus o Weithred nefol)
ſe fydd ein Heneidiau chwipin wedi eu dadlwytho oddi
wrth yr holl Dueddiadau drwg hynny ag ſydd mor ſynych
yn ein gwneuthur yn glâf, yn ddiorphwys, ac yn aflo-
nydd. Can's trwy hyderu ar Dduw, nyni a ryddhâwn ein
hunain yn llwyr oddi wrth yr holl Ofalon a'r Blinderau
aneſmwyth hynny, y rhai ſydd yn ein hamgylchu ac yn
ein pigo fel Coron o Ddrain; trwy ymoſtwng o'n Calon-
nau i'w Ewyllys nefol ef, nyni a eſmwythâwn ein Cydwy-
bodau oddi wrth yr holl Ddychryn, y Llid, a'r Angerdd
hwnnw, ag ſydd yn tarddu oddi wrth Golynnau gwenwynig
ein Heuogrwydd; trwy ei garu, ei ryfeddu, a'i addoli ef
ein Serchiadau a jachêir oddi wrth yr holl Anghyttundeb a'r
Anghymmedroldeb hwnnw ag ſydd yn eu gwneuthur mo-
derfyſgus ac aflonydd. A chwedi dwyn y Pethau hyn un-
waith i ben, ſe fydd i'r Enaid clâf a diorphwys i gael ei
hun yn fuan mewn Jechyd ac Eſmwythder perffaith. Can
yn awr, gan fod ei holl Alluoedd anghyſſon wedi eu hwyfi
yn ôl Cyfreithiau cerddwrus Rheſwm, ſe fydd Cynghanedd
berffaith yn ei Natur, ac ni bydd un Egwyddor aflonydd
oddi fewn iddi; dim ond Meddyliau tawel a llariaidd
Myfyrdodau eſmwyth a melus, Serchiadau dôf a hawdd
eu trîn, dim ond a ſo yn helaeth yn gweithio tu ag at
Heſmwythder a'i Boddlonrwydd. Yn awr gwnewch ond
meddwl pa Eſmwythder y mae'r Corph yn fwynhâu, pa
elo yn holl-jach ar ôl hir Glefyd, ac y bo yn teimlo Byw-
iogrwydd llon ymhob Rhan o hono, a thrwyddo oll
y fath, a mwy o lawer, yw Eſmwythder a Llonyddwch
Enaid; pan y bo iddi, trwy ddyfal-ymarfer y Fuchedd ne-

ol, ei theimlo ei hun wedi gwellhâu o Glefyd nychlyd Natur gnawdol a chythreulig. Yn awr nid yw hi mwyach yn cael ei thaflu ymma a thraw mewn Môr tymheſtlog o Feddyliau diorphwys a Myfyrdodau euog, ddim yn cael ei phoethi mwyach gan Anioddefgarwch, neu ei boddi gan Ofid, neu ei ſiglo gan Ofn, neu ei chwyddo gan Falchder neu Draha, ond wedi ei chwbl roi i fynu i Lywodraeth ſendigedig Meddwl yſbrydol, a'i dilladu yng Ngwiſgoedd ei Rheſwm. Yn awr y mae'r holl Ryfel a'r Ymdrech rhwng y Ddeddf yn ei Haelodau a'r Ddeddf yn ei Meddwl wedi ei ddiweddu mewn Buddugoliaeth ogoneddus a Heddwch dedwydd; a'i Hewyllys a'i Chydwybod, ei Hanwydau a'i Rheſwm, y rhai oeddent fel Ffrydiau yn ymrannu, ydynt yn rhedeg yr un Ffordd, ac yn llifo tu ag at yr un Lle. A chwedi ei chyſſylldu ynghŷd fel hyn trwy Rwymau Rhinwedd, y mae'r Enaid yn berffaith jach ac eſmwyth, ac yn mwynhâu Gorphwyſfa tra melus o'i mewn ei hun. Am hynny fel yr ydych chwi yn caru eich Eſmwythder a'ch Llonyddwch eich hunain, ac na fynnech gael eich aflonyddu a'ch blino yn ddiddiwedd, cymmerwch eich perſwadio i ymrwymo yn galonnog mewn Bywyd ac Ymarweddiad nefol; ac yna, er y rhaid i chwi ar y cyntaf ddiſgwyl cyfarfod â rhyw Anhawſdra ynddi, o achos ei Gwrthwynebiad i'ch Natur lygredig; etto, os parhêwch yn fywiog ynddi, chwi gewch weled yr Anhawſdra yn fuan yn gwiſgo ymaith, ac yna hi fydd i gŷd yn Eſmwythder ac yn Hyfrydwch. Can's pan y mae'n Natur wedi ei llygru, naill ai trwy Gnawdolrwydd neu Dymmer gythreulig, y mae hi fel Aſgwrn allan o'i Le, yn llawn Poen tra y mae efe allan, ac yn fwy poenus o lawer tra y mae yn cael ei oſod ynghŷd; ond cyn gynted ag y darfyddo hynny, y mae'n fuan yn jach ac yn eſmwyth.

VI. Ac yn olaf, Yſtyriwch Angenrheidrwydd hollawl yr Ymarweddiad a'r Fuchedd nefol hon. Can's heblaw od Duw yn ei ofyn oddi wrthym fel Ammod anhepgorol 'n Dedwyddwch, a chwedi ſicrhâu i ni, *os byw fyddwn r ôl y Cnawd, mai meirw fyddwn*; ac *na chawn byth heb ancteiddrwydd weled yr Arglwydd*: heblaw hyn, meddaf,

y mae Ymarweddiad nefol yn Natur y Peth yn angenrheidiol i'n cymhwyſo ni i'r Nefoedd; neu, fel y mae'r Apoſtol yn llefaru, i'n *gwneuthur ni yn gymmwys i fod yn Gyfrannogion o Etifeddiaeth y Saint yn y Goleuni.* Can's gan fod Dedwyddwch yn Beth ag ſydd â Pherthynas rhyngddo â Phethau eraill, y mae'n arwyddocâu yn ei Natur, fod Cyttundeb rhwng y Gwrthddrychon ag ſydd yn cynnyg Dedwyddwch i ni, a'r Galluoedd hynny ag ſydd yn eu profi ac yn eu mwynhâu hwynt; ac er cyſtled y bo'r Gwrthddrychon ynddynt eu hunain, er cymmaint o Hyfrydwch a Gwynfyd a fo ynddynt, etto os na byddant yn cyttuno â'r Galluoedd i ba rai y cynnygier hwynt, yn lle eu bendithio, ni wnânt ond eu cyſtuddio a'u poeni hwynt: a phe gofodid Dŷn ynghanol y Nefoedd ymyſg yr holl Fwyniant gwŷch ag ſy mor llawn yn y Lle bendigedig hwnnw; etto oni byddai ei Dymmer a'i Feddwl yn cyttuno â hwynt, hwy fyddent yn gynnifer a hynny o Flinderau a Thrueni iddo, ac efe a fyddai mewn Cyſtudd hyd yn oed ym Monwes *Abraham*, ac yn ymbalfalu am y Nefoedd ynghanol Paradwys. Fel pe baem yn bwrw y byddai'r fath Anwyldra direſwm yn Nuw tu ag at Eneidiau drwg i'w gwneuthur yn happus, a dewis hynny o flaen Anrhydedd ei Lywodraeth, a Phurdeb ei Natur, ac Ordinhâd ei Gyfreithiau; etto beunydd y mae Rhwyſtr anorchfygol yn ôl, ag a wnâ yn amhoſſibl iddynt hwy fod yn ddedwydd ar ôl hyn; a hynny yw, na's dichon hyn fod heb Wrthddywediad amlwg i Natur Pethau, gan fod Tymmer Eneidiau annuwiol yn llwyr wrthwyneb i holl Ddedwyddwch y Bŷd arall. Fel pe gofodid ef i gŷd gerdded eu bron, ni allent ei fwynhâu, ond gorfyddai arnynt nychu a newynu ynghanol yr holl Lewndid hwnnw o Hyfrydwch, gan na byddai dim Arlwy yn yr holl Roeſawl nefol hwnnw y caent hwy ddim Blâs na Meluſder ynddo. Ac am hynny pe bae Duw yn eu pardynu hwynt cymbelled, a pheidio eu coſbi hwynt ei hun trwy un Ergyd o Lidiowgrwydd digyfrwng, dyna'r Ffafr eithaf ag allai ei Hollalluog Ddaioni ef wneuthur droſtynt tra y byddent yn parhâu yn eu Pechodau; y rhai, er y fath Bardwn, a wnae iddynt hwy barhâu yn druenus jawn yn dragywydd.

A phe

A pha Lês mawr a wnâ Pardwn i Ddrwgweithredwr ſydd yn marw o'r Garreg neu'r Toſtedd? Ni allaſai efe ond marw pe ni chawſai ei bardynu, a marw raid iddo er cael Pardwn. A chyn lleied ymron yn gymmwys a dâl i Enaid halogedig gael ei bardynu a'i ryddhâu gan Duw, tra y mae Clefyd oddi fewn iddo yn bwyta ei Ymyſgaroedd, ac yn ei bryſuro i Ddinyſtr ſicr. Can's ni allaſai ond bod yn druenus yn y Bywyd arall, pe ni chawſai Bardwn; a thruenus a raid iddi fod, os parhâu yn annuwiol a wnâ hi, p'un a wnelo a chael Pardwn ai peidio. Can's nid y Lle gymmaint a'r Cyflwr ſydd yn gwneuthur naill ai Nef neu Uffern; ac y mae Cyflwr Nef ac Uffern yn ſefyll mewn perffaith Sancteiddrwydd a Drygioni; ac yn gyfattebol i'n Cynnydd yn y naill neu'r llall o'r rhai'n, yr ydym yn nesâu tu ag at y naill Gyflwr neu'r llall. Can's fel y mae pob Peth ag ſydd rinweddol, a phûr, a ſanctaidd, yn cyfarfod yn y Nefoedd, a phob Peth ag ſydd dda yn tueddu yno trwy Gyttundeb naturiol; felly y mae pob Annuwioldeb a Drygioni yn cyfarfod yn Uffern, a phob Peth ag y ddrwg yn naturiol yn pwyſo ac yn ſuddo i lawr yno, megis ei Le cymmwys a'i Elfen ei hun: a phe gadawai Lidiowgrwydd Duw Eneidiau annuwiol yn llonydd heb u cau allan o'r Nefoedd, etto eu Drygioni hwy eu hunain 'i cauai hwy allan. Can's y mae hwnnw yn Lle o'r fath Oleuni a Phurdeb, na's gellir dyfod atto, na ddichon dim Aflendid na Drygioni nesâu yno, ond rhaid iddo gael ei uro ymmaith gan Fellt ofnadwy ei Ogoniant, a'i daflu endramwnwgl i lawr cyn fynyched ag y cynnygio ddringo fynu yno; megis ar y llaw arall, pe na bae Duw trwy idiowgrwydd digyfrwng yn taflu Eneidiau annuwiol endramwnwgl i Uffern, etto eu Hannuwioldeb eu hun-n, trwy ddirfawr Bwys ei Natur ei hun, a'u gwaſgent a'u ſuddent hwy i lawr yn ddifeddyginiaeth i'r Cyflwr uenus hwnnw. Pa Ffolineb rhyfedd ynte ydyw, i Ddyn annuwiol sôn am fyned i'r Nefoedd! Och! Greariaid truain, beth a wnaech chwi yno! Nid oes dim riad anllad ymhlith y Cariadon nefol hynny; dim Afond o Win ymhlith eu Hafonydd hyfryd hwy, i foddi eich Cnawdolrwydd diderfyn chwi; un Truthiwr, i

wenhieithio i'ch Balchder uchel chwi; dim Trueni, i borthi eich Cenfigen cûl; dim Drygau, i oglais eich Ymddial cythreulig; dim ond Mwyniant diwair a duwiol, pûr ac yſbrydol, y fath ag a fydd eich Chwantau anifeilaidd a chythreulig chwi byth yn gasâu ac yn ffieiddio. Am hynny, os ydym yn meddwl myned i'r Nefoedd, a bod yn ddedwydd yno, rhaid i ni yn awr ymroi i dueddu a thymheru ein Meddyliau atti; yr hyn ni's gellir ei gwneuthur un Ffordd arall, ond trwy arwain Bywyd ac Ymarweddiad nefol; yr hyn bob yn ychydig a gynnefina ein Heneidiau, ac a'u gwnâ hwynt yn naturiol i'r Rhinweddau nefol, ac a'u gweithia hwynt i mewn i Agwedd a Thymmer ein Meddyliau, fel mai'n Hyfrydwch mwyaf ni fydd eu hymarfer hwynt. Ac yna y bydd ein Heneidiau wedi eu trwſio a'u gwneud yn barod i'r Nefoedd; a phan elom oddi ymma i gymmeryd Meddiant o'i Llawenydd hi, fe fydd i gŷd mor gyttunol â'n Blŷs ſy wedi ei barotoi atto, fel y bydd i ni yn fuan gwympo i ymborthi arno gyd ag Archwaeth a Blâs anfeidrol. Ond ni allwn ni byth ſwyn-hâu'r Nefoedd, nes i ni drefnu ein hunain tu ag atti trwy fyw Buchedd nefol. Fel y mae Pethau yn awr wedi dyfod i'r Diwedd hyn, y rhaid i naill ai'n Pechodau neu'n Heneidiau farw; ac y mae'n rhaid i ni ſiglo Dwylo naill a â'r Nefoedd, neu â'n Chwantau. Ac am hynny, oddieithr ein bod yn priſio Dedwyddwch tragywyddol cyn lleed a'i newid ef am goeg Bleſerau gwael Pechod, ac oddieithr ein bob yn caru ein Pechodau cyſtled a'u prynu hwy â Gwaed ein Heneidiau anfarwol, y mae'n perthyn i ni ymrwymo ein hunain yn fuan yn yr Ymarweddiad a Fuchedd nefol hon. Can's y mae hon yn Ddeddf tragywyddol ac anghyfnewidiol; Os byddwn ddrygionus, rhaid i ni fod yn druenus.

PEN

PEN. IV.

Ynghylch y Rhan Filwriaethus *o'r Fuchedd Gris'nogol, trwy'r hon y mae i ni gyrraedd a pherffeithio y Rhinweddau nefol: yn dangos mor effeithiol y mae ei holl Dyledſwyddau hi yn gweithio tu at ag hynny.*

WEDI sôn yn helaeth yn y Bennod o'r blaen am y Rhan nefol o'r Fuchedd Gris'nogol, a dangos mor unjawn-gyrch a digyfrwng y mae'r Ymarfer o'r holl Rinweddau ſy gynnwyſedig ynddi yn tueddu at y Cyflwr nefol, ac mor naturiol y maent oll yn cynnyddu i Ddedwyddwch tragywyddol; mi geiſiaf yn y Lle neſaf sôn yn fyrr am y Rhan honno o'r Fuchedd Gris'nogol ag ſydd yn llwyr Filwriaethus, ac yn ſefyll yn gyfangwbl yn y Dyledſwyddau offerynnol hynny, trwy'r Arfer o ba rai yr ydym i orchfygu Anhawſdra y Rhinweddau nefol hynny, ac i'w cyrraedd a'u perffeithio hwynt. Yr Anhawſdra hyn, fel y dangoſais o'r blaen, *Pen.* II. ydyw'r Llygredigaethau ſy wedi magu yn ein Natur, ynghŷd â'r amryw Brofedigaethau hynny oddi allan ſydd yn waſtadol yn eu cyffroi a'u hennyn hwynt: ac felly i ddaroſtwng a gorchfygu y rhai'n, fel na bo iddynt na'n tynnu ni ymmaith oddi wrth yr Ymarfer o'r Rhinweddau nefol, na'n rhwyſtro a'n anghymhwyſo ni ynddo, ydyw Amcan mawr a Gorchwyl y Rhan Filwriaethus hon o'r Fuchedd Gris'nogol.

Fel y bo i mi gan hynny ei thrîn yn eglur, mi a'i rhannaf yn dair Rhan; ac a geiſiaf, mor fyrred ag y gallwyf, yn gyntaf, eglurhâu Dyledſwyddau pob Rhan, a dangos y modd y maent i gŷd yn helpu i ni orchfygu Anhawſdra y Rhinweddau nefol, ac i'w cyrraedd a'u perffeithio hwynt; ac, yn ail, i gymmell Dyledſwyddau pob Rhan â Rheſymmau cymmwys a gweddus.

Yn y Rhan hon o'n Buchedd Gris'nogol gan hynny y mae,

I. Ein Dechreuad, neu 'n Mynediad iddi; yr hyn a elwir yn y 'Sgrythur, *Edifeirwch oddi wrth Weithredoedd meirwon.*

II. Ein Taith ymlaen ynddi; ac nid yw hyn ddim arall ond *Bywyd ſanctaidd.*

III. Ein Perffeithiad a 'n Cwplhâd o honi; a hynny ydyw, *Parhâd hyd y Diwedd* yn gwneuthur Daioni.

I bob un o ba rai y mae eu Dyledſwyddau priodol eu hun, y rhai a ymegniaf eu heglurhâu a 'u hannog yn y Bennod hon.

DOSBARTH. I.

Ynghylch y Dyledſwyddau hynny ag ſydd briodol i'n Dechreuad *a 'n* Mynediad *i 'r Rhan* Filwriaethus *hon o 'r Fuchedd Gris'nogol: yn dangos y modd y maent oll yn helpu i ddaroſtwng Pechod, a chyrraedd y Rhinweddau nefol.*

GAN nad yw y Rhan gyntaf ymma o 'n Buchedd Filwriaethus ddim ond Dechreuad ein Hedifeirwch, neu Drôad cyntaf ein Heneidiau at Dduw, oddi wrth Gyflwr o Bechod a Gwrthryfel gwllyſgar; y Dyledſwyddau priodol iddi, a thrwy ba rai y mae 'r Trôad hwn yn cael ei ddechreu a 'i gyflawni, a ellir eu cynnwys dan y chwech Pen hyn.

I. Credu yn gadarn ac yn galonnog Wirionedd ein Crefydd.

II. Dwys yſtyried ei Hnnogaethau, a 'u cyd-bwyſo â 'r Caledi a 'r Anhawſdra a raid i ni ddioddef.

III. Argyhoeddiad dwfn llwyr-gwbl o 'n mawr Eiſiau Cyfryngwr i 'n gwneuthur yn gymmeradwy gyd â Duw.

IV. Triſtwch o 'r Galon, a Chywilydd, a Chnofa Cydwybod, am ein Pechodau a aethant heibio.

V. Taer Weddi ar Dduw am Help a Chymmorth i 'n nerthu yn effeithiol i ymwrthod â hwynt.

VI. Bwriad

VI. Bwriad pryſur a phwyllog i'w gadael a'u bwrw hwynt ymmaith yn dragywydd.

I. Y mae'n angenrhaid, tu ag at i ni ddechreu yn dda ein Milwriaeth Gris'nogol, i ni gredu o'n Calonnau Wirionedd ein Crefydd. Can's y mae'r 'Sgrythur yn goſod allan i ni, fod Credu'r Efengyl yn galonnog fel yr Arf pennaf ſy gennym i ymdrech yn erbyn y Bŷd a'n Chwantau ein hunain. Ac am hynny fe'i gelwir, *Tarian y Ffydd*, a *Dwyfronneg Ffydd*; y rhai ydynt y ddwy Ran bennaf o'r Arfogaeth o Amddiffyn, yn arwyddocâu, mâi Credu'r Efengyl yn galonnog yw Amddiffyniad pennaf y Criſtion yn erbyn *holl Biccellau tanllyd* Profedigaeth; yr Arfogaeth o Brofiad ſydd yn cadw ein Diniweidrwydd, ac yn rhwyſtro i ni gael ein clwyfo yn ein holl Ymladdfeydd yſbrydol. Can's, *uwch law pob dim* (medd yr Apoſtol) *cymmerwch Darian y Ffydd, â'r hwn y gellwch ddiffoddi holl Biccellau tanllyd y Fall*, Eph. vi. 16. Ac megis y mae hi y Rhan bennaf o'n Harfogaeth i'n hamddiffyn ein hunain, felly y mae hi hefyd o'n Harfogaeth i daro ein Gelynion. Can's felly yr ydym yn gweled fod holl Fuddugoliaethau a Gorfoledd y Gwŷr gwychion gogoneddus hynny, *Heb.* xi. yn cael eu priodoli i'r Arf anwrthwynebol hon; ſef, eu Ffydd hwynt. Trwy Ffydd y darfu iddynt hwy ddirmygu Coronau, gwrthwynebu Digofaint Brenhinoedd, a gorfoleddu ar y Poenau a'r Cyſtuddiau chwerwaf: *trwy Ffydd y gwnaethant Cyſiawnder, y cawſant Addewidion, y cauaſant Safnau Llewod, y diffoddaſant Angerdd y Tân, y dianga-ſant rhag Min y Cleddyf, ac a nerthwyd o Wendid.* Nag ê, y mae i Ffydd gymmaint o Ran yn Llwyddiant ein *Milwriaeth Gris'nogol*, fel y mae'r Apoſtol yn ei galw hi, *hardd-deg Ymdrech y Ffydd*, 1 Tim. vi. 12. a S. *Joan* ſydd yn ſicrhâu i ni, mai hon yw'r Fuddugoliaeth ſydd yn gorchfygu'r Bŷd; ſef, ein Ffydd ni, 1 *Joan* v. 4.

Can's os bydd i ni gadarn gredu'r Efengyl, ni gawn yno Attebion diwâd i'w rhoddi i bob Profedigaeth; a hi a rydd well Cynnyg o lawer nag allo'r Bŷd byth roddi i ni am ein Diniweidrwydd. Can's os credwn ni'r Efengyl, y mae hi yn dwyn yn y naill law anfeidrol fwy o Bethau da i'n denu a'n cadw ni yn ddiyſgog yn ein Dyledſwydd,

ac

ac yn y llaw arall fwy o lawer o Ddrygau i'n dychrynu ni rhag pechu, nâ dim ag allo'r Bŷd gynnyg i'n hudo neu'n dychrynu ni oddi wrth ein Dyledſwydd. Can's, ar y naill law, y mae hi yn amlygu i ni Wledydd anfarwol y rhai Gwynfydedig, lle mae Trigfa a phûr Elfen Dedwyddwch; lle y mae y Trigolion bendigedig yn byw mewn Mwynhâd gwaſtadol o'u Dymuniadau eithaf, ac yn cael eu groeſawi bob Munyd â Phleſerau newydd a hyfryd; lle y mae eu holl Ddedwyddwch hwynt yn dragywyddol, a'u holl Dragywyddoldeb ddim arall ond un Weithred barhâus o Gariad, a Mawl, a Llawenydd, a Gorfoledd; lle nad oes dim Och'neidiau na Dagrau, dim Cymmyſgiad o Driſtwch neu Drueni, ond pob Calon yn llawn Llawenydd, a phob Llawenydd yn eithaf Gorfoledd, a phob Munyd newydd yn cael ei choroni â rhyw Fwyniant newydd. Ar y llaw arall, y mae hi yn goſod o flaen ein Llygaid Olwgſyn ac ofnadwy o'r Cyſgodau echrydus hynny o Ddychryn, lle mae Lliaws aneirif o Yſbrydion damnedig yn waſtadol yn crwydro ymma a thraw, yn cael eu poeni â Llidiowgrwydd ac Anobaith diddiwedd; lle y maent beunydd yn lloſgi heb ddifa, beunydd yn llewygu, ond heb farw, yn gorfod nychu allan Dragywyddoldeb maith mewn Och'neidiau a Griddfanau, heb neb i doſturio wrthynt. Ac ar ôl y fath Olwg a hon, pa fath goeg Bethau gwael a diyſtyr yr ymddengys holl Dda a Drwg y Bŷd hwn i ni? Ond etto oni chredwn ni eu Gwirionedd hwynt, er cymmaint allont fod ynddynt eu hunain, ni thalant fwy i'n Gobaith a'n Hofn (y rhai yw'r Annogaethau i beri i ni weithredu) nâ phe baent gynnifer a hynny o Freuddwydion euraid, neu Fwbachod difywyd. Can's pob Cynnygion o Dda a Drwg ydynt yn gweithio ar Feddyliau Dynion yn gyfattebol i'r Môdd y credir hwynt, ac y cydſynier â hwynt; ac fel nad yw y Peth hwnnw nad yw wîr, felly y Peth nad ydym yn gredu, ſydd i ni fel pe na bae. Pa fodd ynte y mae'n boſſibl i'r Da neu'r Drwg hwnnw nad ydym yn gredu, ac yn ganlynol ymha un nid ydym yn dyall fod i ni ddim Perthynas, weithio arnom ni?

Am hynny wrth ddechreu ein Milwriaeth Gris'nogol, y mae'n angenrheidiol jawn na chymmerom ein Ffydd ar

antur,

antur, a chredu â'n Llygaid ynghauad, heb wybod pa ham neu am ba Achos; ond i ni holi yn ddibartiaeth, cyn belled ag y gallom, Dyſtiolaethau ein Crefydd, a chwilio'r Seiliau ar ba rai y dylid ei chredu, fel y gallom roddi rhyw Reſwm i ni ein hunain, ac i eraill, am y Gobaith ſydd ynnom. I'r Diben hynny fe fydd yn angenrheidiol i ni ddarllen, ac yſtyried yn ddibartiaeth, rai o'r Llyfrau hynny a'ſgrifennwyd i amddiffyn y Grefydd Gris'nogol; ac y mae amryw o rai rhagorol o honynt yn y Jaith *Saeſonaeg* *, ac un yn *Gymraeg*, ſef, *Grotius* ynghylch *Gwirionedd* y *Grefydd Gris'nogol*. Ac os cymmerwn Boen i'n haddyſgu ein hunain yn Nhyſtiolaethau hawdd ac eglur y Grefydd Gris'nogol, nyni a gawn yn fuan weled digon o Achos i gyttuno â hi; ac yna ein Ffydd, wedi ei hadeiladu ar gadarn Sail Rheſwm, all erchi i'r Byd wneuthur ei waethaf, a ſefyll allan yn erbyn y Tymheſtloedd creulonaf o Brofedigaeth.

II. Tu ag at ddechreu yn dda ein Milwriaeth Gris'nogol, y mae'n angenrheidiol hefyd i ni jawn yſtyried Annogaethau ein Crefydd, a'u cyd-bwyſo â'r Caledi a'r Anhawſdra a raid i ni eu dioddef. Can's fel hyn y mae'n Jachawdwr yn gwneuthur Yſtyriaeth yn Ddechreuad angenrheidiol i'n Milwriaeth Gris'nogol, *Luc* xiv. 28. lle y mae efe yn cyffelybu Gwaith Dynion yn rhuthro yn fyrbwyll i Galedi y Fuchedd Gris'nogol yn ddi-yſtyriaeth, i Ddŷn yn bwriadu adeiladu Twr heb fwrw ei Draul, neu i Frenin yn myned i Ryfel heb fyth yſtyried ymlaen-llaw, p'un a all efe â'i Fyddin o ddeng mil orchfygu ei Elyn ag ugain. Trwy y ddau Gyffelybiaeth ymma y mae efe yn arwyddocâu i ni, fod Diwedd y Dynion hynny yn aflwyddiannus, y rhai ſydd yn rhoi eu Henwau i mewn i ymladd dan ei Faner ef yn erbyn y Diafol, y Byd, a'u Chwantau eu hunain, heb fyth yſtyried ymlaen-llaw eu Nerth eu hunain, neu Rym eu Gelynion, y Rheſymmau â pha rai y rhaid iddynt ymladd, neu'r Caledi ag ſydd i'w croeſi a'u gwrth'nebu hwynt. Fel pan ddelont i gyflawni eu Bwriadu byrbwyll, fe gyfyd cymmaint o Anhawſdra

* Dr *Stillingfleet*'s *Origines.* Dr *Patrick*'s Tranſlation of *Grotius.* Sir *Charles Wolſely.*

hawſdra ar eu Ffordd, na feddyliaſant erioed am dano, ac na chymmeraſant ddim Gofal i'w harſogi eu hunain yn ei erbyn ymlaen-llaw, fel na bydd ganddynt na Chalon na Gwroldeb i ſefyll o'i flaen, ond ar ôl ychydig o Gynnygion lleſg, a drôant yn fuan yn ôl fel rhai gwan Galon.

Can's yn wir, Yſtyriaeth ydyw Bywyd ac Enaid Ffydd, ſydd yn goſod Grym ac Egni yn ei Hegwyddorion, ac ſydd yn tynnu allan eu holl Allu naturiol hwynt. Ac er mor bwysfawr a ſo'r Gwirioneddau a ſom yn gredu ynddynt eu hunain, er mor dueddol a font i'n hyſbrydoli a'n bywioccâu ni; etto, oddieithr i ni eu dwys yſtyried a'u cymhwyſo hwynt at ein Hewyllyſiau a'n Serchiadau, a chymmeryd Poen i dynnu eu Grym a'u Heffaith naturiol allan o honynt, a'i dywallt i Alluoedd ein Heneidiau, hwy a fyddant fel cynnifer o Egwyddorion meirw yn ein Meddyliau, ac ni chyfrannant byth i ni y Râdd leiaf o Wroldeb a Bywiogrwydd yſbrydol. Ac am hynny y mae'n Jachawdwr yn mynegi, mai'r Achos p'am yr oedd Gair Duw yn cael cynddrwg Llwyddiant yng Nghalonnau Dynion (y rhai y mae efe yn gyffelybu i Dir y Ffordd fawr, y Tir cerrigog a draenog) ydoedd, naill ai o herwydd nad oeddent yn ei yſtyried oll, neu am nad oeddent yn ei yſtyried yn ddwfn ddigon, neu am nad oeddent yn ei yſtyried yn ddigon hir. Naill ai nid aeth y Gwirioneddau duwiol a glywſant ddim pellach nâ'u Cluſtiau, ac felly oeddent yn agored fel cymmaint a hynny o Lafur wedi ei golli ar y Ffordd fawr, i'w bigo i fynu gan Ehediaid yr Awyr; neu os aeth i'w Meddwl a'u Hyſtyriaeth, yr oedd mor yſgafn ac ar yr Wyneb, fel nad oedd ganddo mwy nâ'r Hâd a hauwyd ar y Graig Ddyfnder ddigon i gymmeryd Gwraidd, i ſefydlu a thyfu i'w Meddyliau, a dyfod yn Egwyddorion o Weithred; neu os derbyniaſant ef yn breſennol i Yſtyriaeth mwy dwys a dwfn, nid oedd hynny ond dros ychydig Amſer; can's yn y man y maent yn gadael i'w Gofalon a'u Pleſerau bydol, fel Drain, dyfu i fynu yn eu Meddyliau, a'i dagu, cyn iddo addfedu. Ond y Peth a'i gwnaeth mor llwyddiannus a ffrwythlawn mewn Calonnau oneſt a da, ydoedd, iddynt gadw'r Gair wedi ei glywed; hynny yw, ei gadw yn eu *Meddyliau* a'u *Hyſtyriaeth*,

ſtyriaeth, ac felly *dwyn Ffrwyth gyd ag Ammynedd*, Luc viii. 12, 13, 14, 15. Felly, tu ag at wneuthur Dechreuad da mewn Crefydd, y mae nid yn unig yn angenrheidiol i ni yſtyried Annogaethau a Rheſymmau Crefydd, a'u cydbwyſo â'r Caledi ſydd ynddi, ond i ni eu hadſyfyrio a'u hailadrodd yn ein Meddyliau, nes goſodom ger ein bron gyd â'r Bywyd a'r Bywiogrwydd eithaf, pa beth bynnag ſydd yn gwneuthur dros ein Mynediad i'r Filwriaeth Griſnogol, a pha beth bynnag ſydd yn gwneuthur yn ei erbyn; a chwedi eu pwyſo hwynt dracheſn a thracheſn yng Nghloriannau Barn unjawn a Dibartiaeth, y dugom y Dadl i'r Diben hwn; Fod anfeidrol fwy o Bwys yn Rheſymmau Crefydd i'n perſwadio ni iddi, nag ſydd yn ei holl Galedi i'n gwan-galonni ni oddi wrthi. Can's oddieithr i ni ddechreu Crefydd wedi ein harfogi ymlaen-llaw â'r Hannogaethau, a'n rhybuddio ymlaen-llaw am ei Chaledi, ni's gallwn ni byth ſefyll ein Tir; ond, trwy gyſarfod â mwy o Wrthwynebiad nag oeddem yn ddiſgwyl, ac heb ddigon o Gadernid Rheſwm i ddal i fynu yn ei erbyn, nyni a edifarhâwn yn fuan am ein Gorchwyl byrbwyll, ac ſe orfydd arnom ddychwelyd yn ôl oddi wrthi gyd â Chywilydd ac Anglod. Can's yn arferol dymma Diwedd yr Amcanion byrbwyll anſefydlog hynny y mae Dynion yn wneuthur yng Ngwrês eu Gwŷn; pan cawſant eu gwreſogi gan ryw Bregeth lem, neu eu brawychu gan ryw Berygl mawr, neu eu twymo i ddigio wrth eu Pechodau, trwy deimlo rhyw Ddamwain flinderus jawn ag y bradychodd eu Pechodau hwynt iddi: yn yr Achoſion hyn, neu'r cyffelyb, y mae Dynion yn arferol o wneuthur Bwriadu ebrwydd o Wellhâd, heb yſtyried naill ai'r Pethau y maent yn fwriadu arnynt, neu'r Annogaethau a ddylent gynnal eu Bwriad i fynu; ac felly, wrth gael mwy o Galedi yn y Peth, pan ddelont i'w ymarfer ef, nag oeddent hwy yn ddiſgwyl, ac heb Annogaethau digonol ganddynt i'w dwyn trwyddo, y mae eu Bwriad yn lleſgâu wrth ei gyflawni, ac yn fynych jawn yn rhoddi lle i'r Brofedigaeth neſaf a ymdrecho â hwynt.

Yn awr, er nad wyf yn gwadu, nad yw'r Jaſau twymion hynny o Wŷn yn Odfeydd da i ni ddechreu ein Crefydd

fydd ynddynt; ac os gwnawn Gynnydd doeth o honynt, hwy a allant fod yn Gymmorth mawr i ni yn ein Taith tu a'r Nefoedd, ac, fel Awel hwylus o Wynt, i wneuthur ein Ffordd yn rhwyddach ac yn gyflymmach o lawer; etto os bydd i ni yn y fath Jafau a'r rhai 'n fwriadu yn rhy fuan, heb jawn-yſtyried pob Peth yn neillduol, yr Anhawſdra ar y naill law, a'r Rheſymmau a'r Annogaethau ar y llaw arall, prin y mae'n boſſibl i'n Bwriad byth ddyfod i fod yn Egwyddor barhâus o Ddaioni. Can's pan fwriadom yn ddi-yſtyriaeth, yr ydym yn bwriadu gwneuthur ni wyddom pa beth, ac y mae'n Bwriad yn cynnwys ynddo fil o Bethau neillduol nad ydym yn meddwl am danynt; a'r Rhan fwyaf o honynt yn wrthwyneb i'n Tueddiadau drwg, a fyddant, pan ddelom i'w hymarfer hwynt, â'r fath Galedi yn eu dilyn, ag a frawycha yn hawdd ein Bwriad egwan, yr hon, o herwydd nad oes ganddi Sail ddigonol o Reſwm i'w chynnal i fynu, ni ddichon byth ſefyll allan yn erbyn y Tymheſtloedd geirwon hynny o Brofedigaeth ag a fyddant yn waſtadol ar ei Ffordd. Os ydym gan hynny yn meddwl i'n Bwriad ddal allan, a dyfod yn Egwyddor fywiol o Ddaioni, rhaid i ni ei ſeilio mewn Yſtyriaeth lwyr-gwbl o Ddyledſwyddau ac Anhawſdra Crefydd, a'r Annogaethau a ddylent ein rhwymo ni i'w chofleidio hi; rhaid i ni oſod o flaen ein Meddyliau yr holl Bechodau a raid i ni ymadael â hwynt, a'r holl Ddyledſwyddau a raid i ni ymoſtwng iddynt, a goſod yn dêg o'n blaen yr holl Galedi a'r Profedigaethau a raid i ni ymrwymo â hwynt; ac ddim ag allom eu gwneuthur yn breſennol i ni, trwy fwrw ein bod eiſoes wedi ymrwymo yn ein Milwriaeth yſbrydol, a chwedi ein hamgylchu â'r holl Brofedigaethau oddi ſewn ac oddi allan, ag allwn gyd â Rheſwm ddiſgwyl i'n gwrthwynebu ni: a chwedi ein goſod ein hunain yn llyn ynghanol Caledi Crefydd, rhaid i ni yn ddibaid gymmell arnom ein hunain ei Rheſymmau mawrion a'i Hannogaethau hi, nes bo i ni gwbl perſwadio ein Hewyllyſiau yſtyfnig, a chael ganddynt hwy yn oleuedig gyttuno â phob Dyledſwydd ag ydd yn galw am ein Cydſyniad a'n Bwriad.

III. Tu

III. Tu ag at ddechreu o honom yn dda ein Milwriaeth Gris'nogol, y mae'n angenrheidiol hefyd i ni fod wedi ein hargyhoeddi yn ddwfn ac yn gyfangwbl o'r mawr Eiſiau Cyfryngwr ſydd arnom i wneud Jawn am ein Pechodau, ac i'n gwneuthur yn gymmeradwy gyd â Duw. Can's er mwyn ein hargyhoeddi ni o'r Gwirionedd angenrheidiol hwn, y mae'r 'Sgrythur mor eglur yn mynegi, mai megis *y mae un DUW*, felly *y mae un Cyfryngwyr rhwng DUW a Dynion, y Dyn Criſt Jeſu*, 1 Tim. ii. 5. Ac *os pecha neb, ſod i ni Ddadleuwr gyd â'r Tâd, Jeſu Criſt y Cyfiawn*: ac mai *efe yw'r Jawn dros ein Pechodau ni; ac nid dros yr eiddom ni yn unig, ond dros Bechodau'r holl Fŷd*: ac mai *er mwyn ei Enw ef y maddeuer ein Pechodau*, 1 Joan ii. 1, 2, 12. ſod *i ni Brynedigaeth trwy ei Waed ef*, Eph. i. 7. ac *heb ollwng Gwaed, nad oes Maddeuant*; ac *mai trwy ei aberthu ei hun, y dileodd Criſt Bechod*, Heb. ix. 22, 26. ein bod *yn gymmeradwy gan DDUW yn yr Anwylyd*, Eph. i. 6. ſod *Criſt wedi myned i'r Nef, i ymddangos yn awr ger bron DUW droſom ni*, Heb. ix. 24. a'i ſod *ef yno yn byw bob amſer i eiriol droſom ni*, Heb. vii. 25. mai *trwyddo ef y mae i ni Ddyfodfa at y Tâd*, Eph. ii. 18. a *thrwyddo ef yr ydym yn cael Dyfodfa i'w Râs a'i Ffafr*, Rhuf. v. 2. Amcan y 'Sgrythurau hyn i gŷd ydyw, ein llwyr argyhoeddi ni o'r Gwirionedd mawr hwn; I ni bawb, trwy ein Gwrthgiliad oddi wrth Dduw, a'n Gwrthryfelgarwch yn ei erbyn, wneuthur ein hunain mor ddaroſtyngedig i'w Lidiowgrwydd, na faddeuai ef i ni ar un Cymmod oedd lai nâ gwerthfawr Waed ei Fâb ei hun, ac na dderbyniai mo honom i'w Ffafr ar un Annogaeth oedd lai nâ'i Eiriolaeth alluog ef; i ni, trwy ein Heuogrwydd, trwm-lidio Tâd y Trugareddau yn ein herbyn cyn belled, nad oes un Yſtyriaeth ſy lai nag Angeu ac Eiriolaeth y Perſon mwyaf ac anwylaf yn yr holl Fŷd, a'i cynhyrfa ef i dderbyn ein Hedifeirwch, a gwrando ein Gweddiau. Ac yn ddiammau, yn neſaf at ofyn y Gôſb oedd ddyledus i'n Pechodau ar ein Dwylo ni ein hunain, y Toſter mwyaf ofnadwy ag allaſai efe ddangos ydoedd, bwriadu na faddeuai ef mo honi ar un Yſtyriaeth arall, ond bod i'w Fâb ei hun fyned dani yn ein lle ni: trwy'r hyn y rhoddes efe i ni y

Rheſwm

Rheſwm mwyaf ag allaſai 'r Nefoedd a 'r Ddaear roi i ſrawychu rhag Ofn ei Gyſiawnder eſ, hyd yn oed y Pryd y mae efe yn ein cofleidio ni ym Mreichiau ei Drugaredd.

Nyni a ddylem gan hynny gael ein hargyhoeddi yn ddwfn ac yn llwyr-gwbl o hyn, fod ein Pechodau wedi ein gofod mor belled oddi wrth Duw, nad oes dim ond Gwaed Criſt a 'i cymmodiff ef â ni; ac er na chymmoda efe byth â ni heb ein Hedifeirwch, etto nid er mwyn hwnnw, neu un Peth arall ag allwn ni wneuthur, y cymmer efe ei berſwadio i 'n derbyn ni i 'w Ffafr, ond yn unig er mwyn yr Aberth tra gwerthfawr hwnnw y ddarfu i 'w dragywyddol Fâb offrwm i fynu drofom. Sicr gredu ac yſtyried hyn a fydd yn Fraw mawr jawn ar ein Meddyliau, ac a 'u tery hwynt â 'r fath Deimlad erchyll ac echrydus o Bechod, ag a fydd yn Ddychryn i ni rhag meddwl fyth gyttuno ag ef; y Dangoſiad ofnadwy a roddes Duw i ni o 'i gyſiawn Doſter yn ei erbyn, hyd yn oed yn y Rheſwm p 'am y maddeuodd efe eſ, a fydd yn Feddyginiaeth effeithiol i ni yn erbyn ein holl Ddiofalwch a 'n Hyder pechadurus. Can 's Gwaith Duw yn maddeu i ni yn y Ffordd hon, ar Gyfrif Aberth ei Fâb ei hun, ſydd yn diogelu ei Drugaredd â 'r fath Ddychryn arſwydus, ag ſydd ddigon i wangalonni y Pechadur mwyaf yſgeler rhag rhyfygu arno. Can 's y neb a feiddia ryfygu pechu ymlaen ar Drugaredd a goſtiodd Waed Mâb Duw, ſydd ganddo ddigon o Wroldeb i edrych yn Wyneb Fflammau Uffern, ac ni all dderbyn un Drugaredd ag allo 'r Duw mawr ddangos gyd â Diogelwch i 'w Awdurdod ei hun. Can 's pa Drugaredd all fod yn rhŷdd oddi wrth Gam-arferiad a Rhyfyg y Dŷn hwnnw, ag a feiddia gam-arfer Trugaredd ag ſydd wedi ei chadw a 'i diogelu fel y mae hon, trwy gael ei feilio ar y fath Yſtyriaeth ofnadwy!

Ac megis y bydd i gwbl gredu 'r Angenrheidrwydd o Aberth Criſt tu ag at Faddeuant o 'n Pechodau, ein llanw ni â Theimlad arſwydus o Doſter Duw, a gofod o 'n blaen Olwg erchyll jawn o drwm Haeddiant ein Pechodau, y rhai ydynt bob un o honynt yn angenrheidiol i 'n rhwymo ni i gwbl Ddiwygiad; felly cael ein llwyr argyhoeddi o Angenrheidrwydd ei Eiriolaeth ef i wneuthur ein Dyledſwyddau,

ledſwyddau, ein Gweddiau, a'n Perſonau yn gymmeradwy gyd â Duw, a'n daroſtwng ni yn effeithiol, ac a'n hiſela ni yn ein Golwg ein hunain; yr hyn, fel y dangoſaf i chwi yn y man, ſydd yn lleſol jawn tu ag at ddechreu o honom yn dda ein Milwriaeth Gris'nogol. Can's, yn neſaf at ein herlid ni o'i Wydd yn dragywydd, y Ffordd fwyaf effeithiol ag allaſai Duw gymmeryd i'n daroſtwng ni, ydoedd, ein cau ni allan oddi wrth bob Cyfrinach digyfrwng ag ef ei hun, a pheidio derbyn dim Ymbiliau na Gweddiau oddi wrthym mwyach, ond yn unig trwy Ddwylo Cyfryngwr; yr hyn ſydd Ddangoſiad amlwg mor anfeidrol bûr yw efe, ac mor frwnt a gwael y mae ein Pechodau wedi ein gwneuthur ni: fel na oddef efe i Greadur pechadurus ddyfod yn agos atto un Ffordd arall ond trwy Feichiau, na dderbyn efe Waſanaeth o Law euog, ac na wrendy ar Weddi o Enau pechadurus, nes ei ſancteiddio yn gyntaf, a'i chyfiawyno iddo ef gan Gyfryngwr pûr a glân. Ac felly oddigerth ein bod ni yn ddi-yſtyriaeth rhyfedd, ni's gallwn lai nâ bod yn deimladwy jawn o'n Gwendid ein hunain, pan feddyliom mor belled y mae'r Duw pûr a ſanctaidd yn ein cadw oddi wrtho; y modd y mae efe yn ſefyll draw gan Ddrewdod ein Ffieidd-dra; ac, er ei holl Haelioni tu ag attom, na's gwrendy efe mo honom, ac nad oes dim a fynno efe â ni, heb Eiriolaeth ymmus ei Fâb ei hun.

Ac fel y mae cael ein hargyhoeddi, mor angenrheidiol yw i ni gael Aberth ac Eiriolaeth Criſt yn dueddol jawn i weithio ynnom Driſtwch ac Ofn ſanctaidd, y rhai ydynt bob un o honynt yn Offerynnau galluog jawn at ein diwygio; felly bod i ni goelio Gwirionedd a Godidowgrwydd i Eiriolaeth, ſy mor dueddol i'n llanw â Gobaith cryf a hicrwydd o Dderbyniad gyd â Duw, os bydd i ni ddiwygio a gwellhâu. Can's y mae'n debygol fod Meddyliau euog erioed yn dueddol o oſod eu Hyder o gael eu derbyn gyd â Duw, ar Aberthau mewn Ffordd o Jawn, ac ar ſbrydion yn eirioli droſtynt. Am hynny yr ydoedd hon n Egwyddor a dderbyniwyd yn gyffredinol gan Ddynion bob Cenedl a Chreſydd (pa fodd y digwyddodd hyn ni's wn i) fod yn angenrhaid i Ddynion pechadurus, er mwyn

llonyddu y Duw digofus, yn gyntaf, Gael rhyw Einioes i'w haberthu iddo mewn Ffordd o Jawn am eu Pechodau; a pho fwyaf rhagorol oedd hi, mwyaf ffafrol yr ydoedd yn ei wneuthur ef. Yn ail, Cael gan ryw Gyfaill anwyl iddo eirioli gyd ag ef ar eu Rhan hwynt. Ac ar hynny, a hwy yn dyall, trwy Draddodiad cyffredinol, fod math o Hanfodau canol (y rhai ydym ni yn alw Angelion) rhwng y Duw Goruchaf a Dynion, hwy a ddechreuasant weithio at y rhai'n, a'u gwobrwyo hwynt ag Anrhydedd sanctaidd, i eirioli gyd â Duw ar eu Rhan hwynt. Ac os gallent hwy hyderu ar Aberthau, y gwerthfawroccaf o barai nid oeddent ond Bywyd Dynion pechadurus, a gorphwys ar Eiriolwyr, nad oedd ganddynt ond ychydig neu ddim Sicrwydd ynghylch eu Ffafr hwy gyd â Duw; pa Sail gadarn o Hyder a Sicrwydd sy gennym ni, dros barai y darfu i Fâb Duw unwaith offrwm y fath Aberth haeddiannol ar y Ddaear, ac yn parhâu i wneuthur y fath Eiriolaeth bwerus yn y Nefoedd! Can's, heblaw fod ei Aberth ef yn gwbl haeddiannol dros Droseddwyr euog, fel yr oedd efe yn Berson difrycheulyd a diniweid, ac heblaw fod ei Aberth ef yn haeddiannol dros Fŷd o Droseddwyr euog, fel yr oedd efe yn Berson o anfeidrol Werth a Theilyngdod; y mae Duw, ar Ewyllys da pa un yr oedd ei dderbyn neu ei wrthod ef yn llwyr-gwbl yn sefyll, wedi mynegi yn gyhoeddus ei Dderbyniad o hono fel Jawn dros Bechodau'r Bŷd; a chwedi ei rwymo ei hun, trwy Ganiatâd a *Siartr* gyhoeddus o Drugaredd, i ryddhâu, er ei Fwyn ef, bob Pechadur yn y Bŷd, a wnelo ond dychwelyd atto trwy Edifeirwch prûdd a diragrith: ac ni ellid erioed ddywedyd yr un o'r Pethau mawrion hyn am un Aberth arall. A thrwy Rinwedd yr Aberth hwn, yn gystal a thrwy ei Ffafr bersonol ef ei hun gyd â'i Dâd, y mae efe yn awr yn eirioli ar ein Rhan: a chan ei fod ef yn pledio ein Hachos, fel y mae efe, a Phris ein Heneidiau yn ei Law, sef ei werthfawr Waed, â pha un y prynodd efe hwynt; nyni a allwn fod yn sicr, â'r Ffraethineb pwerus hwnnw, na ffaela efe â llwyddo drosom. Can'wedi iddo efe bwrcasu drosom â'i Waed yr holl Ffafrau hynny y mae efe yn eiriol am danynt, y mae ganddo e

Haw

Hawl ac Awdurdod i'w hyſtoſi hwynt arnom. Fel y mae'r holl Ffafron hynny yn awr, y rhai a addawodd Duw i ni, en mwy o Ddiogelwch i ni, wedi eu goſod yn Nwylo ein Cyfryngwr; ac er fod ei Addewid noeth ef ynddi ei hun yn gymmaint o Sicrwydd ag a ellir roddi i ni; etto rhaid yſtyried fod Meddyliau euog wrth Natur yn bryderus, ac yn llawn o Ddrwg-dybiau direſwm: ac yn ganlynol, tra'r oeddent yn edrych ar Dduw fel Plaid ag oedd yn eu herbyn, ac fel Plaid ag oeddent hwy wedi ei ddigio yn anfeidrol, hwy a fuaſent dueddol jawn o ddrwg-dybio 'r gwaethaf, pe na buaſai ganddynt ddim ond ei Air noeth ef i hyderu arno. Ac am hynny, mewn Ymoſtyngiad i'r Gwendid toſturiol hwn yn ei Greaduriaid pechadurus, ſe ddarfu iddo nid yn unig addo iddynt ei Dderbyniad a'i Ffafr, ac Ammod iddynt ddychwelyd atto, ond efe a oſododd hefyd y Cyflawniad o'i Addewid mewn trydydd Llaw; ſef, yn Llaw Cyfryngwr, yr hwn, wrth Natur ei Swydd, ſydd â'r un Gofal arno dros y ddwy Blaid; yn gyſtal ar i Dduw gyflawni ei Addewid, os cyflawnem ni ein Dyledſwydd, ag i ninnau gyflawni ein Dyledſwydd, os derbyniem Lesâd ei Addewid ef. Ac am hynny y gelwir ein Cyfryngwr yn *Fachwŷdd ar Deſtament gwell*, Heb. vii. 22. Felly yn awr nid oes i ni a wnelom mwyach â Duw fel ein Gwrthwynebwr yn ddigyfrwng, ond trwy Gyfryngwr; yr hwn, trwy ei Swydd, ſydd yn rhwym i fod o'n Hochr ni, yn gyſtal ag o Ochr Duw; ac i gymmeryd Gofal, na bo i'r naill dderbyn Rhan y llall o'r Cyfammod, heb gyflawni ei Ran ei hun. Ac fel y gwelodd efe weithiau fod yn dda, er mwyn Gwendid dynol, i gryfhâu ei Addewid â'i Lŵ, nid fod y naill yn ei Natur ei hun yn fwy o Sicrwydd oddi wrth Dduw nâ'r llall, ond o herwydd fod Llŵ gyd â Dynion yn rhwymo yn fwy nag Addewid; felly, mewn Ymoſtyngiad mawr i Anghoel direſwm ein Meddyliau euog, y mae efe nid yn unig wedi addo i ni Addeuant a Derbyniad ar ein Hediſeirwch, ond efe a roddodd i ni hefyd gyd â hynny Feichiau y cyflawna efe'r peth, ſef, Meichiau Cyfryngwr, yn Nwylo pa un y goſodid efe pa beth bynnag a addawodd efe i ni. Nid fod efe yn ynddo ei hun yn fwy o Sicrwydd nâ'i Air noeth a'i

Addewid ef, yr hyn ni 's gall mo 'i dorri, mwy nag y gall efe ei wadu ei hun; ond o herwydd fod y Ffordd hon o roddi Meichiau trwy drydydd Perſon, wedi ei gymhwyſo yn well at Drefn ein Cyſammodau a'n Cyttundeb ni â'u gilydd, ac yn ganlynol yn fwy tebygol i ſoddloni ein Meddyliau pryderus a dihyder.

Ac fel hyn cael ein hargyhoeddi o'n Heiſiau o Gyfryngwr, a chredu Gwirionedd a Godidowgrwydd ei Eiriolaeth ef, a weithia yn bwerus ar ein Gobaith a'n Hofn, y rhai ydynt y Ffynhonnau pennaf oddi wrth ba rai y mae'n holl Egni crefyddol yn tarddu; ac a roddant ar unwaith i ni yr Olwg fwyaf echrydus o Ddrwg Pechod, a'r Sicrwydd mwyaf cyſſurus o Faddeuant a Derbyniad gyd â Duw, ar ein Hedifeirwch a'n Gwellhâd; y rhai ydynt bob un o honynt yn hollawl angenrheidiol tu ag at ddechreu o honom yn llwyddiannus ein Milwriaeth Gris'nogol.

IV. Tu ag at ddechreu y Filwriaeth ſanctaidd hon, y mae'n angenrheidiol hefyd fod ynnom Driſtwch dwfn, a Chywilydd, a Chnofa Cydwybod, am ein Hanwireddau a aethant heibio. Can's hyn y mae'r Apoſtol yn alw, *triſtâu i Edifeirwch*; ac yn dywedyd wrthym, fod *duwiol Driſtwch yn gweithio Edifeirwch, er Jechydwriaeth ni bydd Edifeirwch o honi*, 2 Cor. vii. 9, 10. Ac felly y mae yn 'ſgrifennedig am y rhai a ddychwelodd S. *Pedr*, mai Dechreuad eu Hedifeirwch ydoedd, iddynt gael eu *dwys-big yn eu Calon*, Act. ii. 37. Ac y mae Edifeirwch ei hun yn y 'Sgrythur yn cael ei alw, *Calon ddrylliog gyſtuddiedig*, gan mai dymma'r Parotoad mwyaf digyfrwng at wir Edifeirwch, neu Gyfnewidiad Meddwl, *Salm* li. 17. Ac am hynny y mae'r 'Sgrythur yn goſod allan y Bobl edifeiriol gynt, eu bod yn *ymwregyſu â Sachliain, ac yn edifarhâu mewn Llwch a Lludw*: mewn Cyffelybiaeth i'r hên Arfer lle byddai Galar mawr ac arbennig; ſef, gwiſgo Sachliain, cuddio y Pen â Lludw, ac eiſtedd yn y Llwch. Ac yn brif Oeſoedd puraf o Gris'nogaeth, y mae'n amlwg fod yr edrych ar y Triſtwch a'r Cnofêydd Cydwybod mwy chwerw, fel Parotoad angenrheidiol i Edifeirwch. Can yr oedd y rhai edifeiriol yn y Dyddiau hynny, fel y ma *Tertùlian* a *Naſianſen* yn eu hadrodd hwynt, "yn gorwed

" ar eu Hwynebau wrth Ddryſau 'r Eglwys mewn Sach-
" liain a Lludw; gan daer ymbil Gweddiau yr Henuriaid
" a 'r Gwragedd gweddwon; gan hongian wrth Wiſgoedd
" a Gliniau y rhai 'ny ag oeddent yn myned i 'r Eglwys;
" gan guſanu ol eu Traed hwynt; ac, ag Afonydd o
" Ddagrau yn eu Llygaid, yn attolwg arnynt weddio ar
" Dduw am Faddeuant iddynt." Yn awr, er nad ydym ni dan Doſter llym y fath *Ddyſgyblaeth Eglwyſig*, etto yr ydym dan gymmaint o Rwymau a 'r rhai Edifeiriol hynny gynt, i 'w ymarfer ef oddi fewn yn ein Calonnau. Can's y mae Pechod cynddrwg yn awr ag oedd efe y pryd hwnnw, ac yn Ddrwg mor fawr ynnom ni ag oedd efe ynddynt hwy; ac am hynny nyni a ddylem alaru o 'i blegid ef gyd â 'r un fath Driſtwch a Chnoſa Cydwybod. Ac yn wir, os ydym byth yn meddwl rhyfela ag ef yn llwyddiannus, y mae 'n angenrhaid i ni gael ymlaen-llaw gwbl Deimlad o 'i Ddrwg ef; i ni goſbi ein Heneidiau â rhyw faint o 'r Triſtwch chwerw a 'r Gofid hwnnw y mae Pechod yn haeddu, a chyſtuddio ein hunain â rhyw Ran o 'r Uffern honno o anfeidrol Ddychryn a Phoen ag y mae efe yn genhedlu yn ei Grôth; fel, o fod yn fwy teimladwy o 'i Ddrwg, y gallom fod yn fwy llidus yn ei erbyn, ac ymdrech ag ef gyd â mwy o Fwriad a Chalon. Can's ein Triſtwch a 'n Blinder am ein Pechodau, os bydd yn brûdd ac yn ddiragrith, a dry i Gaſineb a Llid yn eu herbyn; 'r Caſineb hwnnw a rydd i ni Galon yn ein holl Ymdrechadau â hwynt, ac a 'n gwnâ ni yn fwy cyndyn yn erbyn eu Dychryn a 'u Hudoliaeth. Fel pan demtier ni o 'r neſydd drachefn, yn y Rhan fo 'n ôl o 'n Milwriaeth yn eu herbyn, i ildio a chyttuno â hwynt, y Coffadwriaeth o 'r Fywilydd a 'r Triſtwch, y Blinder a 'r Gwradwydd a ddidoddefaſom gynt o 'u Hachos, a 'n gwnâ yn fwy byddar a chluſt-drwm o lawer, nag y buaſem heb hynny, i wrando ar eu Gwenjaith a 'u Hymbiliau.

Os chwennychwn gan hynny ymrwymo yn yr Ymladdfa ſbrydol hon yn llwyddiannus, rhaid i ni yn fynych alw i mîn ein Pechodau aeth heibio, a 'u goſod hwynt o 'n blaen yn eu holl Amgylchiadau trymion. A chwedi i ni fwrw holwg arnynt oddi amgylch, a 'u hyſtyried hwynt yn eu

holl Ffieidd-dra naturiol, eu Hanoneſtrwydd, a'u Hanweddeidd-dra, a'u cymhwyſo hwynt attom ein hunain ynghyd â'r holl Golynnau ag ſydd yn perthyn iddynt, et Heffeithiau cywilyddus, a'u Hamgylchiadau echrydus, fel y bo ein Calonnau yn dechreu eu teimlo hwynt, ac ddolurio a gwaedu dan y Teimlad blinderus o honynt yna rhaid i ni eu tywallt hwynt allan ger bron Duw mewn Cyfaddefiadau athriſt a galarus. Can's y mae cyfadde ein Pechodau ger bron Hanfod mor fawr ac mor bûr, y Fôdd effeithiol ynddo ei hun i gynnyddu ein Cywilydd a'n Triſtwch am danynt: a rhaid fod gan hwnnw Galon galed jawn, ag allo yn oneſt (ac heb guddio mo'r un) amlygu e Droſeddau ger bron Duw'r Nefoedd a'r Ddaear, ynghyd â'r holl Bethau duon ag ſydd yn eu trymhâu hwynt, he gael ei frathu gan Flinder teimladwy a Gwradwydd; y enwedig, os bydd iddo yn fynych ailadrodd ei Gyfadde iadau, fel y dylai wneuthur.

V. Tu ag at ddechreu yn llwyddiannus ein Milwriaeth Gris'nogol, y mae hefyd yn angenrheidiol i ni daer-ymbi am Gymmorth Duw i'n nerthu ni i fyned trwy'r Gwaith Can's Duw, yr hwn ſydd yn gwybod mor analluog ydym ni o honom ein hunain i ymrwymo yn y Gorchwyl maw hwn gyd â'r fath Gallineb ag ſydd angenrhaid i roi i ni u Tebygolrwydd o Lwyddiant, a addawodd i ni ei Breſen noldeb ei hun a'i Gymmorth o'i Ddechreu hyd ei Ddi wedd: ac od yw ei Gymmorth yn angenrheidiol mewn u Rhan o'r Gwaith hwn, diammau ei fod felly ar y Dechreu pryd y mae yn fwyaf anhawdd a pheryglus; fel y dangoſ yn y man. Os rhyfygwn gan hynny i ddechreu'r Gor chwyl hwn heb ymbil ar Dduw i'n cynnorthwyo ni â'i R a'i Gymmorth, nyni a gawn weled yn fuan i ni gael ei gortrechu a'n gorchfygu yn gywilyddus. Can's er idd addo ein cynnorthwyo, etto y mae hynny ar Ammod i daear-ddeiſyf a cheiſio ganddo. Efe a *rydd ei Ysbryd*; on *i'r rhai a ofynno ganddo*, Luc xi. 13. efe *a nesâ attom ni* ond *rhaid i ni* yn gyntaf *nesâu atto ef*, Jago iv. 8. ac rodder i ni Sicrwydd, *os gofynwn, y rhodder i ni*; *os ceiſiw y cawn*; *ac os curwn, yr agorer i ni*, Mat. vii. 7. Ac a hynny y gorchymyner i ni *fyned yn hyderus at Orſedd-fain*

y Gri

y Grâs, fel y derbyniom Drugaredd, ac y caffom Râs yn Gymmorth cyfawferol, Heb. iv. 16. ac nid yn unig i *weddio yn ddibaid,* 1 Theſ. v. 17. eithr *ymhob peth, mewn Gweddi ac Ymbil, i wneuthur ein Deiſyfiadau yn hyſbys ger bron DUW,* Phil. iv. 6. Ac os ymhob peth y dylem wneuthur ein Heiſiau yn hyſbys iddo ef, yna mwy o lawer yn y Gorchwyl mawr anhawdd hwn, ymha un y bydd yn amhoſſibl i ni lwyddo heb ei Help a'i Gymmorth nefol ef.

O herwydd pa ham, fel yr ydym yn gobeithio am Fuddugoliaeth yn yr Ymladdfa yſbrydol hon, rhaid i ni daer-ymbil arno ef i gyd-weithio gyd â ni, ac attolwg arno ef i'n nerthu ni yn ein holl Egni a'n Llafur egwan. Rhaid i ni amlygu ein Cyflwr truenus iddo ef, a dangos iddo ein bod yn ewyllyſgar o'n Calonnau i wneuthur dim ag allom; ond y gwyddom yn dda ddigon, y bydd y cwbl hebddo ef yn ofer. Rhaid i ni ddywedyd wrtho, fod ein Hyder arno ef, a'n holl Obaith am Lwyddiant ynddo ef; ac na feiddiwn ſymmud un Cam hebddo: ac attolwg arno, na bo iddo ſefyll heibio, ac edrych arnom yn treulio ein Nerth mewn Ymdrechiadau dilês, ond iddo efe yn raſlawn eſtyn allan ei Law i'n cynnorthwyo ni; ac na adawo mo honom i fod yn golledig o eiſiau ei Gymmorth angenrheidiol. Ac os gwnawn hyn, nyni a allwn fod yn ſiwr, na bydd i'r Duw trugarog, yr hwn yw Tâd ein Hyſbryd-oedd, byth adael ei Hiliogaeth ei hun, tra y maent yn llefain arno, ac â Llygaid toſturus a chwynfanus yn deiſyf ei Help a'i raſol Gymmorth.

Tra'r ydym gan hynny yn llyn yn ymroi i barotôi ein hunain tu ag at ein Milwriaeth yſbrydol, nyni a ddylem ymhob Gweithred o Barotoad edrych i fynu at Dduw, a thaer-ymbil am Gynnorthwy ei Râs a'i Yſbryd ef. Tra'r ydym yn ymegnio i *gredu,* rhaid i ni ddeiſyf arno ef i *gynnorth ein Hangbrediniaeth,* i ſymmud pob Rhagfarn o'n Meddyliau, a goſod Tyſtiolaethau ein Crefydd o flaen ein Dyalldwriaeth mewn Goleuni eglur ac argyhoeddus. Pan yr ydym yn ymoſod i ddwys-yſtyried, rhaid i ni attolwg arno ef i ſefydlu ein Meddyliau, i grybwyll ei Annogaethau a'i Reſymmau nefol wrth ein Heneidiau, a'u hailadrodd mor dew ac mor gyflym wrthynt,

fel na allo un Meddwl pechadurus neu fydol daro i mewn, i aflonyddu neu droi ymmaith ein Myfyrdodau. Pan yr ydym yn ceifio ein perfwadio ein hunain o'n Hangen, ac o'r Gwirionedd o Gyfryngdod ein Jachawdwr, rhaid i ni daer-erfyn arno ef i agor ein Llygaid, a'n hargyhoeddi ni yn effeithiol o Berygl echrydus ein Pechod, ac Effaith ddidwyll y Feddyginiaeth fendigedig honno. Pan yr ydym yn ceifio gweithio ynnom ein hunain Deimlad chwerw o'n Trofeddau gynt, rhaid i ni ymbil arno ef i daro i mewn gyd â ni, a llanw ein Meddyliau â'r fath Argyhoeddion llym a phwerus o'u hanfeidrol Gywilydd, eu Brynti, a'u Perygl hwynt, ag a fratho ein Cydwybodau celyd i'r byw, ac a doddo ein Heneidiau rhewlyd i Edifeirwch athrift; fel pan fom yn parotoi i'r Frwydr, ac yn myned ymlaen i fwriadu, yr hyn yw Dechreuad ein Milwriaeth yfbrydol, y gallom fod wedi ein harfogi yn erbyn ein Pechodau â'r fath Ffydd fywiol, y fath Yftyriaethau galluog, y fath Ddychryn a Llid yn eu herbyn, a'r fath Obaith ficr o gael ein gwaredu oddi wrth eu Heffeithiau a'u Diwedd dinyftriol hwynt, ag y gallom addo i ni ein hunain Lwyddiant dedwydd yn y Rhan fo'n ôl o'n Milwriaeth yn eu herbyn hwynt. A chwedi cymhwyfo a thaclu ein hunain yn llyn, gogyfer â'r Gorchwyl mawr a phwysfawr hwn,

VI. Rhaid i ni gymmeryd i fynu Fwriad diragrith ac arbennig o Wellhâd, o adael ac ymwrthod â'n holl Bechodau, heb ddychwelyd byth attynt mwyach, nad pa Brofedigaethau bynnag allo ein gwahodd, neu pa Anhawfdra bynnag allo ymofod i'n herbyn a'n gwrthwynebu. Y mae'r *Bwriad* hwn, yn ôl Yftyr y Gair gwreiddiol yn y 'Sgrythur, yn arwyddocâu, *Cyfnewid y Meddwl*, neu'r Amcan a'r Bwriad, ymwrthod â'n Hamcanion pechadurus, ac ymrwymo yn arbennig mewn Bwriad gwrthwyneb; *i fyw yn fobr, ac yn gyfiawn, ac yn ddduwiol, yn y Byd fydd yr awr hon.* Felly pa le bynnag y mae'r Gair hwn yn cael ei arfer am Edifeirwch, ei Yftyr ydyw, i'n rhwymo ni i newid Amcanion drwg ein Calonnau i Fwriad cadarn a phryfur i wadu pob Annuwioldeb a Chwantau bydol, a rhoi ein hunain i fynu yn gyfangwbl i Ewyllys a Threfniad Duw. Ac am hynny y mae *newid ein Meddyliau*, a *dychwelyd*,

chwelyd, mor fynych yn cael eu cyſſylldu ynghŷd yn y 'Sgrythur: y naill yn arwyddocâu, Cyfnewidiad ein Bwriad oddi fewn; y llall, Gyfnewidiad ein Harfer oddi allan, yn gyttunol â hynny. Felly *Act.* iii. 19. *Edifarhêwch, a dychwelwch*; ac *Act.* xxvi. 20. *ar iddynt edifarhâu, a dychwelyd at DDUW, a gwneuthur Gweithredoedd addas i Edifeirwch*: hynny yw, ar iddynt fwriadu ymadael â'u Pechodau, ac ymoſtwng i'w Dyledſwydd, a goſod eu Bwriad mewn Ymarfer. Ac felly y mae'r Gair arall ag ydys hefyd yn gyfieithu *Edifeirwch*, yn arwyddocâu yn y Gwraidd, *Gofal yn ôl llaw*; hynny yw, yn ganlynol i'r *Cyfnewidiad Bwriad* hwn.

Yn awr yr Edifeirwch hwn, neu'r Cyfnewidiad Bwriad hwn, yw'r Weithred ſydd yn dechreu Crefydd Pechadyriaid; trwy ba un y maent yn tynnu y Dŷn oddi mewn oddi wrth Waſanaeth Pechod, ac yn ymoſtwng ac yn rhoddi i fynu eu Hewyllyſiau i DDUW; trwy ba un y maent mewn Calon ac Ewyllys yn gadael *Lifreu*'r Diawl, ac yn rhoddi eu Henwau i mewn yn ewyllyſgar i ymladd dan Faner Criſt. A chan ei fod felly, dylid ei gyflawni gyd â chymmaint a hynny o Ofal a Pharotoad a ſo fwy. Can's Dechreuad pob Gorchwylion mawrion yw eu Sail a'u Sylfaen hwynt; yr hwn oni oſoder ef yn gadarn, a ſydd debyg o ſoddi dan yr Adeilad, a'i oſod mewn Perygl o ſyrthio i lawr yn Garnedd. Yn awr, gan fod yr holl Ddyledſwyddau a enwyd o'r blaen yn Barotoad angenheidiol at Fwriad da, nyni a ddylem, cyn bwriadu, dreulio Cyfran weddus o'n Hamſer i'w hymarfer hwynt yn ddyfal; a pheidio bwriadu yn fyrbwyll, nes bom wedi parotôi yn ddyladwy ac yn gyfangwbl tu ag at hynny; nes bo i ni, trwy ymarfer ein *Ffydd* a'n *Hyſtyriaeth*, &c. dorri a dofi ein Hewyllyſiau cyndyn a gwrthnyſig, a'u cwbl-berſwadio hwynt i ymadael â phob Pechod, ac i hoffi a chydſynio â phob Dyledſwydd ag ſydd gynnwyſedig mewn llawn Fwriad o Wellhâd. Ac os gwelwn, pan fom ynghylch bwriadu, wrth fanwl holi, fod ein Hewyllyſiau ym gadw dim yn ddirgel, neu yn goſod yn erbyn un peth; os bydd un Trachwant na bônt wedi eu cwbl-berſwadio i ymadael ag ef, neu un Ddyledſwydd nad ydynt yn llwyr-

foddlon

ſoddlon i'w chyflawni; nyni a ddylem, dros hynny o Amſer, beidio bwriadu, ac i fyned ymlaen i ymarfer y Dyledſwyddau o'r blaen ſydd i'n parotôi, nes bo ein Hewyllyſiau gwrthwyneb wedi eu cwbl-orchfygu a'u perſwadio ganddynt. Can's os gadewir un Twll yn agored yn ein Bwriad, i un Pechod ymluſgo i mewn, nyni a fyddwn ſicr o glywed oddi wrth hwnnw ar y Dymheſtl neſaf o Broſedigaeth; ac os na ollwng efe Bechodau eraill i mewn ar ei ôl, fel mai mil i un yw oni's gwnâ, ei Bwys ei hun yn unig a'n ſudda ni i Ddinyſtr tragywyddol. O herwydd pa ham, cyn y dechreuom oll ar Fwriad o Wellhâd, nyni a ddylem fod yn ofalus jawn ar i'n Hewyllyſiau fod wedi eu cwbl barotôi at hynny; ar iddynt fod wedi eu dwyn i Gyttundeb têg â'r Peth ydym yn fwriadu arno, a chwedi eu perſwadio yn llwyr-gwbl rhag bwriadu dim i'r gwrthwyneb: a phan wneler hyn, nyni a allwn fyned ymlaen yn llawen i lunio ein Bwriad da.

Yr hyn a ddylem gyflawni rhwng Duw a ninnau, yn y Modd mwyaf pryſur ac arbennig. Can's yn awr, pan y mae'n Calonnau yn barod, nyni a ddylem fyned ar ein Gliniau, a chyſſegru ein hunain i Dduw yn y Geiriau hyn, neu'r cyffelyb. *O dydi, Awdwr hendigedig fy Myuyd yr ydwyf yn awr wedi cael fy llawn argyhoeddi, fy mod i'y ddyledus i ti trwy filoedd o Rwymedigaethau; a bod arna Driſtwch a Chywilydd anfeidrol, i mi cybyd neillduo, a chadw fy hun oddi wrthyt ti, i was'naethu fy Chwantau a'm Gwyniau bryntion. Ac am hynny yn awr, ger bron dy Fawredd ofnadwy, ac yngwydd dy Angelion ſanctaidd, yr ydwyf ymma yn fy rhoddi fy hun i fynu yn llwyr-gwbl i ti; ac yn bwriadu yn ddilyſiant, ac heb gadw dim oddi wrthyt, nad pa Broſedigaethau bynnag a allwyf gyfarfod â hwy yn ôl llaw, a bydd i mi byth mwyach yn ewyllyſgar dynnu neu ddieithro fy hun oddi wrthyt. O hyn allan yr wyf o'm Calon yn ymwrthod â'm holl Bechodau, ac yn neillduol y rhai'ny ag a fuont fwyaf anwyl a hyfryd gennyf: ac yr wyf yn addo yn ffyddlon, i barhâu yn Ddeiliad cywir ac ufudd i ti cybyd a'm y byddwyf byw; ac nad pa Waboddion bynnag a gaffwyf i'r gwrthwyneb, ni alwaf byth yn ôl mo'r Bwriad ydwyf yn awr*

yn wneuthur, nac un Rhan o hono. Felly cynnorthwya ſi, O ſy NUW.

A chwedi bwriadu yn llyn mewn modd arbennig, ſe fydd yn angenrheidiol jawn, er ei gadarnhâu ef ymhellach, i ni etto yn fwy arbennig ei ailadrodd ef yn y Sacrament Sanctaidd: ymha un, yn ôl Defod Gwleddoedd ac Aberthau, y mae Duw a phôb Cymmunwr ffyddlon yn ail-ymrwymo eu hunain i'w gilydd, ac ar yr Arwyddion ſanctaidd o Gorph a Gwaed yr Jeſu, i ſicrhâu i'w gilydd Ran pob un o'r Cyfammod tragywyddol hwnnw, yr hwn, trwy'r Ddefod gyfammodol o'i Farwolaeth a'i Aberth haeddiannol ef, a ſeliwyd ac a gadarnhâwyd, fel na's gellir ei dorri. Fel pan cymmerom yr Elfennau ſanctaidd hynny yn ein Dwylo, y rhai y mae'r Offeiriad dros Dduw yn breſentio ac yn gynnyg i ni, yr ydym cyſtal a gwneuthur y Cyſſegriad arbennig hwn o honom ein hunain i Dduw. *Ymma yr ym yn offrwm ac yn cynbyrchu i ti, O Arglwydd, ein hunain, ein Heneidiau a'n Cyrph, i fod yn Aberth rheſymmol, ſanctaidd, a bywiol i ti; ac ymma yr ydym yn galw yn Dyſt y Gwaed bendigedig a'n prynodd, a'r Clwyfau hynny ag ſydd yn llefaru ac yn awr yn eiriol troſom, ein bod yn ein rhwymo ein hunain o hyn allan, nad ymdawom byth â'th Waſanaeth di, pa Anhawſdra bynnag a-fo i ni ymdrech ag ef ynddi, neu pa Brofedigaethau bynnag allom gael i'w gadael hi.* A chwedi bwriadu yn llyn, a chadarnhâu ein Bwriadau trwy Gorph a Gwaed ein Jachawdwr, a chymmeryd y Sacrament ar hynny, nad ymadâwn â'r Peth a ddarfu i ni fwriadu, yr ydym wedi rhoi ein Henwau i mewn, ac ymrwymo mewn Rhyd yn erbyn Pechod, y Byd, a'r Diawl; ar Ddiwedd llwyddiannus pa un y mae ein Rhan dragywyddol ni yn dependo. Ac fel hyn y gwelwch pa Ddyledſwyddau ſy gynnwyſedig yn Nechreu y Rhan Filwriaethus ymma o Fuchedd y Criſtion.

DOSBARTH. II.

Lle cymhellir rhai Annogaethau *i berſwadio Dynion i ymarfer y Dyledſwyddau hynny ag ydynt gymmwys at* Ddechreu'r Filwriaeth Gris'nogol.

WEDI rhoddi, yn y Doſbarthiad o'r blaen, Hanes byrr o'r Dyledſwyddau hynny ag ydynt angenrheidiol tu ag at Ddechreu ein *Milwriaeth Gris'nogol* yn dda; mi geiſiaf yn awr, i ddiweddu y Pen hwnnw, gymmell a pherſwadio y rhai 'ny ag ſydd etto heb ddechreu, i fyned ynghŷd â'r Gwaith hwn yn fuan, trwy oſod mewn Ymarfer y Dyledſwyddau dechreuol hyn. Chwychwi, y rhai a fuoch hyd yn hyn yn rhyfela yn erbyn Duw, ac yn ymdrech yn erbyn eich Dyledſwydd a'ch Dedwyddwch, cymmerwch eich perſwadio o'r diwedd i ſefyll ychydig, ac i roddi Cluſt i Lais Rheſwm a Chrefydd, y rhai ſydd bob un o honynt yn galw yn grôch arnoch, i edrych oddi amgylch i chwi, i adael y Blaid lle'r ydych chwi wedi ymrwymo, a dyfod droſodd i Ochr Rhinwedd. Ac fel y gallwyf, od yw boſſibl, dyccio gyd â chwi, yr ydwyf ymma yn taer attolwg arnoch, hyd yn oed trwy'r cwbl ag ſydd anwyl a gwerthfawr gennych, trwy Gariad Duw, a thrwy Fywyd eich Eneidiau, a thrwy eich holl Obaith o Ddedwyddwch yn y Bŷd a ddaw, i yſtyried gyd â myfi mewn Pryſurdeb yr *Annogaethau* a ganlyn.

I. Fod Angenrheidrwydd mawr o ddechreu ein Milwriaeth yſbrydol hon ryw amſer neu gilydd.

II. Mai yn awr ydyw'r Amſer mwyaf diberygl a manteiſiol i'w dechreu hi.

III. Fod ei Llwyddiant diweddaf yn ſefyll yn fawr jawn ar ein Gwaith ni yn ei dechreu hi yn dda.

IV. Fod yr Anhawſdra pennaf wedi ei orchfygu, pan ddechreuom hi unwaith yn dda.

I. Yſtyriwch yr Angenrheidrwydd mawr ſydd i ni ddechreu y Filwriaeth yſbrydol hon ryw amſer neu gilydd. Can's angenrhaid yw i ni ryw amſer gymmeryd yn llaw y

Peth

Peth ſy raid i ni ei ddibennu o'r diwedd. Yn awr, y mae 'n angenrheidiol i ni wrthwynebu a daroſtwng Profedigaethau'r Bŷd, a Llygredigaethau ein Natur; ſel y mae 'n angenrhaid i ni beidio myned i Uffern, neu beidio colli'r Nefoedd. Can's yn yr Ymladdfa fawr hon y mae tragywyddol Ran ein Heneidiau i gael ei ſefydlu: ac os ennill a wnawn, fe 'n gwnaed ni; os gortrechir ni, fe 'n difethwyd yn dragywydd. Nid ydym yn y Filwriaeth yſbrydol hon yn ymryſon, fel Rhyfelwyr y Bŷd hwn, am Goron-blêth o Orfoledd, yr hon a wywa yn fuan ar ein Talcennau; neu am Enw da a Chlôd, yr hyn nid yw ddim ond Anadl Nifeiri o Bobl ſiaradus; neu er mwyn helaethu ein Llywodraeth ar y Dyrnaid neſaf o Dywarchen: ond yr ydym ni yn ymryſon â Gelynion ſydd yn ein herlid i Uffern, ac yn ein rhwymo yng Nghadwynau Tywyllwch tragywyddol. Yr ydym ni i ymladd am ein Hanfarwoldeb, am ein holl Obaith o Ddedwyddwch a Gwynfyd mewn Bywyd na ddiwedda byth: a phan y mae cymmaint yn ſefyll ar Lwyddiant ein Hymdrech, ag y rhaid i ni orchfygu a chael ein coroni, neu farw; ennill y Maes, a'r Nefoedd, neu roddi ein hunain yn Garcharorion i Drueni tragywyddol; mi adawaf i chwi farnu, onid ydym yn rhwym, dan yr Angenrheidrwydd mwyaf, ryw amſer neu gilydd i ddechreu. As os rhaid i ni ddechreu ryw amſer neu gilydd, pa ham na ddechreuwn yn awr, yn gyſtal ag yn ôl llaw? Ac i ba Ddiben yr oedwn ddechreu'r Gwaith hwnnw, ag ydym bawb yn gyfaddef, a raid i ni o'r diwedd nid yn unig ei ddechreu, ond ei ddibennu? Can's y mae 'n Foddlondeb mawr i'r Meddwl, i ddibennu Gwaith angenrheidiol, yn enwedig pan y mae yn anhawdd ac yn bwyſfawr: a lle y mae yr Olwg o'r Poen a'r Gorcheſt o hono, tra y mae etto heb ei wneuthur, yn creü ynnom lawer jawn o Flinder a Gofid; pan gwneir ef unwaith, neu pan ddarfyddo'r Anhawſdra pennaf, y mae pob Edrychiad yn ôl ar y Poen aeth heibio, yn melyſu ein Gorphwyſfa breſennol, ac yn ei choroni â Llawenydd a Gorfoledd. Ac fel hyn y mae, pan fom yn dechreu y *Fuchedd Gris'nogol*; yr hyn ydym bawb yn gyfaddef fod yn angenrheidiol ac yn anhawdd: a chan ei fod felly, beth

arall

arall ydym ni yn wneuthur wrth oedi, ond yn unig eſtyn y Poen a'r Blinder o hono yn hwy? A lle y gallem, trwy un Cynnyg gwŷch, eſmwythâu ein hunain, a gofod ein Heneidiau i orphwys yn dragywydd; yr ydym yn nychu ymmaith ein Bywyd mewn Trueni, ac yn glâfi o Ofn ein Meddyginiaeth. Yn gymmwys fel Dynion tuuain ſydd dan Boen y Garreg, hwy wyddant y rhaid iddynt gael eu torri, neu farw; ond, gan Ofn ariſwydus o'u Meddyginiaeth, y maent yn ei oedi o amſer i amſer: y maent yn addo y dioddefant eſ, yn hytrach nâ cholli eu Bywyd; ond pan ddelont i brofi hynny, y mae eu Calonnau yn ffaelu, a rhaid iddynt gael ychydig o Lonyddwch yn hwy: ond y maent, trwy gydol yr Amſer, yn dioddef nid yn unig Flinder eu Cleſyd, ond hefyd Ofn eu Gwellhâd, yr hyn hefyd a raid iddynt o'r diwedd ddioddef, neu farw; yr hyn ſydd fwy ofnadwy o lawer iddynt. Lle pe cawſent eu torri ar y cyntaf, hwy allaſent arbed iddynt eu hunain yr holl Boen hwnnw, ac Ofn Poen ymhellach, yr hyn a ddioddefaſant tra fuont yn oedi. Ac fel hyn yn gymmwys y mae gyd â'r rhai'ny ag ſydd yn oedi eu Hedifeirwch, yr hyn pe buaſent ar y cyntaf yn ei ddechreu, pan ſyrthiaſant i'w Ffyrdd pechadurus, gallaſai eu Calonnau fod yn eſmwyth er ys llawer Dydd, a gallaſent arbed iddynt eu hunain yr holl Gnoſêydd Cydwybod hynny, a'r holl Ofnau blinderus hynny o Doſter ac Anhawſdra Edifeirwch yn y Diwedd, yr hyn a orfu arnynt ddioddef trwy'r holl Amſer y buont yn oedi. Ond och! Meddyginiaeth doſt yw Edifeirwch! Wel, bydded hi mor doſted ag y mynno, chwi wyddoch y rhaid i chwi ei dioddef, neu yr hyn ſydd fil o weithiau yn waeth. Chwychwi a'i dioddefwch ynte, yr ydych yn bwriadu hynny; ond chwi chwennychech gael ychydig o Lonyddwch yn hwy. O Eneidiau ynfyd! pa ham yr eſtynnwch eich Trueni, ac y nychwch eich Bywyd mewn Poen, lle y gallech, trwy ddioddef yn awr y peth a raid i chwi ddioddef yn y Diwedd, fod yn fuan yn eſmwyth, nid yn unig oddi wrth Boen eich Euogrwydd aeth heibio, ond oddi wrth Ofn eich Edifeirwch i ddyfod?

II. Yſtyr-

II. Yſtyriwch, ſod yn fwy diberygl a manteiſiol o lawer ni ddechreu ein Milwriaeth Gris nogol yn awr. Can's y Bywyd hwn ydyw unig Amſer ein Profiad, y Maes ymha in y mae i ni ymladd ein Hymladdfa yſbrydol, ac o ba in y rhaid i ni bawb fyned ymmaith yn Goncwerwyr go- oleddus, neu yn Gaethweiſion tragywyddol. Ac ochi! y ath Beth llithredig anſicr yw ein Bywyd preſennol, nad es un Rhan o hono ag allwn alw yn eiddom ni, ond yr yn ſy breſennol! Can's y mae 'r holl Amſer ag ſydd yn l, yn Llaw a Threfniad Duw; a pha fodd y bydd iddo f ei fyrhâu neu ei eſtyn, ni allwn ni ragddyweyd. Fel, r dim ag allwn ni wybod, ſe ddichon y Funyd nesaf ben- erfynu ein Rhan dragywyddol; ac ſe ddichon Gobeithion ragywyddoldeb, y rhai ſydd yn awr yn ein Dwylo, thro trwy ein Byſedd cyn y Boreu foru, a'n gadael yn diobaith yn dragywydd. Mor ofnadwy gan hynny y mae'r Dynion hynny yn anturio, y rhai ſydd o amſer i mſer yn oedi diogelu eu Hiechydwriaeth trwy Edifeirwch mſerol! Pan y mae yn awr yn eu Gallu eu hunain, pe aent ond dal Gafael ar yr Odfa breſennol, i ddiogelu eu uddugoliaeth a'u Coron, y maent hwythau yn dewis yn ytrach daflu *Croes a Pheil* am danynt, a'u gofod hwynt lawr ar Ddamwain na's gallant nio'i threfnu.

Ond bwriwch y gallant ddiogelu iddynt eu hunain yr Amſer hwnnw *yn ôl llaw*, i ba un y maent mor fyrbwyll n oedi eu Hedifeirwch, etto beunydd y mae Antur arall a's gallant fyth fod yn ſier o hono; a hynny yw, p'un a bydd i Dduw, pan ddelo 'r Amſer hwnnw ſydd *yn ôl law*, attal ei Râs oddi wrthynt, mewn Digllonedd cyfiawn, achos iddynt hwy ei ddirmygu a'i ddibrifio yn breſen- ol. Yr hyn os gwnâ efe, hwy a fyddant wedi eu gadael an gymmaint o Anallu i edifarhâu, a phe bae efe wedi wyn eu Bywyd oddi arnynt; gan fod mor boſſibl i ni difarhâu heb Fywyd pan fom yn feirw, ag yw gwneuthur ynny heb Râs Duw a ni etto yn fyw. Felly trwy addo r edifarhâwn yn ôl llaw, yr ydym yn addo nid yn unig roſom ein hunain, ond dros Dduw hefyd; yr ydym yn ddo, y bydd iddo ef ddiſgwyl wrth ein Lefer ni, a bod ein Gwaſanaeth dros yr holl Amſer maith hwnnw ag y

hom

bom ni yn oedi ac yn gohirio; y bydd iddo ef yn ddofaidd oſod heibio bob Cyffroad a Dirmyg a wnelom iddo o hyn hyd yn ôl llaw; ac y bydd efe yn y Diwedd gymmaint wrth ein Harch, ac mor barod i ddyfod i'n cynnorthwyo pan welom ni fod yn dda i alw arno, a phe buaſem erioed heb ei ddigio ef yn y Meſur lleiaf. Can's oni's gallwn ni fod yn ſicr o hyn, fe fydd yn gwbl mor anſicr p'un a wnawn ni ag edifarhâu yn ôl llaw os byddwn fyw, ag ydyw p'un a fyddwn ni fyw hyd yn ôl llaw i edifarhâu. A pha Wallbwyll ydyw i Ddynion, ag ſydd â'u Bywyd a'u Heneidiau yn awr yn eu Dwylo eu hunain, eu goſod i lawr a'u hanturio ar y fath ddwy Ddamwain anſicr, y rhai ſydd bob un o honynt gymmaint i maes o'u Gallu i'w trefnu!

Ond bwriwch na bae dim Perygl yn un o'r rhai'n, ond ein bod mor ſicr o'n Bywyd ein hunain, ac o Râs Duw, ag ydym o'r Funyd breſennol; etto ni allwn byth obeithio dechreu ein Milwriaeth Gris'nogol mor fanteiſiol ag yn awr. Can's trwy'r holl Amſer y bom yn oedi, y mae ein Gelynion yn caſglu Nerth, ac yn mwſtrio i fynu eu Bydinoedd yn ein herbyn; y mae ein Tueddiadau drwg yn addfedu ac yn cynnyddu, a'n Harferion annuwiol yn dyfod yn fwy cynnefin; a chynnifer Grâdd o Rym ag a ennillo'r rhai'n, ydym ni yn golli: ac felly yn gyfattebol, fel y mae eu Gallu hwynt i'n drygu ni yn cynnyddu, y mae ein Gallu ninnau i'n hamddiffyn ein hunain yn eu herbyn hwynt yn lleihâu. Pa Ynfydrwydd ynte ydyw i Ddynion, y rhai ſydd yn cymmeryd arnynt eu bod yn bwriadu ymrwymo yn y Filwriaeth Gris'nogol, i oedi hynny fel y maent yn gwneuthur o amſer i amſer, pryd na's gallant lai nâ gwybod, os ydynt yn dal dim Sulw arnynt eu hunain, pa gymmaint y mae pob Oedi ymhellach yn gynnyddu ar eu Chwantau, ac yn waethygu ar eu Rheſwm, y modd y mae yn cefnogi eu Gelyn, ac yn eu gwanhâu hwythau! Yr ydych chwi yn dywedyd eich bod wedi eich argyhoeddi fod y Filwriaeth hon yn angenrheidiol, a'ch bod yn bwriadu ei chymmeryd yn llaw ryw amſer neu gilydd, er na's gellwch yn breſennol dyciio gyd â chwi eich hunain i ddechreu. A pha ham na's

gellwch

gellwch etto? O herwydd rhyw Reſwm neu gilydd yn wir yr ydych yn eich gweled eich hunain yn anhueddol at y Gwaith hwn: ac a ydych chwi yn tybied, os ydych anhueddol atto *Heddyw*, y bydd eich Anhueddrwydd yn llai y *Foru*, neu 'r *Dydd neſaf?* Na ſydd, Ddynion ffol; na thwyllwch mo honoch eich hunain: can's os ni ddechreuwch arno *yn awr*, byddwch ſiwr o hyn; ni chewch chwi byth mo honoch eich hunain naill ai mor ewyllyſgar atto, neu mor gymmwys ac abl iddo drachefn, cyhyd ag y b'och chwi byw. Can's ſe ddaw eich Chwantau bob Dydd anwylach anwylach gennych, a phob yn ychydig hwy a blethant ac a ymnyddant o bobtu eich Calonnau a'ch Serchiadau yn y fath fodd, fel y byddwch bob Dydd yn ſwy anewyllyſgar nâ'i gilydd i ymadael â hwynt; ac o'r diwedd hwy a ymlynant mor dynn, na's gellir eu tynnu oddi wrthych, heb dynnu ymmaith eich Eneidiau gyd â hwynt. Am hynny na ſoniwch mwyach, mi attolygaf arnoch, am edifarhâu yn ôl llaw; ond bwriedwch, unwaith yn lle'r cwbl, yr edifarhêwch chwi *yn awr*, *neu byth.*

III. Yſtyriwch, fod Llwyddiant diweddaf eich Milwraeth yſbrydol hon yn ſefyll yn fawr ar eich Gwaith yn ei dechreu hi yn dda. Oddi wrth yr hyn a ddywedpwyd yr ydych yn gweled yn eglur, fod yn llwyr-angenrheidiol ei dechreu hi ryw amſer neu gilydd; ac na's gellwch byth ei dechreu mor ddiberygl ac mor fanteiſiol ag yn awr: etto oddieithr i chwi ei dechreu yn *dda* yn awr, hynny yw, gyd â Pharodrwydd Calon cyfangwbl, byddai yn gyſtal i chwi eiſtedd yn llonydd, a pheidio dechreu oll. Can's pan ddeloch unwaith i'r Profiad, i ymryſon â Gwrthwynebiadau Natur lygredig, ac i ymdrech ag Anhawſdra bywyd ſanctaidd, y pryd hwnnw chwi welwch y bydd eich Bwriadau egwan yn ſuddo yn fuan, ac, fel cynnifer o Geulannau pwdr, yn ildo ac yn rhoddi lle i bob Gorlanw o Brofedigaeth. Ond fel y mae jawn oſod Sail Tŷ yn niogelu'r hyn a adeiledir arno yn erbyn Ymgyrch pob Tymheſtloedd a Thywydd garw a ddelo, felly y bydd ſefydlu eich Bwriad ar y cyntaf ar Waelod cadarn a diyſgog yn Amddiffynfa grêf iddi yn erbyn pob Tymheſtloedd o

Brofedigaethau a ganlyno. Y Ffydd a'r llawn Yſtyriaeth honno wedi eu jawn ſeilio y rhai a'n tynnodd iddi, a ânt gyd â hi, ac a'i hamddiffynnant trwy Lettyoedd y Gelyn â'r fath Reſymmau anorchfygol, na ddichon un Annogaeth bechadurus mo 'u gwrthbroſi, neu ymryſon â hwynt. Y Cywilydd calonnog, a'r Triſtwch chwerw, a'r Cnofa Cydwybod, a ddarfu i ni deimlo wrth wneuthur ein Bwriad, a'n gwrola, ac a'n gwnâ yn fwy cadarn a chluſt-drwm yn erbyn holl Hudoliaethau Pechod yn ôl llaw. Y Gweddiau taer a gwreſog y rhai a aethant o'r blaen, ac oeddent yn cyd-gerdded â'n Bwriad, nid yn unig a'n rhwymant ni i gymmeryd mwy o Garc a Gofal am dani, ond a rwymant Duw hefyd i roi i ni fwy o'i Help a'i Gymmorth ymhob Ymdrech a Brwydr yn ôl llaw. A chwedi i ni gymmeryd Gofal effeithiol ymlaen-llaw, wrth wneuthur ein Bwriad i beidio bwriadu ar un Peth na ddarfu i ni yſtyried ei Anhawſdra ef, nac yn erbyn un Peth ond yr hyn a ddarfu i ni deimlo 'r Gwilydd a'r Poen o hono, nac ar un Rheſwm ond a ddarfu i ni ei gwbl-yſtyried, ac ydym yn ſicr gredu; a chyd â hyn i gŷd, wedi i ni, trwy ein taer Weddiau, gael gan Duw pob Grâs i'n helpu a'n cynnorthwyo, nyni a allwn, gyd â rhyw Sicrwydd addo i ni ein hunain Ddiwedd a Llwyddiant gwynfydedig Can's yn awr yr ydym wedi cael ein rhag-rybuddio a'n rhag-arfogi yn erbyn y cwbl ag allo ddigwydd i ni yn ein Milwriaeth yſbrydol; yn awr nid oes dim Anhawſdra all gyfodi ar ein Ffordd, na ddarfu i ni ei rag-weled, a pha rotôi gogyfer ag ef, pan oſodaſom gyntaf i maes tu a'r Nefoedd. Fel os bydd i ni o hyn allan ond cymmeryd Gofal oneſt i wylio Symmudiadau ein Gelyn, a chadw fynu ein Calonnau a'n Gwroldeb, nid allwn lai nâ chael Buddugoliaeth ogoneddus, a chwedi hynny Gorfoledd tragywyddol.

Ond os dechreuwn yn fyrbwyll, a bwriadu yn ddi-yſtyriaeth, heb gadw y Rheolau a'r Cyfarwyddiadau a enwyd uchod, ymhob Tebygoliaeth fe fydd i'r Amcanion wnaethom ar frŷs, ddiweddu mewn Edifeirwch pwyllig Felly oddieithr ein bod yn amcanu cymmeryd llawer Boen mewn Creſydd yn ddilês, i wneuthur a dad-wneu

thur cyhyd ag y bom byw, a dawnſio yn unig oddi amgylch mewn Cylch tragywyddol o bechu a bwriadu yn ei erbyn, bwriadu a phechu drachefn, heb fyned Gam ymlaen, ond chwildroi oddi amgylch beunydd at yr un Nôd; bydded i ni yn awr o'r diwedd fwriadu dechreu yn ôl y Drefn gall honno a ddangoſodd Duw i ni.

IV. Yſtyriwch, wedi i ni unwaith ei dechreu hi yn dda, i ni orchfygu'r Anhawſdra pennaf yn ein Milwriaeth yſbrydol. Can's er fod yn hawdd dechreu yn ddrwg, i fwriadu yn erbyn ein Pechodau mewn Digofaint diſymmwth, neu mewn Gwrês Gwŷn ddarfodedig; etto rhaid cyfaddef, nad yw mor hawſed bwriadu yn dda ac yn ddoeth; hynny yw, gyd â'r Ffydd gadarn a'r llawn Yſtyriaeth honno o Bethau, gyd â'r Cywilydd, a'r Triſtwch, a'r Llefain taer hynny i'r Nefoedd am Help a Chymmorth, ag ſydd angenrheidiol at ſeilio Bwriad crŷf a pharhâus. Can's yn yr holl Ymarferion hynny o Barotoad, y mae gennym Feddwl gwibiog, Calon galed, a Natur wrthnyſig, i ymdrech â hwynt; ac nyni a gawn weled, mai Peth caled jawn a fydd i ni alw i mewn ein Meddyliau crwydredig, a'u huno hwynt ynghŷd i yſtyried yn ddwys ac yn ddiyſgog Dyſtiolaethau Gwirionedd Crefydd, a'i Dyledſwyddau, a'i Hannogaethau, a'i Chaledi hi. A thra bom yn eu groeſawi hwynt â'r Teſtyn anarferol hwn, y mae miloedd o Bethau ag y mae ganddynt well Adnabyddiaeth o honynt ag y fydd yn eu galw hwynt ymmaith; fel na's gallwn byth, heb wneuthur llawer o Drais â ni ein hunain, eu cadw hwynt gyd â'u gilydd dros gyhyd o Amſer ag a fo angenrheidiol tu ag at lunio Cydſyniad cadarn â'r Gwirionedd, a rhoi Barn gywir a dibartiaeth ar Gynnygion Crefydd. A chwedi i ni ſefydlu ein Meddyliau i ddifrifol-yſtyried Tyſtiolaethau Crefydd, nyni a gawn weled y bydd ein Chwantau yn gwrthddadleu mwy o lawer yn eu herbyn nâ'n Rheſwm; y byddant yn bwrw Niwl o flaen ein Llygaid, ac yn llygru ac yn gŵyro ein Dyall y Ffordd arall; ac ar hynny, y bydd yn anhawſach o lawer nag yr ydym ni yn meddwl, i argyhoeddi ein hunain yn gyfangwbl o Wirionedd Crefydd ſydd mor unlawn wrthwyneb i'n Tueddiadau drwg. Ond pan wneler

hyn, ac yr elom ymlaen i yſtyried Dyledſwyddau Crefydd, ac i gyd-bwyſo'r Annogaethau a'r Anhawſdra o honynt, tu ag at gael gennym ein hunain roi Cydſyniad llawn a rhwydd iddynt; ymma drachefn y cawn weled Caledi mawr. Can's, er fod yr Annogaethau i'n Dyledſwydd, ar yr Olwg gyntaf, yn anfeidrol fwy, ac yn fwy pwysfawr, nâ'r Anhawſdra ſydd ynddi; er fod yn fwy anoddefadwy filoedd a miloedd o weithiau golli Llawenydd y Nefoedd, a ſyrthio i Boenau Uffern, nag yw dioddef Cyrchiadau llymmaf y Filwriaeth yſbrydol hon: etto, gan fod y rhai'n yn breſennol ac yn deimladwy, y mae ganddynt Le agoſach attom; ac, yn ganlynol, y maent yn fwy tueddol i'n cyffrôi ni, nâ'r un o'r Annogaethau hynny y rhai ydynt bob un o honynt etto yn ôl, ac yn anweledig. Fel, oddieithr i ni daer-gymmell yr Annogaethau hyn arnom ein hunain, a'u hargraphu ar ein Meddyliau yn y Lluniau mwyaf gwirioneddus a bywiol, nyni a gawn weled y bydd i'r Caledi preſennol gweledig ſydd o'n blaen ein gortrechu, er dim ag allont wneuthur. Ond wedi i ni gael ein hargyhoeddi yn effeithiol, fod y Caledi ſydd yn ein Dyledſwydd yn llai pwysfawr o lawer nâ'r Annogaethau iddi, nyni a gawn ei weled yn galed berſwadio ein Hewyllys i gydſynio yn rhwydd â phob Rhan neillduol o honi. Can's yn awr ni gawn weled Caſineb crŷf yn ein Natur at amryw o'r Dyledſwyddau hynny ag a ddylem eu hoffi; ac fe fydd Ymryſon crŷf rhwng ein Rheſwm a'n Tueddiadau. Fe fydd ein Chwantau anwyl, yr Areithwyr monwesol hynny o'n mewn, yn awr yn goſod eu holl Ffraetheb ar waith i'n rhwyſtro i ymadael â hwynt: hwy a ymglymmant o bobtu ein Heneidiau, fel Cariadon wrth ymadael, ac a wnânt Ddefnydd o'u holl Swynion a'u Hudoliaeth i ddal Gafael ynnom, ac i ymheddychu â ni: a than yr Amgylchiadau hyn, er fod gennym yr holl Reſwm yn y Byd o'n Hochr, nyni a gawn weled na bydd ef yn Waith mor hawſed i drefnu ein Hewyllys yn effeithiol i gyttuno â chynnifer o Ddyledſwyddau gwrthwynebus, ac ymadael â chynnifer o Bechodau anwyl. Ond wedi y gwneler hyn, yr hyn yn ddiammau a gyſt i ni lawer o Ymdrech ac Ymryſon toſt â ni ein hunain, y mae Pethau

caledion

caledion eraill i'w meiſtroli. Can's yn awr rhaid i ni edrych yn ôl ar ein Bywyd drwg aeth heibio, a'i oſod o flaen ein Llygaid yn ei holl Ddychryn naturiol, ei Ffieidd-dra a'i Wradwydd, heb byth adael dannod i ni ein hunain. Frynti ac Anweddeidd-dra, Ynfydrwydd a Ffolineb ein Bywyd, nes bo Cywilydd a Thriſtwch o'i blegid, a Llidiowgrwydd yn ei erbyn, yn llanw ein Calonnau. Ac i ni, y rhai ydym cyhyd wedi arfer gwenhieithio i ni ein hunain, i oſod Lliw têg ar ein Haflunieidd-dra, a choroni ein Talcennau â Chanmoliaeth nad ydym yn haeddu; i ni gondemnio a dannod i ni ein hunain, i ddioſg ein Gweithredoedd o'u holl Degwch celfyddgar, a goſod ein hunain o flaen ein Llygaid yn ein holl Frynti noeth, heb ddim Gorchgudd, a pheidio edrych ymmaith, nes edrych-om ein hunain i Gywilydd, a Dychryn, a Chaſineb o honom ein hunain; a fydd, ar y cyntaf yn enwedigol, yn Orchwyl anhyfryd jawn: ac etto fé ddichon fod yn Dro hir yſgatfydd cyn yr ildio ein Calonnau celyd, y rhai na fena dim arnynt, i Argraphiadau Triſtwch duwiol, a Chyſtudd Cydwybod. Ond wedi gorchfygu'r Anhawſdra hwn, nid yw ein Gwaith etto wedi ei lwyr-orphen. Can's yn awr rhaid i ni ddyfod allan o honom ein hunain, a phob Hyder rhyfygus ar ein Gallu a'n Nerth ein hun, a than Deimlad dwfn o'n Gwendid toſt a'n Hanallu ein hunain, taflu ein hunain yn llwyr-gwbl ar Dduw, ac â Llefain crŷf a thaer i ymbil am ei raſol Help a'i Gymmorth. A gadêwch i mi ddywedyd wrthych, i Ddynion ag ſydd wedi ymgynneſino cyhyd i fod â'r fath Feddyliau gwych am danynt eu hunain, y fath fawr Hyder yn eu Gallu eu hunain, y rhai a addawſant iddynt eu hunain, o amſer i amſer, yr ediſarhâent ac y gwellhâent y pryd hyn a'r pryd, fel pe buaſai yn eu Gallu hwynt i ediſarhâu y pryd y mynnent, heb Gymmorth Duw; i'r fath Ddynion a'r rhai'n, meddaf, i ddyfod allan o honynt eu hunain a'u Hunan-hyder, a'u bwrw eu hunain yn llwyr-gwbl ar Help arall; i deimlo ac addef eu Hanallu eu hunain mor rhwydd, a ffoi at Dduw, a chyffeſu eu bod hwy yn golledig hebddo ef, ſydd galettach Gwaith o lawer nag allwn feddwl, nes delom i'w broſi. Ac etto rhaid gwneuthur hyn, ie hyn

i gŷd, cyn y gallom fod wedi ein hjawn barotôi i fwriadu ar y *Filwriaeth Gris'nogol.*

Mi a ſefais yn hwy ar hyn o beth, o herwydd fy mod yn chwennych delio yn dêg â chwi, a dangos i chwi y gwaethaf o Bethau. Can's p'un a wneler ai dywedyd wrthych, ai peidio, chwi gewch weled, os byth y profwch, y bydd i'ch holl Fwriadau da, heb y Parotoad hyn, ddattod yn fuan wrth eu cyflawni; ac y byddwch, wedi bwriadu filoedd a miloedd o weithiau, yn gymmwys y man lle'r oeddech, heb fyned un Cam ymhellach mewn Crefydd. Ond er eich Annogaeth, gwybyddwch, wedi i chwi wneuthur eich Bwriad gŷd â'r Parotoad angenrheidiol hwn, i chwi ennill y Fuddugoliaeth bennaf a chalettaf yn eich holl Ymladdfa yſbrydol; Buddugoliaeth trwy'r hon y darfu i chwi dynnu eich Pechod i lawr o'i Orſeddfaingc, a'i dorri a'i ddioſg ef o'i holl Rym a'i Allu: ac felly yn awr yr ydych yn erlid Gelyn ſydd yn rhedeg; ac os bydd i chwi ond dilyn eich Ergyd yn ddyfal, a chanlyn eich Bwriad gwych trwy bob Profedigaeth i'r gwrthwyneb, heb adael i'ch Gelyn a ortrechwyd i ailgefnogi ei hun yn eich erbyn, chwi ganfyddwch fod ei Nerth ef yn darfod bob yn ychydig; a'r Chwantau hynny, y rhai oeddent ar y cyntaf yn ymddangos yn anorchfygol, o dippyn i dippyn a wanhânt wannach wannach, nes diffodd o honynt ymmaith o'r diwedd yn yr Arferion o'r Rhinweddau ſydd wrthwyneb iddynt: ac felly yn gyfattebol, fe fydd i'r Rhinweddau hynny, y rhai, o herwydd ein Gwrthwynebiad llygredig ni iddynt, oeddent yn ymddangos ar y cyntaf yn amhoſſibl, gynnyddu bob yn ychydig, o fod yn boſſibl i fod yn hawdd, ac o fod yn hawdd i fod yn angenrheidiol; ac yna y bydd y Pechodau yn fwy amhoſſibl i ni nâ'r Rhinweddau.

Yn awr, pa Annogaeth grêf yw hon i wneuthur Dechreuad da yn y Filwriaeth Gris'nogol, y byddwn, o wneuthur felly, ſicr i orchfygu ei Anhawſdra mwyaf; ein bod, wedi i ni dorri trwy'r holl Wrth'nebiadau hynny ag ſydd yn gorwedd ar ein Ffordd i Fwriad doeth a daionus, wedi myned trwy Gyffiniau Crefydd, a chwedi tramwy dros y Mynyddoedd ſerth hynny ar ei Dechreu, nyni a fyddwn

ſiwr

ſiwr o gael y Wlâd oddi amgylch wed'yn' yn rhwydd ac yn eſmwyth; ymha un po bellaf yr elom, eſmwythaf i gŷd a fydd hi; ac felly eſmwythach eſmwythach, nes o'r diwedd y bo hi i gŷd yn felus ac yn hyfryd, fel Rhodfeydd blodeuog Paradwys. Cymmerwn gan hynny ein perſwadio, heb oedi yn hwy, i ddechreu yn fuan ar y Filwriaeth ſanctaidd hon, a thrwy *Ffydd* ac *Yſtyriaeth*, &c. i oſod Sail i Fwriad Crefyddol; fel y gallom, pan fom wedi ymrwymo yn erbyn ein Gelynion yſbrydol, gadw ein Tir yn erbyn pob Profedigaethau, a chwedi eu gorchfygu a'u daroſtwng hwynt o'r diwedd, y gallom dderbyn y Goron anfarwol honno ſydd gan DDUW y Barnwr cyfiawn yng-hadw i'r neb a orchfygo.

Ac fel hyn y darfûm i â'r Rhan *Gyntaf* o'n *Milwriaeth Gris'nogol*; ſef, ein *Dechreuad* ynddi.

DOSBARTH. III.

Ynghylch yr Ail *Ran o'r* Filwriaeth Gris'nogol; *gyd â Chyfrif neilldual o'r Dyledſwyddau ag ydynt yn perthyn iddi.*

AF yn awr ymlaen at yr *Ail* Ran o'n *Milwriaeth Gris'nogol*; ſef, ein *Taith* a'n *Cynnydd* ynddi: a hyn ſydd yn ſefyll mewn *Bywyd ſanctaidd*. Can's wedi i ni unwaith ddyfod yn ewyllyſgar i fwriadu yn gadarn, ac ar Sail dda, i ddechreu ar y Cyfiwr milwriaethus hwn, y Peth neſaf a ddylem wneuthur ydyw, canlyn ein Bwriad yn ein Bucheddau a'n Gweithredoedd yn ôl llaw; hynny yw, ymgadw rhag pob Pechod, ac ymroi i farweiddio ein Tueddrwydd atto, ac i ymarfer yr holl Raſuſau a'r Rhinweddau gwrthwyneb, ac ymrôi eu cynnyddu i Raddau fo bellach o Berffeithrwydd; neu, fel y dywaid yr Yſgrythur, i *beidio gwneuthur Drwg*, a *dyſgu gwneuthur Daioni*; i *ymdreth* yn erbyn Pechod, a *marw* iddo; a *chynnyddu mewn Gras*, a *pherffeithio Sancteiddrwydd yn Ofn DUW*. Yn

hyn y mae *Taith* a *Chynnydd* ein Milwriaeth Gris'nogol yn ſefyll. A thu ag at hynny, y mae yn gwbl-angenrheidiol i ni beunydd ail-ymarfer y Dyledſwyddau hynny trwy ba rai y parotôwyd hi ar y cyntaf i ddechreu arni; gan fod yr holl Foddion hynny trwy ba rai y gweithiwyd Bwriad da ynnom, wrth Natur yn lleſol i'w gadw a'i gynnal. Ac am hynny y gwelwn nad yw Ffydd ac Yſtyriaeth, &c. yn cael eu gorchymmyn fel Dyledſwyddau amſerol, nad ydynt i'w hymarfer ond yn unig yn Nechreuad ein Milwriaeth, eithr fel Moddion ag a fyddant bob amſer yn angenrheidiol i ni tra parhao ein Taith tu a'r Nefoedd. Can's felly y gorchymyner i ni, nid yn unig i gredu'r Efengyl yn ddiragrith, ond i *barhâu* a *chael ein ſefydlu* yn y Ffydd honno, *Col.* i. 2, 3. wedi ei chymmaru â *Phen.* ii. 7. Ac felly y gorchymyner drachefn i ni, nid yn unig i dderbyn Cynnygion Crefydd i'n Hyſtyriaeth, ond i'w *cadw hwynt* yno, *Luc* viii. 15. a gadael iddynt *breſwylio yn helaeth ynnom*, Col. iii. 16. Ac felly am yr holl Ddyledſwyddau eraill, y rhai a grybwyllwyd at ein Parotoad. Can's Gorchymmyn ſefydledig yn Nefoſiwn y Criſtion ydyw, i ni, trwy gael ein hargyhoeddi yn ein Calonnau o'n Heiſiau o Griſt, ddeiſyf pob Trugareddau gan Dduw yn ei *Enw ef*, ac *er ei Fwyn* ef, *Joan* xvi. 24. ac felly hefyd y mae *cyffeſu* ein Pechodau wrth Dduw, 1 *Joan* i. 9. a *gweddio* am ei Râs a'i Gymmorth, *Col.* iv. 2. Ac ni ofynner yn unig i ni edifarhâu, neu newid ein Bwriad drwg am un da unwaith; ond rhaid i ni hefyd ailadrodd a chadarnhâu ein Bwriad da: rhaid i ni *ſefydlu ein Calonnau*; hynny yw, cadw ein Gwllyſiau yn ddiyſgog ac mewn llawn Frŷd at bob Amcanion a Bwriadau da, *Jago* v. 8. a *ſefyll yn yr Arglwydd*; hynny yw, glynu wrth y Broffes a'r Ymarfer o Gris'nogaeth â Bwriad cadarn a dianwadal, *Phil.* iv. 1. Can's myned ymlaen yn ein Milwriaeth Gris'nogol, ydyw, byw i fynu yn waſtadol yn ôl ein Bwriad da; yr hyn ſydd yn gofyn i ni wneuthur Cymhwyſiad gwaſtadol o'r Moddion hynny, trwy ba rai y parotôwyd ac y cymhwyſwyd ni ar y cyntaf i ddechreu arni. Felly y mae Ffydd mor gwbl-angenrheidiol i'n cynnorthwyo ni i gyflawni ein Bwriad da, ag ydoedd hi i'n parotôi ni i'w wneuthur ef;

a pheu-

a pheunydd po fwyaf y bom yn credu ein Crefydd, mwyaf y meddyliwn fod ei Chynnygion hi yn perthyn i ni, ac yn ganlynol mwyaf cadarn y bwriadwn lynu wrthi a'i chofleidio; ac felly beunydd, fel y cynnyddo ein Ffydd mewn Sicrwydd, fe ddaw ein Bwriad, yn gyfattebol i hynny, gryfach gryfach. Drachefn; Os ydoedd yn angenrheidiol tu ag at wneuthur ein Bwriad, i ni yn gyntaf jawn bwyſo ac yſtyried Annogaethau ac Anhawſdra y Dyledſwyddau ag oeddem yn fwriadu arnynt; yna fe fydd mor llwyr-angenrheidiol tu ag at ei Gynnydd a'i Dyfiant, i ni fynych ail-yſtyried droſtynt yr Annogaethau a'r Anhawſdra hyn drachefn, a'u cydbwyſo hwynt â'u gilydd. Ac yn enwedig ar y cyntaf, tra nad yw ein Bwriad da ond megis newydd eni, fe fydd yn angenrheidiol jawn i ni bob Dydd, cyn yr elom allan i'r Bŷd, dreulio rhyw Gyfran o'n Hamſer i feddwl ymlaen-llaw am yr amryw Brofedigaethau ag fydd yn gorwedd ar ein Ffordd, naill ai yn ein Gorchwylion neu'n Cwmpeini, neu yn ein Heſmwythder a'n Difyrrwch angenrheidiol; ac i rag-arfogi ein hunain yn eu herbyn ag Annogaethau a Rheſymmau ein Crefydd; fel y bom â'n Harfau yn barod pa bryd bynnag y cyrchont ni, ac yn waſtad ar ein Diſgwyliad o'w gwrthſefyll hwynt. Drachefn; Os ydoedd yn angenrheidiol tu ag at lunio ein Bwriad, gael o honom ein hargyhoeddi o Wirionedd ac Angenrheidrwydd Cyfryngod ein Jachawdwr; yna fe fydd mor angenrheidiol tu ag at ei gyflawni, i'n Gobaith a'n Hofn, y rhai ydynt yn peri i ni weithredu, gael eu cyffrôi gan y Sicrwydd gogoneddus o Drugaredd, a'r Olwg echrydus o Bechod, ag y mae'r Argyhoeddiad hwn yn arwyddocâu. Unwaith yn hagor; A ydoedd yn angenrheidiol tu ag at jawn wneuthur ein Bwriad, i Driſtwch a Chywilydd o'r Galon am ein Troſeddau a baſſiodd weithio yn fawr arnom? yna fe fydd mor gwbl-angenrheidiol, tu ag at gryfhâu a chadarnhâu y Bwriad hwnnw, i ni yn awr ac eilwaith adwio y Cywilydd a'r Gofid hwn, trwy fyfyrio ar Ffieiddra ein Cyflwr gynt, a Gwendid ac Amherffeithrwydd ein Cyflwr preſennol, a llwyr-gyfaddef pob un o'r ddau gerbron y Duw Goruchel a Sanctaidd; fel y bo i'n Cywi-

lydd

lydd a'n Triſtwch am ein Pechodau, trwy gael eu troi i Ddigofaint ac Anfoddlonrwydd, awchlymmu ein Bwriad, a'i gefnogi fwy fwy yn eu herbyn. Yn fyrr; Os ydyw yn angenrheidiol tu ag at oſod Sail i'n Bwriad, i ni yn gyntaf daer-ymbil am Râs Duw a'i Gymmorth; yna fe fydd mor angenrheidiol tu ag at ei barhâu, i ni yn waſtadol fyned at Orſeddfainge y Grâs i'r un Diben; i ni bob Boreu orchymmyn ein hunain i Râs a Chadwraeth Duw, ac na feiddiom byth fyned i blith Maglau'r Byd hebddo ef; i ni ei gyfrif yn Beth mor beryglus fyned allan o'n Stafelloedd heb ein harfogi â Chymmorth Duw, a phe baem yn rhuthro yn noeth i Ryfel ymhlith Cleddyfau a Gwaywffyn: mewn gair, i ni bob Boreu a Hwyr, o'r hyn lleiaf, orchymmyn ein hunain i Dduw, ac attolwg arno ef i'n hamddiffyn ni rhag yr holl Ddychrynfeydd a'r Hudoliaethau hynny, y rhai y mae naill ai'r Diawl neu'n Chwantau ein hunain yn gynnyg i'n tynnu oddi wrth ein Bwriad da. Ac os ydoedd ar y cyntaf yn angenrheidiol i ni ddechreu ar Fwriad duwiol gyd â'r holl Ymarfer hyn o'n *Ffydd*, *Ymſtyriaeth*, &c. fel Parotoad; fe fydd mor angenrheidiol i ni fynych adnewyddu drachefn y Bwriad hwn, trwy Barhâd o'r unrhyw Barotoad; yn enwedig ar y cyntaf, nes bo Grym ein Tueddiadau drwg mewn rhyw feſur wedi ei dorri a'i leihâu. Yn awr, nyni a ddylem gymmeryd Gofal i fyned bob Dydd allan o'n Stafelloedd wedi ein newydd arfogi, fel Dynion fydd yn diſgwyl Gelyn wrth y Trothwy; a pheidio anturio ein Heneidiau gweinion i blith Profedigaethau'r Byd, nes bo i ni yn gyntaf gadwyno i fynu ein Tueddiadau ag Addunedau newydd o Ffyddlondeb. Fel y gwelwch nad yw Dyledſwyddau ein Dechreuad ar y Filwriaeth Gris'nogol mor briodol i'r Cyflwr hwnnw, nad ydynt hefyd i'w hymarfer yn ein Taith a'n Gyrfa yn y blaen.

Ond yna, heblaw y rhai'n, y mae amryw o Ddyledſwyddau eraill ag fydd angenrheidiol tu ag at i ni fyned ymlaen yn llwyddianmus ynddi. Y rhai i gyd a gynhwyſir dan y Pennau a ganlyn.

I. I ni gymmeryd Gofal i arfogi ein hunain ag Anniweddfa a Gwroldeb, i gymmeryd arnom ei Blindet Chaledi hi, ac i ymdrech â hwynt. II.

II. I ni oſod o'n blaen yr Eſamplau mwyaf rhagorol.
III. I ni fyned at ein Hathrawon yſbrydol am Gyfa-wyddyd.
IV. I ni fod yn ofalus jawn am ein Hamcanion a'n Dibenion.
V. I ni lanw ein Meddyliau â dwys Deimlad bywiol, a braw o Breſennoldeb Duw gyd â ni, a'i Olwg droſom.
VI. I ni fynych-holi ac ail-olygu ein Gweithredoedd ein hunain.
VII. I ni fod yn wyliadwrus jawn ac yn ddieſgeulus yn y Ymddygiad a'r Llywodraeth o honom ein hunain.
VIII. I ni gymmeryd rhyw Alwedigaeth oneſt yn llaw, ac ymddwyn ein hunain yn ddiwyd ac yn ofalus ynddi.
IX. I ni geiſio cyrraedd Tymmer Yſbryd llawen.
X. I ni gadw ar ein Meddyliau Deimlad gwaſtadol a Diſgwyliad o'r Nefoedd.
XI. I ni fyw yn y dyfal Arferiad o'r Ordinhadau oddi allan i Grefydd.

I. Tu ag at ein Gyrfa a'n Taith yn ein Milwriaeth ariſnogol, y mae 'n angenrhaid i ni arfogi ein hunain ag Ammyhedd a Gwroldeb, i gymmeryd arnom ei Blinderau a'i Chaledi hi, ac i ymdrech â hwynt. Can's felly y gor-chymyner i ni *ymnerthu yn yr Arglwydd*, Eph. vi. 10. *ymnerthu yn y Grâs ſydd yng Nghriſt Jeſu*, 2 Tim. ii. 1. Ymmy yw, i gefnogi ein hunain â Grâs Duw, ac Annog-aethau Crefydd, yn erbyn yr holl Galedi a'r Gwrth'nebiad ag allo gyfodi i'n herbyn yn ein Taith i'r Nefoedd: can's ydym yn cael Sicrwydd ymlaen-llaw, y *rhaid i ni wrth ymmynedd; fel wedi i ni wneuthur ewyllys DUW, y der-niom yr Addewid*, Heb. x. 36. ac am hynny y gorchy-myner i ni *nerthu ein hunain i bob Dioddefgarwch a Hir-aros, gyd â Llawenydd*, Col. i. 11. a *thrwy Ammynedd redeg yr Yrfa a oſodwyd o'n blaen ni*, Heb. xii. 1. Can's er mai ſicr yw, wedi i ni fwriadu yn dda ac yn oeth, fod Anhawſdra mwyaf ein Milwriaeth yſbrydol edi darfod; etto nid oes gwadu, hyd yn oed pan gwneler n, ac yr elom ymlaen i gyflawni, na chyfyd, yn enw-g ar y cyntaf, y fach Galedi a Gwrth'nebiadau ar ein ordd, ag a fo ddigon i brofi ein Gwroldeb a'n Hammy-

nedd.

nedd. Ac er, wrth lunio ein Bwriad, ac yſtyried y cwbl na's gallem lai nâ rhag-weled Anhawſdra mawr wrth e gyflawni, a gwybod yn dda pa Dueddiadau crŷf oddi fewn a Phrofedigaethau oddi allan, yr oeddem i ymdrech a ymryſon â hwynt; etto, gwae finnau! y mae Caledi pob Gorchwylion yn arferol o fod yn llai o lawer wrth eu rhag-weled, nag ydynt pan ddelom i'w teimlo a'u prof hwynt. Can's tra'r ydym yn eu rhag-weled, nid oes gen nym ddim i ymryſon ag ef, ond y Lluniau a'r Tybiau ſy gennym yn ein Meddyliau am danynt; a chan nad yw'r rai'n mor yſtyfnig a'r Pethau eu hunain, y mae'n hawſach o lawer i ni eu gorchfygu hwynt. Fel pan ddelom ni i ymdrech â'r Anhawſdra ei hun, yn lle ein Tŷb ef mwyth ni am dano, yr ydym yn fynych jawn yn gweled Wyneb Pethau wedi llwyr newid, a'r Caledi hynny ag ſydd yn ymddangos i'r Meddwl fel Peth hawdd ei or trechu, ſydd yn fynych yn grŷf jawn yn gwrthwynebu ein Hymroad. Ac fel hyn y mae yn fynych yn y Peth ſy gennym yn llaw. Fel pan fom yn bwrw ymlaen-llaw yn ein Meddyliau y Pethau caled ſy mewn Crefydd, rhaid i ni yn waſtadol lwo gogyfer â'u Pellder hwynt, yr hyn ſydd arferol o beri iddynt ymddangos yn llai, a barnu yn nom ein hunain, pan ddelom i ymrwymo â hwynt, y cawn eu gweled yn llawer mwy cyndyn ac anufudd i'n Hymroad, nag ydynt yn awr i'n Meddyliau; ac felly parotôi ac arfogi ein hunain yn eu herbyn. Can's pan elom ymlaen o'u hyſtyried i ymdrech â hwynt, rhaid i ni ddiſgwyl cael gweled fod llawer o Wahaniaeth rhwng *dywedyd* a *gwneuthur*; ac y bydd i'r Pethau celyd hynny, ſy mor hawdd eu gortrechu yn ein Meddyliau a'n Hymddiddanion, pan ddelom i ymryſon â hwynt, ein goſod i galetach Profiad o lawer o'n Gwrolder a'n Dianwadalwch nag oeddem ni yn dybied.

Can's pe na bae gennym ddim ond ein Tueddiadau drwg ein hunain, a Phrofedigaethau cyffredin y Bŷd, i ymdrech â hwynt; etto nyni a gawn weled y rhai'n yn ddigon i ymarfer ein Hammynedd a'n Dianwadalwch eithaf. Can's nid oes i ni ddiſgwyl, y bydd i'n Tueddiadau drwg gael eu daroſtwng a'u marweiddio yn fuan; yn

enwedig

enwedig wedi iddynt gael eu peſgi yn hir ac yn fynych dracheſn a thracheſn â Mwyniant gwaharddedig, pan y mae cynnifer o Brofedigaethau oddi amgylch i ni yn waſtadol yn eu cyffrôi a'u hannog hwynt. Na wnânt: chwi ellwch fod yn ſiwr yr ymdrechant hwy am eu Bywyd, cyn rhoi i fynu yr Yſbryd; ac os eir yn ddwfn dan eu Gwrâidd hwynt, ni chymmerant mo'u diwreiddio heb llawer jawn o Amſer a Phoen. Fel, oddieithr bod gennych Gyfran mawr o Ammynedd a Gwroldeb, i ddioddef a dal i maes yn erbyn eu Gwrth'nebiadau maith hwynt i'ch Egni duwiol chwi, a phallu iddynt y Boddlonrwydd drwg hynny ar ba un y maent yn ymborthi ac yn byw, nes newynu o honoch hwynt; chwi ddeffygiwch yn fuan i ymryſon â hwynt, ac a ddewiſwch roi eu Dymuniad iddynt, yn hytrach nâ chael eich *plago* gan eu Taerder diorphwys.

Ond yna, heblaw y Caledi cyffredin hyn o wadu eich Chwantau a'ch Tueddiadau pechadurus, ſe ddichon ddigwydd orfod arnoch *gyfodi eich Croes* hefyd, a chanlyn eich Jachawdwr trwy Lôn dywyll o Ddioddefaint ac Erlidigaethau; ac yna y bydd arnoch eiſiau llawer jawn o Ammynedd a Gwroldeb, i ddioddef yr holl Gywilydd a'r Gwradwydd, y Colled a'r Poen, yr Ofn a'r Blinderau, trwy ba rai y rhaid i chwi ymladd eich Ffordd i'r Nefoedd, os byth y deuwch chwi yno. Gan y dichon hyn ynte ddigwydd i chwi, ac nid ydyw yn gwbl anhebyg, y mae'n perthyn i chwi, fel yr ydych yn gobeithio am y Nefoedd, i arfogi a pharotôi eich hunain ymlaen-llaw yn ei erbyn. A chan fod ein Milwriaeth Gris'nogol, fel y mae hi, yn ein gofod dan gymmaint o Bethau celyd, llawer o honynt yn ſicr o ddigwydd i ni, ac eraill yn debygol ddigon; nid heb Reſwm y mae'r Apoſtol yn ein cynghori ni, i fod yn *ſicr a diymmod, a helaeth ymgwaith yr Arglwydd yn oeſtadol; a ni yn gwybod na bydd ein llafur ni yn ofer yn yr Arglwydd.*

II. Tu ag at fyned ymlaen yn ein Milwriaeth Gris'nogol, y mae'n angenrheidiol i ni oſod o'n blaen yr Eſamplau mwyaf rhagorol. Can's Profiad a ddywaid wrthym, fod Eſampl dda yn gweithio yn gryfach ar Ddynion, nâ Gorchymynion neu Gynghorion da: a'r Rheſwm ſydd am-

lwg;

lwg; o herwydd nad yw'r neb ſydd yn rhoddi Cynghor
neu Hyfforddiadau da i eraill yn unig, yn rhoi iddynt
fath Sicrwydd o'i fod ef yn eu credu hwynt ei hun, ag
mae hwnnw yn roi ſydd â'i Eſampl ei hun yn canlyn
Gynghor. Can's y rhai a addyſger, ydynt mewn meſu
mawr yn gorphwys ar Farn ac Awdurdod eu Dyſgawd
wyr: ac am hynny rhaid iddynt gael Sicrwydd rheſymm
fod eu Dyſgawdwyr yn credu eu hunain, cyn yr ennill
hwynt i gredu a chyttuno â'r hyn a ddyſger iddynt; ac
mae'r fath Sicrwydd i'w gael yn fwy oddi wrth e
Gweithredoedd, nag oddi wrth eu Geiriau. Ond pan dda
llener yr un Athrawiaethau yn eu Heſamplau hwynt,
mae'n Beth gweledig eu bod hwy mewn Pryſurdeb; ac
mae hynny yn Rheſwm i'w Dyſgyblion i goelio fod e
Hathrawiaeth yn wir. Fel y mae Eſampl dda yn dyſg
gyd â llawer mwy o Rym ac Awdurdod nag y gal
Athrawiaeth dda wneuthur, o herwydd ei bod yn cadar
hâu yn amlyccach yr hyn y mae hi'n ddyſgu, ac ar yr u
amſer yn ein cyfarwyddo pa beth i'w wneuthur, a thrw
Reſwm hoff jawn yn profi y dylem ei wneuthur. He
law hyn, pan y mae'r Peth y mae'r Dyſgawdwr yn gyn
hori neu yn orchymmyn, yn galed ac yn anhawdd, eſe
ddylai, er Annogaeth i'r rhai y mae efe yn ddyſgu,
iddynt lawn Sicrwydd fod y Peth fel y galler ei wneuthu
yr hyn ni's gwnâ un Rheſwm mor effeithiol a'i Eſampl
ei hun. Can's pan welont ei fod ef ei hun yn ymarfer
hyn y mae efe yn ei ddyſgu, y mae hynny yn Ddangoſi
gweledig iddynt hwy, fod y Peth fel y galler ei wneuthu
Fel y mae Eſampl dda yn dwyn ynddi yr Annogaeth gr
hon i Ddaioni, nad oes dim ynddo nad yw boſſibl, ac
gellir gorchfygu'r Anhawſdra mwyaf ag ſydd yn ei ddil
trwy Ddiwydrwydd ac Ymroad diragrith. Ac fel y m
Eſampl dda yn rhoddi i ni y Cyfarwyddyd a'r Annoga
amlyccaf i Rinwedd, felly y mae heſyd yn ei goſod al
i ni i'r Fantais fwyaf. A lle nad yw Gorchymynion
Thraethiadau am Rinwedd, ond Lluniau a Deſgrifiad
celfyddgar o honi yn unig, Eſampl rinweddol ydyw Rhi
wedd wedi ei bywhâu a'i goſod o flaen ein Golwg yn
holl Swynion a'i gwir Hyfrydwch. Ac am hynny,
gy

gymmaint ag y mae Natur yn rhagori ar Gelfyddyd; a'r Tegwch godidoccaf yn well nâ'u Delwau a'u Lluniau; o gymmaint a hynny y mae Rhinwedd mewn Eſamplau yn fwy cariadlawn a hoff, nag mewn Gorchymynion ac Ymddroddion. Gan ein bod ynte yn gweled Rhinwedd yn fyw ac yn ymſymmud mewn Eſamplau da, yn ei goſod ei hun allan yn y Gweithredoedd mwyaf hardd â'r Agwedd brydferthaf, rhaid i hyn ei chanmol a'i gwneuthur yn anwyl i'n Serchiadau a'n Meddyliau yn fwy effeithiol o lawer nâ'r Pregethau mwyaf taer, neu'r Deſgrifiadau mwyaf bywiol o honi.

Dymma un ynte o'r Moddion mawr hynny tu ag at fyw yn ſanctaidd, y rhai y mae'r Eſengyl yn orchymmyn i ni; ſef, goſod o'n blaen yr Eſamplau goreu a mwyaf rhagorol; i ni *fod yn Ddilynwyr i'r rhai trwy Ffydd ac Amynedd ſydd yn etifeddu yr Addewidion*, Heb. vi. 12. ac i fod yn Ddilynwyr i'r Apoſtolion, ac Arweinyddion Praidd Chriſt, *fel yr oeddent hwy i Griſt ei hun*, 1 Cor. xi. 1. Ond, o herwydd fod llawer o Amherffeithrwydd yn Eſamplau y Dynion goreu, a'u bod yn fynych wedi eu cymmyſgu gyda ill ai â Gormoddion neu Ddeffygion, a'u llygru â Choelgrefydd neu Wall-bwyll yſbrydol, o achos pa rai y maent hwy'n fynych yn camarwain y rhai ſydd yn ſangu yn rhy agos at eu Sodlau hwynt; am hynny y cyfarwydder ni yn fwy effeillduol at Eſampl Meiſtr mawr ein Crefydd; yr hon, er ei bod yn ſefyll mewn Diniweidrwydd difrycheulyd, a Rhinwedd berffaith, etto ſydd bob ffordd wedi ei chymmwyſo at Yſtâd a Chyflwr Natur a Chyfeillach Dynion. Gan's yr oedd ei Ymarweddiad ef ymhlith Dynion gyd â Rhinwedd gymhedrol, a'r fath ag oedd bob ffordd yn ymdſefyll â Chwrs cyffredin Bywyd. Yr oedd ei Dduwioldeb ef yn waſtad, ac yn ddianwadal, ac yn ddifeius; ond y fath ag oedd yn dêg yn cyttuno a Chymdeithas rydig a Chyfeillach yn y Byd. Nid ydoedd yn hoffi Uchelfmeiriau uchel, a rhyw Darawiad gwyllt o Dduwioldeb; ond yr oedd y fath ag ydoedd gymmwys a hawdd i Ddynion ei ganlyn. Nid oedd ei Rinwedd ef yn ſefyll mewn Ymprydiau dros ben meſur, neu Wyneb ſûr, neu fwy ymddioſg o'i Synwyr; ond mewn Bywyd o Gyf-

jawnder

jawnder a Chymhedrolder, o Oſtyngeiddrwydd, a Chariad ac Ammynedd, a'r cyffelyb; hynny yw, yn y ſath Fywyd ag ſydd nid yn unig yn gymmwys, ond yn boſſibl i ni ei chopio. Fel y troſglwyddodd efe i ni yn ei Eſampl ogoneddus Rinwedd ag ellir ei chanlyn: can's efe a gymmerodd Ofal i beidio rhedeg tu hwnt i Allu a Dyall Dynion, mewn Amlygiadau o Sanctеiddrwydd a Rhinwedd na's gellid mo'u dilyn, ond cyn belled ag y gallai yn ddiniweid, a ymoſtyngodd at ein Gwendid ni, ac a gyd-gerddodd â ni fel yr oedd ein Nerth yn gofyn; fel y gallai efe felly ein difyrru ni o hŷd â Chyſſuron ei Gyfeillach, a bod i ni yn Arweinydd gwaſtadol. Ac fel y mae y Rheol o Ffydd a oſododd efe o'n blaen ni wedi ei chymhwyſo at ein Dyalldwriaeth, gan ei bod yn fyrr jawn, yn hawdd, ac fel y galler ei hamgyffred; felly, fel y mae 'Sgrifenwr rhagorol o'n Heglwys wedi dal ſulw, y mae'r Copi hwnnw o Foeſau a oſododd efe o'n blaen, nid yn unig wedi ei gymhwyſo â Rhagoriaethau teilwng, ond hefyd ag Ymoſtyngiadau poſſibl i ni eu canlyn.

Ac fel y mae ei Eſampl i gŷd fel y galler ei chanlyn, felly y mae hi i gŷd trwyddi yn ſylweddol dda. Can's yr ydoedd yn ſefyll mewn Duwioldeb cymhedrol, Daioni digymmyſg a di-ymffroſt. Nid oedd ei Weddiau at Dduw yn ſerchu cael eu gweled gan y Bŷd, ac nid oeddent byth yn diflannu mewn rhyw Ynfydrwydd penboeth, neu Darawiad o Wŷn wyllt na's gellir rhoi dim Cyfrif o honi; ond yr oeddent yn waſtadol yn ddirgel ac yn bryſur, yn dawel ac yn foeſol, wedi eu bywioccâu â Gwrês *Seraphiaid*, ac etto eu tywys gyd â Rheſwm a Sobrwydd. Yr oedd ei Lywodraeth ef o hono ei hun yn gymmwys ac yn dreſnus; yr oedd ei Serchiadau ef yn waſtad wedi eu goſod ar y Pethau ydoedd gymmwys iddynt, ac nid oeddent byth yn myned dros jawn Derfynau Rheſwm; a'i Ddyall ydoedd yn waſtadol yn meſur ei Chwantau, ac nid oeddent byth yn troſeddu Terfynau Cymhedroldeb a Natur. Yn oedd ei Gyfeillach â Dynion yn ddiniweid jawn ac yn dêg yn rhwydd ac yn foneddigaidd; heb fod yn wâg nac yn daeog, yn falch nac yn ddiſtadl, nac yn gwyro at un Ochr. Yr oedd efe yn gyſiawn heb Bartiaeth, yn oſtyngedig heb

heb geiſio ymddangos ſelly, yn gariadus ac yn haelionus heb Ddwndwr, na derbyn Wyneb. Yr oedd ei Zêl yn ddoeth, yn gymhedrol, ac yn ſylweddol; nid y fath un ag ſydd yn ei threulio ei hun mewn Ymryſon tanllyd dros Bethau o Natur ddiddrwg ddidda, neu mewn Gwrth'nebiad i'r cyfryw Bethau, ond yn ymoſtwng yn llonydd i Ddeſodau ei Wlâd a'r Eglwys ymha un y ganed ac y dugpwyd ef i fynu; a'i holl Geryddon oeddent yn erbyn Rhagrith ac Anfoeſoldeb, y rhai oedd yr unig Bethau na's gallai ei Dymmer ragorol foneddigaidd ymheddychu â hwynt. Mewn gair, yr oedd ei holl Grefydd yn gymhedrol ac yn bryſur, ac yn hoffi cael ei *gweled*, yn hytrach nâ chael ei *chlywed*; a *bôd*, yn hytrach nâ chael ei *gweled*. Yr oedd efe o'r fath Feddyl-fryd nefol, ag na's gwnaeth mo hono nac yn rhŷ sûr, nac yn rhŷ ſiaradus; a'i Ammynedd yn waſtadol mor belled oddi wrth Hurtrwydd, ag oddi wrth Furſendod. Can's pan ddioddefodd efe Farwolaeth druenus y Groes, efe a ddioddefodd fel Gŵr ag oedd yn deimladwy o Boen, ac etto a wyddai yn dda ddigon pa fodd i fyned trwyddo fel yr oedd yn gweddu iddo. Can's, megis, ar y naill law, nad anadlodd efe ei Enaid allan fel Glwth ewreigaidd, mewn Achwynion cwynfanus, a Galarnadau oſturus; felly, ar y llaw arall, ni roddodd efe i fynu'r Yſbryd fel *Stoic* anſynniol, mewn Dibriſdod bygylus o Angeu, neu trwy gymmeryd arno fod yn ddideimlad o Boen a Thrueni. Ond o'r Dechreu i'r Diwedd efe a ſtodd ei Ran, yn y Drychineb gwaedlyd hwnnw, fel un ad oedd yn anheimladwy o Boen, nac yn cael ei orchygu ganddo. Can's y mae ei Eiriau diweddaf ef, y rhai dynt Weddi galonnog dros ei Fwrddwyr, yn amlygu fod Enaid yn dawel ac yn llonydd dan holl Ymdrechiadau Gorph. Fel hyn y mae ei Eſampl fawr ef wedi ei wneuthur i fynu yn llwyr-gwbl o'r Rhinweddau rhagorol ynny, y rhai ydynt y Graſuſau cymmwys ag ſydd yn rddu Natur Dŷn. Yn awr, er fod rhai Gweithredoedd n Muchedd ein Jachawdwr na amcanwyd erioed i ni eu nlyn, ſef, y fath ag oedd yn profi ac yn haeru ei Awrdod oddi wrth Dduw, neu ymha rai yr oedd efe yn fer yr Awdurdod hwnnw; etto pa Weithredoedd moeſol

bynnag a wnaeth efe mewn Ufudd-dod i'w Ddeddfau ei hun, efe a'u hamcanodd hwynt i ni eu canlyn. Ac felly ym mhob peth o'r fath hynny, fel y mae ei Gyfraith ef i fod yn Fap ac yn Rheol i ni, felly y mae ei Arfer ef i fod yn Gyfarwyddyd ac yn Eſampl i ni.

Can's dymma Ddiben mawr ein Crefydd, i ba un y *rhagluniodd* Duw ni, *i fod yn un ffurf â Delw ei Fab*, Rhuf. viii. 29. ac fel hyn y mae i ni *wiſgo am danom yr Arglwydd Jeſu Griſt*; ſef, trwy ddilyn ei Foeſau, a chanlyn Dull a Gwêdd ei Ymarweddiad. Ac felly y mae'r Jachawdwr yn dywedyd wrth ei Ddyſgyblion, *Joan* xiii. 15. *Rhoddais Eſampl i chwi* (hynny yw, o Oſtyngeiddrwydd a Chariad) *fel y gwnelech chwithau megis y gwneuthum i chwi*. Ac un o'i Orchymynion mawr ef ydyw, i ni *ddyſgu ganddo ef, yr hwn oedd iſel a goſtyngedig o Galon*; gyd ag Addewid, y bydd i ni, o wneuthur felly, *gael Gorphwyſfa i'n Heneidiau*, Mat. xi. 29.

Am hynny os chwennychwn arwain Buchedd ſanctaidd yn gyfattebol i'n Bwriad ſanctaidd, rhaid i ni oſod Eſamplau ſanctaidd o flaen ein Llygaid, ac yn enwedig Eſampl ſancteiddiaf ein Jachawdwr Bendigedig. Rhaid i ni ddarllen Hanes ei Fywyd ſanctaidd, a dal ſulw craffus ar e Agwedd a'i Ymddugiad ymhob Cyflwr ac Amgylchiad goſodwyd ef ynddo, a chymhwyſo'r cwbl adref attom ei hunain, fel Patrwn perffaith i ni weithio wrtho. Fel hyn ac fel hyn y gwnaeth fy Jachawdwr, dymma fel yr ym ddugodd efe ei hun pan yr oedd efe yn fy Amgylchiada i, yn y modd hyn y gwnaeth efe, ac yn llyn y dioddefod ef; ac a allaf fi ganlyn Eſampl fy fwy gogoneddus? Na ê: onid Cywilydd yn lloſgi a fyddai i mi beidio canlyn Foeſau ef, tra'r ydwyf yn proffeſu fy hun yn Ddyſgy iddo? Meddwl, O fy Enaid, beth a wnaethai efe yn aw pe buaſai yn dy Gyflwr di, a'th Brofedigaethau di o flaen. A fuaſai efe yn gwyſtlo ei Ddiniweidrwydd am fath Ffiloreg, neu yn ei iſelu ei hun i wneuthur y fa Weithred wael wradwyddus, i ochelyd y fath Anghy mwyſder diyſtyr? Na wnaethai yn ddiammau; ac a o arnat ti ddim Cywilydd i ildo i'r fath Brofedigaeth, a t yn gwybod gyd â pha Ddigllonedd y buaſai dy Jachawd

yn ei gwrthod? Pe baem ond arferu 'n hunain yn ſlyn i ſyſyrio ar Eſampl ein Jachawdwr, a 'i chymhwyſo at ein Gweithredoedd ein hunain, a 'i chymmaru â hwynt, ni ellir meddwl pa Zêl dduwiol a weithiai hi ynnom; y modd y cefnogai hi ein Gwendid, ac y cywilyddiai hi bob peth ag ſydd yn anhrefnus ynnom, ac y gweithiai Gariad yn ein Heneidiau at wir Rinwedd a Daioni.

III. Tu ag at ſyned ymlaen ar ein Taith yn ein Milwriaeth Gris'nogol, y mae hefyd yn angenrheidiol i ni ſynych-gymhwyſo ein hunain am Gynghor a Chyfarwyddyd at ein Hathrawon yſbrydol. Can's rhaid i ni yſtyried, fod Dynion o Fywyd ac Ymarweddiad gwladol ſynychaf â chymmaint o Drafferth a Gorchwylion y Bŷd hwn ar eu Dwylo, fel mai anfynych jawn y maent yn cyrraedd i ddigon o Fedr mewn Crefydd i 'w tywys eu hunain yn ddiberygl i 'r Nefoedd, trwy 'r holl Galedi a 'r Profedigaethau ag ſydd yn gorwedd ar eu Ffordd. Can's cyn y gallont eu tywys eu hunain yn ddiberygl, rhaid eu bod hwy yn abl mewn pob Pwngc pwyſfawr i wahaniaethu rhwng *Gwir* ac *Anwir*, ac i wybod Rhagor rhwng *Da* a *Drwg*; y rhai mewn amryw o Bethau ydynt mor agos i 'w gilydd, a gofyn llawer rhagor o Fedr a Gwybodaeth nag ſydd gan y Rhan fwyaf o Ddynion yn gyffredin, i wybod y Man a 'r Terfyn ag ſydd yn gwahanu rhyngddynt. Ac o fwrw eu bod hwynt wedi eu haddyſgu cyſtal o ran eu Dyall, a gallu rhoi Atteb cywir ymhob un o 'r Pethau amhêus hynny ag ſydd neu all fod yn perthyn iddynt; etto beunydd y mae 'r fath Fai yn eu Hewyllyſiau ſynychaf, ag a 'u gwnâ hwynt yn Farnwyr anghymmwys droſtynt eu hunain: a hynny yw, eu bod hwy yn dueddol, trwy ormod o Hunan-gariad, i fod yn bartiol yn y Pethau ſydd yn perthyn iddynt eu hunain; ac yn ganlynol, oni bydd y Câs yn amlwg jawn, i haeru fod y Peth hwnnw yn wir ag ſydd fwyaf manteiſiol iddynt, a barnu o 'r Ochr honno lle y mae eu Tueddrwydd hwy fwyaf. Can's pan y mae Barn Dŷn o 'r blaen yn crogi rhwng y ddau, Pwys bychan jawn o Fantais ar gam Ochr y Cweſtiwn ſydd arferol o droi y Glorian yn erbyn Tebygolrwydd fo fwy ar y jawn Ochr. A thra y mae Elw yn gwabro Serchiadau Dynion,

a'u Serchiadau yn llygru eu Barn, ſe fydd ymron yn amhoſſibl iddynt ddiogelu eu Diniweidrwydd, tra y maent yn barnu pob Matterion o Gam a Chymmwys wrth Orfeddfa eu Rheſwm eu hunain. Can's wedi iddynt unwaith gam-farnu (fel yn ddiammau y gwnânt yn fynych) heblaw yr amryw Gamymddugiadau ſengl mewn Ymarfer a ganlyn hynny, trwy bracteiſio ymlaen ar eu cam Farn, hwy a ddyryſant eu hunain yn y fath Ddefodau ac Arferion drwg, ac a wnâ yn anhawdd jawn iddynt, erbyn y canfyddont Gamgymmeriad eu Barn, i wellhâu Camgymmeriad eu Hymarfer. Ac am hynny, er mwyn ein cadw ein hunain yn ein Diniweidrwydd a'n Dyledſwydd, y mae'n angenrheidiol jawn i ni ymhob peth amhêus i appelio oddi wrthym ein hunain at Farn eraill; y rhai, gan nad oes ganddynt un Fantais i'w gwyro un ffordd fwy nâ'i gilydd, a fyddant yn fwy diduedd o lawer, ac am hynny (os bydd ganddynt ond cyſtal Dyall) a fyddant gymmwyſach Barnwyr o'n Câs nâ nyni ein hunain.

Ar bob un o'r ddau Gyfrif hyn y mae'r Greſydd Gris'nogol yn ddoeth wedi neillduo Trefn o Ddynion oddi wrth y Bŷd, i fod yn Athrawon ac yn Arweinyddion i Eneidiau, i edrych dros y Praidd, a'u cyfarwyddo, y rhai, ar y Cyfrifon a rag-grybwyllwyd, na's gallen bwrw eu bod ymhob peth yn Athrawon cymmwys iddynt eu hunain. Can's i'r Diben hwn yr awdurdododd ein Jachawdwr ei Ddyſgyblion cyn ei Eſgyniad, *Mat.* xxviii. 18, 19, 20. *Rhoddwyd i mi bob Awdurdod yn y Nef ac ar y Ddaear. Ewch gan hynny a dyſgwch yr holl Genhedloedd, gan eu bedyddio hwy, yr Enw'r Tâd, a'r Mâb, a'r Ysbryd Glân: gan ddyſgu iddynt gadw pob peth a'r a orchymynais i chwi: ac wele, yr ydwyf fi gyd â chwi bob amſer, hyd Ddiwedd y Bŷd.* Ac y mae'n amlwg, na amcanodd efe mo'r Awdurdod hwn i barhâu yn unig dros Amſer, ac i ddarfod gyd ag Eſgobion a Phlanwyr cyntaf yr Efengyl; ond iddo amcanu ei droſglwyddo i wared o'u Dwylo hwynt i'r holl Oeſoedd Cris'nogol a ganlynent: hyn ſydd amlwg, medd af, nid yn unig oddi wrth yr Addewid hon, y *byddai efe gyd â hwynt hyd Ddiwedd y Bŷd*, yr hyn ſydd yn dangos y fyddai eglur ei bod i barhâu mewn Grym hyd hynny; ond hefyd

odd

oddi ymma, i'r rhai'ny i ba rai y rhoddwyd yr Awdurdod hwn gyntaf, ei drosglwyddo ef i eraill, 2 *Tim.* i. 6. gyd â Gorchymmyn caeth jawn i'r rhai'n hefyd ei drosglwyddo ôl yn ôl i eraill, *Tit.* i. 5.

Ac fel y darfu i Grist trwy'r Commissiwn parhâus hwn sefydlu Canlynaid o Ddynion ar ôl eu gilydd i fod yn Athrawon i Eneidiau hyd Ddiwedd y Byd; felly y mae efe wedi rhwymo pob Cristion i wrando arnynt a'u parchu fel y cyfryw. Can's *y neb sydd yn eich gwrando chwi* (medd efe) *sydd yn fy ngwrando i; a'r neb sydd yn eich dirmygu chwi, sydd yn fy nirmygu i; a'r neb sydd yn fy nirmygu i, sydd yn dirmygu yr hwn a'm hanfonodd i*, Luc x. 16. Ac 1 *Cor.* iv. 1. y mae'r Apostol yn gorchymmyn i bob Cristion, i *gyfrif yr Athrawon ysbrydol hyn megis Gweinidogion i Grist, a Goruchwylwyr ar Ddirgeledigaethau DUW.* Felly hefyd, 1 *Thes.* v. 12, 13. y mae efe yn taer *attolygu arnynt*, fel Peth pwysfawr jawn, *iddynt adnabod y rhai oedd yn llafurio yn eu mysg, ac yn eu llywodraethu hwy yn yr Arglwydd, ac yn eu rhybuddio; a gwneuthur Cyfrif mawr o honynt mewn Cariad, er mwyn eu Gwaith.* Ac *Heb.* xiii. 17. y mae efe yn rhoddi y Gorchymmyn hwn: *Ufuddhêwch i'ch Blaenoriaid, ac ymddarostyngwch; o blegid y maent hwy yn gwylio dros eich Eneidiau chwi, megis rhai a fydd raid iddynt roddi Cyfrif; fel y gallont wneuthur hynny yn llawen, ac nid yn drist: canys difudd i chwi yw hynny.*

Gan fod ynte y fath Drefn o Ddynion wedi eu sancteiddio yn llyn, a'u neillduo oddi wrth y Byd, trwy Gommissiwn ein Jachawdwr, i edrych at amryw Anghenion Eneidiau, ac i weini iddynt ym mhob Perthynas grefyddol; fe fyddai yn ddiammau yn Gymmorth mawr jawn i Ddynion, tu ag at fyned yn y blaen yn llwyddiannus yn y Filwriaeth Grist'nogol, pe baent yn eu holl Gyfyngderau a'u Caledi yn myned attynt hwy am Gynghor a Chyfarwyddyd gyd â'r fath Weddoldeb a Phurdeb ag y dylent. Can's heblaw y gallent, gyd â Rhefwm, ddifgwyl mwy o Fendith ar eu Cynghorion hwy nâ Chynghorion Dynion eraill, gan eu bod yn Athrawon wedi eu hawdurdodi dan Fugail mawr Eneidiau, yr hwn, fel y rhaid i ni fwrw, a gydweithia yn hwy enwedigol gyd â'r Moddion a ordeiniodd efe ei hun;

heblaw hyn, meddaf, gan eu bod hwy yn Ddynion ag ſydd wedi eu llwyr-gyſſegru at Orchwyl-waith a Gweinidogaeth Crefydd, rhaid bwrw (er pe baent gydrâdd mewn Pethau eraill) eu bod yn gweled ymhellach i Achoſion Eneidiau, i'w Peryglon a'u Cilfachau i ymguddio, i'w Clefydon a'u Meddyginiaethau; ac yn ganlynol, y gallant eu cynghori a'u cyfarwyddo hwy yn well nâ Dynion o Fywyd ac Ymarweddiad gwladaidd. Pe bae Dynion gan hynny ond bod mor garedig iddynt eu hunain, a myned yn eu holl Anghenion yſbrydol at Athro ſanctaidd, doeth, a dyſgedig; i agor eu Clwyfau, i amlygu eu Cyflwrau, a dadguddio Dirgelion eu Heneidiau iddo, cyn belled ag y mae'n angenrhaid i'w gynnorthwyo ef i gymhwyſo yr hyn ſydd yn perthyn attynt; ni ellir adrodd pa ryw Fantais fawr a allent wneuthur o hono. Efe a fyddai yn lle Angel da i'w Heneidiau, i'w hamddiffyn, i ddyfod â llawer Meddwl da i'w Côf, ac i borthi eu Myfyrdodau â llawer o Wybodaeth leſol; i'w cynnorthwyo i dynnu y Defnyddiau hynny ag ſydd gymmwys oddi wrth Erthyglau eu Ffydd, a'u dwyn hwy i Egwyddorion ymarferol; i unjawni eu Crwydriadau, a dattod eu Hamheuon; i'w cyſſuro yn eu Triſtwch, a'u bywioccâu yn eu Hanhwyl; i wreſogi eu Claearineb, ac arafu eu Zêl, fel na bo i'r naill eu gwneuthur yn rhy lonydd, na'r llall eu chwythu hwy ymlaen yn rhy chwimmwth; ac, mewn gair, i'w cyfarwyddo at y jawn Foddion i farweiddio eu Tueddiadau drwg, a llywodraethu eu Crefydd yn y fath fodd, ag y bo iddynt ei wneuthur yn fwy eſmwyth a hyfryd iddynt. Y Swyddau da hyn, a llawer yn ychwaneg, allai Athro doeth profiadol wneuthur i Ddynion, pe baent ond ei gymmeryd ef gyd â hwynt ar hŷd y Ffordd tu a'r Nefoedd, ac ymoſtwng eu hunain yn weddus i'w Reolaeth a'i Gyfarwyddyd ef. Ac o wneuthur yn llyn, hwy gaent nid yn unig fwy o Ddiogelwch i'w Diniweidrwydd, ond hefyd mwy o Foddlondeb i'w Cydwybodau; o herwydd yna y byddai nid yn unig i'w Barn breifat hwy eu hunain, yr hon y mae ganddynt Achos cyfiawn mewn amryw Bethau ei drwgdybio, ond hefyd Barn well a mwy diduedd yr Athro awdurdodol a fyddai yn gwarantu eu Gweithredoedd hwynt. Can's os

dan

dan ei Gyfarwyddyd ef y digwyddai iddynt mewn un Peth amhêus gyfeiliorni oddi ar Ffordd y Gwirionedd neu Gyfiawnder, hwy a gânt hyn o Foddlondeb; iddynt arfer y Moddion goreu i ragflaenu hynny, y Moddion at ba rai y mae Duw ei hun wedi eu danfon hwy, i'r hwn yn unig y rhaid iddynt roddi Cyfrif o'u Gweithredoedd, a'r hwn, fel y gallant yn dda feddwl, a ddengys lawer o Dofturi i'r Camymddugiadau hynny ag allo ganlyn oddi wrth eu Hymoftyngiad hwy i'r hyn a appwyntiodd efe. Ond os bydd iddynt hwy, er yr holl Ofal mawr a gymmerodd Duw am eu Heneidiau, trwy appwyntio Llywiawdwyr iddynt i'w llywio hwynt yn ddiogel i'r Nefoedd, forio hebddynt, a rhyfygu cymmaint ar eu Gwybodaeth eu hunain, ag anturio tu a eu Porthladd tragywyddol trwy'r holl Greigiau a'r Sugn-draeth hynny ag fydd ar eu Ffordd; rhaid iddynt fod mewn Perygl mawr o gael eu colli: ac os colledig fyddant, hwy a allant ddiolch iddynt eu hunain am hynny; ac nid oes iddynt ddifgwyl am ddim Tofturi oddi wrth Dduw, gan iddynt mor aniolchgar ddiyftyru ac eſgeuluſo y Parotoad carcus a wnaeth efe tu ag at eu tragywyddol Gadwedigaeth.

IV. Tu ag at fyned ymlaen yn llwyddiannus yn ein Milwriaeth Gris'nogol, y mae hefyd yn angenrheidiol i ni, cyn fynyched ag y gallom, fod â'n Diben a'n Golwg at Dduw yn ein holl Fywyd a'n Gweithredoedd. Can's y mae o fawr Fantais i Ddŷn tu ag at lywodraethu ei Fywyd, fod ei Ddibenion wedi eu huno, a'i fod ef yn gweithredu yn waftadol â'r un Amcan a Bwriad diyfgog. O herwydd tra nad yw efe yn amcanu ond un Peth, y mae efe yn uno holl Fywiogrwydd ei Natur i ganlyn hwnnw, ac yn waftadol yn tynnu atto â holl Rym a Phwerau ei Enaid. Y mae'n Ddiareb gan Wŷr yr *Ital*; *Oddi wrth y Gŵr o un Gorchwyl gwared fi, Arglwydd daionus*: o herwydd, gan nad yw efe yn meddwl am ddim ond hynny, rhaid bwrw ei fod efe yn fwy medrus a chraffus ynddo, ac yn ganlynol yn aplach i ragori ar arall na feddyliodd am dano ond ar brydiau, ac i'w dwyllo ef. Ond pan y mae gan Ddŷn amryw Ddibenion, rhaid fod ei Weithredoedd ef yn anwaftad; a chan fod Grym ei Bwerau ef wedi ei rhannu

rhwng ei amrywiol Amcanion, rhaid iddynt fod mor wan, ag y bydd yn amhoſſibl iddo ganlyn un o honynt yn fyw-iog ac yn egniol. Un o Reolau *Pythagoras* ydyw, *Tylai Dŷn fod yn un*; hynny yw, cyn belled ag y gallo i ſefydlu ei holl Amcanion ar un Diben, a'u huno yn yr un Man, heb adael iddo ei hun gael ei gylch-arwain ymma a thraw gan amryw Fwriadu a Dibenion: o herwydd na's gall hyn lai nâ'i dynnu ef ymma a thraw yn ei Orchwylion, ac felly rhannu a gwanhau ei Egwyddorion o weithredu, fel na's gall efe wneuthur dim i un Pwrpas. Gan mai Duw ynte ydyw Gwrthddrych mawr Crefydd, y mae'n angenrhaid i ni, os mynnwn wneuthur Cynnydd ynddi, hyd eitha'n Gallu ei olygu ef yn ein holl Weithredoedd; i ni bob amſer edrych i fynu atto ef fel y Seren ſydd i'n cyfarwyddo ni i hwylio ein Cerddediad, ac arwain ein holl Fywyd gyd â Bwriad ſicr i ufuddhâu ei Ewyllys, a dilyn ei Natur ef.

Ac yn wir oni wnawn ni hyn, nid Dynion da mo honom ym Marn ac Yſtyr Crefydd. Can's Rheol o Addoliad Duw yw Crefydd, fel y cyfryw; ac yn yr Yſtyr hyn y mae'r Grefydd Gris'nogol yn neillduol yn gorchymmyn ei holl Ddyledſwyddau, *ſef*, o Ufudd-dod ac Addoliad i Dduw. Can's y mae hi yn gorchymmyn i ni *wneuthur pob peth megis i DDUW*, Col. iii. 23. a *gwneuthur pob peth er Gogoniant i DDUW*, 1 Cor. x. 31. hynny yw, i wneuthur y cwbl mewn Ufudd-dod iddo ef, ac yn ôl ei Eſampl ef, oddi wrth Gydnabyddiaeth ddiragrith o Berffeithrwydd ei Natur, ei Ben-awdurdod droſom, a'i Hawl anghyfnewidiol i'n llywodraethu a'n rheoli ni. Nid fod Amcan gweithredol amlwg o ufuddhâu neu ganlyn Duw yn angenrheidiol i bob Gweithred dda: can's, o herwydd fod ein Hachlyſurau i wneuthur Daioni mor anfeidrol, ac mor fynych yn ymgyfarfod â ni yn ein Matterion bydol, a chan na's gall ein Meddyliau feddwl am amryw Bethau ar unwaith; y mae yn amhoſſibl i ni yn weithredol amcanu ufuddhâu i Dduw ymhob peth da a wnelom; ond y mae'n gwbl-angenrheidiol i ni amcanu hyn yn gyffredinol, cyn y gallo ein Gweithredoedd goreu gael eu cyfrif yn ſanctaidd ac yn grefyddol. Can's Deddf ſylfaenol Crefydd ydyw, y rhaid i ni ufuddhâu i Dduw: oddi ymma y

mae

mae ei holl Orchymynion a'i Gwaharddiadau neillduol hi yn derbyn eu Grym a'u Rhwymedigaeth. Fel oni wnawn ni yr hyn y mae efe yn ei orchymmyn â Bwriad Meddwl cyffredinol i ufuddhâu iddo, nid ydym yn acto yn ôl Rhwymedigaeth grefyddol; ac yn ganlynol, er pe bae ein Gweithredoedd yn dda o ran eu Defnydd, etto nid ydynt grefyddol o ran eu Dull.

Yn awr, tu ag at ſefydlu y fath Amcan cyffredinol yn ein Meddyliau, y mae'n angenrhaid, yn yr Ymarferion neillduol o'n Crefydd, hyd eitha'n Gallu i ni fod yn weithredol â Duw yn ein Diben a'n Golwg; i ni daflu heibio bob Ddibenion eraill ag y gallom, a chyfeirio ein Gweithredoedd yn unjawn ac yn ddigyfrwng atto ef; i ni yn hollol eu cyſſegru hwynt i'w Ewyllys bendigedig a'i Bleſer ef, fel y gallom ddywedyd, Yr wyf yn gwneuthur hyn a hyn yn llwyr i foddloni Duw, gyd â Bwriad Enaid diragrith i fod yn gyffelyb iddo ef, a'i foddhâu, i gopio ar ôl ei Natur ef, ac i gyttuno â'i Ewyllys. I'r Diben hwn rhaid i ni gymmeryd Gofal, cyn fynyched ag y gallom, i gyflawni ein Gweithredoedd crefyddol yn y fath Fodd, na bo i ddim Dibenion bydol daro rhwng Duw a'n Hamcanion ni; i fod mor ddirgel ac mor weddaidd ag allom yn ein Crefydd, a pheidio â'i dangos yngolwg y Byd yn fwy nag y bo raid, rhag i Ganmoliaeth a Chlôd daro i mewn ar ein traws, a dwyn ymmaith ein Diben oddi wrth Dduw. Can's fel hyn y mae'n Jachawdwr yn ein cynghori mewn perthynas i Eluſendod a Gweddi; *Mat.* vi. 1, 7. na *bo i ni wneuthur ein Heluſen yngwydd Dynion, er mwyn cael ein gweled ganddynt*; *nac udganu Udgorn o'u blaen hwynt*, i beri i'r Heolydd ddadſain â'n Heluſen; nag ê, os bydd boſſibl, *na adawom i'n Llaw aſſwy wybod beth a wnâ ein Llaw ddehau*; ond i'n Heluſenau fod yn y dirgel, ac yn hyſbys i Dduw a ni ein hunain yn unig: a phan weddiom, na chwennychom wneuthur Lliw gwŷch o hynny *yn y Synagogau a Chonglau'r Heolydd*, ond *i ni fyned i'n Stafelloedd, a chau ein Dryſau*, ac yn y Modd mwyaf dirgel amlygu Cyflwr ein Heneidiau ger bron Duw. Yſtyr y cwbl yw, y dylem ymrôi, hyd ag allom, i drefnu Amgylchiadau ein Heluſen a'n Gweddi yn y fath Fodd,

na

na bo i ni roi un Odfa i Ddibenion am Amcanion bydol dorri i mewn ar ein traws, i ymgymmyſgu â'n Bwriadau duwiol, ac i lygru eu Purdeb hwynt.

Nid fy mod i yn tybied yn anghyfreithlawn i Ddŷn amcanu un Peth ond Duw wrth gyflawni ei Ddyledſwydd, neu fod ein Hamcan yn ddrwg, pan y byddo yn ddigyfrwng yn golygu unrhyw Ddiben bydol, megis Hyfrydwch, neu Elw, neu Anrhydedd, y rhai y mae Duw ei hun yn gynnyg fel Rheſymmau i berſwadio Dynion at eu Dyledſwydd; a pha Niweid ydyw i Ddynion amcanu'r Peth hwnnw wrth gyflawni eu Dyledſwydd, yr hwn a oſododd Duw o'u blaen hwynt fel Annogaeth i hynny? Mae'n wir, os Mantais fydol fydd ein hunig neu'n Diben pennaf ni, y mae ein Hamcan yn ddrwg, ac felly y mae'r holl Weithredoedd ſydd yn tarddu oddi wrtho: ond os ydym gyd â hynny yn amcanu ac yn bwriadu boddloni Duw, a chydymffurfio â'i Ewyllys a'i Natur ſendigedig ef mor galonnog, a pharhâu yn y blaen yn Ffordd ein Dyledſwydd tu ag atto ef, nid yn unig pan na bo gennym un Olwg o Fantais oddi allan i'n denu, ond pan y mae Gofidiau ac Anghymmwyſderau oddi allan yn gorwedd ar ein Ffordd; nid rhaid i ni ammau, nad yw ein Diben yn bûr dda ac yn ddiragrith, er yr Olwg agos ſydd yn ſynych ganddo ar Amcanion ac Annogaethau bydol. Ond etto y mae'n ſicr, po fwyaf y golygo ein Diben ni y Pethau hyn, mwyaf amherffaith ydyw, a mwyaf daroſtyngedig i gael ei ortrechu gan Brofedigaethau oddi allan. Can's y mae'n Argoel amlwg ei fod yn gwybod ei Wendid ei hun, pan na faidd efe ſefyll wrtho ei hun, ond gorfod arno alw am Help oddi wrth yr Amcanion bydol hwn i'w gynnal a'i amddiffyn; a pho leiaf o Ddiben bydol a fo yn ein Hamcan crefyddol, diau mai mwyaf pûr a digymmyſg ydyw, a mwyaf o Dduwioldeb ſylweddol ſydd ynddo: ac er y dichon efe fod yn wir ddiragrith, er ei fod yn gymmyſgedig ag Amcanion a Golygiadau bydol; etto po fwyaf o'r rhai'n a fo ynddo, gwannaf a mwyaf anwadal y rhaid ei fod. Can's nid yw boſſibl i'n Meddwl terfynedig allu amcanu amryw Bethau â'r un Râdd o Nerth a Bywiogrwydd, ag y gallo hi un Peth; a phan y mae ei Hamcan

wedi

wedi ei waſgaru ymhlith amryw o Bethau, rhaid ei fod yn fwy llêſg nâ phan y mae wedi ei grynhoi ynghŷd, ei uno a'i ſefydlu ar un Peth; ac yn ganlynol, po fwyaf y bo Amcan Dŷn yn golygu'r Bŷd, yn gyfattebol lleiaf y rhaid iddo olygu Duw; ac felly o'r tu arall. Ac yna po leiaf y bo Dŷn yn golygu Duw yn ei Ddyledſwydd, a pho fwyaf y fo efe yn olygu ar y Bŷd, mwyaf daroſtyngedig a fydd efe i'r Profedigaethau o Golled neu Ennill bydol. Can's pan fo'r Manteiſion hynny, y rhai y mae efe gymmaint yn olygu, yn ſefyll ar yr Ochr fy wrthwyneb i'w Ddyledſwydd, diammau y bydd efe o gymmaint a hynny yn fwy ei Dueddrwydd i'w gadael hi; a chyn fynyched ag y bo *Tynged* yn newid Ochrau, ac yn dwyn gyd â hi y Manteiſion o Hyfrydwch, Elw, neu Anrhydedd, oddi wrth Ddaioni at Ddrwg, neu oddi wrth Ddrwg at Ddaioni, efe y fydd barod i wynebu o bobtu gyd â hi beunydd, ac i chwildroi yn waſtadol fel Ceiliog-gwynt i le arall ar bob Newid Gwynt. Ond pan y mae Diben Dŷn yn golygu Duw yn unig, ſe fydd wedi ei ſefydlu yn ddiyſgog ymhlith pob Cyfnewidiadau oddi allan. Can's nid oes un Newidiad Cyflwr oddi allan all rwyſtro Dŷn i ryngu bôdd Duw; o herwydd fod ei Gariad ef attom ni yn gorphwys nid ar ein Tlodi neu'n Cyfoeth, ein Hyfrydwch neu'n Poen, ein Daroſtyngiad neu'n Derchafiad; ond ar Burdeb ein Rhinwedd a'n Crefydd. Ac am hynny, os ein Hamcan a fydd i'w foddloni ef yn unig, nyni a fyddwn ſicr o barhâu felly, nad pa fodd yr elo'r Bŷd gyd â ni.

Am hynny, tu ag at fyned ymlaen yn llwyddiannus mewn Crefydd, y mae'n angenrheidiol jawn, hyd ag allom, i ni dynnu ymmaith a neillduo ein Dibenion Crefyddol oddi wrth yr holl Amcanion bydol hyn: a hyn ſy raid ei wneuthur, trwy edrych i fynu yn fynych at Dduw, ei olygu ef, a chyflwyno ein Gweithredoedd iddo ef; trwy gau ein Llygaid rhag pob Yſtyriaethau bydol, pan fom yn myned ynghŷd ag un Ddyledſwydd; a bwriadu ynnom ein hunain, Hyn a wnâf, yn unig o herwydd ei fod yn Beth duwiol, neu o herwydd i Dduw ei orchymmyn; ni phriſiaf yn awr p'un ai'm canmol neu'm gwradwyddo a gaffwyf am hynny, p'un ai ennill neu golli a wnelwyf oddi wrtho:

digon

digon ydyw fod y Peth yn dda, a bod Duw wedi ei orchymmyn; ac am hynny myfi a'i gwnâf o herwydd y Rheſwm hwn yn unig, heb un Olwg nac Yſtyriaeth arall. Trwy'r hyn y bydd i ni bob yn ychydig buro ein Dibenion, a'u glanhâu oddi wrth Amcanion bydol yn y fath Fodd, ag y gallom weithredu yn fywiog mewn Crefydd, heb un Olwg arall ond i foddloni Duw, a byw yn ôl ei Ewyllys a'i Natur ef. A phan gallom unwaith wneuthur hyn, ni a fyddwn wedi myned ymlaen ymhell mewn Crefydd. Can's yn awr y mae Ewyllys Duw wedi cael y fath Lywodraeth ar ein Hewyllyſiau ni, fel megis y gallwn ufuddhâu iddo yn llawen heb Gymhelliadau oddi allan, felly y gallwn yn rhwydd ddibriſio pob Cymhelliadau i'r gwrthwyneb; a chan mai ein Hamcan mawr pennaf yw, ei foddloni ef, a bod yn gyffelyb iddo, ni bydd gan y Pethau oddi allan i ni ond ychydig jawn o Rym i'n ſymmud ni un Ffordd mwy nâ'u gilydd. O herwydd fod ein Hamcan mawr yn awr uwch eu llaw hwynt, a'n Llygaid mor ddiyſgog wedi eu ſefydlu ar Dduw, nad oes gennym Amſer i ofalu am danynt. A phan y mae ein Meddwl yn llyn heb Dueddiad ynddo i wrando Taerder diorphwys y Pethau hynny oddi allan ag y mae'r Byd yn gyfrif yn Dda neu yn Ddrwg, y mae ein Diniweidrwydd allan o Berygl, ac nyni a allwn fyned yn orfoleddus trwy eu holl Brofedigaethau hwynt. Rhagorol yw Ymadrodd *Epictetus*, Lib. II. C. 19. "Nid oes un Ffordd arall i Ddŷn i fwrw "Triſtwch, ac Ofn, a Thrachwant allan o'i Enaid, ond "trwy edrych i fynu at Dduw ei hunan, a rhoi ein hunain "i fynu iddo ef yn unig, a chyſſegru ein Bywyd i ufuddhâu "ei Orchymynion ef." Ac mewn Man arall y mae efe yn dywedyd wrth ei Yſgolheigion, mai'r Peth pennaf ag ydoedd efe yn amcanu oedd, "eu gwneuthur hwy yn "rhŷdd ac yn wynfydedig, trwy eu perſwadio hwy i "edrych i fynu at Dduw ymhob Peth, p'un ai bychan "ai mawr a fo efe." Can's tra bom yn ein Dibenion crefyddol yn edrych gormod ar y Pethau ſydd oddi allan i ni, yr ydym mewn meſur mawr yn ymddiried ein Rhinwedd a'n Crefydd iddynt; a chyn belled ag y gwnelom

hwynt

hwynt yn Annogaethau at ein Dyledſwyddau, cyn belled ŷ mae yn eu Gallu hwynt i'w ſicrhâu neu eu bradychu, Megis, yn lle Eſampl, cymmaint o Elw ag ydwyf fi yn amcanu gael oddi wrth unrhyw Weithred grefyddol, cymmaint a hynny o Awdurdod ſy gan Elw ar fy Nghrefydd i; a phe bae'r un Elw yn fy ngwahodd i wneuthur Gweithred ddrwg, ſe fydd ganddo gymmaint o Allu i fradychu fy Nghrefydd, ag oedd ynddo i'w diogelu hi: can's yr un Elw a gaiff yr un Ffrwyth arnaf fi pan y temtio fi i *bechu*, ag y gaffo eſe pan demtio fi i *ufuddhâu*. Pa fath beth peryglus ynte yw, i Ddynion ymddiried yn y fath Dryſor ag yw eu Diniweidrwydd a'u Crefydd i'r fath Ddwylo twyllodrus, a rhoi i'r Pethau hynny oddi allan, y rhai ydynt Brofedigaethau i Ddrwg, Allu i wneuthur yr hyn a fynnont o'u Rhinwedd hwy! Beth ydyw hyn, ond goſod Blaidd i gadw ein Defaid, neu Afr i gadw ein Diweirdeb? Am hynny, fel y dymunem fod yn ddiberygl yn ein Taith grefyddol, y mae'n perthyn yn fawr i ni buro ein Dibenion da ddim ag allom oddi wrth bob Golwg ar Bethau y Byd, a'u cyfeirio hwynt yn union at Dduw. A thu ag at hynny,

V. I. wneuthur Gyrfa a Thaith ein Milwriaeth Gris'nogol yn llwyddiannus, y mae'n angenrhaid i'n Meddyliau gael eu llanw â dwys Deimlad o Breſennoldeb Duw gyd â ni, a'i Olwg droſom. Ymhlith yr amryw Reolau rhagorol ag a roddes Gwŷr moeſol ymyſg y *Paganiaid* tu ag at lywodraethu Bucheddau Dynion, dymma un; Ar iddynt yn holl Yſtod eu Bywyd feddwl fod rhyw Ddŷn rhagorol, i'r hwn y mae ganddynt Barch mawr, yn breſennol gyd â hwynt, fel Tyſt a Golygwr o'u holl Weithredoedd. A Chynghor jachus a roddes un i'w Gyfaill *oſlan*; iddo grogi i fynu Lûn neu *Bictiwr* ei Dâd prudd-aidd, difrifol, yn yr Yſtafell lle'r oedd eſe yn arferol o wneuthur ei Aſlendid: gan feddwl y byddai i Lygad llym yr Hên Wr daionus, er nad oedd ond ei Lûn ef yno, fod yn rhyw Gerydd i Afreolaeth y Gŵr Jeuangc anghymmedrol. Ac os gellir gyd â Rheſwm fwrw, y byddai i waith un yn meddwl yn unig fod rhyw un yn breſennol gyd ag ef, neu ei fod ef yno yn unig mewn Delw farw, gael

Effaith

Effaith mor grŷf ar ein Gweithredoedd; o ba gymmain mwy o Rym y rhaid i'n cadarn *Grediniaeth* a'n *Teimlad* o Breſennoldeb Duw gyd â ni, fod i lywodraethu ein Bucheddau a'n Gweithredoedd? Ac y mae gennym ddigon o Reſwm i farnu ei fod ef yn breſennol gyd â ni, nid yn unig oddi wrth anfeidrol Lewndid ei Hanfod, yr hon, gan ei bod yn *Bôd* o honi ei hun, ni allai gael ei therfynu na'i chyfyngu trwy un Achos oddi allan, ac am hynny rhaid ei bod yn ddiderfyn ac yn anfeſurol; ond hefyd oddi wrth Ymadroddion eglur y 'Sgrythur, y rhai ſydd yn ſicrhâu i ni, fod *ei Lygaid ef ymhob lle, yn canfod y drygionus a'r daionus*, Diar. xv. 3. mai *DUW ydyw efe o agos, ac nid DUW o bell*; ac *na lecha neb mewn dirgel Lœoedd, fel na'i gwelo efe ef*; a'i fod efe *yn llenwi y Nefoedd a'r Ddaear*, Jer. xxiii. 23, 24. ac *na's gallwn fyned i un Lle o'i Wyneb ef*, Salm cxxxix. 7, 8. a *bod pob peth yn noeth ac yn agored i'w Lygaid ef*, Heb. iv. 13. hynny yw, fod y Byd wedi ei amgylchu a'i lanw â'i Hanfod ef; yr hon yw'r Grôdd ſydd yn cynnwys, a'r Enaid ſydd yn myned trwy y Creadigaeth. A chan ei fod efe fel hyn yn breſennol gyd â ni pa le bynnag y bom, rhaid bwrw fod ganddo Olwg waſtadol arnom, a Dyalldwriaeth eglur o ba beth bynnag a wnelom.

A chan ei fod efe fel hyn yn breſennol gyd â ni mewn Gwirionedd, ac nid mewn Llûn neu Ddelw, rhaid yn ddi ammau i hyn fod yn lleſol jawn i ni tu ag at jawn-lywodraethu ein Bucheddau; i fod gennym yn waſtadol Deimlad bywiol o hyn. Ac am hynny y mae'n Jachawdwr yn gorchymmyn i ni wneuthur Daioni, oddi wrth ddwy Deimlad fod Golwg Duw arnom. Mat. vi. 4, 6. *y byd i'n Tâd yr hwn ſydd yn gweled yn y dirgel, dalu i ni yn y amlwg.* A hyn wi'n feddwl yw Yſtyr y Gorchymmyn cynhwyſfawr hwnnw a roddes Duw i *Abraham*: *Rhodia ger fy mron i, a bydd berffaith*, Gen. xvii. 1. hynny yw Bydded i ti ymddwyn dy hun fel un ag ſydd yn deimlad wy o'th fod bob amſer yn fy Ngŵydd, a than fy Ngolwg ac yn yr Yſtyriaeth o hyn, gwêl dy fod yn *unjawn* ac yn *ddiragrith*, ac na bo i ti ofer-geiſio fy nhwyllo i trwy u Lliw gwŷch na Rhagrith. A Geiriau 'r Apoſtol ſydd i

un Pwrpas; Col. iii. 22. *Y Gweiſion, ufuddhêwch ymhob peth i'ch Meiſtred yn ôl y Cnawd; nid â Llygad-waſanaeth, fel Boddlonwyr Dynion, eithr mewn Symlrwydd Calon, yn ofni DUW:* hynny yw, Na fyddwch fel y Gweiſion hynny ſydd yn gwneuthur eu Dyledſwydd nid i un Diben arall ond er mwyn boddloni eu Meiſtred; ac felly na's gwnânt mo honi yn hwy nag y bo Golwg eu Meiſtr arnynt: ond gwnewch chwi eich Dyledſwydd yn gwbl-ddiragrith, o wir Barch i DDUW; gan yſtyried fod ei Olwg ef arnoch, pryd na bo un Dŷn yn eich gweled. Yſtyr hyn i gŷd ydyw, y dylem ni, yn ôl Eſampl *Dafydd* ſanctaidd, *Salm* xvi. 8. ymrôi *oſod yr Arglwydd bob amſer ger ein bron*, a llanw ein Meddyliau â dwys a bywiol Deimlad o'i fod ef yn waſtadol yn breſennol gyd â ni, pa le bynnag y bom, a pha beth bynnag a fom yn wneuthur, ac yn Dyſt ac yn Olygwr beunyddiol o'n holl Weithredoedd.

Ac nyni a gawn weled y bydd hyn o Lês anhraethadwy i ni ar ein holl Daith ymlaen yn ein Milwriaeth Gris'nogol. Can's,

1. Fe fydd yn Attalfa fawr i ni rhag pob Gweithred bechadurus. Can's fel y mae Sant *Awſtin* yn dal ſulw, y mae y Rhan fwyaf o Bechodau yn cael eu cymmeryd ymmaith, os bydd gan Ddŷn Dyſt o'i Ymarweddiad; a mwy o lawer os bydd efe yn deimladwy fod ganddo y fath Dyſt a DUW, yr hwn y mae'n perthyn iddo ef ei yſtyried yn anfeidrol fwy nâ'r holl Fŷd heblaw hynny; yr hwn yw *Barnwr* ei holl Weithredoedd, *Gwobrwywr* Daioni, a *Chosbwr* Drwg, *Ffynnon* dragywyddol o'r holl Ddrygau ag allo efe eu hofni, neu o'r holl Ddaioni ag allo efe obeithio am dano. A phwy ond Dŷn drwg diobaith a faidd wneuthur Gweithred ddrwg yngŵydd ac yngolwg y fath Dyſt ofnadwy? Can's bwriwch eich bod yn gweled y DUW Hollalluog ymma yn eiſtedd ar Gwmmwl mewn rhyw Ddull gweledig, a Mellten yn ei Law; ac yn edrych i lawr oddi yno arnoch chwi, yn dal ſulw craffus pa fodd yr ydych chwi yn ymddwyn, ac yn eich dilyn chwi yn glôs â'i Lygad arſwydus trwy eich holl ddirgel Leoedd a'ch Cilfachau: oni byddai'r Meddwl am un Weithred a'i hanfoddlonai ef yn barod i'ch taro chwi i Fraw a

Dychryn?

Dychryn? A allech chwi feddwl eich bod mewn un Lle yn ddiberygl yn eich Drygioni, tra'r ydych yn canfod eich hunain yn noeth i'w Olygon holl-weledig ef, i'r hwn y mae eich Stafelloedd dirgelaf mor agored a'ch Neuaddau, a'ch Calonnau mor amlwg a'r Ffyrdd fawr? Diammau na's gallech. Yn awr y mae bywiol Grêd a Theimlad o Beth, cyſtadl a'i ganfod yn weledig. Pe bae gennyf fi lawn Sicrwydd fod y Brenin yn gwrando y tu hwnt i'r Gwrten, ac yn clywed pob Gair a ddywedir yn y Stafell, diammau y byddwn gymmaint fy Ofn i lefaru Bradwriaeth yn ei erbyn, er na bawn yn ei weled, a phe bae efe yn ſefyll ger fy mron. Ac felly, er fod Duw gyd â mi mewn Môdd anweledig, ac na's gallaf ei ganfod ef trwy y Gwrten dew honno o Ddefnydd ſydd wedi ei thynnu rhyngof fi a'i Hanfod yſbrydol ef; etto, os bydd i mi ſicr gredu ei fod ef o'r tu hwnt iddi, a meddwl yn waſtadol ei fod ef yn gwrando ar yr hyn ydwyf fi yn ddywedyd, ac yn edrych ar yr hyn ydwyf fi yn wneuthur, ei fod ef yn dyall fy Meddyliau, ac yn llwyr-adnabod fy holl Amcanion a'm Bwriadau; fe wnâ hynny fi mor ofalus am fy Meddyliau, fy Ngeiriau, a'm Gweithredoedd, a phe bawn yn ei weled ef yn ſefyll wrth fy ymyl mewn Gogoniant gweledig, i'm 'ſgrifennu i lawr bob Gweithred o'm Bywyd, ac i oſod ar ei Lyfrau-dyled bob Tippyn o'm Heuogrwydd, erbyn y Dydd mawr Cyfrif. Ond pa gymmaint y mae Eiſiau y fath ddwys Deimlad o Breſennoldeb Duw gyd â ni yn gollwng Dynion yn rhŷdd i bob Drygioni, a ellir eu gaſglu oddi wrth Eiriau'r Prophwyd; Ezec. ix. 9. *Anwired Tŷ Juda ſydd fawr dros ben, a llawn yw'r Tir o Waed, a llanwyd y Ddinas o Gamwedd.* A pha fodd y mae hyn yn digwydd? Dymma pa fodd; *O herwydd dywedant, Gwrthododd yr Arglwydd y Ddaear, ac nid yw'r Arglwydd yn gweled.* Lle y mae *Dafydd*, o'r tu arall, yn dywedyd, mai'r hyn a wnaeth iddo ef gadw Gorchymynion a Thyſtiolaethau'r Arglwydd, ydoedd y Teimlad bywiol oedd ganddo, fod ei Ffyrdd ef yn waſtadol *ger bron* Duw; hynny yw, yn agored iddo ef eu gweled a'u canfod, *Salm* cxix. 168. Ond yna,

2. Fe

2. Fe fydd i'r fath Deimlad bywiol o Breſennoldeb Duw gyd â ni, a'i Olwg arnom, o fawr Lês i'n cadw yn ddirâgrith ac yn unjawn yn ein holl Weithredoedd. Can's gwae fy Nghalon! i ba Ddiben y bydd i ni ragrithio a thelu ein Drygioni o Olwg y Bŷd, cyhyd ag y bom yn amlwg i Olwg Duw? Oni thybiech chwi yn Beth rhyfedd jawn i weled Bagad o Garcharorion, ag ſydd ymhen ychydig o Oriau i gael eu *treio* am eu Bywyd, yn llawn o Garc a Gofal pa fodd y mae iddynt ymddangos yn garladlawn ac yn ddiniweid i'w gilydd, yn cuddio eu Haſlunieidd-dra, ac yn gwneuthur Lliwiau gwŷch ac Eſguſon dros eu Beiau, fel y bo iddynt trwy hynny hudo a thwyllo y naill y llall i Opiniwn da am eu gilydd; ond yn y cyfamſer heb ddal dim ſulw ar eu Barnwr, yr hwn ſydd yn eiſtedd gyferbyn â hwynt ar y Faingc, yn canfod eu holl Ddichellion a'u Twyll, ac yn dal eu Bywyd yn ei Ddwylo, ag Awdurdod ganddo i'w rhyddhâu neu eu condemnio, fel y caffo efe hwynt yn ddiniweid neu yn euog? Ac etto yn gymmwys fel hyn y mae'r Dynion hynny yn gwneuthur, y rhai nad yw eu Crefydd ddim ond Ymddangoſiad gwâg ac Ymgais am Glôd Dynion: y maent yn cuchio eu Hwynebau, yn aſtudio eu Gweithredoedd, yn cymmell eu Tueddiadau, a'r cwbl i'w gwneuthur eu hunain yn gyffelyb i rai Crefyddol o'r tu allan; y maent yn arfer llawer jawn o Ofal a Chelfyddyd i'w gorchguddio eu hunain, ac i farneiſio eu Natur aflan â Lliw o Sancteiddrwydd; y maent yn gyhoeddus yn pallu iddynt eu hunain eu Pleſerau anwylaf, ac yng Ngolwg y Bŷd yn fyhych yn gorfod acto yn erbyn eu Tueddiadau cryfaf; a hyn i gŷd i fwrw Gorchgudd dros eu Tymherau llygredig, fel yr ymddangoſont y peth nid ydynt yng Ngolwg y Bŷd, ac y twyllont eu hunain i Enw da fel Saint. Ond tra y maent mor ddiwyd a hyn yn ceiſio ennill Tŷb da eu Cyd-garcharorion, y mae eu Holl-weledig Farnwr yn breſennol gyd â hwynt, ar Farn ddiweddaf pa un y mae eu Rhan dragywyddol hwy yn ſefyll; ac er nad ydynt yn cymmeryd mwy o Sulw o hono, nâ phe bae efe o ddim Cyfrif yn y Bŷd, y mae efe yn gwybod yn llwyr-gwbl eu holl Ddichellion, ac yn gweled trwy eu holl Liwiau rhagrithiol; a chyn bo hir

a'u dadguddia ac a'u geſyd hwy yn agored, i'w gweled a'u dirmygu gan yr holl Fŷd. Ac o yſtyried hyn, pa Ffolineb toſt yw Rhagrith, ſydd yn ein cuddio yn unig oddi wrth y rhai'ny nad oes ganddynt ond ychydig neu ddim i wneuthur â ni, ond yn ein gadael yn noeth ac yn agored i'w Olwg ef â'r hwn y mae ein Perthynas mwyaf? Och! pa Orchwyl gwael ydyw cymmeryd cymmaint o Boen ag ydym ni yn gwneuthur, i'n canmol ein hunain i Ddynion, i Ddynion ſy raid iddynt ſefyll o flaen yr un Orſeddfaingc, a chael yr un Farn â ni ein hunain? Can's beth a dâl eu Tŷb da hwy am danom, os ni byddwn gymmeradwy gyd â'r Barnwr, yn Nwylaw pa un y mae ein Bywyd a'n Heneidiau ni? Os tybia efe yn dda am danom, yr ydym yn ddiogel, er pe byddai i'r holl Fŷd ein condemnio; ond os condemnia efe ni, er pe bae pob Creadur yn ein rhyddhâu, ni's gallant ein hamddiffyn rhag ei Farn ef. Ond, gwae fi! er cymmaint o Wahaniaeth allo fod rhwng Barn Duw a Barn Dynion am danom yn awr, etto pan ddelo efe i amlygu ei Feddyliau am danom, yn ei Farn a'i Sentens gyhoeddus, ſe fydd yr holl Fŷd o'i Feddwl ef; ac os ſefyll a wnawn yn ei Dŷb ef, ſe cenmyl yr holl Fŷd ni, er cymmaint o'n dibriſio a gaffom yn awr: megis, o'r tu arall, os condemnia efe ni, ſe fydd yr holl Gymmanfa o Yſbrydoedd yn ſicr o'n *bwttio* ni, er gwyched y gellir tybied am danom yn breſennol. A pho fwyaf o Barch ydym yn gael yn awr, mwyaf i gŷd o'n *bwttio* a gawn ni y pryd hwnnw, pan amlyger y Twyll, ac y tynner y Gorchgudd rhagrithiol ymmaith oddi ar ein Hwynebau diawlaidd.

Pe bae Dynion yn jawn-yſtyried hyn, ac yn ei ſefydlu ar eu Meddyliau, ſe'u jachâe hwynt yn llwyr o'u holl Ragrith. Can's, gwae finnau! pa Ragrith all eu cuddio hwynt mor gyfrwys, a'u celu hwynt oddi wrth Holl-wybodaeth? Os yw Dynion gan hynny yn chwennych bod yn ddrygionus, ſe fyddai cyſtadl iddynt wiſgo Wyneb hŷ, a bod yn amlwg yn annuwiol: can's nid yw ond ychydig jawn o Lês iddynt lechu mewn Cornelau, oni bae iddynt gael allan un a fyddai ddigon tywyll i'w cuddio hwynt oddi wrth Dduw, a'u celu rhag ei holl-weledig Olwg

et.

ef. Can's pa ham y cywilyddiai neu yr ofnai y Dŷn hwnnw adael i Blentyn neu Gymmydog wybod ei Ddrygioni, yr hwn nad yw byth yn petruſo ei wneuthur yng Ngolwg amlwg Mawrhydi ofnadwy y Neſoedd, yn ôl Barn ddiwaethaf yr hwn y rhaid i'w Ran dragywyddol ef gael ei therfynu?

Ac felly, ar y llaw arall, i ba Ddiben yr ydym ni yn aſtudio bod yn fwy defoſionol a chymhedrol, ſobr a chariadus, yng Ngolwg y Bŷd, nag ydym yn ein dirgel Leoedd, pan nad oes un Olwg ond Golwg Duw arnom? Y peth a ddylem ni ofalu fwyaf am dano ydyw, gwneuthur ein hunain yn gymmeradwy ger ei fron ef; ac os gallwn wneuthur hyn, pa Fatter mawr ydyw, os na byddwn mewn un helaethach Lle nâ'n Stafell, na neb ond Duw'r Neſoedd yn ein gweled? Y mae efe yn clywed Llais diſtawaf ein Heneidiau, ac yn gweled trwy ein holl Amcanion oneſt; a'n Rhinweddau dirgelaf ydynt mor ddarllenadwy i'w Olwg ef, a phe baent wedi eu 'ſgrifenu ar ein Talcennau â Phyſt yr Haul. Nid rhaid i ni wrth un Udgorn i gyhoeddi ein Heluſenau yn ei Gluſtiau ef; can's efe a wyr pwy a ddianghenodd y Dŷn tlawd accw, pwy a gynnorthwyodd y cyfryw Deulu oedd ar newynu, er na 'ſgrifenom ni mo'n Henwau ar ein Heluſen, na *gadael i'n Llaw aſſeu wybod beth a wnaeth ein Llaw ddehau.* Ac os gwnaethom ni ein hunain yn gymmeradwy ger bron Duw, trwy gyflawni ein Dyledſwydd yn ddiragrith, pa raid i ni ofalu ymhellach? gan mai nid oddi wrth Ddynion, ond oddi wrth Duw, yr ydym ni yn diſgwyl Gwobr ein Hufuddod. Na raid yn ddiammau; pe baem ni ond byw dan Deimlad beunyddiol o Breſennoldeb Duw gyd â ni, a'i Olwg arnom, nyni a ofalem am dano ef yn fwy o lawer ymhob Gweithred dda, ac a ofalem lai o lawer am Dŷb da'r Bŷd nag ydym yn wneuthur; a pho fwyaf dirgel a fyddai ein Gweithredoedd da, mwyaf y llawenychem ynddynt, o herwydd y rhoddent i ni gryfach Tyſtiolaeth o'n Symlrwydd a'n Purdeb. Can's beth a barai i ni fod yn ddaionus pan nad oes neb ond Duw yn ein gweled, ond pûr Barch i'w Awdurdod ef, ac Amcan oneſt i ufuddhâu iddo? Ac os Ufudd-dod yw ein Diben, po fwyaf dirgel fo ein Gweithredoedd da, mwyaf o Hyfrydwch a gawn

oddi wrthynt; o herwydd mai'r Gweithredoedd da hynny fydd â'r Ufudd-dod mwyaf ynddynt, y rhai fydd leiaf eu Hymddangoſiad oddi allan.

VI. Tu ag at fyned ymlaen yn llwyddiannus ar ein Taith yn y Filwriaeth Gris'nogol, y mae hefyd yn angenrheidiol i ni fynych holi ac ailolygu ein Gweithredoedd ein hunain. Can's y mae ein Crefydd yn gorchymmyn hyn fel Rhan angenrheidiol o Fywyd milwriaethus y Criſtion. Felly 2 *Cor.* xiii. 5. *Profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn y Ffydd; holwch eich hunain*: ac yn neillduol, fe orchymyner hyn fel Parotoad cymmwys i'r Sacrament; *Holed Dŷn ef ei hun; ac felly bwytaed*, 1 Cor. xi. 28. Felly hefyd, *Gal.* vi. 4. *Profed pob un* (neu, *Holed*) *ei Waith ei hun*; lle y mae i'r Gair *Groeg*, ag ydym ni yn yr holl Leoedd hyn o'r 'Sgrythur yn gyfieithu *profi*, neu *holi*, ddau Arwyddocâd: yn gyntaf, galw ein hunain i Gyfrif, profi ein Gweithredoedd aethant heibio wrth y Rheol, p'un ai da ai drwg a font; yn ail, cymmeryd y fath Ofal dyladwy am ein Gweithredoedd, ag y gallom, wedi eu manwl brofi, eu cymmeradwyo hwynt i Dduw a'n Cydwybodau ein hunain. Yn yr Yſtyr gyntaf ymma y mae'r *Teſtament Newydd* fynychaf yn dyall y Gair; ſef, galw ein hunain i Gyfrif, a bwrw Golwg fanwl ar ein Gweithredoedd, a'u barnu hwynt yn ddibartiaeth, p'un ai da ai drwg a font: ac felly, 1 *Cor.* xi. 31. yn lle'r Gair *holi* yn *Adnod* 28. hynny yw, *Holed Dŷn ef ei hun*, y mae'r Apoſtol yn arferu y Gair *barnu*, fel Ymadrodd o'r un Arwyddocâd. Os *barnwn ni ein hunain*, os galwn ni ein Gweithredoedd aethant heibio o flaen Brawdle ein Cydwybodau, a'u profi a'u holi wrth y Rheol, p'un ai da ai drwg ydynt, ac fe y caffom hwynt, i ryddhâu neu gondemnio ein hunain am danynt.

Ac y mae hon yn Ddyledſwydd o fawr Angenrheidrwydd tu ag at fyned ymlaen yn llwyddiannus yn ei Milwriaeth Gris'nogol. Can's oddieithr i ni fynych fyfyrio arnom ein hunain, a chymmeryd Cyfrif manwl o'n Gweithredoedd a'n Hymddugiad aeth heibio, nyni a redwn filoedd o Gamgymmeriadau ac Anfoeſoldeb yn Nhrwſt e Gorchwylion bydol, heb i ni gymmeryd dim Sulw o h

nyn

nynt; a'r Pechodau hynny y rhai ydym ni yn wneuthur yn ddifraw ac yn ddifwrw, heb feddwl byth wed'yn' am danynt, er na bo yſgatfydd ar y cyntaf ond ychydig neu ddim Malais ynddynt, ydynt er hynny yn gadael Arogl drwg ar eu hôl, ac yn llygru yr Ewyllys â Thueddiadau drwg, ac yn ei gogwyddo hi bob yn ychydig at Bechodau gwllyſgar a phwyllog. Can's fe fydd Hyfrydwch un Weithred ddrwg yn ein gwahodd beunydd at un arall, a honno at y drydydd; ac felly y cawn bob yn dippyn ein hudo yn y blaen o Bechod i Bechod, yng Nghwrs Bywyd difraw diyſtyriaeth, nes delo ein Tueddiad at y Pechod y ddarfu i ni ail-wneuthur mor ddifwrw, cyn y bom fyth yn meddwl, yn rhy grŷf i'n Bwriad duwiol. Can's wedi i ni yn ddiofal adael i un Pechod dorri'r Cae, fe egyr hwnnw Fwlch i'r llall i ganlyn ar ei ôl; ac oni chauer hwn i fynu yn fuan trwy Edifeirwch, fe wna'r Bwlch etto yn helaethach i eraill, a'r rhai'ny drachefn i eraill, nes o'r diwedd iddynt lwyr-ſathru i lawr ein Bwriad da, a gwneud Ffordd fawr yn ein Hewyllyſiau i Arfer o bechu. Ond os bydd i ni fynych-fyfyrio arnom ein hunain, a holi ein hunain, y mae'n amhoſſibl i'n Beiau ddiangc yn hir o'n Golwg; ac nyni a fyddwn ſicr o'u gweled hwynt mewn Pryd difai i'w ceryddu a'u gwellhâu, cyn iddynt wreiddio yn rhy ddwfn yn ein Natur, ac ymglymmu yn rhy dynn â'n Serchiadau: ac fe ellir yn hawdd jachâu Clwyf yn ein Diniweidrwydd, yn gyſtal ag yn ein Cyrph, os cymmerir ef mewn Amſer; ond os eſgeuluſer ef yn rhy hir, fe lygra bob yn ychydig i'r fath Glwyf marw, na's gellir mo'i feddyginiaethu.

Ac fel y mae mynych Hunan-ymholiad yn Ffrwyn fawr i'n Pechod, felly y mae yn Yſpardyn effeithiol i'n Rhinwedd. Can's megis y mae Cydwybod Dŷn, wedi iddo fyfyrio ar ei Bechodau a'i Gam-ymddugiad, ac yſtyried pa fodd a pha le y gwnaeth ef ar Fai, yn fuan yn ei gymmell ac yn ei gyffrôi ef i edifarhâu, a gwellhâu; felly pan y mae efe yn myfyrio ar ei Rinwedd ei hun a'i Burdeb, ei Gydwybod à wêna arno, ac a'i corona ef â Chanmoliaeth, ac a rydd iddo y fath Flâs melus a hyfryd ar ei Weithredoedd ei hun, ag a fydd yn Annogaeth fawr iddo

ef i barhâu i wneuthur Daioni. Can's yn ein holl Hunanymholiadau yr ydym yn profi y Gwahaniaeth rhwng Da a Drwg, Meluſder hwnnw, a Chwerwder hwn; ac yn ganlynol, po fynychaf y gwnelom felly, mwyaf yn ddiammau yr hoffwn ac y chwennychwn y naill, ac y ffieiddiwn y llall.

Am hynny i ddiogelu Llwyddiant da i'n Milwriaeth Gris'nogol, fel y mae'n angenrhaid, yn enwedig ar y Dechreu, i ni bob Boreu, cyn myned allan i'r Byd, ailadrodd a chefnogi ein Bwriad da; felly y mae mor angenrhaid, yn enwedig hyd onid elom ymlaen yn gryn bell ar ein Taith, i ni bob Nôs, wedi ymneillduo oddi wrth y Byd, holi yn fanwl Gyflawniadau'r Dydd, p'un a'u bod hwy y fath ag ſydd yn cyttuno â'n Rhwymedigaethau duwiol. Ac os, wedi edrych yn ddibartiaeth, yr ymddengys eu bod hwy felly, er fod hynny etto yn wan ac yn amherffaith, gwrandewn ar Leferydd ein Meddyliau ein hunain, ar y Gerddwriaeth ddiſtaw ſydd yn ſeinio oddi wrth ein Cydwybodau at ein Gweithredoedd; ac felly gorweddwn i lawr mewn Heddwch, gan fendithio ac addoli y Grâs hwnnw yr hwn a'n cynnorthwyodd ac a'n cynhaliodd. Neu, os ymddengys i ni fod ar y Bai trwy Ddiofalwch, o eiſiau jawn Ofal a Gwyliadwriaeth, bwriadwn i fod yn fwy gofalus o hynny allan, ac felly i oſod Attalfa ar ein Pechod mewn Amſer, cyn iddo weithio yn rhy bell ar ein Hewyllys a'n Serchiadau; ond os gwyddom i ni yn ewyllyſgar droſeddu yn erbyn ein Haddunedau Boreuol o Ufudd-dod, bydded i ni alaru a chwyno o'i blegid gyd â Chywilydd a Llidiowgrwydd. Pa beth a wnaethum, O Fradwr truenus fel yr wyf, i Dduw, ac i'm Henaid fy hun! Mi fum dwyllodrus yn yr Addunedau a wnaethum i'r Arglwydd, ac mi dorrais y Rhwymau ſanctaidd hynny â pha rai y rhwymwyd fi oddi wrth fy Chwantau a'm Dinyſtr. Beth a allaf bledio droſof fy hun, Ddŷn gwael ac anheilwng fel yr ydwyf? A pha Wyneb y gallaf fyned i'w Breſennoldeb ofnadwy ef, yr hwn a watworais i mor fynych â'm Haddewidion twyllodrus o Wellhâd? Etto myned a wnâf, er fy mod yn llawn Cywilydd a Gwradwydd

wydd Wyneb, a chyfaddef a galaru fy Anwiredd ger ei fron.

Pe baem ond cymmeryd Gofal yn llyn i alw ein hunain i Gyfrif bob Nôs, a barnu Gweithredoedd y Dydd yn ddiduedd, ni's gellir meddwl pa mor gyflym y gofodai ni yn y blaen yn ein Milwriaeth Gris'nogol; pa gymmaint y byddai i Fyfyrdod ar Ddiwrnod a dreuliwyd yn dda ein llonni a'n bywhâu ni; y modd y byddai i'r Teimlad boddlongar o hynny ofod Yſbryd gwrol yn ein Heneidiau, a'n hannog i fyned yn y blaen yn erbyn pob Gwrthwynebiad; pa gymmaint y byddai i ail-edrych dros y Dydd beri i'n Rheſwm fod yn fwy gwyliadwrus, a'n Cydwybodau yn fwy tyner o hynny allan; pa gymmaint y byddai i Hyfrydwch ein Pechodau gael ei leihâu a'i ddaroſtwng, trwy y Myfyrdodau pigog a wnaem arnynt; a pha gymmaint y byddai i'r Arſwyd rhag cael yr un Myfyrdodau wedi ei hailadrodd drachefn yn y Nôs, i'n diogelu ni rhag Profedigaethau y Dydd.

VII. I lwyddo ein Taith yn y Filwriaeth Gris'nogol, y mae hefyd yn angenrheidiol i ni fod yn wyliadwrus jawn ac yn ochelgar. Can's y mae hon hefyd yn un o'r Dyledſwyddau milwriaethus ag y mae'r Efengyl yn orchymmyn i ni. Felly, *Mat.* xxvi. 41. *Gwyliwch a gweddiwch, nad eloch i Brofedigaeth.* A *Marc* xiii. 37. *Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd wrthych chwi, yr wyf yn ei ddywedyd wrth bawb, Gwyliwch.* Felly hefyd, 1 *Cor.* xvi. 13. *Gwyliwch; ſeſwch yn y Ffydd; ymwrolwch.* Ac 1 *Theſ.* v. 6. *Am hynny na chyſgwn, fel rhai eraill; eithr gwyliwn, a byddwn ſobr.* Lle y mae Natur y Ddyledſwydd yn cael ei hamlygu yn eglur trwy'r Peth ſy wrthwyneb iddi. *Na chyſgwn; eithr gwyliwn:* hynny yw, Na ymddugwch eich hunain fel Dynion ſydd yn cyſgu, nad ydynt yn dal dim Sulw ar un Peth a wneir ganddynt, neu iddynt, neu oddi amgylch iddynt; ond byddwch chwi ſicr o ymarfer Gofal ffyddlon, call, a beunyddiol, am eich holl Weithredoedd, a'r amryw Brofedigaethau hynny ag ſydd yn eich cyrchu ac yn eich amgylchynu. Ac am hynny fe oſoder hyn allan mewn Lle arall, trwy *rodio yn ddieſgeulus*, Eph. v. 15. hynny yw, edrych oddi amgylch i chwi, pwyſo Natur ac Amgylchiadau

gylchiadau eich Gweithredoedd, ac arferu pob Gofal oneſt, naill ai i ragflaenu y Profedigaethau ag ſydd yn eich bygwth, neu i barotôi yn eu herbyn: fel mai Yſtyr y Ddyledſwydd ymma yn fyrr ydyw hyn; i ni fod yn ofalus i ochelyd gwneuthur un peth yn fyrbwyll ac yn ddiyſtyriaeth, heb feddwl ymlaen-llaw beth yw Natur ein Gweithred, p'un ai da ai drwg ydyw; i ni ymhob Peth amheus a thywyll ymgynghori yn ddibartiaeth â'n Rheol a'n Cydwybod, ac edrych cyn neidio, a chymmeryd Gofal ar i ni gael Boddlonrwydd fod ein Hamcanion yn dda, cyn y cyflawnom hwynt: mewn gair, na bo i ni yn ddiofal redeg ein hunain i Brofedigaethau, ond eu gochelyd, os bydd boſſibl; os ni bydd, i fod yn ſicr o arfogi ein hunain yn eu herbyn hwynt, a chadw mor belled oddi wrth bob Pechod, yn enwedig hwnnw ag yr ydym fwyaf tueddol iddo, ag allo gyd-ſefyll â'n Hachoſion angenrheidiol; neu, mewn Geiriau fo fyrrach, ymgynghori yn dda yn waſtadol yn y Peth a wnelom, nad p'un ai da ai drwg a fo ef: ac os drwg a fydd, i ſymmud cyn belled ag y gallom oddi wrth yr Achlyſurau ag ſydd yn tywys iddo, a pharotôi Yſtyriaethau yn ei erbyn, a'u cadw hwy beunydd yn neffro yn ein Meddyliau, fel na ddalio efe nyni yn ddiſymmwth.

Yr hon ſydd Ddyledſwydd o Angenrheidrwydd anhepgorol i ni yn holl Yrfa ein Milwriaeth Gris'nogol. Can's tra'r arferom ein hunain i wneuthur Pethau yn fyrbwyll ac yn ddiyſtyriaeth, heb feddwl ymlaen-llaw beth ydym yn ddywedyd neu yn wneuthur, yr ydym yn crwydro fel Dynion deillion mewn Maes ag ſydd yn llawn o Byllau a Llyngclynnau, ag ſydd bob Munyd mewn Perygl o dramgwyddo i ryw Ddrwg neu gilydd; ac fe fydd i ni yn ddiammau ſuddo i lawer Arfer ddrwg, cyn i ni byth yſtyried ei Ddrwg ef: ac felly, yn lle gorchfygu ein hên Bechodau, ni fyddwn yn awr ac eilwaith yn rhedeg i rai newydd; a thra bom yn rhedeg ymmaith oddi wrth un Drwg, nyni a dramgwyddwn yn fynych i un arall; ac, i ochelyd *Deffygion* Rhinwedd, a neidiwn bendramwnwgl i'w *Gormoddion* hi. Can's yn y Rhan fwyaf o Weithredoedd moeſol, ni ellir canfod y Mynediad oddi wrth yr Eithaf

o'r

'r hyn ſy gyfreithlawn i'r Rhan neſaf o'r hyn ſy bechdurus; a'r Lein ag ſydd yn gwahanu y Rhinwedd hon ddi wrth y Bai accw ſydd yn ei Chym'dogaeth, ſydd ſychaf cyn lleied, fel y mae'n anhawdd gwahaniaethu 'le y maent yn ymneillduo, a ſefydlu'r jawn Derfyn pa elled y gallwn ni fyned, ac nid ymhellach. Ond yna, s yſtyriwn fod pob Rhinwedd ymron yn gorwedd yn y anol rhwng dwy Ochr bechadurus, heb un Terfyn amlwg eu weledig i wahanu un o honynt oddi wrthi; pa fodd y nae'n boſſibl i ni, heb gymmeryd Gofal mawr am ein hodiad, gadw ymlaen yn ddiyſgog yn y jawn Lwybr, an y mae cynnifer o gau Lwybrau ar bob llaw iddo? an's, pan canfyddom i ni grwydro yn rhy bell tu ag at n Ochr, ac y bom yn ceiſio dyfod i'r jawn Ffordd drahefn, oni chymmerwn ni Ofal mawr am ein Camrau, yni a fyddwn debyg i grwydro cyn belled i'r Ochr arall; c felly tramgwyddo allan o'r naill Ochr i'r llall. Can's id yw'r neb ſydd yn byw heb Ocheliad na Gwyliadriaeth, yn gofalu pa mor neſed y delo efe at un Pechod, s gall efe ond cadw ei hun allan o hono; a phan gymnero Dŷn unwaith Rydd-did i nesâu, mor agos ag y mae fe yn tybied y gall efe yn gyfreithlawn, at un Pechod, nil i un oni bydd i'w Dueddrwydd ei ddwyn ef lawer mhellach nag y dylaſai fyned. Mor wir yw'r hyn a dywaid *Clement* o *Alecſandria*; *Y rhai a wnânt bob peth g ſydd gyfreithlawn, a dynner yn fuan i wneuthur yr hyn anghyfreithlawn*; yn enwedig os bydd ynddynt Dueddwydd crŷf atto: o herwydd fod Agoſder y Peth y mae Dŷn yn garu, yn waſtadol yn ei demtio ac yn ei hudo yn wy atto. Felly ni all yr hwn ſydd â Thueddiad crŷf ynddo at ddywedyd Celwydd, fod byth allan o Berygl, cyyd ag y bo efe yn rhoi Rhydd-did iddo ei hun i fiarad awer; a rhaid i'r hwn ſydd yn fawr ei Duedd at Chwant Cnawd, beryglu ei Ddiniweidrwydd, os daw efe yn rhygos i Derfynau pellaf Rhydd-did gweddus; a'r hwn y nae Malais ac Ymddial yn ei Natur, a ddaw i Berygl nawr, os gâd efe iddo ei hun fawrhâu y Râdd eithaf o Ddigofaint cymmwys a chyfreithlawn. Can's nid yw Tueddiadau drwg byth anhawſach eu hattal, nâ phan y bônt

bônt o fewn Golwg i'r Pethau hynny ag ſydd yn rho
Boddlondeb iddynt, a phan y bo'r Pethau y maent y
hoffi yn agos ac yn hawdd eu mwynhâu. Ar ba Gyfr
rhaid ei fod yn Beth peryglus jawn i'r cyfryw ag ſyd
wedi ymrwymo yn y Filwriaeth Gris'nogol, i fyw o few
Golwg i'r Profedigaethau hynny y mae ganddynt fwyaf
Dueddrwydd attynt; o herwydd po neſaf y maent attyn
mwyaf taer y byddant yn ymbil ac yn eu caru hwynt:
thra y bo Dŷn yn dyfod yn agos at Drachwant anwyl, a
heb ei fwynhâu, nid yw ond ei newynu ei hun yng Ngolwg
y Bwyd, a chynddeiriogi ei Chwant ar ôl y Mwynian
pechadurus hynny ag oedd efe ymron anghofio ei Flâ
hudolaidd. Os myn efe gan hynny gael Buddugoliaeth
berffaith ar ei Drachwant, rhaid iddo nid yn unig beidio
ei wneuthur, ond hefyd peidio dyfod yn agos atto; o'
hyn lleiaf, nes darfod diddyfnu o hono ei Dueddiad att
cyn belled, ag na bo ei Agoſder yn Brofedigaeth iddo
Can's Tueddiad, fel pob Symmudiad arall, ſydd beunyd
gyflymmaf pan y mae neſaf at ei Ganol-bwynt; a phan
mae unwaith o fewn ei Gyrraedd a'i Dynniad ef, y mae'
gwthio tu ag atto yn wyllt ac yn ddiattalfa: ac os di
gwydd iddo dorri allan at ei Bechod anwyl, yn y Llidiowg
rwydd gwyllt hyn, a phrofi ei Hyfrydwch gwaharddedig
fe fydd iddo trwy hynny ail-ennill yn fuan yr holl Nerth
a gollodd, a dyfod mor bengaled ac mor drachwyllt a
erioed: ac felly trwy fwynhâu ein Pechod dros *Funyd*, n
gollwn yr holl Dîr a ennillaſom trwy ymgadw *Fis* odd
wrtho. Ar y Cyfrif hyn, gan hynny, y mae'n perthyn
yn fawr i ni, os mynnwn lwyddo yn ein Milwriaeth Gris'
nogol, i fod yn wyliadwrus ac yn wagelog jawn, i edrych
yn dda at ein Camrau, ac na ddelom yn rhy agos at un
Pechod; ond yn enwedig at un y bo gennym Dueddrwyd
crŷf atto.

VIII. I roddi i ni Lwyddiant da yn ein Milwriaeth
Gris'nogol, y mae hefyd yn angenrheidiol i ni fod yn ddi
wyd ac yn ddyfal yn ein *Galwedigaethau* neillduol. Dymma
un o'r Dyledſwyddau offerynnol hynny ag y mae ein
Crefydd yn orchymmyn trwy holl Yrfa a Thaith ein Mil
wriaeth Gris'nogol. Felly 1 *Theſ.* iv. 10, 11. *Yr ydym yn*
attolwg

ttolwg i chwi, Frodyr, gymmydda o honoch fwyfwy, a rhoddi honoch eich Bryd ar fod yn llonydd, a gwneuthur eich Gorchwylion eich hunain, a gweithio â'ch Dwylaw eich hunain, megis y gorchymynafom i chwi. A hyn y mae'n gefnogi â Gorchymmyn arall, 2 *Thef.* iii. 10. fef, *Os byddai neb ni fynnai weithio, na chai fwyta chwaith*; hynny yw, na chaent u cynnal yn eu Diogi a'u Seguryd, ac fel *Gwenyn Ormes*, ael gorwedd yn llonydd yn y Cwch, a difa Llafur-waith Gwenyn diwyd. A hyn, *Adn.* 11. y mae'n alw, *rhodio n afreolus.* Ac *Adn.* 8, a'r 9. y mae'n dywedyd wrthm, mai o herwydd yr Achos hwn y dewifodd efe yn hytrach *weithio â'i Ddwylaw ei hun* am ei Fywioliaeth, nâ hael ei Gynhaliaeth oddi wrthynt hwy, fel y gallafai efe fyn yn gyfiawn; fel y gallai efe ei wneuthur ei hun yn Siampl o Ddiwydrwydd i'w ddilyn ganddynt. Felly efyd, *Eph.* iv. 28. *Yr hwn a ledrattaodd, na ledratted mwyach; eithr yn hytrach cymmeryd Boen, gan weithio â'i Ddwylaw yr hyn fy dda:* hynny yw, dilyn rhyw Alwedigeth oneft, *fel y bo ganddo Beth i'w gyfrannu i'r hwn y mae Angen arno.* Yftyr hyn i gŷd ydyw, ein rhwymo ni ymdrîn â rhyw Orchwyl-waith neu Alwad oneft, a bod n ddyfal ac yn ddiwyd ynddi.

A pha mor angenrheidiol yw hyn i'n diogelu ni yn ein oll Daith mewn Crefydd, a ymddengys oddi ymma; in bod ni yn fath o Greaduriaid bywiog jawn wrth Natur, raid fod ar waith ryw ffordd neu gilydd; fod gennym eddwl oddi fewn i ni ag a fyn ymfymmud yn waftadol; chan ei bod o Sylwedd yfbrydol, ac felly o Natur gwbl-wahanol oddi wrth Ddefnydd fwrth a difywyd, ni all byth rphwys, na bod yn ddi-weithred; yr hon fydd yn tynnu holl Hyfrydwch oddi wrth *weithredu*, ac heb fod ganddi dim i fyw arno ond Blâs hyfryd ei Symmudiadau ei hun. A chan mai dymma Gyflwr yr Egwyddor fywiog honno ddi fewn i ni ag fydd yn ein gwneuthur yn Ddynion, y mae'n gofyn i ni gymmeryd Gofal mawr i'w chadw hi r waith ar yr hyn fy dda ac unjawn. Can's o herwydd bod wrth Natur y fath Beth diorphwys rhyfedd, hi fydd cr o gael allan ryw beth neu gilydd i weithio arno; ac ni ofoder hi ar waith yn feunyddiol mewn Pethau oneft

a chyf-

a chyfreithlawn, hi drŷ Rediad ei Symmudiad yn fua
Ffordd arall, ac a eſyd allan ei Bywiogrwydd ar Betha
anoneſt ac anghyfreithlawn. A thymma'r Achos, er pa
wrthgiliodd Dŷn, i Dduw oſod y Rhan fwyaf o Ddyn
ion yn y fath Amgylchiadau ag y bo rhyw Alwedigaet
oneſt, a'u Diwydrwydd a'u Dyfalwch ynddi, yn gwbl
angenrheidiol tu ag at eu Cynhaliaeth gyſſurus hwyn
Can's darfu iddo ef ddoeth-yſtyried, fod y fath Anhuedd
rwydd yn ein Natur lygredig at dduwiol ac yſbrydo
Ymarferion Crefydd, ag y byddai yn amhoſſibl i ni, y
y Cyflwr amherffaith hwn, gadw ein Meddyliau beunyd
yn ddyfal arnynt, i ſefydlu ein Meddyliau yn oeſtado
arno ef, a goſod allan Bwerau ein Heneidiau yn ddido
ac yn ddirwyſtr, mewn Gweithredoedd parhâus o Gariad
Addoliad, a Chanlyniad o hono ef; fod y fath Wrthwy
nebiad yn ein Tymherau at y Gweithredoedd bendigedi
hyn, fel y deuent yn fuan yn flin ac yn anoddefadwy i ni
pe na bae gennym ddim arall i'w wneuthur: ac felly
rhag i ni lwyr-flino gan y Gweithredoedd yſbrydol hyn
Grefydd, a'u casâu hwynt, ac felly troi ein Bywiogrwyd
i'r Ffordd wrthwyneb, efe a'n goſododd ni yn y fath Am
gylchiadau, ag y caffom Odfêydd yn fynych i'n Meddylia
blinedig orphwys oddi wrth yr Ymarferion yſbrydol hyn
yn y fath Orchwylion diniweid ag ſydd angenrheidiol a
ein Bywioliaeth gyſſurus yn y Bŷd hwn. Fel trwy ei
goſod ni dan yr Angenrheidrwydd o weithio mewn Crefft
au a Galwedigaethau gwledig, efe a gymmerodd Ofal
attal ein Meddyliau ar y Ffordd, fel na byddai iddynt ffo
ymmaith oddi wrth Weithredoedd pûr Crefydd i'r An
nuwioldeb ſydd wrthwyneb iddi; a phan na bônt ar Waith
duwiol, y gallont fod ar Waith diniweid; a thrwy ddi
fyrru ein Bywiogrwydd â Gwaith oneſt, pan y mae wed
blino ar Waith yſbrydol, efe a gymmerodd Ffordd ddoet
i'w gadw o fewn Terfynau, a gadael iddo lai o Le
Rhydd-did i grwydro a rhedeg i Weithredoedd pechaduru
a gwaharddedig. Ac am hynny fel y mae *Ariſtotl* yn can
mol *Archytas*, am ddychymyg Teganau, o herwydd fo
Plant trwy chwareu â'r rhai'ny yn cael eu cadw rhag torr
Lleſtri o Ddefnydd; felly y dylem ni ryfeddu Doethine

a Daion

Daioni Duw, trwy oſod fel hyn Angenrheidrwydd arnom ni i ddodi ein Bywiogrwydd ar waith mewn Crefftau Chelfyddydau gwledig; o herwydd trwy oſod ein Natur ygredig ddiorphwys fel hyn ar waith diniweid, efe a gymmerodd Ffordd ryfeddol i'n troi ni oddi wrth Weithredoedd drygionus.

A chwedi iddo ef ein rhwymo ni yn llyn, trwy ein Hanghenion i ganlyn rhyw Alwedigaeth oneſt tu ag atfyw yn gyſſurus, y mae efe yn diſgwyl i ni fod yn ddiwyd ac yn ddyfal yn yr Alwedigaeth neillduol honno ymha un y goſododd ei Ragluniaeth ef ni. Can's heb hynny y mae efe yn colli ei Ddiben; yr hyn oedd, i'n hattal ni rhag bod yn fywiog mewn Ffordd bechadurus, trwy oſod Angenrheidrwydd arnom i fod felly mewn Ffordd diniweid. Ac yn awr, wedi iddo ef ein goſod ni yn yr Anghenion hynny, y rhai ſy'n peri i ni gyfrannu i'w gilydd amryw Gymhwyſderau Bywyd, er cyflawni Diffyg pa rai yr amcanwyd ein hamrywiol Grefftau a'n Galwedigaethau, trwy ſod yn ddiwyd ynddynt, nyni a'n gwnawn ein hunain yn Weiſion cymmeradwy a ffyddlon yn Nheulu mawr Duw; a thrwy ddyfal-gyflawni y Swyddau neillduol hynny ymha rai y goſododd efe nyni, yr ydym yn gweithredu tu ag at eu gilydd fel Gweinidogion ufudd ei Ragluniaeth ef. O herwydd, trwy wneuthur felly, ein bod yn dianghenu yr Eiſiau a'r Anghenion a wnaeth Duw, a'r rhai a wnaeth efe i gael eu dianghenu trwy ein Swydd a'n Gweinidogaeth ni; felly y mae gofalu am ein Gorchwyl ein hunain yn awr yn Rhan o'n Crefydd, a'r Rhan neillduol hynny ydyw ag y galwodd Rhagluniaeth Duw ni iddo. Os ydym ni gan hynny yn ſegur ac yn eſgeulus yn hyn, Gweiſion anufudd ydym ni i Feiſtr cyffredinol y Byd, er dyfaled allom ni fod mewn Pethau eraill. Can's dymma Waith cymmwys ein Swydd ni; ac am hynny os ydym yn anffyddlon yn hyn, ni allwn ni fod yn ffyddlon mewn dim. Pe bae Goruchwyliwr Teulu yn eſgeuluſo goſod Tiroedd ei Feiſtr allan, a chaſglu i mewn ei Renti, ſe ſernid yn Wâs drwg, er cymmaint fyddai ei Ddiwydrwydd yn y Gegin neu'r Stabl; ac felly os ydym ninnau yn eſgeulus yn ein Swyddau a'n Gorchwylion neillduol, Gweiſion

drwg

drwg ydym i Dduw, er mor ddiwyd bynnag allom n
fod yn Swyddau Dynion eraill, neu yn y Gwaſanaeth cy
ffredin ag ſydd ddyledus oddi wrth bawb o honom idd
ef: a'r hwn a eſgeuluſo ei Alwedigaeth ei hun, i was'
naethu Duw yn ei Stafell, neu yn yr Eglwys, ſydd fe
Goruchwyliwr anffyddlon, a eſgeuluſo barotôi dros
Teulu, i drin yr Ardd, a dwfrhâu y Blodau.

Mae'n wir, megis na's dylem gyſſegru i Waſanaeth
cyffredinol Duw, yr Amſer a'r Leſer hwnnw ag ſydd, y
ôl Rheolau Callineb a Hwſmonaeth dda, wedi ei oſo
heibio at ein Galwedigaethau neillduol; felly ni ddyle
chwaith adael i'n Galwedigaeth neillduol gymmeryd
fynu ein holl Amſer a'n Gwaith yn y fath Fodd, a bod he
adael dim i'n Gweddiau, a'r Gwaſanaeth cyffredinol hwn
nw, nad p'un ai dirgel ai cyhoeddus a fo, yr hwn, fe
Creaduriaid a Chris'nogion, ydym yn rhwym i'w dalu i'
Creawdwr. Can's, megis y mae'r hwn ſydd yn eſgeuluſo e
Alwedigaeth i was'naethu Duw, yn Ddiogyn crefyddol
felly yr hwn ſydd yn eſgeuluſo gwaſanaethu Duw i ddi
lyn ei Alwedigaeth, ſydd yn *Slâf* brwnt. Ond i Ddŷ
gwir-dduwiol a diwyd, nid yw mewn un modd yn anhawd
i gadw ei Orchwyl a'i Grefydd ar neilldu yn y fath Fodd
na bo iddynt rwyſtro eu gilydd; a chyflawni yn ffyddlo
pa beth bynnag y mae ei Alwedigaeth yn ofyn oddi wrth
ac etto gadael digon o Amſer yn rhŷdd i wneuthur y cwb
ag y mae ei Grefydd yn ofyn.

Ac nid ydym 'chwaith yn rhwym i fod mor ddyfal y
ein Galwedigaeth, a phallu i ni ein hunain un Difyrrwch
cymhedrol i'n llonni ni: yr hyn ſydd nid yn unig y
lleſol, ond weithiau yn angenrheidiol, i'n Hyſbrydoedd
gael eu Hanadl, wedi iddynt fogi ymron mewn Lliaws
Orchwylion, a'n Meddyliau blinedig gael eu difyrru,
rhai, fel Tannau Tympan, ſydd yn ſwno yn feluſach pa
tynhaer hwy drachefn, o gael eu llaeſu weithiau. On
yna rhaid i ni gymmeryd Gofal, na throthom ein Phyſyg
wriaeth yn Ymborth, a gwneuthur y Peth hwnnw y
Orchwyl i ni, yr hyn a ddylai yn unig fod yn Ddifyrrwch
i ni: rhaid i'n Llawenydd fod yn fyrr, ac yn gymmwy
i'n dadebru; ond nid i ledratta ymmaith ein Meddylia
odd

ddi wrth Orchwylion calettach. Can's y mae hir Chwareu Difyrrwch fel Cyntedd helaeth i Dŷ bach; y maent yn ymmeryd i fynu gymmaint o Le yng Nghwmpas cûl in Hamſer, nad oes dim digon o Ehangder wedi ei adael ddo i'r Stafelloedd mwy buddiol; a chyn belled ag y nae ein Chwareuaeth ni yn myned tu hwnt i Feſuron Difyrrwch angenrheidiol a gweddus, y maent yn Drais anarantadwy ar ein Galwedigaeth a'n Crefydd. Mae'n hir, o ran Meſuron Cymhwyſder, mai nid yr un peth ydynt i bawb: can's mewn perthynas i'r rhai'ny y mae u Moddion helaeth wedi eu goſod tu hwnt i Anghenion Bŷd, hwy allant yn gymmwys gymmeryd helaethach han o'u Hamſer at eu Difyrrwch nâ'r rhai'ny ag ſydd o yſtwr iſel; y rhai ſydd etto heb wneuthur Parotoad weddus dros eu Teuluoedd, ydynt yn rhwym mewn yſtawnder i ddyfalach Diwydrwydd, rhag ſyrthio o hoynt dan Farnedigaeth S. *Paul*, i fod *yn waeth nâ rhai i-ffydd.* Ond bydded ein Cyflwr oddi allan mor llawn ag mynno, ni rydd i ni Awdurdod mewn un modd, naill i fyw yn ſegur, neu i wneuthur ein Difyrrwch yn rchwyl gwaſtadol i ni; ond po fwyaf o Leſer a ſo gennym ddi wrth Waith y Bŷd, ni ddylem gyſſegru o gymmaint hynny helaethach Rhan o'n Hamſer at Grefydd; a han fod Parotoad mor helaeth wedi ei wneuthur dros in Cyrph a'n Teuluoedd, nyni a ddylem fod o gymaint a hynny yn fwy diwyd i gyflawni Anghenion ein eneidiau, fel na bo y rhai'n yr unig Bethau truenus oddi mgylch i ni. Ond yna, gan fod ein Natur mor lygredig, a's gallwn drigo yn hir ar Ymarferion llym Crefydd, ac to mor fywiog, fel y byddwn dueddol o redeg i Ddrwg, s ni chawn ryw Waith diniweid, pan na bom ynghylch waith Crefydd; y mae'n angenrhaid, er mwyn ein hamdiffyn ein hunain, nad pa mor llwyddiannus allo ein yflwr oddi allan fod, i ni gael allan ryw Orchwyl oneſt eu gilydd i gadw ein Bywiogrwydd mewn Ymarfer drefns. Ac ni bydd hyn yn Beth caled i ni ei wneuthur, os ſtyriwn pa gynnifer ſydd o Orchwylion *boneddigaidd*, *ſyer*, a *ſynhwyr-ddoeth*, cymmwys i Ddynion o'r Râdd a'r yflwr uwchaf. Hwy allant gyfrannu Rhan o'u Hamſer

i'r

i'r Aſtudiaeth ſuddiol o *Philoſophyddiaeth* a *Hiſtori*, neu Gyfreithiau a Defodau eu Gwlâd eu hunain; a Rhan ofalu am eu Tiroedd a'u Meddiannau, neu i edrych dr eu Teuluoedd, ac i'w llywodraethu hwynt; a Rhan i ho Achwynion eu Deiliaid, neu Anghenion eu Cymmydogion neu i wneuthur Heddwch lle byddo Anghydfod, neu feithrin Cariad a Chym'dogaeth dda ymhlith y rhai'ny a ſydd yn agos iddynt, neu danynt: yn y fath Orchwyho a'r rhai'n, a'u cyffelyb, y gallant ymarfer eu Meddyli bywiog yn ddiniweid; a thrwy hynny nid yn unig yn gadw oddi wrth Ffyrdd pechadurus, ond hefyd eu gwneu thur eu hunain yn fuddiol jawn i'r Bŷd.

Ond pa beth bynnag a fo ein Cyflwr ni yn y Bŷd, rha ei fod yn Beth peryglus jawn i'n Crefydd, os na fyddw ar ryw Waith diniweid a buddiol. Can's, fel y mae C ddoeth wedi dal Sulw, *Trwy arferu bod heb wneuthur Dr nyni a ddyſgwn yn ſicr wneuthur Drwg.* Can's yn ei Meddwl diorphwys ni all fod dim Gwâg-le, mwy nag y y Bŷd, ond rhaid iddo fod yn waſtad yn llawn o ryw be neu gilydd; a chyn gynted ag y gadawo efe ei Feddyli duwiol neu oneſt, y mae rhai drwg ac anghyfreithlawn heidio o bobtu iddo. Can's Pethau crefyddol, cyfreit lawn, a phechadurus, yw'r unig Gymdeithion ſydd g ein Meddyliau i gadw Cyfeillach â hwynt: ac am hyn gan y rhaid iddynt ag na fynnant lai nag ymgyfeillachu rhyw beth neu gilydd, nyni a ddylem gymmeryd Gof mawr, cyn gynted ag y gadawont ymdrîn â Phethau cr fyddol, iddynt yn fuan gael Pethau cyfreithlawn o'u bla i'w groeſawi, rhyw Orchwyl oneſt, neu Ddifyrrwch din weid; fel trwy hynny na bo gennym Leſer i wrando ar Pethau pechadurus hynny, y rhai, yn Abſen y lleill, fyddant o hŷd yn ymgaſglu ac yn eu gwthio eu hunain ein traws. Can's pan na bo gennym un Gorchwyl on na chrefyddol yn llaw, ni fyddwn yn gwbl-ddiofal i wran ar unrhyw Wahoddiad i Bechod; a chan y rhaid i beunydd wneuthur rhyw beth neu gilydd, fe fydd yn A nogaeth grêf i ni wneuthur Drwg, pan na bo genny ddim arall i'w wneuthur, ac i dreulio ein Bywiogrwy diorphwys mewn rhyw Ffordd afreolus neu gilydd, yn

ſel y caffom ein temtio a'r hudo. Os byddwn o Dymmer aflonydd a rhodreſgar, pan gaffom ddim Odfa, ni fyddwn yn fuan yn dueddol i ymmyrraeth â Matterion rhai eraill, i ymhêl â Gorchwylion y Deyrnas, ac i lyfelu rhyw Drefn newydd yn y Llywodraeth, ac i feio ar Ddoethineb y Gweinidogaethau cyhoedd hynny. Rheſymmau pa rai nid ydym yn ddyall; os ydym o Dymmer anynad, wrthnyſig, gyndyn, nyni a fyddwn dueddol, pan na bo dim arall gennym i'w wneuthur, i ollwng ein Hegni yn rhŷdd mewn Zêl derfyſgus, aflonydd, i ſiarad am Ymrafael, ac i'w gydfwriadu, i gnoi ein Gwrthwynebwyr o'r tu cefn, ac i ymofyn a dwyn Chwedlau gwradwyddus i beri Ei-ddigedd a Digaſedd rhwng un Cymmydog a'r llall: mewn gair, os ydym dueddol o fod yn hoyw ac yn llawen, fe fydd ein Horiau ſegur yn gynnifer o Odfeydd i'n temtio i fod yn anghymmedrol ac yn wantan, yn aflan ac yn da-fod-rŷdd, ac i wneuthur pob Drygioni ag ſydd yn perthyn i Ymarweddiad anfoeſol ac afreolus. Os chwennychwn gan hynny ymgadw oddi wrth Weithredoedd pechadurus, rhaid oes i ni ganiatâu i ni ein hunain ddim Amſer oddi wrth Weithredoedd creſyddol neu oneſt, yr hyn a gawn wneled na's gellir mewn un modd ei wneuthur, o herwydd y Rheſwm a enwyd uchod, oddieithr i ni fod yn ddiwyd ac yn ddyfal mewn rhyw Alwedigaeth oneſt.

Ond tra y mae Meddyliau Dynion ar Waith oneſt, ni fydd ganddynt ddim Hamdden i roi Cluſt i Brofedigaeth; ac fe fydd yn anhawdd i un o Hudoliaethau Pechod, y rhai y mae'r Diawl a Phethau oddi allan yn oſod beunydd o'n blaen, gael eu derbyn i chwedleua â'n Meddyliau, gan y maent yn llyn wedi eu cymmeryd i fynu gan Gwm-peini gwell a doethach. Ond cyn gynted ag yr ymadaw-am â'r rhai'n, yr ydym yn gwneud cyſtadl a galw Pro-fedigaethau attom, a gwahodd y Diawl a'r Bŷd i'n gwa-hodd ni i fod yn ddrygionus. Can's fel y dywedwn, mai *Odfa ſydd yn gwneuthur y Lleidr*, hynny yw, yn ei demtio i ledratta; felly pan rhoddom ni i'r Cythraul yr Odfa Awr ſegur, yr ydym trwy hynny yn ei demtio ef i'n temtio ni, ac yn ei wahodd ef yn daer i ledratta ymmaith Dryſor o'n Diniweidrwydd, trwy oſod yr Agoriad yn

ei Law, a rhoi Rhydd-did iddo i ddyfod atto. Ac er cadarn-ſwriadu o honom beidio â phechu, etto amhoſſibl ydyw i ni fod yn ddiberygl, cyhyd ag y mae gennym Odfa i gael ein temtio; o herwydd tra y mae gennym Odfa, nyni a fyddwn yn fynych yn ymddadleu ac yn ymreſymmu â'r Temtiwr, yr hwn, trwy ei Ddichellion a'i Ddadleuon cyfrwys, yn fynych a dwylla y ſath rai newyddian â ni, cyn y bom yn meddwl. Ond pan yr ydym nid yn unig yn bwriadu yn ei erbyn, ond hefyd ar y ſath Waith na gallo efe ein cael ni ar Leſer i wrando arno, y mae tu hwnt i'w Fedr ef i'n temtio. Am hynny; os chwennychwn fod yn ddiogel yng Ngyrfa ein Milwriaeth Gris'nogol, rhaid i ni ganlyn Cynghor S. *Jerom* i'w Gyfaill *Ruſticus*; *Bydd yn waſtadol yn gwneuthur rhyw Waith da neu gibydd, fel y caffo'r Diawl di yn waſtadol ar Waith.*

IX. Tu ag at fyned ymlaen yn y Filwriaeth Gris'nogol, y mae hefyd yn angenrheidiol i ni ymegnio, ddim ag allom, i gadw i fynu yn waſtadol Yſbryd Hon, hoenus yn ein Crefydd. Gwradwydd mawr yn ddiammau i'n Crefydd ydyw, meddwl (fel y gwnâ llawer o Gris'nogion coelgrefyddol) ei bod yn Elyn i Lawenydd, a'i bod yn gaeth yn gofyn Edrychiad pendrift ac Wynebau prudd; nad yw Dynion byth yn ddigon pryſur nes bônt wedi troi yn Ddelwau, a'u cau eu hunain i fynu oddi wrth bob Cymdeithas ond eu Meddyliau athrift eu hunain; mai Dyledſwydd Efangylaidd ydyw, cwynfan neu fod yn ddiſtaw, ac ymgadw oddi wrth y Pleſerau mwyaf diniweid a Digrifwch Cymdeithas; ac, mewn gair, fod pob math o Lawenydd a Thuedd ddigrif i'w cyfrif ymhlith y Geiriau ſegur hynny, y mae'n Jachawdwr yn ddywedyd wrthym a ddaw i'r Farn. Fel pe na bae Crefydd ond rhyw beth trwm, oer, diflâs, heb na Gwrês, na Bywyd, na Symmudiad ynddi; neu ei bod wedi ei hamcanu, fel Pen *Meduſa* *, i newid Gwêdd Dynion i Feini Beddau. A thrwy'r fath gam Ddyalldwriaeth o honi, y maent yn e gwneu

* Yr hên Baganiaid a ddywedant, fod iddi Wallt melyn fel Aur, ac i Dduwies *Minerſa* ei droi yn Nadroedd; i *Berſeus* dorri ymmaith ei Pe hi, a'i ddwyn ganddo i *Affrica*, a bod Nadroedd yn llawn yno byth odd ar hynny.

gwneuthur yn fwy blinderus o lawer nag ydyw hi yn ei Natur ei hun. Can's dodi Crefydd i wahardd i ni un peth ag ſydd ddynol a naturiol, ydyw ei gwneuthur hi yn Ofid llwyr i Natur Dyn; gwneuthur ein Dyledſwydd i redeg yn wrthwyneb i Egwyddorion ein Hanfod, a goſod ein Cydwybod a'n Natur i ymryſon â'u gilydd, yw hyn. Ac am hynny, gan fod mor naturiol i ni chwerthin a charu Cymdeithas, ag yw i ni fod yn rheſymmol, gwneuthur ein Crefydd yn Elyn i'n Llawenydd a'n Cyfeillach, yw ei goſod hi allan fel Treiſiwr creulon o Rydd-did hanfodol a Phriodoliaethau Natur Dyn. Mae'n wir ddiau, er nad yw hi yn pallu i ni Rydd-did Llawenydd diniweid, nac yn gwaharddd yr ychydig Ddigrifwch a'r Cellwair didramgwydd hwnnw ag ſydd weithiau yn angenrheidiol i roi *Sawſ* a llymmach Blâs i'n Hymadrodd; etto hi gymmerodd Ofal i orchymmyn i'n Llawenydd fod o fewn Terfynau Sobrwydd a Gweddeidd-dra, fel na bo i'n Meddyliau, trwy redeg gormod ar Yſgafnder, ddyfod i fod yn wâg, ac yn goeg, ac yn ofer, ac felly yn ddi-dueddiad at Feddyliau a Myfyrdodau difrifol. Ond cylryd ag y cadwom o fewn Terfynau Sobrwydd, heb dorri allan i Gellwair faleiſus, frwnt, neu halogedig, y mae ein Crefydd nid yn unig yn cyd-ddwyn â'n Llawenydd, ond yn ei ganmol a'i hoffi; a chyn belled ydyw hi oddi wrth gwttogi Tânnau a Gewynnau 'r Meddwl, ſef *Llawenydd* a *Gweithred*, fel y mae hi yn crynhôi ynghŷd eu Bywiogrwydd gwaſgaredig, ac yn tynhâu eu Llaeſder hwy i Gynghanedd gywir.

Can's y mae hi'n gofyn i'n *Hymadrodd fod bob amſer yn raſol*, Col. iv. 6. hynny yw, fel y mae rhai Eſbonwyr yn dyall y Gair, na bo'n gwynfanmus ac yn athrift, ond yn hoyw-wych ac yn llon: y mae'n gorchymmyn i ni *lawenâu yn waſtadol*, 1 Theſ. v. 16. a *llawenhâu yn yr Arglwydd yn waſtadol, a thracheſn llawenhâu*, Phil. iv. 4. hynny yw, ymrôi i fod yn llawen ymhob Cyfliwr, a dioddef pob Digwyddiadau â Meddwl ſiriol ac yſgafn. Ac am hynny y mae'r Apoſtol yn cyfrif hyn ymhlith Ffrwythau ac Effeithiau bendigedig yr Yſbryd duwiol hwnnw ag ſydd yn perchennogi gwir Gris'nogion, ac yn eu cefnogi hwynt; ſef, *Llawenydd*, Gal. v. 22. A thymma un o'r Pethau neill-

duol ymha rai y mae'r un Apoſtol yn dywedyd fod Cyfreithiau Criſt yn ſefyll, fel y maent yn wrthwyneb i Gyfreithiau *ſeremoniaidd* yr *Iuddewon*. *Nid yw Teyrnas DDUW*, hynny yw, Cyfreithiau Eglwys Griſt, *Fwyd a Diod*; hynny yw, yn ſefyll mewn Gorchymynion neu Waharddiadau o Bethau ag ſydd o Natur ſeremoniaidd, neu ddi-ddrwg ddidda; *ond Cyfiawnder, a Thangnefedd, a Llawenydd yn yr Ysbryd Glân*, Rhuf. xiv. 17. a chan fod y tri Pheth hyn wedi eu goſod yn wrthwyneb i Bethau ſy afreidiol, rhaid iddynt arwyddocâu Pethau ſy angenrheidiol: ac am hynny, megis y rhaid dyall wrth *Gyfiawnder* a *Thangnefedd*, gwneuthur Unjawndeb, a bod yn heddychlawn; felly wrth *Lawenydd yn yr Ysbryd Glân* y rhaid dyall, bod yn llawen ac yn llon wrth wneuthur Ewyllys Duw: o herwydd na all Llawenydd fod mewn un Yſtyr arall yn Fatter o Ddyledſwydd angenrheidiol. Trwy hyn i gŷd y mae yn amlwg, fod ein Crefydd mor belled oddi wrth wahardd Tymmer lawen, fel y mae hi'n goſyn ac yn gorchymmyn hynny, cyn belled ag y mae yn ein Gallu a'n Dewiſiad ni. Ac yn wir y mae'n weddus jawn i ni, y rhai ydym yn gwas'naethu Meiſtr mor dda, i fod yn rhwydd ac yn llon, a thrwy hynny amlygu Teimlad diolchgar o'i Ddaioni, ac o'r Gwobrwyon gogoneddus hynny y rhai ydym yn ddiſgwyl oddi wrth ei Haelioni diddyſpydd ef; ond y mae Edrychiad ſûr ac Wynebpryd athriſt yn gweddu yn well i Gaethwâs mewn Llong, yr hwn ſy wedi ei gondemnio i rwyfo yn waſtadol, nag i Wâs i Dduw. Ac fel y mae Llawenydd yn Ddyledſwydd ſydd yn gweddu yn dda i'n Cyfiwr, felly y mae yn angenrheidiol jawn i'n cynnal a'n dwyn ymlaen yn ein Milwriaeth Gris'nogol.

Can's Cyfaill goreu Natur yw Llawenydd: y mae'n ſymmud ei Gorthrymderau, yn bywioccâu ei Galluoedd, ac yn cadw ei Hyſbrydoedd mewn Symmudiad hoyw a threfnus; a thrwy hyn yn ei gwneuthur yn eſmwyth iddi ei hun, ac yn fuddiol ac yn was'naethgar i Dduw a Dŷn. Y mae'n gwaſgaru y Cymmylau oddi ar y Meddwl, ac Ofnau oddi ar y Galon, ac yn ennyn ac yn llonni ynnom Serchiadau gwŷch a boneddigaidd, ac yn goſod ein Natur yn y Dymmer fwyaf trefnus a chymhwyſaf oll i dderbyn

Argraph-

Argraphiadau Crefydd, ac Anadliad Yſbryd Duw. Can's y peth y mae'r *Juddewon* yn ddywedyd am Yſbryd Prophwydoliaeth, ſydd mor wired am Yſbryd Sancteiddrwydd, nad yw ef yn preſwylio gyd â Thriſtwch, ond gyd â Llawenydd: gan ei fod ef ei hun o Natur dawel a llariaidd, nid yw yn caru trigo gyd ag Anwydau duon ac athriſt, ond yn gofyn Tymmer gymmodol a ſiriol i weithio arno. Ac am hynny y mae *Tertùlian* yn dywedyd, *i DDUW orchymmyn i ni roeſawi'r Ysbryd Glân, yr hwn ſydd o Natur dyner a bynaws, gyd â Thawelwch a Mwyneidd-dra, gyd â Llonyddwch a Thangnefedd; ac y dylem gymmeryd Gofal na aflonyddom mo'no â Llid a Gwŷn, neu â Digofaint a Thriſtwch.* Ac yn wir y mae Prudd-der yn naturiol yn blino'r Yſbryd Glân, ac yn ei aflonyddu ef yn ei holl Weithrediadau; y mae'n gorchguddio y *Ffanſi* â Tharth du, ac felly yn cymmylu ac yn tywyllu'r Dyall, ac yn rhwyſtro Goleuni'r Yſbryd Glân; ac, fel Gwydr o Liw côch o flaen y Llygad, yn peri i'r Pethau mwyaf hyfryd a chariadlawn edrych yn waedlyd ac yn ofnadwy. Y mae'n gwallbwyllo'r Meddyliau, ac yn eu gwneuthur yn wyllt, yn grwydredig, ac yn ddidrefn; a thrwy hynny yn eu llwyr-anghymhwyſo hwy i Weddi ac Yſtyriaeth, ac yn eu gwneuthur yn fyddar ac yn ddigluſt i bob Cynhyrfiad ac Yſbrydoliaeth dda. Y mae'n rhewi'r Galon i fynu ag Ofnau anobeithiol, ac yn gofod o'n blaen Bethau hawdd fel pe baent yn anhawdd i ni, a Phethau anhawdd fel rhai amhoſſibl; ac felly yn ein digalonni oddi wrth yr holl Ymgais rhinweddol hwnnw, at ba un y mae'r Yſbryd bendigedig mor daer yn ein cyffrôi a'n hannog. Mewn gair, y mae'n naturiol yn marweiddio'r Enaid, ac yn ei ofod i gyſgu, yn rhwyſtro ei Symmudiadau, ac yn ei wneuthur yn ddifywyd ac yn ddiweithred; ac felly, trwy ei anrhefnu ef i gyd-weithio gyd â'r Yſbryd Glân, yn ei wneuthur yn anghymmwys i dderbyn Gràs Duw a'i Ffrwythau. Fel hyn y gwelwch, fod y Clwyf o Bruddder, neu *Melancoli*, trwy ei Olwg ſarrug a dryg-naws, yn gyndyn yn gwrth'nebu ac yn gwrthladd yr Yſbryd Glân, yeb Help a Chymmorth pa un ni's gallwn byth obeithio lwyddo yn ein Milwriaeth yſbrydol.

Am hynny, os ydym yn chwennych llwyddo yn y Gorchwyl mawr hwn, y mae'n perthyn i ni arfer pob Moddion oneſt a diniweid i waſgaru y Tueddiad du a niweidiol ymma, ac i ennill a chadw yn ein Meddyliau Dymmer ſiriol a llawen bob amſer: a pha bryd bynnag y dechreuo ein Hyſbrydoedd i bendrymmu a thriſtháu, i fyned at y fath Feddyginiaethau naturiol, y fath Ddifyrrwch a Digrifwch diniweid, ag a ſo gymmwys i'w derchafu hwy i fynu drachefn; a pheidio gadael iddynt ſuddo i Ffôs o Feddyliau pendrwm ac athriſt, tra y mae yn ein Gallu, trwy un Gelfyddyd neu Ddychymmyg oneſt, eu cynnal hwynt. Yr hyn, os gallwn ei wneuthur, a fydd o fawr Fantais i ni yn ein holl Yrfa grefyddol. Can's mewn Tymmer lawen, waſtad, fe fydd ein Hyſbrydoedd bob amſer yn fywiog, yn grŷf, ac yn wiſgi, ac yn gymmwys i'r Gweithredoedd goreu ac enwoccaf: hwy roddant Oleuni i'n Dyall, Gwroldeb i'n Calonnau, ac Adenydd i'n Serchiadau; fel y byddwn yn abl canfod Pethau duwiol a nefol yn eglurach, eu hymarfer yn fwy dianwadal, a hiraethu yn daerach ar eu hôl; a'n Hyſtyriaethau a fyddant yn fwy ſefydlog, ein Gweddiau yn fwy gwreſog, a'n holl Egni yſbrydol yn fwy cyflym a bywiog. Can's fe fydd Tymmer lawen Ddarluniad llon o bob peth i ni; hi eſyd Duw o'n blaen mor gariadlawn, Crefydd mor ſerchog, ei Gwobrwyon mor fawr, a'r Anhawſdra ſydd ynddi mor lleied, a thrwy hynny a oſodiff gymmaint o Fywyd a Gwroldeb ynnom, na's gallo'r un o'r holl Elynion yſbrydol hynny, yr ydym yn ymladd ac yn ymryſon â hwy, wrthſefyll ein Bwriad.

X. Tu ag at fyned ymlaen yn ein Milwriaeth yſbrydol, y mae hefyd yn angenrheidiol i ni gadw yn ein Meddyliau Deimlad gwaſtadol a Diſgwyliad o'r Nefoedd; gan fod Pethau'r Byd arall yn ôl ac yn anweledig, ac felly yn dueddol o weithio llai arnom nâ'r Pethau bydol hyn ſydd beunydd yn gwaſgu ar ein Synhwyrau. Ni a ddylem, mor fynyched ag y caffom Odfa, dynnu ein Meddyliau oddi ar y Pethau gweledig hyn, a rhoi Trô i'r Byd anweledig, a groeſawi ein hunain â Golwg glôs ar y Llawenydd a'r Gogoniant ſy mor helaeth yno. Can's yr ydym ni yn

fath

fath o Greaduriaid ag ſydd, trwy ein bod wedi ein cym-
nyſgu o Gnawd ac Yſbryd, mewn Cyfathrach â'r ddau
Fŷd, o achos yr Egwyddorion gwrthwyneb hyn o'n Natur,
chwedi ein goſod yn y Canol rhwng y Nefoedd a'r Ddaear,
megis y Canol-bwynt cyffredin lle mae'r Gwledydd pell
ynny yn ymgyfarfod. Trwy ein Natur yſbrydol y mae
ennym Gymmundeb â'r Bŷd yſbrydol, a thrwy ein Natur
orphorol â'r Bŷd daearol, gweledig hwnn; a chan fod
Pethau'r Bŷd hwn beunydd yn breſennol gyd â ni, ac yn
aro fel y maent yn ddigyfrwng ar ein Synhwyrau, yr
dym yn gorwedd yn fwy noeth ac agored o lawer iddynt
wy, nag i Bethau y Bŷd yſbrydol. Felly oddieithr i ni
n awr ac eilwaith ymneilldua oddi wrth y Pethau gwel-
lig hyn, y rhai ſydd yn crogi fel Cymmwl rhyngom,
i's gallwn byth gael Golwg amlwg ar y Nefoedd eglur
onno ſydd uwch eu llaw hwynt. Ac am hynny y mae'n
genrheidiol i ni weithiau mewn Modd difrifol i neilldua
n Meddyliau oddi wrth Fwyniant a Phethau daearol, fel
gallom nesâu yn agos ddigon at y Nefoedd i gyffwrdd â
eimlo ei Llawenydd a'i Phleſerau hi; yr hon, tra nad
dym yn cael ond Cip-olwg arni yn y Llû hyn o Bethau
ydol, ſydd wedi ei goſod mor bell oddi wrthym, fel y
ae hi yn edrych megis Llûn teneu, glâs, neſaf i ddim;
heb ddigon o Sylwedd gwirioneddus yn ymddangos
ddi i dderchafu ein Dymuniadau a'n Diſgwyliad.

Ac am hynny y gorchymyner i ni, *oſod ein Serch ar*,
u, fel y mae yn y Gwraidd, *i feddwl am y Pethau ſydd*
di uchod, Col. iii. 2. A'i fod ef yn dyall Mwyniant y
efoedd wrth *y Pethau* hyn *oddi uchod*, ſydd amlwg oddi
rth *Adn.* 1. lle y mae efe yn eglur yn dywedyd wrthym,
i wrth *oddi uchod*, lle mae'r Pethau hyn, y mae efe yn
eddwl y Nefoedd, *lle mae Criſt yn eiſtedd ar Ddeheulaw*
DUW. Fel mai Yſtyr y Gorchymmyn ydyw hyn; y
lem ſefydlu ar ein Meddyliau y fath Ddarluniad bywiol
Ogoniant a Gwirionedd y Cyflwr nefol, ag a ddercha
ein Calonnau Ddymuniad hiraethlon, a thaer Ddiſ-
yliad o gael ein gwneuthur yn gyfrannog o hono. Y
baith a'r Diſgwyliad hwn y mae efe mewn Lle arall
orchymmyn i ni *wiſgo am danom yn lle Helm*; hynny

yw, yn lle Darn angenrheidiol o Arfogaeth i'n hamddi-ffyn ein hunain yn erbyn Caledi a Gwangalondid ein Mil-wriaeth Gris'nogol, 1 *Theſ.* v. 8. Ac *Heb.* vi. 19. ſe ddy-wedir am y *Gobaith hwn ſydd yn myned i mewn at yr by-ſydd o'r tu fewn i'r Llen*, hynny yw, i'r Nefoedd; o fod *megis Angor yr Enaid, yn ddiogel ac yn ſicr*: hynn-yw, y peth yw efe ag ſydd yn cynnal ac yn diogelu Enaid ynghanol yr amryw Dymheſtloedd o Brofedigaeth mae hi yn gyfarfod â hwynt yn ei Thaith tu a'r Nefoedd a chan ei fod felly, ſe orchymyner i ni *edrych ar*, a chanly ein Harglwydd Bendigedig; *yr hwn, yn lle y Llawenydd oſodwyd iddo, a ddioddefodd y Groes, gan ddiyſtyru Gwar-wydd, ac a eiſteddodd ar Ddeheulaw DUW*, Heb. xii. Yſtyr hyn i gŷd ydyw, y dylem ymegnio yn daer i ſefydl ar ein Meddyliau Deimlad bywiol a Diſgwyliad o'r Ded wyddwch anfarwol hwnnw â pha un yr addawodd Du goroni pawb ag a ddelont ymmaith yn Goncwerwyr ô Filwriaeth yſbrydol hon; y dylem o hŷd wrth fyned yn blaen gadw'r Nefoedd yn ein Golwg, a gwroli ein hunai â Gobaith o honi hi, i dorri trwy'r holl Galedi a'r Pro ſedigaethau ag a'n gwrth'nebo ni ar y Ffordd; mew gair, i ni fynych-ddeffrôi yn ein Côf y Meddyliau gog neddus am Anfarwoldeb bendigedig, a llanw ein hunai â'r Diſgwyliad bywiol o'i fwynhâu, os daliwn allan hy y Diwedd.

Yr hon ſydd Ddyledſwydd o fawr Bwys i ni wrth fyn ymlaen yn ein Milwriaeth yſbrydol. Can's o herwyd mai'r Nefoedd yw Diwedd a Gwobr ein Milwriaeth rhaid ei bod yr Annogaeth fawr i filwrio; ac am hynn os unwaith y collwn ni Olwg ar y Nefoedd, a gadael Bethau daearol daro i mewn a thywyllu ei Llewyrch a Gwirionedd hi, ni ddichon ein Calondid byth ſefyll fynu yn erbyn yr amryw Brofedigaethau hynny ag ſyd yn waſtadol yn ein cyrchu. Ond tra y bom yn parh dan fywiol Deimlad o Daledigaeth y Gwobrwy gogoned us hwnnw, hynny a eſyd y fath Yſbryd ac Egni yn e Bwriad, na allo dim mo'i wrthſefyll; ac ſe orfydd ar holl Ddychrynfeydd a'r Hudoliaethau ag allo Pech gynnyg, ffoi o'i flaen ef, a chilio yn ôl fel cynnifer

Donn

Donnau gweinion yn taro yn erbyn Craig o Adamant. Can's tra'r ydym dan Deimlad bywiol a Diſgwyliad o'r Dedwyddwch ſydd oddi uchod, yr ydym yn byw megis ar Hanner y Ffordd rhwng y Nef a'r Ddaear, lle y mae gennym lawn Olwg o Ogoniant y ddau, ac y gwelwn yn eglur mor lleſg ac mor dywyll yw Llewyrch y Pethau ſydd ar y Ddaear mewn Cyffelybiaeth i'r Pethau ſydd oddi uchod; y modd y mae'n gorfod arnynt lechu a diflannu yngolwg y Diſgleirdeb tragywyddol hynny, a chuddio eu Tegwch o herwydd iddynt gael eu gortrechu, fel y mae'r Sêr yn ymguddio pan cyfodo'r Haul. A thra yr ydym yn troi ein Llygaid megis ar gyfnewid oddi wrth y naill at y llall, mor ofer yw i Bleſerau, Elw, ac Anrhydedd y Bŷd hwn, daer-ymbil arnom i ymadael â Llawenydd a Gogoniant y Nefoedd, a chyd â pha Lidiowgrwydd yr ydym yn gwrando arnynt yn cynnyg y fath Gyfnewid ffol, diſynwyr? A phe gallem gadw ein hunain yn waſtadol yn y Sefyllfa hon, nyni a gaem ein cefnogi â Golwg o'r Gwledydd happus hynny oddi uchod yn y fath Fodd, na allai un Brofedigaeth ar y Ddaear byth ddynesâu attom; a'r Meddwl o'n bod yn myned ymlaen i'r Cyflwr bendigedig hwnnw, a'n dugai trwy holl Rannau blinderus ein Dyledſwydd gyd ag Egni diddeffygiol. Can's pa beth ni's gall Dŷn ei wneuthur â'r Nef yn ei Olwg, â'r Annogaeth *alluog* honno (mi fum ymron dywedyd, *hollalluog*) o'i flaen? Tynnu allan Lygad dehau, torri ymmaith Law ddehau, rhwygo Trachwant anwyl oddi wrth ei Galon, hyd yn oed pan y mae wedi troi o bobtu iddi, a nyddu am ei Llinynnau hi, pa Orchwyl hawdd ydyw i Ddŷn ſydd â Nefoedd o Ogoniant anfarwol yn ei Olwg? Y mae'r Gobaith o hyn yn ddigon i beri i Ddŷn hoffi yr Arteithiau a'r Poenau toſtaf, a throi Fflammau Merthyrdod yn Welyau o Rôs. Can's yr Olwg wynfydedig hon a gynnorthwyodd yr hên Ferthyron daionus i orfoleddu mor ogoneddus ag y gwnaethant ynghanol eu Dioddefiadau: hwy wyddent y gofodai ychydig Fynudau Ddiwedd ar eu Trueni, a phan yr aent unwaith trwy'r Tywydd garw a'r Tymheſtloedd byrrion hynny, y deuent i Borthladd tra bendigedig, ac y caent eu coroni pan ddeu-

ent

ent i Dîr; ac yr edrychent yn ôl oddi yno gyd â Llawenydd a Hyfrydwch anfeidrol ar y Môr peryglus a ddiangafant ragddo, ac y bendithient yn dragywydd yr Yftormydd a'r Gwyntoedd hynny a'u gyrrodd hwynt i'r Porthladd happus hwnnw: can's, fel y mae'r Awdwr at yr *Hebreaid* yn dywedyd wrthym, *yr oeddent yn ceifio Gwlad nefol*, Heb. xi. 14, 16.

XI Ac yn olaf; Tu ag at fyned ymlaen yn llwyddiannus yn ein Milwriaeth Gris'nogol, y mae hefyd yn angenrheidiol i ni fyw yn y mynych Arferiad o Ordinhadau cyhoeddus Crefydd; fef, cadw yn grefyddol Ddydd yr Arglwydd, a mynych gymmuno gyd â'u gilydd yn y Sacrament Sanctaidd; y rhai fydd bob un o honynt o fawr Lês i ni wrth fyned ymlaen yn ein Milwriaeth Gris'nogol. Can's am Ddydd yr Arglwydd, efe a ordeiniwyd, ac oddi ar Amfer yr Apoftolion a gadwyd yn Eglwys *Grift*, fel Dydd o Addoliad cyhoeddus a Diolchgarwch wythnofol am Adgyfodiad ein Jachawdwr, ymha un y gorphenwyd Gwaith mawr ein Prynedigaeth. A diau y rhaid ei fod yn Beth manteifiol jawn, i fod un Diwrnod mewn faith wedi ymneillduo oddi wrth y Byd, ac ar waith mewn Dyledfwyddau duwiol, mewn Gweddiau, a Mawl, a Diolchgarwch ar gyhoedd, a bod yn rhwym i gynnorthwyo ac adeiladu eu gilydd trwy ein Hefamplau a'n Cyd-weddiau; i glywed Dyledfwyddau ein Crefydd yn cael eu heglurhâu, y Pechodau yn ei herbyn hi yn cael eu ceryddu, a'i Hathrawiaethau yn eu dattod a'u dwyn i Egwyddorion o Ymarfer a fo'n eglur ac yn hawdd: pa gymmaint o Lês allem gael oddi wrth yr holl Weinidogaethau bendigedig hyn, pe baem ond dyfal-gyrchu danynt, a'u gwrando mor ofalus a difrifol ag y mae eu Matter hwy yn gofyn ac yn haeddu? Yn enwedig, pe na adawem i ni ein hunain Rydd-did y Rhan fo'n ôl o'r Dydd, wedi darfod yr Addoliad cyhoeddus, fel yr ydym yn rhy fynych yn gwneuthur, i feddwl am ein Gofalon a'n Difyrrwch bydol, ac felly tagu'r Addyfg da a glywfom, a mogi y Serchiadau duwiol a defofionol a gyfodwyd ac a gyffrôwyd ynnom; ond yn lle gwneuthur felly, cyffegru o'r hyn lleiaf ryw Ran weddol o hono i ddyfgu ein Teuluoedd, ac at Waith

Crefydd

Crefydd yn y Dirgel, i fyfyrio a gweddio, i holi ein himain ynghylch ein Hymddugiad o'r blaen, ac ail-gefnogi ein Bwriad i ymddwyn yn well o hynny allan: pe treuliem Ddydd yr Arglwydd yn llyn, meddaf, diamman y caem weled y byddem yn well Dynion trwy'r Wythnos gwed'yn'; nyni a aem i'r Byd drachefn gyd â gwell Serchiadau o lawer, a chryfach Bwriadau, â'n Graſuſau yn fywioccach, a'n Tueddiadau drwg wedi cael mwy o'u daroſtwng a'u doſi; a lle'r oedd yr *Yuddewon* i gaſglu digon o *Fanna* ar y chweched Dydd, i borthi eu Cyrph dros y Sabboth oedd yn canlyn, ninnau a ddylem gaſglu digon o Fanna ar ein Dydd Sabboth ni, i borthi a nerthu ein Heneidiau dros y chwech Diwrnod a fo'n canlyn.

Ond at hyn rhaid i ni hefyd chwanegu mynych Gymmuno gyd â'u gilydd yn y Sacrament Sanctaidd; yr hon ſydd Ordinhâd wedi ei happwyntio yn bwrpaſol gan ein Jachawdwr Bendigedig, er ein Cynnydd a'n Cymmorth yn y blaen yn ein Milwriaeth Gris'nogol. Can's heblaw ein bod ymma yn cael un o'r Rheſymmau cryfaf yn erbyn Pechod wedi ei ddarlunio o flaen ein Golwg trwy Arwyddion gweledig, *ſef*, Aberth gwaedlyd ein Harglwydd Bendigedig i wneuthur Jawn a Chymmod droſto; heblaw ſod ei Glwyfau gwaedlyd, y rhai a oſoder allan ymma trwy Dorriad y Bara, a Thywalldiad y Gwin, yn cyhoeddi, mai'n Pechodau ni oedd ei Ddihenyddwyr a'i Fwrddwyr; y Meddwl am hyn, pe bae dim Synwyr na Theimlad ynnom, a fyddai ddigon i'n llanw â'r Llid mwyaf anheddychol yn eu herbyn: heblaw hyn, y mae ei Ddioddefaint ef dros ein Pechodau ni, o'r hyn y mae'r Sacrament Sanctaidd hwn yn Ddarluniad bywiol, yn dangos mewn Modd echrydus Anfoddlonrwydd Duw yn eu herbyn, yr hwn ni fynnai faddeu mo honynt ar un Jawn ydoedd lai nâ Gwaed ei Fâb ei hun; ac nid yw Uffern ei hun yn Rheſwm mwy ofnadw i'n brawychu a'n dychrynu ni rhagddynt nâ hyn: mewn gair, heblaw hyn, ei Waith ef *mor* rhwydd yn ymoſtwng ac yn ei offrwm ei hun i fynu i wneuthur Cymmod droſom ni, o'r hyn y mae'r Wledd Sanctaidd hon yn Goffadwriaeth arbennig, ſydd Amlygiad o Garedigrwydd digonol i ddal gafael ar yr Eneidiau mwyaf

aniolch-

aniolchgar, a thynnu Ufudd-dod oddi wrthynt o wi
Drais: heblaw hyn oll, meddaf, fel y mae yn Wlêdd a
Aberth ei Gorph a'i Waed, Defod gyfammodol ydyw
trwy ba un y mae Duw a ninnau, wrth gyd-wledda, y
ôl hên Arferion *Juddewon* a *Chenhedloedd*, yn ymrwymo
ein hunain i'w gilydd; trwy ba un y mae Duw, trw
roddi i ni y Bara a'r Gwin dirgeledig, a ninnau trwy e
derbyn hwynt, yn ymrwymo ein hunain i'w gilydd ar
Gwyſtlon ſanctaidd hynny o Gorph a Gwaed Criſt, y byd
i ni gyflawni yn ffyddlon bob un ei Ran o'r Cyfammo
tragywyddol hwnnw a bwrcaſodd efe. A pha beth all ei
hattal yn fwy pan gaffom ein cymmell i unrhyw Bechod
nag yſtyried ein bod dan y fath Adduned a Rhwymedig
aeth ofnadwy? A pha Wyneb y beiddiwn ni wrando a
un Brofedigaeth i Ddrygioni, pan gofiom i ni yn ddi
weddar ymrwymo mewn Modd parchedig i'r gwrthwyneb
a chymmeryd y Sacrament ar hynny? Ac yn ddiau y
wyf yn bwrw mai hyn ſydd yn gorwedd ar Waelod y Lli
têg hwnnw o Anheilyngdod y mae Dynion yn arfer bledi
yn Eſgus am eu Heſgeuluſdra o'r Sacrament; ſef, eu bo
yn caru eu Chwantau, ac na's gallant fwriadu ymadael
hwy; ac am hynny eu bod yn ofni rhoddi'r fath Ddiofry
ar gyhoedd iddynt, ag y mae bwyta ac yfed yr Elfennau
cyſſegredig yn arwyddocâu. Ac yr wyf yn cyfaddef, o
dymma eu Rheſwm hwynt, eu bod yn wir yn anheilwng
fel y mae fwya'r Cywilydd iddynt; ond y fath Anhei
lyngdod yw hwn ag ſydd mor belled oddi wrth eu heſguſo
nad yw ond trymhâu eu Heſgeuluſdra. Can's bod un
Dŷn yn pledio, na faidd efe dderbyn y Sacrament, o he
rwydd ei fod yn bwriadu pechu ymlaen, ydyw gwneuthu
y peth ſy feius ynddo yn Eſgus droſto, ac eſguſodi un
Pechod â'r llall. Am hynny os ydym o'n Calonnau y
bwriadu, trwy Râs Duw, i ddiwygio a gwellhâu, na ym
gadwn yn hŵy oddi wrth y Ddefod fawr gyfammodol
hon, ar Gyfrif Anheilyngdod. Can's trwy'r Arferiad
hon, ymhlith Moddion eraill, y mae i ni gynnyddu a dy
fod beunydd yn fwy teilwng. Can's y mae ail-wneuthu
ein Bwriad, fel y dangoſais o'r blaen, yn Foddion cym
mwys i'w nerthu a'i gadarnhâu ef; a diammau y rhai

ei fod yn fwy o lawer felly, pan yn adnewydder ac yr ail-
wneir ef mewn Modd parchedig yn y Sacrament. Ac
am hynny fe haeddai i ni ddal Sulw, pa gymmaint o Ofal
a gymmerodd ein Harglwydd, wrth lunio ein Crefydd ar
y cyntaf, i'n rhwymo ni i fynych ail-wneuthur ein Bw-
riadau da mewn Modd cyhoeddus. Can's ar ein Gwaith
yn dechreu myned mewn Cyfammod ag ef, yr ydym i
gael ein bedyddio, ac yn yr Ordinhâd hon yr ydym ar
gyhoedd yn ymwrthod â'r Diafol a'i holl Weithredoedd,
ac yn cyffegru ein hunain mewn Modd crefyddol i'w Waf-
naeth ef. Ond o herwydd ein bod yn dueddol o ang-
hofio ein Hadduned Bedydd, a bod y Defnydd o hono i'w
gyflawni yn waſtadol, a bod mwy nag un Bŷd yn ſefyll
rno; am hynny efe a dybiodd yn gymmwys i beidio ym-
ddiried yn llwyr-gwbl i'r Rhwymedigaeth cyntaf ymma;
nd efe a drefnodd ein Crefydd yn y fath Fodd, a'n
gwneuthur yn awr ac eil-waith yn rhwym i roddi iddo
eichiau newydd. I'r Diben hyn yr ordeiniodd efe y
acrament arall, yr hwn nid yw, fel yr Ordinhâd o Fedydd,
'w dderbyn gennym unwaith yn lle'r cwbl, ond i'w fy-
ych-gyflawni a'i dderbyn, fel y byddom yn rhwymedig
eunydd, ar y mynych Ddychweliad o'r Odfeydd hyn, i
il-adrodd ein hên Addunedau o Ufudd-dod droſtynt dra-
hefn. Can's y mae efe nid yn unig wedi gorchymmyn i
wneuthur hyn er Cof am dano, Luc xxii. 19. hynny yw,
ni fod yn gyfrannog o'r Wledd Sanctaidd hon i gofio
m ei Ddioddefaint; ond y mae'r Apoſtol yn dywedyd
rthym, ein bod trwy wneuthur yn llyn i barhâu y Coffa-
wriaeth o hynny hyd Ddiwedd y Bŷd, neu i *ddangos ei*
arwolaeth hyd oni ddelo, 1 Cor. xi. 26. Ac nad yw hwn,
l y Gorchymmyn o Fedydd, yn ein rhwymo ond un-
aith yn unig, ac nid yn rhagor, ſydd amlwg oddi wrth
Geiriau cyntaf o'r Teſtyn hwn a enwyd ddiweddaf;
ynnifer gwaith bynnag y bwytaoch y Bara hwn, ac yr yfoch
Cwppan hwn; yr hyn ſydd yn eglur yn dangos, y dylem
derbyn yr Elfennau Sacramentaidd hyn fwy nag unwaith.
lae'n wir, na ddarfu i Griſt na'i Apoſtolion mewn un
le bennodi pa mor fynyched y dylid ei dderbyn; ond os
rychwn ar Eſampl y Brif Eglwys (yr hon yw'r Rheol

oreu

oreu i ni ddilyny lle nad oes Gorchymmyn amlwg) ni gawn weled eu bod yn ei dderbyn yn fynych jawn. Can's fe dybygid oddi wrth rai Lleoedd yn *Actau'r Apoſtolion*, fod Cris'nogion y pryd hynny yn Cymmuno bob Dydd; megis yn neilldnol *Act.* ii. 46. lle y dywedir eu bod *bunydd yn parhâu yn y Deml yn gyttûn, ac yn torri Bara yn y Ty*: hynny yw, fel y mae'n debygol, mewn rhyw oruwch Stafell o'r Deml; er yſgatfydd nad yw'r Gair *beunydd* ynnha yn meddwl ond bob *Dydd yr Arglwydd*, yn gyttunol â'r Lle hwnnw, *Act.* xx. 7. *Ar y Dydd cyntaf o'r Wythnos, wedi i'r Dyſgyblion ddyfod ynghyd i dorri Bara, Paul a ymreſymmodd â hwynt.* Ond y mae'n ſicr, pa bryd bynnag yr oeddent yn ymgynnull i'r Addoliad cyhoeddus, eu bod yn ei ddibennu â Swpper yr Arglwydd; yr hyn a wnaethant dros hir Amſer yn Eglwyſi'r *Gorllewin* bob Dydd o'r Wythnos, ac yn Eglwyſi'r *Dwyrain*, fel y dywaid S. *Baſil* wrthym, Epiſtol 289. *bedair gwaith yn yr Wythnos*, heblaw *Gwyliau*. Ac yn awr ſe dybygai un na byddai Cymmuno unwaith yn y Mis ddim yn rhy fynych i ninnau, a gadael i ni fod lawer oerach yn ein Zêl a'n Duwioldeb nâ'r Prif Gris'nogion. Ond am y rhai'ny ag ſydd yn cwbl-eſgeuluſo'r Ordinhâd Sanctaidd hon, o'm rhan i ni's gwn pa fodd y gallant eſguſodi eu hunain oddi wrth fod yn euog o Wrthryfel gwllyſgar yn erbyn eu Jachawdwr, neu â pha Hyder y gallant ddiſgwyl iddo ef naill ai eu cynnorthwyo hwy â'i Râs ar y Ffordd, neu eu coroni hwynt â'i Jechydwriaeth yn y Diwedd, pan y maent mor wrthnyſig yn troi eu Cefnau ar Ordinhâd a ordeiniodd efe mewn Modd arbennig i droſglwyddo ei Râs iddynt, a bod yn Sêl o'u Jechydwriaeth.

Ond pe cymmerem ni Ofal gweddus i barotôi ein hunain i'r Ordinhâd Sanctaidd hon, a mynych-gyrchu iddi, nid oes dim ammau na byddai hi yn lleſol jawn i ni yn ein holl Yrfa grefyddol. Can's hyd nes cyrhaeddom i Gyflwr cadarn mewn Daioni, fe fydd ein Gwreſogrwydd ſanctaidd yn dueddol jawn o oeri, ein Bwriadau da i lacſu a dattod, a'n Hymroad rhinweddol i wanhâu a blino; ac am hynny oni chymmerwn Ofal yn fynych i ddadfywio ein Crefydd â'r Wlêdd Yſbrydol hon er ei Honni, a

pheunydd

pheunydd chwanegu Tanwydd newydd atti fel y mae'r Fflam yn gwanhau, hi ddiffydd yn fuan, ac a ddiffydd. Ond os, ar bob Dychweliad cyhoeddus o'r Wledd Sanctaidd hon, y deuwn beunydd gyd â Pharotoad dyledus i Fwrdd ein Harglwydd, ac ymma adnewyddu ein Haddunedau, ail-fywioccâu ein Bwriadau, gwellhâu ein Llefgedd, a gofod ein Grasusau diog i weithio o'r newydd, nyni a gaem weled y byddai i'n Crefydd nid yn unig fyw, ond llwyddo a chynnyddu, ac ennill beunydd Raddau newydd o Nerth a Bywiogrwydd. Ond o herwydd i'r Testyn hwn gael ei drin mor helaeth eisoes mewn Llyfrau sydd yn sôn am y Dyledswyddau sydd i'w hymarfer, ac yn neillduol gan y Parchedig Dr. *Patric*, yn ei *Fwrdd Dirgeledig*, a'r *Aberth Cris'nogol*, mi anfonaf y Darllenydd yno i ystyried y Pwngc hwn ymhellach.

Ac fel hyn yr ymegniais, cyn fyrred ag y gallwn, roddi Hanes o'r Dyledswyddau hynny ag sydd angenrheidiol i ni ar ein Taith ymlaen yn ein *Milwriaeth Gris'nogol*.

DOSBARTH. IV.

Yn cynnwys rhai Annogaethau *i gefnogi Dynion yn erbyn Anhawsdra'r* Dyledswyddau hyn, *y rhai sydd yn perthyn i'n Taith yn y* Filwriaeth Gris'nogol.

PA mor angenrheidiol a llesol i ni, ar ein Taith yn y Filwriaeth Gris'nogol, ydyw y Dyledswyddau a enwyd o'r blaen, a ddangosswyd eisoes yn ddigonol. Fel nad oes dim yn awr ag allo ein Diogi a'n Hanewyllysgarwch wrthddadleu yn eu herbyn, ond hyn yn unig; eu bod yn anhawdd jawn, ac yn gofyn mwy o'n Hamser, a'n Gofal, a'n Poen, nag allwn yn jawn hepgor oddi wrth ein Hachosion angenrheidiol eraill; fod yr Ymarfer o honynt mor annifyr a thost, ac mor llawn o Ddyryswch a Blinder, fel yr ydym yn ofni yn fawr na's gallwn fyned byth trwyddynt. Ac am hynny i symmud y Gwrthddadl

ddadl hwn o Ffordd Dynion, a'u cyffrôi hwynt i ymarfer y Dyledſwyddau angenrheidiol hyn, mi chwanegaf at yr hyn a ddywedpwyd, fel Diwedd-glo ar y Pen hwn, yr Yſtyriaethau a ganlyn.

I. Nad pa Anhawſdra bynnag ſydd i'w harfer hwy, y gallwn ddiolch i ni ein hunain am hynny.

II. Fod llawer o Galedi mewn Ffordd bechadurus, yn gyſtal ag yn ein Rhyfel yn ei herbyn.

III. Er mor anhawſed y gallo 'r Filwriaeth hon fod, y rhaid ei dioddef, neu 'r hyn ſydd lawer waeth.

IV. Er ei bod yn anhawdd, etto nad oes dim ynddi ond a wnâ Grâs Duw yn boſſibl i ni, os na byddwn yn ôl i ni ein hunain.

V. Nad yw'r Ymarfer o'r Dyledſwyddau hyn mor anhawdd, na's gall gyd-ſefyll yn dda ddigon â'n holl Achoſion a'n Difyrrwch anghenrheidiol eraill.

VI. Y bydd i'r Anhawſdra yn ddiammau leihâu a gwiſgo i maes bob yn ychydig, os bydd i ni eu dyſal-arfer hwynt.

VII. Fod llawer jawn o Heddwch a Boddlonrwydd preſennol yn gymmyſgedig â'r Anhawſdra ſydd ynddynt.

VIII. Y bydd i'w Gwobr hwynt yn y Diwedd wneuthur Taliad helaeth am yr Anhawſdra ſy ynddynt.

I. Yſtyriwch, nad pa Anhawſdra bynnag ſydd yn yr Ymarfer o honynt, y gallwn ddioch i ni ein hunain am hynny. Can's pe buaſem yn rhoddi ein hunain i'r Ymarfer o Grefydd cyn gynted byth ag y gallaſem ddyall dim o honi, cyn dechreu ar Ffyrdd pechadurus, a thrwy hynny dyſgu Arferion a Thueddiadau pechadurus, nyni a allaſem rágflaenu 'r Anhawſdra ydym yn awr yn achwyn o'i blegid. Can's yr oedd ein Crefydd wedi ei chymhwyſo i'n Natur, a'i gwneuthur iddi, ac a fuaſai yn cyttuno yn hyfryd â'i holl Serchiadau a'i Thueddiadau, oni buaſai i ni eu llygru hwynt trwy ein Pechod gwllyſgar ein hunain, a goſod Gogwyddiad annaturiol ynddynt. Ond er fod y Goleuni wrth Natur yn cyttuno â'r Llygad, etto os daw'r Llygad i fod yn ddolurus ac yn wan, trwy fod Sûdd drwg yn cwympo iddo, nid oes dim yn fwy blin ac anghyttunol nag ef. Ac fel hyn y mae gyd â Chrefydd, yr hon i

Natur

Natur Dŷn, tra bo hi'n bûr ac heb ei llygru, ydyw 'r Peth hyfryttaf yn y Bŷd; ond os clafychwn ein Natur trwy ein Haflywodraeth ein hunain, a llygru ei Gwneuthuriad cyntaf, nid yw Ryfedd os bydd i Grefydd, yr hon oedd gyſtadl yn cyfatteb iddi yn ei Phurdeb, eiſtedd yn galed ac yn aneſmwyth arni yn ei Gwrthgiliad a'i Llygredd. Can's i Ddŷn mewn Twymyn y mae pob peth yn chwerw, hyd yn oed y Mêl, yr hwn pan y mae efe yn jach ſydd flaſus a melus jawn; ond nid yw'r Chwerwder y mae efe yn broſi, yn y Mêl, ond yn y Buſtl ſydd yn llifo dros Daflod ei Enau ef: ac felly i Natur ſydd yn glâf o unrhyw Drachwant annaturiol, y peth a fo 'n fwyaf cyttunol â hi ei hun, fydd yn fwyaf ffiaidd gan ei Chlefyd; a'r Dyledſwyddau hynny y rhai yn ei Hjechyd a fuaſai hi yn gofleidio gyd â'r Hyfrydwch mwyaf, fyddant yn ei Chlefyd y Baich a'r Gorthrymder mwyaf iddi. A chwedi i ni andwyo Purdeb ein Gwneuthuriad, a dirywio oddi wrth y Natur ddynol i Natur anifeilaidd neu gythreulig, nid yw ddim Rhyfeddod mawr i Grefydd *Dŷn* fod yn Faich i Natur *Anifail* neu *Gythraul*. Fel nad pa Galedi bynnag ſydd mewn Crefydd, nid ydyw yn tarddu oddi wrth Natur y Pethau y mae hi yn ofyn, ond oddi wrth Wrth'nebiadau cyndyn ein Natur ni attynt: a hyn a ddarfu i ni gan mwyaf dynnu arnom ein hunain; fel y dylem, yn lle achwyn am y Caledi, ymryſon ac ymdrechu yn lewach yn ei erbyn, o herwydd y gallwn ddiolch i ni ein hunain am dano. Wedi i Ddŷn chwareu'r Ynfyd, a goſod ei Dŷ ar Dân, fe ddylai'r Yſtyriaeth o'i Ffolineb ei hun ei wneuthur ef yn fwy diwyd i'w ddiffoddi ef; ond os, yn lle gwneuthur felly, yr eiſteddai efe â'i Ddwylaw yn ei Fonwes, ac achwyn am yr Aflwydd a'r Anhawſdra o'i ſtoppio, peth a ddywedai Dynion am dano? Greadur drygionus, ydyw yn gweddu i ti eiſtedd ymma yn ſegur, gan achwyn am Ffrwyth dy Ddrwg-weithred dy hun, tra y mae ettto yn dy Allu, pe baet ti ond ymrôi, i ddiffoddi 'r Fflam, a thwyſtro iddi dannu ymhellach? Cyfod rhag Cywilydd, ac ymrô hyd yr eithaf i ddiwygio dy Weithred dy hun, ac i ddiffodd y Drwg hwn ſydd yn ymdannu, a thithau yn Awdwr o hono. Gan i ninnau ynte fod mor gandyn

a ffôl, a gofod Tân yn ein Heneidiau ein hunain, ac ennyn ynddynt, trwy ein Ffyrdd drygionus, y fath Fflammau dinyſtriol o Chwant annaturiol, pa beth ynfyd tu hwnt i Reſwm ydyw i ni, tra y mae etto yn ein Gallu eu diffodd, i eiſtedd dan lefain ac achwyn am yr Anhawſdra o hynny, a gadael iddynt yn y cyfamſer i ymgynddeiriogi a lloſgi ymlaen yn ddirwyſtr? O Ddynion truenus! os yw mor anhawdd eu diffoddi, i bwy y mae i chwi ddioleh am hynny? Onid chwychwi a'u hennynnodd hwy? ac a ydych chwi yn eiſtedd yn ſegur i achwyn am eich Gweithred eich hun, pan y dylech fod yn fwy diwyd i wellhau ei Drwg, o herwydd mai chwychwi eich hunain a'i parodd? Cyfodwch rhag Cywilydd, a chyffrôwch; a chan eich bod yn gwybod fod yr Anhawſdra ſy mewn Creſydd o'ch Gwaith chwi eich hunain, ac mai Ffrwythau eich Gweithredoedd eich hunain yw'r Chwantau hynny ſydd yn eich gwneuthur mor lleied eich Tueddrwydd atti; bydded i hyn eich cyffrôi chwi i Egni mwy bywiog i'w daroſtwng a'u gorchfygu hwynt.

II. Yſtyriwch, fod llawer o Galedi mewn Ffordd bechadurus, yn gyſtal ag yn eich Rhyfel yn erbyn Pechod. Can's mi feiddiaf appelio at eich Profiad chwi eich hunain. Oni ddarfu i chwi gyfarfod â llawer o Galedi mewn Drygioni, yn enwedig pan yr oeddech yn dwyn i fynu arfer yn hyfforddi eich Natur atto? Oni ddarfu i'ch Natur yn fynych neidio yn ôl, ac yſgôi, ac arſwydo, o herwydd eich Gweithredoedd drwg? ac onid oedd yn gorfod arfer noch weithiau ei hattal, ac weithiau ei ſbardyno, i wneuthur llawer o Drais a Dirieid-dra iddi, tra yr oeddech yn ei hattegu ac yn ei thrin hi, cyn y gallech ei dwyn hi fyned ymlaen yn rhwydd mewn Drygioni? Pa mor fynych y darfu i chwi oſod eich Natur gywilyddgar i wrido wrth feddwl am Weithred front ac anweddus, tra'r oedd eich Ewyllys ddrygionus yn ei lluſgo ymlaen fel Gwyry ofnus i Wely Godinebwr? a pha Sgrechain ofnadwy wnaeth eich Cydwybodau yn fynych ynghanol eich Gweithredoedd pechadurus, pan yr oeddech gyntaf yn cynnal Trais i'ch Diniweidrwydd? Pa ſawl gwaith y darfu All-olwg ar eich Pleſerau pechadurus beri i chwi be

drymmu

drymmu? a pha Heidiau o Arſwyd a Diſgwyliad ofnadwy y darfu i Yſtyriaeth o'ch Euogrwydd a aeth heibio gyſodi yn eich Meddyliau? ac yna gyd â pha Anhawſdra mawr dros ben y gorfu arnoch chwi wneuthur rhai Beiau, yn unig i gyrraedd Defod o'u gwneuthur hwynt yn hawſach? Pa mor fynych y gorfu arnoch chwi lyngcu Afiechyd, yſed Pathys marw, a'r Clwyf digwydd ſy'n peri i'r Genau ſermannu, i wneuthur eich Anghymmedroldeb yn gynneſin i chwi? ac ymha Waſgfêydd a Chwŷs lleſmeirus, a Chywilydd o achos Meddwi, y darfu i chwi yn fynych ddeffrôi o'ch Cwſg, cyn y gallech byth wneuthur eich Gloddeſt ganol Nôs i gyttuno â'ch Tymmer? A chwedi chwi, gyd â chymmaint o Boen a Chreulonder, ymarferu dwyn eich hunain i fynu yn go-hyddyſg yn y Rhyfel uffernol hwn, a'i wneuthur trwy hynny yn naturiol ac yn gynneſin i chwi, pa gymmaint o Niweid oedd efe yn wneuthur beunydd i chwi, ac ar ba Ddichellion gwael a gwreigaidd y goſododd efe chwi, i ddadrys eich hunain i naes o'r Caledi y dugodd efe chwi iddo? Pa Wyniau gwyllt ac Aflonyddwch y mae'n gyfodi yn eich Meddyliau, ac i ba Weithredoedd terfyſgus y mae yn fynych yn eich gwthio? Mewn gair, pa fodd y mae efe yn blino ac yn dyryſu holl Gwrs eich Bywyd, ac yn eich rhwydo newn Cabidwl o Dwyll a Dichellion cnafaidd, fel yr ydych yn fynych ymron allan o'ch Synwyr, ac heb wybod a ffordd i droi eich hunain? Yr holl Galedi hyn, a lawer yn rhagor na's gallaf fi yn awr feddwl am danynt, edd raid i chwi ymryſon â hwynt mewn Ffoedd bechadrus, os gwnaethoch Ennyd o Brofiad o honi.

Ac a ydych chwi yn achwyn am yr Anhawſdra o barhâu newn Crefydd; chwychwi, a barhaodd mor wrol mewn waeth Ffordd yn erbyn Caledi ſy gymmaint, o yſtyried ob peth, os nid yn fwy; chwychwi, y rhai hyd yn hyn a echaſoch ymlaen mor ddyfal, a dorraſoch trwy gynnifer Rwyſtrau cryfion i ddyfod at eich Pechodau, ac i'w wynhâu hwynt; onid oes Gywilydd arnoch chwi i yſgôi arſwydo fel yr ydych, o herwydd Anhawſdra Rhinedd a Chrefydd? Gwnewch ond edrych y modd y mae'r echadur diwyd yn dannod i chwi. Y mae ei Ffordd ef

yn arwain yn unjawn i Ddinyſtr; ac y mae efe yn gwybod hynny, ac etto yn tynnu ymlaen yn galonnog, fel pe bae yn falch ganddo fod y Campwr pennaf mewn Anwiredd, ac yn brwyſgo trwy holl Weddeidd-dra y Natur ddynol, trwy ei holl Deimlad naturiol o Ddduw a'i Lidiowgrwydd: y mae efe yn gwthio ymlaen trwy Wradwydd a Chlefydon, trwy Beryglon a Lliaws o Anghymmwyſderau, ac yn cynnyg math o Drais i Uffern, fel pe bae efe yn meddwl gwthio ei Phorth prês yn agored, a myned bendramwnwgl i mewn iddi, cyn y bo hi yn barod i'w dderbyn ef; tra'r ydych chwithau yn y cyfamſer, fel Torf o Greaduriaid digalon, yn ſefyll dan grynu wrth weled ychydig o Anhawſdra ar eich Ffordd, er fod y Nefoedd o'ch blaen fel eich Diben, a Choron Gogoniant yn Wobr i chwi.

Yn fyrr gan hynny, dymma fel y mae eich Cyflwr chwi yn ſefyll yn gymmwys. Dewiſwch yr Ochr a fynnoch, p'un ai i filwrio dan Faner Criſt, neu ynte dan Faner y Diawl: rhaid i chwi ymlaen-llaw ddiſgwyl ymdrech â rhyw Galedi, ie, ac yſgatfydd gymmaint ar y naill Ochr ac ar yr Ochr arall; ac os felly, nid oes i chwi ond cymmaru eu Diwedd hwynt, ac yſtyried p'un o'r ddau ſydd fwyaf dewiſol, Coron Gogoniant, neu Boen tragywyddol.

III. Yſtyriwch, er anhawſed y gallo eich Milwriaeth yſbrydol fod, y rhaid i chwi ei dioddef, neu ddioddef yn hyn ſydd fwy anoddefadwy o lawer. Yr wyf yn cyfaddef, oni bae ei bod yn gwbl-angenrheidiol, y gallem gyd â rhyw Liw o Reſwm bledio ei Anhawſdra hi, i eſguſodi ein hunain oddi wrth ei chymmeryd yn llaw, a'i chanlyn; ond pan yr ydym yn y fath Gyflwr, ag y rhaid i ni naill ai gorchfygu, neu fod yn golledig; naill ai nofio trwy ddynt, neu ſuddo dan y Caledi yr ydym yn achwyn o'i plegid; nid oes dim Dadl ymhellach yn y Peth, ond y mae'n rhaid i ni fwriadu o'r ddau Ddrwg i ddewis y lleiaf. Pan y bo'r Llong wedi llyngcu Dwfr, Ynfydrwydd yw i'r Morwyr eiſtedd yn llonydd, ac achwyn am y Poen a'r Blinder o fwrw'r Dwfr allan: can's yn y Cyfyngder y maent hwy ynddo, nid oes dim rhagor i ddywedyd; rhaid bwrw y Dwfr allan, neu fod yn golledig; ac nid oes dim Dadl lle mae cymmaint o Anghyfatteboliaeth rhwng

Pethau y maent i'w dewis, p'un o'r ddau ſydd oreu iddynt daro arno, p'un ai cymmeryd Poen yn breſennol i ddiogelu'r Llong, neu eiſtedd yn llonydd, a gadael iddynt eu hunain gael eu llyngcu i fynu gan y Môr. Ac fel hyn y mae'r Peth yn bod gyd â ni: y mae ein Henaid wedi gollwng Dwfr, a gadael i'r Dyfroedd uffernol hynny o Drachwant cnawdol a dieflig ddyfod i mewn i'w Gonglau, y rhai a'n ſuddant ni i lawr i Uffern, oni ſwrier hwynt allan drachefn; ac ni ellir gwneuthur hyn heb lawer o Flinder ac Anhawſdra. Ond beth er hynny? oni fyddai well ymboeni dros ychydig, nâ bod yn golledig yn dragywydd? Ai sôn am Boen yr ydym, pan y mae ein Heneidiau i'w cadw neu eu colli, a'n Bywyd anfarwol ar y Geulan o Ddedwyddwch tragywyddol, neu Drueni tragywyddol? Mewn Achoſion eraill nid ydym byth yn ei dybied yn fawr i ddioddef rhyw Anghymmwyſder yn breſennol, er mwyn rhagflaenu Drwg a fo i ddyfod: yr ydym yn foddlon i ymprydio, pan fom yn dyall fod hynny yn angenrheidiol i attal Twymyn a fo yn dyfod arnom; i gael ein hyſgraffinio â Gwydr, a'n ffleimio â phob Cywreinwaith poenus, i ragflaenu neu ſymmud Clefyd peryglus; ac ymhob Achoſion eraill yr ydym fynychaf yn ewyllyſgar i eſtyn ein Poen, fel y bom yn hwy yn marw; oddieithr lle y mae Rhinwedd yn cael ei gorchymmyn fel y Feddyginiaeth, a lle y mae'r Farwolaeth y rhoer y Feddyginiaeth yn ei herbyn yn dragywyddol: er mai dymma'r Drwg mwyaf ofnadwy o'r cwbl, gan ei fod ef y Perffeithrwydd eithaf o Drueni Dŷn; ac o'u cymmaru â hyn, nid yw holl Flinderau ac Anhawſdra Creſydd ddim cymmaint a Phigad yſgafn Chwannen i'w gyffelybu i Boenau toſtaf Dirdynnu neu'r Garreg. Can's mi attolygaf arnoch yſtyried, oni bydd yn hawſach i chwi ddioddef byrr Ymdrech Edifeirwch chwerw, nag Anobaith echrydus Yſbryd damnedig yn dragywydd; i groeſi Trachwant ffôl a direſwm, nâ gorwedd ac udo i bob Tragywyddoldeb gan Boen Cydwybod euog? A oes un Cyfatteboliaeth rhwng eich Gwaith yn ymgadw oddi wrth Bleſerau Pechod, nad ydynt ond dros Funyd, a chael eich cau allan o'r Nefoedd, ac oddi wrth bob Gobaith am Ddedwyddwch

wyddwch yn dragywydd? Gwae fi! os yw mor anhawdd gennych chwi i ymdrechu yn erbyn Arfer ddrwg, i ymryſon â Thueddiad gwar-galed a gwrthnyſig, pa mor anhawdd fydd *preſwylio gyd â Lloſgfëydd tragywyddol*, a dioddef Effeithiau creulon Llidiowgrwydd anghymmodol yn dragywydd? Am hynny, gan ein bod dan Angenrheidrwydd llwyr-gwbl o ddioddef y naill neu'r llall, yn Enw Duw gwnawn fel Dynion, ac o'r ddau Ddrwg dewiſwn yr un ſy hawſaf ei ddioddef.

IV. Yſtyriwch, er ei bod yn anhawdd, etto nad oes dim ynddi ond yr hyn a wnâ Gràs Duw yn boſſibl i chwi, oni byddwch yn ôl i chwi eich hunain. Yr wyf yn cyfaddef, na byddai ei Hangenrheidrwydd yn Rheſwm i'n rhwymo ni i'w chymmeryd arnom, pe na byddai yn Orchwyl poſſibl; ie, ac yr ydwyf yn rhwydd yn cydnabod, ei bod ymhell uwchlaw ein Poſſiblrwydd egwan ni, o'i yſtyried wrtho ei hun, heb un Help arall. Fel pe gadawſid ni i ymorcheſtu â'i Chaledi hi yn ein Nerth ein hunain yn unig, nyni a allem yn gymmwys anobeithio am Lwyddiant; ac felly gorwedd i lawr yn ddofaidd, ac ildio ein hunain i gael ein daroſtwng a'n gortrechu. Ond, Moliant a fo i Dduw, nid dymma ein Càs ni: can's er pan fwriom Olwg ar yr amryw Dueddiadau cryf i Ddrwg ſydd oddi fewn i ni, a'r Profedigaethau aneirif i Ddrwg ſydd oddi amgylch i ni; pan ddwys-yſtyriom Wendid ein Rheſwm, a Grym ein Chwantau, a Rhifedi, ac Agoſder, a Thycciant y Pethau hynny oddi allan, y rhai ydynt yn waſtadol yn gwaſgu arnom, ac yn gwrthwynebu ein Bwriadau da; er, meddaf, pan fom yn myſyrio ar hyn i gyd, ein bod yn barod i waeddi allan fel Gwâs *Elias*, pan ganfu eſe y Ddinas wedi ei hamgylchu â Meirch ac â Cherbydau, *Och, Feiſtr, pa ſodd y gwnawn?* Pa fodd y gallwn ſefyll yn erbyn y Fyddin luoſog ymma o Elynion? Etto os trown ein Llygaid oddi wrth ein Gwendid ein hunain, a Nerth ein Gelynion, at yr Addewidion graſlawn hynny o Gymmorth y rhai a wnaeth Tâd y Trugareddau i ni, nyni a allwn yn fuan atteb i ni ein hunain fel yr attebodd *Elias* eſ; *Nac ofna*, O fy Enaid: *can's y mae mwy gyd â ni*, a'r rhai'ny yn fwy pwerus, *nag ſydd yn ein herbyn*.

Can's

Can's y mae nid yn unig Rheſymmau Creſydd oddi allan gyd â ni, y rhai ydynt yn anfeidrol fwy eu Grym nag un Annogaeth oddi allan i Bechod pa un bynnag; y mae nid yn unig Angelion ſanctaidd Duw gyd â ni, y rhai ſydd mor ewyllyſgar ac yn fwy abl i'n cyfarwyddo a'n nerthu, nag yw holl Gythreuliaid Uffern i'n rhwydo a'n caethiwo: ond y mae Hollalluog Yſbryd Duw gyd â ni hefyd, yr hwn, yn ôl Llywodraeth y Nefoedd, ac Addewid ein Harglwydd, ſydd yn rhwym i weini i ni yn ein holl Anghenion, ac i'n cynnorthwyo yn erbyn yr holl Anhawſdra ag a fuaſai heb hynny yn rhy galed i ni, pe gadawſid ni i ni ein hunain. Fel os gwnawn ni ond parhâu yn gywir i'n Llesâd ein hunain, a chymmeryd Gofal na erlidiom ef ymmaith oddi wrthym, trwy ochri yn ewyllyſgar gyd â'n Gelynion yn ei erbyn ef, ni chawn, nage, ni allwn ni fethu; oddieithr (yr hyn ſydd amhoſſibl) i ryw Brofedigaeth ddigwydd i ni, na's gallo efe na ninnau mo'i gwrthſefyll. Can's hyd nes darffo i ni trwy ein Pechod gwyllyſgar fforffettu ein Titl i Addewid ei Gymmorth ef, yr ydym mor ſicr o'i Help ef ymhob peth ag ſydd angenrheidiol, ag allwn fod o'n Hymroad ein hunain; ac nid yw yn rhagor yn ein Gallu i wneuthur yr hyn a allom trwy Nerth ein Galluoedd ein hunain, nag yw ei rwymo ef i'n cynnorthwyo i wneuthur y Peth na's gallwn heb ei Help a'i Gynnorthwy ef. Can's trwy ymegnio yn ffyddlon i barhâu i wneuthur Daioni, yr ydym yn ennill Hawl yn holl Gynnorthwyon angenrheidiol ei Râs: a chyhyd ag y parhao'r Hawl hwn, yr ydym nid yn unig yn Feiſtri o'n Nerth ein hunain, ond o'r eiddo ynte hefyd; ac a allwn wneuthur nid yn unig pa beth bynnag ſydd oddi fewn i'n Gallu ein hunain hebddo ef, ond hefyd pa beth bynnag ſydd yn ei Allu ef yn cydweithio â'n Gallu ni.

Felly, er fod ein Milwriaeth yn anhawdd, ni's gall mo'r bod yn amhoſſibl, oni fynnwn ni iddi fod felly. Can's yn ddiau nid oes dim ynddi ag allo fod yn rhy galed i Râs Duw yn cydweithio â Phwerau ein Natur ni; ac am hynny ni all fod dim ynddi yn rhy galed i ni, tra y mae

yn ein Gallu ni i ddiogelu ei rafol Gyd-weithrediad ef i ni ein hunain.

Am hynny na ſafwn yn hwy yn pryderu o herwydd Anhawſdra ein Taith mewn Crefydd, gan nad oes dim tu hwnt i'n Gallu, i Dduw'y bo'r Diolch, yn cael ei ofyn oddi wrthym: gwnewch chwi eich Rhan, yr hyn nid yw ond y peth a ellwch; ac yna nac amheuwch na'ſ gwnâ Duw ei Ran ef: goſodwch allan eich Ymroad oneſt, calonnog, a thaer-ymbiliwch am ei Help a'i Gymmorth ef; ac os methu a wnewch chwi wed'yn', attebed y Neſoedd am hynny. Ond os o Eſgus fod eich Gwaith yn rhy galed, a'ch Gelynion yn rhy gryfion i chwi, y goſodwch chwi i lawr eich Arfau, a bwriadu nad ymryſonoch chwi â hwy mwyach, barned y Neſoedd a'r Ddaear rhwng Duw a chwithau, ar bwy y mae bwrw eich Dinyſtr chwi: p'un ai ar Dduw, yr hwn mor rafol a gynnygiodd ei Gymmorth i chwi, a eſtynnodd allan ei Law i'ch cyfodi i fynu, a gymhellodd ei Yſbryd arnoch i'ch arwain a'ch cyfarwyddo trwy bob Gwrth'nebiadau i Ddedwyddwch tragywyddol; neu arnoch chwi, na fynnech mo'ch perſwadio i wneuthur un peth droſoch eich hunain, ond a ddewiſaſoch yn hytrach i fod yn golledig gyd ag Eſmwythder, nâ chymmeryd dim Poen i fod yn gadwedig.

V. Yſtyriwch, nad yw'r Ymarfer o'r Dyledſwyddau hyn mor anhawdd, nad yw yn cyd-ſefyll yn dda ddigon â'ch holl Achoſion angenrheidiol eraill. Pan ddywedet wrth Ddynion, pa gynnifer o Ddyledſwyddau ſydd angenrheidiol tu ag at fyned ymlaen yn llwyddiannus mewn Crefydd, pa Ammynedd a Dyfalwch, pa fynych holi â phroſi eu hunain, pa Feddyliau bywiol a Diſgwyliadau am y Neſoedd, &c. y maent yn dueddol o farnu, os ymrwymant i wneuthur hyn i gŷd, y rhaid iddynt fwriadu na wnelont ddim arall, ond ſiglo Dwylaw â'u holl Orchwylion a'u Diſyrrwch yn y Byd, a'u cloi eu hunain i fynu oddi wrth bob Matterion eraill. Yr hyn ſydd Gamgymmeriad mawr iawn, yn tarddu naill ai o eiſiau yſtyried, neu o eiſiau dyall Natur yr Ymarferion crefyddol hyn, y rhan fwyaf ba rai ydynt y fath ag a wneir yn llwyr-gwbl yn y Mo ddwl, yr hon y mae ei Symmudiadau a'i Gweithredoedd yn

fwy

fwy gwiſgi a bywiog o lawer nag eiddo'r Corph; ac felly a allant gael yn dda ddigon eu cymmyſgu gyd â'n Gorchwylion tymhorol, heb fod yn ddim Rhwyſtr iddynt. Can's pa Amſer mawr a ofynner i Ddŷn yn awr ac eilwaith i fyfyrio ar rhyw ychydig o Feddyliau doeth a lleſol yn ei Galon, i yſtyried Natur Gweithred pan y digwyddo hi, a meddwl am ei Gamgymmeriad wedi iddo ddarfod a diangc arno? Mi allaf yſtyried Profedigaeth pan y bo hi yn nesâu attaf, ac â Meddwl neu ddau am Nef neu Uffern, arfogi fy Mwriad yn ei herbyn mewn Tarawiad Llygad; mi allaf edrych i fynu i'r Nefoedd â Golwg o Ddiſgwyliad taer, a danfon fy Enaid yno mewn Gweddi ferr, heb ddim Rhwyſtr i'm Gorchwyl; ac etto y mae'r rhai'n, a'u cyffelyb, yn gwneuthur i fynu Ran fawr o'r Ymarferion crefyddol hynny ymha rai y mae Dyledſwydd briodol ein Milwriaeth Gris'nogol yn ſefyll. Ac er y bydd weithiau yn angenrheidiol tu ag at jawn-gyflawni y Dyledſwyddau hyn, i'n Meddyliau drigo yn hwy arnynt; etto y mae i ni yſtyried, wedi dechreu unwaith i'w hymarfer hwynt, y bydd gan ein Meddwl fwy o Leſer o lawer i fyfyrio arnynt: can's yna fe fydd mewn Meſur mawr wedi ei dynnu ymmaith oddi wrth ei Wibiadau gwyllt, direſwm, oddi wrth ei Amcanion pechadurus a'i Ddych'mygion aflan, oddi wrth ei Hyfrydwch gwâg ym Mhleſerau Pechod, a'i Fyfyrdodau pryderus ar ei Ewogrwydd a'i Berygl; a phan dafler yr holl Sothach hyn allan o'r Meddwl, fe fydd digon o Le i Feddyliau da breſwylio ynddo, heb wneuthur dim Rhwyſtr i'n Difyrrwch, nac i un o'n Gofalon angenrheidiol. Can's pe baem ond rhoi i'r Ymarferion crefyddol hyn gymmaint o Le yn ein Meddyliau, ag a roeſom gynt yn rhwydd i'n Pechodau, ni cheiſient ddim rhagor, ond ni gaem gymmaint o Amſer i'n Negeſeuon eraill ag erioed.

Yr wyf yn cyfaddef, fod rhai o'r Dyledſwyddau hyn yn gofyn oddi wrthym eu Rhannau pennodol, ſefydledig o Amſer; megis ein Hyſtyriaeth a'n Gweddi Forcuol, ein Holiad a'n Gweddi Brydnhawnol, cadw yn grefyddol Ddydd yr Arglwydd, a pharotôi tu ag at y Sacrament Sanctaidd, a'i dderbyn: ond hyn i gyd a ellir yn dda

ddigon

ddigon ei hepgor, heb ddim Niweid i un o'n Hachoſion cyfreithlawn. Can's pa Amſer mawr a raid i Ddŷn gael i fyfyrio ar ychydig o Feddyliau da yn y Boreu, a rhagarfogi ei Feddwl â hwynt yn erbyn Profedigaethau'r Dydd; i orchymmyn ei hun i Dduw mewn Gweddi ferr, ddwys, a ſerchog, ac ail-adrodd ei Amçan a'i Fwriad i ufuddhâu? pa mor hawſed Peth a fyddai i chwi ſenthyccio cynnifer o Fynudau ag a fyddent ddigon i'r Perwyl hyn, oddi ar eich Gwely, a'ch Crîb, a'ch Drŷch? Ac am y Prydnhawn, pan ſo eich Gwaith wedi darfod, y mae'n galed jawn oni ellwch hepgor cymmaint o Amſer, naill ai oddi wrth eich Cyfeillion neu'ch Difyrrwch, ag a was'naetho i fwrw Ail-olwg yn fyrr ar Weithredoedd y Dydd; i gyſaddeſ a deiſyf Maddeuant am y Drygau y ſyrthiaſoch iddynt, neu i ſendithio Duw am y Daioni a wnaethoch, a'r Drygau a ddarfu i chwi ochelyd; ac yna eich gorchymmyn eich hunain i'w Râs a'i Nodded ef o hynny allan. Ac am gadw yn greſyddol *Ddydd yr Arglwydd*, nid yw hynny ond ſeithfed Ran o'ch Amſer; ac a ellwch chwi ei dybied yn Beth mawr i gyſſegru y Dydd hwnnw, neu o'r lleiaf y Rhan fwyaf o hono, iddo ef yr hwn ſydd yn rhoddi i chwi eich Bywyd, a'r Parhâd o hono? Ac yn ddiweddaf, am dderbyn Swpper yr Arglwydd, nid ydych yn cael eich gwahodd iddi ond unwaith yn y Mis o'r eithaf; ac y mae'n galed, os o gymmaint Cyfran o'ch Amſer ni ellwch hepgor ychydig Oriau, i holi eich Deffygion, a bywioccâu eich Graſuſau, a thrwſio a pharotôi eich hunain erbyn y fath Goffadwriaeth bendigedig. Och! mor eſmwyth fyddai hyn i gŷd i Feddwl gwyllyſgar! a phe bae gennym ond hanner y Gofal am ein Heneidiau a'n Llês tragywyddol, ag ſydd gennym am ein Cyrph, ni chyfrifem mo'r rhai'n yn Bethau a dalai eu crybwyll. Pa mor anweddus ynte yw, i Ddynion leſain allan mor alaethus ag y maent am Galedi ac Anhawſdra y Filwriaeth yſbrydol hon, pan nad oes dim oll ynddi ag ſydd yn cyfyngu naill ai ar eu Galwedigaethau bydol, neu eu Difyrrwch angenrheidiol; pan y gallont fyned ymlaen tu a'r Neſoedd tra y maent yn gwneuthur eu Gorchwyl, a marweiddio eu Chwantau tra y maent y mwynhâu eu

Difyrrwch,

Difyrrwch, ac felly cymmeryd eu Pleſer ymma ac ar ôl hyn?

VI. Yſtyriwch, mai'r fath yw Anhawſdra y Dyledſwyddau hyn, ag a leihâ yn fuer, ac a wiſg ymmaith bob yn ychydig, os bydd i ni eu harfer hwynt yn waſtadol. Can's ymhob rhyw Waith pa un bynnag, Arfer ſydd yn gwneuthur un yn berffaith; a'r peth ſy anhawdd jawn i ni ar y cyntaf, naill ai o eiſiau Medr i'w drin, neu Dueddrwydd i'w ymarfer, bob yn ychydig a ddaw hawſach hawſach, po fwyaf y cynnefinom ag ef. A hyn a gawn weled trwy Brofiad, os dyſal-ymarferwn ein hunain yn y Dyledſwyddau hyn ſydd at ein Cynnydd mewn Crefydd, y rhai a fyddant ar y cyntaf yn anhawdd jawn i Feddwl a fu yn gwbl-ddieithr iddynt. Fe fydd yn erbyn Tuedd Natur wyllt afflywodraethus, gael ei chadw rhag crwydro yn benrydd trwy gaeth Rwymau Dyſgyblaeth grefyddol; a dyfod â Meddwl gwibiog i Yſtyriaeth ddwys, neu un anwadal i Fwriad ſefydlog, neu un di-yſtyriaeth i Hunanymholiad: i ddarchafu Meddwl dacarol at Feddyliau a Diſgwyliadau nefol, a chadw un diſraw a diofal i wylio yn gaeth ac edrych oddi amgylch iddo; i ddyfod â Meddwl cnawdol yn fynych at y Sacrament, neu un diofal a diweddi i weddio yn feunyddol ac yn wythnoſol; fydd ar y cyntaf yn ddiammau yn Waith poenus, maith jawn: ond wedi i ni barhâu ynddo, a thros Amſer arferu ein hunain ag ef, nyni a gawn weled y daw efe yn fuan yn fwy naturiol ac eſmwyth i ni; ac, o fod yn flin, fe ddaw yn oddefadwy; o fod yn oddefadwy, i fod yn eſmwyth; ac o fod yn eſmwyth, i fod yn hyfryd. Can's pan ddelom unwaith i deimlo Effeithiau da y Dyledſwyddau hynny yn ein Natur, mor gyflym y mae ein Chwantau yn gwanhâu, ein Tueddiadau yn gwellhâu, a'n holl Raſuſau yn cynnyddu yn yr Arfer o honynt; y Teimlad o hyn a'u gwna hwynt yn anwyl ac yn hoff jawn gennym. Yn gymmwys ſel y mae gyd ag Yſgolhaig, pan fo efe gyntaf yn dechreu ar Ffyrdd Dyſgeidiaeth, y maent yn faith ac yn flin jawn iddo; y Poen o ddarllain, dal ſulw, ac all-fyfyrio, cadw ei hun at aſtudio, a chwalu ei Ymennydd ag Ymrefymmiadau llym-doſt ac Ymddadlau, ydynt Bethau na 's gall

efe

efe. aros mo honynt, nes iddo ymarfer ac ymgynnefino ychydig â hwynt; ac yna y maent yn dyfod yn fwy naturiol ac eſmwyth iddo: ond pan ddelo i deimlo y Manteiſion mawr y mae efe yn gael oddi wrth ei Boen, y modd y mae'n derchafu ac yn cynnyddu ei Ddyall, yn helaethu ei Olwg o Bethau, ac yn ei lanw â Gwybodaeth wŷch a buddiol; yna y mae ei Lafur, oedd gynt mor flinderus, yn dyfod nid yn unig yn hawdd, ond yn hyfryd iddo. Ac felly yn gymmwys y mae gyd â'r Ymarferion yſbrydol hyn o Grefydd: y rhai i Ddynion di-brofiad, nad ydynt ond newydd ddechreu arnynt, a fyddant yn boenus jawn ac yn flinderus; ond os bydd ganddynt Ammynedd a Chalondid i ddal allan, Arfer a'u gwnâ hwynt yn fuan yn hawdd i'w dioddef; a chwedi iddynt eu harferu cyhyd, nes gwelont ac y profont y Ffrwythau bendigedig o honynt, pa gymmaint a ddarfu iddynt ddiwygio ar eu Tymherau, newid eu Tueddiadau, a llyfnhâu eu Natur arw, afluniaidd; â pha Raſuſau cariadlawn, a Chynheddfau duwiol, y darfu iddynt eu haddurno a'u trwſio hwynt; gweled a theimlo hyn a'u trŷ hwynt oll yn Ddifyrrwch hyfryd. Fel y bydd i'r Arfer o honynt yn llyn eu gwneuthur hwynt yn hawdd, felly y bydd i'r Ffrwythau bendigedig o honynt eu gwneuthur yn hyfryd; Arfer a'u gwnâ yn hawdd fel Natur, a'u Ffrwythau a'u gwnâ hwynt yn ddewiſol fel Gwobr. Ac os felly, pa ham y gwangalonnem, Greaduriaid llwſr fel yr ydym, o achos yr ychydig Anhawſdra preſennol ymma, yr hwn y bydd i'n Diwydrwydd yn fuan ei wiſgo i maes, a'i droi i Eſmwythder a Hyfrydwch?

VII. Yſtyriwch, fod llawer jawn o Heddwch a Boddlonrwydd preſennol yn gymmyſgedig â'r Anhawſdra ſydd ynddynt. Os cwympo yn ôl drachefn a wnewch at eich hên Chwantau, yn lle'r Anhawſdra preſennol ydych yn ofni, rhaid iwch' ddiſgwyl cael y Blinder o Enaid euog i ymdrech ag ef; yr hyn a fydd yn fwy blinderus o lawer i chwi nâ hwy, os oes dim Teimlad o Ddduw, ac o Dda a Drwg, ynnoch. Ond os myned ymlaen a wnewch, chwi ddugwch gyd â chwi Feddwl llonydd, boddlongar; Cydwybod a'ch groeſawiff chwi o hŷd â'r fath Fyfyrdodau melus

melus a thawel, ag a dâl yn helaeth i chwi am yr holl Galedi a'r Anhawſdra yr ydych yn ymryſon ag ef ar y Ffordd; a fydd beunydd yn adſeinio filoedd a miloedd o weithiau, o herwydd eich Ymroad diragrith, y Lleiſiau goreu a meluſaf hynny, *Da, Wâs da a buddiol!* mor wŷch y rhyddhêaiſt di dy hun! mor wrol y ſefaiſt ti wrth dy Ddyledſwydd yn erbyn pob Gwrthwynebiad! ac â pha Fwriad mawrwych y gwrth'nebaiſt di yr holl Brofedigaethau hynny ag oeddent i'th erbyn! Yn awr y mae'n ddigon o Annogaeth i bwyſo yn erbyn miloedd o Galedi, ſod gan Ddŷn ei Feddwl ei hun yn waſtadol yn rhoi Gair da iddo, ac yn coroni ei Weithredoedd â Chanmoliaeth ei Gydwybod; a'i ſod ef yn teimlo iddo wneuthur ei Ddyledſwydd, a bod Duw oddi uchod, a'r neb ſydd yn lle Duw oddi ſewn iddo, bob un o honynt yn ſoddlon iddo, a rydd iddo'r fath Flâs hyfryd ar bob Gweithred o'i Filwriaeth, na fydd yr Anhawſdra ond gwas'naethu yn unig i wneuthur yr Hyfrydwch yn fwy.

Ac fel y caiff efe Heddwch mawr a Boddlonrwydd tra y mae yn ymryſon â'r Anhawſdra hyn; felly wedi iddo eu gorchfygu mor belled, ag na's gallont mwyach ei gadw a'i attal ef rhag ymarfer y Rhinweddau nefol yn rhwydd ac yn fywiog, ond y gall efe yn hawdd, er eu gwaethaf hwynt, ffrwyno ei Anwydau a'i Chwantau yn ôl Cyfreithiau ei Reſwm, a charu yn rhwydd, ac addoli, a chanlyn, ac ymoſtwng i'r Byth-fendigedig Duw, a hyderu ynddo, a dangos yn ewyllyſgar Blainder a Symlrwydd digymmell, Ewyllys da a Charîad, Ufudd-dod ac Ymoſtyngiad, Heddwch a Chyttundeb tu ag at bob Dŷn; pan y bo efe, meddaf, cyn belled wedi gorchfygu Caledi ei Filwriaeth, ag y gallo gyd â dim meſur o Rwydd-deb ac Egni oſod allan yr holl Rinweddau nefol hyn, ſe fydd ei Gyflwr nid yn unig yn eſmwyth, ond yn nefol. Can's y Graſuſau nefol ydyw'r Archwaeth trwy ba un y mae'r Enaid yn profi ac yn blaſio ei Nefoedd, yr Offerynnau bendigedig a'r Synhwyrau trwy ba rai y mae hi yn teimlo ac yn amgyffred Llawenydd y Bŷd a ddaw, ac heb ba rai ni's gall mo'u blaſio na'u mwynhâu hwynt, mwy nag y gall y Cŵch dideimlad brofi Meluſder y Mêl ſydd ynddo.

Ac

Ac am hynny po fwyaf bywiog a gwiſgi a ſo'r Offerynnau nefol hyn o eiddo'r Meddwl, a pho fwyaf y dilwyther hwynt oddi wrth y Chwantau cnawdol, cythreulig hynny, ag ſydd yn eu rhwyſtro hwynt i deimlo a dyall, gwell Blâs a gânt o lawer ar Lawenydd a Phleſerau 'r Nefoedd. Fel pan fo i ni, trwy ddyfal-arfer y Dyledſwyddau milwriaethus hyn mewn Crefydd, orchfygu Tueddiadau drwg ein Natur, y rhai ſydd yn gwneuthur y Rhinweddau nefol mor anhawdd i ni, ac ſydd yn gymmaint o Rwyſtr i ni i'w hymarfer hwynt, nyni a gawn weled ein bod ni mewn Nefoedd ar y Ddaear, ac fe fydd pob Gweithred rinweddol yn Flaen-brawf o Lawenydd y Cyflwr nefol. A chwedi cyrraedd i'r Cyflwr bendigedig hwn, ymha un y mae pob Rhinwedd nefol mor naturiol i ni, fe fydd i'r Profiad melus a gaffom o'r Llawenydd a'r Hyfrydwch anhraethadwy ſy mor llawn ynddo, beri i ni edrych yn ôl gyd â Boddlonrwydd rhyfedd ar yr holl Anhawſdra hynny a ddarfu i ni ymryſon â hwynt ar ein Ffordd iddo, a bendithio y Gweddiau a'r Dagrau, a'r Ymdrech hwnnw â ni ein hunain, y Gwyliadwriaethau maith a'r Hunan-ymholiadau hynny, &c. trwy ba rai y darfu i ni yn awr o'r diwedd eu gorchfygu a'u daroſtwng hwynt.

Am hynny, gan fod yr Ymarfer o'r Dyledſwyddau milwriaethus hyn â chymmaint o Heddwch preſennol yn cyd-gerdded ag ef, a thrwy ei Amcan a'i Dueddiad naturiol yn ein harwain ymlaen i Gyflwr o gymmaint o Hyfrydwch a Boddlonrwydd, pa Ynfydrwydd ydyw i Ddŷn gael ei gadw oddi wrtho, trwy'r ychydig Galedi preſennol ſydd yn ei ddilyn! Pa Ddŷn ag ſydd yn chwennych ei Lês ei hun, a beidiai byth â chanlyn y fath Filwriaeth ennillfawr, ymha un y caiff efe, i wneuthur Taliad am y Poen preſennol y mae ynddo, nid yn unig feddiannu Heddwch Cydwybod yn breſennol, ond Sicrwydd o Fywyd happus yn ôl llaw, wedi iddo orchfygu yr Anhawſdra y mae yn ymryſon ag ef!

VIII. Yſtyriwch, fod Gwobr y Dyledſwyddau hynny yn Daliad helaeth am eu Caledi hwynt. Ni thybia Meddwl gwrol-wych ddim Moddion yn rhy galed a fo yn tynnu at Ddibennion enwog a theilwng: wrth ganlyn y rhai'n,

thai'n, nid yw cael ei wrth'nebu ond hogi ei Wroldeb a'i Fwriad yn fwy. Fel yn ddiammau pe bae un Wreichionen o Wychder ynnom, fe barai Maint a Godidowgrwydd y Diben ydym yn ganlyn i ni ddirmygu pob Caledi ar y Ffordd iddo. Pa Yſbryd gwael ynte ſydd yn ymddangos ynnom ni, ein bod, fel yr ydym, yn arſwydo o achos Caledi Crefydd; yn tybied yn fawr dreulio ychydig o Ddyddiau neu Flynyddau yn y Bŷd hwn i ymdrech ac ymryſon â'n Tueddiadau, i yſtyried ac i wylio, i daer-weddio a holi ein hunain yn llym-doſt; pan y mae gennym Sicrwydd ymlaen-llaw, y cawn, ar Ddiwedd y Frwydr ferr hon, ein dwyn ymmaith gan Angelion mewn Gorfoledd i'r Nefoedd, a derbyn yno, gan Dywyſog ein Jechydwriaeth, Goron o Lawenydd a Gorfoledd tragywyddol; pan y caffom, ar ôl ychydig o Fynudau o Boen a Llafur, fyw myrddiwnau o fyrddiwnau o Oeſoedd tra happus yn y Mwynhâd tra gorfoleddus o Ddaioni diderfyn, a chwedi darfod y rhai'n, gennym gynnifer a hynny o fyrddiwnau o fyrddiwnau yn rhagor i fyw! Pa fath beth digydwybod ydyw i ni achwyn am ddim Caledi, a chennym y fath Daledigaeth fawr o Wobrwy yn ein Golwg! Yn Enw Duw, Ha-wyr, pa beth a fynnech chwi gael? P'am? ni fynnem i'r Nefoedd ddiferu i lawr i'n Geneuau ni, heb ein goſod i'r holl Flinder hyn i'w chyrraedd a dringo ar ei hôl. A fynnech chwi felly? Dymuniad gweddus jawn yn wir ydyw: hynny yw, chwi fynnech i Dduw'r Nefoedd gymmell ei Fendithion arnoch chwi, tra'r ydych yn eu gwawdio a'u dirmygu hwynt, a goſod ei Nefoedd dan Draed Torf o *Wenyn Ormes*, nad ydynt yn tybied y tâl eu Gwaith hwynt i fyned allan o'u Cŵch i'w chaſglu hi. O! rhag Cywilydd, edrychwch unwaith etto ar y Nefoedd, ac yſtyriwch drachefn beth ydyw preſwylio ym Mharadwys y Bŷd gyd â Duw, ac Angelion, a Saint, ac yn eu Cymdeithas fendigedig hwy i fyw allan Dragywyddoldeb yn y Myfyrdodau, a'r Cariad, a'r Llawenydd hyfryttaf; i drochi Pwerau helaeth ein Heneidiau mewn Afon o Bleſerau yr hon ſydd yn rhedeg droſti, ac mewn Eſmwythder perffaith, Jechyd, a Bywiogrwydd Meddwl, i ymberthi ar Ddedwyddwch ſydd mor helaeth ag allwn ni ei gynnwys,

ac

ac mor barhâus ag ydym ni ein hunain. A ydyw hon mor fychaned Gwobr, ag y bo i ni ei dybied yn Beth mawr i lafurio ac ymdrech am dani? Onid yw'r Gobaith o gael ein digoni yn dragywyddol, yn ddigon o Annogaeth i beri i ni watu ein Chwantau a'n Gwyniau drcs ychydig Fynudau? neu, onid oes digon o Ddaioni mewn Gorphwysfa dragywyddol, i wneud Taliad am Lafur ac Ymdrech ychydig o Ddyddiau a Blynyddau? Beth er eich bod yn dyhêu ac yn ymboeni yn awr tra'r ydych yn dringo y Bryniau tragywyddol? Moliant i Dduw, nid ydyw mor belled i'w pen uwchaf, na bydd i'r Awelau hyfryd a'r Olwg ogoneddus a gaffoch fwynhâu yn dragywydd yno, wneuthur Taliad mor helaeth am Anhawfdra yr Efgyniad i fynu, ag y bydd i chwi, yn lle achwyn o'i blegid, feddwl am dano gyd â Phlefer a Hyfrydwch i Oefoedd Tragywyddoldeb. Am hynny, pan fo eich Gwroldeb yn dechreu llaefu o herwydd Caledi eich Milwriaeth, gwnewch ond derchafu eich Golygon at Daledigaeth y Gwobrwy; ac yn ficr, od oes dim Calon ynnoch, fe cefnoga hynny chwi â'r fath Fwriad gwŷch, na bo dim yn rhy galed i chwi ond yr hyn a fo yn gwbl amhoffibl. Can's pa fodd y gallwn ni wangalonni wrth weled un Caledi ag a allom ei ortrechu, cyhyd ag y bom yn cael ein hannog i gredu hyn; fef, *Os bydd ein Ffrwyth i Sancteiddrwydd, y bydd ein Diwedd yn Fywyd tragywyddol?*

DOSBARTH. V.

Ynghylch y Dyledfwyddau hynny ag ydynt yn perthyn tu ag at Berffeithio *a* Chwplhâu *ein* Milwriaeth Gris'nogol; *yn dangos pa rai ydynt, a pha mor effeithiol y maent yn gweithio tu ag at ein* perffeithio *ni yn Rhinweddau y* Fuchedd Nefol.

AF yn awr ymlaen at y Drydydd Ran a'r olaf o'n Milwriaeth Gris'nogol; fef, y *Cwplhâd* o honi: yr hyn yw, *Parhâd hyd y Diwedd.* Can's wedi i ni ymrwymo

yn

yn y Gwaith, a gwneuthur rhyw Gynnydd ynddo, ein Gofal neſaf a'n Dyledſwydd ydyw, na bo i ni wrthgilio; a thynnu yn frwnt yn ôl oddi wrth yr hyn a ddarfu i ni mor llwyddiannus gymmeryd arnom, a'i ymlid hyd yn hyn mor effeithiol; ond i ni barhâu cyhyd ag y bom byw mewn Rhyfel amlwg â'n Pechodau, ac ymrôi i erlid a marweiddio ein Tueddiadau attynt, a pharhâu yn yr Ymarfer o bob Rhinwedd; gan ymrôi beunydd trwy hynny i gynnyddu ymlaen i Berffeithrwydd, fel y gallom farw megis y buom hyd yn hyn fyw, a chwplhâu ein Milwriaeth mewn Buddugoliaeth yn y Diwedd; a phan ddelo ein Harglwydd, neu ddanfon ei Genhad, Angau, i'n gwyſio ni allan o'r Maes, y ceffir ni yn ymladd dan ei Faner ef yn erbyn Pechod, y Byd, a'r Diafol, ac o'r diwedd marw, megis y buom fyw, yn Ganlynwyr ac yn Filwyr ffyddlon iddo. Can's hyn y mae efe yn anhepgorol yn ofyn oddi wrthym; ſef, i ni *fod yn ffyddlon hyd Angau*, Dad. ii. 10. y rhaid i ni *ddyfal-barhâu yn gwneuthur Daioni*, Rhuf. ii. 7. y rhaid i ni *barhâu hyd y Diwedd*, Mat. x. 22. a *dal Dechreuad ein Hyder yn ſicr hyd y Diwedd*, Heb. iii. 14. i ni *gadw ei Weithredoedd ef yn ſicr hyd y Diwedd*; ac yn y Diwedd *orchfygu*, yn gyſtal ag ymladd, *Dad.* ii. 26. mewn gair, *wedi goſod ein Dwylaw ar yr Aradr, nad edrychom yn ôl*, Luc xvi. 26. ond *bod yn helaeth yng Ngwaith yr Arglwydd yn waſtadol, a ni yn gwybod na bydd ein Llafur ni yn ofer yn yr Arglwydd*, 1 Cor. xv. 58. Yſtyr hyn i gŷd ydyw, y dylem nid yn unig ddechreu ein Milwriaeth Gris'nogol hon, a'i chanlyn dros Amſer; ond y dylem fyned ymlaen a pharhâu ynddi cyhyd ag y bom byw, heb oſod byth mo'n Harfau i lawr nes goſodom i lawr ein Bywyd. Tu ag at hynny, megis y rhaid i ni beunydd barhâu yn yr Ymarfer o'r Dyledſwyddau hynny ag ſydd yn perthyn i'n Taith a'n Cynnydd yn ein Milwriaeth, felly y mae amryw o Ddyledſwyddau eraill a raid i ni eu hymarfer, y rhai ſydd yn fwy unjon-gyrch yn gweithio tu ag at i ni ei chwplhâu, a llwyddo yn y Diwedd. Y rhai i gŷd a gynhwyſaf dan y Pennau a ganlyn.

I. I ni, tra fom yn ſefyll, beidio hyderu gormod arnom ein hunain; ond cadw Golwg ddrwgdybus beunydd ar Wendid ac Anwadalwch ein Natur.

II. Os bydd i ni un amſer gwympo a throſeddu yn ewyllyſgar, nyni a ddylem yn fuan gyfodi drachefn trwy Edifeirwch.

III. I ragflaenu y fath Lithriadau a Throſeddau yn ôl llaw, y dylem ymrôi i dynnu ein Serchiadau oddi wrth Brofedigaethau'r Byd; ond yn fwy enwedigol oddi wrth y rhai'ny ag oeddent yr Achos o'n Cwymp.

IV. Y dylem chwilio yn fanylach am y Deffygion ſydd lai, a'r Pethau ſydd anweddus yn ein Natur; fel y bo i ni wellhâu a cheryddu y rhai'ny.

V. Y dylem, cyn belled ag y gallom yn gyfreithlawn hynny, fyw mewn Cymmundeb clôs â'r Eglwys o ba un yr ydym yn Aelodau.

VI. Na ddylem, allan o Dŷb gwâg ein bod yn dda ddigon eiſoes, derfynu ein Taith mewn Creſydd i un Grâdd neu Feſur pennodol o Ddaioni.

VII. Y dylem feddwl yn fynych am ein Marwoldeb, ac ymrôi i oſod ein hunain ymlaen-llaw mewn Agwedd dda i farw.

VIII. Y dylem, tu ag at hynny, fod yn ofalus rhyfedd i ryddhâu ein Cydwybodau oddi wrth bob Gweddillion o'n Heuogrwydd gynt.

IX. Y dylem, cyn belled ag y gallom, er gwneud rhyw Jawn am y rhai'n, brynu'r Amſer a dreuliaſom gynt mewn Ffyrdd pechadurus, trwy ddyblu ein Diwydrwydd yn yr Ymarfer o'r holl Rinweddau ſydd wrthwyneb i'r rhai'n, a gwneuthur yr holl Ddaioni ag allom yn wrthwyneb i hynny.

X. Y dylem ymegnio am y fath Sicrwydd o'r Nefoedd ag a fo gyd â Rheſwm, a chwedi ei ſeilio yn dda.

I. Tu ag at berffeithio a chwplhâu ein Milwriaeth Gris'nogol, y mae'n angenrhaid, tra fom yn ſefyll, na oſodom ormod o'n Hyder arnom ein hunain; ond cadw beunydd Olwg ddrwgdybus ar Wendid ac Anwadalwch ein Natur. Can's fel hyn y mae'r Apoſtol yn mynegi mai Ewyllys Duw ydyw, *nad ymddiriedom ynnom ein hunain;*

ain; hynny yw, nad hyderom ormod ar ein *Nerth* a'n *Gallu* ein hunain, 2 *Cor.* i. 9. Ac mewn Man arall y mae efe yn ein rhybuddio, *Tr hwn ſydd yn tybied ei ſod yn ſefyll*, (neu, fel y mae'r Amſer preſennol yn cael ei oſod yn lle'r Amſer a ddaw, megis y mae yn fynych jawn, *Tr hwn ſydd yn tybied y bydd iddo ſefyll*) *edrycbed na ſyrthio*, 1 Cor. x. 12. Felly hefyd, Rhuf. xi. 20. *Trwy Ffydd yr ydwyt yn ſefyll. Na fydd uchel-fryd; eithr ofna*: hynny yw, Dy Ffydd ſydd yn dy gynnal; ond na fydd ry ddiofal ynghylch y Peth ſydd yn dy gynnal, rhag i tithau hefyd ſyrthio a bod yn golledig, fel y digwyddodd i'th Frodyr yr *Iuddewon* o'th flaen di. Ac am hynny y gorchymyner i ni *weithio allan ein Jechydwriaeth trwy Ofn a Dychryn*, Phil. ii. 12. hynny yw, gyd â Gofal ſanctaidd ac Eiddigedd; rhag ryw amſer neu gilydd i ni gael ein temtio a'n gorchfygu, a bod yn golledig yn y Diwedd. Ac yn wir nid oes dim yn goſod Dynion dan fwy o Berygl o ſyrthio, nâ gormod o Hyder yn eu Nerth eu hunain. Y mae hyn yn peri iddynt anturio ar filoedd o Brofedigaethau, y rhai a allaſent yn dêg ac yn gallach o lawer eu gochelyd, ac yn eu gwthio hwynt yn ddiſwrw i'r fath Achlyſurau ac Odfeydd hudol o Bechu, ag ſydd yn rhy fynych yn eu rhwydo ac yn eu bradychu hwynt, er gwaethaf eu holl Fwriadau da i'r gwrthwyneb. Ond pe buaſent hwy yn eu drwgdybio eu hunain, a pheidio rhyfygu gormod ar eu Sicrwydd eu hunain, hwy allaſent lawer gwaith gadw allan o Ffordd Niweid, a gochelyd y Rhwydau a'u maglodd hwynt; ond trwy anturio, fel *Samſon*, i oſod eu Pennau i lawr ar Arffed *Dalila*, gan hyderu ar Rym eu Bwriad eu hunain, hwy a hudwyd yn ddiarwybod iddynt, ar ôl ychydig o Ball lleſg, i fradychu eu hunain i Rwyd y Diafol.

Ac megis yr ydym, trwy hyderu gormod yn ein Nerth ein hunain, yn ein goſod ein hunain dan amryw o Brofedigaethau afreidiol; felly yr ydym hefyd, yn rhy fynych, yn cyffrôi Duw i dynnu ei Râs a'i Gymmorth oddi wrthym, ac i'n gadael i ymryſon wrthym ein hunain â'r Profedigaethau hynny i ba rai yr ydym ni mor hyderus yn ein bwrw ein hunain. Can's fel y mae efe bob amſer yn barod i'n cynnorthwyo ni, felly y mae efe beunydd yn

diſgwyl i ni gydnabod ein Heiſiau o hono ef, a'n Hyder arno ef, a pheidio rhyfygu gormod ar ein Nerth ein hunain; yr hwn, heb ei raſol Gyd-weithrediad ef, ſydd Wendid ac Anallu. Pan y bom ni gan hynny yn rhedeg i Brofedigaethau heb Alwad ac Awdurdod Duw, mewn Hyder ar ein Gallu ein hunain i'w gwrthſefyll a'u gorchfygu, y mae efe yn fynych yn ein gadael ni heb ei Help a'i Gymmorth, fel y bo iddo goſbi ein Rhyfyg trwy adael i ni gael ein gortrechu, a'n hargyhoeddi, trwy y Profiad truenus o'n Cwymp, mor analluog ydym i ſefyll heb ei Help a'i Gynhaliaeth ef. Yr ydym yn gweddio bob Dydd, nad arweinio Duw nyni i Brofedigaeth; ond os gwêl efe fod yn dda wneuthur felly er ein profi, y mae gennym bob Sicrwydd, os na fyddwn ni yn ôl i ni ein hunain, *na âd efe i ni gael ein temtio uwchlaw'r hyn a allom; eithr y gwnâ efe, ynghŷd â'r Temtaſiwn, Ddianghefyd, fel y gallom ei ddwyn*, 1 Cor. x. 13. Ond os arweiniwn ni ein hunain i Brofedigaeth, mewn Hyder ar ein Gallu ein hunain i ymryſon â hi, ac i dorri trwyddi, y mae Duw mor belled oddi wrth fod yn rhwym i'n nerthu ni yn ein Ffolineb a'n Byrbwylldra diwarant, a chael ei gyffrôi yn gyſiawn trwy hynny i'n gadael ni i ni ein hunain; ac, fel Canlyniad ſicr o hynny, i'n gollwng i gael ein gortrechu a'n harwain yn gaeth. Am hynny, fel yr ydym yn gobeithio parhâu hyd y Diwedd, a dibennu ein Milwriaeth yn happus, y mae'n angenrhaid jawn i ni gadw Golwg eiddigeddus beunydd arnom ein hunain, a pheidio hyderu gormod ar ein Nerth a'n Gallu ein hunain.

II. Tu ag at ein Parhâd hyd y Diwedd yn y Filwriaeth Gris'nogol, y mae hefyd yn angenrheidiol, os bydd i ni un amſer ſyrthio a throſeddu yn ewyllyſgar ynddi, i ni yn fuan gyfodi drachefn trwy Edifeirwch. Can's y peth a waherddir i ni mewn perthynas i un Pechod, ſydd yn cyrraedd yn yr un modd at bob Pechod. *Na fachluded yr Haul ar eich Digofaint chwi*, Eph. iv. 26. hynny yw, Os darfu i chwi yn ewyllyſgar roddi'r Ffrwyn yn rhŷdd i'ch Digofaint, na adewch iddo dorri allan i Gabl; ond edifarhêwch am dano yn fuan cyn machludo'r Haul: yn ôl hên Ymarfer y *Pythagoreaid*, y rhai y mae *Plutarc* yn cry-

bwyll

bwyll am danynt, y rhai pan cwympent un amſer i ymſennu ac ymdaeru o Ddigofaint, oeddent yn waſtadol yn cymmeryd Gofal cyn machludo Haul i wneuthur Heddwch, a pheunydd oeddent yn ſiglo Dwylaw â'u gilydd, ac yn coffeidio eu gilydd. A Rheſwm y Gwaharddiad (yr hwn a gewch chwi yn yr Adnod néſaf; ſef, *Ac na roddwch Le i Ddiawl*: hynny yw, trwy adael i'ch Digofaint gynnyddu i Falais digaſog) ſydd yn cyrraedd at bob Pechod arall yr un modd; y rhai, oni ddiwreiddier hwynt yn fuan trwy Edifeirwch, a dyfant yn fuan yn Arferion. Ac felly y mae gennym gymmaint o Reſwm i edifarhâu am ein Trachwant cyn i'r Haul gyfodi arno, ac am ein Twyll a'n Trais cyn y bo iddo redeg ei Yrfa arno, ag ſydd gennym i edifarhâu am ein Digofaint cyn y machludo arno. Ac yn ganlynol, wrth yr un Rheſwm, rhaid i'r Gwaharddiad gyrraedd pob Pechodau eraill yn gyſtal a hwn; a'n rhwymo, pa bryd bynnag y pechom yn ewyllyſgar mewn un peth, i'w alw yn ôl, a'i ddiwygio trwy Weithred fuan o Edifeirwch.

Cân's y mae'r hwn ſydd wedi pechu yn ewyllyſgar, ac heb edifarhâu am dano, yn parhâu trwy'r holl Amſer yn Wrthryfelwr gwrthnyſig yn erbyn Duw; ac y mae efe mor belled oddi wrth barhâu yn y Filwriaeth Gris'nogol, a'i fod efe wedi rhoi ei Enw i mewn i fod yn Filwr gwirfodd yng Ngwaſanaeth y Gelyn. Ac os wedi pechu o honom yn llyn, y daw Marwolaeth i daro rhyngom a'n Hedifeirwch (a phwy a wyr na ddaw efe, os nid edifarhâwn ni yn fuan?) ni fyddwn mor belled oddi wrth ddibennu ein Milwriaeth Gris'nogol â Buddugoliaeth, ag y bydd i ni yn lle hynny farw yn Gaeth-weiſion i'r Diawl. Ond yna, megis yr ydym trwy Bechu yn ewyllyſgar yn ymadael â Duw, felly trwy barhâu yn anedifeiriol dan Bechod, yr ydym beunydd yn rhedeg bellach bellach oddi wrtho; a thrwy hynny yn gwneuthur y fath Fwlch llydan a'r fath Rwyſtr ar ein Taith mewn Crefydd, na's galler yn hawdd ei wneuthur i fynu drachefn: ond pe buaſem ni yn edifarhâu, ac yn dyfod yn ôl, heb oedi cyn gynted ag yr aethom ar gyfeiliorn oddi wrth ein Dyledſwydd, nyni a allaſem yn fuan ennill y Tir a gollaſom trwy hynny;

a myned mor belled yn y blaen, trwy ychydig o Ddiwyd-rwydd yn rhagor, a phe buaſem heb ſtoppi oll ar ein Taith. Trwy oedi ein Hedifeirwch, yr ydym yn ein goſod ein hunain bellach bellach yn ôl; ac nyni a fyddwn bob Dydd lai lai ein Tueddrwydd i ddychwelyd. Can's yng Ngyrfa Crefydd nid oes dim ſefyll yn llonydd; ond yr ydym yn myned naill ai ymlaen neu yn ôl cyhyd ag y bom byw: a phan elom unwaith allan o'n Ffordd, yr ydym beunydd yn myned ymhellach o honi, hyd y fath Amſer ag y dychwelom yn ôl drachefn; ac yn ganlynol, po hwyaf y byddom allan o'r Ffordd, anhawſach fydd dychwelyd, a phellach a fyddwn oddi wrth Ddiwedd ein Ffordd. Can's pan bechwyf gyntaf, ag y bo Clwyf fy Niniweidrwydd etto yn îr ac yn newydd, gellir yn hawdd ei wellhâu, trwy gymhwyſo atto mewn amſer Gyfaddefiad athriſt a Bwriad newydd o Wellhâd: ond os bydd i mi ei eſgeuluſo, efe a bydra, ac a â yn Gig marw; fy Nheimlad o hono a galeda, a'm Tueddrwydd atto a ddaw bob Dydd yn gryfach; ac yna, oddieithr iddo gael ei ffleimio, a'r Cig drwg ei fwyta trwy Edifeirwch llym-doſt, hir, a phoenus, fe dry yn Glwyf na's galler mo'i feddyginiaethu. Am hynny y mae'r Apoſtol yn gorchymmyn i ni *gynghori eu gilydd bob Dydd, tra gelwir hi Heddyw*: hynny yw, i edifarhâu tra y gelwir hi Heddyw; *fel na chaleder neb o honom trwy Dwyll Pechod*, Heb. iii. 13. Fel pan bechom yn ewyllyſgar, yr ydym yn rhedeg Perygl mawr p'un a wnawn a pharhâu hyd y Diwedd, os nid edifarhâwn yn fuan. Can's trwy gydol yr Amſer y bom yn oedi, y mae'n Cydwybod yn dyfod yn fwy ſeriedig, a'n Trachwant yn gadarnach; a Duw a wyr pa le y diwedda efe: ond peth i'w ofni a'i ddrwgdybio yn fawr, ydyw, y bydd i'r Briw a gawſom trwy ein Cwdwm, o'i eſgeuluſo, fyned waeth waeth, a dibennu mewn Anedifeirwch diweddol. Am hynny, fel yr ydym yn amcanu parhâu i wneuthur Daioni, y mae'n perthyn i ni yn y lle cyntaf i gymmeryd pob Gofal a fo boſſibl na roddom Le i un Pechod gwyllyſgar, na gadael i ni ein hunain gael ein temtio trwy unrhyw Obaith neu Ofn oddi wrth ein Bwriadau da; ond os bydd i'n Tueddiadau drwg un amſer gael y trechaf arnom, i

edifarhâu

edifarhâu yn ddifrifol, ac heb oedi, i wneuthur Cyffes athrift o'n Pechod ger bron ein Duw a ddigiafom, ac adnewyddu ein Bwriad yn ei erbyn mewn Modd arbennig; fel y bo i ni mewn Amfer attal y Drwg rhag cynnyddu, cyn y gofodo efe nyni yn y Perygl o wrthgilio hyd y Diwedd.

III. Fel y bo i ni barhâu hyd y Diwedd, y mae'n angenrheidiol, i ragflaenu y fath Lithriadau a Throfeddiadau yn ôl llaw, i ni ymrôi neillduo ein Serchiadau oddi wrth Brofedigaethau'r Byd; ond yn fwy enwedigol oddi wrth y Profedigaethau hynny ag oeddent yn Achofion o'n Cwymp. Can's felly y gwaherddir yn gaeth, i ni *ofod ein Serchiadau ar y Pethau fydd ar y Ddaear*, Col. iii. 21. i *garu'r Byd, a'r Pethau fydd yn y Byd*, 1 Joan ii. 15. i *dryfori i ni ein hunain Dryforau ar y Ddaear*, Mat. vi. 19. A gwir Nôd y Criftion cywir ydyw, ei fod ef *wedi ei groefhoelio i'r Byd*, Gal. iv. 14. ac ymddwyn *fel Dieithriaidd a Phererin ynddo*, Heb. xi. 13. Megis, o'r tu arall, mai gwir Nodau rhai Digrêd a Gwrthgilwyr ydyw, *fynied Pethau daearol, a charu Melus-chwant yn fwy na charu DUW*, Phil. iii. 19. wedi ei chymmaru â 2 *Tim.* ii. 4. Ac mor anghyttunol yw Serch anghymmedrol at y Byd à'n Parhâd yn y Filwriaeth Gris'nogol! fel y mae S. *Jago* yn dywedyd yn amlwg wrthym, fod *Cyfeillach y Byd yn Elyniaeth i DDUW*, Jago iv. 4. Ac y mae'r 'Sgrythur yn fynych yn mynegi, mai Achos ein Gwrthgiliad ni ydyw, gormod o Gyfeillach â'r Byd, 2 *Tim.* iv. 10. Ac y mae'r Apoftol yn dywedyd wrthym, *fod y rhai fydd yn ewyllyfio ymgyfoethogi*, hynny yw, fydd â Chwbydd-dod anghymmedrol ynddynt ar ôl Cyfoeth, *yn fyrthio i Brofedigaeth a Magl, a llawer o Chwantau ynfyd a niweidiol; y rhai fy yn boddi Dynion i Ddinyftr a Cholledigaeth*: ac mai *Gwreiddyn pob Drwg yw Arian-garwch*, 1 Tim. vi. 9, 10. Oddi wrth hyn i gŷd y mae'n amlwg mor angenrheidiol ydyw, tu ag at ein Parhâd, i ni ymrôi i ddiddyfnu a thynnu ein hunain oddi wrth y Byd.

Can's Tryfordy o'r holl Brofedigaethau hynny ag fydd yn taer-hudo ac yn ymgyrchu ein Rhinwedd a'n Diniweidrwydd, ydyw'r Byd hwn; a naill ai Gobaith o ryw Bleser bydol,

bydol, neu Elw, neu Anrhydedd, ſydd yn ein hudo, neu Ofn rhai o'r Drygau gwrthwyneb i'r rhai'n ag allo ddigwydd i ni yn Ffordd Creſydd, ſydd yn ein dychrynu ni oddi wrth ein Dyledſwydd. Tra'r ydym gan hynny yn caru y Pethau da a'r Pethau drwg hynny ag ydynt yn hudo i Bechod yn anghymmedrol, yr ydym mewn Perygl mawr o gael ein gorchfygu a'n caethiwo ganddo. Can's nid er mwyn Pechu y mae Dynion yn pechu, ond er mwyn y Pethau da hynny ag ſydd yn cyd-gerdded â'u Gwaith hwy yn Pechu, neu i ochelyd y Pethau drwg hynny a ddigwydd iddynt o beidio Pechu; ac yn ganlynol, po fwyaf y bo Dŷn yn caru y Pethau da hynny ag ſydd yn glynu wrth Weithred bechadurus, mwyaf fydd ei Dueddrwydd ef i'w gwneuthur hi; a pho fwyaf y bo efe yn ofni y Drygau hynny ag allo efe yn hawdd jawn eu gochelyd trwy Weithred bechadurus, mwyaf i gŷd fydd ei Dueddiad ef atti. Am hynny, tu ag at ddiogelu ein Parhâd yn y Filwriaeth hon yn erbyn Pechod, y mae'n hollawl-angenrheidiol i ni fod o jawn Farn ynghylch Pethau da a Phethau drwg y Bŷd hwn, a bod gennym lai o Serch attynt; yn enwedig at y rhai'ny a gafodd y trechaf arnom. Can's y mae'r Brofedigaeth ſydd yn ein gortrechu yn amlygu yr Ochr wan o'n Natur, ac yn dangos i'r Diawl pa Dda neu Ddrwg ſy debyccaf i'n hudo neu'n dychrynu ni; a diau na bydd y Temtiwr cyfrwys hwnnw, yr hwn a fu gynnifer o filoedd o Flynyddau yn aſtudio y Ffyrdd i'n hudo ni, ddim yn ôl o'n cyrchu ni drachefn, lle y bu efe eiſoes yn llwyddiannus: ac am hynny y mae'n perthyn i ni ymnerthu ein hunain yno, lle y mae gennym gymmaint o Reſwm i ddiſgwyl y bydd i'r Gelyn ein cyrchu ni; ac i fod o jawn Dŷb am y Pethau hynny, a marweiddio ein Serchiadau attynt, y rhai eiſoes a ſiommodd gymmaint ar ein Rhinwedd a'n Diniweidrwydd. Can's ein Tŷb ni ſydd yn rhoddi Bywyd ac Effaith i Swynion a Dychrynfeydd y Bŷd, ac yn eu gwneuthur mor llwyddiannus yn ein herbyn: yr ydym yn ffanſio fod y Peth hwnnw ynddynt nad yw; ac felly nid y Pethau eu hunain ſydd yn gweithio arnom gymmaint, a'r Cam-ddarluniad ydym ni yn wneuthur o honynt.

Can's

Can's y mae'n amlwg fod Pethau da y Bŷd hwn yn rhwymedig i ni ein hunain am y Rhan fwyaf o'r Tegwch hwnnw â pha un y maent yn ein temtio a'n hudo ni; a'n Gwâg-dyb ni ſydd yn rhoddi y Lliw a'r Paint â pha un y maent yn ſwyno ac yn tynnu ein Serchiadau ar eu hôl; ac felly am Ddrygau 'r Bŷd, ein Tŷb ni ſydd yn eu lliwio hwynt yn fath Fwbachod, ac yn dodi y fath Olwg erchyll arnynt i'n hofni a'n dychrynu ni. Pe baem ni gan hynny yn cymmeryd Gofal ar fod gennym jawn Farn am bob un o'r ddau, a'u dioſg hwynt o'r Dychrynfeydd a'r Hudoliaethau ydym ni yn dybied fod ynddynt, ſe fyddai i ni trwy hynny eu diarfogi hwynt o'u Grym pennaf, a'u gwneuthur yn fwy alluog o lawer i'n hudo ni o hynny allan. Ac mi dybygwn y gallem yn hawdd wneuthur hyn, pe goſodem Gyflwr ac Agwedd breſennol Pethau yn dêg o'n blaen. Can's math o Greaduriaid ydym ni ag ſydd bob Munyd yn trafaelu oddi ymma i Fŷd tragywyddol, lle y cawn Ddedwyddwch neu Drueni anhraethadwy; a'r cwbl ag ydym yn fwynhâu neu yn ddioddef yn y Bywyd hwn, nid yw ond Cymhwyſder neu Anghymmwyſder Taith ferr i hîr Artref; ac ni all gael un Effaith arall ar ein Cyflwr tragywyddol, ond fel y mae yn Achos naill ai o'n Rhinwedd neu'n Pechod, y rhai yw yr unig Dda a Drwg a ânt gyd â ni i Dragywyddoldeb, ac a'n gwnânt yn ddedwydd neu yn druenus yno yn dragywydd. Ond am Dlodi neu Gyfoeth, Poen neu Hyfrydwch, Gwradwydd neu Barch, Pethau ydynt y rhai yſgatfydd ymhen deg neu ugain Mlynedd etto fyddant mor gwbl-ganolig i ni a'n Breuddwyd y Nôs o'r blaen wedi y dihunom drannoeth. Ac mi dybygwn pe jawn-yſtyriem hyn, y byddai yn ddigon i'n gwneuthur yn ddioſal jawn am un Da neu Ddrwg ag allo ddigwydd i ni ymma. Can's pa Fatter mawr ydyw, p'un ai Bŷd da neu Fŷd drwg a gaffwyf dros ugain neu ddeg ar hugain o Flynyddau, pan y gorſyddo arnaf wedi darfod hynny fod yn ddedwydd neu yn druenus dros fyrddiwnau o fyrddiwnau o Oeſoedd? a pheth a dâl yr ychydig Bethau da neu Bethau drwg hyn i mi, pan fo fy Nghorph yn y Bêdd, a'm Henaid yn Nhragywyddoldeb? Pan ddioſger fi yn Yſbryd noeth, ac y goſoder fi

ar

ar Dîr y Bŷd anweledig, yna y bydd yr holl Bethau hyn fel pe na buaſent erioed, ac ar Darawiad Llygad mi gollaf Olwg arnynt yn dragywydd; ac o'r cwbl a ddarfu i mi fwynhâu neu ddioddef yn y Bŷd hwn, ni bydd gennyf ddim yn aros ond fy Rhinwedd neu fy Mhechod, y rhai a fyddant Achos o'm Dedwyddwch neu 'm Trueni tragywyddol. Diammau, pe baem ni ond ymarferu â'r fath Fyfyrdodau a'r rhai'n, hwy a'n hattalient ni yn effeithiol oddi wrth *garu* neu *ofni* Pethau'r Bŷd hwn yn anghymmedrol; ac a'n dugent i goelio yn waſtadol ac yn effeithiol, nad oes un Daioni yn y Bŷd hwn ſy debyg i'r Daioni hwnnw o wneuthur ein Dyledſwydd, nac un Drwg allo ddigwydd i ni yn y Bywyd hwn, nad yw yn anfeidrol lai i'w ofni nâ Phechod. A phan y bo ein Serch at y Bŷd hwn, a'n Tŷb am y Da a'r Drwg ſydd ynddo, wedi eu cymmedroli unwaith fel hyn, a'u gofod yn jawn, fe fydd i Brofedigaethau Pechod gwbl-golli eu Gafael arnom, heb allu mwyach ſiglo ein Bwriad. Fel y gallwn yn awr dramwy yn ddiberygl trwyddynt tra y maent yn gwreichioni o bobtu i ni, gan nad oes dim Goſgymmon yn ein Monweſau iddynt i dderbyn Tân, ac ennyn. Yn awr ni allant mwyach ein hudo neu 'n dychrynu ni; gan fod yr Areithwyr hynny yn ein Monweſau, y rhai oeddent yn arfer pledio droſtynt, a mawrygu eu Swynion a'u Dychrynfeydd, wedi eu diſtewi: a phan na bom yn eu caru nac yn eu hofni yn anghymmedrol, fe fydd yn hawdd i ni amddiffyn ein Rhinwedd a'n Diniweidrwydd yn erbyn eu holl Ymgyrch a'u Taerder.

IV. Tu ag at ein Parhâd hyd y Diwedd, y mae yn angenrhaid i ni chwilio yn fanylach am y Deffygion ſydd lai, a'r Pethau ſydd anweddus yn ein Natur, tu ag at wellhâu a diwygio y rhai'ny. Am hynny y gorchymyner i ni *gasâu hyd yn oed y Wiſg a halogwyd gan y Cnawd*, Jud. 23. hynny yw, i gymmeryd Gofal am Ddechreuad Pechod, am un peth ſydd ynddo yr Halogiad neu'r Llygriad lleiaf o hono; ac felly yr ydym yn rhwym nid yn unig i gymmeryd Gofal i rwbio allan Frychau mwyaf ein Natur, ond *gwneud ein goreu ar ein cael gan yr Arglwydd mewn Tangnefedd, yn ddifrycheulyd, ac yn ddiargyoedd*, 2 Pedr iii. 14.

iii. 14. hynny yw, ymrôi i wellhâu'r Deffygion hynny ag ydynt lai, a mwy anamlwg yn ein Natur; y rhai, er nad ydynt yn ei llwyr-ddiwyno, ſydd er hynny yn ei brychu ni yn fawr; fel y'n ceir ar Ddyfodiad ein Harglwydd nid yn unig yn ddiragrith ac yn unjawn, ond, mor neſed ag y gallom, yn ddiniweid ac yn ddifai. Can's felly y gorchymyner i ni *fod*, Phil. ii. 15. *yn ddiargyoedd, a diniweid, a difeius ynghanol Cenhedlaeth ŵyrog a throfäus*: hynny yw, ymrôi i ymddwyn ein hunain yn y Byd hwn yn y fath Fodd, ag yr ymddangoſom nid yn unig yn oneſt gan mwyaf, ond, mor neſed ag a fo boſſibl, heb un Brycheuyn, ac heb un Bai. Ac yn wir nid oes dim ſydd fynychach yn peri i Ddynion ffaelu yn y Diwedd mewn Crefydd, nag Eiſiau Gofal a Diwydrwydd yn hyn o Beth. Pan y maent yn dechreu gyntaf ar y Filwriaeth Gris'nogol, y maent yn eu goſod eu hunain yn ddyfal jawn yn erbyn y Ffordd honno o Bechu yn ewyllyſgar ymha un y buont fyw gynt; a hyn a fyddai yn Beth da rhyfedd, oni bae eu bod yn ſtoppi ymma, heb fyned ymhellach: ond, gwae fi! yn y cyfamſer, tra y maent mor drafferthus a hyn i ddaroſtwng eu hên Bechodau, y mae llawer o Agennau a Deffygion ſydd lai yn eu Natur, y rhai, trwy Ofal a Gwyliadwriaeth mewn Amſer, a allent yn hawdd wellhâu; ond nid ydynt yn cymmeryd dim Sulw o'r rhai'n, ond gadael iddynt yn llonydd dyfu a chynnyddu, nes delont o'r diwedd mor niweidiol ac mor beryglus iddynt ag oedd eu hên Bechodau, yn erbyn pa rai y darfu iddynt trwy gydol yr Amſer ymma gyd â chymmaint o Zêl ymdrechu. Megis, yn lle Eſampl, pan ddechreuaſant gyntaf ar Fwriad o Wellhâd, yr oeddent yn halogedig, yſgatſydd, neu yn gnawdol, neu yn dueddol jawn i dwyllo a threiſio; ac fe ddarfu iddynt wrth'nebu y Pechodau hyn gyd â Zêl a Llidiowgrwydd mawr: a chyn belled a hynny hwy a wnaethant yn dda; ond yn y cyfamſer, f'allai fod Balchder ac Ymffroſt, Cenfigen a Thaeogrwydd, Hunan-dŷb a Chabl, yn ddirgel yn blaguro ac yn tarddu i fynu yn eu Natur, yr hyn i gŷd a allaſent yn hawdd wellhâu trwy Feddyginiaeth amſerol; ond, gwae fi! yng Ngwrês yr Ymorcheſt yn erbyn eu Pechodau eraill, ni ddarfu iddynt gymmaint a

meddwl

meddwl am y rhai'n, ond eu gadael yn llonydd, nes iddynt dyfu i fynu yn hên Arferion gwrthnyſig, a dyfod mor ddinyſtriol bob mymryn i'w Heneidiau, ag oedd y Pechodau hynny a fuont trwy gydol yr Amſer ymma yn ddaroſtwng ac yn farweiddio. Fel na wnaethant wedi'r cwbl ond newid eu Pechodau, a chwnſerio i fynu un Cythraul tra fuont yn goſod y llall i lawr; a thra y bu Llanw eu Hannuwioldeb yn treio ar y Lan hon, ſe fu yn llifo ar y Lan arall; ac fel yr aeth yn llai cnawdol, a aeth yn fwy cythreulig. Yſgatfydd tra y boch chwi yn fawr eich Zêl i ddwyn ymlaen eich Milwriaeth yn erbyn eich hên Bechodau, y gellwch eich gweled eich hunain yn rhy chwannog i hoffi Canmoliaeth, ac i gael eich chwyddo i fynu â gwâg Ymffroſt; gochelwch rhag i chwi, wrth newynu un Pechod, beſgi un arall. Can's oni wellhêwch chwi yr Anhrefn bychan hwn yn eich Natur mewn Amſer, ſe ddaw yn fuan mor beryglus ac mor niweidiol i chwi, ag a fu un o'r Pechodau hynny erioed yn erbyn pa rai yr ydych chwi yn ymdrechu; ſe ddaw bob yn ychydig i mewn am ben eich Bwriadau da, ac a lygra eu Purdeb hwynt yn y fath Fodd, na byddwch chwi o'r diwedd yn amcanu dim ond cael Clôd; ac felly eich holl Grefydd a dry yn Ymddangoſiad marw, ac yn Llûn gwâg, ac ni bydd eich Milwriaeth yſbrydol ddim arall ond myned o Halogrwydd i Ragrith. Yſgatfydd tra'r ydych chwi yn ymdrechu yn erbyn y Tueddiadau cnawdol hynny ag oeddent gynt yn eich caethiwo, ſe ddechreu eich Calonnau chwyddo â Thybi rhy dda am eich Rhinwedd a'ch Duwioldeb eich hunain; ac fel Canlyniad o hynny, chwi fyddwch yn barod yn eich Meddyliau i amherchi eich Brodyr, a rhoi Barn o Gabl arnynt: gochelwch yn awr, rhag, tra foch chwi yn ymdrech â'ch hên Chwantau cnawdol, i chwi edrych dros y Deffygion bychain hyn, a'r Pethau anweddus ymma yn eich Natur; rhag, tra foch chwi yn gorchfygu un math o Bechodau, i chwi gael eich dwyn yn gaeth gan fath arall. Can's oni chymmerwch Ofal i'w yſgythru pan font yn tarddu allan, ac attal y Cynnygion cyntaf a'r Dechreuadau bychain hyn o honynt, hwy a dyfant i fynu yn fuan i Arferion o Falchder ac Uwchdra, Llid ac Anghariadoldeb;

ac

ac felly ni bydd eich Milwriaeth yn erbyn Pechod ond Mynediad allan o un Drwg i'r llall, o Halogrwydd y Cnawd i Halogrwydd yr Yſbryd, ac o Natur Anifeiliaid i Natur Diafliaid. Am hynny os ehwennychwch chwi lwyddo hyd y Diwedd yn y Filwriaeth Gris'nogol, rhaid i chwi gymmeryd Gofal mawr, tra foch yn ymryſon â'r hên Feiau mwyaf yn eich Natur, na eſgeuluſoch mo'r Deffygion, a'r Pethau anhrefnus hynny, er eu bod yn llai, ag ſydd ynddi: can's tra y maent yn llai, fe ellir yn hawdd eu gwellhâu; ond os ni wellheir hwynt, hwy a ddeuant yn fuan yn fwy, ac a fyddant, o'r diwedd, mor beryglus a'r rhai ny yr ydych yn awr yn ymryſon â hwynt. Can's y mae pob Drygioni yn fychan ar y Dechreu, ac yn hawdd ei jachâu; ond os eſgeuluſer ef, fel Archoll yn y Cnawd, efe a lygra ac a bydra yn Glwyf marwol a fo'n ymdannu.

V. Tu ag at barhâu hyd y Diwedd yn ein Milwriaeth Gris'nogol, y mae hefyd yn angenrheidiol i ni, cyn belled ag y gallom yn gyfreithlawn, fyw mewn Cymmundeb anwahanol â'r Eglwys honno o ba un yr ydym yn Aelodau. Mae'n wir, y dichon Eglwys neillduol fod mor llygredig, a gorfod ar ei Haelodau wahanu oddi wrthi. Can's y mae pob Dŷn yn rhwym, trwy ei waith ef yn bod mewn un Gymdeithas, i beidio â chyttuno ag un peth ag a wnelo Niweid amlwg iddi. Yn awr, gan mai Diben pennaf Cymdeithas Gris'nogol ydyw, Anrhydedd Duw, a Jechydwriaeth Eneidiau, y mae pob Dŷn ag ſydd yn myned iddi trwy hynny, yn rhwym yn ei Sefyllfa ei hun i ddiwygio y Diben hwn; ac yn ganlynol, megis y mae efe yn rhwym i gyſſylldu yn holl Weithredoedd y Gymdeithas Gris'nogol, y mae efe wedi uno â hi, cyn belled ag y maent yn rueddu i'r Diben hynny: felly y mae efe yn rhwym i wrthod pob cyfryw Weithredoedd o'r Gymdeithas honno, os gorchymyner unrhyw Weithredoedd o'r fath, ag a fo yn amlwg yn ei gwrthſefyll ac yn ei gwrthnebu hi. Fel os bydd i'r Eglwys neillduol, o ba un yr ydwyf fi yn Aelod, orchymmyn un Weithred ag ſydd yn pechadurus amlwg, fel Ammod angenrheidiol o'm Cymmundeb â hi, yr wyf yn rhwym i ymgadw oddi wrthi,

er

er mwyn Diben cyffredinol y Gymdeithas Gris'nogol. Megis, yn lle Eſampl, ſuppoſwch i'r Eglwys o ba un yr ydwyf yn Aelod, ofyn, fel Ammod o'm Cymmundeb, i mi droſeddu un o Gyfreithiau unjawn y Wladwriaeth o ba un yr ydwyf yn Ddeiliad; yn y Câs hwn yr ydwyf yn rhwym yn hytrach i adael Cymmundeb yr Eglwys honno, nâ byw mewn Anufudd-dod gwllyſgar i'r Awdurdod Wledig. A thymma Gâs y Dynion hynny, y rhai, er eu bod yn byw mewn Gwlâd Gris'nogol, a fedyddiwyd, ac a ddugpwyd i fynu yng Nghymmundeb Cynnulleidfaoedd neillduol, y rhai, yn erbyn y Gyfraith, a ymwahanaſant oddi wrth yr Eglwys Wladol, Sefydledig: can's os nad yw Cyfreithiau y Wladwriaeth yn goſyn dim oddi wrthynt yn yr Eglwys Wladol hon ag ſydd yn eglur wrthddy wedyd Cyfreithiau Criſt, y maent yn rhwym mewn Cyd wybod i ymadael â'r Cynnulleiddfaoedd gwahanol hynny (er pe baent wir Eglwyſi) a chyſſylldu â'r Eglwys Wladol; ac oni wnânt hynny, y maent yn troſeddu yn ewyllys gar yn erbyn Cyfraith Criſt, yr hon ſydd yn gorchymmyn ni ufuddhâu i bob dynol Ordinhâd, *o herwydd yr Arglwydd*. A thrachefn, o fwrw fod un Eglwys Wladol yn ddar oſtyngedig i un arall, y mae'r hon ſy ddaroſtyngedig yn rhwym i ymwrthod â Chymmundeb yr un a ſo uwch o flaw, os ni all ei fwynhâu heb gyttuno â Goſodedigaetha ag ſydd yn bechadurus amlwg. A thymma fel y mae'r Peth yn eglur yn ſefyll rhyngom ni ag Eglwys *Rufain*, fwrw ein bod ni unwaith wrth Gyfiawnder yn Ddeiliaid a yn Aelodau iddi: can's pe buaſem felly, diammau nâ buaſem byth yn ymneillduo oddi wrthi, pe gallaſem on neillduo ei Phechodau o'i Chymmundeb; pe gallaſem broffeſu ei *Chredo*, heb gredu yn gibddall ei holl Dwyf a'i Hudoliaeth, neu ymoſtwng ein hunain i'w Hathrawon heb y Perygl amlwg o gael ein cam-arwain ganddynt. Bwll Dinyſtr, neu gyſſylldu â'i Gwaſanaeth cyhoeddus, he addoli Creaduriaid, neu dderbyn ei Sacramentau, heb ym arfer yr Eulun-addoliaeth a'r Coel-grefydd mwyaf. On pan y gwnaeth hi yn angenrheidiol i ni naill ai pechu gy â hi, neu wahanu oddi wrthi, ni's gallem gael un Feddy iniaeth oneſt arall ond Ymneillduo: a phe buaſai yn

Ymneill

Ymneilldiad hwn Sifm pechadurus o un tu, nyni a allafem appelio at y Nefoedd a'r Ddaear, pwy oedd yn enog o hono; hwynthwy a barodd i ni ymneilldio, neu nyni a efu arnom hynny. Ond y mae Gwahaniaeth mawr rhwng ein Hymneilldiad ni oddi wrth Eglwys *Rufain*, a Neilldiad Aelodau preifat oddi wrth eu Heglwyfydd neilldiol eu hunain. Can's yr ydym ni yn haeru, nad yw Eglwys *Rufain* ond Eglwys neilldiol; nad yw ei Hawddfdod yn cyrraedd ddim pellach nag at ei Haelodau geuedigol ei hun; ac yn ganlynol, nad oes ganddi ddim rhwaneg o Allu i ofod Cyfreithiau o Gymmundeb arnom ni, nag fydd gennym ninnau i ofod arni hithau; gan fod in Heglwys neilldiol ni mor gwbl-wahanol oddi wrthi hi, ac heb bwyfo dim arni ni, mwy nâ hithau ar ein Heglwys ni. Ac felly er pe bae'r Ammodau o Gymmundeb y mae hi yn ofod ar ei Haelodau ei hun i gŷd yn gyfreithlawn ac yn ddiniweid, etto nid ydynt yn ein rhwymo ni, fel yr ydym yn Gris'nogion o *Eglwys Loegr*, mwy nag y mae Gorchymynion cyfreithlawn Emprwr mawr yr *Indiaid* yn ein rhwymo ni, fel yr ydym yn Ddeiliaid o *Deyrnas Loegr*.

Ond y mae Gwahaniaeth mawr o ran Câs Aelodau neilldiol, p'un ai o'n Heglwys ni, neu o un Eglwys neilldiol arall. Can's os caniatâwn fod Eglwyfi neilldiol yn gyfaifer Cymdeithas o Gris'nogion wedi ei lluniaethu (fel y rhaid i ni ganiatâu, neu ynte eu diraddio hwy i gynnifer o Dorfêydd anhrefnus) rhaid i ni lwo fod ganddynt gyfrawn Awdurdod (fel y mae gan bob Cymdeithas arall ag fydd wedi ei hjawn luniaethu) dros eu Haelodau eu hunain. A bod ganddynt yr Awdurdod hwn fydd amlwg, rid yn unig oddi wrth Natur y Peth, ond hefyd o'r 'Sgrythur, lle y dywedir, fod *Efgobion* a *Bugeiliaid* Eglwyfydd neilldiol wedi eu gofod gan yr Yfbryd Glân yn *Olygwyr* r eu Praidd neilldiol, *Act.* xx. 28. a'r Gair hwnnw yn Sgrifenniadau Cris'nogion a Phaganiaid fydd yn arwyddocâu, Awdurdod i lywodraethu. Ac felly y mae'r Goygwyr hyn mewn Lle arall yn cael eu galw *yn Henuriaid y'n llywodraethu*, 1 Tim. v. 17. ac fe orchymyner i Ddeiliaid ac Aelodau eu Heglwyfydd *ufuddhâu iddynt megis i'w*

Blaenor-

Blaenoriaid, Heb. xiii. 17. Ac mewn Lle arall y mae'r Apoſtol yn eu cynghori hwynt i *adnabod* (hynny yw, *oſtyngedig i addef*) Awdurdod y rhai'ny ag oedd yn eu *Llywodraethu hwynt yn yr Arglwydd*, 1 Theſ. v. 12. Trwy hyn i gŷd y mae'n amlwg, fod Aelodau Eglwyſydd neillduol, yn ôl Ordinhâd Duw, yn ddaroſtyngedig i Awdurdod eu Llywodraethwyr yſbrydol, ac yn rhwym i ufuddhâu iddynt ymhob peth, lle na orchymynodd Criſt ei hun i'r gwrthwyneb. Fel, er y gall un Eglwys neillduol wrthod Gofodedigaethau Eglwys arall, a hynny nid yn unig fel y maent yn bechadurus, ond fel y maent yn Oſodedigaethau, o herwydd nad oes gan y llall ddim Awdurdod gyfreithlawn droſti; etto nid yw mewn un modd yn gyfreithlawn i Ddeiliaid un Eglwys neillduol anufuddhâu eu Llywodraethwyr Eglwyſig mewn un Peth cyfreithlawn o herwydd, a hwy wedi eu goſod dan eu Hawdurdod hwynt gan Griſt, goruchaf Ben yr Eglwys Gatholig, y maent yn rhwym i ymoſtwng iddynt, megis i Swyddwyr dano ef, ymhob peth na waharddodd efe o'r blaen. Ac os, yn hytrach nâ gwneuthur felly, y dewiſant wrthgilio o Gymmundeb eu Heglwys, y maent yn Siſmaticiaid neu'r hyn yw'r un Peth, y maent yn Wrthryfelwyr i Awdurdod Criſt, yn yr Eglwys neillduol honno y maent yn gwrthgilio oddi wrthi. Can's yr un Peth yw *Siſm* yn yr Eglwys, a *Therfyſg* yn y Wladwriaeth; ſef, Gwrthwynebiad anghyfiawn o'r Awdurdod: y naill o Awdurdod Wledig *Criſt*, a roddwyd i'n Penllywiawdwyr; y llall o'r Awdurdod Yſbrydol, a roddwyd i'n Heſgobion a'n Llywodraethwyr Eglwyſig.

Mae'n wir, mewn rhai Achoſion, ſel y crybwyllais o'r blaen, ſe ddichon ymneillduo oddi wrth Gymmundeb Eglwys, fod mor belled oddi wrth fod yn Wrthryfel yn erbyn Criſt, a bod yn Weithred o Ufudd-dod a Dyledſwydd iddo. Can's pan y mae *Criſt*, yr hwn yw ſy Arglwydd pennaf a'm Llywodraethwyr Eglwyſig, y rhai ſydd mewn Awdurdod dano ef, yn gorchymmyn Pethau ag ſydd yn gymmwys yn anghyttuno â'u gilydd, diammau ſy mod yn rhwym i ufuddhâu iddo ef, yn hytrach nag iddynt hwy ie, er na bo eu Gorchymynion yn anghyttuno ynddynt eu

hunain

hunain, etto os byddaf fi yn cwbl-goelio eu bod, yr un peth ydyw i mi. Can's pan wnelwyf fi yr hyn ydwyf yn *gam* gredu i Grift wahardd, yr wyf yn fy Ewyllys gymmaint o Wrthryfelwr yn erbyn ei Awdurdod, a phan wnelwyf yr hyn ydwyf yn *jawn* gredu iddo ef wahardd. Ac felly trwy beidio ufuddhâu i'm Llywodraethwyr yſbrydol, o Gam-dŷb ddi-ddrwg fod yr hyn y maent yn orchymmyn yn anghyfreithlawn, yr wyf mewn Dull ac yn fy Ewyllys yn ufuddhâu i Grift trwy wneuthur felly, gymmaint a phe bae'r Peth mewn gwirionedd yn anghyfreithlawn. Ac felly yn fyrr, pan y mae Llywodraethwyr yr Eglwys o ba un yr ydwyf fi yn Aelod yn rhwymo arnaf, fel Ammodau fy Nghymmundeb, Bethau ſydd naill ai yn anghyfreithlawn ynddynt eu hunain, neu ydwyf fi, wedi eu hjawn holi, yn gredu mewn gwirionedd fod yn anghyfreithlawn, yr wyf yn rhwym, mewn Ufudd-dod i Awdurdod Criſt, i ymadael â'r Cymmundeb hwnnw, yn hytrach nâ chyttuno â'i Ammodau ef.

Ond gan fod ymadael â Chymmundeb Eglwys yn Fatter pwyſfawr jawn (fel y profaf i chwi yn y man) ni ddylid mo'i wneuthur ond gyd â'r Gocheliad a'r Tynerwch mwyaf. Can's y neb a wrthodo Ammodau pechadurus o Gymmundeb, heb jawn ymofyn a holi yn ddigonol, ſydd ar Wêdd yn gymmaint o Siſmatic, hynny yw, y mae yn gymmaint o Wrthryfelwr yn ei Ewyllys yn erbyn Awdurdod yſbrydol Criſt yn ei Syddwyr Eglwyſig, a'r hwn ydd yn fyrbwyll yn gwrthod rhai diniweid a chyfreithlawn. Can's os oedd yr Ammod yn ei anfoddloni ef yn unig o achos ei fod yn bechadurus, efe a wnaethai Gydwybod, cyn rhyfygu ei wrthod, o gael ei jawn hyfforddi o'un a'i fod yn bechadurus, ai nad oedd; ond trwy ei wrthod yn llyn ar antur, heb jawn holi ei Natur, y mae efe yn dangos yn eglur, mai nid y *Pechod* a'i hanfoddlonodd ef gymmaint a'r *Awdurdod* a'i gorchymynodd; ac mai nid ei Gydwybod a dramgwyddodd wrtho, ond ei *Ffanſi*; ac yn ganlynol, y buaſai ganddo yr un Anfoddlondeb atto, pe buaſai yn gyfreithlawn ac yn ddiniweid: can's o hebyddi fod Cydwybod yn Weithred y Farn a'r Rheſwm, fe's gall anfoddloni heb Reſwm, naill ai mewn Lliw neu

mewn Gwirionedd; ac heb jawn ymofyn i Natur y Peth yr ydym yn anfoddloni iddo, ni all fod gennym un Rheſwm naill ai i awdurdodi neu eſgufo ein Hanfoddlondeb.

Yn awr, os ymofynwn yn jawn, rhaid i ni holi yn ddiduedd y ddwy Ochr i'r Cweſtiwn; a thra bom yn gwneuthur felly, nyni a ddylem gadw ein dau Gluſt yn agored i'r Matter ſy mewn Dadl, a gwrando yn yr un modd yr hyn a ellir ei ddywedyd yn ei erbyn: ac yna, wedi llawn wrando y ddwy Ochr, nyni a ddylem farnu, mor neſed ag y gallom, ar ba Du y mae'r Gwirionedd yn ſefyll, heb ffafro nac ochri i un. Can's y neb ſydd yn ymofyn yn unig pa beth a ellir ei ddywedyd yn erbyn y Matter y mae efe yn anfoddloni iddo, ſydd yn mynegi yn amlwg trwy hynny ei fod ef yn bwriadu anfoddloni iddo, bydded gam neu gymmwys; ac nad yw Diben ei Ymofyniad gymmaint i foddloni ei Gydwybod, ag i gryfhau ei Ragfarn ddireſwm. Am hynny, cyn y gwrthodem Ammodau ein Cymmundeb Eglwyſig fel pe baent beichiadurus, yr ydym yn rhwym, dan Boen Siſm gwllyſgar, i holi yn ddiduedd pa beth a ellir ei ddywedyd droſtynt yn gyſtal ag yn eu herbyn; ac i'r Diben hwn ſyned at ein Llywodraethwyr yſbrydol a'n Bugeiliaid, a goſod ein Hamheuon o'u blaen hwynt, a gwrando eu Hattebion â Meddwl oneſt, hawdd ei ddyſgu, ac yn ewyllyſgar i gymmeryd ei hyfforddi; a lle y gallom ni farnu, i ddefnyddio yn ffyddlon y Llyfrau a'r Rheſymmau hynny ag ſydd yn gwneuthur dros y naill Ochr yn gyſtal a'r llall. Can's oddieithr i ni wneuthur hyn, y mae'n amlwg fod Tueddiad terfyſgus yn ein gŵyro, a bod Chwant mawr arnom ymneillduo o Gymmundeb yr Eglwys. Can's oni bae fod Rhagfarn ynnom yn erbyn ei Hawdurdod, trwy Dymmer Meddwl ſy'n hoffi ymrannu, nyni a fyddem mor barod o'r hyn lleiaf i ymgynghori pa beth a ellid ei ddywedyd dros ei Goſodedigaethau, yn gyſtal a pheth a ddywedir yn eu herbyn hwynt.

Ond yna, os ydyw y Pethau y mae hi yn orchymmyn y fath na's gallo Cymmunwyr didwyll ac anllyth'renn farnu am danynt, na dyall Grym y Rheſymmau ſydd droſtynt neu yn eu herbyn, y mae'r cyſryw Ddynion yn y fa

Gyflw

Gyflwr yn rhwym i orphwys yn oftyngedig ar Awdurdod yr Eglwys, a pheidio ymneillduo yn gibddall oddi wrthi heb wybod pa ham. Megis, yn lle Efampl; Bwriwch fod y Peth a orchymyner yn gyfryw Ffurf o Lywodraeth neu 'r fath Ffyrdd o Ddyfgyblaeth, neu Ddefodau ac Amgylchiadau yn Addoliad Duw, nad oes mo'r fath Ddrwg amlwg ynddynt, neu Wrthddywediad eglur i un Gorchymmyn o eiddo'n Jachawdwr, ag y gallo Criftion anllyth'rennog gyd â Rheftwm ddywedyd eu bod yn anghyfreithlawn; ac yfgatfydd ni ellir barnu p'un a'u bod yn anghyfreithlawn ai peidio, heb ryw Fedr yn y Jeithoedd gwreiddol, ac Yftyr dyrys Ymadroddion, neu Ddyalldwriaeth mewn Hanefion Eglwyfig, neu Wybodaeth gywrain o Oruwchnaturiolion Bethau; a thrwy rai o'r rhai 'n y mae y rhan fwyaf o'r Ymddadleuon rhyngom ni a'n Brodyr, yr Ymneillduwyr, i'w barnu a'u penderfynu. Yn awr yn y fath Fatterion a'r rhai 'n, lle ni's gallo efe farnu drofto ei hun, pa beth a ddylai Cymmunwr annyfgedig wneuthur? Hyn a ŵyr efe yn dda ddigon, mai ei Ddyledfwydd yw ufuddhâu i Lywodraethwyr ei Eglwys yn mhob Peth cyfreithlawn, a pharchu Awdurdod Crift yn ddynt hwy; ond p'un ai bod y Pethau a enwyd uchod, y rhai y maent hwy yn orchymmyn, yn gyfreithlawn neu beidio, ni ŵyr efe, ac ni's gall wybod. Felly os bydd iddo ef, o achos y Gofodedigaethau hyn, wrthod Cymmundeb yr Eglwys, y mae'n ei gwrthod heb wybod pa ham; ac i ochelyd gwneuthur y peth nad yw efe yn wybod ei fod yn Bechod, y mae efe yn gwrthod gwneuthur y peth y mae efe yn wybod ei fod yn Ddyledfwydd. Ac felly nad p'un ai bod y Peth y mae'r Eglwys yr orchymmyn yn gyfreithlawn neu beidio, y mae yn Wrthryfel amlwg ynddo ef ei wrthfefyll; o herwydd ei fod yn gyfreithlawn er dim a ŵyr ef; ac er pe bae yn anghyfreithlawn, etto nid hynny all fod yr Annogaeth ag fydd yn peri iddo ef beidio ufuddhâu iddo, yr hwn nid yw yn dyall y Rheftymmau ag fydd yn ei wneuthur felly. Y neb a ymneillduo gan hynny oddi wrth Gymmundeb Eglwys o herwydd Achofion na's gall efe farnu am danynt, fydd raid iddo neillduo heb Achos neu Reftwm; ni all fod ganddo un

Eſgus cywir neu anghywir am ei Ymneilldduad; o herwydd fod y Rheſymmau o bob Ochr tu hwnt i Gyrraedd ei Ddyall ef: ac yn ganlynol, os bydd iddo ar hynny ymrannu oddi wrth Gymmundeb yr Eglwys, nid yw hynny o herwydd na's gall efe gyttuno â'r Goſodedigaethau pechadurus hi, ond o herwydd na fyn efe ufuddhâu i'w chyfiawn Awdurdod hi. Ond trwy ymoſtwng ein Barn yn weddaidd i Farn yr Eglwys, mewn Achoſion ymha rai ni's gallwn farnu droſom ein hunain, yr ydym yn cymmeryd Ffordd effeithiol i gadw ein Diniweidrwydd yn ddiberygl. Can's er pe bae'r Peth y mae'r Eglwys yn orchymmyn i ni yn bechadurus o ran ei Ddefnydd, etto i ni, y rhai nad ydym ac na's gallwn ddyall ei fod felly, ni chyfrifer mo'no ond fel Camgymmeriad diniweid; o herwydd ein bod, trwy ganlyn Rheſwm yr Eglwys, pan na all ein Rheſwm ein hunain ein cyfarwyddo, yn cymmeryd y Ffordd oreu ag allom i beidio camgymmeryd: a phe bae i ni gamgymmeryd, y mae gennym hyn i'n heſgufodi; i ni gamgymmeryd trwy ganlyn Awdurdod a oſodôdd Duw ei hun droſom; ond os camgymmeryd a wnawn ar yr Ochr arall, fe'n gadewir yn gwbl ddieſgus.

Ond yna fe all fod Ammodau eraill o Gymmundeb Eglwyſig, y rhai y dichon Cymmunwr fod yn amheus jawn o'u Hanghyfreithlondeb, er na bo efe yn grŷf jawn yn coelio hynny; a pheth ſydd i'w wneuthur yn y Cyfwr hwn? I'r hyn yr attebaf, yn gyntaf, Fod yn ddiammau yn Ddyledſwydd arnom, i beidio â barnu yn fyrbwyll am un Peth, ei fod ef yn anwir neu yn anghyfreithlawn, ag a ddarfu i'n Llywodraethwyr yſbrybol farnu fod yn wir neu yn gyfreithlawn. Can's, yn ôl Cyfraith Gweddeiddra Cris'nogol, yr ydym yn rhwym i benderfynu, o herwydd fod ganddynt hwy helaethach Golwg o Bethau nâ nyni, a mwy o Fanteiſion i'w chwilio hwynt, eu bod yn gymhwyſach Barnwyr o lawer o'r hyn ſydd wir a chyfreithlawn; ac yn ganlynol, er y gall fod gennym, o boſſibl, ryw Debygoliaeth bychan nad yw eu Barn yn gywir, neu fod eu Gorchymmyn yn anghyfreithlawn, etto nid oes i ni farnu fod y Peth felly, oddieithr ei fod yn y fath Gâs eglur ac amlwg, ag ſydd nid yn unig yn pwyſo yn drym-

mach nâ'r Tebygoliaeth o'u Hopiniwnau hwy, ond yn drymmach nâ'r Awdurdod o honynt hefyd. O herwydd pa ham mewn Pethau amhêus y mae'n beth gweddus a diberygl i fod o'r un Farn â'n Huwchradd: o herwydd, trwy wneuthur felly, fod gennym nid yn unig ein Hanwybodaeth ein hunain i'n helgufodi, ond eu Hawdurdod hwy i'n gwarantu; a phe digwyddai i ni gamgymmeryd trwy ein Gorchwyledd a'n Goftyngeiddrwydd, fe fydd hynny yn fwy diberygl i ni, nâ bod ar y Jawn trwy ein Balchder a'n Hunan-dŷb da. Ond yfgatfydd fe all y Tebygoliaeth fod mor fawr o'n Hochr ni, neu o'r hyn lleiaf ymddangos felly i ni, fel na's gallwn lai nag ammau p'un a bod Ammodau ei Chymmundeb yn gyfreithlawn, er ein bod yn rhoi pob Parch ac Anrhydedd a fo'n ddyledus i'w Hawdurdod. Os felly, yna, yn ail, y mae i ni yftyried, fod cymmaint o Ddyled arnom i ufuddhâu i'w Gorchymynion mewn Pethau cyfreithlawn, ag i anufuddhâu iddynt mewn Pethau anghyfreithlawn; ac am hynny, os nid ydym ond ammau p'un a bod ei Gorchymynion yn gyfreithlawn ai peidio, ein Amheuaeth a ddylai ein gwneuthur mor ofnus i anufuddhâu ag i ufuddhâu, o herwydd fod y Perygl o Bechu gymmaint o bob Ochr. Ac am hynny yn y Câs hyn, lle y mae Angenrheidrwydd arnaf i fod o'r naill Ffordd neu'r llall, diammau mai fy Nyledfwydd ydyw, bod o'r Ffordd honno ag fydd fwyaf er Diogelwch a Heddwch yr Eglwys; yr hyn, yn nefaf at Anrhydedd Duw, a Jechydwriaeth Eneidiau, a ddylid ddewis o flaen pob peth arall: ac yn ganlynol, os ydyw hyn o ddim Pwys gyd â m'fi, rhaid iddo droi Clorian fy Newifiad, er ei fod o'r blaen yn gydbwys; ac y mae'n hawdd jawn barnu p'un ai ufuddhâu neu anufuddhâu fydd oreu er Lles a Heddwch yr Eglwys.

Swm y cwbl gan hynny yw hyn; Mai'n Dyledfwydd yw, parhâu mewn Ufudd-dod llwyr-gwbl i'r Eglwys neillduol honno, o ba un yr ydym yn Aelodau, ac mewn Cymmundeb â hi, tra na orchymyno hi ddim i ni ag fydd yn eglur ac yn amlwg yn bechadurus. Os ni allwn farnu p'un a'u bod Ammodau ei Chymmundeb yn bechadurus neu yn gyfreithlawn, neu yu unig ein bod yn ammau p'un

a'u bod yn gyfreithlawn ai peidio, yr ydym yn rhwym i ymoftwng i'w Barn a'i Hawdurdod, heb neilldio oddi wrthi, nes, wedi holi yn ddibartiaeth y Rheſymmau o bob Ochr, y caffom ein llawn argyhoeddi eu bod yn bechadurus.

Yn awr y mae'n amlwg fod hon yn Ddyledſwydd greſyddol, anhepgorol, nid yn unig oddi wrth y 'Sgrythurau a enwyd o'r blaen, y rhai ſydd yn gwneuthur Eſgobion Eglwyſydd neilldiol yn Olygwyr ac yn Llywodraethwyr arnynt, ac y gorchymyner i Ddeiliaid ac Aelodau'r Eglwyſydd hynny roddi Ufudd-dod iddynt; ond hefyd oddi wrth y Lleoedd hynny o'r 'Sgrythur ag ſydd yn gwahardd Ymraniadau yn yr Eglwyſydd neilldiol: megis, 1 Cor. i. 10. *Tr wyf yn attolwg i chwi, trwy Enw ein Harglwydd Jeſu Criſt, yn byddo Ymbleidio yn eich plith*; a lle y gorchymyner i ni *graffu ar y rhai ſy yn peri Angbydfod, a chilio oddi wrthynt*, Rhuf. xvi. 17. a lle y dywedir, fod Rhwygiadau ac Ymraniadau yn Ffrwythau'r Cnawd; megis yn neilldiol, 1 *Cor.* iii. 3. a S. *Jud.* 19. ac mewn gair, ſydd yn gorchymmyn i ni *fod yn ddyfal i gadw Undeb yr Yſbryd ynghwlwm Tangnefedd*, Eph. iv. 3. i *ſynied yr un Peth*, 2 Cor. xiii. 11. a *ſefyll mewn un Yſbryd, ag yn Ennaid*, Phil. i. 27. A hyn i gyd a lefarwyd wrth Gris'nogion, fel yr oeddent yn Aelodau o Eglwyſydd neilldiol, i'w rhwymo na byddai iddynt mewn un modd wahanu ac ymneilldio oddi wrth yr Eglwyſydd hynny, oni orfyddai arnynt o herwydd Rheſymmau cyfiawn ac amlwg: ac ni dybygwn fod yr Apoſtol mewn Modd dwys rhyfedd yn eu tynghedu hwynt, yn *Phil.* ii. 1, 2. *Od oes dim Diddanwch yng Nghriſt, od oes dim Cyſſur Cariad, od oes dim Cymdeithas yr Yſbryd, od oes dim Tmyſgaroedd a Thoſturiaethau*; *cyflawnwch fy Llawenydd, fel y byddoch yn meddwl yr un Peth, yn gyttûn, yn ſynied yr un Peth.* Y Cynghor hwn y mae efe yn roddi iddynt, fel yr oeddent yn Gymnulleidfa neilldiol o Gris'nogion dan *Epaphroditus*, eu Pen a'u Heſgob, gyd â'r hwn y danfonodd efe'r Epiſtol hon attynt. Yſtyr hyn i gyd ydyw, i'n rhwymo ni na wahanom oddi wrth yr Eglwys o ba un yr ydym yn Aelodau, cyhyd ag y caniatâer i ni barhâu yn ei Chymmundeb

mundeb heb wneuthur un peth ag ſydd yn amlwg yn anghyfreithlawn. Neu os ſuppoſwn mai Terfyſgoedd o'r tu mewn i'r Eglwys heb neilldio allan o honi, a feiddyliet wrth yr Ymrannïadau y mae'r Apoſtol yn sôn am danynt, ac yn wahardd; yna mwy o lawer y mae Ymneilldiad, yr hyn yw'r Terfyſg a'r Rhwygiad mwyaf o Undeb, i edrych arno fel Peth drwg ac anghyfreithlawn. Fel y mae eſe yn Bechod mawr jawn a pheryglus yn erbyn yr Eſengyl, i Ddynion ymneilldio oddi wrth Gymmundeb yr Eglwys ar ryw ychydig o Ymrafael, Amheuon anfer, a Rhagfarn gibddall; y mae yn Droſeddiad eglur o Gyfreithiau Undeb, a Gwrthryfel amlwg yn erbyn Awdurdod Criſt yn ei Eglwys. A chan ei fod felly, nid yw ryfedd fod yr Oeſoedd Cris'nogol puraf yn rhoi iddo'r fath Enw gwradwyddus. Can's felly y gelwir ef yn yr 31 o *Canonau'r Apoſtolion*, yn *Draba* ac yn *Greulondeb*; ac y mae *Ignatius*, Dyſgybl S. *Joan*, yn ei gondemnio fel Gwreiddyn y Drygau, *Ep. ad Smyrn.* fel Pechod ſy yn cau Dynion allan o Deyrnas Neſoedd, *Ep. ad Philad.* Ac y mae Llyfr *Affrica* yn ei alw yn Bechod dinyſtriol, cyflegr-yſbeilus, *Con. Carth.* &c. *Can.* 100. A S. *Cyprian* ſydd yn ei wneuthur yn drymmach nâ Phechod y *Gwrthgilwyr* a offrymmaſant Aberth i Eulynnod i ochelyd Erlidigaeth, ac yn fath Bechod na allai Merthyrdod ei hun wneuthur dim jawn drofto; a *Dionyſius* o *Alecſandria* ſydd yn haeru, fod dioddef Merthyrdod yn hytrach nâ gwneuthur Rhwyg yn yr Eglwys, yn Weithred mor ogoneddus, ag oedd marw yn hytrach nag offrwm Aberth i Eulynnod. Ac fel y maent yn llyn yn gwaeddi Siſm i lawr, felly o'r gwrthwyneb y maent yn gwaeddi Undeb i fynu fel *Mammaeth Duwioldeb*, *Argae Crefydd*, y *Sylwedd* a'r *Crynhoad* o bob *Rhinweddau Cris'nogol*.

Ac yn wir i Undeb Aelodau'r Eglwys yn eu plith eu hunain, y mae'r 'Sgrythur yn priodoli eu Tyfiant a'u Cynnydd mewn Duwioldeb a Daioni. Can's yn llyn y mae'r Apoſtol yn dywedyd wrthym, nid yn unig fod *Cariad* (neu Gyttundeb ymhlith Aelodau Eglwyſig â'u gilydd) *yn adeiladu*, 1 Cor. viii. 1. ond hefyd yn ſicrhâu i ni, fod yr holl Eglwys, neu'r holl Aelodau ynghyd, yn

dyfod yn *Deml ſanctaidd*, ac *yn Breſwylfod i DDUW*, trwy gael ei *chymmwys gydgyſſylldu* a'i huno ynghŷd yn ei holl Rannau, *Eph.* ii. 21, 22. Ac *Eph.* iv. 16. y mae efe yn dywedyd wrthym, fod yr Eglwys yn *gwneuthur Cynnydd i'w Hadeilad ei hun mewn Cariad, trwy gael ei chyd-ymgynnull a'i chyd-gyſſylldu* yn ei holl Rannau a'i Haelodau. A *Col.* ii. 19. y mae efe yn dywedyd wrthym, mai nid yn unig oddi wrth ei *Hundeb â Chriſt*, a'r Maeth a'r Cynnydd y mae hi trwy hynny yn gael oddi wrtho ef, y mae'r Eglwys yn *cynnyddu gan Gynnydd DUW*, ond hefyd oddi wrth ei *Chyd-gyſſylldiad*, neu o herwydd ei bod wedi ei huno yn gadarn ynghŷd yn ei holl Rannau. Ac os yw Undeb mor angenrheidiol at Gynnydd a Pherffeithrwydd yr Eglwys, rhaid ei fod mor angenrheidiol hefyd at Gynnydd pob Aelod neillduol o honi. Can's,

1. Y mae Siſmau a Rhwygiadau afreidiol mewn Cymmundeb Eglwyſig yn naturiol yn afrywiogi Tymherau Dynion, ac yn eu gwneuthur yn daeog ac yn anghariadus i'w gilydd. Can's fe fydd yn rhaid i'r Blaid a fo yn ymneillduo, er mwyn eu hamddiffyn eu hunain, gyhuddo y rhai'ny y maent yn ymneillduo oddi wrthynt o ryw beth ag allo fod yn ddigon brwnt i gyfiawnhâu eu Hymneillduad; a'r peth a fo'n eiſiau arnynt mewn Gwirionedd, rhaid iddynt ei wneuthur i fynu mewn Lliw; heb hynny fe edrycher arnynt fel *Siſmaticiaid* pengam a gwrthnyſig: ac yna y Blaid oddi wrth ba un y maent yn gwahanu a fydd ſiwr o farnu ei bod yn cael Cam, ac fe orfydd arni achwyn yn ei Phlaid ei hun; a hyn a ddeffrŷ yr Ymneillduwyr i fwy o Boethder a Llid: ac felly, fel dwy Garreg Dân pan gurer hwy yn erbyn eu gilydd, hwy a fyddant beunydd yn gwreichioni ac yn poeri Tân ar eu gilydd, nes ennyn y Gynnen i Fflam na ellir mo'i diffodd. Ond pe buaſai'r Ymranwyr yn parhâu eu Cymmundeb, fe alleſid rhagflaenu hyn i gŷd, a hwy allaſent yn hawdd barhâu eu Cariad, er cadw o honynt yr Opiniwnau ar ba rai yr ymneillduaſant. Can's be buaſent hwy ond bod cyſtal ac mor weddaidd a pheidio rhoi'r blaen i'w Barn breifat eu hunain, yn lle ei roi ef i Refwm a Heddwch yr holl Eglwys, hwy a fuaſent naill ai yn cadw eu Hopiniwnau iddynt eu hunain, neu o'r hyn lleiaf ni buaſent yn eu

derchafu

derchafu yn Egwyddorion o Ymneilldüad; ac felly, trwy barhâu mewn Cymmundeb â'r Rhan honno o'r Eglwys oddi wrth ba un yr oeddent yn gwahanu mewn Opiniwn, hwy fuaſent yn dadgan eu bod yn barnu fod eu Cyfeilliornadau hwynt fel y gellid eu dioddef. Can's trwy beidio neillduo oddi wrthynt, hwy fuaſent yn dangos yn amlwg eu bod yn gweled digon o Reſwm i uno ar gyfrif y Pyngciau hynny ymha rai yr oeddent yn cyttuno, ond nid un Rheſwm i wahanu ar gyfrif y rhai'ny ag oeddent yn anghyttuno yn eu cylch; ac yn ganlynol, fod ganddynt lawer o Reſwm i *garu*, ond nid un i *gasâu* ac *erlid* eu gilydd: a thra y cadwent yr Opiniwn da ymma y naill am y llall, y mae'n anhebyg jawn y byddai i'w Gwahaniaethau bychain dorri llawer ar eu Cariad. Rhaid i *Siſm* ynte fod yn ddrwg ac yn niweidiol jawn i'n Parhâd, gan ei fod gymmaint yn dinyſtrio ein Cariad, yr hon yw un o Rinweddau blaenaf ein Crefydd. Can's y mae'r neb ſy wedi cwympo oddi wrth Dymmer gariadus i un lidus a digaſog, wedi gwrthgilio oddi wrth y naill hanner o Grefydd y Criſtion, a chwedi newid un o Raſuſau teccaf Saint am un o Nodau duaf y Diawl. Ond yna,

2. Y mae Siſmau, neu Rwygiadau afreidiol mewn Cymmundeb Eglwyſig, yn naturiol yn arwain i'r Rhagrith bryntaf. Can's y mae'r neb ſydd yn neillduo oddi wrth Eglwys yn Ddŷn drwg jawn, os nid oes ganddo Opiniwn gwŷch am y Pethau hynny y mae efe yn neillduo o'u plegid, a Zêl fawr droſtynt; a'r Zêl hon, pan fo efe wedi ymneilldüo, a ennyn yn fwy o lawer, a hynny trwy Wrthwynebiad yr Eglwys yr ymneilldüodd efe oddi wrthi, ac Annogiad y Blaid yr ymneilldüodd efe atti; ac felly bob yn ychydig fe fydd i'r Gwreſogrwydd ſanctaidd hwnnw, a ddylaſai ei wroli ef yn Nyledſwyddau eglur a diamhêus Crefydd, fflammychu i Ymryſon creulon dros yr Opiniwnau bychain hynny ag ſydd yn gwneuthur i ſynu y Blaid y mae efe wedi ymrwymo ynddi. Can's o herwydd fod ein Natur yn derfynedig, a chwedi ei chyfyngu yn ei holl Weithrediadau, y mae'n amhoſſibl i ni weithredu amryw Ffyrdd ar unwaith gyd â'r un faint o Rym a Bywiogrwydd; ond pa Amſer a Gwaſanaeth bynnag a yſtoſom

ar

ar un Peth, rhaid i ni ei dynnu oddi wrth y Peth arall. Yn awr tra y parhaom mewn Cymmundeb heddychol â'r Eglwys, nid oes genym un Gwaith arall i'n Zêl, ond i ofod Yſbryd yn ein Deſoſiwnau, i ſywioccâu ein Rhinweddau, ac i ymladd â hi yn erbyn ein Pechodau; a hyn y mae pawb yn gyttuno ydyw'r Defnydd goreu y gellir i gofod iddo: ond wedi i ni fyned unwaith i Ymneilldüad a Siſm, nyni a gawn Waith arall iddi; ſef, i gwympo i maes ag Ordinhadau Eglwyſig, i ymgeccran ynghylch Defodau ac Amgylchiadau Addoliad, ac i ymryſon am ein coeg Dybiau a'n Hopiniwnau. A rhaid yw i hyn ei gwanhâu hi yn ei Gweithredïadau mwy emwog, a gwneuthur ein Zêl yn fwy diofal a difraw yn Nyledſwyddau mawrion anhepgorol Crefydd: a thra y mae'n llyn mewn Trafferth dilês yn pigo Gwellt, ac yn ymryſon ynghylch *Mint* a *Chwmin*, diau y rhaid iddi yn fwy neu'n llai eſgeuluſo Pethau mawrion a phwyſfawr y Gyfraith; ac felly fel y tyfo hi wreſoccach ynghylch Opiniwnau bychain ac Amgylchiadau Crefydd, felly yn gyfattebol hi a beunydd oerach oerach yn ei Dyledſwyddau angenrheidiol a hanfodol, nes o'r diwedd iddi gwbl-ddirywio i *Dwygruydd* a *Therfyſig*, a threulio allan mewn Ymryſon llidus am Ffoneg. Mai hyn yw Ffrwyth naturiol Siſm, a ymddengys trwy ormod o Broſiadau athrift. Can's pa gymmaint o Eſamplau o Ddynion ſydd yn ein plith ein hunain, y rhai oedd ganddynt unwaith Zêl oneſt dros Fywyd a Sylwedd Crefydd, ac yn gwnenthur Cydwybod fawr o *ſyw yn ſobr, yn gyſtawn, ac yn ddauwiol yn y Byd ſydd yr awr hon*; ond wed'yn' a ddaethant i gymmeryd Plaid y cyfryw *Seêt*, ac a droeſant Ffrwd eu Zêl i redeg ffordd arall, lle ni wnaeth ei Rhediad anhreſnus hi yno ond cadw Stwr yn unig, a dlanw'r Byd â chrôch Ddwndwr a Therfyſig ynghylch Pethau bychain, ond a fu yn gwbl fûd ac yn ddifraw mewn perthynas i'r Dyledſwyddau mawrion a phwyſfawr ar bob rai y mae eu Dedwyddwch yn ſefyll; ac felly eu Crefydd hob yn ychydig, fel Corph mewn Crŷd poeth, a ddarfu trwy ei Gwrês ei hun, tra y câdd y Zêl a'r Gwreiddyddwydd hwnnw, yr hwn a ddylaſai ei chyffrôi a'i bywioccâu ei throi yn Gleſyd iddi, a chwbl-ddiffodd mewn Therfyſig.

Ymra

Ymraſtel; a thra y mae eu Zêl fel hyn yn cael ei thanddefnyddio ynghylch Coeg-bethau bychain eu *Sect*, a hwy yn barod i arſwydo rhag Seremoni ddiniweid, a llewygu i weled Defod ac Anrgylchiad ddidderwg-ddidda mewn Creſydd, fel pe bacht yn ofni y gwenwynai eſe hwynt o hirbell, hwy allant lyngcu Camelod, a gollwng yn rhwydd i lawr yr Anfoeſoldeb ffeiddiaf, er eu bod yn hidlo y Gwybod hyn.

3. Ac yn olaf, y mae Siſmau a Rhwygiadau afreidiol mewn Cyfundeb Eglwyſig yn naturiol yn cyſtyn Dynion i fod yn gwbl ddigrefydd. Can's pan ymadawo Dyn unwaith ag Eglwys Sefydledig heb Warant gyfiawn, nid oes dim all ofod Terfynau na Cheulanmau iddo, nid oes ganddo ddim Egwyddorion ag allo ei gadw ei mewn un lle, na gofod dim Meſuron o Gyfnewid iddo. Can's wedi iddo, o ran *Efrwiſo*, neu ryw Hoen ddifyr yn unig, redeg o'r Eglwys at y cyfryw *Sect*, pa beth all ei rwyſtro ei rhag redeg oddi wrth y cyfryw *Sect* at un arall, ac felly yn mlaen o Sect i Sect, hes bo iddo ei redeg ei hun allan o bob Crefydd? Y mae eſe yn rhedeg i lawr i Oriwaredd ſerth, heb ddim Egwyddorion i'w attal, fel y mae'n anhoffibl barnu i ba le yr â eſe, neu yn naha le y ſaif eſe: eſe all ymgatfydd ſefyll yn y cyfryw Opiniwn; ond os ſaif eſe, o Ddamwain y mae hynny; ac os ni ſaif eſe, eſe a fydd yn rhedeg o un Opiniwn i'r llall heb Ddiwedd, ac yn newid ei Eglwys mor fynyched a'i Almanac. Can's y mae Siſm yn Ddyryſwch chang, ſydd yn naturiol yn rhannu ac yn adrannu i Lwybrau â Rhoedfeydd anfoldrol, lle y gall Dyn grwydro i Dragywyddoldeb, a pho bellaf yr elo, mwyaf y gall eſe golli ei hun: ac yna, wedi iddo ef grwydro dro o un Opiniwn gwyllt i'r llall, ac y gwelo eſe beunydd, po bellaf yr elo, mai mwyaf anfoddlongar ydyw, mil i un oni ddaw eſe o'r diwedd i ddrygdybio a chweſtiyno pob Crefydd, fel pe na bae'r cwbl ddim ond rhyw Grynhoad difynwyr o Opiniwnau gwrthun neu anhêus, wedi eu llyfelu gyd ag Amcan i ddifyrru Meddyliau Dynion, a'u maglu hwynt mewn Dyryſwch diddiwedd. Can's y mae'r *Siſmatic*, fel y dangoſais o'r blaen, yn anfoddlon o ofod Rhan fawr o'i Crefydd yn yr Opiniwn hwnnw o Grwydd pa un y mae eſe yn ymrannu ac yn ymneillduo; fel

os anfoddlona efe unwaith i hwn, megis ymhob Debygoliaeth y gwnâ efe yn fuan, wedi iddo ddechreu newid yn fynych eifoes, fe fydd dan Brofedigaeth fawr i ddrwgdybio fod y Cyfan o Grefydd yn gymmaint o Dwyll ag y mae efe yn gweled fod yr Opiniwn anwyl hwn; yn enwedig wedi iddo redeg trwy amryw fath o Opiniwnau, a gweled o'r diwedd nad ydynt i gŷd ond Hudoliaeth. Can's fel y mae Pennau gweinion, pan ddyallont fod y Gwalbleidiau yn figlo, yn barod i ddrwgdybio fod y Sail yn anfier; felly y bydd Dyalldwriaethau gweinion yn barod i ddrwgdybio Sylfaen Crefydd, pan ddyallont unwaith fod yr Opiniwnau anwyl hynny yn figlo y rhai y ddarfu iddynt hwy yn hyderus ryfygu adeiladu arni. Ar y Cyfrif hwn, gan hynny, nid ydwyf yn ammau, nad yw Diddyrwiaeth yr Oes brefennol, mewn Mefur mawr, yn ddyledus i'w Sectau a'u Hymranniadau hi. Can's pa gynnifer o Efamplau truenus fydd gennym o Ddynion ag oedd ganddynt unwaith lawer jawn o Zêl dros Grefydd, a Boddlondeb ynddi, y rhai, wedi ymadael yn ddiachos â Chymmundeb yr Eglwys, a redafant o *Sect* i *Sect*, ac o un Opiniwn afrefymmol i'r llall, nes, wedi cael o'r diwedd eu hargyhoeddi o'u Twyll a'u Hudoliaeth hwynt oll, iddynt fwriw Crefydd ei hun ymmaith, a diweddu mewn Diddyrwiaeth ac Anghredinjaeth? Gan fod cymmaint o Ddrygau ynte yn canlyn *Sifm*, a'r fath ag fydd yn amlwg yn peryglu ein Parhâd mewn Crefydd, y mae'n perthyn yn fawr i ni, fel y chwennychem ddal allan hyd y Diwedd yn ein Milwriaeth Gris'nogol, i lynu wrth Gymmundeb yr Eglwys.

VI. Tu ag at barhâu hyd y Diwedd yn y Filwriaeth Gris'nogol, y mae hefyd yn angenrhaid na bo i ni gyfyngu ein Taith mewn Crefydd (o ryw wâg Dŷb ein bod ni yn ddigon da eifoes) i unrhyw Raddau neu Fefuron pennodol o Ddaioni. Can's fel hyn y gorchymyner, nid yn unig *fod gennym Râs*, ond ar i ni *beunydd gynnyddu yndde*, a Pedr iii. 18. ac nid yn unig *i wneuthur Gwaith yr Arglwydd*, ond *i fod yn helaeth ynddo*, 1 Cor. xv. 58. ac nid yn unig *i rodio i DDUW ym mhob rhyngu bodd*, ond *i gynnyddu yn hynny fwyfwy*, 1 Thef. iv. 1. *i anghofio'r Pethau fy o'r tu cefn*; hynny yw, y Graddau o Rinwedd a Daioni a gyn-

haedd-

handdasom eisoes, a bod beunydd *yn cyrchu ymlaen at y Nôd o Gamp sin hagbel Aliwedigaeth*, Phil. iii. 13, 14. Yfluyr hyn i gŷd ydyw, na ddylem gyfyngu ein humain ac y Pethau ydym wedi eu cyrraedd yn bresennol, allan o Opiniwn diog ein bod yn dda ddigon eisoes; ond y dylem fod beunydd yn myned ymlaen bellach bellach mewn Perffeithrwydd. Can's y mae Sancteiddrwydd ymhob Man yn yr Efengyl yn cael ei orchymmyn mewn Mesurau diderfyn a diddiwedd, a'n Cynnydd ynddo fydd i gyrraedd i'r Rådd eithaf o Berffeithrwydd ag fydd bossibl. Gorchymmyn yw hwn a rydd i ni ddigon o Waith dros fyth, ac a'n rhwyma ni beunydd i ymestyn ymlaen tu hwnt i'n Cyrhaeddiad presennol i Dragywyddoldeb; ac esgeuluso hyn yn ddiammau a fu'r Achos i beri i lawer Dŷn fod yn golledig yn y Diwedd. Nid ydynt yn ceisio cyrraedd dim rhagor nâ'r hyn fydd gwbl-angenrheidiol i'w fynnud hwynt oddi ar Ymyl Dinystr tragywyddol; ac ds gallant ond cael y goreu ar eu Pechod cyn-belled, a dyfod i'r Rådd isaf o Ufudd-dod diragrith, a dim ond prin mynedd dros y Lein fy yn gwahanu rhwng Cyflwr drwg a Chyflwr da, fel y gallont, os bydd iddynt farw fel y maent, obeithio diangc Uffern, a chytraedd rhyw Rådd o Ddedwyddwch, y maent yn tybied eu bod wedi eu rhyddhâu eu hunain yn dêg ddigon. Ond yn awr, heblaw fod y Lein honno ag fydd yn rhannu rhwng y ddau Gyflwr hwnnw o Bechod a Grâs yn anhawdd ei chanfod, ac y gellwch fod yn debyg ddigon o gael eich twyllo, a meddwl eich bod wedi dyfod drosti i Gyflwr Grâs, tra'r ydych etto ar Gyffiniau Arglwyddiaeth Pechod, ac felly bod yn golledig yn y Diwedd ar Fin y Porthladd; heblaw ei fod yn Argoel ofnadwy eich bod chwi etto yn eich Pechodau, nad ydych yn amcanu dim rhagor nâ diangc y Destryw tragywyddol fydd yn eu canlyn hwynt; yr hyn fydd yn dangos yn eglur, mai Ofn Uffern yw Enaid eich Crefydd chwi, ac nad oes mo'r Rådd leiaf o wir Gariad at Dduw yn gymmysgedig â hi, heb ba un y mae eich Crefydd yn gwbl ddilês: heblaw hyn i gŷd, meddaf, tra'r ydych yn gorphwys yn y fath Gyflwr amherffaith o Ddaioni, yr ydych yn trigo yn y Gym'dogaeth nesaf i Gyflwr pechadurus; ac felly yr ydych

mewn

mewn Perygl parhâus o ddychwelyd yno drachefn. Can's pa fodd y mae'n boſſibl i chwi fod yn ddiogel, tra'r ydych yn ſefyll ar Emyl y Cyflwr truenus hwnnw na wnaethoch ond prin dyfod allan o hono, a chennych gynnifer o Dueddiadau cryf oddi fewn i chwi, yn cyd-weithio â Phrofedigaethau yn aneirif oddi allan i chwi, i'ch bwrw bendramwnwgl yn ôl drachefn iddo? Ac felly, os mynnech fod yn ddiberygl, nid yw ddigon i chwi fyned allan o'ch Cyflwr pechadurus yn unig, ac aros yn y fan honno; ond rhaid i chwi beunydd ymmud bellach bellach oddi wrtho, trwy fyned beunydd ymlaen i bellach Graddau o Berffeithrwydd. Can's rhaid i chwi yſtyried fod Pellder mawr rhwng Cyflwr o *Ddaioni* diragrith a Daioni cadarn; a'ch bod yn ſwy neu'n llai mewn Perygl o ail-gwympo, cyhyd ag y bioch yn myned ymlaen o'r naill i'r llall. Can's yr oedd eich Daioni yn ddiragrith er pan ddechreuaſoch gyntaf fwriadu yn gadarn ac yn galonnog wellhâu; ond, gwae finnau! pa gynnifer gwaith wedi hynny y buoch chwi mewn Perygl o ail-gwympo i'ch hên Ffyrdd pechadurus drachefn? Pa Ymdrech cryf a fu rhwng eich Cnawd a'ch Yſbryd, rhwng eich Tueddiadau drwg a'ch Bwriadau duwiol? Ac er i'r olaf gael y Fuddugoliaeth fynychaf, etto pa mor fynych y bu efe yn ildo? ie, pa mor fynych y cadd ei oſtrechu? Fel y buaſai efe yn farw er yr llawer Dydd, a chwithau dan gymmaint o Gaethiwed i'ch Chwantau ag erioed, oni buaſai i chwi trwy Edifeirwch cyflym ei adfywio yn fuan. Ac ni byddwch chwi byth yn gwbl-rydd oddi wrth y Peryglon hyn, nes bo i chwi lwyrddiffodd eich Tueddiadau drwg, a gweithio holl Rinweddau Crefydd i mewn i'ch Natur; ac yna chwi fyddwch wedi cyrraedd y Cyflwr cadarn hwnnw o Ddaioni, ag y bydd ymron yn amhoſſibl i chwi wrthgilio oddi wrtho. Os chwennychwch gan hynny ddiogelu eich Parhâd hyd y Diwedd, gwyliwch na oſodoch Derfynau i chwi eich hunain ar y Ffordd: can's er y bydd i chwi yn ddiammau ddiangc: Uffern, os byddwch farw ond yn ddaionus ddiragrith; etto ymhob Tebygoliaeth ni byddwch yn hir yn ddaionus ddiragrith, oni byddwch ryw beth ragor; hynny yw, onid ewch ymlaen yng Ngraddau Rhinwedd, ac arol

eich

eich Tueddiadau drwg, a chynnyddu eich Tueddiadau g'ch Cynheddfau da fwyfwy. Can's cyhyd ac yr arhoso un Chwant ac Ddrwg ynnoch, chwi fyddwch mewn Perygl o gael eich bradychu ganddo; a pho gryfaf fo 'r Chwant hwnnw, mwyaf i gŷd y mae yn bygwth eich Dinyſtr. Fel na's gellwch fod byth yn ddiogel, cyhyd ag y mae Gelyn gennych yn fyw yn eich Monwes, a thra y gorphwyſoch mewn un Cyrhaeddiad y tu ymma i Gyſtwr o Gadarnhâd mewn Rhinwedd, ymha un y llwyr-ddiffodder pob Tueddiadau drwg; yr ydych yn fwy neu'n llai mewn Perygl yn gyfattebol i'ch Gwaith yn myned ymhellach oddi wrth, neu yn dyfod yn agoſach at, y Cyſtwr dedwydd hwnnw.

VII. Tu ag at barhâu hyd y Diwedd, y mae'n angenheidiol hefyd i ni fynych fyfyrio ar ein Marwoldeb, ac ymegnio i oſod ein hunain ymlaen-llaw mewn Agwedd dda i farw. Can's yn llyn y gellŵr arnom yn ein Cyſtwr hwn o Filwriaeth i *yſtyried ein Diwedd*, Deut. xxxii. 29. a thrwy Eſamplau y Gwŷr goreu y'n gwahodder i *gyfrif ein Dyddiau, fel y dygom ein Calonnau i Ddoethineb*, Salm xc. 12. ac i *ddiſgwyl byd oni ddelo ein Cyfnewidiad*, Job xiv. 14. Ac i'r Diben hynny y goſoder ni mewn Côf, *nad oes i ni ymma Ddinas barhâus*, Heb. xiii. 14. a *goſod i Ddynion farw unwaith*, Heb. ix. 27. a bod *ein Heinioes megis Tawch, yr hyn ſydd dros ychydig yn ymddangos, a chwedi hynny yn diflannu*, Jago iv. 4. Ac i'r Diben ymma y mae'r Apoſtol yn cymhwyſo'r Yſtyriaeth hon, 1 *Cor.* vii. 29, 30, 31. *A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, Frodyr* (hynny yw, yngholch ein Preſwylfod a'n Arhoſfa ymma, ar yr hyn y mae eſe yn ein cynghori i wneuthur ein hunain yn gwyn eſmwyth mewn perthynas i Bethau'r Bŷd hwn) *y mae yn ôl, ſod o'r rhai ſy â Gwragedd iddynt, megis pe byddent heb ddynt; a'r rhai a wylant, megis heb wylo; a'r rhai a lawenhânt, megis heb lawenhâu; a'r rhai a brynant, megis heb feddu; a'r rhai a arferant y Bŷd hwn, megis heb ei gam-arfer: can's y mae Dull y Bŷd hwn yn myned heibio*: hynny yw, Gan fod eich Amſer ymma yn fyrr jawn, ymrôwch ymlaen-llaw i ddattod eich hunain oddi wrth y Bŷd hwn, ac i oſod eich hunain mewn Agwedd cymmwys i'w adael eſ: can's nid yw eſe ond Chwarcu hyrr, a ngwidier

widier yn fuan; ac yna y canlyn Cyflwr tragywyddol o Bethau ar ei ôl.

Ac yn wir, gan mai marw yn dda yw'r Weithred olaf, a Diwedd ein Milwriaeth Gris'nogol, rhaid mai Peth ag fydd yn perthyn yn fawr i ni ydyw, arfogi a pharotôi ein hunain tu ag atto ymlaen-llaw; rhag i ni golli y Gamp fendigedig trwy dramgwyddo wrth y Gôl; a chwedi hir Daith cael ein colli yn dragywydd yng Ngolwg y Porthladd. Can's ar Awr Angeu yr ydym yn taflu yr Ergyd diweddaf am Dragywyddoldeb o Ddedwyddwch neu Drueni; a pha gymmaint y mae'n perthyn i ni daflu'r Ergyd hwnnw yn dda, ar ba un y mae'r fath Gyngwyftl mawr yn ſefyll! O! Peth pryſur ydyw marw, tramwy trwy y Cyntedd tywyll hwn i Dragywyddoldeb, trwy ba un, fel yr elom y Ffordd *jawn* neu'r *gam* Ffordd, y *gwneir* neu y *diſether* ni yn dragywydd! Can's i'n dwyn yn jawn trwyddo, ni waſanaetha ychydig o Driſtwch ar Wely-angeu, neu Ddymuniadau da, ychydig o Addewidion a dynner oddi arnom, neu Fwriadau ag ydym yn orfod wneuthur, neu Weddiau llawn o Arſwyd, neu, *Arglwydd, trugarhâ wrthym.* O! na wnâ, na wnâ: y mae hi yn Ffordd goſtfawr; ac ni allwn ni byth dalu'r Draul, oddieithr i ni ddwyn gyd â ni Gyfoeth mawr o Barodrwydd yſbrydol. Fe fydd arnom eiſiau Ffydd grêf a bywiog, Meddwl wedi ei lenwi yn dda ag Yſtyriaethau doeth, Edifeirwch dwfn, a helaeth, a chwedi ei brofi, Cariad diattal, Ammynedd cadarn, Ymoſtyngiad dwfn i Ewyllys Duw, a Gobaith o Dragywyddoldeb bendigedig wedi ei jawn ſeilio. Can's heb y rhai'n i gŷd ynghŷd, nyni a fyddwn yn anghymmwys jawn i farw, ac a redwn Berygl ofnadwy o fod yn golledig yn dragywydd. Ac y mae y rhai'n yn gyfrifo Bethau ag nad ydynt arferol o dyfu i fynu fel *Bwyd Barcud* mewn Noſwaith, neu yn yr ychydig Funydau aflonydd o Amſer Marwolaeth; ond yn gofyn mwy a thawelach Amſer i dyfu ac addfedu. Fel, os ydym yn meddwl marw yn dda, ac felly dyfod ymmaith â'r Fuddugoliaeth yn y Weithred olaf hon o'n Milwriaeth yſbrydol, rhaid i ni yn awr, tra fom yn jach, fod â'n Myfyrdodau yn fynych ar yr Eſgyrndy, a ddarllen i ni ein hunain Bregethau ar

yr

yr Yſgerbydau a'r Penglogau ſydd yno, yr Arwyddion a'r Darluniadau hynny o'n Marwolaeth ni ſydd yn nesâu; a chymmeryd oddi wrthynt hwy y fath Luniau bywiol o Frenin y Dychryniadau, ag a wnelo ei Olwg hyll a'i Ymweliad arſwydus mor gynnefin i ni, ag y bo ein Meddyliau wedi cynnefino ymlaen-llaw â Dull ei Ddynesâd artom, â pha fath Lu o Glefydon y mae efe yn arfer gwarchae ar Gaſteil ein Heinioes; y modd y mae efe, er gwaethaf holl Wrth'nebiadau Natur, yn eu plannu ac yn eu llettya hwynt yn ein Gwythennau neu'n Rhedweliau, yn ein Yſtymog neu'n Hymyſgaroedd, ac oddi yno yn ein poeni ni i gyd drоſom ag Ing a Blinder parhâus; y modd y mae efe, wedi ein blino a threulio allan ein Nerth wrth guro arnom yn waſtadol, a gwiſgo ymmaith ein Grym trwy Barhâd o Noſweithiau blinderus a Dyddiau athriſt yn canlyn eu gilydd, o'r diwedd yn cynllwyno yr Enaid allan o holl Weithredoedd Natur o'r tu faes, ac yn peri iddi gilio i'r Galon; a'r modd y mae efe, wedi ein nodi ni fel rhai meirw â Golchiad o Chwys oer a marwol, yn gwyſio ein Cyfeillion i wylo ac i'w gynnorthwyo ef i'n gofidio a'n blino â'u Cuſanau wrth ymadael, a'u Ffarwel toſturus; a'r modd y mae efe yn y Diwedd, wedi iddo ddeffygio i'n poeni yn rhagor, yn rhuthro i mewn i'n Calonnau, ac ag ychydig o Gyfyngderau a Loeſon marwol, yn rhwygo'r Enaid oddi yno, ac yn ei throi allan i hela ei Helynt ym Mŷd helaeth yr Yſbrydoedd; lle y mae naill ai Cythreuliaid yn dal gafael arni, ac yn ei dwyn i'w Carchardai tywyll hwynt o Driſtwch ac Anobaith, yno i nychu allan ei Bywyd mewn Diſgwyliad echrydus o'r Dydd ofnadwy hwnnw ymha un y rhaid iddi newid ei Chyflwr drwg am waeth; neu Angeljon yn ei harwain i ryw Drigfan fendigedig, yno i aros mewn Hyfrydwch anhraethadwy a Llonyddwch, hyd oni choroner hi ag Adgyfodiad gogoneddus. Yn awr, gan fod yn dra ſicr y rhaid i ni bawb yw amſer neu gilydd brofi'r Pethau hyn, ond yn anſicr awn pa gynted; pa gymmaint y mae'n perthyn i ni eddwl am danynt ymlaen-llaw, a rhagſwrw am y fath arotoad tu ag attynt, ag na chaffom ein dal yn ddirybudd a bryd bynnag y digwyddont! Can's heblaw y bydd i

fynych fyfyrio am Farwolaeth wneuthur ei Ddychrynfêydd yn gynnefin i ni, fel pa bryd bynnag y delo, y byddo ein Meddyliau, y rhai fy wedi ymgynnefino cyhyd i gadw Cyfeillach ag ef, mewn llai o lawer o Arfwyd ac Ofn o'i blegid; heblaw hynny, fe'n diddyfna ni oddi wrth chwennych Pethau y Byd hwn yn anghymmedrol, a'u canlyn hwynt yn rhy daer; y rhai, fel y dywedais wrthych o'r blaen, ydyw y Maglau â pha rai y mae ein Pechodau yn rhy fynych yn ein rhwydo ni: heblaw hyn i gŵd, meddaf, fe'n gefyd ni i dryfori Tryfor o Luniaeth yſbrydol erbyn y Dydd mawr treulfawr hwnnw. Can's rhaid i'r neb a fynych yſtyrio Nesâd ofnadwy Marwolaeth, a'r Dychrynfêydd fydd yn cyd-gerdded ag ef, a'r Diben a'r Canlyniadau pwysfawr fydd yn ei ddilyn, fod wedi penwannu yn rhyfedd, os ni bydd i hynny ei gyffrôi ef yn fywioc i'w rag-arfogi a'i gefnogi ei hun â'r holl Rafufau a'r Amddiffynfêydd ag fydd angenrheidiol i'w wneuthur yn efmwyth, yn ddiberygl, ac yn llwyddiannus.

VIII. Fel y bo i ni barhâu hyd y Diwedd yn y Filwriaeth Gris'nogol, y mae hefyd yn angenrheidiol, tu ag at ofod ein hunain mewn Agwedd dda i farw, i ni ryddhâu ein Cydwybodau o'r holl Weddillion o'n Heuogrwydd gynt. Can's felly y gorchymyner i ni gymmeryd gofal i *lanhâu ein calonnau oddi wrth Gydwybod ddrwg*, Heb. x. 22. a *chadw Ffydd a Chydwybod dda*, 1 Tim. i. 19. a bod â'n *Gorfoledd yn hyn, ſef Tyſtiolaeth ein Cydwybod, mai mewn Symlrwydd a Phurdeb duwiol yr ymddugaſom yn y Byd*, 2 Cor. i. 12. mewn gair, i *fyw mewn pob Cydwybod dda*, Act. xxiii. 1. a bod *â Chydwybod ddirwyſtr tu ag at DDUW a Dynion*, Act. xxiv. 16. Y rhai, er eu bod yn Ddyledſwyddau cyffredinol, ydynt etto yn cynnwys y Ddyledſwydd neillduol hon, y dylem holi ein Cydwybodau, Cof-reſtri ffyddlon hynny o'n Gweithredoedd, yn fanwl ac yn gywrain jawn; a pha le bynnag y caffom y tippyn lleiaf o Euogrwydd heb ei ddilêu, ei groeſi yn fuan allan trwy Driſtwch o'r Galon am dano, a'i alw yn ôl yn ein Moefau. Can's er darfod i ni yn gyffredinol edifarhâu am ein holl Bechodau aeth heibio, etto y mae rhai Pechodau y rhai, er na's gwnelom hwynt drachefn, ydynt yn ga-

dac

dael Euogrwydd parhaus ar y Meddwl, yr hyn ni's gall dim ei ddileu, ond ein gwaith yn eu galw hwynt yn ôl, ac yn eu dibechu yn weithredol. Megis bwriwch i mi gynt, naill ai trwy fy Nghynghorion drwg, neu fy Esampl, hudo eraill i Ffyrdd annuwiol; nid yw ddigon i dynnu ymmaith fy Mai, i mi fy hun gadw oddi wrth y Ffyrdd annuwiol hynny o hyn allan, ond rhaid i mi ymrôi i ddadwneuthur y Drwg a wnaethum i eraill trwyddynt, a thrwy alw yn ôl yn gyhoeddus fy Ffolineb gynt, trwy daer Ddeisyfiad a Chynghor da, a thrwy gymhwyso pob Moddion eraill a fo yn ddnwiol ac yn gall, ymegnio i ddwyn y rhai 'ny i'r Jawn y rhai a ddarfu i mi gynt wyrdroi. Can's hyd nes gwnelwyf hyn, yr wyf o'm bodd yn gadael i Ffrwythau drwg fy Mhechod i aros; ac os wedi i mi glwyfo arall, y gadawaf iddo farw heb gymmeryd dim Gofal am ei Wellhâd, yr ydwyf yn euog o'i ladd ef, er na chlwyfwyf mo hono byth gwed'yn'. Bwriwch drachefn i mi wneuthur Cam ag arall trwy unrhyw Gabl maleisus neu Ddryg-air; nid yw ddigon i'm rhyddhâu i oddi wrth yr Euogrwydd, fy mod yn peidio â'i gablu ef o hynny allan, ond rhaid i mi hefyd ymrôi, trwy alw yn ôl yn thwydd yr hyn a ddywedais, i amddiffyn ei Enw da rhag Cam, a rhag Drwg-dybiau y rhai'ny wrth ba rai y darfu i mi ei ddifenwi ef: can's cyhyd ag y bo ei Enw da ef yn dioddef, trwy fy mod i heb alw yn ôl y Cabl-eiriau a fwriais i arno, yr wyf yn ewyllysgar yn parhâu i'w ddifenwi a'i gablu ef; a chyhyd a hynny y rhaid i'r Euogrwydd lynu ac aros ar fy Nghydwybod. Unwaith yn rhagor; Bwriwch i mi wneuthur Cam ag arall yn ei Eoddion, naill ai trwy Ledrad, neu Dwyll, neu Drais; nid yw ddigon i'm rhyddhâu i, fy mod o hynny allan yn peidio â'i dwyllo, ei dreisio, neu ledratta oddi arno; ond os bydd yn fy Ngallu, rhaid i mi dalu yn ôl y cwbl a ddugais oddi arno ar Gam; a hynny iddo ei hun, os bydd efe byw, neu, os na bydd, i'r rhai'ny ag ydynt ei Etifeddion nesaf ef; ac o ddiffyg bod y cyfryw rai, i'r Tlodi, i-bawb rai, yn ôl Rhoddiad Duw, y mae'r fath Bethau diarddel yn perthyn, pan nad oes iddynt un Perchen arall yn fyw, Can's y mae'n sicr nad yw fy ngwaith i yn cadw ar Gam

y Peth ſydd yn eiddo arall, yn newid ei Hawl ef iddo, ond y mae ganddo ef yr un Hawl iddo tra'r ydwyf fi yn ei gadw oddi wrtho, ag oedd ganddo ar y cyntaf pan y cymmerais ef oddi arno; ac yn ganlynol, hyd oni thalwyf ef yn ôl iddo, yr ydwyf yn parhâu i'w gamweddu ef o hono, a thrwy ei gadw ef, yr wyf yn parhâu i ail-wneuthur droſto o hŷd y Twyll, neu'r Lledrad, neu'r Trais, trwy ba un y deliais afael ynddo ar Gam; a thra y byddwyf yn parhâu y Pechod yn llyn, y mae'n amhoſſibl lai nâ bod i'r Euogrwydd o hono beunydd aros arnaf. Yn y fath Bethau a'r rhai'n gan hynny y mae'n perthyn i ni fod yn fanwl ac yn gywrain jawn i holi ein Cyfriſon, i weled a oes dim o'r Dyledion hyn etto heb eu croeſi, dim o'r Ffrwythau drwg hyn o'n Pechod etto yn aros. Can's os ymddengys dim o'r fath Beth yn ein Cyfriſon, y mae'n perthyn i ni gymmaint ag a dalo ein Llês tragywyddol, i ymarfer pob Gofal a Diwydrwydd yn breſennol i'w ryddhâu ef, fel y bo i bob Dyledion gael eu gwneuthur i fynu a'u dibennu rhwng Barnwr mawr y Byd a ninnau, cyn y delo Angau i'n gwyſio ni i roi i fynu ein Cyfriſon iddo ef. Ac yn wir os chwennychwn fod yn ddiogel, y mae o fawr Berthynas i ni adael cyn lleied ag allom i'w wneuthur ar Wely-angau: can's Cyflwr anghymmwys jawn yw hwnnw fynychaf at Waith Crefydd; o herwydd y gallwn ni, er dim a wyddom, fod wedi gwallbwyllo ynddo gan Dwymyn, neu gollı ein Synhwyrau trwy y Parlys mûd, neu gael ein difuddio o'n Rhefwm gan Boenau anioddefol y Garreg; un o ba rai a'n gwnâ yn anghymmwys o bob peth, ond marw. Neu, pe na ddigwyddai dim o'r Pethau hyn, etto yn ſicr fe ſydd i Gyflwr Dŷn wrth farw ddwyn digon o Waith gyd ag ef, digon o Driſtwch a Gofal, digon o Ofnau ac Eiliau Ammynedd, i ymarfer ein holl Rinwedd, ac i oſod ein holl Reſwm ar Waith. Ac felly os dugwn gyd â ni i'n Gwely-angau un Gweddill o Euogrwydd heb groeſi, mil i un oni bydd i ni yn y Ffwdan wrth farw ei adael heb groeſi, ac y bydd i Gyfiawnder Duw afaelu arnom pan ddelom i Dragywyddoldeb. Am hynny, fel y chwennychem ragflaenu y Diwedd dinyſtriol hwn o'n Milwriaeth Gris'nogol, y

mac.

mae'n perthyn i ni yn awr, tra fom yn jach, i chwilio ein Cydwybodau yn ddyfal, i weled a oes dim hên Gyfrifon o Euogrwydd etto yn aros ynnom heb eu dilêu; ac od oes, i beidio rhoddi Gwſg i'n Llygaid, na Hûn i'n Hamrantau, nes i ni eu llwyr-groeſi a'u rhyddhâu hwynt, trwy alw yn ôl y Gweithredoedd, a gwneuthur dim Jawn ag allom am y Pechodau hynny. Ond yna, o herwydd y dichon llawer o'r rhai'n lithro o'n Côf, fel na's gellir eu meddyginiaethu;

IX. Tu ag at ddiweddu ein Milwriaeth Gris'nogol yn ddedwydd, y mae hefyd yn angenrheidiol, tu ag at wneuthur dim Taliad yn ôl ag allom am y Gweddillion hyn o Euogrwydd ynnom, i ni gymmeryd Gofal i brynu'r Amſer a ddarfu i ni gam-dreulio gynt mewn Ffyrdd pechadurus, trwy ddyblu ein Diwydrwydd yn yr Ymarfer o'r holl Rinweddau gwrthwyneb, a thrwy wneuthur pob Daioni ag allom yn wrthwyneb i hynny. Can's o'r holl Fendithion oddi allan ag y mae Duw yn yſtoſi arnom, ein Hamſer yw'r mwyaf gwerthfawr ac amhriſiadwy o'r cwbl: ac am hynny, er ei fod ef yn rhoi ei Fendithion eraill i ni yn amrywiol jawn, ac yn parotôi i ni Ddewiſiad helaeth o Fwydydd, Diodydd, a Dillad; etto wrth gyfrannu ein Hamſer i ni, y mae efe yn ymddangos yn fwyprin a llaw-gyfing: can's nid yw efe yn ei roi i ni yn Afonydd, ond bob yn Ddiferyn, a Munyd ar ôl Munyd; fel na's gallwn ni byth fwynhâu dwy Funyd ynghŷd, ond pa bryd bynnag y mae efe yn rhoddi un i ni, y mae efe yn waſtadol yn cymmeryd ymmaith un arall. Ac etto, O Ddu w Daionus! pa Waſtraff ydym ni yn wneuthur o'r Defnynnau gwerthfawr hyn, o ba rai yr wyt ti mor fanwl ac mor gynnil! Pa Ran fawr o'n Hamſer ydym yn ddifa yn ein Mebyd ar y Gwagedd diddrwg didda o Gnau a Theganau, a chwed'yn ar Wagedd mwy ffol a direſwm o lawer; ſef, ar ein Chwantau drwg, gwaſtraffus, ac afreolus! Fel pan ddelom o ddifrif i ymlid ar ôl Diben mawr ein Bywyd, ſe fydd y Rhan bennaf o'n Hamſer ſynychaf wedi myned ymmaith, fel na's gellir mo'i alw yn ôl. Pa gymmaint, yntê, y mae'n perthyn i ni, wedi i ni ofer-dreulio mor afradus y Rhan fwyaf o'r Dryſor o'n

Hamſer, i wneud y Defnydd goreu o'r ychydig ſydd yn ôl! ſel y gallom mewn Yſtyr foeſol ennill yn ôl y Peth ni ellir yn naturiol mo'i alw yn ôl. Can's er na's gallwn beri i'r Munydau gynt a gamdreuliaſom fod yn *breſennol* drachefn, etto nyni a allwn ad-ddyblu ein Diwydrwydd yn ôl llaw, a thrwy hynny gwneuthur pob *un* Funyd a ddelo cyſtal a phob *dwy* ſy wedi myned heibio. Can's trwy Ddiwydrwydd dau-ddyblyg nyni a allwn fyw cymmaint mewn un Diwrnod, ag a allwn mewn dau trwy Ddiwydrwydd ſengl; ac yn ganlynol, trwy wneud Defnydd dau-ddyblyg o'r Rhan hwnnw o'n Hamſer ag ſydd etto yn dda, ac i ddyfod, nyni a allwn mewn Yſtyr foeſol ailennill y Rhan honno ag ſydd wedi ei cholli, a chwedi darfod.

Hyn gan hynny y mae'r Eſengyl yn ofyn ar ein Dwylaw, wedi i ni fyw Rhan fawr o'n Hamſer yn ofer, i ni o hynny allan fyw llawer mewn ychydig Amſer, a gwneuthur i fynu ein Heiſgeuluſdra gynt trwy ein Diwydrwydd yn ôl llaw, a phrynu'r Amſer a dreullaſom ar ein Chwantau, trwy ymarfer y Rhinweddau gwrthwyneb i'r rhai'n yn fywioccach o hynny allan; a pho fwyaf halogedig y buom gynt, i ni o gymmaint a hynny fyw yn fwy defoſionol dros yr Amſer ſydd yn ôl; po fwyaf y ddarfu i ni gynt dwyllo a gorthrymmu, mwyaf o gymmaint a hynny y ddylem ddangos yn ôl llaw o Gariad ac Eluſendod; po fwyaf diwyd a fuom i hudo a llygru Dynion, mwyaf y dylai ein Zel fod i'w gwellhau a'u dwyn i'r Jawn; a thrwy ein Hynawſedd yn ôl llaw a'n Barn gariadus am Ddynion, ceiſio gwneuthur Taliad am Falais ein Cableiriau a'n Diſenwad gynt. Yn llyn, *Eph.* v. 28. *Yr hwn a ledrattaodd, ne ledratted mwyach*: ie, ond nid yw hynny ddim yn ddigon, ond rhaid iddo hefyd ymegnio i dalu am er Ledrad gynt, trwy ymarfer yn fywioccach y Rhinwedd ſydd wrthwyneb i hynny yn ôl llaw: *eithr yn hytrach cymmered Boen, gan weithio â'i Ddwylaw yr hyn ſy dda; fel y bo ganddo beth i'w roddi i'r hwn y mae Angen arno.* Felly hefyd, *Dan.* iv. 27. *Tor ymmaith dy Bechodau trwy Gyfiawnder, a'th Anwireddau trwy drugarhau wrth Druenſiaid*: hynny yw, Gan fod dy Fywyd gynt yn llawn o

Greulon-

Greulondeb ac Anghyfiawnder, ymrô yn awr i dalu am yr Euogrwydd o hynny (can's felly y mae'r Gair *Hebreaeg* yn arwyddocâu) trwy ymarfer yn fwy bywiog y Rhinweddau gwrthwyneb; ſef, Cyfiawnder i bawb, a Thrugaredd i'r Tlawd a'r Cyſtuddiedig. Ac i'r Diben hwn y goſoder Eſampl S. *Paul* o'n blaen i'w ddilyn; yr hwn, o herwydd bod o hono gynt yn Erlidiwr mawr i Gris'nogaeth, a lafuriodd wed'yn' yn helaethach nag un Apoſtol arall i'w derchafu a'i thannu hi, 1 *Cor.* xv. 9, 10. Cadw y Rheol hon ſydd o fawr Angenrheidrwydd i ddyfod â'n Milwriaeth hon i Ddiben llwyddiannus. Can's, fel y dywedais wrthych o'r blaen, y mae amryw Bechodau, y rhai, wedi i ni adael eu gwneuthur hwynt, ſydd yn goſod y fath Euogrwydd i lynu ar y Gydwybod, na's gellir mo'i olchi ymmaith, heb i ni eu dad-wneuthur hwynt cyn belled ag y gallom: megis Cynghor drwg, Enllib maleiſus, ac Elw anghyfiawn; y rhai i gŷd yr ydym yn rhwym, cyn belled ag y gallom, nid yn unig i'w gochelyd, ond yn weithredol eu galw yn ôl. Ond, gwae fi! y mae llawer o'r rhai'n, mewn hir Yrfa o Bechu, wedi eu llwyr-anghofio gennym; ac yn ganlynol, fel na's gellir mo'u galw yn ôl, ac yn y Câs hwn y cwbl ag allwn ni wneuthur i dynnu ymmaith yr Euogrwydd o honynt, ydyw, yng Nghwrs cyffredin ein Bywyd, i ymarfer yn helaeth y Rhinweddau ſy wrthwyneb iddynt, a gwneuthur yr holl Waſanaeth ag allom i Eneidiau, ac Enwau da, a Chyrph Dynion. Can's *Cariad*, medd yr Apoſtol, *a guddia Liaws o Bechodau*, 1 Pedr iv. 8. hynny yw, pan yr ymddangoſo, wrth Helaethrwydd ein Cariad, y chwennychem wneud Jawn a Boddlonrwydd am bob Camweddau a wnaethom, pe bae yn ein Gallu, ſe ſydd i DDUW yn y Câs hwn dderbyn yr Ewyllys yn lle'r Weithred, a bod mor drugarog wrthym, a phe buaſem yn weithredol wedi gwneuthur felly. Can's os ymddengys yn ei Olwg ef y gwnaethem y Peth pe gallaſem, yr ydym yn ei Gyfrif ef mor wir ufudd iddo, a phe buaſem wedi cyflawni y Peth mewn Gweithred; ac yn ganlynol, efe a drugarhâu wrthym yn gyfattebol. Ond Cariad anghyffredinol yn unig all dyſtiolaethu hyn; gan ein bod yn rhwym i'r hyn

ſy gyffredinol, er na bae gennym ddim hên Gamweddau i'w gwneud i fynu: ond i ſicrhâu ein Cymmod â Duw, y mae 'n angenrheidiol i ni roi Tyſtiolaeth iddo ef o'n Hewyllyſgarwch diragrith, i wneuthur nid yn unig y peth a fuaſem yn rhwym iddo pe na buaſem gamweddus, ond hefyd y peth ydym yn rhwym iddo o herwydd ein bod yn gamweddus. Yn awr, megis y mae gwneuthur Jawn mewn Gweithred, cyn belled ag y gallom, yn angenrheidiol i dyſtiolaethu hyn, pan fom yn cofio y Camweddau a wnaethom; felly y mae Cariad anghyffredinol mor angenrheidiol i dyſtiolaethu hyn, pan fom wedi eu hanghofio hwynt. A hyn wi'n ſwrw yw Yſtyr y Lle hwnnw ag ſydd yn gogyfartal iddo yn S. *Jago*, Pen. v. 20. *Yr hwn a dry Bechadur o Gyfeiliorni ei Ffordd, a geidw Enaid rhag Angau, ac a guddia Liaws o Bechodau*: hynny yw, Trwy y fath Weithred hynod o Gariad i Enaid ei Frawd, efe a gaiff Faddeuant gan Dduw am lawer o'r Camweddau hynny y rhai a wnaeth efe gynt, ac a anghofiodd, ac na's gall yn awr wneuthur dim Jawn am danynt un Ffordd arall. Felly os chwennychwn wneuthur Gwaith ſicr o'n Milwriaeth Gris'nogol, a bod yn ſiwr o gael ein coroni â Llwyddiant yn y Diwedd; fel y rhaid i ni yn gyffredinol ymegnio i brynu'r Amſer a ddarfu i ni dreulio gynt mewn Ffyrdd drygionus, trwy fod yn helaeth yn yr Ymarfer o'r Rhinweddau gwrthwyneb: felly yn neillduol, os buom fyw gynt mewn un o'r Ffyrdd camweddus hynny ag ſydd yn naturiol yn ſefydlu Euogrwydd mwy parhâus ar y Meddwl, rhaid i ni gymmeryd Gofal nid yn unig i wneud Jawn, cyn belled ag y gallom, am y Camweddau ydym yn gofio, ond hefyd i ſychu ymmaith Euogrwydd y rhai a anghofiaſom, trwy Gariad a Charedigrwydd anghyffredinol, trwy ddal Gafael ar bob Odfeydd i wneuthur Daioni, ac ymrôi yn ein hamryw Leoedd, yn ôl y Cymmorth a roddo Duw i ni, i achub Eneidiau, dianghenu Cyrph, ac amddiffyn Enw da ein Brodyr.

X. Ac yn olaf, Tu ag at barhâu hyd y Diwedd i wneuthur Daioni, y mae hefyd yn angenrheidiol i ni lafurio am gael Sierwydd o'r Nefoedd ag a ſo gyd a Rheſwm, a

chwedi ei jawn ſeilio. Yr wyf yn goſod hyn yn y Lle olaf, o herwydd mai'r Peth diweddaf ag ydys yn gyrraedd fynychaf yw efe; ac nid oes i ni ei ddiſgwyl yn fuan, a'i gippio cyn gynted ag y dechreuom ar Gyflwr crefyddol. Can's y mae'n rhaid i ni fyned trwy lawer o Orchwylion mewn Crefydd, cyn y gallom yn weddus ddiſgwyl cyrraedd *Sicrwydd*. Yn Nechreu ein Crefydd, pan y bom newydd adael Cyflwr drwg, ni's gallwn lai nâ gwybod, os ydym oll yn ein dyall ein hunain, ein bod etto mewn llawer o Berygl, ac mor agos i Gyffiniau y Cyflwr drwg hwnnw y diangaſom o hono, fel y mae ymron yn amhoſſibl gwahaniaethu p'un ai ynddo ai allan o hono yr ydym. Can's er ein bod wedi llwyr amcanu a bwriadu yn ei erbyn, etto ni's gallwn yn jawn rag-ddywedyd pa beth a fydd y Diwedd. Y mae'n Bwriad etto mor newydd, mor wan a dibroſiad, a chynnifer o Dueddiadau galluog i'r gwrthwyneb yn ymoſod iddo, na's gallwn hyderu arno heb Ffolineb mawr a Rhyfyg. Can's hyd nes caffo ei brofi yn ddigonol, er dim a wyddom fe ddichon na bo efe ond rhyw Wêdd dduwiol, neu Yſbaid ferr oleu rhwng Cyrchiadau gorphwyllog ein Trachwant a'n Serchiadau afreolus, y rhai mewn ychydig Ddyddiau yſgatfydd allant ddychwelyd drachefn, a'n llwyr-ddieithro a'n tynnu ni oddi wrth ein holl Gynghorion pryſur, a'n Hameanion. A phe digwyddai felly, ni bydd y peth ag ydym ni yn edrych arno yn awr fel ein Gwellhâd a'n Meddyginiaeth, ond Seibiant o'n Clefyd. A chwedi i ni brofi ein Bwriad gryn dro, a gweled iddo wrthſefyll yn lew y Profedigaethau hynny a'u cyrchaſant ef hyd yn hyn; etto ni's gallwn yn breſennol gael Sicrwydd rheſymmol o hono, os yſtyriwn mor anwadal yw ein Natur. Can's yſgatfydd ni chyrchwyd mo'n Bwriad etto ar yr Yſtlys wan, neu ni ddaeth Temtaſiwn i'w brofi yn y jawn Amſer, neu f'allai y byddem fwy difraw a diofal Amſer arall, neu â chryfach Tueddrwydd ynnom at Weithred ddrwg; ac yna fe ddichon y Profedigaethau hynny, y rhai a ddarfu i ni hyd yn hyn eu gorchfygu, ein caethiwo a'n gortrechu. Ac os yn llyn y digwydd, fe ddichon y peth ag ydym ni yn awr yn edrych arno fel Ymrafael tragywyddol rhyngom

ni

ni a'n Chwantau, fod yn unig yn Ddigofaint bychan, neu Ddiflaſder byrr, ac fel Cariadon yn cwympo i maes â'u gilydd, ddibennu mewn Adnewydd-deb Cariad. Ac hyd onid elom ymhell ymlaen i farweiddio ein Tueddiadau pechadurus, ac i gyrraedd y Defodau ſydd wrthwyneb iddynt, ſe fydd cynnifer o Fylchau, Deffygion, ac Ammherffeithrwydd yn ein Crefydd, ag a rydd i ni lawer o Reſwm, od oes dim Gwylder ynnom, i fod yn ofnus jawn ac yn ddrwgdybus am dani. Ond gan na allwn ni gael dim Teitl i'r Nefoedd heb fod yn ddiragrith mewn Crefydd, ſe ganlyn oddi ymma, na's gallwn, heb Deimlad eglur o'n bod yn ddiragrith, gael dim Sicrwydd o'n Teitl iddi; ac chwi welwch na ellir cyrraedd y fath Deimlad eglur ag ſydd angenrheidiol i ſeilio y fath Sicrwydd arno, heb Brofiad cyfangwbl o'n Bwriad mewn hir Yrfa fywiog mewn Crefydd. Am hynny y mae'n Argoel nad yw Dynion mor deimladwy ag y dylent fod o'u Hamherffeithrwydd eu hunain a'u Gwendid, pan y maent yn ceiſio dal Gafael ar Sicrwydd yn fuan, cyn gynted byth ag y dechreuont ar Fywyd da: hwy ddylent mewn Gweddeidd-dra ddiſgwyl ychydig, a heb farnu yn dda am danynt eu hunain yn rhy fuan, nes caffont lawn Brofiad o'u Bwriad; ac yn y cyfamſer ymdrechu ymlaen, mewn Gobaith y cânt o'r diwedd, trwy Fendith Duw yn cyd-gerdded â'u Hymroad hwynt, gyrraedd y fath Ddyalldwriaeth ſicr a Theimlad o'u Purdeb eu hunain, ag a fo yn ddigonol i roi iddynt Sicrwydd cadarn a rheſymmol. Can's gan fod Sicrwydd y Cyrhaeddiad uwchaf yn y Grefydd Gris'nogol, rhaid i ni eſgyn i fynu iddo yn raddol, ar hŷd y Ffyn a'r Cylchau canol o hir Ufudd-dod parhâus a chwedi ei broſi, heb neidio i fynu mewn Munyd, cyn cymmeryd o honom yr holl Gammau a'r Graddau ſydd yn tywys iddo.

Ond er na ddylem fod yn rhy flaen-llaw yn ein Sicrwydd, etto yr ydym yn rhwym i lafurio am dano yn y jawn Ffordd drefnus; hynny yw, i barhâu yn ein Hufudd-dod, hyd oni ddugom ein Cynhyrfiadau oddi fewn ac oddi allan i'r fath Râdd o Gyttundeb â Rheol yr Efengyl, ag y gallom, wrth gymmaru ein hunain â hi, heb Wenjaith neu Ryfyg, farnu ein bod yn bûr ac yn ddiragrith.

rith. Mi wn fod Ffordd ſy fyrrach o lawer i Sicrwydd, ag y mae rhai yn ddiweddar yn gymmeryd arnynt gael allan: a honno ydyw, trwy rhyw Ddynesâd ac Amlygiadau oddi wrth Yſbryd Duw na's gallant roi Cyfrif am danynt, yr hwn, fel y maent hwy yn haeru, ſydd yn ddigyfrwng yn ſibrwd ac yn dadguddio iddynt eu Teitl a'u Hawl i'r Nefoedd. Ond, gwae finnau! y mae hon yn rhy gyffelyb i Ffordd y *Gogledd-ddwyreiniol* i'r *India*, yr hon ſydd fyrrach yn wir, pe gellid ei chael, ond mor beryglus, nad wyf yn ammau na ddarfu i'r Rhan fwyaf a'i cynnygiodd hi fyned yn golledig; a da yw os ni ddeuant i Ddeſtryw yn y Diwedd wrth ei chwilio allan. Nid fy mod yn ammau yn y meſur lleiaf, nad ydyw Duw yn fynych yn byſbyſu ac yn ſibrwd Cyſſuron anhraethadwy a Sicrwydd i Feddyliau Dynion daionus: ond yna rhaid yſtyried, mai Rhodd yw hon a all Duw yr un a fynno a'i hyſtofi hi, ai peidio; ac mai anfynych, os byth, y mae efe yn ei hyſtofi hi, oddieithr mewn Achoſion anghyffredin, pan y mae yn angenrheidiol i'n hannog ni at ryw Waith mawr, neu i'n cynnal dan ryw Ddioddefaint anghyffredin. Can's Tâd doeth a gofalus am ei Blant yw efe, yn gwybod fod yn fwy angenrheidiol o lawer i ni fod yn ddaionus, nâ chael Llawenydd a Gorfoledd dros ben meſur; ac nad yw'r fath Bethau gwŷch i lonni ein Calonnau, nac yn weddus nac yn ddiniweid i ni ond mewn Cyfyngderau mawrion: ac am hynny y mae yn Argoel o'n Hanwybodaeth plentynaidd a'n Rhyfyg ni, i ddiſgwyl iddo ef eu gwneuthur hwynt yn Ymborth a Groeſaw cyffredin i ni. Ond er y gall y fath Hyſbyſiadau a Dadguddiadau digyfrwng was'naethu i Ddibennion da mewn rhyw Gyfyngder, etto nid oes i ni mewn un modd adeiladu arnynt fel Seiliau ein Sicrwydd cyffredin, parhâus. Can's cyhyd ag y bo Yſbryd drwg oddi allan, a *Ffanſi* anhrefnus o fewn i ni, ag allant watwor y Main-leiſiau hyn, nyni a fyddwn beunydd yn ddaroſtyngedig, cyhyd ag yr hyderom arnynt hwy, i holl Dwyll a Hudoliaeth Pen-wendid naturiol a chythreulig; ac fe fydd rhaid i ni gamgymmeryd llawer Peth a fwrio'r Diawl i mewn, a llawer Peth a fo Ffanſi boeth yn weithio arnom, neu Gynhyrfiad chwyrn y Prudd-

glwyf

glwyf neu'r Melancoli, yn lle Lleferydd a Thyſtiolaeth Yſbryd Duw; a thrwy'r Moddion hyn cael yn fynych ein goſod i gyſgu mewn gau Hyder a Sicrwydd, yr hwn, fel Breuddwydion am Aur, a ddiflanna pan ddihunom, ac a'n gâd ni wedi ein croeſi yn druenus. Rhaid i'r Sicrwydd gan hynny ag a ddylem ni ymofyn am dano, fod wedi ei ſeilio yn Nhyſtiolaeth Cydwybod dda, a chwedi ei dynnu oddi wrth Deimlad o'n Purdeb a'n Hunjawndeb ni ein hunain.

A hyn a orchymyner i ni ymegnio an dano: felly *Heb.* x. 22. y gorchymyner i ni *nesâu at DDUW mewn llawn Hyder Ffydd*; hynny yw, trwy ſicr gredu Cariad Duw tu ag attom, a'n Hawl yn ei Addewidion ef: a'r Grêd hon ſydd i gael ei ſeilio ar y Teimlad ſydd gennym oddi fewn, fod *ein Calonnau wedi eu glanhâu oddi wrth Gydwybod ddrwg, a'n Cyrph wedi eu golchi â Dwfr glân*; ac felly, *Heb.* vi. 11. *i ddangos Diwydrwydd mewn Gweithredoedd da, er mwyn llawn Sicrwydd Gobaith hyd y Diwedd*: hynny yw, i fod mor ddiwyd yn ein Dyledſwydd, a chyrraedd trwy hynny y fath lawn Sicrwydd o'n Gwobr, ag alſo ein nerthu ni i barhâu a dal allan hyd y Diwedd. Can's y mae S. *Joan* yn dywedyd wrthym, mai trwy ein Daioni diragrith, ac yn neillduol trwy *ein Cariad at eu gilydd*, y mae i ni *ſicrhâu ein Calonnau ger bron DUW*, 1 Joan iii. 14, 19. can's, medd efe, *adn.* 21. *Os ein Calon ni'n condemnia, y mae genwym Hyder ar DDUW*. Ac i'r Diben hwn, ymhlith eraill, y mae'r un Apoſtol yn dywedyd wrthym, iddo *'ſgrifennu* yr *Epiſtol gyffredinol hon*, ſel y byddai i wir Gris'nogion *wybod a chredu fod iddynt Fywyd tragywyddol*, 1 Joan v. 13.

Oddi wrth hyn i gŷd y mae'n amlwg, mai'n Dyledſwydd yw, llafurio am y fath Sicrwydd o'r Nefoedd, ag ſydd yn naturiol yn tarddu oddi wrth Deimlad eglur a ſicr o'n Purdeb tu ag at Dduw, a chadarn Grêd o'r Addewid o Fywyd tragywyddol, i ba un y mae ein Purdeb yn rhoi Teitl i ni. Can's wedi i ni gynnyddu mor belled mewn Crefydd, ag y gallom, wedi ein chwilio ein hunain yn ddibartiaeth, deimlo ein Hunjawndeb ein hunain, a dyall yn eglur fod ein Hamcan yn bûr, ein Bwriad

yn

yn ſefydlog, a'n Calon wedi ei rhoddi yn llwyr-gwbl i Dduw, nyni a allwn oddi yno yn dra ſicr gaſglu ein Teitl a'n Hawl i Addewid y Nefoedd. Fel mai'r cwbl ag ſydd gennym ni i'w wneuthur, i gyrraedd y Sicrwydd hwn, ydyw, puro ein Hamcanion oddi wrth gam Ddibennion, a daroſtwng ein Tueddiadau drwg i'n Bwriad o Ufuddodd cyn belled, ag y gallo ein Cydwybod, pa bryd bynnag y bom yn yſtyried y Rheol, ac yn ein cymmaru ein hunain â hi, yn hyderus gyhoeddi am danom ein bod yn ddiragrith; ac yna y gallwn wybod fod i ni Hawl yn y Nefoedd, mor ſicr ag y gwyddom fod Addewidion Duw yn eirwir: ac os, wedi i ni fyned mor belled a hyn mewn Crefydd, yr ydym beunydd heb Sicrwydd, nid yw hyn o eiſiau Tyſtiolaeth ddigonol, ond naill ai oddi wrth Dymmer *Felancoli*, neu Ffydd wan, neu Gydwybod heb ei hjawn oleuo; a pha un bynnag o'r rhai'n yw'r Achos, pan ſymmuder ef unwaith, nyni a gawn deimlo ein Purdeb ein hunain, a'n Hawl trwy hynny i'r Nefoedd, mor eglur ag yr ydym yn awr yn teimlo ein Hanwydau corphorol. A chwedi cyrraedd y Sicrwydd hwn unwaith, fe fywioccâ ein Calonnau â Gwroldeb dewr yn erbyn pob Profedigaethau, ac a'n dwg ymlaen gyd â Gorfoledd anhraethadwy trwy'r holl Rannau a fyddo yn ôl o'n Dyledſwydd; fe rydd Rym i'n Hegni, ac Adenydd i'n Bywiogrwydd, ac a'n gwnâ ni i gŷd yn Fywyd ac yn Yſbryd yn yr Ymarferion o'n Crefydd ſanctaidd. Ac megis pan ddaeth y Fyddin Gris'nogol, ar ol hir Ymdaith tu a Gwlâd *Ganaan*, o fewn Golwg i'r *Ddinas Sanctaidd*, a chanfod Tyrau a Cheſtyll *Caerſalem* o hirbell, yr oeddent yn y fath Lawenydd a Gorfoledd dros ben, fel y paraſant i'r Nefoedd ddadſeinio gan Fonleſain a Chrechwennau gorfoleddus; ac, fel pe buaſai'r Olwg honno wedi rhoi Eneidiau newydd iddynt, a redaſant ymlaen ar draws eu Gelynion â'r fath Galondid, ag a barodd iddynt ennill pa le bynnag y daethant: felly pan fo Dŷn da, wedi hir ymdaith o un Râdd o Rinwedd i'r llall, wedi dyfod mor belled ag y gallo efe, trwy ddyall a theimlo yn ſicr ei Burdeb ei hun, i ganfod y *Gaerſalem* newydd oddi uchod, a'i Hawl ei hun ynddi, fe fydd i'r Olwg fendigedig honno

honno ei lanw ef a chymmaint o Lawenydd, Gwroldeb, a Gorfoledd, na's gallo un Brofedigaeth o hynny allan ei wrthſefyll neu ei aflonyddu ef. Fel y bydd ei Gydwybod yn waſtadol yn canu Crechwennau o Fuddugoliaeth iddo, a'r Rhan a fo'n ôl o'i Helynt a fydd i gyd yn Daith orfoleddus iddo ef; a phan ddelo i'w Diwedd hi, i farw, a myned trwy Borth y Ddinas tendigedig hon, y Sicrwydd cryf fydd ganddo o Dderbyniad, a wafgara'r Gînau, a feluſa'r Blinderau, ac a ddoſa Boenau a Loeſon chwerw y Ffordd ddolurus honno. Ac efe a fydd farw nid yn unig mewn Tangnefedd, ond mewn Llawenydd, ac a â ymmaith i Dragywyddoldeb â *Haleliwia* yn ei Enau. Os chwennychwn gan hynny ddyfod â'n Milwriaeth yſbrydol hon i Ddiwedd dedwydd, y mae'n perthyn i ni yn awr, tra y mae gennym Odfa, i lafurio ar ôl y fath Sicrwydd o'r Nefoedd ag a fo yn gall, a chwedi ei jawn ſeilio.

DOSBARTH. VI.

Yn cynnwys rhai Annogaethau *i gymmell Dynion i ymarfer y Dyledſwyddau hyn o* Barhâd *yn y* Filwriaeth Gris'nogol.

WEDI rhoi i chwi, yn y Doſbarthiad o'r blaen, Hanes o'r holl Ddyledſwyddau hynny ag ydynt yn perthyn i'r Rhan *olaf* o'n Milwriaeth Gris'nogol, ſef, *Parhâd hyd y Diwedd*, a dangos mor lleſol ydynt i gyd i'r Diben hynny; mi ddibennaf yn awr, yn ôl fy Nhreſn o'r blaen, â rhai Annogaethau i gymmell a pherſwadio Dynion i'w hymarfer hwynt: y rhai i gyd a dynnaf oddi wrth yſtyried yr Angenrheidrwydd mawr anhepgorol o'n Parhâd hyd y Diwedd, i'r hyn y mae'r Dyledſwyddau hynny yn fath Gynnorthwyon a Moddion angenrheidiol. Can's oddieithr i ni gymmeryd y Dyledſwyddau hyn i'n Cymmorth, ni's gallwn ymhob Tebygoliaeth byth ddal allan hyd y Diwedd; ac oni pharhâwn hyd y Diwedd, yr

ydym

ydym yn euog o'r Ffolineb gwaethaf a mwyaf dinyſtriol yn y Byd. Can's yſtyriwch,

I. Os, wedi gwneuthur rhyw Gynnydd mewn Crefydd, y gwrthgiliwn yn ewyllyſgar, nyni a awn yn ôl yn gyflymmach o lawer nag yr aethom erioed yn y blaen.

II. Os bydd i ni unwaith wrthgilio yn gyfangwbl, y bydd i ni trwy hynny fforffettu holl Ffrwyth ein Poen gynt.

III. Fe fydd i ni fforffettu Ffrwyth ein Poen, wedi i ni fyned trwy'r Anhawſdra mwyaf o hono.

IV. Fe fydd i ni nid yn unig fforffettu Ffrwyth ein Poen gynt, ond hefyd gwneuthur ein Gwellhâd yn fwy peryglus ac yn anhawſach nag erioed.

V. Nyni a wnawn nid yn unig ein Gwellhâd yn ôl llaw yn anhawſach, ond hefyd fe fydd i ni fwrw ein hunain yn breſennol i Gyflwr mwy euog a phechadurus o lawer nag erioed.

VI. Fe fydd i ni nid yn unig ein gwneuthur ein hunain yn breſennol yn fwy euog; ond, megis Canlyniad ſicr o hynny, taflu ein hunain, os byddwn feirw yn ein *Gwrthgiliad*, i ddyfnach Dinyſtr a mwy ofnadwy.

I. Yſtyriwch, wedi i ni unwaith wrthgilio yn ewyllyſgar, oni wellhâwn yn fuan, nyni a awn yn gyflymmach o lawer yn ôl nag yr aethom erioed yn y blaen. Can's yn Nechreuad ein Taith mewn Crefydd, yr ydym yn gorfod hwylio dros hir Amſer yn erbyn Gwynt a Llanw, yn erbyn Awel grêf o Brofedigaeth oddi allan, a Ffrwd chwyrn o Dueddrwydd oddi fewn: a thra y bom yn llyn, rhaid i ni fod yn foddlon i ennill ein Tir bob yn Fodfedd, a fymmud ymlaen yn bwyllig bob yn Gam; ond ymhob Gwrthgiliad gwllyſgar, fe'n duger gyd â'r Afon, â llawn Yrriad Profedigaeth a Thueddrwydd. Ac felly pan pechom unwaith yn ewyllyſgar, oddieithr i ni yn fuan attal ein hunain trwy Edifeirwch, ymhob Tebygoliaeth nyni a gawn ein gyrru ymhellach yn ôl mewn Diwrnod, nag y gallwn fyned ymlaen mewn Wythnos. O herwydd gan fod eich Taith mewn Crefydd yn ſefyll yn erbyn Tir, ond eich Gwrthgiliad ar y Gwared, rhaid iwch' diſgwyl, pan gwympoch unwaith, i ddiſgyn yn gynt o lawer nag y

darfu

darfu i chwi erioed eſgyn, a myned yn gyflymmach o lawer i'r Gwaelod drachefn nag y gallwch fyned i'r Pen uwchaf, er pe digwyddai i chwi gwympo yn gymmwys yn y canol, heb fod gennych ddim pellach Ffordd i'r naill nag i'r llall. Can's ni ellir yn hawdd feddwl, pa Rym y mae Tueddiad drwg yn gaſglu trwy gael ychydig o'i borthi a'i foddloni; y modd y mae Prawf o Hyfrydwch pechadurus yn ei gyfodi a'i adfywio, ac yn ei wneuthur mor hoenus ac mor wiſgi ag erioed, wedi iddo 'mron nychu trwy hir Arbed; fel y mae fynychaf yn gofyn llawer jawn o Weithredoedd o Farweiddiad, i ail-ddiffodd y Bywyd a'r Grym hwnnw y mae e'n ennill trwy gael ychydig o'i foddhâu unwaith. Can's fel y mae y *Teiger* creulon wedi ei hir garcharu yn gorwedd i lawr yn ddôf yn ei Wâl, a phob yn ychydig yn colli ei holl Greulonder, ac yn dyfod yn llonydd, ac fel y galler ei drîn; ond gadewch iddo gymmeryd un Llwngc gwreſog o Waed, ac y mae ei hên Natur wyllt yn fuan yn adfywio, ac y mae efe yn dyfod mor greulon a chynddeiriog ag erioed: yn gymmwys felly y mae gyd â'n Tueddiadau drwg ninnau, y rhai, wedi eu tynnu oddi wrth eu Gormodedd a'u Hâfreolaeth, a'u carcharu yn gaeth gan Fwriad ſanctaidd, a ddeuant bob yn ychydig yn ddôf ac yn dawel, ac a anghofiant Flâs hudoliaethus Pechod; ond os unwaith y gadawn iddynt dorri yn rhŷdd drachefn, a chael Gafael ar y Pleſerau pechadurus hynny oddi wrth ba rai y cawſant eu dieithro drwy hir Amſer, hwy a ddychwelant at eu Gwylltineb naturiol yn fuan drachefn, ac a fyddant mor war-galed ac mor greulon ag erioed. Am hynny y mae'n perthyn yn fawr jawn i ni gymmeryd llawer o Ofal ynghylch pob Gwrthgiliadau gwllyſgar: can's diammau y bydd i'ch Llithriad cyntaf weithio Tueddrwydd mawr ynnoch at yr *ail*, a hwnnw Dueddrwydd fo fwy at y *trydydd*; ac felly, fel Dynion a fo yn rhedeg lwyr eu Pennau ar y Goriwared, po bellaf yr eloch, mwyaf i gŷd y cewch eich gwthio ymmlaen gan eich Pwys eich hun, ac anhawſach fydd i chwi ſtoppio ac attal eich hunain. Ac felly oni bydd i chwi ymattal yn fuan, trwy bechu ychydig o Ddyddiau chwi gollwch yr holl Dir a ddarfu i chwi ennill wrth ryfela amryw

ryw o Flynyddau; chwi dynnwch i lawr fwy o'ch Crefydd trwy un Pechod gwllyſgar, nag a ellwch wneuthur i fynu dracheſn trwy lawer Gweithred rinweddol; ac fel rhyw Slafaid afradus, chwi dreuliwch fwy mewn un Digrifwch ynfyd, nag a ddarfu i chwi ennill trwy weithio yn galed lawer Diwrnod. Ac os fel hyn y gwnewch, y mae'n amhoſſibl i chwi byth wneuthur dim Cynnydd: can's yr hyn ydych yn wneuthur mewn Wythnos, chwi a'i dadwnewch ef dracheſn mewn Diwrnod; ac felly, yn lle ymwthio ymlaen, ſe fydd i chwi ddawnſio mewn Cylch, a diweddu beunydd y man lle dechreuaſoch. Ac felly, oni bydd i chwi fyned yn y blaen a pharhâu i wneuthur Daioni, ni bydd eich holl Ymdrech a'ch Milwriaeth yn erbyn Pechod ond fel treiglo Maen *Siſyphus*, yr hwn, wedi i chwi fod dros hir Amſer yn ei gyfodi i fynu i Ben y Bryn, a ſyrthia mewn Munyd i lawr dracheſn arnoch chwi; fel y rhaid i chwi naill ai cymmeryd yr un Poen i'w gyfodi ef i fynu dracheſn, neu orwedd i lawr dano, a gadael eich hunain yn ddofaidd i gael eich malurio i Ddeſtryw tragywyddol ganddo.

II. Yſtyriwch, os wedi i ni wneuthur rhyw Gynnydd mewn Crefydd, y cwbl-wrthgiliwn, ein bod trwy hynny yn colli Ffrwyth ein holl Lafur gynt. Can's felly y mae Duw ei hun trwy'r Prophwyd yn dywedyd am y Peth hyn, *Ezec.* xviii. 24. *Pan ddychwelo y Cyfiawn oddi wrth ei Gyfiawnder, a gwneuthur Anwiredd, a gwneuthur yn ôl yr holl Ffieidd-dra a wnelo'r Annuwiol; a fydd efe byw? ni chofir yr holl Gyfiawnderau a wnaeth efe; yn ei Gamwedd yr hwn a wnaeth, ac yn ei Bechod a bechodd, ynddynt y bydd efe marw:* hynny yw, Er cyſtled y gallai efe fod gynt, os ai pharhâ efe hyd y Diwedd, ond gwrthgilio yn ewyllyſgar i Ffolineb a Drygioni; yr holl Rinwedd a ymarferodd efe, a'r holl Ddaioni a wnaeth efe, a lwyr-darewir allan o'i Gyfrif, ac ni chrybwyller byth am danynt i'w Lês na'i Fantais; ond yn y Drygioni y ſyrthiodd efe iddo, y bydd efe mor ſicr yn golledig, a phe buaſai ei holl Fywyd yn un Weithred barhâus, neu yn un Yrfa ddiattal o Anwiredd. Felly hefyd, *Heb.* x. 38. *O tynn neb yn ôl, nid yw fy Enaid yn ymfoddloni ynddo.* Ac yn wir y mae'n

rhaid i'n Gwrthgiliad gael yr Effaith hwn; can's trwy ſyrthio ymmaith oddi wrth ein Bywyd Cris'nogol, yr ydym yn ein goſod ein hunain yn ôl yn yr un Cyflwr ag yr oeddem ynddo cyn dechreu arno; ac Effaith yr holl Bethau da hynny a wnaethom o'r Amſer y dechreuaſom ar Fuchedd dda, hyd y pryd yr ymadawſom â hi, a ddiddymmer ac a ddileuer yn y fath Fodd, na bydd y Tippyn lleiaf o'i ôl ef yn ein Natur; ond ein Hewyllys a fydd mor yſtyſnig drachefn, ein Serchiadau a'n Chwantau mor wyllt ac afreolus, a phe buaſem yn gadael iddynt o hyd redeg ymlaen mewn Gyrfa o Anwiredd yn ddiattal. A chwedi diffodd holl Effeithiau da ein Milwriaeth gynt yn llyn, a gwneuthur ein Natur trwy ein Gwrthgiliad gwllyſgar mor aflan a llygredig ag erioed, nyni a oſodwn ein hunain trwy hynny drachefn dan Ddigoſaint ac Anfoddlonrwydd Duw. Can's y mae Cariad Duw a'i Gaſineb yn ddigyfnewid yn ſefyll ar yr un Seiliau a Rheſymmau; ac yn hyn y mae eu Hanghyfnewidioldeb hwynt; nid e fod ef beunydd yn caru, neu beunydd yn casâu, yr unrhyw Ddynion, o Anwyldra cib-ddall at y naill, neu Ragfarn direſwm at y llall; ond ei fod ef yn waſtadol yn eu caru hwynt, ac yn waſtadol yn eu casâu hwynt, o herwydd y mae un Rheſymmau; ac y mae efe wedi mynegi yn amlwg mai Daioni a Drygioni ydyw y Rheſymmau gwrthwyneb o'r Ymddygiad gwrthwyneb hwn tu ag at ei Greaduriaid; ac os ydyw hyn felly, nid oes Le na chanlyn oddi wrth hynny, mai megis y rhaid i'w Gâs droi yn Gariad tu a attom, pan y bo i ni droi o fod yn ddrwg i fod yn dda felly rhaid i'w Gariad droi yn Gaſineb tu ag attom, pan yr elom o fod yn dda i fod yn ddrwg. A'r Cyfnewidiad hwn o'i Serch tu ag attom nid yw yn tarddu oddi wrth ddim Cyfnewidiad yn ei Natur ef, ond oddi wrth Gyfnewidiad yn ein Natur ni; y mae efe beunydd yn mynd ymlaen ar Egwyddorion diyſgog ac anghyfnewidiol, yn dragywydd yn ſefydlog ac yn ddianwadal yn Rheſymmau ei Gariad a'i Gaſineb: yr hyn ni's gallai efe fod, o bae iddo newid ei Serch tu ag attom, pan y mae y Rheſwm o hono wedi newid; oni bae i fod ef yn ein ffeiddio ni, pan y gwelo efe nyni wedi ſyrthio a dirywio oddi wrth y Cy

y Cyfiwr hwnnw o Ddaioni er mwyn pa un yr oedd efe yn ein caru ni, ac yn cymmeryd Hoffder ynnom. Ac felly yr ydym ni, trwy gilio yn ôl yn ewyllysgar oddi wrth ein Cynnydd mewn Crefydd, nid yn unig yn diffoddi yr holl Effeithiau da hynny a weithiodd hi yn ein Natur, nid yn unig yn adfywio yr hên Chwantau hynny a ddarfu i ni ymroi eu marweiddio, a gwywo y Graſuſau tyner hynny a ddarfu i ni eu cyrraedd a'u cynnyddu ynddi; ond fel Canlyniad o hyn, yr ydym yn rhedeg allan o Freichiau Duw yr hwn ſydd yn ein coſleidio, ac yn ein taflu ein hunain bendramwnwgl oddi wrth y Gobaith gogoneddus hwnnw tu ag at ba un y buom trwy'r holl Amſer hyn yn tynnu ymlaen gyd â chymmaint o Boen ac Anhawſdra. Pa Ynfydrwydd ynte yw, i Ddynion ag ſydd unwaith wedi ymrwymo yn y Filwriaeth Gris'nogol, i feddwl troi eu Cefnau arni; i roi eu hunain yn ôl dan Gaethiwed eu Chwantau, wedi iddynt ymladd cymmaint yn eu herbyn, ac ennill mor fynych! O yſtyriwch y Poen mawr a fuoch chwi ynddo, yr amryw Weddiau a'r Dagrau, yr Arbed a'r Ymgadw a'ch gwadu eich hunain, a goſtiodd i chwi i waredu eich hunain oddi dan Arglwyddiaeth Pechod, a chyfiawn Lidiowgrwydd Duw; ac onid ydyw yn Drueni fil o weithiau, i hyn i gŷd fod yn Waith ofer yn y Diwedd, a chael ei wneuthur mor ddiffrwyth a dilês i ni a phe buaſai heb fod erioed? wedi i chwi gymmeryd cymmaint o Boen a Chaledi arnoch i rwyfo yn erbyn y Llanw, a dyfod o'r Diwedd tu fewn Golwg i Dir, eich bod yn awr yn llewygu ac yn ildo i'w Rym ef, ac yn gadael eich hunain i gael eich dwyn i wared ganddo dracheſn i'r Môr mawr o Bechod ac Euogrwydd, allan o ba un yr oeddech wedi diangc mor ddiberygl? Am hynny, fel na chwennychech wneuthur eich *Llafur yn ofer yn yr Arglwydd*, a llwyr-ddiddymmu eich hunain o holl Ffrwyth eich Ymroad crefyddol, cymmerwch beunydd eich perſwadio i *ymorcheſtu* ac *ymryſon*, i *ymdrechu* ac *ymeſtyn ymlaen at Nôd eich uchel Alwedigaeth*. Can's os bydd i chwi yn awr laeſu, neu beidio ymrôi, ac ildo i Ffrwd Profedigaeth, chwi gewch yn fuan eich gwthio i wared ganddi dracheſn cyn belled oddi wrth Gariad Duw, a'r

Gobaith o'r Nefoedd, ag y buoch chwi erioed yng Nghyflwr mwyaf llygredig eich Natur.

III. Yſtyriwch, os trwy bechu yn ewyllyſgar y ciliwn yn ôl oddi wrth ein Milwriaeth Gris'nogol, nyni a gollwn Ffrwyth ein Llafur, wedi myned trwy'r Anhawſdra mwyaf o hono. Can's, fel y dangoſais o'r blaen, y mae Anhawſdra pennaf y Filwriaeth Gris'nogol yn y Dechreuad o honi; ac yr ydwyf yn bwrw eich bod eiſoes wedi myned trwy hyn. Yr ydych eiſoes wedi dioddef y *Poenau* llym a'r *Gloeſon* ſydd yn arfer cyd-gerdded â *Genedigaeth* Bwriad newydd; chwi ddioddefaſoch y Penyd caled o Yſtyriaeth ddwfn a llwyr-gwbl, Colynnau llym a Chnofeydd Edifeirwch dwfn ac athriſt; fe ddarfu i chwi wneuthur Trais â'ch Tueddiadau taeraf, a gwrthſefyll Ymorcheſt lewaf eich Natur gyndyn a llygredig; e ddarfu i chwi orchfygu eich Gwllys yn eithaf ei holl Gyndynrwydd a'i Gwrthnebiad, a'i gwaredu o Freichiau eich Chwantau, pan yr oeddent fwyaf yn ei chaethiwo: chwi wnaethoch hyn i gŷd, os gwnaethoch ddim i Bwrpas, pan ddechreuaſoch gyntaf ar y Filwriaeth Sanctaidd hon. Ac chwi fuoch byth oddi ar hynny yn torri Grym eich Tueddiadau drwg, ac yn gorchfygu Gwrthwynebrwydd eich Natur at Grefydd: ac os gwnaethoch ddim Cynnydd yn y Gwaith hwn, rhaid eich bod erbyn hyn wedi *torri Calon* yr Anhawſdra ſydd yn eich Milwriaeth, ac y mae gennych lai o lawer o Wrthwynebiad i ymryſon ag ef nag erioed. Fel nad oes dim yn awr, ymhob Tebygoliaeth, mor anhawdd rhyngoch chwi a'r Nefoedd, a'r hyn a ddarfu i chwi eiſoes ymdrech ag ef, a'i ortrechu; ac a drowch chwi eich Cefnau yn awr ar eich Gelyn, pan y mae ei Rym pennaf ef wedi darfod, a chwithau eiſoes wedi dioddef Ergydion trymmaf ei Allu ef? Pe buaſech yn cefnu ar yr Ymgyrch cyntaf, pan yr oedd eich Pechod yn llywodraethu ar ei Orſeddfaingc, a chwithau etto heb wneuthur dim ond cyfodi eich Byddinoedd, ac arfogi eich Bwriad yn ei erbyn, e fuaſai yn fwy eſguſodol o lawer: can's y pryd hwnnw yr oedd y Rhan boethaf o'r Rhyfel gennych i fyned trwyddo; gan eich bod i ymryſon â Gelyn hoenus, oedd yn arfer cael y trechaf, a'r hwn oedd â'i holl Rym

etto

ettò o bobtu iddo, ac am hynny na allai lai nâ phrofi eich Calondid ymhell jawn. Ond yn awr i gefnu, wedi myned trwy'r gwaethaf, a dyfod hanner y Ffordd trwyddo; wedi i chwi dynnu i lawr eich Trachwant o'i Orfeddfaingc a'i Lywodraeth, a'i ddaroſtwng i'ch Crefydd a'ch Rheſwm cyn belled, ag nad oes gennych ddim yn rhagor o hyn allan i'w wneuthur ond olrhain Buddugoliaeth, yr hon, er i chwi ei hennill trwy lawer jawn o Drafferth, a ellwch orphen gyd â llawer jawn o Eſmwythder a Hyfrydwch; i gefnu yn awr, meddaf, ar y fath Amſer llwyddiannus, a rhoi i fynu y Gamp fendigedig a fuoch chwi cyhyd yn ymdrech am dani, pa Ynfydrwydd diobaith, ydyw! Pe ni ddechreuaſech erioed ar y Filwriaeth hon, neu pe buaſech yn ildio yn yr Ymgyrch cyntaf, pa gymmaint o Boen a allaſech arbed? pa gynnifer o Weddiau a Dagrau, Ymdrech ac Ymryſon â chwi eich hunain, a allaſech ddiangc a'u gochelyd, ac o'r diwedd bod mewn cyſtal Cyflwr, os nid gwell, nâ'r Cyflwr hwnnw ymha un y bydd i'ch Gwrthgiliad yn ſicr eich gadael chwi? A chwedi i Ddŷn fod cyhyd yn cymmeryd y Nefoedd trwy *Gynllwyn* a *Thrais*, wedi iddo dorri trwy gynnifer o Wrth'nebiadau i ddyfod atti, ac er gwaethaf holl Biccellau Profedigaeth oddi allan, a holl Bwyſau a Chymhelliadau ei Dueddrwydd oddi fewn; ddringo o hono, megis i Ben yr Yſgol, a goſod ei Ddwylaw ar y Pen uchaf i Gaerau'r Nefoedd, a'i fod yn barod i neidio i mewn a chymmeryd Meddiant o'i Llawenydd hi; pa Wallbwyll ydyw iddo ef yn awr ollwng ei Afael, a ſyrthio i lawr bendramwnwgl i'r Pwll diwaelod hwnnw o Bechod a Thrueni, allan o ba un yr oedd efe wedi ei waredu ei hun gyd â chymmaint o Boen a Chaledi! Yn enwedig o yſtyried,

IV. Y bydd i ni trwy ein Gwrthgiliad nid yn unig golli Ffrwyth ein Llafur aeth heibio, ond hefyd gwneuthur ein Gwellhâd yn fwy peryglus ac yn anhawſach nag erioed. Can's y peth y mae'r Apoſtol yn ddywedyd am *Wrthgilwyr* oddi wrth y *Grefydd Gris'nogol*, a ellir mewn Meſur mawr ei gymhwyſo at y rhei 'ny ag ſydd wedi ymdrwymo yn y Filwriaeth Gris'nogol, a chwed'yn' yn ſyrthio oddi wrthi drachefn at eu hên Ffyrdd pechadurus. *Amboſſibl*

boſſibl, hynny yw, *I mae'n anhawdd jawn, i'r rhai a oſteuwyd unwaith, ac a brofaſant y Rhôdd nefol, ac a wnaethpwyd yn Gyfrannogion o'r Ysbryd Glân, ac a brofaſant ddaionus Air DUW, a Nerthoedd y Byd a ddaw; os ſyrthiant ymmaith, ymadnewyddu drachefn i Edifeirwch*, Heb. vi. 4, 5, 6. Can's heblaw ſod Dŷn, trwy ſyrthio oddi wrth ei Edifeirwch cyntaf, yn blino ac yn erlid yr Yſbryd Sanctaidd oddi wrtho, heb Gymmorth pa un ni all efe na ſefyll pan ſo i fynu, na chodi pan gwympo; a chwedi ei erlid ymmaith, ni all efe yn jawn ddiſgwyl y bydd efe mor barod i ddychwelyd a chyd-weithio gyd ag ef, wedi iddo ei drin ef mor anfoeſol, trwy ddiffoddi ei Gynhyrfiadau, dattod ei Waith, a cholli yn llwyr yr holl Effeithiau nefol hynny a ddarfu i'w Râs weithio yn ei Enaid. Can's pa ſodd y dichon y Bendigedig Helpwr Eneidiau ymma lai nâ'i gymmeryd yn chwith jawn gael ei watwor a'i groeſi yn llyn, wedi ei ſod mor ddyſal yn ymboeni er Lles Dŷn truan, i'w dderchafu ef o'r Dom, ymha un yr oedd wedi ſuddo a'i golli ei hun; a chwedi iddo lwyddo cyn belled yn ei Waith a'i helpu ef yn gwbl allan, a'i ſod yn golchi ac yn glanhâu ei Enaid aflan, ac yn ei drwſio i Dâd yr Yſbrydoedd gael ei goſleidio; i weled y Dŷn truan hwn yn troi yn ôl wedi'r cwbl, ac yn ei drochi ei hun dros y Cluſtiau yn y Dom drachefn, pa ſodd y gall efe lai nâ digio mewn Gofid a Llidiowgrwydd anhraethadwy, o herwydd ei groeſi mor aniolchgar o'i Boen a'i Lafur? ac os bydd iddo, ar y fath Gyffroad, fel y gall efe yn gyflawn, lwyr-ymadael oddi wrtho, a'i ollwng dros fyth i ymdrybaeddu yn Chwantau ei Galon ei hun, e fydd ei Gyſlwr nid yn unig yn beryglus, ond yn ddiobaith. Beth a ddichon yr Yſbryd Bendigedig wneuthur yn y Câs hwn, ni's gallaf fi yn ſicr farnu; o herwydd y gall efe wneuthur fel y gwelo efe ſod yn dda, gan ei ſod wedi ei gwbl ryddhâu oddi wrth bob Rhwymau o Addewid trwy Wrthgiliad y Pechadur. Ond y mae'n peri i'm Calon ddolurio, i feddwl pa gymmaint o Reſwm ſydd i ofni y llwyredy ac y gwrthyd efe ef, ac na theiſl efe ymmaith rago o'i Râs ar Ddŷn truan, ar ba un y treuliodd efe gymmain yn ofer eiſoes. Ac os bydd i'r Sarhâd erchyll y mae'

Yſbry

Yſbryd Bendigedig yn dderbyn, trwy eich Gwrthgiliad, ei oſod ef ar y Bwriad hwn, yr ydych wedi eich damnio ar y Tir, a phob Gobaith o Wellhâd wedi ymadael â chwi yn dragywydd. Ond heblaw hyn i gŷd (yr hyn a dyly ygai un allai ſod yn ddigon i frawychu un Dŷn ſynhwyrol rhag gwneuthur y fath Brofiad diobaith) trwy ſyrthio ymmaith oddi wrth eich Edifeirwch, rhaid bwrw eich bod yn cynnyg Trais mawr i'ch Cydwybodau; y rhai, wedi cael eu deffrôi eiſoes i lawn Deimlad o'ch Pechodau gynt, a raid iddynt fyfyrio ar eich Gwrthgiliad preſennol gyd â Dychryn ac Arſwyd anhraethadwy; yr hyn, os ni frawycha efe chwi yn fuan yn ôl drachefn i Edifeirwch, a'ch geſyd ar Ffyrdd mwy ffromwyllt nag erioed. Can's yn awr, os na fydd eich Cydwybod yn llonydd, nid oes gennych un Feddyginiaeth arall ond ei hyſgwyd hi, a diſtewi ei Dychrynfêydd, trwy fod yn fwy gwrol mewn Drygioni: ac fel yr oedd yn gorfod ar y Rhieni ciaidd hynny ag oeddent yn aberthu eu Plant i *Foloch*, wneuthur Stwr o amgylch yr Eulyn oedd yn lloſgi, â *Drwmmau* a *Thympanau*, i foddi eu Hyſgrechain a'u Griddfannau wrth farw, rhag eu cyffrôi hwynt i Doſturi; felly wedi i chwithau, trwy eich Gwrthgiliad gwllyſgar, aberthu eich Cydwybod i'ch Trachwant, ac y dechreuo hi yſgrechain allan o ganol y Fflammau hynny o Euogrwydd i ba rai y darfu i chwi ei thaflu hi, nid oes gennyoh un Feddyginiaeth arall, oddieithr i chwi edifarhâu yn fuan, ond gwneuthur *Tophet* oddi amgylch iddi, a boddi ei Bon-lleſ *yn mhob rhyw ormod Ryſedd*; i oſod eich hunain mewn *Dwndwr* a *Therfyſg* o Annuwioldeb a Ffolineb, fel na chlywoch yr Yſgrechain hynny oddi fewn ag ſydd yn darogan Drwg i chwi, a ſerio Clwyfau eich Cydwybodau droſtynt ag Arfer *dew* o Bechu, fel na bo iddynt na gwaedu na dolurio. Ac felly, os bydd i chwi unwaith ymwadu â'ch Milwriaeth Gris'nogol, fe orfydd arnoch, er eich amddiffyn eich hunain, i drochi eich hunain yn ddyfnach mewn Pechod nag erioed. Can's yn awr rhaid i chwi bechu, nid yn unig i foddloni eich Chwantau, ond i ſyfrdanu eich Cydwybod; a'r Peth olaf ymma ni ellwch byth mo'i wneuthur, heb ſod yn ddrwg dros ben Meſur. Nid oes

i chwi fod yn Bechaduriaid egwan yn hwy, os byth yr ydych yn amcanu pechu yn llonydd; ond bwriadu troi yn Gampwyr gwrol mewn Anwiredd, a phechu allan eich Teimlad naturiol o Dda a Drwg. A thu ag at hynny, rhaid i chwi roi i'ch Yſbryd clwyfus Archoll ar ôl Archoll, a chanlyn eich Ergyd, nes gadawoch chwi hi yn ddideimlad; rhaid i chwi bentyrru Llwythau o Euogrwydd ar eich Cydwybod, nes, trwy ei dyſal-waſgu, y gwneloch chwi hi yn groen-galed, ac yn ddi-deimlad: a chwedi i chwi, trwy'r Moddion hyn, ſuddo eich hunain yn ddyfnach mewn Pechod nag y gwnaethoch erioed (ſel yn ddiammau y gwnewch yn fuan) pa faint anhawſach a mwy peryglus raid i'ch Dychweliad fod? Can's yn awr e fydd arnoch eiſiau mwy o Gymmorth o lawer nag a fu erioed arnoch yn eich Edifeirwch cyntaf; ac e fydd gennych lai o Reſwm o lawer i'w ddiſgwyl ef. Fel, er na feiddiaf ddywedyd y bydd eich Cyflwr yn ddiobaith; etto rhaid i mi ddywedyd wrthych, y bydd ef mor beryglus ac ofnadwy, ag y rhaid i chwi yn ſicr fod yn golledig yn dragywydd, oddieithr i Dduw, mewn Trugaredd enwedigol attoch, eich deffrôi trwy ryw Ragluniaeth anghyffredin, ac ar yr un Amſer gyd-weithio gyd â chwi trwy Râs anarferol.

V. Yſtyriwch, y bydd i chwi, trwy ymadael â'ch Milwriaeth Gris'nogol, nid yn unig wneuthur eich Gwellhâd yn ôl llaw yn anhawſach, ond chwi fwriwch eich hunain, yn breſennol, i Gyflwr mwy euog a phechadurus nag erioed. Can's yn llyn y mae S. *Pedr* yn barnu yn hyn o beth: 2 *Pedr* ii. 20, 21. *Os, wedi iddynt ddiangc oddi wrth Halogedigaeth y Bŷd, trwy Adnabyddiaeth yr Arglwydd a'r Achubwr Jeſu Griſt, y rhwyſtrir hwy drachefn â'r Pethau hyn, a'u gorchfygu, aeth Diwedd y rhai hynny yn waeth nâ'u Dechreuad. Can's gwell fuaſai iddynt fod heb adnabod Ffordd Cyfiawnder, nag wedi ei hadnabod, troi oddi wrth y Gorchymmyn ſanctaidd*: hynny yw, trwy gwympo yn ôl i'r Halogedigaeth pechadurus hwnnw allan o ba un y gwaredwyd hwynt, trwy gredu ac adnabod y Grefydd Gris'nogol, hwy a'u gwnaethant eu hunain yn fwy euog o lawer nag yr oeddent o'r blaen, pan yr oeddent yn

Ddigred; fel pe buaſent erioed heb adnabod yr Efengyl, na throedio un Cam yn Llwybrau ei Gorchymynion ſanctaidd hi, e fuaſai yn well o lawer iddynt, ac ni buaſai Duw agos mor ddig ac mor anfoddlon iddynt. Can's trwy wrthgilio i Fywyd annuwiol, yr ydym nid yn unig yn dychwelyd yn ôl i gynddrwg Cyflwr, o'r hyn lleiaf, os nid i waeth nag erioed; ond,

Yn gyntaf, Yr ydym hefyd yn diddymmu holl Weithrediadau Yſbryd Duw, trwy ba rai y cawſom mor effeithiol ein perſwadio i gymmeryd y Filwriaeth Gris'nogol arnom, a'i chanlyn hyd yn hyn. Trwy gwympo yn ôl i Gyflwr o Bechod drachefn, yr ydym yn ewyllyſgar yn dadwneuthur y cwbl ag a fu efe yn wneuthur; yr ydym yn adfywio y Chwantau hynny a fu efe yn eu marweiddio, ac yn diwreiddio y Graſuſau hynny y rhai a fu efe yn blannu ac yn ddwfrhâu oddi fewn i ni; ac wedi iddo ef, gyd â llawer o Fedr a Diwydrwydd, drîn a gwrteithio ein Natur, tynnu ymmaith ei Chwyn, a'i phlannu â Blodau'r Nefoedd, yr ydym yn ewyllyſgar yn ei hanrheithio ac yn ei difrodi drachefn, ac yn troi ei *Saron* gynnydd-fawr yn Anialwch heſp. Ac felly, heblaw yr holl Euogrwydd ſy'n tarddu oddi wrth y Ffyrdd pechadurus hynny i ba rai y darfu i ni ailgwympo, yr ydym yn awr wedi dyfod yn euog o ddangos y Llid mwyaf tu ag at Yſbryd Duw; yr ydym yn euog o ddinyſtrio Ffrwythau anwylaf ei Lafur, o dorri eu Gaeau ef, diffodd ei Gynhyrfiadau, dilêu ei Raſuſau, a thagu yr holl Effeithiau nefol hynny a weithiodd efe trwy ei Ddaioni grymmus yn ein Natur. A pha Drymhâd dû o'n Heuogrwydd raid ei fod, fel hyn i ſiommi a chroeſi Yſbryd Duw! Ond yna,

Yn ail, Megis trwy ein Gwrthgiliad yr ydym yn cynnyg y Dirmyg bryntaf i Yſbryd Duw, felly yr ydym yn gwneuthur y Creulondeb mwyaf i'n Cydwybod a'n Profiad. Can's ymhob Gwrthgiliad yr ydym yn pechu â Chydwybod wedi deffrôi, ag Argyhoeddion ein Heuogrwydd yn tywynnu yn ein Llygaid; ac y mae'n gorfod arnom ymryſon ac ymdrech â'n Meddwl ein hunain, cyn y gallom dorri trwy y Ceryddon a'r Attalfêydd y mae hi yn oſod arnom; yr hyn ſydd raid iddo drymhâu ein

Heuog-

Heuogrwydd yn fawr jawn. Can's po fwyaf fo'r Goleuni a'r Eglurdeb y pecho Dŷn yn ei erbyn, mwyaf fydd o Ewyllys a Malais yn ei Bechod, ac yn ganlynol mwyaf o Euogrwydd. Can's pa both all fod yn fwy maleifus, nag i Ddŷn annog a chyffrôi ei Ddwyfbigiadau ei hun, ac erchi iddynt wneuthur eu gwaethaf, a rhedeg i'w Safn hwynt, tra y maent yn poeri Tân, ac yn rhuo Dinyftr tragywyddol yn ei erbyn ef? Hyn fydd yn dangos yn eglur fod Bwriad ffromwyllt jawn yn gweithio ynddo, pan y baidd efe er mwyn ei Chwantau wynebu yn erbyn Dychrynfeydd ei Gydwybod, ac yn hytrach nâ cholli eu Mwyniant hwynt, y bwrw efe ei hun bendramwnwgl i Ddinyftr y mae'n ragweled, ac y naid efe ar eu hôl hwynt i Uffern â'i Lygaid yn agored. Ac etto fel hyn yr ydym yn gwneuthur ymhob Gwrthgiliad ewyllyfgar: yr ydym yn pechu yn erbyn y Teimlad bywioccaf o'n Perygl, Rhybuddion mwyaf croch ein Cydwybod, ac Argyhoeddion egluraf ein Rheſwm; y rhai, gan eu bod, bob un o honynt, yn Drymhâd erchyll jawn, rhaid iddynt chwyddo i fynu ein Huogrwydd i Faint anghenfil. Ac nid ydym chwaith yn pechu yn erbyn ein Cydwybod yn unig, ond yn erbyn ein Profiad hefyd. Can's e ellir bwrw i ni wneuthur rhyw Brawf a Phrofiad o Grefydd: a chwedi gwneuthur hynny, rhaid i ni wybod nad oes dim ynddi ond fydd gyd â Rheſwm, ac fel y gellir ei wneuthur, ac yn fawr er ein Lles; dim ond fydd yn tueddu at Lonyddwch ein Meddyliau, Heddwch ein Cydwybodau, a Pherffeithrwydd ein Natur: a chwedi cael llawn Sicrwydd o hyn i gŷd, a hynny nid gymmaint trwy Ymddiddan, a thrwy ein Teimlad a'n Profiad ein hunain, pa Ddiyftyrwch echrydus a fyddai i ni wedi hyn i gŷd i ymwrthod ac ymadael â hi? Pe buaſem erioed heb ei phrofi, nyni a allaſem bledio ein Hanwybodaeth, neu Eiſiau Profiad, yn Eſgus am ein Gwaith yn gwrthod ymoſtwng iddi; nyni allaſem gymmeryd arnom, i ni, o Ddiffyg Adnabyddiaeth gwell o honi, edrych ar ei Gorchymynion fel Pethau amhoſſibl, neu, o'r hyn lleiaf, yn anhawdd jawn, ac yn gwbl ddilês, ac yn ſtin i Natur Dŷn; a phe buaſem unwaith yn ufuddhâu iddi, y buaſai raid i ni yn fuan ymwrthod â phob peth

ag

ag fydd hyfryd a dymunol, a boddloni o hyny allan i ochneidio ymmaith ein Bywyd mewn rhyw Weithredoedd creulon anioddefol, ac ymneilldio yn bendrift oddi wrth holl Lawenydd a Digrifwch Cyfeillach Dynion: can's dymma'r fath Ddarluniadau brawychus y mae Dynion ag fydd heb brofi Crefydd yn arferol o wneuthur o honi; yr hyn, er ei fod ymhell oddi wrth *gyfiawnbâu*, all mewn rhyw fefur *leihâu* eu Gelyniaeth atti. Ond chwychwi, y rhai fydd wedi gwneuthur Profiad o Grefydd, rhaid i chwi wybod nad oes dim Gwir yn hyn i gŷd; fod ei Gorchymynion hi yn ddigon hawdd i Feddwl gwllyfgar, a bod yr amryw Fanteifion y maent yn ddwyn gŷd â hwynt yn gwneuthur Taliad helaeth am eu Hanhawfdra; eu bod mor belled oddi wrth attal Dynion rhag dim Difyrnwch dinlweid, neu Gyffur Bywyd Dŷn, fel y maent yn puro ei Bleferau ef, ac yn eu gwneuthur yn fwy blafus a gwŷch; eu bod, heblaw hyn, yn dwyn Pleferau mawrion o'u heiddo eu hunain gyd â hwynt, y Pleferau o Obaith gogoneddus, Meddwl boddlongar, Cydwybod dawel a llonydd, y rhai ydynt Bethau mwy blafus o lawer nâ'r Danteithion mwyaf celfyddgar a chywrain; ni's gellwch lai nâ gwybod hyn i gŷd, os gwnaethoch Brofiad o Grefydd bwyllog a fynhwyrol dros ddim Amfer. Ac felly os gwrthgilio a wnewch yn awr, e fydd i chwi nid yn unig ddigio eich Cydwybod, ond eich Profiad hefyd; a'r Teimlad gynt a fu gennych o Ddaioni Crefydd, a gyfyd i fynu yn y Fâm yn eich erbyn, ac a ddiftawa yn dragywydd yr holl Efgufon ag alloch chwi bledio drofoch eich hunain, ac heb adael i chwi ddim i'w ddywedyd, ond eich bod chwi yn glaf o'ch Efmwythder, a chwedi blino ar Ddifyrrwch Crefydd. Ond yna,

Yn drydydd, Fel y bydd i'ch Gwrthgiliad drwm-ddigio Yfbryd Duw, a'ch Cydwybod a'ch Profiad ein hunain; felly y bydd efe y Gwradwydd bryntaf ag ellwch chwi fwrw ar Grefydd. Pe buafech heb ymrwymo erioed yn y Filwriaeth Gris'nogol, ni buafai'ch Ffyrdd pechadurus byth yn cyffwrdd mor agos at Anrhydedd Crefydd, a phob Dŷn o Yfbryriaeth a fuafai yn bwrw eich Gelyniaeth atti, ar eich Anwybodaeth a'ch Diffyg o Brofiad; ac ni

buafent

buaſent byth yn meddwl yn waeth am dani, er ei gweled yn cael y fath Driniaeth amharchus gan un na fu erioed yn gydnabyddus â hi. Ond yn awr, os gwrthgiliwch chwi i Ffyrdd annuwiol wedi gwneuthur Profiad o honi, beth a ddywaid y Bŷd? Edrychwch accw, dymma un a wnaeth Brofiad o'r Crefydd ydych chwi gymmaint yn ganmol, ac yn dderchafu, ac yn waeddi i fynu ei bod hi yn un hyfryd a chariadlawn; pe bae hi y Peth ydych chwi yn gymmeryd arnoch ei bod, pa fodd y digwyddodd i'r Gŵr hwn yn awr ymadael â hi a'i gwrthod o'r diwedd, wedi iddo ei phrofi cyhyd? Yr hwn ſydd y fath Wrthddadl, na's gellir un ffordd ei atteb, ond trwy ddangos fod y Dŷn, Gwrthgiliad yr hwn a gododd y Dadl ymma, wedi ei Iwyr-adael a'i wrthod gan ei Reſwm. Can's os, ar ôl y Profiad a wnaeth efe o Grefydd, y cawſai efe hi y fath Beth daionus a hyfryd ag y goſoder hi allan, ni ellir meddwl y buaſai efe byth yn gwrthgilio oddi wrthi, os gallaſai efe gyd â Phwyll yſtyried ei Ddewiſiad a'i Weithredoedd ei hun. A pha ſodd y dichon y rhai ſydd Ddieithriaid i Grefydd lai nâ drwgdybio ei Daioni hi, pan welont Ddŷn, wedi ei phrofi, ac yn ei jawn Synhwyrau, yn mynegi trwy ei Weithredoedd, fod Drygioni yn well ac yn fwy dewiſol nâ Rhinwedd, ac yn gweled Pleſerau Pechod yn cael eu dewis o flaen Llawenydd a Hyfrydwch Crefydd, gan un a gafodd lawn Brofiad o bob un o'r ddau? Fel yr ydym trwy wrthgilio i Ffyrdd pechadurus, wedi llawn brofi Crefydd, yn cymmeryd Ffordd-effeithiol i'w difenwi a'i gwradwyddo, i'w gwneuthur yn *Faen Tramgwydd ac yn Graig Rhwyſtr* i'r rhei'ny na chawſant ond ychydig neu ddim Adnabyddiaeth o honi; ac os bydd i neb trwy ein Heſampl gael ei wangalonni, naill ai i ddechreu ar y Filwriaeth Gris'nogol, neu i fyned ymlaen ynddi, e ofyner eu Gwaed hwy ryw Ddydd ar ein Dwylaw ni; ac felly nyni a gyfodwn Lêf ofnadwy jawn yn ein herbyn ein hunain, ac a gawn nid Yſbryd Duw yn unig, a'n Cydwybod a'n Profiad ein hunain, ond hefyd Gwaed yr holl Eneidiau hynny y rhai a dramgwyddaſant wrth ein Gwrthgiliad ni, yn derchafu i fynu eu Llefain ynghŷd at Orſeddfaingc Duw am Ddial buan ac ofnadwy arnom.

VI. Yſtyriwch,

VI. Yſtyriwch, os wedi gwneuthur rhyw Gynnydd mewn Crefydd, y gwrthgiliwch i Ffyrdd pechadurus, e fydd i chwi nid yn unig eich gwneuthur eich hunain yn breſennol yn fwy euog, ond, fel Canlyniad o hynny, e fydd i chwi yn ſicr fwrw eich hunain, os marw cyn gwell-hâu a wnewch, i Ddinyſtr dyfnach a mwy ofnadwy. Can's hyn a allwn hyderu arno; y gwnâ Barnwr yr holl Fŷd Gyfiawnder; ac yn ganlynol, megis ar y naill law y gwnâ efe ei Wabron yn gyfattebol i'n Gwaſanaeth ni, felly ar y llaw arall efe a feſur ei Goſbedigaethau yn ôl ein Heuog-rwydd a'n Haeddiant: ac os â efe ymlaen yn llyn (fel y gwnâ efe yn dra ſicr) mor echrydus yw meddwl am y Dynghedfen ddu ac erchyll ſy'n crogi uwch ben Gwrth-gilwyr, Euogrwydd pa rai ſydd mor drwm, ac o'r fath Faintioli anfeidrol ryfedd, trwy'r Amgylchiadau hynny a enwyd uchod, fel y rhaid i ni fwrw y tyn efe ar ei ôl Goſb gyfattebol! Ac os felly, yna yn ddiau Rhan Gwrthgil-wyr fydd yr un fwyaf truenus a galarus ymhlith yr Yſbryd-ion drwg mewn Poenau. Can's heblaw y Ffonnodiau di-rifedi hynny y raid iddynt ddiſgwyl oddi wrth Dduw, am fod yn Weiſion a wybuant Ewyllys eu Harglwydd, ac a brofaſant ei Ddaioni ef, ac etto yn y Diwedd a wrthod-aſant ufuddhâu iddo; eu Myfyrdodau ar eu Gwrthgiliad eu hunain, a'r Ffolineb a'r Ynfydrwydd o hono, yn ddiam-mau a'u doluria ac a'u poena hwynt fil o weithiau yn fwy nà holl Golynnau eraill eu Cydwybod ynghŷd. Can's pa fodd y rhaid i ſyn Fyfyrdod ar eu Ffolineb eu hunain eu cynddeiriogi hwynt yn eu herbyn eu hunain, wrth grwy-dro ar hŷd y Tywyllwch uffernol! O Greaduriaid di-obaith! oddi wrth ba fath Obaith gogoneddus y taflaſom ein hunain bendramwnwgl i'r Cyflwr echrydus hwn! Nyni a aethom unwaith ymhell ymlaen ar ein Ffordd tu a'r Nefoedd, ac a ddaethom o fewn Golwg i'w Cheulannau bendigedig hi: yr oeddem wedi yſgwyd ymmaith ein Chwantau, meiſtrioli ein Tueddiadau, a daroſtwng ein Hewyllyſiau i Ewyllys Duw; a thrwy wneuthur felly, wedi gorchfygu y Rhan anhawſaf o'n Taith: yr oeddem wedi dioddef y Tywydd garw a'r Gwyntoedd croes o Brofedigaethau oddi allan, ac attal Llanw y Natur lygredig

oddi

oddi fewn; fel pe buaſem ond dal i maes yn wrol dros ychydig yn hwy, nyni, y rhai ydym yn awr yn udo ym mhlith Yſbrydion damnedig, allaſem fod yn gorfoleddu gyd ag Yſbrydion bendigedig. Ond, O Ynfydion ffiaidd, a Bradwyr i ni ein hunain! wedi'r holl Boen llwyddiannus a gymmeraſom i fod yn ddedwydd, e ddarfu i ni longddryllio ein Heneidiau ar Fin y Porthladd; ac er mwyn boddloni Trachwant brwnt, e ddarfu i ni neidio bendramwnwgl oddi ar Geulannau *Afonydd Hyfrydwch*, i'r *Llyn* ymma *o Dân a Brwmſtan*. Ac a ddarfu i ni ein difetha ein hunain yn llyn, mor ynfyd a hyn, yn llyn, heb Eſgus na Phrofedigaeth! Ol melldigedig a fo'n Ffolineb, melldigedig a fo ein Chwantau, a melldigedig yn dragywydd a fom ninnau am eu hachleſu a'u groeſawi hwynt! Yn llyn y bydd y Bobl druenus hyn yn ddibaid yn gwallgofi yn eu herbyn eu hunain, ac â Myfyrdodau echrydus ar eu Ffolineb diobaith yn dragywydd yn ymgynddeiriogi ac yn amlhâu eu Poenau eu hunain. Fel pe bawn i yn myned i lawr i'r Pwll diwaelod, ac yn cael cymmaint o Amſer cyn myned yno, a gwneuthur un Weddi yn rhagor droſof fy hun, yn neſaf at gael fy nghwbl-waredu oddi yno, ni wn i am un a darawn i arni yn gynt nâ hon: *O Arglwydd! gwared fi oddi wrth y Rhan honno o Uffern yr hon a gedwaiſt i Wrthgilwyr.*

Ac felly os bydd i ni yn awr, wedi ymrwymo mor belled yn y Filwriaeth Gris'nogol, fod mor ynfyd a dychwelyd yn ôl at ein hên Ffyrdd pechadurus, e fuaſai yn well i ni fil o weithiau fod heb ymrwymo ynddi oll. Can's oni edifarhâwn am ein Gwrthgiliad, a dyfod yn ôl drachefn, nyni a gymmeraſom lawer jawn o Boen mewn Creſydd, nid i un Diben arall, ond yn unig i *dryſori i ni ein hunain Ddigoſaint erbyn Dydd y Digoſaint*, ac i boethi Ffwrnais ein Poenau yn ôl hyn etto yn *ſaith mwy twymach*. Am hynny, gan fod y Matter yn awr wedi dyfod i'r Diwedd hwn, y bydd i ni, os gwrthgilio a wnawn oddi wrth ein Milwriaeth Gris'nogol, nid yn unig ddifuddio ein hunain o holl Ffrwyth ein Poen a'n Hymdrech gynt, ond hefyd trymhâu ein Coſbedigaeth yn ôl llaw; fel y rhaid i ni naill ai bwriadu ennill y Nefoedd trwy ein Parhâd,

neu

neu ſoddi i Uffern iſaf trwy ein Gwrthgiliad; cymmerwn Galon wych, ac er gwaethaf pob Profedigaethau i'r gwrthwyneb, parhâwn yn *ſicr* ac yn *ddiyſgog* yn ein Bwriad Cris'nogol; gan gofio beth y mae *Tywyſog ein Tiechydwriaeth* wedi addo, *Dad.* iii. 21. *Tr bwn ſydd yn gorchfygu, rhoddaf iddo ef eiſtedd gyd â mi ar fy Ngorſedd-fainc, megis y gorchfygais innau, ac yr eiſteddais gyd â'm Tâd ar ei Orſedd-fainc ef.*

PE'N. V.

Yn cynnwys rhai Cyfarwyddiadau *byrrion tu ag at ddarllain y Traethawd o'r blaen gyd â mwy o Lês, a befyd tu ag at jawn dreſnu ac ymarfer ein* Creſydd yn yr Yſtafell, *ymhob un o wahanol Gyfyrau y* Fuchedd Gris'nogol; *ynghŷd â* Ffurfiau o Weddiau *yn y Dirgel, wedi eu cymhwyſo at bob Cyfwr.*

YN y Bennod o'r blaen mi geiſiais roddi Hanes gyflawn o'r holl Ddyledſwyddau Offerynnol hynny mewn Cris'nogaeth, trwy ba rai yr ydym i gyrraedd, cynnyddu, a pherffeithio ei Rhinweddau pennaf hi, yn y Perffeithrwydd o ba Rinweddau y mae'r Nefoedd, yr hon yw Diben mawr Cris'nogaeth, yn ſefyll. A thu ag at drin y Pethau hyn yn eglurach, mi yſtyriais Ddynion dan dri mâth o Gyflwr: *yn gyntaf*, Yn dechreu ar y Fuchedd Gris'nogol; *yn ail*, Wedi ymrwymo i fyned yn mlaen ynddi; *yn drydydd*, Yn cynnyddu tu ag at Berffeithrwydd, trwy Barhâd ynddi: ac a roddais Hanes neilldnol o'r holl Ddyledſwyddau Offerynnol hynny ag ſydd gymmwys i bob un o'r Cyflyrau hyn. Ac yn awr fel y bo i'r hyn a ddywedpwyd yn y Bennod honno a'r Pennodau o'r blaen gael ei jawn Effaith ar Feddwl y Darllenydd, mi dybiais yn gymmwys ei oſod mewn Ymarfer, trwy gyfarwyddo Dynion,

Yn

Yn gyntaf, Pa fodd i ddarllen a chymhwyſo yr amryw Rannau o hono at eu Cyflyrau neillduol eu hunain.

Yn ail, Trwy roddi iddynt rai Rheolau byrrion, tu ag at yr Ymarfer mwy lleſol o'u Crefydd yn y Dirgel, ymhob un o'r Cyflyrau gwahanol hynny; ynghŷd â Ffurfiau o Weddiau yn y Dirgel, wedi eu cymhwyſo at bob Cyflwr.

I. Am y cyntaf o'r rhai'n, rhaid yſtyried, fod yn angenrheidiol jawn, tu ag at wneuthur Dynion yn Gris'nogion diragrith o'r Galon, fod ganddynt jawn Ddyalldwriaeth, *yn gyntaf*, o Natur y Diben mawr a'r Diben pennaf y mae Cris'nogaeth yn gynnyg iddynt; *yn ail*, o'r Moddion, trwy ba rai y mae cyrraedd y Diben hwnnw; *yn drydydd*, o Dueddiad naturiol holl Rinweddau Cris'nogaeth tu ag at y Diben bendigedig hwn, ac o Dueddrwydd gwrthwyneb y Beiau o'r Ochr arall tu ag at eu tragywyddol Drueni a'u Dinyſtr hwynt. Mi geiſiais roddi Hanes o'r Pethau hyn i gŷd yn y tair Pennod gyntaf o'r Llyfr hwn. Am hynny mi gynghorwn i'r Darllenydd,

1. Ddefnyddio y Pennodau hynny yn garcus ac yn ddifrifol, ymha rai y bydd yn angenrheidiol iddo oſod mwy o'i Feddyliau a'i Yſtyriaeth ar waith, heb foddloni rhedeg droſtynt yn yſgafn (o herwydd gorfod arnaf weithiau, o achos Dyfnder fy Nheſtyn, ymddiddan ychydig yn anhawſach i'm dyall nag yn neb o'r Rhannau ſydd yn canlyn.) A phan y bo ei Feddwl wedi cael ei lawn-argyhoeddi, trwy ddwys-yſtyried yr hyn a ddywedpwyd yno, pa fath Nefoedd ſydd iddo ddiſgwyl am dani yn ôl hyn, pa ryw fath Foddion ſydd yn angenrheidiol i'w chyrraedd hi, mor naturiol y mae holl Rinweddau Crefydd yn derchafu Eneidiau Dynion i'r Nefoedd, ac mor naturiol y mae'r holl Feiau gwrthwyneb yn eu ſuddo a'u gwthio hwynt i lawr i Uffern, y mae'n beth i'w obeithio y cymmer ef ei lawn berſwadio o'r Angenrheidrwydd anhepgorol ſydd yn gorwedd arno i ddechreu ar y Fuchedd Gris'nogol. Yr hyn os gwnâ, mi gynghorwn iddo,

2. Ddarllen y Doſbarthiad Cyntaf a'r Ail o'r Bedwerydd Bennod droſtynt yn ddifrifol, a'u hyſtyried; lle cynhwyſer yr amryw Ddyledſwyddau ag ſydd gymmwys i Gyflwr ei Ddechreuad ar y Fuchedd Gris'nogol, a Rheſymmau

ſymmau ac Annogaethau cymmwys hefyd i'w rwymo ef idd eu hymarfer hwynt; y rhai os ydyw efe yn chwennych eu darllen yn y fath Fodd ag y bo iddynt wneuthur Llês iddo, nid oes iddo mewn un modd foddloni eu darllen ond unwaith droſtynt, eithr eu darllen droſtynt o'r hyn lleiaf unwaith yn yr Wythnos, tra y parhao efe yn y Cyflwr hwnnw, nes bo iddo lawn-ddyall Yſtyr a Defnydd yr holl Ddyledſwyddau hynny, a Grym ac Effaith y Rheſymmau hynny; yr hyn os gwnâ, gellir gobeithio y duger ef o'r diwedd i lawn Fwriad pwyllog i ymadael â'i Bechodau, ac yn weithredol i ymrwymo yn y Fuchedd Gris'nogol. A chwedi gwneuthur hyn, mi gynghorwn iddo,

3. Mor ofalus a chyn ſynyched, i ddarllen y Trydydd a'r Pedwerydd Doſbarthiad o'r Bedwerydd Bennod; lle y cynhwyſer yr holl amrywiol Ddyledſwyddau ag ſydd briodol i'r Ail Gyflwr yn y Fuchedd Gris'nogol, pan ſom yn weithredol wedi ymrwymo ynddi, ynghŷd ag amryw Reſymmau neu Annogaethau hefyd i'w cymmell a'u cefnogi hwynt. A chwedi iddo, trwy Help y Dyledſwyddau hyn, barhâu dros ryw faint o Amſer yn ffyddlon ac yn ddianwadal yn ei Fwriad da,

4. Ynghŷd â'r Trydydd a'r Pedwerydd Doſbarthiad, ddarllened yn fynych ac yſtyried y Pummed a'r Chweched; lle y cynhwyſer y Dyledſwyddau perthynaſol i'r Trydydd Cyflwr o Gynnydd a Pharhâd yn y Fuchedd Gris'nogol, ynghŷd â rhai Yſtyriaethau i annog yr Ymarfer o honynt. Mi chwennychwn daer-berſwadio y Darllenydd duwiol i ddarllen ac yſtyried y rhai'n i gŷd droſtynt drachefn a thrachefn, nes bo ei Feddwl wedi ei jawn-addyſgu yn Natur a Defnydd pob Dyledſwydd ac y bo efe yn cwbl-ddyall Grym a Thyſtiolaeth pob Rheſwm. A hyn a gaiff waſanaethu am y Peth Cyntaf a gynnygwyd, ynghylch y Drefn leſol o ddarllen y Traethawd ymarferol hwn.

II. Am yr ail Ran, yr hyn ydwyf yn amcanu bennaf yn y Bennod hon, *ſef*, y Rheolau a'r Cyfarwyddiadau tu ag at yr Ymarfer o Grefydd yn y Dirgel, ym mhob Cyflwr o'r Fuchedd Gris'nogol, ynghŷd â'r Ffurfiau o Weddi yn y Dirgel, wedi eu cymhwyſo at bob un o honynt, cymmerwch hwynt yn y Drefn a ganlyn.

Cyfarwyddiadau tu ag at ymarfer ein Crefydd ddirgel *yn fwy lleſol yng Nghyſtwr ein* Dechreuad *ar y* Fuchedd Gris'nogol.

Yn y *Boreu*, cyn yr eloch allan i'r Byd, ewch i'r Yſtafell; ac yno yſtyriwch dro rhyngoch a chwi eich hunain y Cyſlwr truenus y bwriaſoch chwi eich hunain iddo trwy eich Ffyrdd pechadurus gynt; mor gwbl-angenrheidiol yw i chwi eu gadael hwynt, a'r Poſſiblrwydd o'ch Gwellhâd, os bydd i chwi o'r Galon ymrôi. Ac yna gweddiwch ar Dduw yn y Weddi a ganlyn.

O'R Gogonedduſaf a'r Tragywyddol Dduw, Tydi yw Ffynnon pob Hanfod, Tâd Angelion a Dynion, cyſlawn a galluog Lywodraethwr Nêf a Daear. O'th Orſeddfaingc yr ydwyt yn canfod holl Feibion Dynion, a'u Gweithredoedd mwyaf dirgel ydynt yn noeth ac yn agored i'th holl-weledig Olwg di. A'r fath yw Purdeb dy Natur, fel yr ydwyt yn caru Cyſlawnder, ac yn nesâu Drygioni pa le bynnag y gwelech Di ef. A pha Wyneb ynte y gallaf fi, Ddŷn truan ac aflan, ymddangos yn dy Wydd, yr hwn, trwy fy Mywyd annuwiol a'm Gwrthryfelgarwch gynt i'th erbyn, a wnaethum fy hun nid yn unig yn euog ac yn gyſlawn yn ddaroſtyngedig i'th Anfoddlonrwydd tragywyddol, ond hefyd a ddyſgais y fath Dueddrwydd gwrthnyſig a'r fath Ogwyddiad i bechu ymlaen, na's gallaf byth mo'i orchfygu heb dy Râs a'th Gymmorth di! O'r fath Ddŷn truan, ffromwyllt, ffiaidd, ac aniolchgar, a fûm i! Myfi a ymwrthodais â'r Duw a'm gwnaeth, a Ffynnon fy Nhrugareddau; myfi a ddibriſiais dy Ddaioni, a ddamſenais dy Awdurdod dan Draed, a watworais ac a gam-arferais dy Ammynedd a'th Hir-ymaros; ac yn neillduol rhaid i mi gyfaddef, i'm Cywilydd a'm Gwradwydd Wyneb, fy mod mewn modd toſturus yn euog o *. Ac yn awr trwy yr amryw Ffieidd-dra hyn, yr ydwyf wedi fy llwyr-ddifetha fy hun

* Ymma gwnewch Gyffes neillduol o'r holl Ffyrdd pechadurus hynny a ddarfu i chwi fyw ynddynt, ynghŷd â'r holl Amgylchiadau o Ddigywilydd-dra, Gwrthnyſigrwydd, ac Aniolchgarwch, y rhai ſydd yn eu trymhâu hwy.

hun, oni bydd i Ti doſturio wrthyf. Yr wyf yn cyfaddef i mi fforffettu fy Enaid i'th Ddwylaw di; ac os mynni, Ti elli yn gyfiawn fy mwrw i ymmaith o'th Wydd, a'm gwneuthur yn Eſampl ofnadwy, o'th Lidiowgrwydd yn dragywydd. Ond mi wn, O Arglwydd, nad wyt Ti yn ewyllyſio Marwolaeth Pechadur, ond yn hytrach iddo edifarhâu, a byw; ac er mwyn y Jawn a wnaeth Gwaed dy anwyl Fâb, Tydi a fynegaiſt dy fod yn ewyllyſgar i dderbyn Plant afradlon a ddychwelo attat, ac i lwyr-ymheddychu â hwynt, er eu holl Bechodau gynt. O na allwn i ddychwelyd, na allwn yſgwyd ymmaith y Tueddiadau llygredig hynny y rhai ſydd yn cadw fy Enaid truan mewn Caethiwed! Yr wyf yn ewyllyſgar i wneuthur dim ag allwyf tu ag at hynny; ond gwae fi, hebot Ti, e fydd y cwbl ag allwyf fi wneuthur yn llwyr ddilês. Am hynny er mwyn dy dyner Drugareddau, er mwyn dy Fâb a'm Jachawdwr, toſturia wrth Greadur truenus, ag ſydd yn golledig yn dragywydd, heb Gymmorth dy Law di. A chan i Ti roddi dy Efengyl i mi fel Moddion oddi allan i'm hachub a'm gwellhâu, O cynnorthwya fi â'th Yſbryd Bendigedig i'w chredu hi o'm Calon, a'i hyſtyried yn gyfan-gwbl. I'r Diben hynny, yr wyf yn attolwg arnat ſymmud pob Rhagfarn bechadurus o'm Meddwl, fel y bo i mi bwyſo y Tyſtiolaethau a roddaiſt i mi o'i Gwirionedd hi yn ddibartiaeth; a hyſbyſa hwynt i'm Meddwl gyd â'r fath Oleuni eglur, ac a fo'n dwyſbigo, fel y bo iddynt o'r diwedd orchfygu fy Anghrediniaeth, a gweithio ynnof gadarn a bywiol Ffydd. A chan fod fy Meddwl yn wâg ac yn grwydredig, ac yn llwyr-wrthwyneb i bob Yſtyriaeth ddifrifol, O bydded i Ti, yr hwn wyt Dâd yr Yſbrydoedd, ac a elli droi Calonnau Dynion y Ffordd y gwelech Di fod yn dda, yſbrydoli Meddyliau da ynnof, a'u hargraphu hwynt arnaf â'r fath Rym ac Effaith, ag y bo i'm Meddwl crwydredig gael ei ddwyn trwyddynt i lawn Yſtyriaeth, a'm Hewyllys yſtyfnig i gadarn Fwriad o Wellhâd. Yn neillduol, mi attolygaf arnat roddi i mi jawn Ddyalldwriaeth o'r mawr Eiſiau Jachawdwr ſydd arnaf, ac o'r holl Bethau hynny a wnaeth ac a ddioddefodd efe, ac y mae efe beunydd yn wneuthur ar dy Dde-

heulaw, tu ag at lanhâu fy Natur aflan ac euog, a'm hadferu i'th Râs a'th Ffafr; fel y bo i mi trwy hyn gael fy llawn argyhoeddi pa mor gâs yw fy Mhechodau yn dy Olwg di, mor wael ac mor frwnt y maent wedi fy ngwneuthur i, ac mor belled y maent wedi fy ngofod oddi wrthyt Ti; ac fel y bo i mi, wedi fy argyhoeddi o hyn, gymmeryd Cywilydd ſanctaidd a Gwradwydd im' fy hun, a ffieiddio fy hunan mewn Llwch a Lludw o'th flaen Di. Ti wyddoſt, O Arglwydd, na's gallaf fi dyneru y Galon galed, ddi-deimled ymma, a pheri iddi drifthâu â'r Triſtwch duwiol hwnnw ag ſydd angenrheidiol i weithio gwir Edifeirwch. O taro Di hi â'r fath Deimlad llym o'm Pechodau ag a fo yn ei thrywanu hi, ac yn peri i Afonydd o Ofid a Thriſtwch diragrith ddylifo allan o honi. Pâr i mi waedu o herwydd fy Mhechodau yn awr, fel na bo i mi waedu am danynt yn dragywydd; a chwedi teimlo eu Dolur a'u Gwewyr hwynt, y gallwyf eu llwyr gasâu a'u ffieiddio, heb ymheddychu â hwynt byth mwyach. Cynnorthwya fi yn llyn, O Dduw Daionus, i ymarfer yr holl Ddyledſwyddau hyn, nes cwbl-orchfygu o honot fy Ewyllys trwyddynt, a'i pharotôi hi i gadarn Fwriad o wadu pob Annuwioldeb a Chwantau bydol, ac i fyw yn ſobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y Bŷd ſydd yr awr hon. Ac yn awr, gan fy mod yn myned allan i'r Bŷd i blith y Profedigaethau hynny, y rhai hyd yn hyn oeddent yn fy rhwydo a'm caethiwo mor druenus, O bydded dy Yſbryd Bendigedig di yn breſennol gyd â mi, i gadw fy Nghydwybod gyſgadur yn neffro, a'm harfogi yn eu herbyn hwynt â'i Yſbrydoliaeth ſanctaidd ef; fel y bo i'r Meddyliau a'r Dymuniadau da hynny, a gyffroaiſt ynnof yn breſennol, lynu yn gadarn ar fy Enaid ynghanol fy Negeſeuon bydol, heb byth adael heibio daer-gymmell fy Nghydwybod, fy Ewyllys, a'm Serchiadau, nes gweithiont ynnof y Ffrwythau dedwydd o Edifeirwch difrifol a diragrith! A hyn oll ydwyf yn daer-ymbil arnat, o ran Toſturi at Enaid truan colledig, ac er mwyn Jeſu Griſt; yn Enw a Geiriau pa un y gweddiaf ymhellach, *Ein Tâd*, &c.

Yn

Yn y Prydnhawn, pan gaffoch eich hun gymhwyſaf at Feddyliau pryſur, ewch i'ch Yſtafell drachefn, ac yſtyriwch yn bwyllog rhyngoch a chwi eich hun, p'un a'ch bod yn ewyllyſgar o'ch Calon i ymadael â phob Pechod, ac yn neilldu ol â'ch Pechod anwyl, ac i ymoſtwng i bob Dyledſwydd; a hyd yn oed i'r rhei'ny ag ſydd yn fwyaf gwrthwyneb i'ch Tueddrwydd drwg: os nad ydych (fel y mae'n debygol jawn na fyddwch dros ryw faint o Amſer) neu os gwelwch y Rheſwm lleiaf i ddrwg-dybio nad ydych, cymmhellwch eich hunain o'r newydd â'r fath Reſymmau duwiol ag ſydd debyccaf i weithio ynnoch Obaith am y Nefoedd, ac Ofn Uffern, a Chariad at Dduw a'ch Jachawdwr; goſodwch eich Gwrthnyſigrwydd ger eich bron, ynghŷd â'i holl Waeldder a'i Frynti, ei Ynfydrwydd a'i Ffolineb, nes bo Triſtwch wedi ei weithio ynnoch o'i blegid: ac yna offrymmwch i fynu y *Weddi* a ganlyn.

O Dâd y Trugareddau, a Duw pob Grâs a Diddanwch, yr hwn wyt Gymmorth parod mewn Angen, mi attolygaf arnat edrych i lawr arnaf fi, Dŷn truan colledig, yr hwn yn ewyllyſgar a'm gwerthais fy hun yn Gaeth-was i'r Diafol, ac ydwyf yn awr yn ymdrechu toſrſ yn rhŷdd o'm Caethiwed truenus hwn i Rydd-did gogoneddus Meibion Duw. Yr wyf yn gwybod, O Arglwydd, fy mod yn ymryſon am fy Mywyd anfarwol; ac, fel y bo i mi lwyddo, yr ydwyf yn diſgwyl bod yn ddedwydd neu'n druenus yn dragywydd. E ddarfu i mi ddwys-yſtyried y Rheſymmau o bob Ochr; ac yn wyf wedi cael llawn Foddlondeb yn fy Meddwl, fod anieirol fwy o Rym yn dy Addewidion a'th Fygwthion, nag ſydd yn holl Anhawſdra fy Nyledſwydd, a Phleſerau fy Mhechod. Ond wedi hyn i gŷd, yr wyf yn cael Deddf yn fy Aelodau yn rhyfela yn erbyn Deddf fy Meddwl; Ewyllys gyndyn ag ſydd yn gwrthod Cynghorion fy Rheſwm, ſydd yn wrthnyſig yn cadw rhyw Bechodau anwyl, ac yn goſod yn erbyn rhyw Ddyledſwyddau neilldnol, er gwaetha'r cwbl ag allo fy Rheſwm a'm Crefydd berſwadio. Ac

felly ar ôl fy holl Ymroad, yr ydwyf beunydd yn cael fy nal mewn Caethiwed i Ddeddf Pechod yr hon ſydd yn fy Aelodau, ac ni allaf dueddu fy hun i lwyr Fwriad o Wellhâd. Ys truan o Ddŷn ydwyf! pwy a'm gwared oddi wrth y Corph hwn o Bechod a Marwolaeth! Mi wn, O Arglwydd, er fy mod i yn wan ac yn ddirym, ac o honof fy hun yn anabl i yſgwyd ymmaith Gadwynau a Llyffetheiriau fy Chwantau, etto fod dy Râs di yn llawn ddigonol i'm rhyddhâu a'm gwaredu i oddi wrthynt; a Thi addewaiſt gynnorthwyo fy Egni diragrith â'th Râs, a'i goroni â Llwyddiant bendigedig. O herwydd pa ham, er mwyn dy Wirionedd a'th Drugareddau, na âd i'th Greadur truan, yr hwn â Golygon toſturiol a chwynfannus ſydd yn gwaeddi allan am Help gennyt, i dreulio ei hun mewn Ymorcheſtion blin a dilês yn erbyn Ffrŵd grêf fy Natur bechadurus, yr hon, heb dy Gynnorthwy di, a orchfyga yn fuan fy Ymroad egwan i, ac a'm gyrr i lawr i Ddinyſtr tragywyddol. Y mae fy holl Hyder arnat Ti, fy Ngobaith o Lwyddiant ſydd yn gwbl ynnot Ti. Cymmorth, O Arglwydd, cymmorth; ac onid e, daffu am danaf: eſtyn allan dy Fraich rymmus at fy Enaid ſydd yn ſuddo, ac na fydded i'r Dyfnder hwn fy llyngcu i fynu; ond bywioccâ Di fy Egni lleſg, eryſhâ fy Ffydd wan amhêus, goſod fywyd yn fy Yſtyriaethau oer nychlyd, eglurhâ fy Argyhoeddion o'm Heiſiau o Jachawdwr, ac o Berygl a Brynti fy Mhechodau; a thrwy hynny cynnydda fy Nhriſtwch ediſeiriol a'm Cnoſêydd Cydwybod yn y fath Fodd, ag y bo i'm Hewyllys wrthnyſig, trwy'r holl Foddion hyn ynghŷd, gael o'r diwedd ei gorchfygu, a'i pherſwadio yn effeithiol i ymadael â phob Pechod, er anwyled gennyf am dano, ac ufuddhâu i bob Dyledſwydd, er croeſed a ſo hi i'm Tueddrwydd drwg. Yna y rhoddaf fy hun i fynu yn rhwydd i Tydi, ac â Bwriad cadarn mi gyſegraf fy holl Alluoedd i'th Waſanaeth. Ac fel y gallwyf wneuthur felly, a thrwy wneuthur felly gael fy heddychu â Thydi, O fy Nuw a ddigiais, cyn yr elwyf oddi ymma, ac na'm gweler mwy, derbyn fi, mi attolygaf arnat, dan dy Gadwraeth y Nôs hon; fel y gallwyf etto weled Goleuni Diwrnod arall, a chael rhagor o Amſer i orphen fy Ediſeirwch,

feirwch. A hyn ſy'gyd ydwyf yn oſtyngedig yn ymbil, er mwyn Jeſu Griſt; yn Eiriau a Geiriau pa un y gweddiaf ymhellach, *Ein Tâd*, &c.

Os, wrth chwilio eich Calon, y canfyddwch eich bod wedi gofod yn dêg o'ch blaen pa Bleſerau pechadurus y rhaid i chwi ymadael â hwynt, pa Ddyledſwyddau a raid i chwi ymoſtwng iddynt, a pha Anhawſdra a raid i chwi ymrwymo ag ef, yn ewyllyſgar heb ddim Arall na dywedyd yn erbyn dim, i ufuddhau i Dduw, gochelwch fryſio gormod i wneuthur eich Bwriad, ond ymmerwch ychydig o Amſer i brofi eich hun; edrychwch a fyddwch chwi y foru o'r un Bwriad ag yr ydych ynddo yn awr; ac os y pryd hynny y gwelwch Reſwm i'ch drwg-dybio eich hun, profwch ychydig yn hwy, ac yn breſennol ymrowch ddim ag alloch i gadarnhau a ſefydlu eich hun yn y Meddwl da yr ydych ynddo, trwy eich cymmell a'ch annog eich hun â'r holl Reſymmau crefyddol hynny trwy ba rai y cawſoch eyn belled a hyn eich argyhoeddi a'ch perſwadio. A thra foch yn eich profi eich hun yn llyn, yn lle'r un o'r blaen, bydded hon eich *Gweddi Brydnhawnol*.

O Fendigedig Arglwydd a thrugarocaf Dâd, Tydwyt Dduw ſydd yn gwrando Gweddi, ac attat Ti y daw pob Cnawd; yr wyf yn thyſeddu dy Ddaioni, yr wyf yn addoli dy Râs, am i Ti wrando fy Llefain, a thoſturio wrth fy Nhrueni, a gwneuthur cymmaint a hyn at fy Ngwellhâd, wedi i mi mor ſynych dy gyffroi Di i Ddigofaint â'm Pechodau trymion, o achos pa rai y gallesit Ti yn gyfiawn gau dy Gluſtiau yn fy erbyn yn dragywydd. Yr wyf yn cyfaddef, mai trwy dy Râs di yr ydwyf yr hyn ydwyf; fod y Galon oſtyfnig hon yn dechreu o'r diwedd dyneru, yr Ewyllys gyndyn yn dechreu ymoſtwng, a'r Serchiadau afreolus hyn yn dechreu newynu ſychedu ar ôl Cyfiawnder; fod fy Enaid yntyd yn awr o'r diwedd yn cymmeryd ei berſwadio i ymadael â'r Pechodau hynny y rhai ydynt ei Blaau a'i Anedwyddwch,

ac i gofleidio y Dyledſwyddau bendigedig hynny trwy ba rai yr amcenaiſt ſy nerchaſu i Ogoniant anfarwol. Trwy y Dechreuad da ymma y rhoddaiſt i mi ryw Reſwm i obeithio am Lwyddiant happus ar fy Ymroad egwan. Moliant a fo i'th Râs, yr wyf yn ewyllyſgar o'm Calon i ſod yn eiddo i Ti; a phe bawn ſicr i barhâu o'r Meddwl a'r Tueddrwydd hwn, yn fuan yr ymrwymwn fy Nghalon a'm Hewyllys i Ti trwy y Rhwym mwyaf cyhoedd. Ond, O Arglwydd, yr wyf yn fy ofni fy hun, y mae arnaf Fraw o achos fy Anwadalwch fy hun; a Thi a wyddoſt fod gennyf ormod o Reſwm am hynny. Mi'th watworais yn rhy fynych eiſoes â'm Haddewidion a'm Rhwymedigaethau twyllodrus; mi a bechais, ac yna mi addewais wellhâu; mi addewais wellhâu, ac yna a bechais drachefn, fel pe na buaſwn yn meddwl dim wrth fy Addewidion, ond yn unig deiſyf Cennad gennyt Ti i bechu i'th erbyn o'r newydd: ac yn awr, wedi torri fy Ngair mor fynych, ni fynnwn er yr holl Fyd wneuthur yn dwyllodrus â Thi mwyach; am hynny, cyn y bo i mi fy rhoddi fy hun i fynu yn arbennig a'm cyſſegru fy hun i Ti trwy Fwriad a Rhwymedigaeth newydd, yr wyf yn dymuno gwneuthur rhyw Broſiad ymhellach o'm Diyſgogrwydd fy hun, i weled p'un ai Effaith Gwŷn neu Farn ſefydlog yw Tueddiad fy Ewyllys yn breſennol. Yn y cyfamſer gan hynny yr wyf yn oſtyngeiddiaf yn attolwg i Ti fod yn breſennol gyd â mi yn fy holl Ffyrdd, ac i weithio yn waſtadol ar fy Meddwl â'th Râs a'th Yſbryd; i nerthu fy Ffydd, i ſefydlu fy Yſtyriaeth, i berſwadio fy Ewyllys, a phorthi a llonni fy Nymuniadau ſanctaidd hyn â Meddyliau ac Yſbrydoliaethau daionus; fel y bo i mi barhâu yn ſicr ac yn ddiymmod, ac na allo un Brofedigaeth pa un bynnag newid Tymmer fy Meddwl, neu ei droi oddi wrth ei Dueddrwydd da; a chwedi cael Broſiad digonol o Ogwyddiad ſefydledig fy Enaid i ufuddhâu i Ti, y gallwyf gyſſegru fy hun i Ti â Chalon lawen, a Gobaith ſicr o'm Purdeb fy hun a'm Dianwadalwch. O Arglwydd, gwrando a nertha fi, er mwyn dy Drugareddau, ac er mwyn Jeſu Griſt; yng Ngweddi berffeithiaf yr hwn y gweddiaſ ymhellach, *Ein Tad*, &c.

Os,

Os, wedi profi eich hun yn ddigonol, y gwelwch eich bod yn tueddu yn waſtadol i ufuddhâu i Dduw, i ymadael â phob Pechod, a chyflawni pob Dyledſwydd; yſtyriwch ei fod yn awr yn llawn bryd i chwi gyflegru eich hun i Dduw, a pha gymmaint o Reſwm ſydd gennych i wneuthur hyn, a pha Rwymedigaeth cryf a raid i chwi ofod arnoch eich hun trwy wneuthur hyn. A chwedi i chwi yſtyried y Pethau hyn mewn Pryſurdeb, rhoddwch eich hunan i fynu i Dduw yn y Ffurf o Weddi ſydd yn canlyn; yr hon, er rhwymo eich Bwriad da yn fwy, a'i wneuthur yn fwy cyhoedd a phatchedig, a wnaech yn dda ei hailadrodd y *Sacrament* neſaf.

O Drugaroccaf Dâd, mor anfeidrol yw Daioni dy Natur, fel yr ydwyt bob amſer yn barod i dofturio wrth y Tlawd a'r Anghenog, ac i'w dianghenu; ac i eſtyn dy Gymmorth amſerol i ni Bechaduriaid di-gymmorth, pa bryd bynnag y llefom arnat! O Wirionedd yr hyn y rhoddaiſt i mi, y gwaelaf o Bechaduriaid, Brofiad teimladwy jawn. Can's yn ddiweddar yr oeddwn mor farw mewn Camweddau a Phechodau, fel, oni buaſai i Ti dofturio wrthyf, a'm bywhâu trwy dy Râs, y buaſwn farw yn dragywydd: yr oedd fy Nyall mor ddall, nad oeddwn yn gweled fy Mherygl; fy Nghydwybod wedi ei ferio yn y fath Fodd, nad oeddwn yn teimlo fy Euogrwydd; fy Ewyllys gymmaint dan Gaethiwed fy Chwantau, na's gallwn oddef meddwl am ymadael â hwynt. Ond yn awr, bendigedig a fo dy Râs, yr hwn gynnaf i gyffrôdd fy Ymroad, ac a'i llwyddodd hyd yn hyn, yr wyf yn awr nid yn unig yn gweled y Perygl y bwriodd fy Mhechodau fi iddo, ac yn amlwg yn teimlo eu Heuogrwydd hwynt, ond yr wyf yn rhwydd yn ewyllyſio ymwrthod â hwynt yn dragywydd, ac ymadael hyd yn oed â'r Chwantau anwyl hynny y rhai hyd yn hyn a fuont mor anwyl i mi a'm Llygad dehau. Ac yn awr, O Arglwydd, yr wyf yn dyfod o'th flaen Di, ac yr ydwyf yn gobeithio, â Chalon wir ufudd a diragrith, i offrwm i fynu fy Enaid

a'm

a'm Corph i Ti, ac i addunedu Ufudd-dod tragywyddol i'th Ewyllys bendigedig. Er mwyn Jeſu, na wrthod yr Offrwm tlawd hwn, yr hwn, er ei fod yn anfeidrol anheilwng o'th Dderbyniad, ydyw'r Peth goreu ag allaf fi breſentio i Ti. I Tydi, O Ddrindod gogoneddus, y Tâd, y Mâb, a'r Yſbryd Glân, yr ydwyf o hyn allan yn dragywydd yn fy nghyflegru fy hun a holl Bwerau fy Enaid. [*Ac ymma, ar Fwrdd fy Jachawdwr Bendigedig, ac ar y Cuffadwriaethau ſanctaidd hyn o'i Glwyfau a'i Waed] yr wyf yn llwyr-addunedu yn erbyn pob Pechod a Gwrthryfelgarwch adnabyddus ac ewyllyſgar; ac yn neilldiol yn erbyn yr holl Bechodau hynny y rhai fu gynt yn dra anwyl gennyf; gan addaw yn ffyddlon, trwy dy raſol Gymmorth, o hyn allan i gadw dy Gyfraith ymhob peth. Hyn ydwyf yn Mhurdeb fy Enaid ymma yn addunedu i'th Dduwiol Fawredd; a pha fodd bynnag y gallwyf gael fy nhemtio yn ôl llaw, ni ymadawaf byth yn ewyllyſgar â'r Addunedau hyn, nac un Rhan o hono: felly cynnorthwya fi, O fy Nuw, er mwyn Jeſu Griſt; yn ei Eiriau ef ei hun y gweddiaf ymhellach, *Ein Tâd*, &c.

* Pan y b'och yn adnewyddu eich Addunedau yn y Sacrament, chwaneglwch,

---

Cyfarwyddiadau tu ag at Ymarfer ein Crefydd yn y Dirgel *yn fwy buddiol, pan fom wedi* ymrwymo yn weithredol *yn y* Fuchedd Gris'nogol.

Pan eloch i'ch 'Stafell yn y *Boreu*, yſtyriwch yn ddifrifol rhyngoch a chwi eich hunain y Rhwymedigaeth arbennig yr acthoch dano; pa Euogrwydd gwaeddfawr a fyddai ei dorri ef; pa Ynfydrwydd a Ffolineb a fyddai cilio oddi wrtho, wedi cymmeryd cymmaint o Boen i ddyfod â chwi eich hunain iddo; pa Reſymmau cryfion ſydd gennych i barhâu ynddo; a pha Gymmorth cefnog a addewir i chwi, os ni byddwch yn ôl i chwi eich hunain. Ac yna offrymmwch i fynu y *Weddi* a ganlyn.

O Dragy-

O Dragywyddol Dduw, yr hwn wyt Dâd cin Harglwydd Jeſu Griſt, ac wyt trwyddo Ef yn aſtoſi cynnifer o Roddion da a pherffaith ar dy Greaduriaid; yr wyf fi yn dymuno yn dragywydd i gofio ac addoli dy Ddaioni tu ag attaf fi, yr hwn a gippiaiſt fel Pentewyn allan o'r Tân, ac o'r diwedd a ddugaiſt i Amcan pryſur o Wellhâd, ar ôl hir Yrfa wrthnyſig o Anufudd-dod, ymha un pe buaſwn beunydd yn parhâu, y buaſwn golledig yn dragywydd. O bendigedig a fo dy Enw mawr, fy mod wedi gwrthryſela gynnifer o Flynyddau yn dy erbyn, am yr hyn yr haeddais yr lawer Dydd gael fy mwrw i'n Tywyllwch eithaf, etto yn gweled Goleuni Diwrnod arall, ac yn cael rhagor o Amſer i edifarhâu a chyflawni fy Mwriad o Wellhâd! Ac yn awr, O Arglwydd, fel y darfu i Ti weithio fy Ewyllys i Fwriad da, er gwaethaf holl Duedd-rwydd llygredig fy Natur, na âd dy Waith, mi attolygaf arnat, heb ei orphen; ond, trwy alluog Weithrediad dy Râs, bydded i Ti fy nghyffrôi a'm cynnorthwyo yn ffyddlon i gyflawni yr hyn a fwriedais mor ddifrifol. Gwaith mawr a gymmerais yn llaw, i lanhâu Natur front aſan, a diwreiddio ei holl Chwantau a'i Serchiadau ffiaidd, a'i phlannu â phob Cynheddfau nefol, â'u cynnyddu hwyntw i Ddedwyddwch tragywyddol; a Thi wyddoſt pa Wrth-nebiad crŷf a wneir yn fy erbyn, ac yn erbyn pa Brofedigaethau pwerus y rhaid i mi ymorcheſtu trwy holl Daith fy Ymroad i yn ôl llaw. Fel onid ei Di yn waſtadol gyd â mi, a'm bywioccâu a'm cefnogi beunydd â'th Yſbryd Bendigedig, y mae fy Ngwaith mor fawr, a'm Nerth mor fychan, ag y bydd yn ofer i mi fyned ymlaen ymhellach. E fydd i'r Profedigaethau taer ſydd yn fy amgylchynu yn fuan orchfygu fy Mwriad preſennol, ac mi a wnâf, fel y gwnaethum yn rhy fynych eiſoes, bwriadu a phechu, a phechu a bwriadu; ac felly cynnyddu fy Euogrwydd trwy Fradwriaeth fy Addunedau a'm Rhwymedigaethau. Am hynny, er mwyn Jeſu Griſt, na ymguddia oddi wrthyf; ond parhâ i gynnorthwyo fy Ymroad egwan trwy dy Râs nerthol, nes i Ti ei goroni â Buddugoliaeth berffaith. I'r Diben hynny yſbrydola fi

fwy

fwy fwy, mi attolygaf arnat, ag Ammynedd a Dianwadalwch Meddwl, fel y ſefwyf yn fy Mwriad da er gwaethaf pob Profedigaeth i'r gwrthwyneb. Dwg ar Gôf i mi yr Eſamplau ſanctaidd hynny a ofodaiſt o'm blaen, yn enwedig Eſampl fy Jachawdwr bendigedig, a goſtwng fy Nghalon i'w copio a'u canlyn hwynt. Cyfarwydda fi at ryw Athro doeth a ffyddlon, ag a fyddo yn ewyllyſgar ac yn abl i'm cynnorthwyo yn fy holl Anghenion yſbrydol; a thrwy fy mynych gyffrôi i gyſſegru fy Ngweithredoedd i Ti, pura fy Amcanion oddi wrth Ddibennion pechadurus a chnawdol, fel y bo i mi felly fyw yn waſtadol i'th Ogoniant di. A chan dy fod Di yn breſennol gyd â mi pa le bynnag yr wyf, ac yn fy nghanfod beunydd pa beth bynnag a wnelwyf, O yſbrydola Di fi â'r fath Deimlad crŷf parhâus a gweithredol o hynny, ag a fyddo yn Gerydd gwaſtadol i'm Tueddrwydd pechadurus, ac a wnelo i mi ofni dy ddigio Di! Bydded dy Yſbryd Bendigedig yn Rhybuddiwr beunyddiol i mi, i ddwyn ar Gôf i mi i yſtyried fy Ffyrdd, ac i fynych-holi fy Ngweithredoedd; fel pa bryd bynnag yr elwyf ar gyfeiliorn, y caffwyf fy argyhoeddi yn fuan o hynny, ac y bo i mi, trwy Edifeirwch cyflym, adnewyddu fy hun cyn i mi grwydro yn rhy bell oddi wrth fy Nyledſwydd. A chaniatâ, mi attolygaf arnat, i'r Teimlad o'm Ffaeledigaethau gynt fy ngwneuthur beunydd yn fwy gwyliadwrus a dieſgeulus dros yr Amſer ſydd yn ôl; fel pa bryd bynnag y bûm yn ddiofal neu yn ewyllyſgar yn feius, y gallwyf o hynny allan fod yn fwy gochelgar ynghylch fy Ngweithredoedd, ac yn fwy gwyliadwrus yn erbyn y Profedigrethau a'm bradychodd. Ac fel na redwyf o hyn allan i Brofedigaeth heb fod yn rhaid, cadw fi, O Arglwydd, rhag Diogi a Seguryd, a rhag Ymyrreth â Matterion na bônt yn perthyn i mi, a gofod fi beunydd mewn Côf i wneuthur fy Ngorchwyl fy hun, a bod yn ffyddlon ac yn ddiwyd yn y Cyflwr a'r Galwad y gofodaiſt Di fi ynddynt. Ac fel y gwas'naethwyf di beunydd yn rhwydd ac yn llawen, ſymmud oddi wrthyf, mi attolygaf arnat, bob Triſtwch a Phrudd-der dilês, a chynnorthwya fi i gyrraedd Llonyddwch Meddwl tawel, ac Yſbryd llon gweddaidd. I'r Diben hynny, Arglwydd

Daionus,

Daionus, yſbrydola fi â Theimlad bywiol a thaer Ddiſgwyliad am y Gyſtwr gwynfydedig hwnnw tu ag at ba un yr ydwyf fi yn trafaelu; fel yr elwyf ymlaen gyd â Llawenydd a Gorfoledd, a'm Llygad yn waſtadol ar yr Olwg ogoneddus hon, trwy'r holl Anhawſdra a'r Profedigaethau ſydd i'm gwrth'nebu. Ac fel y caffwyf trwy'r holl Foddion hyn fy nerthu a'm cadarnhâu fwy fwy yn y Bwriad da a wnaethum, bydded i Ti gyffrôi i fynu fy Meddwl diog i ddyfal-gyrchu dan dy Ordinhadau cyhoeddus, fel y bo i mi yng Nghynnulleidfaoedd arbennig dy Saint wrando beunydd dy Air gyd â Pharch ac Yſtyriaeth, i offrwm i fynu fy Ngweddiau gyd â Gwreſogrwydd a Deſoſiwn, a nesâu at dy Fwrdd gyd â'r holl Oſtyngeiddrwydd a'r Cariad, Diolchgarwch ac Ewyllyſgarwch Enaid, ag ſydd yn gweddu i'r Coffadwriaeth parchedig hwn, a'r Darluniad o Farwolaeth fy Jachawdwr. Yn y Pethau hyn, a pha beth bynnag arall ſydd angenrheidiol i ddiogelu fy Mwriad o Ufudd-dod, cynnorthwya fi, O Arglwydd, er mwyn Jeſu Griſt; i'r hwn, gyd â Thydi a'th Yſbryd Tragywyddol, y bo'r holl Anrhydedd, y Gogoniant, a'r Gallu, o'r pryd hyn hyd yn oes Oeſoedd.

Ar ôl y Weddi hon, meddyliwch yehydig rhyngoch a chwi eich hun, pa Brofedigaethau ydych debygol o gyfarfod â hwynt yng Ngwaith y Dydd ſydd o'ch blaen; ac adgofiwch yn fyrr y Rheſymmau grymmus hynny y mae'r Efengyl yn gymmell i 'ch cefnogi chwi yn eu herbyn hwynt; a chymhwyſwch hwynt yn neilldnol at y Pechod neu'r Pechodau yr ydych fwyaf tueddol iddynt. Ac yna adnewyddwch eich Bwriad ger bron Duw yn y *Weddi* a ganlyn.

O Dduw, fy Ngobaith a'm Nerth, ar Help a Chymmorth pa un yr ydwyf yn hyderu; edrych i lawr, mi attolygaf arnat, ar Greadur truan digymmorth, yr hwn wyf yn myned allan i Fŷd trafferthus, ſydd yn llawn o Rwydau a Phrofedigaethau. Bendigedig a fo dy Enw; y mae fy Nghalon beunydd yn parhâu i ſwriadu gwellhâu

yn

yn gyſangwbl: ac am hynny ymma yn dy Breſennoldeb oſnadwyd yr wyf dracheſn yn y Modd mwyaf arbennig yn addaw ac yn ſy rhwymo ſy hun, nad pa Broſedigaethau bynnag a gyſarſyddwyf â hwynt y Dydd heddyw, na wnâf un Pechod yn ewyllyſgar; na wnâf mo'r Pechod yr wyf fwyaf tueddol iddo; ac na eſgeuluſaf un Ddyledſwydd, er gwrthwynepped allo hi ſod i'm Natur; ac yr ymegniaf yn ffyddlon i gadw y ſath Wyliadwriaeth ſeunyddiol arnaf ſy hun, fel na chaffwyf ſy nal yn ddiſymmwth, na'm goddiweddyd trwy ſy Anyſtyriaeth ſy hun a'm Heſgeuluſdra. Ond hyn, O Arglwydd, wyf yn addaw, nid o ddim Ymddiried yn ſy Nerth ſy hun, ond mewn Hyder arnat Ti, ac mewn Gobaith na byddi Di, o'th dyner Doſturi at Ddŷn truan agwan, ddim yn ôl i mi mewn un Cymmorth angenrheidiol; ond y bydd i Ti naill ai ſymmud oddi wrthyf bob Profedigaethau mawrion a thaer, neu ſy nghynnorthwyo â'th Râs, i'w gwrthſefyll a'u gortrechu. A hyn ydwyf yn ei daer-ymbil yn Enw a Chyfryngdod Jeſu Griſt; â Gweddi pa un y dibennaf ſy Aberth Boreuol hwn, *Ein Tâd*, &c.

Yn y Prydnhawn, pan y boch oreu eich Tueddiad at Ymarfer Crefydd, neillduwch y ſath Gyfran o'ch Amſer ag alloch yn weddus arbed oddi wrth eich Difyrrwch angenrheidiol, i alw eich hun i Gyfrif am Weithredoedd y Dydd; a holwch p'un a fuont hwy yn gyttunol â'ch Addewid a'ch Bwriad yn y Boreu: a chwedi holi, chwi gewch weled naill ai i chwi gyflawni yn ffyddlon yr hyn a addawſoch, neu i chwi bechu yn ddiarwybod, neu trwy Ddiofalwch ac Eſgeuluſdra am danoch eich hun, neu i chwi bechu yn ewyllyſgar ac yn erbyn eich Cydwybod.

Os, wrth holi, yr ymddengys i chwi ſod yn ffyddlon i'ch Rhwymedigaeth yn y Boreu, goſodwch o'ch blaen y Rheſwm mawr ſydd gennych i lawenychu yn hynny, ac i foliannu Duw am hynny. Ac yna offrymmwch i ſynu y Diolchgarwch a ganlyn.

Bendigedig

BEndigedig a fo dy Enw, O Raſuſaf a Thrugaroccaf Dâd, am y Ffafron mawrion ac aneirif y rhai o Amſer i gilydd a bentyrraiſt arnaf, yr hwn wyf lai nâ'r lleiaf o'th holl Drugareddau; yn neillduol, am Drugareddau hynod y Dydd hwn, am na chauaiſt dy Gluſtiau oddi wrth fy Ngweddiau, ac nad ymguddiaiſt oddi wrthyf, ond a roddaiſt dy Râs i'm nerthu trwy'r holl Rwydau a'r Profedigaethau ag oeddent ar fy Ffordd. Moliant a fo i'th Enw, am na adewaiſt i mi gael fy nhemtio uwchlaw'r hyn a allwn; am i Ti fy nghynnorthwyo mor bwerus yn erbyn y Profedigaethau y ſum yn ymdrech â hwy, a thrwy oſod cynnifer o Feddyliau da ynnof, a nerthaiſt fy Mwriad, ac a beraiſt iddo lwyddo ac ennill y Fuddugoliaeth. I'th Râs di y mae'r holl Ddaioni a wnaethum yn ddyledus, a thrwy dy Gymmorth y diangais rhag yr holl Ddrygau y temtiwyd fi iddynt: am hynny nid i mi, O Arglwydd, nid i'm Nerth neu'm Hymroad i, ond i'th Enw y bo'r holl Glôd a'r Mawl am fy ngwaredu a'm cynnal y Dydd hwn. O na âd i'r Coffadwriaeth o'th Ddaioni hwn tu ag attaf byth fyned yn anghof gennyf! eithr bydded iddo ennyn ynnof y fath Deimlad diolchgar, ag a fyddo yn fy nghyffrôi fwy fwy i'th garu, ac i ufuddhâu i Ti, a hyderu arnat o hyn allan. Ac fel y gwelaiſt Ti fod yn dda i'm harwain yn ddiogel a'th Râs trwy holl Beryglon a Phrofedigaethau'r Dydd, felly cymmer fi i'th Ofal a'th Gadwraeth y Nôs hon; a chaniatâ i mi ddeffrôi yn y Boreu â Chalon wedi ei gwreſogi â'r Coffadwriaeth o'th Ddaioni, ac wedi ei hannog gan Lwyddiant y Dydd hwn, ac yn caru Ymarfer Rhinwedd trwy'r Hyfrydwch a'r Pleſerau ſydd yn cynnyddu ynddi, yn y fath Fodd, ag y bo i mi barhau yn fy Ngyrfa grefyddol gyd â mwy o Galondid a Llawenydd. A hyn ydwyf yn oſtyngedig yn erfyn er mwyn Jeſu Griſt; yn Enw a Geiriau pa un y gweddiaf ymhellach, *Ein Tâd*, &c.

Os

Os, wrth holi, y gwelwch i chwi fod yn ôl yn eich Dyledſwydd, neu i chwi wneuthur unrhyw Weithred ddrwg trwy Ddiofalwch yn unig, neu trwy gael eich goddiwes yn ddiſymmwth; ymrowch weithio ynnoch eich hun Deimlad athriſt o'ch Ffolineb, eich Gwendid, a'ch Diofalwch eich hun. Ac yna dibennwch â'r *Ffurf* hon o *Ymddaroſtyngiad.*

O Fendigediccaf Arglwydd Ddiw, yr hwn wyt anfeidrol ogoneddus yn dy Gyfiawnder a'th Sancteiddrwydd dy hun, ac wyt yn ewyllyſio ac yn gweithredu yn dragywydd yn ôl dy Natur dy hun, yr hon yw'r Gyfraith a'r Patrwn perffeithiaf o Ddaioni. At dy Natur ddifrycheulyd ni all dim Drwg nesâu, yr hwn wyt burach dy Olygon nag y gelli edrych ar Anwiredd: â pha Hyder ynte y gall y fath Greadur halogedig ag ydwyf fi ymddangos yn dy Wydd! pa fodd y gallaf dderchafu fy Llygaid euog at dy Orſeddfaingc, yr hwn at fy Nhroſeddau gynt, y rhai a fuont fwy mewn Rhifedi nà Gwallt fy Mhen, a chwanegais y Dydd hwn gynnifer o Ffaeledigaethau a Deffygion pechadurus, y rhai a fyddent ddigon i ennyn dy Ddigofaint i'm herbyn, pe baet Ti yn craffu yn fanwl ar yr hyn ydwyf yn wneuthur ar fai! Y Boreu hwn yr ymrwymais i Ti, nid yn unig i ymgadw oddi wrth bob Pechod pwyllog ac ewyllyſgar, ond hefyd i oſod Gwyliadwriaeth ar fy Ngenau a'm Gweithredoedd, fel na phechwn i'th erbyn yn ddiarwybod; ond rhaid i mi gyfaddef i'm Cywilydd, fy mod yn ddiofal ac yn eſgeulus tôſt, gan i mi adael fy hun y Dydd hwn i gael fy ngoddiwes trwy fy Niofalwch yn y fath Weithredoedd na's gall dim eu heſguſo yn dy Olwg di, neu beri i Ti doſturio wrthynt, ond Breuolder a Gwendid truenus fy Natur yn unig. Pa beth a ddywedaf wrthyt, O Tydi Farnwr yr holl Ddaear! Euog, euog ydwyf; ac nid oes gennyf ddim i bledio droſof fy hun, ond Gwaed Jeſu, y Jawn llawnddigonol hwnnw dros Bechodau'r holl Fyd. O Arglwydd, yr ydwyf yn edifarhâu mewn Pryſurdeb, ac yn ddrwg gennyf dros fy ngham Weithredoedd hyn: eu Coffa fy drwm

drwm gennyf, eu Baich ſydd anrhaith ei oddef. Trugarhâ wrthyf, trugarhâ wrthyf, Drugaroccaf Dâd; ac er mwyn Jeſu Griſt maddeu i mi yr hyn oll aeth heibio, a chaniatâ i'r Teimlad o'm Cam-ymddugiadau hyn fy ngwneuthur yn fwy gofalus a gwyliadwrus o hyn allan. A bydded dy Yſbryd Bendigedig yn waſtadol yn breſennol gyd â fy Meddwl, i gadw fy Meddyliau crwydredig yng-hŷd, a deffrôi fy Yſtyriaethau, a'm rhybuddio o'm Peryglon; fel na chaffwyf mwyach fy ngoddiwes gan Brofedigaethau diſymmwth, na'm gwthio i Weithredoedd drwg trwy Obeithion neu Ofnau aniſgwyliadwy: ond dar oſtwng Di fy Chwantau îs i'm Hewyllys, fy Ewyllys i'm Rheſwm, a'm Rheſwm i'th Yſbryd, yn y fath Fodd ag y gallwyf o hyn allan, dan ei Gyfarwyddyd bendigedig ef, fod wedi fy mharotôi yn erbyn pob Profedigaethau, a'm perffeithio at bob Gweithred dda. Ac yn awr, O Arglwydd, na fydded i'r Ffaeledigaethau y bûm yn euog o honynt y Dydd heddyw, attal dy Gadwraeth raſol di oddi wrthyf y Nôs hon; ond caniatâ, ar ôl Cwſg ddiogel a chyſſurus, i mi ddeffrôi yn y Boreu gyd â'r fath Deimlad athriſt o honynt, ag a baro i mi o hyn allan fod yn fwy gwyliadwrus a glew yn eu herbyn. A hyn oll ydwyf yn erfyn er mwyn Jeſu Griſt; â Gweddi pa un yr ydwyf yn cloi i fynu fy Aberth Prydnhawnol hwn. *Ein Tâd*, &c.

Os, wrth holi, yr ymddengys i chwi wneuthur un Pechod pwyllog, gwllyſgar, ymrôwch weithio ynnoch eich hun Ddychryn, Cywilydd, a Gofid Calon, o'i blegid; trwy oſod o flaen eich Cydwybod Frynti ac Aniolchgarwch anghenfil, Drygioni dwfn a Gwall-bwyll: toſt eich Gweithred. Ac yna diweddwch â'r *Ffurf* hon o *Ediſeirwch neillduol.*

O Tydi Fawredd tra ofnadwy Nef a Daear, yr hwn wyt yn casâu Anwiredd, ac a gyhoeddaiſt o'r Neſoedd dy Lidiowgrwydd llym yn erbyn pob Annuwioldeb ac Anghyfiawnder Dynion! edrych i lawr arnaf fi, Ddyn truan, gwael, ac euog, mi attolygaf arnat, yr hwn wyf yn

ſefyll ymma wrth dy Farr di wedi fy nghondemnio gan fy Nghydwybod, a'm gwradwyddo yn y fath Fodd, trwy Deimlad o'm Pechod, a'th gyfiawn Anfoddlonrwydd i'm herbyn, fel yr ydwyf yn crynu nesâu o'th flaen; ac etto ni feiddiaf ſefyll oddi wrthyt. Yr wyf yn cydnabod fy mod yn anheilwng, yn anfeidrol anheilwng, i ddyfod o'th flaen, ac y mae fy Nychryn a'm Cywilydd fy hun yn fy nghymmell i ymguddio rhagot; ond etto yr ydwyf yn gwybod y rhaid i mi ddyfod, neu fod yn golledig. Ac am hynny, O Arglwydd, yr wyf yn fy nhafiu fy hun i lawr ymma wrth dy Draed; ac os gweli Di yn gymmwys fy namfain, a'm troedio o'th Wydd yn dragywydd, rhaid i mi addef mai unjawn a chyfiawn ydwyt Ti yn dy holl Rfyrdd. Can's e fu dy Ddaioni yn rhyfeddol tu hwnt i'r hyn a allafwn i yn weddus ddymuno, neu allaf fynegi: Tydi a doſturiaiſt wrthyf, pan oeddwn i gŷd yn glwyfus ac yn aflan, ac yn ymdrybaeddu yn fy Ngwaed; pan oeddwn yn cyſgu yn ddiofal ar Geulan Deſtryw, ac ymron yn ddi-deimlad o'm Heuogrwydd a'm Trueni. Yn y Cyfhwr toſturus hwn y darfu i Ti ymweled â'm Henaid truan, a'm deffrôi i Deimlad o'm Perygl, trwy dy Râs yn fy rhagflaenu, a'm rhybuddio yn effeithiol i ffoi rhag y Llid a fydd. Ac yn awr, wedi i Ti fy nwyn i attaf fy hun, ac i lwyr Fwriad o Wellhâd, a'm Henaid mewn ffordd dêg i gael ei jachâu; myfi, Ddŷn truan, aniolchgar, fel yr ydwyf, a hedfanais yn Wyneb fy Meddyg; mi gamarferais ei Ddaioni, ac a ſiommais ei Râs, ac yn ewyllyſgar ac yn bwyllog a rwygais fy Nghlwyfau yn agored drachefn. A hyn a wnaethum yn fradwrus jawn, yn gyſtal ag yn aniolchgar jawn; nid yn unig yn erbyn holl Rwymedigaethau dy Ddaioni, ond hefyd yn erbyn fy mynych Addunedau a'm Rhwymedigaethau. Can's y Boreu hwn yr adnewyddais i Ti mewn Modd arbennig fy Addewid o Ufuddod, ac yn honno mi addunedais na throſeddwn i'th erbyn yn ewyllyſgar ar un Brofedigaeth pa un bynnag: ond, O Fradwr brwnt fel yr ydwyf, i Ti, ac i'm Henaid fy hun, e ddarfu i mi, trwy * dorri yn frwnt jawn fy Rhwymedigaeth hwn; a hyn a wnaethum gyd â'r Amgylchiad mwyaf anfaddeuol, hyd yn oed yn erbyn Cynghorion

* Ymma enwch y Weithred bechadurus a wnaethoch.

horion dy Râs, Ceryddon fy Nghydwybod, a'r Rhybuddion teccaf o'm Perygl. Pe gwnaethwn y Peth yn anwybodus, neu yn ddiſymmwth cyn yſtyried, e fuafai yn Beth i doſturio wrtho: ond, O fy Euogrwydd, fy Euogrwydd, yn wybodus, yn ewyllyſgar, yn frwnt, ac yn faleiſus, yw gwnaethum y Drwg hwn yn dy Olwg; trwy ba un y collais fy Enaid, fy Niniweidrwydd, a'th Gariad di; ac ni chniſlais ddim yn eu lle hwynt, ond Mwyniant Munyd, a Chywilydd ac Edifeirwch parhâus. O Ddŷn truan gwael! O Ddŷn ynfyd diobaith fel yr ydwyf, pa beth a wnaethum i! i ba le y fyrthiais i! e ddarfu i mi ſlino dy Yſbryd, dirmygu dy Awdurdod, damſain dy Ddaioni dan Draed, a chlwyfo fy Nghydwybod fy hun, a thaflu fy hun bendramwnwgl, trwy un Weithred front, oddi wrth yr holl Obeithion gogoneddus hynny i ba rai yr oeddit ti wedi fy nerchafu. Ac yn awr, O Dduw, pa beth a allaf ddywedyd droſof fy hun, gan fod fy Mhechod mor fawr, fy Ffolineb mor gwbl-ddieſgus! O y mae arnaf Gywilydd, y mae arnaf Gywilydd o'm plegid fy hun; yr wyf yn galaru ac yn ffieiddio Ynfydrwydd a Drygioni fy Newiliad fy hun; ac, O na bae yn fy Ngallu ei alw yn ôl! Ond, gwae fi! y mae wedi myned yn Weithred; a thrwy'r Weithred honno y mae fy Niniweidrwydd eiſoes wedi ei frychu, fy Enaid wedi ei golli, ac nid yw fwy yn fy Ngallu i ddad-wneuthur yr hyn a wnaethum, nag yw i alw yn ôl yr Oriau Ddoe. Pa beth ynte a whâf! neu i ba le y troaf fy hun! Yn dy erbyn Di, O Arglwydd, yn dy erbyn Di y pechais; ac yn awr, nid oes gennyf neb ond Tydi i'm hol atto. Nid oes gennyf ddim o'm heiddo fy hun i bledio ar fy Rhan: y mae fy Nghydwybod yn fy nghondemmio, ac y mae fy Mhechod, fy Mhechod yn gwaeddi yn groch yn fy erbyn; fel y rhaid i mi fod yn golledig yn dragywydd trwy fy Ffolineb fy hun, oni weli Di fod yn dda i wrando ar Waed dy Fâb yn eiriol droſof, ac ymgynghori â'th Doſturiaethau dy hun, a chwilio Rheſymmau oddi yno i drugarhâu wrthyf. Am hynny, er mwyn Jeſu Grift, er mwyn dy Ddaioni a'th Drugaredd, toſturia, toſturia wrthyf, jachâ fy Enaid; can's pechais i'th erbyn: bydd drugarog

wrth fy Mhechod; can's mawr ydyw. Yr ydwyt wedi addaw derbyn Pechaduriaid a fo yn dychwelyd, i ddilêu eu Hanwireddau, a jachâu eu Gwrthnyſigrwydd. Yr wyf yn dymuno, O Arglwydd, ddychwelyd attat Ti; yr wyf yn casâu ac yn ymwrthod â'm Pechod, ac yr ydwyf ymma yn fy ffieiddio fy hun mewn Llwch a Lludw ger dy fron. Am hynny, er mwyn dy Doſturi, O prawf fi yr unwaith hon etto; ac na fwrw fi yn fuan ymmaith o'th Wydd, ac na chymmer dy Yſbryd Sanctaidd oddi wrthyf; ond attal fi trwy ei Râs ef oddi wrth bob Pechod rhyfygus, ac na âd i un o honynt arglwyddiaethu arnaf. A bywhâ fi, O Arglwydd, er mwyn dy Enw; fel y bo i mi o hyn allan wylio yn fwy gofalus, gwrthwynebu yn fwy grymmus, a rhodio yn fwy diefgeulus, nag y gwnaethum hyd yn hyn: ac fel y bo i mi o hyn allan fod wedi fy nghwbl-gyſſegru i Ti, a'th was'naethu yn ddirwyſtr, cadarnhâ fi â'th Râs yn fy Mwriad ſanctaidd yn y fath Fodd, ag y dewiſwyf farw yn hytrach nâ throſeddu i'th erbyn mwyach. Ac yn awr, O Arglwydd, er i mi, trwy fy Ngwrthryfel i'th erbyn y Dydd heddyw, wneuthur fy hun yn anheilwng jawn o'th Ofal tadol a'th Amddiffynfa; etto mi attolygaf arnat wylio droſof y Nôs hon er Daioni, a rhoi i mi Orphwyſfa ddiberygl ym Mreichiau dy Raglunaeth; fel y caffwyf etto Amſer yn rhagor i edifarhâu am fy Anwiredd. A chaniatâ, mi attolygaf i Ti, pan ddeffrôwyf yn y Boreu, i mi gymmeryd Rhybudd trwy'r Coffadwriaeth toſturus o Gwymp y Dydd heddyw, i gymmeryd mwy o Ofal am fy Ngherddediad, ac i ochelyd neu wrthod y Rhwydau a'r Profedigaethau hynny ſydd i gŷd oddi amgylch i mi. A hyn oll ydwyf yn ddifrifol ac yn oſtyngedig jawn yn ymbil arnat, a hynny er mwyn Jeſu Griſt; yn Enw a Geiriau pa un y gweddiaf ymhellach, *Ein Tâd*, &c.

Cyf-

Cyfarwyddiadau tu ag at Ymarfer ein Crefydd yn y Dirgel, yng Nghyfiwr ein Hymdaith *a'n* Cynnydd *yn y* Fuchedd Gris'nogol; *ynghyd â* Ffurfiau *o* Weddiau *yn y Dirgel, wedi eu cymhwyſo at y Cyfiwr hwn.*

Pan eloch i'ch Stafell yn y *Boreu*, ymrowch fod yn ddiolchgar i DDUW am ei Râs, trwy oſod o'ch blaen Berygl a Thrueni y Cyfiwr pechadurus hwnnw allan o ba un y'ch gwaredyd, ac mor analluog oeddech i ddyfod allan o hono heb ei Gymmorth ef. Ac yna gwnewch y Cydnabyddiaeth neu'r Cyfaddefiad diolchgar hwn iddo.

O Raſuſaf a Thrugaroccaf Dâd! Tydi ydwyt Gymmwynaſwr haelionus i'th Greadigaeth, Cyfaill diffaeledig i Ddynolryw, a thyneraf Garwr Eneidiau, er mwyn tragywyddol Ddedwyddwch pa rai y buoſt yn waſtadol yn ymgynghori, ac ni adewaiſt un Ffordd o Gariad heb ei chynnyg, i'w gwaredu hwynt oddi wrth Bechod a Thrueni. O bendigedig, byth fendigedig o ſo dy Enw Mawr, am y Profiad a gefais o'th Ddaioni tadol hyn! Yr wyf yn Goffadwriaeth o'th Ddaioni, yn Siampl fywiol ac yn Rhyfeddod o'th Drugaredd: can's myfi a fywheaiſt, yr hwn oeddwn farw mewn Camweddau a Phechodau, a'r hwn a fuaſwn wedi darfod am danaf er's llawer Dydd yn fy Anwireddau, oni buaſai i Ti fod yn anfeidrol mewn Ammynedd a Hir-ymaros. Yr oeddwn wedi fforffeitu fy Enaid i Ti, a Thi a alleſit yn gyfiawn fy nhorri ymmaith, a rhoi i mi fy Rhan gyd â'r Rhagrithwyr; ac, wrth yſtyried y Modd y darfu i mi Dy gyffrôi i wneuthur felly trwy fy Ngwrthryfelgarwch beunyddiol, ni allaf lai nâ rhyfeddu dy Ddioddefgarwch tu ag attaf. Ond i Ti nid yn unig gyd-ddwyn â mi, ond fy nghanlyn â'th Garedigrwydd, heb byth roi heibio taer-ymbil arnaf i ddychwelyd at fy Nyledſwydd a'm Dedwyddwch, nes ennill o honot y trechaf trwy dy daer Gynghorion graſol, O Gariad anghyffelyb! O Ddaioni tu hwnt i Feſur! na's gellir byth mo'i

ryfeddu a'i addoli yn ddigonol! Am hynny Moliant, Moliant yn dragywydd a fo i'th Râs, yr hwn a brynaiſt fy Mywyd o Farwolaeth dragywyddol, a'm Henaid o Uffern iſaf; yr hwn a'm gwaredaiſt o Rwyd y Diafol, a Chaethiwed embydus fy Chwantau, ac a blennaiſt yn fy Natur y Graſuſau a'r Cynheddfau nefol hyn, a hyd yn hyn a'u cynnyddaiſt ac a'u dugaiſt ymlaen tu ag at fy Nedwyddwch tragywyddol. Hyn, O fy Nuw, hyn i gŷd ſydd ddyledus oddi wrthyf i'th râd Ddaioni anhaeddiannol di, fy mod i, ag oeddwn farw, yn awr yn fyw; fy mod i, ag oeddwn golledig, yn awr wedi fy nghael; fy mod i, ag oeddwn Gaeth-was i'm Chwantau, wedi fy ngwneuthur yn rhŷdd oddi wrth Bechod, a'm ſymmud i Rydd-did gogoneddus Meibion Duw; ſydd yn tarddu oddi wrth dy Rŷdd Râs di yn unig, ac i'w briodoli yn llwyr-gwbl i'th Ddaioni Holl-alluog. Dôs ymlaen, O Arglwydd, dôs ymlaen, mi attolygaf i Ti, a pherffeithia dy Waith dy hun; fel y bo i'r Gogoniant o hono yn dragywydd fod yn eiddot Ti; ac fel y bûm hyd yn hyn yn Eſampl hynod o'th Ddaioni, felly y gallwyf fod yn Offeryn dedwydd i'th foliannu i Oeſoedd Tragywyddoldeb. A chaniatâ, mi attolygaf i Ti, i Deimlad o'th Garedigrwydd anhraethadwy tu ag attaf gaethiwo fy Enaid a'm holl Bwerau yn y fath Fodd, ag y bo i mi fod yn gyfangwbl yn eiddot Ti; fel y bo i'm Rheſwm a'm Hewyllys, fy Ofn a'm Gobaith, a'm Cariad a'm Dymuniad, o hyn allan fod i gŷd wedi eu rhoddi i fynu i Ti, ac wedi eu cyſſegru yn dragywydd i anrhydeddu ac addoli dy anfeidrol Ogoniant a'th Berffeithrwydd. A hyn ydwyf yn oſtyngeiddiaf yn ymbil er mwyn Jeſu Griſt; i'r Hwn, gyd â Thydi a'th Yſbryd Tragywyddol, y bo pob Anrhydedd, Gogoniant, a Gallu, o hyn hyd yn oes oeſoedd. *Amen.*

Ar ôl y Diolch hwn, yſtyriwch yn fyrr rhyngoch a chwi eich hun yr Angenrheidrwyd anhepgorol i chwi barhâu hyd y Diwedd, a'r Modd y bydd eich holl Boen o'r blaen mewn Crefydd, heb hyn, nid yn unig yn ofer ac yn

yn ddilês, ond er Niweid a Drwg i chwi. Ac yna dibennwch eich Defoſiwn Boreuol â'r *Weddi* hon *am Barhâd.*

O Dduw, yr hwn wyt Sanctaidd a Bendigedig, heb gyfnewid; yr hwn ydwyt yr un Ddoe, Heddyw, ac yn dragywydd, ac nad ydwyt byth yn gŵyro neu yn newid oddi wrth Ddaioni a Phurdeb hanfodol dy Natur dy hun; edrych i lawr, mi attolygaf i Ti, arnaf fi, Greadur anwadal, gwan, a chyfnewidiol, yr hwn a brynaiſt i Ti dy hun, a hyd yn hyn a arweniaiſt â'th Râs a'th Yſbryd Ti wyddoſt, O Arglwydd, Wendid fy Natur, ac mor anabl ydwyf, heb dy Nerth a'th Gymmorth, i ddibennu'r Yrfa a oſodaiſt o'm blaen; Ti wyddoſt pa Brofedigaethau a raid i mi ymdrech â hwynt, a pha Anhawſdra a raid i mi etto orchfygu, cyn y caffwyf Afael ar y Gamp fendigedig wyf yn ymryſon am dani. Am hynny, gan i Ti fod hyd yn hyn yn Gynhaliaeth ac yn Amddiffynfa waſtadol i mi, na âd fi yn awr, er mwyn dy Enw: ond fel y dechreuaiſt Waith da ynnof, felly mi attolygaf i Ti ei orphen a'i gwplhâu; i gynnal fy Enaid egwan â'th Rŷdd Yſbryd, dan bob Profedigaethau ac Anhawſdra; fel y bo i mi felly, trwy ddyfal-barhâu yn gwneuthur Daioni, geiſio, ac o'r diwedd fwynhâu, Gogoniant ac Anrhydedd, Anllygredigaeth a Bywyd tragywyddol. I'r Diben hynny, O Arglwydd, cadw fi rhag bod yn rhy hyderus yn fy Nerth fy hun, ac yſbrydola fi ag Eiddigedd ſanctaidd o honof fy hun; fel, tra fwyf yn ſefyll, yr edrychwyf na ſyrthiwyf. Ac os bydd i mi un amſer fod mor ddiffaeth ac mor anhappus, a'th ddigio Di yn ewyllyſgar (yr hyn a attolygaf arnat ragflaenu, er mwyn dy Drugaredd a'th Doſturi) O na âd i mi gyſgu yn fy Mhechod, ond galw fi yn ôl yn fuan, trwy Geryddon fy Nghydwybod, ac Argyhoeddion dy Yſbryd; rhag, tra chwanegwyf Bechod at Bechod, ac un Gradd o Ddrygioni at y llall, i'm Chwantau ail-ennill eu Harglwyddiaeth arnaf, ac i Ti ddigio wrthyf, a'm bwrw ymmaith o'th Gyfammod yn dragywydd. Ac fel y bo i mi bob Dydd Dy was'naethu yn rhwyddach ac yn fwy dianwadal, diddyfna fi, mi attolygaf i Ti, fwy

fwy oddi wrth y Profedigaethau hynny i Bechod ag ſydd oddi amgylch i mi; a dyro i mi y fath jawn Ddyall o Natur holl Bethau da a Phethau drwg y Bŷd hwn, fel na bo i Wenjaith y naill na Dychryn y lleill allu byth fy nhynnu oddi wrth fy Nyledſwydd. A rhag, tra bwyf yn marweiddio fy hên Bechodau, i mi yn ddiofal adael rhai newydd i darddu i fynu yn fy Natur, goſod fi mewn Côf, O Dduw Daionus, i chwilio a phrofi fy Nghalon fy hun, a chymmeryd Cyfrif llym hyd yn oed o'r Deffygion a'r Amherffeithrwydd lleiaf oddi fewn i mi; fel y bo i mi eu coſbi a'u gwellhâu mewn amſer, cyn yr elont yn hên Arferion. A chaniatâ i mi fod bob amſer mor deimladwy o'm Hamherffeithrwydd fy hun, fel na bo i mi byth orphwys mewn dim a gyrhaeddwyf yn breſennol, ond cyrchu beunydd ymlaen at y Nôd o'm huchel Alwedigaeth yng Nghriſt Jeſu. Tywallt ynnof, mi attolygaf i Ti, fynych Feddyliau am fy Marwolaeth; fel y gallwyf, tra bo Amſer ac Odfa gennyf, barotôi erbyn fy Ymadawiad oddi ymma, a gwneuthur Rhag-ddarbod gogyfer ag Awr Angeu. Tu ag at hynny, cynnorthwya fi, O Arglwydd, mi attolygaf i Ti, i holi a chwilio yn fanwl fy Ffyrdd pechadurus gynt; fel, od oes dim Gweddillion o Euogrwydd yn aros ar fy Nghydwybod, y gallwyf eu carthu ymmaith, trwy Weithredoedd cymmwys o Edifeirwch, cyn yr elwyf ymmaith, ac na byddwyf mwy. Ac fel y darfu i mi gynt amlhâu mewn Pechod, felly caniatâ i mi yn awr brynu'r Amſer gwerthfawr a gollais, trwy fod yn aml yn y Rhinweddau gwrthwyneb; fel y bo i mi felly alw yn ôl a dadwneuthur, hyd eithaf fy Ngallu, Liaws fy Mhechodau gynt, trwy wneuthur yr holl Ddaioni ag allwyf o hyn allan. Ac fel y bo i mi ddal allan a pharhâu hyd y Diwedd, cynnal a chadw fi yng Nghymmundeb dy Eglwys; ac na âd i mi gael fy arwain ymmaith trwy Amryfuſedd yr Annuwiol, a ſyrthio oddi wrth fy Sicrwydd fy hun. Ac yn ddiweddaf, mi attolygaf i Ti ganiatâu i mi, yn yr Arferiad o'r Moddion bendigedig hyn, dyccio cyn belled yn erbyn Gwendid a Llygredd fy Natur, ag y gallwyf o'r diwedd gael Teimlad eglur a ſicr o'm Purdeb a'm Hunjawndeb fy hun tu ag attat Ti; fel

y bo

y bo i mi, trwy gael felly Sicrwydd o'th Gariad, ac o'm Teitl i Ddedwyddwch tragywyddol, redeg Ffyrdd dy Orchymynion gyd â mwy o Orfoledd, ac o'r diwedd orphen fy Ngyrfa trwy Lawenydd anhraethadwy. Ac yn awr, O Arglwydd, yr wyf yn fy rhoddi fy hun i fynu i Ti; cymmer fi, mi attolygaf i Ti, dan dy Ofal a'th Gadwraeth y Dydd heddyw; cadw fi rhag pob Drwg, yn enwedig rhag Pechod, a bywhâ fi trwy dy Yſbryd at bob Gweithred dda; fel y bo i mi'th was'naethu â Meddwl rhwydd a llawen, a'i wneuthur yn Fwyd a Diod i mi wneud dy Ewyllys bendigedig. A hyn oll ydwyf yn oſtyngedig yn ddeiſyf er mwyn Jeſu Griſt; yn Enw a Chyfryngdod pa un y gweddiaf ymhellach. *Ein Tâd*, &c.

Yn y *Prydnhawn*, pan eloch i'ch Yſtafell, yſtyriwch ym mha Agwedd a Thymmer y mae eich Meddwl yn breſennol: ac wrth holi chwi ganfyddwch, naill ai eich bod yn wrthwynebol i Ddyledſwyddau duwiol, trwy Dycciant preſennol eich Natur lygredig; neu eich bod, trwy Wendid Corph, yn ddiddueddiad attynt; neu eich bod, trwy Fydolrwydd a Gwagedd Yſbryd, yn oerllyd, a'ch Meddyliau yn dueddol o wibio ynddynt; neu, yn ddiweddaf, fod eich Calon wedi ei helaethu yn fawr jawn, a Thueddrwydd bywiog yn eich Meddwl a'ch Serchiadau at Bethau duwiol a nefol.

Os, wrth holi, y gwelwch eich bod, trwy Dycciant preſennol eich Natur lygredig, yn wrthwynebol i Ddyledſwyddau duwiol, ceiſiwch weithio Cywilydd a Thriſtwch ynnoch eich hun am hynny, trwy oſod o flaen eich Meddwl Annuwioldeb mawr a Brynti, Ffolineb ac Anniolchgarwch erchyll eich Tymmer breſennol. Ac yna offrymmwch i fynu y *Weddi* a ganlyn.

O Fy Ngraſuſaf Ddiw, a'm Carediccaf a'm Trugaroccaf Dâd! Tydi yw'r Cyfaill goreu ſydd gennyf yn yr holl Fŷd, ac a ddangoſaiſt i mi fwy o Gariad filoedd o weithiau nag a ddangoſais i erioed im' fy hun; ond wedi'r holl Rwymedigaethau mawr ac anwylaf, y

rhai

rhai a oſodaiſt arnaf, y mae fy Nghalon front aniolchgar beunydd yn cadw rhai Gweddillion o'i hên Elyniaeth yn dy erbyn Di. Pe bae ynnof ond Gwedduſder a Synwyr cyffredin Dŷn, pa fodd y gallwn feddwl am danat heb lewygu o Gariad! pa fodd y gallwn nesâu attat heb Hoffder a Hyfrydwch tu hwnt i Feſur! Ond, O Ddŷn gwael ac aniolchgar fel yr ydwyf, mi allaf feddwl am dy holl Ddaioni â Serchiadau oerion wedi rhewi, ac a allaf ddyſod i'th Wydd, nid yn unig mewn Modd claiar canolig, ond gyd â Gwrth'nebiad. Duw Daionus, o beth y'm gwnaed! pa Enaid amheimladwy wyf yn ddwyn oddi amgylch i mi! Oh, y mae arnaf Gywilydd o'm plegid fy hun; y mae i mi Wradwydd Wyneb wrth deimlo fy Ngwaelder fy hun: ac etto, gwae fi! ni's gallaf mo'i helpu. Yr wyf yn ymdrechu i yſgwyd ymmaith y Baich hwn o'm Natur lygredig; ond beunydd y mae yn crogi wrthyf, ac yn ſuddo ac yn pwyſo i lawr fy Enaid cyn fynyched ag y bo yn ceiſio ar Dy ôl Di. O fy Nuw, toſturia wrthyf, gwared fi oddi wrth y Corph Pechod hwn; eſmwythâ fy Enaid trwm-llwythog a blinderog o'r Baich trwm hwn dan ba un y mae yn ymboeni ac yn griddfan; ac na âd i'r Wreichionen hon o Fywyd duwiol, yr hon a ddarfu i Ti ennyn ynnof, gael ei mogi a'i diffodd ganddo; ond achleſa hi yn y fath Fodd, mi attolygaf i Ti, â gwaſtadol Gynnorthwyon dy Râs, ag y bo iddi o'r diwedd dorri allan trwy'r holl Sothach hyn ſydd yn ei chadw i lawr, a derchafu i fynu yn Fflam ogoneddus! Yna y câf nesâu attat beunydd gyd â Llawenydd, ac anadlu fy Enaid i fynu attat Ti ym mhob Gweddi; yna y bydd fy Nghalon wedi ei chadarn-uno â Thi mewn duwiol a llawen Serch, a'm Gweddiau a dderchafant fel Arogl-darth ger dy fron, ac a fyddant yn Bêr-arogl yn dy Ffroenau. Gwrando fi gan hynny, O fy Nuw! mi attolygaf arnat, a nertha fi â phob Cadernid yn y Dŷn oddi fewn; fel y bo i mi o hyn allan ymdrech yn fwy bywiog a llwyddiannus yn erbyn y Tueddiadau drwg hyn o'm Natur, y rhai ſydd mor dôſt yn attal ac yn gwaſgu i lawr fy enaid; fel y bo i mi o'r diwedd fod yn Gwncwerwr, a mwy nâ Chwncwerwr, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Os,

Os, trwy un Gwendid Corph, megis *Melancoli*, *Deffygio*, *Cyſgadrwydd*, neu *Glefyd*, y byddwch yn ddi-dueddrwydd at Ddyledſwyddau duwiol, ymegniwch i fywioccâu eich Meddwl diog, trwy yſtyried rhyw un o Reſymmau mwyaf cyffrôus eich Crefydd; megis Cariad Duw a'ch Jachawdwr, Mawredd Preſennoldeb Duw ger bron yr hwn yr ydych, neu'r Anfarwoldeb bendigedig ydych yn obeithio am dano. Ac yna gweddiwch ar Ddduw yn y Modd y canlyn.

O Ddduw Bendigedig! Tydi ydwyt Yſbryd tra phûr, bywiog, yr hwn wyt yn waſtadol yn ſymmud â Rhydd-did anorchfygol, ac nid oes dim byth yn dy rwyſtro neu yn dy ſlino yn dy Weithrediadau; toſturia wrthyf fi, dy Greadur tlawd egwan, mi attolygaf arnat, yr hwn wyf wedi'm llwytho â'r Corph Marwolaeth hwn, a'm gwaſgu i lawr gan ei amryw Wendidau yn y fath Fodd, na's gallaf dderchafu fy Nghalon attat Ti. Ti wyddoſt, O Arglwydd, fod fy Yſbryd yn barod, er bod fy Nghnawd yn wan. Y mae fy Enaid llafurus yn anadlu tu ag attat; y mae hi yn eſtyn allan Adenydd ei Dymuniadau tu ag attat, ac a chwennychai eſgyn i fynu uwchlaw pob peth daearol, a'i huno ei hun â Thi mewn Cariad tragywyddol. Ond, och! y mae ei Gwrês yn cael ei oeri, a'i Hegni yn deffygio, o herwydd y Baich hwn o Gnawd ſydd yn crogi wrthi, ac yn waſtadol yn ei ſuddo ac yn ei phwyſo i lawr drachefn. O fy Nuw, nesâ attaf, a chyffwrdd â fy Meddwl â'r fath Deimlad pwerus o honot, ag a dynno i fynu fy Enaid attat Ti, er gwaetha'r holl Afiechyd corphorol ymma! Ac os dy Ewyllys bendigedig di yw hynny, rhyddhâ fi oddi wrth y Rhwyſtrau cnawdol hyn, a chymhwyſa fy Nghorph at fy Enaid, fel y gwas'naethwyf Di, megis yr ydwyf yn dymuno gwneuthur, ag Yſbryd llon a gwreſog. Ond os da fydd yn dy Olwg di fy ngadael i ymdrech dan y Gorthrymderau corphorol hyn, Arglwydd, dyro i mi Ammynedd ac Ymoſtyngiad i'th Ewyllys nefol; fel, pan na allwyf nesâu attat gyd â'r Hyfrydwch a'r Boddlondeb ag wyf yn ddymuno, y gallwyf o'm Calon

foddloni

ſoddloni i'th was'naethu Di ar un Ammodau, ac y gallwyf wneuthur i fynu mewn Gwirionedd a Phurdeb, yr hyn fydd yr fyrr arnaf o Fywiogrwydd a Gorfoledd yn fy Ngrhefydd. Ac, O bydded i'r Teimlad o'm Hanhwyl a'm Hafiechyd preſennol beri i mi hiraethu yn fwy taer ar ôl y Cyflwr rhŷdd a bendigedig hwnnw, ymha un y çâf, â Meddyliau ſefydlog a diyſgog, â Chariad gwreſog, ac â Duwiolder Enaid cyfangwbl, addoli, moliannu, a gogoneddu dy Enw yn dragywydd. *Amen.*

Os, trwy Fydolrwydd preſennol, neu Wagedd Yſbryd, y gwelwch eich hun yn oer, a'ch Meddwl yn gwibio yn eich Dyledſwyddau crefyddol; ymrowch gyffrôi i fynu eich Serchiadau, trwy oſod o'ch blaen Faint a Phwys eich Anghenion yſbrydol, Gwagedd pob peth oddi allan, a Gwirionedd a Chyflawnder Mwyniant nefol. A gwnewch ddim ag alloch i grynhôi eich Meddyliau crwydredig ynghŷd, trwy oſod eich hun ym Mhreſennoldeb y Duw Mawr, i Holl-weledig Olwg pa un y mae pob Meddwl a phob Cyffroad yn eich Enaid yn noeth ac yn agored. A chwedi i chwi, trwy wneuthur yn llyn, drefnu eich Meddwl i Agwedd mwy difrifol, goſodwch i fynu y *Weddi* a ganlyn.

O Tydi Fawredd Byth-fendigedig, yr hwn wyt yn llenwi y Nefoedd a'r Ddaear â'th Breſennoldeb, ac yn waſtadol yn gwrando ar Erfyniau Bŷd o Greaduriaid ag ſydd yn hyderu arnat! agor Gluſtiau dy Drugaredd i mi, mi attolygaf arnat, yr hwn wyf anghymmwys ac anheilwng i nesâu attat; yr hwn, trwy oſod fy Serchiadau ar y Pethau ſydd ar y Ddaear, ac ymdrybaeddu yng Ngofalon a Phleſerau'r Bywyd hwn, a ymddieithrais ac a neillduais fy Meddwl oddi wrthyt Ti, ac a gollais y Blâs hyfryd hwnnw o honot Ti, â pha un yr oeddwn yn arferol o nesâu attat. Ac yn awr, pan yr wyf yn cilio oddi wrth y Bŷd, i ymddiddan â Thi, a thannu fy Eiſiau a'm Dymuniadau o'th flaen, y mae y Gofalon a'r Hyfrydwch bydol hyn, â pha rai y bûm yn rhy rhy gyfeillgar, yn gwthio

gwthio eu hunain i mewn ar fy nhraws mor daer, i droi ymmaith fy Meddyliau, amhwyllo fy Amcanion, a dwyn fy Serchiadau ganddynt oddi wrthyt Ti, o achos yr hyn y mae fy Meddwl yn crwydro, fy Ngobaith yn lleſghâu, a'm Dymuniadau yn rhewi; a thra'r ydwyf yn nesâu attat â'm Gwefuſau, y mae fy Nghalon yn rhedeg ymmaith oddi wrthyt. O fy Nuw, toſturia wrthyf; tyn fy Enaid allan o'r Dom dwfn ymma; bywhâ, derchafa, ac yſbrydola fy Serchiadau hyn ſydd mor ddaearol. Meddianna y Galon hon, yr hon ſydd yn ei hagor ei hun i'th Weithrediadau graſol, â'r fath Gariad crŷf a bywiog atti Ti, ag a'm derchafo i fynu uwchlaw pob peth daearol, ac a weithio yn waſtadol yn fy Enaid Ddymuniadau taer ar dy ôl di; fel y bo i mi yn waſtadol nesâu attat Ti â Chalon ſiriol, gan fod yn llawen i adael Cymdeithas pob peth arall i fyned attat Ti, fy Nuw, fy Ngorfoledd mawr dros ben. Dyro i mi Yſbryd ſobr, diwyd, a chryno, na bo yn cael ei dagu gan Ofalon, na'i chwalu gan Yſgafnder, na'i aflonyddu gan Wŷn, na'i ddieithro oddi wrthyt Ti gan Ragfarn bechadurus neu Anyſtyriaeth; ond rhwym ef yn ddiyſgog wrthyt Dy Hun â Rhwymau Cariad bywiog na's gellir mo'u dattod, a chyflawn Dduwiolder; fel y bo i mi, pa bryd bynnag yr ymgrymmwyf o'th flaen, gael fy nwyn ymmaith ymhell uwchlaw'r holl Bethau gweledig hyn, i'th fawr ryfeddu, ac i daer-hiraethu ar Dy ôl. Ac yn awr, O Arglwydd, tra'r ydwyf yn gweddio arnat, caſgl i mewn fy Meddyliau crwydredig, mi attolygaf arnat, a ſefydla hwynt arnat Dy Hun. Ac, O cyffwrdd â'm Dymuniadau oerllyd a daearol ag un o'th Byſt eſtynnedig di, a phâr iddynt gyfodi a fflammo i fynu attat Ti â Gwreſogrwydd a fo'n atteb i'm dirfawr Anghenion; fel y bo i mi ofyn yn y fath Fodd ag y caffwyf dderbyn, a cheiſio fel y gallwyf gael, a churo fel yr agorer i mi; trwy Jeſu Griſt fy Arglwydd Bendigedig a'm Pryniawdwr. *Amen.*

Os, wedi hyn, y cewch eich Calon wedi ei helaethu yn fawr jawn, a'ch Serchiadau yn tueddu yn fywiog tu ag at Dduw a Phethau nefol; ſefydlwch eich Meddwl

dros

dros ychydig ar Degwch a Godidowgrwydd ei Natur, neu ar rai o'r Siamplau mwyaf ferchog o'i Gariad, neu ar y Cyflwr bendigedig oddi uchod. Ac yna ewch ymmlaen â'r *Weddi* a ganlyn.

O Tydi Hanfod tra rhagorol, Tydi Fawredd anfeidrol gariadlawn ac anrhydeddus, Tydi Batrwn Tegwch, ac Enfamplydd Daioni, yr hwn wyt ogoneddus tu hwnt i bob Mawl, ac wyt yn cyrraedd uwchlaw pob Rhyfeddod, ac yn cynnwys pob Perffeithrwydd! Bendigedig a fo dy Enw: Tydi a gyffyrddaiſt â'm Henaid â Theimlad bywiol o'th Ogoniant; yr wyf yn ei deimlo yn llewyrchu trwyof fi, ac fel Fflam gyflym yn myned i mewn i'm Calon; y mae yn tano fy Nghariad, yn llonni fy Ngobaith, yn rhoi Adenydd i'm Gweddiau, ac yn tannu Gwres a Bywyd dros holl Bwerau fy Enaid; y mae yn fy nerchafu i Gyflwr nefol, ac yn fy llanw â Llawenydd anhraethadwy a llawn Gogoniant; y mae'n dwyn pob Meddwl dan Gaethiwed mewn Ufudd-dod i'th Ewyllys di, ac yn dwyn pob Gallu yn fy Enaid i ymoſtwng i Ti. Bendigedig a fo dy Enw; Ti a'm gorchfygaiſt trwy dy Gariad, ac yr wyf yn rhoddi fy hun i fynu i Ti â Chalon lawen. Yr wyf yn llwyr-gwbl yn eiddot Ti; dy Wâs ydwyf, diau dy Wâs di ydwyf fi; ac yr wyf yn ymogoneddu yn fwy yn y Teitl hwn, nag yn holl Anrhydedd y Byd. Ond er fy mod i yn cael fy nerchafu a'm hanrhydeddu yn fawr trwy'th was naethu Di, etto yr ydwyt Ti mor anfeidrol ddedwydd ym Mherffeithrwydd diderfynau dy Natur dy hun, na's gelli gael un Fantais arall oddi wrth hynny, ond yn unig yr Hyfrydwch o weled dy Greadur truan yn cael ei wneuthur yn wynfydedig ac yn happus trwy hynny. Pa beth gan hynny a dalaf i Ti, O Tydi Llawenydd fy Mywyd, Tydi Tryſor fy Nghariad, Tydi Dedwyddwch pennaf fy Natur! Gwae fi! nid oes gennyf ddim ond fy hun i'w roddi i Ti; ddim ond y Galon druan hon, ſydd yn hoſgi o Gariad attat, ſydd yn ſychedu ac yn anadlu ar Dy ôl, ac yn dymuno, uwchlaw pob peth yn y Byd, i gael ei hun yn dragywydd â Thi mewn Cariad perffaith. Pe bae gennyf ddeng mil o Galonnau i'th garu Di, deng mil o Da-

o Dafodau i'th foliannu, myfi a'u cyflegrwn hwynt oll i Ti, mor rhwydd ac mor llawen ag yr ydwyf yn fy rhoddi fy hun. Can's pwy fydd gennyf fi yn y Nefoedd ond Tydi? ac ni ewyllyfiais neb ar y Ddaear gyd â Thydi. O DDUW, Ti yw fy NUW, a'm Rhan yn dragywydd. Ynnot Ti yr ydwyf yn wynfydedig, ac yn Llawenydd dy Wyneb-pryd yr ydwyf yn llawenychu yn fwy nag yn holl Lawenyd a Digrifwch y Byd. Y mae dy Degwch yn Orfoledd dros ben Mefur i mi; yr ydwyf yn rhyfeddu dy Gariad, ac o Eigion fy Enaid yn addoli dy Ddoethineb a'th Ddaioni. Parod yw fy Nghalon, O Arglwydd, parod yw fy Nghalon; canaf a chanmolaf. Deffro fy Ngogoniant, deffrowch holl Bwerau fy Enaid; myfi fy hun a ddeffroaf, ac a ofodaf allan dy Foliant. Moliant a fo i DDUW y Gogoniant; Moliant a fo i DDUW'r Cariad; Moliant a fo i Dâd y Trugareddau; Moliant a fo i Gyfaill goreu Eneidiau: can's y mae dy Ddaioni yn cyrraedd hyd y Nefoedd, dy Ogoniant fydd yn llewyrchu trwy y Creadigaeth, a'th Drugaredd fydd wedi ei dannu ar dy holl Weithredoedd. Pwy all ddirnad dy anfeidrol Degwch! pwy all ddadgan dy Weithredoedd rhagorol! pwy all fynegi dy holl Fawl! Yr wyf yn cyfaddef fod fy Meddyliau i yn anfeidrol ry fyrr, fy Serchiadau yn rhy gûl, fy Ymadroddion yn rhy brin, i ddyall, a rhyfeddu, a moliannu dy Ogoniant yn ddigonol. Ond, O fy NUW, Ti wyddoft fy mod yn Dy garu; a, bendigedig fo dy Enw, yr wyf yn gweled Rhefwm anfeidrol i wneuthur felly. O na allwn Dy garu yn fwy, na allwn ond Dy garu cymmaint ag y mae Angelion ac Yfbrydion gogoneddus yn Dy garu, y rhai etto ni's gallant Dy garu gymmaint ag ydwyt yn haeddu, o herwydd Dy fod yn haeddu cael Dy garu yn anfeidrol! Ond y mae fy Enaid yn fychedu am danat, ac yn hiraethu ar Dy ôl. O pa bryd y câf fy nerbyn i'th Brefennoldeb gwynfydedig, yno i'th weled, a'th ryfeddu, a'th garu, a'th addoli yn dragywydd! Pa bryd y câf yfgwyd ymmaith y Baich hwn o Farwoldeb pechadurus, fydd yn fy fuddo ac yn fy nghadw i lawr, a ffoi i'r Gwleddydd dedwydd hynny o Gariad perffaith, lle y câf beunydd ymborthi arnat gyd â Hyfrydwch anhraethadwy, ac y caf-

wyf

wyf fy llanw â Theimlad crŷf a thragywyddol o'th Ddaioni! O Tydi yr hwn wyt Ddechreuwr a Diweddwr pob Gweithred dda, gwel fod yn dda i gynnorthwyo fy Ymroad ſanctaidd, i dynnu fy Meddwl fwy fwy oddi ar y Pethau daearol hyn, fel y caffwyf eglurach Golwg ar fy Ngwlad nefol, o'r lle y daethum, ac i ba le yr ydwyf yn dymuno dychwelyd; fel y gallwyf, â'm Golwg beunydd wedi ei ſefydlu ar fendigedig Daledigaeth y Gwobrwy, fyw uwchlaw'r Bŷd hwn, ac, er gwaethaf ei holl Ddychrynfeydd a'i Hudoliaethau, barhâu hyd y Diwedd mewn Yſtod waſtad a diyſgog o Ufudd-dod! Ac yn awr, O Arglwydd, gan i Ti yn raſol weled bod yn dda i yſbrydoli fy Enaid â'r Meddyliau hyfryd hyn am danat, a helaethu fy Nghalon â'r fath Feluſder o Gariad rhagorol tu ag attat Ti: caniatâ, mi attolygaf i Ti, iddynt nid yn unig fy moddloni, eithr fy ngwellhâu; iddynt fy nerchafu i fynu uwchlaw holl Brofedigaethau y Bŷd hwn, ac adfywio fy Nerth, a bywhâu fy Egni, a goſod fy Nghalon wangrêd i hyderu yn ddiyſgog arnat Ti; fel y bo i mi fod yn ffrwythlon ymhôb Gweithredd dda, a'm Calon gael ei ſefydlu yn ddiargyhoedd ger dy fron mewn Sancteiddrwydd, hyd Ddyfodiad ein Harglwydd Jeſu. *Amen, Amen.*

Wedi i chwi arferu un neu ychwaneg o'r Gweddiau o'r blaen, fel y bônt yn cyttuno ag Agwedd breſennol eich Meddwl, cymmerwch Olwg ferr ar eich Deffygion a'ch Amherffeithrwydd, ac yn enwedig y rhei'ny ag ydynt yn glynu fwyaf wrth eich Natur; a goſodwch yn fyrr o flaen eich Meddwl eu Drwg a'u Ffieidd-dra hwynt oddi fewn, a'r Modd y maent yn Rhwyſtr i'ch Crefydd, yn Wradwydd i'ch Natur, ac yn wrthwyneb i'ch Dedwyddwch. Ac yna dibennwch â'r *Weddi* a ganlyn, *am Gynnydd mewn Grâs.*

O Dduw, yr hwn wyt y Natur fwyaf rhagorol, Perffeithrwydd pob Tegwch, a Ffynnon pob Graſuſau; yr hwn wyt yn ſicr-ddyall beth ſydd oreu i'w ddewis, ac yn dewis yn ddigyfnewid yn ôl y Rheſwm goreu a phuraf;

edrych

edrych i lawr, mi attolygaf i Ti, arnaf fi dy Greadur truan deffygiol, yr hwn wyf yn cywilyddio o'm plegid fy hun, wrth weled mor anghyffelyb ydwyf i Ti; mor llwythog ydwyf o Amherffeithrwydd, a'r modd y mae fy Natur ar ôl fy holl Ymroad crefyddol beunydd wedi ei ddiwyno a Chwantau a Serchiadau direſwm; pa gymmaint o Wagedd a Ffolineb ſydd etto yn aros yn fy Meddwl, pa gymmaint o Wrthnyſigrwydd yn fy Ewyllys, pa gymmaint o Anwiredd yſbrydol a chnawdol yn fy Serchiadau a'm Hanwydau. Arglwydd, mi ſum yn hir yn ymryſon â'r Natur lygredig hon, ac etto ar bob Achlyſur yr ydwyf yn fy ngweled fy hun yn rhy rhy dueddol i fod *. Gwae fi, y mae Brychau a Beiau hyd yn oed yn fy Ngraſuſau teccaf, Cymmyſgiad o Bechod yn fy Nhueddiadau puraf, a Byrdra ac Amherffeithrwydd yn fy Ngweithredoedd goreu. O fy Nuw, toſturia wrthyf, yr hwn wyf ymma yn gorwedd ac yn och'neidio wrth dy Draed, dan Natur druenus afiachus; ac fel y dechreuaiſt Ti y Gwellhâd bendigedig ynnof, felly, er mwyn Criſt, mi attolygaf i Ti ei orphen; fel y bo i mi, wedi fy nghwbl-feddyginiaethu, a'm cyfodi i fynu i Newydd-deb Buchedd, allu, ym mherffaith Jechyd a Bywiogrwydd fy Enaid, dy was'naethu a'th glodfori yn dragywydd. I'r Diben hynny, mi attolygaf i Ti fy nghadarnhâu fwy fwy yn y Grediniaeth o'r Pleſerau anfarwol hynny ſydd tu hwnt i'r Bêdd, y rhai a dryſoraiſt i fynu i'r rhei'hy ag ſydd yn dy garu ac yn ufuddhâu i Ti; fel, trwy Rym Ffydd fywiol, a Gobaith egniol, y gallo fy Enaid gael ei dderchafu uwchlaw'r Byd hwn, a dyſgu dibriſio a ſathru ei holl Wagedd goreurog, pa bryd bynnag y bônt yn eu cynnyg eu hunain naill ai i'm hudo neu'm dychrynu rhag canlyn ar ôl y Mwyniant nefol. Gweithia ynnof y fath Syched taer ar ôl yr Afonydd hynny o Hyfrydwch ſydd oddi uchod, ag a'm gwnelo i bob Dydd yn oerach ac yn fwy canolig tu ag at Bethau daearol, yn fwy boddlongar dan holl Ddamweiniau dy Ragluniaeth, ac yn fwy grymmus a bywiog yn fy Ngalwedigaeth nefol. Ac mi attolygaf i Ti fy yſbrydoli â'r fath Ddyalldwriaeth eglur a

* Ymma enwch y Gwendidau neilldual ſydd yn glynu fwyaf wrth eich Natur.

bywiol o'th hanfodol Degwch a'th Berffeithrwydd, ac o'th haelionus Gariad a'th helaeth Ewyllys da tu ag at dy holl Greaduriaid, ag a dderchafo ac a gynnyddo fy Nghariad attat Ti bob Dydd fwy fwy; fel, tra fo hon y Pfylnnon a'i Egwyddor fawr oddi wrth ba un y mae fy holl Weithredoedd yn tarddu, y gallo hi yn waſtadol fy nghynnrol i rodio Ufudd-dod llawen i'th Ewyllys di, a chanlyn yn fywiog dy Briodoliaethau di. O pâr i mi Dy garu Di er dy Fwyn dy hun, a Chrefydd er dy Fwyn di, ac Offerynnau Crefydd tu ag at dy Ogoniant di, a'm Dedwyddwch fy hun; fel, trwy feilio fy Moddlonrwydd arnat Ti, a Llefâd bendigedig Bywyd rhinweddol, y bo i mi gymmoddu mewn Grâs, a bod yn gyfoethog mewn Gweithredoedd da, a myned ymlaen gyd ag Yſbryd boddlongar a gorfoleddus, o Amherffeithrwydd i Nerth, o Weithredoedd i Ddefodau, ac o Ddefodau i Gadarnhâd mewn Grâs; a chael beunydd fy nghadarnhâu fwy fwy yn yr holl Raſuſau nefol, nes caffont o'r diwedd eu perffeithio mewn Gogoniant tragywyddol. A phan ddarffo i mi, trwy dy Râs a'th Gymmorth, berffaith-orchfygu y Natur lygredig oddi fewn, a'r Profedigaethau oddi allan i mi, a chyrraedd o honof i'r Cyflwr o Orfoledd tragywyddol, mi oſodaf i lawr fy holl Fuddugoliaethau wrth dy Draed, ac, â Phalmwydd yn fy Llaw, a *Hàleliwia* ar fy Ngwefuſau, mi a ganaf dy Fawl i Dragywyddoldeb. Gwrando fi, O fy Nuw, yn hyn a pha beth bynnag arall a wyddoſt Ti ei fod yn angenrheidiol i mi; a hynny er mwyn Jeſu Griſt: yn Enw a Geiriau pa yn y gweddiaf ymhellach. *Ein Tad*, &c.

DIWEDD.

EGLURHAD o rai Geiriau, anhawdd i'r Cymro un-iaith eu dyall, yn y Llyfr hwn.

A.

ADdoladwy, *fel y gellir ei addoli.*
Adfannu, *ail-ranno.*
Anghelfydd, *anfedrus.*
Anghymdeithafol, *na fyn gadw Cymdeithas*, neu *Gyfeillach.*
Angkyllon, *Anghytun.*
Amal, *heb Drigolion.*
Anſynniol, *dideimlad.*
Anynad, *taeog.*
Arbenneg, *ſanctaidd i Ddewo.*
Archwaeth, *Blâs.*
Arlwy, *Gwledd.*
Atteg, *Pren cynnal.*

B.

Boglwm, *Bwccwl*, neu *Fâs i afaelu mewn peth.*
Breiniol, *â rhyw Fraint yn perthyn iddo.*
Brwydr, *Ymladdfa.*
Brwyſgo, *myned yn drachwyllt.*
Buroriaeth, *Cerddwriaeth.*
Bygylus, *yn bygwth.*

C.

Canol-bwynt, *y Man canol mewn Cylch.*
Carneddau, *Crygiau anhreſnus.*
Cib-ddall, *heb allu gweled yn iawn.*
Clwy' digwydd, *Epilepſi; math o Gleſyd*, neu *Bangau.*
Cydfaſnach, *marchnatta â'u gilydd.*
Cydgordiad, *Cyttundeb.*
Cyfundeb, *Cymdeithas.*
Cymmodol, *heddychol.*
Cyngwyſtl, *Gwyſtl.*
Cynnwysfawr, *yn cynnwys llawer.*
Cynnyſgaeddiadau, *Doniau.*

D.

Dadebru, *llonni.*
Damweiniau, *Digwyddiadau.*
Darnau defnyddiol, *Rhannau o rŷw Ddefnydd corphorol.*
Difuddio, *colli Llês Peth.*
Digyfrwng, *heb Foddion.*
Dihirwch, *Drygioni.*
Dilyſiant, *heb gau dim allan.*
Diraddio, *iſeli*
Dirdynnu, *poeni*

E.

Ehangder, *Helaethder.*
Ehengu; *helaethu.*
Epicureaid, *math o Philoſophyddion a'r oeddent yn goſod eu Chwantau wrth pennaf mewn Pleſeran corphorol.*

F.

Ffynnadwy, *yn llwyddo.*

G.

Gohirio, *oedi.*
Golygwyr, *rhai ſy'n edrych*
Gorchwyledd, *Cyfrifydd.*
Gorlanw, *Llanw*, neu *Liferiant.*
Gormeſdeyrn, *Rheolwr creulon, a drugaredd.*
Goſgymmon, *Pethau hawdd ganddynt gymmeryd Tân.*
Greſynus, *trueius.*
Gwaneg, *Tonn y Môr.*
Gwrteithio, *trin a glanhau.*
Gwrthddrych, *y Peth a ruelir.*
Gwthiad, *cymmell*, neu *beri i gyſfodd.*

H.

Hamdden, *Gorphwyſdra, Leſer.*
Herlyn, *canlyn ar ôl.*
Hoywder, *bod yn llawn o Fywyd.*
Hualau, *Rhwymau ar Draed unrhyw Greadur.*
Hurio, *gwirionni, dylu.*
Huſtyngau, *tannu Chwedlau.*
H. y. *hyny yw.*

L.

Llafn, *Sych*, neu *Droſol mawr o Aur neu Arian wedi ei doddi.*
Llercian, *dihoeni*, neu *nychu.*
Lleſgedd, *Gwendid.*
Lleſmeirus, *yn barod i lewygu.*
Llwfrdra, *Diogi.*

Llyfre-

Llyfetheirio, *rhwymo.*
Llyfnafedd, *Brynti*, neu *Boeredd ffiaidd.*

M.

Mafnach, *Marchnatta.*
Migeiod, *Prifed ſydd yn goleuo ar hyd Nôs.*
Murſenaidd, *fel Murſen*, neu *goeg Penyw duyllodrus.*
Mwyneiddio, *gwneuthur yn ſwynaeth.*

O.

Olrhain, *dilyn ôl.*

P.

Pegwn, *Ecſtro*, neu'r *Prem ar ba un y mae'r Olwyn yn troi.*
Peiriant, *Offeryn.*
Pendant, *yn amlwg.*
Penderfynu, *barnu.*
Pendod, *y Rhan benaf*, neu *uwchaf.*
Penydau, *Poenau.*

R.

Rhedweliau, *Gwythi, cyffelyb i Wythiennau, lle mae Yſbryd Bywyd yn gymmyſgedig â'r Gwaed.*
Rhywiogi, *gwneuthur peth yn amafaeth.*

S.

Sglyfaethu, *yſbeilio*, neu *ddwyn trwy Drais.*
Siartr, *Sgrifen gyhoeddus dan Sêl Brenin, neu rŷw Bennaeth, yn cynnwys Rhageſfreintiau'r Bobl a ſo dano ef.*
Swic, *math o Philoſophydd Paganaidd, oedd yn dal y gallai efe ſyw bob deimlo dim Poen.*
Swyddgynheddfau, *Gallueedd neu Bwerau'r Enaid; ſef, y Dyall a'r Ewyllys.*

T.

Terfynedig, *darfodedig.*
Trem, *Golwg.*
Truthiwn, *Gwenhieithiwr.*
Trwmluog, *ſwrth, llaſdedig*, neu *ddiog.*

U.

Unſurſnad, *hoid o'r un Eſtordd a'r un Dreſn.*

Y.

Ymddibynnu, *gorphwys*, neu *hydern ar bŷth.*
Ymhonni, *taeru.*
Yſgoi, *troi ar y naill Ochr.*

L